Bodleian Libraries
UNIVERSITY OF OXFORD

This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries
and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.

For more information see:

http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks

This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.

106.e.82.

DARLLENIADAU

SABBATHOL DARLUNIADOL.





21

GARDEN

FROM A DRAWING B



F EDEN.

CHN MARTIN, K.L.

FRONTISPIECE.



# DARLLENIADAU SABBATHOL DARLUNIADOL.

GAN Y

PARCH. WILLIAM OWEN,

AWDWR "COFIANT HAVELOCK," &c., &c.




LLUNDAIN:

JAMES SANGSTER A'I GYF, LA BELLE SAUVAGE YARD,

LUDGATE HILL.

# DARLLENIADAU

# SABBATHOL DARLUNIADOL:

YN CYNHWYS

## Cyfres o Faterion Ysgrythyrol,

YN CAEL EU TRAFOD

GYDA CHYFADDASDER NEILLDUOL AT CHWAETH A GOFYNION TEULUOEDD,

AC YN GWNEYD I FYNY

## DRYSORFA GYNHWYSFAWR O WYBODAETH FIBLAIDD.

GAN Y

PARCH. W. OWEN,

AWDWR "COFIANT HAVELOCK" &c.

CYFROL I.

LLUNDAIN:

JAMES SANGSTER A'I GYF.,

PATERNOSTER ROW.

# RHAGYMADRODD.

MAE y DARLLENIADAU SABBATHOL DARLUNIADOL wedi eu bwriadu i gynhorthwyo darllenydd y Bibl, yr athraw crefyddol, a rhieni Cristionogol, mewn myfyrdod deallus o'r Ysgrythyrau Sanctaidd, ac mewn cyfranu eu gwersi pur. Ceir y bydd hefyd i'r addurniadau lliwofyddol, y rhai nad allant lai na gwneyd y gwaith yn ddeniadol i'r ieuangc, roddi eglurhad dymunol ar yr hanesion ysbrydoledig, a chadarnhad pwysig o'u gwirionedd.

Mae wedi bod yn ymdrech gan yr ysgrifenydd, trwy dynu yn helaeth o drysorau llenyddiaeth Fiblaidd, i ddangos pa fodd y mae ymchwiliad eang, goleuni gwyddoriaeth ddiweddar, cynhydd ieithyddiaeth, a darganfyddiadau teithiau Dwyreiniol, wedi cyfranu i wneyd y Llyfrau Hynaf y rhai mwyaf dyddorol yn gystal a'r rhai mwyaf buddiol.

Os nad yw y Darlleniadau yma yn llawn o'r myfyrdodau duwiol hyny ydynt yn ymddangos yn naturiol i gael eu

hawgrymu gan y materion i ba rai y perthynant, deallir nad dymuniad yr Awdwr oedd rhyddhau y darllenydd oddiwrth y llafur buddiol o fyfyrdod dwys, ond i roddi defnyddiau i feddwl a "chynhorthwyon i fyfyrdod,"—y rhai sydd mor hanfodol a gweddi daer am y fendith Ddwyfol.

Rhydd y ddwy gyfrol Ddarlleniadau am flwyddyn, trwy adael tair pennod i bob Sabbath, a cheir eu bod yn cynhwys prif faterion hanesiaeth yr Hen Destament a'r Newydd. Dylid myned dros yr Ysgrythyrau sydd wedi eu nodi allan i'w darllen yn ofalus.

Mae y barnau ffafriol ddatganwyd am y gwaith o bob rhan o'r deyrnas, a chan y prif gyfundebau Cristionogol, fel yr ymddanghosai yn rhifynau olynol, yn nghyd a'r galw anarferol sydd am dano, yn cefnogi yr Awdwr a'r Cyhoeddwyr yn y disgwyliad y gwna y Darlleniadau Sabbathol hyn, o dan fendith Duw, helaethu y wybodaeth a'r hoffder o'r gair ysbrydoledig sydd yn abl i'n gwneyd "yn ddoeth i iachawdwriaeth."

# RHESTR O DDARLUNIAU.

## CYFROL I.

GARDD EDEN (*Gwyneblun*).

SAMUEL (*Cerfaddurn*).

*I wynebu Tudalen*

PAENOD ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... 12

Y DILUW ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... 26

ABRAHAM YN OFFRYMU ISAAC ... ... ... ... ... ... ... ... 48

Y GWPPAN A GAFWYD YN SACH BENJAMIN ... ... ... ... ... ... 61

GEUFIL A PHEIRAMIDAU ... ... ... ... ... ... ... .. ... 63

CYFLWYNIAD JACOB ... ... ... ... ... ... ... ... ... 65

YNYS PHILOË ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... 67

Y FFOEDIGAETH I'R AIPHT ... ... ... ... ... ... ... ... ... 67

FFRESGLUNIAU O FEDD YN THEBES ... ... ... ... ... ... ... 69

SISAC ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... 70

GWLAD GOSEN ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... 74

CAEL HYD I MOSES ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... 80

MOSES YN NGWLAD MIDIAN ... ... ... ... ... ... ... ... 87

GWARTHEG YR AIPHT ... ... ... ... ... ... ... ... ... 100

GWERSYLLIAD YR ISRAELIAID ... ... ... ... ... ... ... ... 141

MOSES YN CYSSEGRU AARON ... ... ... ... ... ... ... ... 154

GEIFR A SOFLIEIR ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... 163

SIDON A MYNYDD LIBANUS ... ... ... ... ... ... ... ... 180

## RHESTR O DDARLUNIAU.

*I wynebu Tudalen*


PERERINION YN YMDROCHI YN YR IORDDONEN ... ... ... ... ... 183
CEDRWYDD LIBANUS ... ... ... ... ... ... ... ... ... 195
LLEW, LLEWES, A CHENAWON ... ... ... ... ... ... ... ... 206
LLEWPARD ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... 207
Y MARCH ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... 209
GAFREWIGOD... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... 210
CAMELOD ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... 211
ANGHENFILOD Y NILE ... ... ... ... ... ... ... ... ... 212
YR ERYR ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... 215
YR ESTRYS ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... 216
Y PELICAN AR CICONIA ... ... ... ... ... ... ... ... ... 217
ADDUNED FYRBWYLL JEPHTHAH ... ... ... ... ... ... ... ... 220
SAMUEL AC ELI ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... 224
DAFYDD YN ARBED SAUL ... ... ... ... ... ... ... ... ... 234
JERUSALEM ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... .. 236
SOLOMON YN EI OGONIANT ... ... ... ... ... ... ... ... 247
SARDANAPALUS ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... 308
ESAIAH, JEREMIAH ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... 312

# LLYFR I.

Y Bibl yn Llyfr Duw.—Prawfion.

Hanes y Greadigaeth.

Dyn Perffaith yn Mharadwys.

Cwymp Dyn a'i Ganlyniadau.

Cain ac Abel.—Crefydd Naturiol a Ffydd.

Yr Oes cyn y Diluw.

Diluw Noah.

Noah a'i Hiliogaeth.

Twr Babel.

Y Patriarchiaid Ol-ddiluwiol.

Abram wedi ei alw gan Dduw.

Abram, Agar, ac Ismael.

Abraham Tad Cenhedloedd.

Y Môr Marw.

Bywyd Jacob nes yr aeth i lawr i'r Aipht.

Bywyd Joseph.

Israel a'i Deulu yn myned i'r Aipht.

Gwlad yr Aipht.

Y Genhedlaeth gyntaf o Israeliaid yn yr Aipht.

## Y BIBL.

"Gorwedda o fewn y gyfrol hyn,
Ddirgelwch pob dirgelwch syn;
Dedwyddaf 'ynt o ddynolryw,
Y rhai y rhoed gwir ras gan Dduw,
I ddarllen a gweddio'n ddwys,
Nes arni'n ffyddiog roddi'u pwys;
Gwell f'asai nas ganesid hwy,
Na darllen er amheuaeth mwy."

# DARLLENIADAU SABBATHOL DARLUNIADOL.

## CHAPTER I.

### Y BIBL YN LLYFR DUW.

DUW ydyw Awdwr y Bibl. Llefarodd "gynt wrth dadau" y byd, "trwy y prophwydi, ac yn y dyddiau diweddaf hyn a lefarodd wrthym ni yn ei Fab." Gadewch i ni ddechreu ein Darlleniadau Sabbathol trwy sylwi ar hawliau yr Ysgrythyrau Sanctaidd, a'r modd y profir yr hawliau hyn. "Yr holl Ysgrythyr sydd wedi eu rhoddi gan ysprydoliaeth Duw." Mae yr ysgrifenwyr yn "ddynion sanctaidd Duw, (y rhai) a lefarasant megis y cynhyrfwyd hwy gan yr Yspryd Glan." Nid dweyd y maent yr hyn a ddarllenasant mewn llyfrau ereill, ond ysgrifenwyr ydynt a roddant i lawr tra mae Duw yn eu cyfarwyddo am y geiriau a ddefnyddiant. Rhoddant, nid ffrwyth eu meddyliau a'u myfyrdod eu hunain, y farn oreu allant ffurfio, neu y casgliadau diogelaf allant gyraedd atynt, ond dygant i mewn eu geiriau gyda y rhagymadrodd ofnadwy, "Fel hyn y dywed yr Arglwydd." Mae ysgrifenwyr yr Hen Destament a'r Newydd wedi eu cyfarwyddo gan ysprydoliaeth Ddwyfol wrth gofnodi hanesyddiaeth, mynegi prophwydoliaeth, cyfansoddi Psalmau, ysgrifenu epistolau, ac fel hyn maent hwy "lawer gwaith a llawer modd," yn gyfleadau trwy y rhai y trosglwyddid y datguddiad o wirionedd Dwyfol, a gorchymynion yr ewyllys Ddwyfol i ddynion. Weithiau byddai gan yr ysgrifenydd sanctaidd i gasglu rhan o hanesyddiaeth yr Hen Destament, neu y Newydd, a defnyddio ymchwiliad dyfal a ffyddlon; ac ar adegau ereill, yr oedd ganddo fel Ioan yn y Datguddiad i ufuddhau i'r gorchymyn a ddywedai, "Ysgrifena y pethau a welaist, a'r pethau sydd, a'r pethau a fydd ar ol hyn;" ond pa beth bynag a gyfranai i'r gyfrol sanctaidd,

cyfarwyddid ef gan "Yspryd doethineb a datguddiad," i roddi i ni air anffaeledig Duw. "Y geiriau hyn (oll) sy ffyddlon a chywir," ac y mae yn rhaid i ni edrych arnynt oll gyda pharch trwyadl, fel yn dwyn sel Duw, yr hwn a ddywedodd, "Os rhydd neb ddim at y pethau hyn, Duw a rydd atto ef y plaau sy wedi eu hysgrifenu yn y llyfr hwn: Ac o thyn neb ymaith ddim oddi wrth eiriau llyfr y brophwydoliaeth hon, Duw a dyn ymaith ei ran ef o lyfr y bywyd, ac allan o'r ddinas sanctaidd, ac oddiwrth y pethau sydd wedi eu hysgrifenu yn y llyfr hwn."

Y cyfryw ydynt hawliau yr Ysgrythyrau sanctaidd. Gadewch i ni weled yn awr y modd y sefydlir hwynt. Ac yn nghyntaf, rhaid i ni sylwi ar yr hyn a enwir yn Dystiolaeth Fewnol. Tybiwch am berson o wybodaeth gyffredin, tegwch, ac awyddfryd am y gwir, yn gweled y Bibl am y tro cyntaf, ac yn ei ddarllen drwyddo yn ofalus, nid rhaid iddo ymofyn am dystiolaeth bellach ei fod o Dduw na'r un a roddir gan ei dudalenau sanctaidd. Mae ei ddatguddiad o nodweddiad Duw fel bod anfeidrol yn ei allu, doethineb, sancteiddrwydd, a chariad, yn berffaith; yn hawlio ein hedmygedd, ein haddoliad, a'n hymddiried; yn cyfiawnhau ein gobeithion, ac yn galw am ein mawl. Yma yn Iesu Grist mae genym ddatguddiad personol o Dduw, "gwir lun ei berson ef." Yma yr ydym yr canfod yr ail Ddyn, yr Arglwydd o'r nef; y fath gymeriad yr oedd anmhosiblrwydd moesol i ddynion pechadurus ei ddarlunio, nac hyd yn oed ei ddychymygu,—Duw yn y dyn, yr Un perffaith Sanctaidd, a'r Gwaredwr sydd arnom ni eisieu. Mae ei ddysgeidiaeth sanctaidd, ei foesau ysprydol a pherffaith, wedi tynu allan ganmoliath hyd yn oed y rhai nad ydynt yn cydnabod dwyfoldeb ei genadwri. Amcan y llyfr yw dysgu y sancteiddrwydd uwchaf, a'r moesau puraf. Dysga ni mai Yspryd yw Duw, ac y dylem ei addoli ef mewn yspryd ac mewn gwironedd; a gweddio, "Chwilia fi, O Dduw, a gwybydd fy nghalon: prawf fi, a gwybydd fy meddyliau; a gwel a oes ffordd annuwiol genyf, a thywys fi yn y ffordd dragywyddol." Condemnia eilunaddoliaeth y pagan, gau ddefodau yr ofergoelus, twyll y rhagrithiwr, gwagedd uchelgais fydol; tra y dirgymhella grefydd, elfenau yr hon ydynt ffydd, ofn, a chariad, ac a sylfaena ei moesoldeb ar y gorchymyn, "Car dy gymmydog fel ti dy hun."

Yn mha le bynag mae yr Ysgrythyrau yn cael eu cymeryd fel arweinydd, mae balchder yn rhoi ffordd i ostyngeiddrwydd, halogrwydd i dduwioldeb, ammhuredd o bob natur i feddyliau ac ymddygiad sanctaidd, a chreulondeb i hynawsedd. Y Corinthiaid, dinas y rhai a roddodd enw ar fywyd o gnawdolrwydd, a gawsant y fath gyfnewidiad trwy ufuddhau i'r efengyl, fel y dywed Clement o Rufain wrth ysgrifenu attynt, (o.c. 100,) "Pwy erioed a fu byw yn eich mysg nad oedd yn edmgyu eich duwioldeb sobr a chymhedrol?.....Yr ydych yn ostyngedig ac nid yn falch, yn foddlon ar y bara beunyddiol mae Duw yn ei estyn, yn gwrando yn ddyfal ei air, ac wedi ymeangu mewn cariad." Yma, yna, ni a allwn ddefnyddio yr hyn yn briodol a enwyd yr hen ddadl dda. Yr oedd yn rhaid i'r Bibl gael ei ysgrifenu gan ddynion drwg, neu gan ddynion da, neu gan Dduw ei hun. Nis gallai gael ei ysgrifenu gan ddynion drwg, oblegid ni wnaent hwy byth ddysgu y moesoldeb sydd yn eu condemnio; na chan ddynion da, oblegid na wnaent briodoli i'r Arglwydd eiriau y gwyddent mai hwy eu hunain oedd yr ysgrifenwyr. Mae yn canlyn ei fod wedi cael ei lefaru gan Yspryd Duw.

Pe byddai i'r fath ymofynydd ag yr ydym wedi ei dybio gydmaru yn bur ofalus y rhanau gwahanol o'r llyfr ysprydoledig gyda'u gilydd, fe ganfyddai eu bod oll yn cyttuno a'u gilydd. Fe allai y cyfarfyddai a gwrthddywediadau ymddangosiadol, ond fe'i cysonid hwy trwy ymchwiliad manylach, ac fe ddarganfyddai gyd-ddigwyddiadau anfwriadol, y fath a geir pan y mae nifer o dystion cywir yn cael eu holi a'u croesholi, a'u tystiolaeth yn cael ei phwyso yn ofalus. Wrth gydmaru yr Hen Gyfammod a ddygwyd i mewn gan Moses, a'r Newydd a ddygwyd yn mlaen gan Iesu Grist, fe gai eu bod yn cyttuno wrth osod allan yr un athrawiaethau o iachawdwriaeth oddiwrth euogrwydd pechod a'i allu. Pe byddai ein hymofynydd yn hyddysg mewn hen hanesyddiaeth, fe welai fod cofnodion yr haneswyr sanctaidd, a rhagfynegiadau y prophwydi, yn derbyn cadarnhad llawn; a phe byddai yn gwybod daearyddiaeth Palestina, ei hanesyddiaeth naturiol, ei harferion a'i defodau, fe fyddai wedi ei foddloni yn dda fod yr ysgrifenwyr wedi byw yn y wlad am yr hon yr ysgrifenant, a'u bod yn berffaith gyfarwydd a'r golygfeydd a'r amgylchiadau a ddarluniant. Mae y cyd-ddigwyddiadau hyn wedi eu

cofnodi yn ofalus gan deithwyr deallus, llawer o ba rai heb fwriadu hyny ydynt wedi rhoddi yr eglurhadau mwyaf tarawiadol o gyfeiriadau yr Ysgrythyr a chadarnhaol o'i gwirionedd.

Fe brawf y tystiolaethau mewnol hyn yn ddigonol i bob person cywir sydd yn awyddus i wybod "Beth yw gwirionedd," ac yn disgwyl am attebiad. Mae hefyd gronfa fawr o dystiolaeth i ddystewi y gwrthddadleuydd a chadarnhau ffydd y crediniwr. Y Testament Newydd yw y tyst o wirionedd ac ysprydolrwydd yr Hen, gan ei fod "yr holl Ysgrythyr," "y ddeddf a'r prophwydi," wrth yr hwn mae sel awdurdod wedi ei roddi gan ein Harglwydd a'i apostolion.

Mae genym dystiolaeth ddidor ddeunaw cant o flynyddoedd i gywirdeb llyfrau y Testament Newydd, fel nad all neb wrthod eu hawliau, heb orfod hefyd wrthod yr holl hen hanesyddiaethau, megis Herodotus, Xenophon, Plutarch, Tacitus, a Livy. Mae y tystiolaethau o du ysgrifeniadau y Testament Newydd yn rhedeg mor bell yn ol a'r ganrif gyntaf, ac yn cynnwys gelynion y ffydd Gristionogol, yn gystal a'i disgyblion. Rhydd Origen yn y drydydd ganrif i ni restr o'r pedair efengyl ac o ysgrifeniadau yr apostolion; defnyddia Tertullian, o Carthage, ysgrifeniadau y pedwar Efengylydd, gan siarad am danynt fel yn "ddwyfol ysprydoledig," ac yn cael eu derbyn fel y cyfryw gan yr eglwys Gristionogol; ac felly y gwna Clement o Alexandria; cyfansoddodd Tatian, yn o.c. 172, undeb y pedair efengyl; llefara Irenæus, yn o.c. 170, am yr ysgrifeniadau hyn gyda'u gilydd fel "deddf-lyfr y Testament Newydd," a chysyllta hwynt a'r Hen Destament, fel "oraclau Duw, ysgrifeniadau wedi eu cyfarwyddo gan ei Air a'i Yspryd;" difyna Justin, yr hwn a ferthyrwyd cyn o.c. 167, yn fynych y pedair efengyl, a dywed wrthym eu bod yn cael eu darllen a'u hegluro yn nghynnulliadau cyhoeddus y Cristionogion. Gallwn hyd yn oed fyned mor bell ag Ignatius, cydoeswr a'r apostolion, yr hwn a ddifyna yn ei epistolau Matthew ac Ioan.

Heblaw y tystiolaethau boreuol hyn dros y Testament Newydd gan Gristionogion, mae genym dystiolaeth ysgrifenwyr paganaidd am yr amgylchiadau mawrion a gofnoda. Dywed Tacitus wrthym, mai awdwr "yr enw Cristionogol ydoedd Crist, yr hwn yn nheyrnasiad Tiberias a gospwyd a marwolaeth, fel troseddwr o dan y Rhaglaw Pontius Pilate." Tystia

Pliny yn o.c. 107, fod y Cristionogion yn cyfarfod a'u gilydd ac yn canu hymnau i Grist fel Duw. Llefara Lucian, yr hwn a wawdiai bob math o grefydd, a'r hwn a fu farw o.c. 180, am groeshoeliad Crist yn Palestina, a dywed ei fod yn cael ei addoli gan y Cristionogion, y rhai efe a ddywed wrthym, "oeddynt eithaf adnabyddus yn y byd, a'u bod yn lluosog yn Pontus, Paphlagonia, a'r gwledydd cylchynol, lle yr oeddynt yn ddychryn i hocedwyr a thwyllwyr." Suetonius, yr hwn a ysgrifena fywyd Claudius, a'r hwn a fu farw o.c. 54, a lefara am Grist a'r erledigaethau i'r rhai yr oedd ei ganlynwyr yn agored.

Gyda 'r dystiolaeth yma i gywirdeb a dilysrwydd y Testament Newydd, a'r gwirionedd hanesyddol o'r digwyddiadau mawrion a gofnoda, yr ydym yn agor y gyfrol sanctaidd hon, ac yn darllen am y gwyrthiau a wnaeth y Gwaredwr trwy ei ddwylaw ei hun a thrwy ei ddisgyblion; yr ydym yn canfod mor gyflawn fel y mae prophwydoliaethau yr Hen Destament mewn perthynas i'r Messiah yn cael eu cyflawni ynddo ef; yr ydym yn gweled hefyd y modd y mae ei ragfynegiadau ei hun, sydd yn gynnwysedig o fewn y tudalenau hyn, wedi cael eu cyflawni, neu ydynt yn awr yn derbyn eu cyflawniad; ac yr ydym yn teimlo yn foddhaol nad ydym yn dilyn rhyw chwedl gyfrwys-ddyfeisiol pan yr ydym yn derbyn y llyfr sanctaidd fel rhodd werthfawrocaf Duw, fel gair sicr y prophwydi, yr hwn da y gwnawn fod yn dal arno, megis ar ganwyll yn llewyrchu mewn lle tywyll, hyd oni chaffom ar ol hyn y datguddiad cyflawnach o Dduw yn y byd nefol. Yr ydym yn gorphwys yn y casgliad, gan hyny, fod i'r gyfrol werthfawr hon "Dduw yn Awdwr, gwirionedd heb ddim cymhysgedd o dwyll yn sylwedd iddi, ac iachawdwriaeth yn amcan iddi."

"A fynet aur heb ynddo erblith gwael?
O'th oriau'n cloddio 'r mwnglawdd hwn bydd hael.
A fynet berlau drud? dim aur nis pryn,
Gwel hwy yn gorwedd yn yr eigion hyn.
A fynet ddyfroedd darddant yn ddiball?
A bara wna dy enaid yn ddiwall?
A fynet ie'ngctyd heb ddihoeniad prudd?
A fynet haulwen glir, diddiwedd ddydd?
Hwy yma gwel, rhadroddion cariad Duw,
A gwaed y Meichiau brynwyd i ti, clyw!"

## PENNOD II.

### HANES Y GREADIGAETH.

"Y nefoedd sy'n datgan gogoniant Duw; a'r ffurfafen sy'n mynegi gwaith ei ddwylaw ef." Mae yspryd Psalm xix., o'r hon y difynasom, yn cael ei roddi yn ffyddlawn yn Hymn adnabyddus Addison:—

"Er mai'n ddistaw symuda'r oll
O gylch y belen ddu heb goll!
Er nad oes swn na hyglyw sain
Yn mysg y rhodau dysglaer rhai'n;
Yn nghlustiau rheswm llawenhant,
A gogoneddus sain a wnant,
Dan d'wynu d'wedant wrth y dyn,
'Y llaw a'n gwnaeth sy Ddwyfol Un.'"

Fel hyn y dyrchefir ein meddyliau at Awdwr mawr ein bodolaeth, canys "o hono ef, a thrwyddo ef, ac iddo ef y mae pob peth," ac fe'n dysgir i'w gyfarch ef yn ddefosiynol yn iaith yr hen weddi hono gan Moses, "Cyn gwneuthur y mynyddoedd, a llunio o honot y ddaear a'r byd; ti hefyd wyt Dduw, o dragywyddoldeb hyd dragywyddoldeb."

I "Moses gwr Duw," a'r ysgrifenydd ysprydoledig boreuaf y datguddiwyd yr hanes rhyfeddol yma o waith y greadigaeth; ac fel y cyferbynia'r hanes yma a chynnygiadau yr hen ddysgedigion, i ddweyd wrthym y modd y ffurfiwyd y bydysawd. Mor fawreddog yw y gwirionedd gyda'r hwn yr ymagora y Bibl—"Yn y dechreuad y creodd Duw y nefoedd a'r ddaear!" ystyr yr hyn yw, fod Duw ar y cyntaf wedi cynhyrchu trwy ei allu *sylwedd* y nefoedd, yr hwn a ddechreuodd lunio yn ffurf, neu fywhau â bywyd yn ol ei ewyllys.

Ymagora y Bibl fel hyn trwy gyhoeddi rhyfel yn erbyn Atheistiaeth ac Anffyddiaeth, gan ddweyd yn erbyn y dyb ynfyd fod sylwedd yn bodoli er pob tragywyddoldeb. Yr oedd "dechreuad" i fodolaeth, er na wyddom ddim am gyfnod y dechreuad hwnw. Dygir ni yn ol trwy oesau dirfawr yr amser aeth heibio, mor fawr fel mai yn ofer y cynnygiwn eu mesur; ond pe gallai ein meddyliau redeg yn ol ddigon pell i'r oesau hyn, ni a gaem yr Anghrëedig, a gwelem sylwedd yn cael ei greu trwy ei air.

A Moses yn mlaen ar ol haeru fod creadigaeth wreiddiol sylwedd o ddim, i ddarlunio gwaith y greadigaeth yn ein byd ni, a dengys y modd y rhanodd y Creawdwr ei weithrediadau dilynol i ddyddiau; wrth y rhai nid rhaid i ni ddeall un o'n dyddiau byrion ni o bedair awr ar hugain, ond dyddiau y Tragywyddol, gyda'r hwn mae "mil o flynyddoedd megis un dydd." Nid oes dim yn ngwyddoriaeth ein hoes nad yw yn berffaith unol â'r hanes ysprydoledig ger ein bron, tra y mae llawer o bethau i'w gadarnhau. Fe geir yn awr fod yr hanes ysprydoledig yma a ysgrifenwyd lawer o oesau cyn i ni wybod nemawr am gynhwysiad y belen hon, yn cyttuno yn berffaith a'r oll a ddysgir trwy ymchwiliad daearegol.

Yn y llyfr sanctaidd hwn, ni a ddarllenwn y modd ar y dydd cyntaf y dywedodd Duw, "Bydded goleuni: a goleuni a fu;" a'r ail, "Bydded ffurfafen (neu lydaniad) i wahanu rhwng y dyfroedd a'r dyfroedd;" a'r trydydd, "Ac ymddangosed y sychdir," ac "Egined y ddaear egin, sef llysiau yn hadu had a phrennau ffrwythlawn yn dwyn ffrwyth wrth eu rhywogaeth;" a'r pedwerydd, "Duw a wnaeth ddau oleuad mawrion, y goleuad mwyaf i lywodraethu y dydd, a'r goleuad lleiaf i lywodraethu y nos;" a'r pummed, "Duw a ddywedodd, Heigied y dyfroedd ymlusgiaid byw, ac eheded ehediaid uwch y ddaear;" a'r chweched, "Dyged y ddaear bob peth byw wrth ei rywogaeth, yr anifail, a'r ymlusgiad, a bwystfil y ddaear wrth ei rywogaeth;" ac i goroni gwaith y chweched dydd, "Duw a ddywedodd, Gwnawn ddyn ar ein delw ni, wrth ein llun ein hunain; ac arglwyddiaethant ar bysg y mor, ac ar ehediaid y nefoedd, ac ar yr anifail, ac ar yr holl ddaear, ac ar bob ymlusgiad a ymlusgo ar y ddaear."

Fel hyn dywed y llyfr ysprydoledig wrthym am dair oes faith yn nghreadigaeth bywyd yn ein byd; un y trydydd dydd—y dydd o lysieuaeth mewn cyflawnder; un y pummed dydd, pan oedd creaduriaid byw y dyfroedd a'r awyr mewn cyflawnder; ac un y chweched dydd, pan yr ymddanghosodd anifeiliaid a bwystfilod y ddaear; a dyn ar ddiwedd yr oll. Yn awr gan y medrwn ddarllen y ddaear, ni a gawn yn y "Dystiolaeth i'r Creigiau," dair oes gyfattebol. Ni awn yn ol yn ein darlleniadau mawrion o'r ddaear, a dywedir wrthym yn nghyntaf trwy weddillion llysieuol mewn sefyllfa faenol am gyflawnder o lysiau a choedydd, "prennau ffrwythlawn yn dwyn ffrwyth," a gwelwn y coedydd

a'r blodau yn awr wedi eu troi yn gerrig. Yna deuwn i'r ail oes, a gwelwn ddreigiau y dyfnder, y dyfroedd beision, a'r awyr, yn yr Wyfaen, y Lleddres, a Chreigiau Andred, ar y rhai y gallwn gael golwg yn awr yn ein hamgueddfeydd. Yn olaf, gwelwn gynhyrchion y Trydydd ffurfiad, y cawrfil, y mammoth, y megatherium, yr anifeiliaid a'r ymlusgiaid, esgyrn y rhai allwn drafod a'n llaw; ac adgynhyrchir eu ffurfiau adferol gan yr arlunydd cywir, gan ddilyn cyfarwyddiadau gwyddoriaeth. Yna ar ddiwedd gwaith y chweched dydd, gelwir dyn a'i weithredoedd i fod, yn ol tystiolaeth datguddiad, a darganfyddiadau gwyddoriaeth, rhwng pump a chwe' mil o flynyddoedd yn ol. Mae Anffyddwyr bob amser wedi cynyg gwrthbrofi gwirionedd y rhan yma o'r hanes dwyfol, ond er iddynt gael buddugoliaeth am dymhor byr, gorchfygir hwynt yn y diwedd. Megis gelynion Crist, ceisiant dystlogi rhai yn erbyn y gwirionedd, ond yn nydd y prawf nid yw eu tystion yn cyttuno. Mae eu hymroad yn fawr heddyw, ac y mae eu haeriadau yn cael eu gwneyd gyda hyfder y blynyddoedd blaenorol, ond gellir rhagfynegi eu gorchfygiad gyda y sicrwydd na fethir.

Yn hanes y greadigaeth yn Genesis, darllenwn am ddyn fel bod gwahanol oddiwrth holl greaduriaid byw y belen hon. Nid yw yn ddarlun tecach o anifail, a dadblygiad o beth uwchaf y ddaear, fel yr hona Anffyddwyr. Mae wedi ei greu ar ddelw Duw; mae wedi ei wneyd i sefyll a cherdded yn syth; mae Duw wedi anadlu ynddo, ac y mae "yn enaid byw," yn ysbryd anfarwol, ac arglwyddiaeth ganddo ar yr holl greadigaeth fywydol. Mae yn un â'r hwn y gall Duw siarad, ac a all ddeall beth ddywed ei Grewr wrtho. Mae wedi ei wneyd "yn ddoethach nag chediaid y nefoedd, ac anifeiliaid y ddaear," ac wedi ei roi mewn sefyllfa mor uchel fel y llenwir y Psalmydd â syndod wrth fyfyrio ar fawredd yr hil y perthyna iddo: "Canys gwnaethost ef ychydig is na'r angylion, ac a'i coronaist a gogoniant ac a harddwch." Ac fel hyn dywedir wrthym am fath arall o fodau grewyd o flaen dyn, lle genedigol y rhai yw y nefoedd. Dyma "ser y bore" dywynasant gyntaf ar doriad gwawr creadigaeth, a'r "meibion Duw," a gydganodd ac a orfoleddodd pan oedd eu Crewr yn gosod mesurau y ddaear, a phan "estynodd linyn arni hi." Hwy, y creaduriaid uwchaf, a hynodir am eu sancteiddrwydd,

eu doethineb, eu nerth, eu gostyngeiddrwydd, a'u zel angherddol dros y gogoniant Dwyfol. O'u safle uchel o gylch gorsedd y Tragywyddol gwelsant greadigaeth y bydysawd sylweddol, ac fel y dadblygid cynllun rhyfeddol y meddwl creuedigol, torai allan eu hanthemau o fawl yn gathlau o beroriaeth nefol. Dylem ninau lefain yn yr un ysbryd addoliadol: "Mor lliosog yw dy weithredoedd, O Arglwydd! gwnaethost hwynt oll mewn doethineb; llawn yw'r ddaear o'th gyfoeth."

"Dy gain weithredion di hyn oll, O Dad
Daioni, hollalluawg, tau yr hwn
Fydysawd mor uthr deg, ti uthred wyt
Dy hun, anhyson, a eisteddi uwch
Y nefoedd hyn yn anweladwy, neu
Yn dy weithredoedd isaf hyn o'r braidd
A welir; eto arddanghosant dy
Ddaioni di tra bryd, a dwyfawl nerth."

Dysgwn ac ymarferwn y wers fawr a mâd ddysgir i ni ac a ddirgymhellir fel hyn yn yr esiampl Dwyfol, "Efe a orphwysodd y seithfed dydd." Mae y Sabbath mor hen a dyn ei hun; a'r hanes rhyfedd yma am y greadigaeth, wedi ei ranu fel hyn i gyfnodau, ni fynegasid i ni byth ond er dirgymhell y ddyledswydd, a dangos y dedwyddwch o orphwysfa Sabbathol. Rhaid oedd gwasgu cyfraith y Sabbath ar Israel pan ei dewiswyd allan o'r byd dirywedig i wasanaethu Duw; rhaid oedd ei dirgymhell ar yr Eglwys yn yr holl oesau dilynol, ac oddiyma mae y wers uchel ryngodd bodd i Dduw ddysgu trwy ei esiampl ei Hun. Dysgwyd hi yn flaenorol i ddyn yn Mharadwys, ond fe'i anghofiwyd, ac amcan y rhagarweiniad godidog yma i'r hanes cyssegredig ydyw adfywio a dysgu pobl Dduw i "gofio" hyn pan oeddynt wedi ei anghofio a'i esgeuluso.

Dysgwn hefyd oddiwrth yr hanes yma i ogoneddu yr Arglwydd Iesu Grist, canys priodolir holl anrhydedd y gwaith hwn iddo ef: "Trwyddo ef y gwnaethpwyd pob peth; ac hebddo ef ni wnaethpwyd dim a'r a wnaethpwyd." Yr oedd creadigaeth yn waith yr Elohim, Tad, Mab, ac Ysbryd Glân; canys mae yr hanes hyn yn siarad am Ysbryd Duw, yr hwn a symmudodd ar wyneb y dyfroedd, ac a ddygodd oleuni dydd allan o'r cymmysgedd a'r hen nos.

(Darllener Genesis i.)

## PENNOD III.

### DYN YN MHARADWYS.

Os ymofynir am y rhan o'r ddaear a feddiannwyd gyntaf gan ddyn, ac a ffurfiai ganolbarth poblogaeth, mae gennym yr atteb yma, "Yr Arglwydd Dduw a blannodd ardd yn Eden o du'r dwyrain, ac a osododd yno y dyn a luniasai efe." Yr oedd y dalaeth yma o'r tu dwyrain i Palestina, lle y trigent hwy, i'r rhai y rhoddwyd yr oraclau sanctaidd. Er yn y pellder yma o amser nad allwn ddysgwyl i olrhain y man enwid Gardd Eden gyda chywirdeb manwl, eto mae yr holl dalaeth wedi ei hynodi y fath ag y rhoddir arweiniad digonol i'w lleoliad, wedi rhoddi goddefiadau gofynol i'r cyfnewidiadau wnaed gan amser, ac yn neillduol gan y Dylif. Yr oedd y man cyssegredig yn amlwg mewn tir dyrchafedig, yn ddyfredig gan ffrwd rydd-darddiad i'r Euphrates, y Tigris, ac afonydd ereill redant i Forgainc Persia a'r môr Indiaidd, gan fyned trwy wlad gyfoethog mewn cerrig a mwnau gwerthfawr, ac i fôr ddyroddai berlau drud (bdellium). Ceir y wlad ddynodir fel hyn yn ochr ddeheuol Armenia, at yr hon y cyfeiria ymchwiliad gwyddoriaethol fel y canolbarth o'r hwn yr hanodd y teulu dynol mawr. Yn y rhan mwyaf ffafriol o Eden y plannodd yr Arglwydd ardd:—

> "Yn y fro dirioned ei
> Dirionach decach gardd a drefnai Duw."

Ni chrewyd dyn o fewn yr "ardd deg" hon, ond yn rhywle yn mharth cylchynol Eden; canys Duw "a gymmerodd y dyn, ac a'i gosododd ef yn ngardd Eden." Rhaid ei bod yn tra ragori ar degwch "y fro dirioned hon." Addurnid hi â phob pren allasai foddhau y llygad a'i degwch, neu gynnal bywyd a'i ffrwyth, a rhaid fod swyn yr ardd hyfryd, gyfoethog yn ei hydyfiant dwyreiniol, yn fwy fel yr oedd Adda yn alluog i'w chymharu â golygfeydd llai ffafriol ar y rhai yr oedd wedi sylwi o'r blaen. Yn nghanol yr ardd hon, yn debygol mewn lle crwn eang, yr oedd dau bren, pren y bywyd, a phren gwybodaeth da a drwg. Dyma y fan gyssegredig lle nid allasai ein rhieni cyntaf ddynesu heb eu hadgoffa o'r fraint uchel osodid arnynt, fel y bwyttaent o bren y bywyd; ac o'r

awdurdod Ddwyfol yr oeddynt yn gyfrifol iddi, fel yr edrychent ar bren gwaharddedig gwybodaeth. Canys dysgid dyn trwy hyn am ei ymddibyniad ar y ffafr Ddwyfol, a'i ymostyngiad i'r ewyllys Ddwyfol.

Ac yn awr bydded i ni edrych ar ein hen gyndad. Mae yn greadur wedi ei ddyrchafu yn llawer uwch na'r anifeiliaid grewyd o'i flaen ef; nid hiliogaeth un o honynt, fel yr hona Anffyddiaeth. Gwnaeth Duw ef o'r pridd, i fod yn ben a thad hil newydd a gwahanol; yn ei lun a'i osodiad syth yn wahanol i'r creaduriaid ereill, ac yn gyssylltiedig â'r byd ysbrydol, tra wedi ei osod yn ben ar hwn. Yr Arglwydd Dduw, y Tad Ysbryd, a anadlodd yn ei ffroenau "anadl einioes," a daeth dyn, nid yn unig yn anifail yn anadlu, ond "yn enaid byw." Mae gan yr enaid yma anfarwoldeb ei Awdwr, yn cyfranogi o ddeall a sancteiddrwydd, a gallu brenhinol i ewyllysio a llywyddu. Rhoddir arddanghosiad hynod o ddeall dyn yn y rhan foreuol yma o'i hanes, pan y galwyd arno i ddarlunio yr anifeiliaid oeddynt yn ei gylchynu: "A'r Arglwydd a'u dygodd at Adda i weled pa enw a roddai efe iddynt." Medrai ei feddwl deallus hyd yn oed yn awr sylwi, chwilio, a barnu am eu nodwedd gwahanol, a gelwid arno i ymarfer galluoedd y meddwl hwnw trwy roi iddynt enwau cyfaddas. Fel hyn dysgid Adda i feithrin hanesiaeth naturiol yn Eden. Ond yr oedd ymarferiad llawer ardderchocach i'w "enaid byw" i'w gael yn ei gymmundeb uniongyrchol â Duw; canys "Duw a orchymynodd i'r dyn." Cyflwynwyd datguddiad digonol o'r ewyllys Ddwyfol, a deallai dyn eiriau ei Grewr, tra yr attebai ei enaid pur ac uniawn mewn ufudd-dod serchog. Teimlai ei fod wedi cael ei greu nid yn unig i ddysgu, ond i ufuddhau; ac fod y ddeddf a gyfeirid at ei glust, yn argraffedig ar ei galon.

Nid oedd mam pawb byw yn greadigaeth newydd o bridd y ddaear. Yr oedd gan y rhywogaeth eisoes ei darddiad yn Adda, ac yn awr, yn y fath fodd, oni bai y datguddiad hwn, ni buasai genym syniad cywir, darperir ymgeledd iddo. Dengys gwyddoriaeth feddygol yr oes hon y modd y gall trymgwsg ddisgyn ar ddyn, yn ystod yr hwn y cyflawnir y meddygwaith mwyaf medrus, heb gynhyrchu y boen leiaf. Nid oes dim anhawsder mewn credu y gall yr Hollalluog wneyd peth—i'r hyn mae yn rhoddi medr digonol i ddyn,—ac y gallai lunio Efa yn y modd ddarluniwyd

yn yr hanes rhyfedd hwn; a chan ei bod wedi ei chymeryd allan o'r dyn, gallai ef honi yn gywir, "Hon weithian sydd asgwrn o'm hesgyrn i, a chnawd o'm cnawd i." Wedi eu ffurfio fel hyn, oni allwn ddychymygu eu bod y rhai ardderchocaf a thecaf o'r hil yn mhen yr hon y safent:


"Er nad ill dau
Yn gyfiawl, gan nad cyfiawl oedd eu rhyw,
Er darbwyll llunied ef, a glewdid taer;
Er mwynder hithau, a theleidiant hoff,
Ef i Dduw'n unig, hi i Dduw trwy 'i gwr."

"Adda yw'r goreu ddyn 'n ol geni 'i feib;
A'r decaf oll o'r merched, Efa 'i hun."

Sefydlwyd priodas fel hyn yn Mharadwys, a rhoddir yr esiampl gyntaf yma fel prawf o'i hordeiniad Dwyfol, gan ei bod yn "anrhydeddus ym mhawb," ac yn sylfaen yr adeilad gymdeithasol wnai Duw ei hun godi.

Dywed yr hanes wrthym fod dyn wedi ei gynnysgaeddu â gallu ymadrodd yn adeg ei greadigaeth. Fel y gwelsom, yn yr ymarferiad o'r gallu yma y rhoddodd enw dysgrifiol i bob peth byw, a chawn ef ar ol llunio Efa, nid yn unig yn rhoddi arni enwau priodol, ond yn rhoi rheswm drostynt. Isha (gwraig) yw hi, "oblegid o ŵr y cymmerwyd hi;" ac Efa (rhoddydd bywyd) yw hi, "oblegid hi oedd fam pob dyn byw." Fel hyn nid oedd dyn fel y creaduriaid is wedi ei fwrw ar y ddaear fel peth digymhorth a diystyr, yn cael ei adael i draethu seiniau aneglur, yr un fath a'r anifeiliaid direswm, neu i ffurfio iaith trwy weithrediad maith, fel y dywed Anffyddwyr wrthym; ond yr Hwn a roddodd alluoedd ymadrodd, a ddysgodd hefyd eu hiawn ddefnydd; ac a ddanghosodd y modd yr oeddynt i anfon allan syniadau a theimladau yr enaid.

Os gofynir, "Beth oedd iaith Eden?" gellir rhoddi yr attebiad fe allai heb rhyw berygl mawr. Canys mae y ddau air ydym newydd sylwi arnynt, bob un yn digwydd yn yr Hebraeg, ac yn yr ystyr y defnyddia Adda hwynt. Nid ydym yn penderfynu mai Hebraeg ydoedd, ond y fam iaith o'r llwyth hyny o ieithoedd, yr ydoedd yr Hebraeg yn un, ac a adwaenid fel y Semitaeg. Mae yr Hebraeg yn cynhwys mwy o eiriau Eden na'r un arall o'r llwyth Semitaidd. Yn wahanol i'r ieithoedd ydynt wedi cyfodi yn yr oesau diweddaf, ac ydynt wedi eu cynhyddu trwy



PEACOCKS.

ychwanegiadau tramorawl, a chyfuniadau newyddion, arddengys ran foreuol o hanesiaeth ddynol; a dywed fel ereill o'i dosbarth, am gyfnod pan y lleferid iaith gan ddau berson yn unig.

Yn y sefyllfa gyntefig a pherffaith hon, darparodd Duw waith i'r corff yn gystal a'r meddwl. Gallasai yr Hwn a orchuddiodd goed yr ardd â ffrwyth yn ymborth, wneyd yn hollol heb lafur dyn, ond gofynai ef i ddyn lafurio a chadw yr ardd yn yr hon y gosodwyd ef. Nid oedd yr eiddo ef modd bynag yn llafur didor y caethwas. Yr oedd darpariaeth ddigonol wedi ei gwneyd i ymarferiad a chynhydd ei feddwl, ond yr oedd yn ofynol er mwyn iechyd ei gorff, er lleshad ei holl natur, ac er mwyn yr amcanion Dwyfol mewn perthynas â'r byd sylweddol hwn, i ddyn estyn allan law llafur, a defnyddio ei fedr a'i allu i wneyd gwaith ei amser. Nid oedd Eden i fod fel Paradwys gnawdol Mohamed, lle mae diwydrwydd yn anadnabyddus, a phleser cnawdol yn teyrnasu; ond trigfa addas i fod yn meddu natur gyfansawdd o sylwedd a meddwl, â'r hon yr oedd i wasanaethu ac anrhydeddu ei Grewr. Na fydded i neb edrych yn hiraethlon ar fywyd dilafur, neu eiddigeddu wrth y rhai a dreuliant eu dyddiau mewn segurdod, neu yn ymroddedig i bleser; tra yr oedd gan ddyn yn ei sefyllfa berffaith ei waith dyddiol cyfaddas wedi ei benodi iddo, a'i Sabbath i orphwys. Un o'r gwersi a ddysgir yn y modd egluraf yma yw anrhydedd llafur, gan ei fod yn orchymynedig ar ddyn yn Mharadwys.

Nid ydym ni, blant syrthiedig y pâr dibechod yma, yn gyfaddas i ddarlunio eu perffaith ddedwyddwch, fel y cyflwynent eu haddoliad dyddiol i Awdwr parchedig eu bodolaeth, yr hwn a garent â'u holl galon; neu fel y dynesent at y prennau sacramentaidd, gan fwytta o'r hwn oedd yn wystl o fywyd, ac ymwrthod yn ufudd â phren gwaharddedig gwybodaeth; yn llawn daioni, ac heb wybod dim am ddrwg naturiol neu foesol. Efe, yr hwn a symmudodd Enoch ac Elias, fel na welent farwolaeth, a allasai yn yr ymarferiad o'i allu, anrhydeddu tymhor maith eu hufudd-dod yn y byd hwn, trwy eu dyrchafu i ddedwyddwch uwch byth mewn byd, o'r hwn nid oedd yr ardd hon yn ei holl degwch a'i dedwyddwch, ond cysgod yn unig.

(Darllener Genesis ii. 7—diwedd.)

## PENNOD IV.

### CWYMP DYN.

Ni chyfansoddwyd dyn yn y fath fodd fel ag i fod yn rhydd oddiwrth gyfrifoldeb, fel y gallai osod ei gamweddau yn erbyn ei Grewr Hollalluog. Pe buasai ei weithrediadau yn ganlyniad y fath attalfa ag ydoedd yn gwneyd yn annichonadwy iddo bechu, nis gallai wneyd na drwg na da, ac ni fuasai wedi ei ddyrchafu nemawr uwch na'r anifeiliaid direswm, y rhai a lywodraethir gan reddf. Mae meddyliau fel rhai hyn yn rhoddi attebiad digonol i'r gofyniad mynych hwnw, Paham y goddefodd Duw i Adda syrthio? Byddai mor briodol gofyn, Paham y creodd Duw fôd cyfrifol, a'i gynnysgaeddu a rhyddid i ddewis y da neu y drwg? Ni fuasai dyn y bod uchel y darlunir ef yn yr hanes Dwyfol, pe buasai yn anhebgorol i'w gadw rhag dynesiad pob profedigaeth. Pe buasai wedi "cau o'i amgylch," fel nad allai y temptiwr nesu ato, gallasai y temptiwr hwnw barhaus sarhau Jehofah, a dweyd fel am Job, "Estyn yn awr dy law...ac efe a'th felldithia o flaen dy wyneb." Fe wnaeth yr Hwn a oddefodd yn ddoeth a chyfiawn i Satan demptio ei was uniawn Job, oddef hefyd i'r un temptiwr i wasgu ar feddyliau Adda ac Efa, ar ol cyhoeddi yn eglur ei orchymyn cyfiawn ei hun, yn gyssylltiedig â rhybudd ffyddlon am y canlyniadau marwol ddilynent anufudd-dod.

Darlunir y temptiwr, fel yr ymddanghosai gyntaf ger bron Efa, fel "y sarph," yr hon "oedd gyfrwysach na holl fwystfilod y maes y rhai a wnaethai'r Arglwydd Dduw." Mae llawer o ddysg wedi ei ddefnyddio i gadarnhau y dyb iddo ymddangos mewn ffurf wahanol i'r sarph. Mae yn attebiad digonol i sylwi fod y dyb hon yn cael ei gwrthwynebu gan y cyfeiriad wneir mewn ysgrythyrau ereill at y sarph fel y temptiwr. Gelwir y diafol "yr hen sarph;" a darllenwn, "megis y twyllodd y sarph Efa;" hefyd, "a'r sarph llwch fydd ei bwyd hi."

Gwelwch gyda'r fath dwyll y chwareua y temptiwr ei ystrywiau! Ar y cyntaf ymddengys yn syml i gynnyg gofyniad, "Ai diau ddywedyd o

Dduw?" Ond y mae y gofyniad yma yn awgrymu amheuaeth. "Prin na thripiodd ei cherddediad," pan yr anturiodd gydymddyddan â'r gelyn annghyfartal. Yn nesaf daeth oddiwrth Satan y gwrthddywediad uniongyrchol a chableddus i'r hyn a lefarodd Duw. Ow! na ddiangasai oddiwrth y diafol cyn iddo ddweyd, "Ni byddwch feirw ddim;" a chyn iddo daflu i'w chalon y meddwl y cai trwy fwytta o'r pren ei gwneyd yn ddoeth fel rhyw ddosbarth uwch o fodau, neu fel Duw ei hun. Fel y gwrandawa ar lais y swynwr hwn, felly yn nesaf edrycha ar y ffrwyth gwaharddedig, megis yr edrycha y cybydd ar y trysor y temptir ef i'w ladratta. Gwir ddalla yr edrychiad yma ei henaid, canys fel yr oedd y pren yn "deg mewn golwg," casglai, yn groes i'r holl rybuddion Dwyfol, mai nid pren ydoedd i ymattal oddiwrtho, ond "pren dymunol i beri deall," a chan mai o'r galon "mae bywyd yn dyfod," a hithau yn barod wedi pechu yn ei chalon, felly "hi a gymmerth o'i ffrwyth ef ac a fwyttaodd." O fod yn dwylledig, hi a ddaeth yn ei thro yn demptyddes. Hi oedd gyntaf "yn y camwedd," ond ni bu yn hir "yn unig yn ei drwg." Yr oedd yn rhan o'r brâd Satanaidd iddi hi fod yr aberth cyntaf, ac i'w dylanwad gael ei ddefnyddio i wneyd Adda yr ail. Yma, yna, yr ydym yn olrhain i'w ffynhonell ddylif arswydus pechod sy'n ymdreiglo trwy ein byd. Deua deisyfiad diddrwg ynddo ei hun, yn ddrwg trwy gael ei sefydlu yn dŷn ar unrhyw beth gwaharddedig gan Dduw, ac yn awr cryfheir y deisyfiad hwn nes y gwrthwyneba bob peth saif yn ei erbyn, hyd yn oed pe y deuai y gwrthwynebiad oddiwrth Dduw ei hun. "Yna y temptir pob un, pan y tynner ef, ac y llithier, gan ei chwant ei hun. Yna y chwant (hwn) wedi ymddwyn, a esgor ar bechod: pechod hefyd, pan orphener, a esgor ar farwolaeth." Dyna ei wir achyddiaeth. Felly dywed Achan, "Gwelais, yna y chwennychais, a chymmerais." Rhoddir gwers ymarferol yr hanes iselhaol hwn yn y gorchymyn, "Na thrachwanta." Yr ydym ar y ffordd i gamwedd mor gynted y dechreuwn ddeisyfu unrhyw beth mae Duw wedi wahardd.

Yr oeddynt yn awr i ddysgu mewn ffordd mwy poenus ganlyniadau ofnadwy eu trosedd. Yn fuan, "hwy a glywsant lais yr Arglwydd;" y llais y buont yn ymhyfrydu ei glywed, ond yr un yr arswydent ei glywed eto, a hwy a aethant i ymguddio "ym mysg prennau'r ardd. Fel y

maent wedi syrthio! fel y mae eu meddyliau wedi eu diraddio pan y dychymygent y buasai cysgod tewaf y coed yn eu cuddio rhag trem dreiddiol yr Hollwybodol! Fel y maent wedi ymlygru pan y dymunant ysgoi presenoldeb Duw! Ac eto, ni a glywwn Adda yn dweyd mewn attebiad i ofyniad Duw, "Pa le yr wyt ti?" "Mi a ofnais, oblegid noeth oeddwn, ac a ymguddiais." Yma gwelwch ran o'r ddedfryd wedi ei chyflawni yn barod, "Yn y dydd y bwyttai di o hono, gan farw y byddi farw." Yr oedd cysgod marwolaeth ysbrydol wedi syrthio yn barod dros ei enaid. Mae yr oll glywwn yn awr yn cael ei draethu yn bradychu yr iselder i'r hwn mae wedi syrthio. Canys mae i Adda roi y bai ar Dduw, ac ar y wraig roddes Duw i fod gydag ef, yn weithred o anniolchgarwch gwael ac annuwiol tuagat ei Gymmwynaswr, ac yn amlygiad arswydus o annewredd moesol. Mor ffyddlon mae ei hiliogaeth yn profi eu perthynas âg ef, pan y tadogant eu pechodau ar Dduw, ac ar y personau gan y rhai y temptiwyd hwynt. Danghoswyd yr un darostyngiad gan Efa pan y ceisiodd ymesgusodi trwy ddweyd, "Y sarph a'm twyllodd, a bwytta a wneuthum."

Yn y barnau a ddilynant, yn nghyntaf ar y temptiwr, yn nesaf ar y troseddwr cyntaf, ac yna ar Adda, gwelwn y llid Dwyfol yn eu herbyn oll, ac eto yn achos dyn, mae awgrymiadau o drugaredd ac o fuddugoliaeth ddyfodol ar bechod a Satan. Nid yw y barnau hyn yn ddadganiad llawn o lid Duw yn erbyn pechod, ond nodau neillduol o'i anfoddlonrwydd, i ddangos y modd yr oedd y troseddwyr wedi pechu, gosod eu hanrhydedd yn y llwch, a cholli coron eu gogoniant. Y gosp drymaf o'r oll oedd colli delw Duw, a'u gwneyd yn agored i'r farwolaeth dragywyddol. O'r cyfnod yma byddai y teulu dynol a hâd y sarph mewn gelyniaeth i'w gilydd, awgrymiad yr hwn mewn rhan yn unig a eglurir trwy y ffaith dra-adnabyddus fod y sarph a dyn yn elynion naturiol, ond yn llawnach trwy y gwirionedd fod Satan yn demptiwr parhaus ein hil; i Grist, hâd y wraig, ymddangos yn ein byd i ddattod gweithredoedd y diafol, i ddioddef yn y cnawd, ond i orchfygu trwy ei fywyd sanctaidd, a'i farwolaeth ar y groes. Yr oedd Efa i fod yn wrthddrych gofid a darostyngiad neillduol, nid yn unig yn ei pherson ei hun, canys yn mha le bynag mae ei melldith heb ei symud trwy deyrnasiad yr ail Adda, mae

ei sefyllfa eto yn un o ddiraddiad alaethus. Pan y clywwn am ofidiau mamoldeb, ac am y dioddefiadau trwy ormes dyn roddir arni hi yr hon a ddylai gael ymddwyn ati yn unig fel "ymgeledd cymmwys iddo," gwelwn brawfion o wirionedd yr hanes torcalonus hwn. Am Adda ei hun, nid oes ganddo mwyach orchwylion hyfryd yr ardd, "i'w llafurio ac i'w chadw hi," ond anfonir ef allan o'r amgauad dedwydd, a thrwy chwys ei wyneb i lafurio er cynhaliaeth ei fywyd, yn yr hwn mae gofid i fod y fath nad oedd o'r blaen yn gwybod am dano, ac i ddibenu yn ei ddychweliad i'r pridd o'r hwn y cymmerwyd ef.

Nid yw yr hanes hyn yn dibenu heb brawf arall o drugaredd a thosturi Dwyfol, canys yr "Arglwydd Dduw a wnaeth i Adda ac i'w wraig beisiau crwyn, ac a'u gwisgodd am danynt hwy." Nid oeddynt i'w gadael iddynt eu hunain, ond gofalai Duw eu Tad am danynt eto; nid am eu cyrff yn unig, ond am eu heneidiau hefyd. Fe ymresymwyd yn dda fod Adda yn y cyfnod boreuol hwn wedi derbyn rhyw oleuni ar y modd yr oedd maddeuant i gael ei dderbyn trwy aberth. Nid oedd yn oddefol eto i ddyn fwytta cig anifeiliaid, a thybir y lleddid yr anifeiliaid hyn i'r diben o fod yn aberth i Dduw, tra yr oedd eu crwyn y rhai a roddid yn wisg i ddyn yn cysgodi ffordd ein hiachawdwriaeth trwy farwolaeth a a chyfiawnder "Hâd y Wraig." Er cadarnhad i'r dyb hon, cawn aberthau yn cael eu cyflwyno i Dduw gan fab i Adda, a gallwn yn rhwydd gredu i Adda yn awr ddysgu oddiwrth Dduw yr athrawiaeth a ddysgodd i'w hiliogaeth.

Ac yn awr colla dyn y Baradwys lle y cwympodd. Felly yr Arglwydd "a yrrodd allan y dyn, ac a osododd o'r tu dwyrain i ardd Eden, y cerubiaid, a chleddyf tanllyd ysgwydedig, i gadw ffordd pren y bywyd." Gwelwn hyd yn oed yma drugaredd yn gymmysgedig â barn, gwylir dyn yn dirion rhag y weithred ffol a rhyfygus o gynnyg bwytta eto o bren y bywyd, ac fel hyn adenill y meddiannau a gollodd. Ac ni ddylem wrthod y dyb fod y cerubiaid wedi eu gosod wrth borth dwyreiniol yr ardd hon, i amlygu trugaredd Duw at ddyn, yr hwn a ddychwelai yn fynych at ymyl yr amgauad cyssegredig, a phenlinio yno yn edifeiriol, gan geisio trugaredd a gras yn gymhorth.

(Darllener Genesis iii.)

## PENNOD V.

### CAIN AC ABEL.

Mae aberthu yn un o'r sefydliadau boreuaf yn ein hanes. Oddiwrth y rhesymau roddwyd yn y bennod flaenorol, gwelsom yn barod y tebygrwydd iddo gael ei sefydlu gan Dduw ei Hun yn union ar ol y cwymp, ac mai yr aberthau cyntaf oeddynt yr anifeiliaid, crwyn y rhai roddwyd i wisgo ein rhieni cyntaf.

Mae gennym yn awr i sylwi ar y ddau aberth cyntaf, am y rhai mae cofnodiad eglur wedi ei gadw; ac ar hanes effeithiol ac addysgiadol yr offrymwyr. Mae gan y brodyr hyn enwau yn arddangos y teimladau yn mha rai yr edrychai eu rhieni ar eu genedigaeth. Arwydda enw Cain, "Caffaeliad," ac arddengys y boddhad roddodd ei enedigaeth i'w rieni, tra mae yr eiddo ei frawd Abel, "Gwagedd," yn ymddangos i awgrymu y gofid a'r siomedigaeth oeddynt eisoes wedi eu profi yn eu hepil. Mae yn debygol fod Cain yn barod wedi rhoi prawf gofidus o'i fawr ddrygioni, ac yn y cyfnod boreuol hwn fod "ei weithredoedd ef yn ddrwg," a'i ymddygiad y fath roddai arwydd o'r llygredd addfedodd ar ol hyn yn llofruddiaeth. Nis gallwn gadarnhau y dyb i Efa alw ei phlentyn cyntaf, "y dyn Jehofah," neu y Messiah, er fod yn amlwg i'w enedigaeth ddeffroi yn ei meddwl ddysgwyliadau dymunol na sylweddolwyd ar ol hyn. Dysgir rhieni trwy y rhan foreuol yma o hanesiaeth ddynol, y dylai y llawenydd naturiol a deimlant o herwydd "geni dyn i'r byd," gael ei gymmedroli oddiar yr ystyriaeth ein bod oll yn cael ein geni "i flinder, fel yr eheda gwreichionen i fyny." Yr oedd gan y plentyn, enw yr hwn a gynhwysai y siomedigaeth yma, modd bynag, gymmeriad hollol wahanol i'r hyn a ymddengys a achosodd ei enw. Geilw yr Ysbryd Glân ef "Abel gyfiawn," ac nis gallwn amheu nad oedd ei fywyd yn ffynhonell cysur i'w rieni. Mae yn ei hanes byr uniad o gyfiawnder a duwioldeb gostyngedig. Yr oedd yn eglur yn gwybod hefyd ei fod yn bechadur, ac yn sefyll mewn angen am faddeuant trwy gyfrwng aberth.

Er rhagored yn wir ei gymmeriad, eto gwyddai, "Os dywedwn nad oes ynom bechod, yr ydym yn ein twyllo ein hunain." Mae y ddau frawd yma gan hyny yn cynnrychioli y ddau ddosbarth mawr o ddynolryw; y rhai cyfiawn, nad ydynt yn ymddiried i'w cyfiawnder eu hunain; a'r rhai drygionus, ydynt eto yn diystyru datguddiad grasol Duw. Mae eu gorchwylion eill dau o nodwedd syml, yn cydweddu nid yn unig a'u hoes gyntefig hwy, ond y fath sydd wedi cymmeryd i fyny amser rhan helaeth o'n hil yn mhob oes, a rhaid iddynt barhau felly hyd ddiwedd y byd.

Dygwyddodd yr olygfa roddir ger ein bron yn yr hanes hyn yn debygol ar y Sabbath, canys yr ymadrodd "wedi talm o ddyddiau," sydd yn llythyrenol ar "ddiwedd y dyddiau," ac ymddengys yn cyfeirio at ddiwedd y chwe diwrnod llafur, a chadwraeth y seithfed fel y Sabbath. Ac yn awr yr ydym yn canfod y brodyr hyn yn dod gyda eu hoffrymau i'w gosod ar ryw allor syml a chyntefig. Abel "a ddug o flaenffrwyth ei ddefaid, ac o'u brasder hwynt;" a Chain a ddug "o ffrwyth y ddaear." Mae y rhai ydynt yn dal fod yr offrymau hyn yn gyfaddas i bob un o'r addolwyr, gan eu bod yn gynhyrchion eu diwydrwydd a'u llafur, yn cyfeiliorni yn eglur, gan i Jehofah edrych ar offrwm Abel—fe allai trwy i fellten ddisgyn o'r nef ar ei aberth—tra nad edrychodd ar yr eiddo Cain. Ar hwn, fel pob pwngc mawr ddygir dan ein sylw yn y gair Dwyfol, rhaid i ni geisio cael "meddyliau Duw." Mae rhai a gyfiawnhaent Cain trwy ddweyd fod ei offrwm yn cyfatteb i'w orchwyl fel llafurwr y tir, tra yr oedd yr eiddo Abel yn cyfatteb iddo yntau hefyd fel bugail. Ond mae camsyniad y rhesymiad yma yn eglur oddiwrth wrthodiad offrwm Cain, a derbyniad aberth Abel. Rhaid i ni gymmeryd yr esponiad roddir yn y Testament Newydd, "Trwy ffydd yr offrymodd Abel i Dduw aberth rhagorach na Chain," yn llythyrenol, "aberth mwy." Yr oedd ei offrwm ef o natur aberth iawnol, tra na chyflwynodd Cain ond aberth diolch yn unig. Pan dywalltodd Abel waed yr oen, a'i osod ar yr allor, yr oedd wrth hyny yn cyffesu ei fod yn bechadur, ac yn haeddu marw; pan y cyflwynai Cain yn unig ei ffrwythau, ni ddanghosodd un ymdeimlad o bechod, ond ymfoddlonai ar gydnabod Duw fel cynhalydd bywyd a chyfranydd pob da. Yr oedd un yn gredadyn, a thystiai ei grediniaeth trwy ei aberth; yr oedd gan y llall yr hyn a elwir crefydd

natur, ond yr un sydd yn hollol annghyfaddas i ddyn yn ei sefyllfa bechadurus, yn gorwedd dan lid Duw.

Os dywedir nad oedd gan Cain, llafurwr y tir, ddim defaid i'w hoffrymu, sylwn ar yr attebiad roddir yn yr ymliwiad hynod gyfeiria Jehofah ato, "Os da y gwnai, oni chai oruchafiaeth? ac oni wnai dda, pechod (neu bech-aberth) a orwedd (neu ymgryma) wrth y drws." Gallasai gael oen yn offrwm wrth ddrws ei babell, ac fel Abel ei gyflwyno yn aberth. Dyna yr olwg mae lliaws o esponwyr galluog wedi gymmeryd o'r adnod bwysig hon, golygiad a gadarnheir gan y ffaith i Dduw yn lle dweyd yn syml wrtho ei fod yn bechadur, ei gyfeirio at yr ymwared dwyfol bennodedig.

Ond yr oedd Cain "o'r drwg, ac a laddodd ei frawd." Pan y gwelodd yr arwydd o'r gymmeradwyaeth Ddwyfol roddwyd i Abel, "digllonodd yn ddirfawr, fel y syrthiodd ei wynebpryd ef." Fel y brawd hynaf yn y ddammeg, nis gallai lawenhau fod ei frawd wedi cael derbyniad yn nhŷ ei dad, ac fel pawb o'r rhai hyny ydynt yn awr yn cerdded "yn ffordd Cain," edrychodd â digasedd, ac yna ffurfiodd ei fwriad o ladd y dyn ar yr hwn yr oedd y ffafr Ddwyfol yn gorphwys. Gwelwn yma yr elyniaeth farwol â'r hon yr edrycha y rhai annuwiol ar blant Duw yn mhob oes, a'r hon a ddanghosodd ei hun mewn gwahanol ffyrdd, yn fynych mewn erledigaeth hyd angeu, weithiau mewn dirmyg a gwawd, ac fel yma mewn llofruddiaeth.

Ac yn awr edrychwch ar y ddau frawd hyn. Mae un wedi ei gymmeradwyo gan Dduw, a mwynha lewyrch ei wynebpryd. Mae yn gyfiawn yn ei ymddygiad, ac fel y brawd ieuengaf, mae yn foddlon i fod yn ddarostyngol i'r hynaf. Nis gall Cain ganfod un bai ynddo, ac nid oes ganddo un tir i gasineb a gelyniaeth, oddieithr "o ran cyfraith ei Dduw." A sylwch ar y dull y boddlonir ei elyniaeth Satanaidd. Ar awdurdod hen lawysgrif, ymddengys iddo ddweyd wrth Abel, "Gad i ni fyned i'r maes," a thra yr oedd y dyn ieuangc anamhëus yn ymddiddan mewn hyder brawdol, syrthiodd gwynebpryd Cain, crëa y gwg erchyll ddychryn, ac yn fuan cyfodir y fraich lofruddiog, a threnga Abel o dan ei nherth marwol. Y cyntaf o'n hil sy'n marw, a lofruddir, ac halogir y ddaear â gwaed, yn hir cyn i dymhor naturiol bywyd ddibenu, a'r bedd hawlio

ei ysglyfaeth. Gall y rhai a ddygant y ddadl o hynafiaeth yn ffafr un o'r gorthrymderau i'r rhai y darostyngir ein hil, edrych ar y tarddiad arswydus hyn i drosedd, a gweled fod y dyn cyntaf anwyd i'n byd yn llofrudd ei frawd ei hun.

> "Y marw cynta' oedd fab Adda, trwy
> Laddiad, à brawd a roes 'r angeuol glwy'."

Yn attebiad Cain i ymofyniad Duw am Abel, "Ai ceidwad fy mrawd ydwyf fi?" gwelwn y berthynas agos rhwng pob ymddyeithriad annaturiol teimlad, a chyflawniad trosedd. Pe y coleddasai y teimladau caredig berthynant i'r cyssylltiad brawdol, teimlasai mai "ceidwad ei frawd' oedd.

Gwelwch fel y dilynir trosedd gan gosp. Mae yr un ddaear staeniwyd â gwaed Abel, yn galw am ddial, ac i gydwybod euog y llofrudd, ymddengys fel pe dilynai ysbryd y llofruddiedig ef hyd nes y cyflawnai y y dial hwnw ei waith. Cymmerir ei orchwyl tawel o lafurio y ddaear oddi arno, a rhaid iddo fyned allan yn wibiad oddiwrth gymdeithas, fel yr holl lofruddion bob amser wedi hyn, yn cael eu cythryblu gan eu hofnau euog, ac yn dianc o'r naill ymguddfa i'r llall, nes y delir hwy gan law y gyfraith, neu y gwysir hwy i sefyll ger bron brawdle Duw. Ni wna y ddaear hyd yn oed pe cynnygiai ei llafurio ddim 'chwanegu rhoddi ei ffrwyth iddo, oblegid attalia Duw y fendith ffrwythogol. Teimla Cain ei gosp drom. Trymach yw nas gall ei dwyn, ond nid trymach nag mae yn haeddu. Gyrir ef o ŵydd Duw, fe allai o'r fan gyssegredig wrth borth Eden, lle yr oedd y presenoldeb hwn i'w weled yn y gogoniant Dwyfol. A i dir Nod, neu y "crwydryn," yr hwn a gymmerodd ei enw oddiwrth fywyd anesmwyth a chythryblus y ffoadur, a mwyheir ei gosp ef trwy ei ofn y gwna ereill ei ladd. Dofir yr ofn yma yn dirion trwy sicrwydd o amddiffyniad, oblegid dyma ymddengys ydoedd y "nôd," neu "arwydd," a roddai Duw yn awr arno, nid yn unig i dymheru ei ofnau dychrynllyd, ond i attal ereill rhag cyflawni y trosedd allent geisio ddïalu; canys felly y darllenwn y rhybydd, "Dïelir yn saith ddyblyg ar bwy bynnag a laddo Cain."

(Darllener Genesis iv. 1—16.)

## PENNOD VI.

### YR OES CYN Y DILUW.

UN o'r arweddion hynotaf yn yr oes cyn y diluw yw hirhoedledd mawr dyn. Ar y dyb nad allai y bywyd dynol byth gael ei estyn i yn agos fil o flynyddoedd, fel yn amgylchiad Methuselah, yr hwn a fu farw yn naw cant a thriugain a naw oed, gwnaed amryw gynnygiadau i dynu allan y fath ystyr wnai gyd-daro oreu a'n golygiadau ni am hyd y bywyd dynol. Fe haerwyd mai misoedd ydoedd blynyddoedd yr oes hon, canlyniad gwrthun yr hyn fyddai, nad oedd Enoch ond pump oed ar enedigaeth ei fab. Nid ydym ni y rhai mae ein hoes wedi ei byrhau i "ddeng mlynedd a thriugain," yn barod i benderfynu beth allasai hŷd y bywyd dynol fod yn ngrym cyntefig ein hil. Mae gennym, modd bynag, gadarnhâd hynod i'r hanes boreuol hyn, o enau yr hybarch Jacob. Pan y gofynodd Pharaoh iddo, "Faint yw dyddiau blynyddoedd dy einioes di?" attebai, mai deg ar hugain a chan' mlynedd oedd ei oed, ond sieryd am y blynyddoedd hyny fel yn "ychydig," ac ychwanega, "ni chyrhaeddasant ddyddiau blynyddoedd einioes fy nhadau." Bu farw ei dad Isaac yn gant a phymtheg a thriugain; a Terah, tad Abraham, yn ddau cant a phump.

Yr oedd hirhoedledd yr oes cyn-ddiluwiol hon yn dra angenrheidiol mewn trefn i "ranau cyfanneddol y ddaear" gael eu trigiannu gan ddyn. Yr oedd yn ffafriol i feithriniad celfau bywyd, a chadwraeth gwybodaeth, ac yn neillduol yr oedd o bwys i einioes gael ei estyn fel hyn tra nad oedd yr un datguddiad ysgrifenedig fel y byddai i'r hanes o wirionedd Dwyfol gael ei drosglwyddo i lawr heb ei lygru. Gallasai Adda gyd-ymddyddan â Lamech, tad Noah, am oddeutu hanner can' mlynedd, a chafodd Lamech yn agos i chwe' chan' mlynedd i adrodd i'w fab Noah yr hanesion a'r gwirioneddau mawrion ddysgodd o enau Adda. Fel hyn mae tri bywyd yn cyrhaedd o'r Greadigaeth i'r Diluw, ac ar ei ol, Noah yn ddolen gydiol rhwng yr hen fyd a'r newydd. Rhoddir tystiolaeth hynod i'r ffaith dan ystyriaeth, a chymmeryd y golygiad hyn, yn ngeiriau

Bildad, "Gofyn, attolwg, i'r oes gynt, ac ymbarottoa i chwilio eu hynafiaid hwynt. Canys *er doe'r* ydym ni, ac *ni wyddom ddim*, o herwydd *cysgod* yw *ein dyddiau ni* ar y ddaear." A thybio nad oedd Job ond deugain pan oedd ei feibion a'i ferched yn wyr a gwragedd, bu fyw i fod oddeutu cant a phedwar ugain oed.

Yn yr oes cyn-ddiluwiol cawn Jabal yn trigo mewn pebyll, ac yn magu anifeiliaid, fel Jacob ar ol hyn; Jubal yn nodedig am feithrin cerddoriaeth mewn offer tannau a gwynt; Tubal Cain yn enwog, fel y Vulcan yn chwedloniaeth Groeg, am ei gyfarwydd-der â metteloedd, a'r gelfyddyd o'u toddi a'u llaw-weithio; tra gadawa Lamech ar ei ol engraifft o gân wedi ei gwneyd ar yr un egwyddorion ffynent yn nghyfansoddiad barddoniaeth Hebraeg. Ond ow! mae yr engraifft gyntaf yma o brydyddiaeth yn gofnodiad o'r trosedd o lofruddiaeth, yn gyfansoddedig gan un oedd eisioes wedi tori y gyfraith Ddwyfol am briodas, oblegid cyfeirir ef yn drahäusfalch at "wragedd Lamech."

"Adah a Silah, clywch fy llais;
Gwragedd Lamech, gwrandewch fy lleferydd.
Myfi, yn wir, yn archolledig, a leddais wr,
Ac wedi ymosod arnaf, wr ieuangc.
Os Cain a ddielir seithwaith,
Yn ddiau Lamech saith dengwaith a saith."

Mae y geiriau wedi eu trefnu fel ag i ddangos y tair dwyfraich, a gwelir fod y geiriau yn mhob ail linell yn gyfattebol i'r rhai yn y gyntaf, ac yn cyfleu bob amser feddwl uwch. Ymddengys y dyb yn warantedig fod y gelfyddyd o ysgrifenu yn adnabyddus cyn y Diluw, fel yr ymddengys y bummed bennod o Genesis, "llyfr cenhedlaethau Adda," megis coflyfr teuluaidd ysgrifenedig, wedi ei gadw yn bur debyg i achlin mewn amserau diweddarach.

Dygwyd amlwreiciaeth i mewn yn groes i'r ordinhad Ddwyfol, ac aeth y gwaith o ddirywiad a llygriad cymdeithas mor gyflym, fel yr ymadawodd yr hiliogaeth yma yn hollol o sylw yr hanesydd sanctaidd. Ymsuddai yn gyflym i eilunaddoliaeth a phob math o gamwedd, heb ofn Duw, ac heb wneyd un broffes o barch i'w enw, ond gan deithio i waered "yn ffordd Cain."

Am beth amser anrhydeddid enw Duw a chedwid ei wirionedd yn nheulu Seth, enw yr hwn gyhoedda grediniaeth Efa fod Duw yn drugarog wedi ei "osod" ef i lanw lle ei mhab Abel gollodd ac y galarodd am dano. Mae yr enw roddodd Seth i'w fab Enos yn awgrymu ei deimlad dwfn ef o ddirywiad dyn, iddo gael ei eni yn nghyffelybrwydd Adda, nid yn ol delw Duw; tra mae y ffaith ddymunol gofnodir y pryd hyn, yn ymddangos i osod allan ei fod yn ceisio yn ddifrifol wellhau y drygau oeddynt yn ffynu, "Yna y dechreuwyd galw ar enw'r Arglwydd." Wrth weled mor gyflym yr oedd y byd yn ymadael â'r Jehofah, "dechreuodd" Seth a'i deulu gyda difrifwch mwy i "alw ar enw y Jehofah." Gan ddefnyddio fel hyn—yr hyn y dylai pawb duwiol yn amserau gwrthgiliad ac amlhad anwiredd—y taerineb mwyaf mewn gweddi ar ran eu hiachawdwriaeth eu hunain, ac adferiad pechaduriaid at Dduw. Adwaenid aelodau y teulu duwiol hwn fel "meibion Duw." Fe allai fod y dynodiad wedi ei Ddwyfol roddi, neu wedi ei gymhwyso attynt fel plant tangnefedd, pan yr oedd teimladau gwrthryfelgar a dialgar yn cythryblu yn mysg yr hil wrthgiliedig. Fel hyn diogelodd Duw "had sanctaidd" ar y ddaear, yn mysg y rhai y cadwyd gwybodaeth o'i wirionedd, y cynhaliwyd ei addoliad, ac yr ufuddhawyd i'w ddeddfau. Yn unol â'r golygiadau hyn mae y traddodiad Dwyreiniol mai Enos oedd y cyntaf ordeiniodd elusenau cyhoeddus i'r tylodion, ac a sefydlodd frawdleoedd cyhoeddus i weinyddu cyfiawnder.

Ond "bu pan ddechreuodd dynion amlhau ar wyneb y ddaear, a geni merched iddynt, weled o feibion Duw ferched dynion mai teg oeddynt hwy; a hwy a gymmerasant iddynt wragedd o'r rhai oll a ddewisasant." Yr oedd yr hil wrthgiliedig wedi cynhyddu yn lliosog, ac yr oedd hiliogaeth Seth hefyd wedi dechreu ymadael o ffyrdd da eu tad. Taflodd y dynion ieuaingc ymaith attalfeydd duwioldeb, a phriodasant â theulu drwg Lamech. Ffurfiwyd eu dewisiad heb un cyfeiriad at dduwioldeb a chymmeriad. Ymgynghorasant yn unig a'u hewyllus eu hunain, nid a'r eiddo eu rhieni, a phenderfynwyd eu dewisiad yn ffafr undeb a'r hiliogaeth ddrwg, am fod y merched yn deg. Yn rhy fynych ca'r ymddygiad yma ei efelychwyr yn ein dydd ni, pan y mae plant ystyfnig ac annuwiol yn ffurfio undebau o'r nodwedd bwysig yma heb y parch lleiaf i awdurdod

Duw, dymuniadau rhieni, neu wir anrhydedd y teuluoedd y perthynant iddynt. Torodd y drwg yma trwy y clawdd amgylchai yr eglwys cyn-ddiluwiol. O hyn tarddodd hiliogaeth o ryfelwyr diddeddf, dynion o nerth corfforol mawr, enwog am weithredoedd o ddewrder a ffyrnigrwydd, cewri mewn maint a chewri mewn camwedd, dynion hirhoedlog, ond i'r rhai nid oedd "penllwydni" yn "goron anrhydeddus," am nad oedd "yn ffordd cyfiawnder." Ac yn awr yr oedd y gwahaniaeth rhwng y ddau deulu wedi ei ddiddymu, a "phob cnawd a lygrasai ei ffordd ger bron Duw," yr Hwn a benderfynodd nad ymrysonai ei Ysbryd â'r hil ddirywiol, a ysgubai ymaith mewn chwech ugain mlynedd oddiar y ddaear a lanwodd â thrawsder.

Ni oddefwyd modd bynag i'r holl hil suddo i'r llygredd eang ymdaenedig hwn. Yr oedd Enoch wedi ymwahanu oddiwrth y lliaws dirywiol, ac "a rodiodd gyd â Duw." Efe—wedi ymddydoli oddiwrth yr halogedig a'r aflan—a rodiai lwybr uchel a dyrchafedig sancteiddrwydd, ac a fwynhai gymdeithas â'r Jehofah, fe allai ar adeg y gwawdid ac y dirmygid ef gan bechaduriaid o amgylch. Danghosodd nad "creadur amgylchiadau" oedd dyn. At ei ffydd ychwanegodd wroldeb sanctaidd, ac a brophwydodd, gan ddywedyd, "Wele y mae'r Arglwydd yn dyfod gyd â myrddiwn o'i saint, i wnenthur barn yn erbyn pawb, ac i lwyr argyhoeddi yr holl rai annuwiol o honynt am holl weithredoedd eu hannuwioldeb, y rhai a wnaethant hwy yn annuwiol, ac am yr holl eiriau caledion, y rhai a lefarodd pechaduriaid annuwiol yn ei erbyn ef." Dylid sylwi fod y farn i'r diben o gospi nid yn unig eu gweithredoedd o ormes a thrais, ond hefyd eu "geiriau caledion;" ac yr ydym i ddysgu oddiwrth yr ymadroddion hyn, fod "y geiriau caledion" a drwg yn rhan o'r camweddau a ddygasant y Diluw ar y byd. Ac y mae geiriau Enoch yn dod ini "dros y diluw." Anrhydeddodd Duw ei was ffyddlon trwy ei symud fel na welai farwolaeth. Yr oedd un arall yn mysg patriarchiaid yr amser boreuol hyn, enw yr hwn drosglwyddir i ni mewn coffawdwriaeth bythol, canys "Noah oedd ŵr cyfiawn, perffaith yn ei oes; (ac am dano ef hefyd darllenwn,) gyd â Duw y rhodiodd Noah."

(Darllener Genesis o'r iv. 17, i'r vi. 12.)

# PENNOD VII.

## Y DILUW.

PAN welodd yr Arglwydd "mai aml oedd drygioni dyn ar y ddaear," "edifarhaodd wneuthur o hono ef ddyn ar y ddaear, ac efe a ymofidiodd yn ei galon." Ond ni wnai modd bynag oddef i'w amcan yn nghreadigaeth dyn gael ei ddiddymu. Dygai "y diluw ar fyd y rhai anwir," ac eto cadwai Noah gyfiawn a'i deulu; tra y dinystrid byd o wrthryfelwyr, eto cedwid y rhywogaeth ddynol. Ond ni ddaeth y trychineb yma arnynt heb rybudd trugarog. Rhoddwyd chwech ugain mlynedd i alw ar y pechaduriaid hyn i edifeirwch; nid yn unig darfu i Enoch bregethu yn erbyn eu "gweithredoedd annuwiol," a'u "geiriau caledion," a dweyd wrthynt fod Jehofah yn dyfod i farn "gyd â myrddiwn o'i saint," ond rhoddwyd amlygrwydd digonol o hir-amynedd Duw, yr hwn oedd "yn aros yn nyddiau Noë, tra y darperid yr arch."

Ac yn awr mewn perthynas i'r arch hon; dywedir wrthym am ei defnyddiau, *coed gopher*, y pinwydd fel y tybir, a phŷg, neu'r *llosbyg*, oedd mewn cyflawnder yn y wlad y gwnaed yr arch. Ei maintioli ydoedd oddeutu cant a haner o latheni o hyd, oddeutu maint Eglwys Gadeiriol St. Paul, pump llath ar hugain o led, a phymtheg o uchder. Mae ei llwyth wedi ei gyfrif yn bedwar ugain ac un o filoedd a thriugain a dwy o dunelli. Rhoddir ei chynllun hefyd. Bwriadwyd hi nid i fordwyo yn gyflym, ond er cyfleustra i'r rhif mawr o feddiannwyr byw, a'u hymborth am flwyddyn. Rhenid hi gan dri bwrdd, ac wedi eu ffurfio y fath ar y top fel y syrthiai y dwfri ffwrdd oddiar bob ochr, tra yr oedd y "ffenestr," yr hon a allai fod yn estynedig ar hyd yr arch, yn darparu goleu ac awyriad. Yr oedd defnydd gwydr yn anadnabyddus yn y cyfnod boreuol hyny. Mae cyfrifon manwl iawn wedi eu gwneyd am faint y cyfleustra roddai y milodfa nofiol hon, a dengys y canlyniad fod yn rhaid ei bod yn berffaith gyfaddasedig i'r diben i'r hwn y bwriadwyd hi.



LEIGHTON, BROTHERS.

THE DELUGE.

Rhenid y pedwartroediaid, yr ehediaid, a'r "ymlusgiaid," i'r rhai y gwnaed y ddarpariaeth yma, i rai glân ac aflan, gwahaniaeth yr hwn yn amlwg a gyfeiria at aberth yn unig, gan na ddefnyddid hwy y pryd hyny fel ymborth; oddiwrth yr hyn dysgwn y pwysigrwydd gyssylltir a'r offrymau hyn yn addoliad Duw, cyn ac yn union ar ol y Diluw. Yr oedd y rhai aflan i gael eu cadw yn un pâr o bob math, a'r rhai glân yn saith pâr, fel y byddai digon ar ol y Diluw yn aberth, yn gystal ag er cynhydd naturiol, trwy yr holl ddaear. Er cyflawni y cynllun Dwyfol, arweiniwyd yr holl anifeiliaid hyn, ar yr amser pennodedig, i arch diogelwch, gan yr un llaw anweledig ag a arweiniodd yr anifeiliaid yn Mharadwys at Adda i dderbyn eu henwau. A yr ymlongiad rhyfeddol yma yn mlaen am wythnos, ac yn ystod yr amser hyn mae Noah a'i deulu yn brysur ddwyn ar fwrdd y llong fawr hon yr oll oeddynt eisieu i'w cyfleustra eu hunain, a'r eiddo eu gwarchodaeth mawr.

Ac yn awr derbynia y rhagfynegiad ofnadwy wnaed gyntaf chwech ugain mlynedd cyn hyn, ei gyflawniad. Nid cynt yr aeth yr olaf o'r meddiannwyr byw i mewn, nag y caua Duw arnynt yn ddiogel, ac yn awr "rhwygwyd holl ffynhonnau'r dyfnder mawr, a ffenestri y nefoedd a agorwyd." Y fath wlawogydd a llifeiriaint na welodd dyn erioed o'r blaen eu bath yn cynhyddu, nes y mae yr holl fryniau a mynyddoedd y ddaear gyfanneddol wedi eu gorchuddio. Amguddir dyn ac anifail gan un amdo fawr yn mhob man, mae pob cri am gymhorth ac ymwared, am drugaredd ac amddiffyn, wedi eu traethu yn ofer, a nofia yr arch yn ddiogel dros y dinystr arswydus, yn unig ystorfa bywyd. Mor wir ydyw bygythion Duw yn erbyn pechaduriaid, gan nad faint fydd eu gallu a'u rhif.

Mae Anffyddiaeth wedi dwyn mwy o wrthwynebiad i'r rhan yma o'r hanes ysbrydoledig, nag fe allai i'r un arall. Cododd llawer o'r gwag-wrthddadleuon hyn, oddiwrth y dull mae yr hanes wedi cael ei esponio, trwy ei lwytho ag anhawsderau dianghenraid. Nid oes gennym, modd bynag, i gyfarfod a'r gwrthddadleuon godwyd yn erbyn y dyb fod y belen oll wedi ei hamguddio gan y diluw, fod y mynyddoedd uwchaf geir yn unrhyw le ar ei harwynebedd o tan y dwfr, ac fod yr arch yn y diwedd wedi ei gadael yn yr uchder o ddwy fil ar bymtheg a saith cant o droed-

feddi, dwy fil o droedfeddi yn uwch na chopa Mont Blanc; canys ni haerir fath ffôl bethau yn yr hanes hyn, ac nis gellir eu casglu yn deg o hono. Am eangder y Diluw, gallwn foddloni ein hunain yn dda gyda geiriau Esgob Stillingfleet ei fod "yn gyffredinol o ran dynolryw, ond na chanlyna oddiar hyny un angenheidrwydd o gwbl i haeru ei gyffredinolrwydd mewn perthynas i'r belen, oddieithr dwyn prawf digonol fod yr holl ddaear wedi ei phoblogi cyn y diluw." Mae'r dysgrifiad yn Genesis yn amlwg wedi ei fwriadu i fod yn gymhwys i'r byd fel y trigianid ac yr adwaenid ef y pryd hyny. Gorphwysodd yr arch, nid ar "Fynydd Ararat," ond "ar fynyddoedd Ararat"—yn y wlad y cyfeirir ati yn Jeremiah li. 27, ac yn debygol lawer i dde dwyrain yr Ararat diweddar, a lle gallai dirio, nid ar gopa, ond ar gefnen, mewn uchder mor gymmedrol ag a'i gwnai yn rhwydd i Noah a'i deulu i arwain y creaduriaid dan eu gofal yn ddiogel i'r gwastad-diroedd odditanodd. Mae yr hanes rhyfedd hyn, wrth ei esponio yn iawn, mor bell o gael ei wrthwynebu gan unrhyw analluogrwydd naturiol, fel y dywed daearegwyr mwyaf goleuedig ein hoes wrthym y modd y gellid unrhyw adeg achosi y fath ddiluw, os byddai yn ewyllys Duw i agor costrelau y nefoedd, ac ar yr un pryd lacio y rhwymau a rwystrant y moroedd mawrion rhag ymdori ar drigfannau dynion.

Cofier hefyd fod traddodiadau eang-ymdaenedig am y Diluw. Dyga y bathodyn Apameaidd enwog ar yr wyneb ben Philip yr Henadur, ac ar y wyneb arall ddarlun o'r arch, lle y gwelir dyn a dynes cyn ac wedi gadael yr arch. Mae yno ddau aderyn, un yn sefyll ar yr arch, a'r llall yn dychwelyd iddi gan ddwyn cangen yn ei draed. Mae enw Noah wedi ei ysgrifenu yn Groeg ar yr arch. Ni a gawn yn mysg yr hen Roegiaid, a'r Mahometaniaid, Paganiaid, Chineaid, Indiaid Americanaidd, ac ynyswyr yr holl foroedd yn ein hamser ni, draddodiadau o'r amgylchiad hwn, yn hynod amrywedig, ond oll yn cyfeirio yn ol at y dygwyddiadau am ba rai mae gennym ni gofnodiad awdurdodedig a manwl yn unig yn yr hanes ysbrydoledig hyn.

(Darllener Genesis o'r vi. 5, i'r viii. 19.)

## PENNOD VIII.

### NOAH A'I HILIOGAETH.

NID cynt y rhyddhawyd Noah o'i flwyddyn o gaethiwed, nag y dechreuodd gydnabod daioni ei Gynhaliwr Hollalluog. Dechreuodd ar ei swyddi cyssegredig fel rhai yr oedd yn hen gyfarwydd â hwy, a gwerth y rhai yr oedd wedi hir brofi. Cymmerodd o bob anifail glân, a phob ehediad glân, a chyflwynodd boeth offrymau ar yr allor. Yr oedd hwn yn aberth mawr a phwysig. Yr oedd yn dra ehelaeth, yn gynhwysedig o bob math o anifail priodol i fod yn aberth, ac ymddengys ei fod o'r nodwedd hyny—y llosg-aberth—yn yr hwn y llwyr losgid yr offrymau, ac aent i fyny yn golofn o fŵg oddiar yr allor. Yr oedd yr offrwm hwn yn gyfaddefiad gostyngedig ac edifeiriol o bechod; yn gydnabyddiaeth o du yr addolwyr eu bod wedi haeddu marw y farwolaeth oddiwrth yr hon y cawsant eu gwaredu yn drugarog. Yr oedd hefyd yn gyffes o'i ffydd yn y drefn gyfiawn trwy yr hon y cymmeradwya Duw y pechadur a haeddodd farw, ac yn lle a thros yr hwn y gosodid yr aberthau diniwed hyn, i gysgodi yr aberth mawr yr hwn ydoedd ar ol hyn i gael ei gyflwyno gan y Messiah. O herwydd hyn y cymmeradwyodd Jehofah yr aberthau yma, neu yn iaith ffugyrol yr hanes, "a aroglodd arogl esmwyth."

Canlynwyd cymmeradwyaeth aberth Noah gan yr addewid na fyddai y byd mwy yn ddarostyngedig i'r fath Ddiluw, neu na amddifadid ef o ddilyniad rheolaidd y tymhorau: "Pryd hau, a chynhauaf, ac oerni, a gwres, a haf, a gauaf, a dydd, a nos, ni phaid mwy." Ffurfia yr addewid hon ran o'r cyfammod wnaeth Jehofah â Noah. Yr oedd dyn i boblogi gwyneb y ddaear, ac i gael arglwyddiaeth ar yr holl greadigaeth anifeilaidd. Yn awr, am y waith gyntaf, ni a gawn ganiatâd yn cael ei roi i gymmeryd cig anifail, ond gyda gwaharddiad yn erbyn cymmeryd gwaed, fel yn yr un gyfraith roed wedi hyn i'r Iuddewon, ac amcan yr hon ydoedd i ddangos y dylid cadw'r gwaed yn aberth. Dirddysgwyd cyssegrwydd y bywyd dynol, ac nid yn unig dysgodd yr Arglwydd y

perygl cyssylltiedig â llofruddiaeth, ond ei euogrwydd dirfawr, a'r dialedd ydoedd i ganlyn y trosedd yn y byd presennol. I selio y cyfammod grasol hwn, cyfeiria Jehofah y patriarch at yr enfys, yr hon yn yr awr hono a fwäi y wybren, a chyfarwyddai ef i'w hystyried fel arwydd na ddeuai y dyfroedd ddim eto yn ddiluw i ddinystrio yr holl ddaear. Nid rhaid i ni dybio fod yr enfys yn awr yn ymddangos am y tro cyntaf, gan y gwyddom ei bod yn cael ei chynhyrchu gan oleuni yr haul yn wrthdröedig o ddiferion disgynol gwlaw. Amcan yr iaith ydyw sicrhau i Noah a'i holl hil, cyhyd ag y gwelid yr enfys yn y cymylau, mor hir a hyny ni ddylid ofni ail Ddiluw. Yn nghanol yr ystormydd a'r tymhestloedd ddisgynant ar ein byd, yr ydym yn pwyso ar yr hen gyfammod yma, a theimlwn yn ddiogel rhag ail Ddiluw, o herwydd ffyddlondeb yr Hwn a gyssylltodd ei addewid â'r gwrthddrych gogoneddus sy'n llefaru wrthym ni fel y gwnaeth wrth Noah:—

"Mor newydd draw'n y gorwel du,
Mor llon dy geinion ynt,
A phan o'r arch yr eryr hy'
Ymchwarai danat gynt.

"Gan gadw ei gyssegrol air,
Ailgwyd y nef di' ohyd;
Yr argraff hon yn llwyd ni chair,
Gyhoeddai hedd i'r byd."

Gwelsom yn barod fod ail dad ein byd yn hollol gyfarwydd â dyledswyddau bywyd crefyddol a swyddi offeiriad patriarchaidd. Ymddengys, modd bynag, ei fod hyd yn hyn yn anghyfarwydd âg effeithiau meddwol gwin, a hyn achosodd ei gwymp alaethus, a'r olygfa warthus a ddilynodd. Cwympodd trwy gamddefnydd o roddion da Duw, o ymarfer yr hyn ni a allwn hyderu y gwnai lwyr ymattal dros ei holl fywyd dyfodol, yn hytrach nag ail waith ymsuddo yn ymwybodol i'r fath ddrych o ddiraddiad. Wrth ystyried ei oedran teg, a'i nodweddiad crefyddol uchel, mae ei gwymp wedi ei gydmaru yn briodol i lestr ar ol hwylio o amgylch y byd yn ymsuddo yn ngolwg yr hafan. Ymddygiad ei dri mab ydoedd yr achlysur iddo draethu y rhagfynegiad patriarchaidd, yn yr hwn y bras-ddarlunia hanes eu hiliogaeth lliosog hyd ddiwedd amser.

Dechreua rhagfynegiad Noah gyda Canaan, ac nid gyda Ham. Pan yr ysgrifenodd Moses yr hanes hyn, yr oedd Israel ar fyned i mewn i wlad Canaan, a'i thrigolion i gael eu gyru allan, neu eu darostwng i'r gwasanaeth mwyaf diraddiol; a gallai mai am y rheswm yma y cafodd rhagfynegiad Noah ei roi yn neillduol fel hyn mewn cyfeiriad at Canaan, ac nid at Ham ei dad. Nid yw y rhai ydynt yn canfod unrhyw gyfeiriad at gaethwasanaeth yr hil Africanaidd yn yr ymadrodd, "gwas gweision," yn sicr wedi ei ddarllen yn gywir. Nid y geiriau hyn oedd y termau a arferid i osod allan gaethwasanaeth, ac nid oes ynddynt un cyfeiriad ato, a'u hesponio felly, ac yna cymhwyso yr esponiad at hiliogaeth Ham, yn lle at Canaan, sydd wyrdröad ar yr Ysgrythyrau, i'r diben o roddi cefnogaeth i bechod. Ni ddarfu hiliogaeth Canaan erioed boblogi Africa. Meddiannasant yn unig y wlad alwyd ar ol enw eu tad, a phan y daeth hiliogaeth Sem, yr Israeliaid, i'w terfynau, yr oedd y Canaaneaid naill ai wedi eu llwyr ddinystrio, neu wedi eu darostwng i'r ymostyngiad mwyaf distadl. Yr oedd y fendith ar Sem o'r nodwedd uwchaf. Jehofah oedd ei Dduw. Bendithia Noah enw Jehofah, Duw Sem, ac yn ol rhai esponwyr, yr oedd yr Arglwydd ei hun i "breswylio ym mhebyll Sem." Yr oedd ffrwd duwioldeb i redeg yn y linell yma, a gwnaed cyfammod trugaredd ar ol hyn âg Abram, un o'i hiliogaeth. Yr oedd Japheth i gyfranogi yn rhagorfreintiau a bendition Sem, canys hyn mae yn debyg ydyw ystyr yr addewid, "Efe a breswylia ym mhebyll Sem." Mae y cenhedloedd Europeaidd disgynedig o Japheth erys hir amser wedi ffurfio trafedigaethau yn Asia, gwlad Sem, ac y mae ein cenedl ni yn llywodraethu yn awr ar gant a haner o filiwnau yn yr India. Mor fawr mae Duw wedi "helaethu ar Japheth," fel heblaw meddiannu ei derfynau ei hun, mae ei feddiannau yn gorchuddio Gogledd a Deheudir America, ac nid oes yn awr fe allai yr un wlad nad yw yr iaith Seisonaeg yn cael ei siarad. Mae y cenhedloedd Europeaidd wedi eu goddef i gyfranogi o'r rhagorfreintiau crefyddol roddwyd i Sem, canys daeth "bendith Abraham ar y Cenhedloedd, trwy Iesu Grist," ac fel hyn yn ei ystyr uwchaf mae i'r rhagfynegiad ei gyflawniad yn y dydd presennol.

(Darllener Genesis o'r viii. 15, i ddiwedd y x.)

## PENNOD IX.

### TWR BABEL.

MAE'R dygwyddiadau gofnodir yn y rhan yma o'r hanes ysbrydoledig yn mysg y rhai mwyaf pwysig gymmerasant le erioed yn hanes dyn, a pharhant i weithredu y dylanwad mwyaf nerthol ar ei sefyllfa gymdeithasol. Yr ydym eisioes wedi gweled y tebygrwydd fod yr arch wedi dwyn ei llwyth byw yn mhell i'r dwyrain, a'r deheu i'r Ararat diweddar; ac yn awr, oddeutu can' mlynedd ar ol y dygwyddiad yna, gwelwn y teulu dynol wedi lliosogi yn fawr yn y dwyrain, a llanw poblogaeth yn llifo tua'r gorllewin. Yn eu mynediad, cyrhaedda y mudwyr i "wastadedd yn nhir Sinar," wedi ei fwriadu i fod yn olygfa rhai o'r dygwyddiadau mwyaf mewn hen hanesiaeth, ac yn safle Babilon. Yn y cyfnod hwn yr oedd gan holl hiliogaeth Noah un iaith yn gyffredin, "yr oeddynt o un wefus, ac un gair," a chynhyrfid hwy gan yr un amcan dyeithr i "adeiladu dinas, a thŵr, a'i nen hyd y nefoedd," neu yn hytrach hyd y wybrenau.

Coleddir gwahanol dybiau am yr amcan fwriedid i'r cynllun yma gyrhaedd. Nid yw braidd yn angenrheidiol i gyfeirio at y traddodiad gadwyd gan Josephus, fod y tŵr i'w sicrhau rhag peryglon ail Ddiluw. Pwysent yn debygol ar yr addewid o'r hon yr enfys ydoedd yr ymrwymiad, ac nid yw y rheswm a roddant yn bradychu unrhyw ofn o ddiluw arall. Dywedent hwy, "Gwnawn i ni enw, rhag ein gwasgaru ar hyd wyneb yr holl ddaear."

Onid allwn ystyried y cynllun yma fel canlyniad ymadawiad pechadurus oddiwrth y gwir Dduw—Duw Sem—ac iddo yn amcan godiad teml fawr eilunaddoliaeth? Ni cheisiodd y bobl yma eu hamddiffyniad rhag drygfyd, yn ngofal rhagluniaethol Jehofah; ac ni wnaethant ei gydnabod ef trwy ofyn am ei gyfarwyddyd a'i fendith. Heb un cyfeiriad at yr arweiniad Dwyfol, dywedasant y naill wrth y llall, "Deuwch, adeiladwn." A phan ddarlunir eu penderfyniad cryf gan Dduw ei hun, fe sicrheir eu hunan-ewyllys a'u cydynrwydd yn yr iaith gryfaf: "Yr awrhon, nid oes rwystr arnynt am ddim oll a'r a amcanasant ei wneuthur." Yr

oeddynt yn debygol o hiliogaeth ddrwg Ham, olafiaid y rhai a ddaethant ar ol hyn yn Frenhinoedd Babilon, ac wedi ymadael o "bebyll Sem," lle trigai Jehofah, hwy a geisient yn naturiol godi cyssegrfa arall er anrhydedd duw cydymgeisiol a gau. Ymddengys, gan hyny, mai eu hamcan annuwiol ydoedd cychwyn cyfundrefn o eilunaddoliaetn i'r hyn yr oedd y tŵr hwn i fod yn deml, a'r ddinas hon i fod y brifddinas.

Ystyria ysgrifenydd tra synhwyrol,[1] mai "yr amcan oedd sefydlu unbenaeth gyffredinol, trwy yr hyn y gallai holl deuluoedd y ddaear gael eu cadw dan warogaeth." Sylwa fod eu hamcan wedi ei sylfaenu ar *uchelgais*, canys dywedasant "Gwnawn i ni enw;" y gofynai am *undeb*, canys cynnygient godi dinas, fel y gallent fyw gyda'u gilydd, a chydgasglu eu nerth a'u cynghorion; fod arnynt eisiau moddion *amddiffyniad*, i'r diben hyn bwriadasant ychwanegu *twr* at y ddinas; fod y cynllun wedi ei *gyfleu yn ddoeth*, fel pe na buasai i Dduw ymyraeth i'w ddiddymu, y llwyddasai. Er cadarnhad y syniad yma, dylid cofio mai y cyfnod o dan ystyriaeth ydoedd yr un i'r hwn y gallwn benu gorchestion Nimrod, ŵyr i Ham. Yr oedd yn amlwg yn ormeswr a gorthrymydd dynion, ac yr oedd ei oes yn un yn yr hon yr oedd y cedyrn wrthi yn brysur yn darostwng eu cyd-ddynion i sefyllfa isel ymostyngol.

Gallai fod pob un o'r tybiau a roddasom yn gywir. Y rhai "nad ofnant Dduw," nis gellir dysgwyl iddynt "barchu dyn." Mae eilunaddoliaeth a gormes-lywodraeth yn gynghreiriaid naturiol, a gallai fod y tŵr o gadernid hwn wedi ei fwriadu i gynhorthwyo ac urddfreinio pob un o'r ysgelerderau hyn.

Fe allai fod y cydfradwyr hyn yn erbyn Duw a dynion yn cael eu cefnogi yn fawr yn eu hamcan wrth gael y defnyddiau i'w hadeilad yn barod i'w gwasanaeth. Yr oedd y tir cleiog yn gyfaddas i wneyd priddfeini, naill ai i gael eu llosgi neu eu sychu yn yr haul, ac y mae llosbŷg, ("clai,") hyd y dydd hwn i'w gael mewn cyflawnder yn ngwastadedd Sinar. Mae llosbŷg wedi ei ddefnyddio yn lle morter i'w weled eto yn adfeilion yr hen Babilon, ac y mae priddfeini wedi eu sychu yn yr haul, yn gystal a chlai wedi ei grasu, wedi cael eu dangos er ys talm yn ein Hamgueddfa Brydeinig. Ac yn awr â y gwaith annuwiol yn mlaen

[1] Parch Andrew Fuller ar Genesis.

yn gyflym. Y lliaws adeiladwyr oll yn siarad yr un iaith, cyttunant yn hollol a'u gilydd, gan weithio gydag amcan difrifol, a dechreua y tŵr balch gyfodi ei ben "i'r wybrenau." Ond mor wag ac egwan ydyw holl gynghorion dynol pan y cyfeirir hwy yn erbyn yr Arglwydd! Darlunia yr ysgrifenydd ysbrydoledig y Goruchaf fel yn dyfod i lawr i weled y ddinas a'r tŵr, a chan benderfynu y ca yr adeiladau beidio, trwy gymmysgu iaith yr adeiladwyr. Edrychir ar eiriau yr ysgrifenydd ysbrydoledig, fel eglurhad arall am y ffordd yn mha un yr ymostynga Duw i siarad yn ol dull dynion. Ond gwyddom nad rhaid iddo symud o le i le fel y byddai yn bresennol i weled gweithredoedd a chlywed geiriau dynion. Mabwysiada ddull rhyfeddol i ddwyn y gwaith yma i sefyll yn barhaus. Efe, yr Hwn a ffurfiodd y glust a'r tafod, ac a gyfranodd y ddawn o ymadrodd, yn awr a dry y ddawn gam ddefnyddiedig hono yn ffynhonell cymmysgedd, "Oblegid yno y cymmysgodd yr Arglwydd iaith yr holl ddaear," fel nad allent mwy ddeall iaith eu gilydd. Nis gellid cyfaddasu yr un cynllun yn well i dori i fyny y gorchwyl, na'r cymmysgedd ieithoedd yma yn mysg y gweithwyr. Yn awr, am y tro cyntaf, deua aelodau y teulu dynol mawr yn ddyeithr i'w gilydd; canys fel yr ysgrifenodd yr Apostol Paul ar ol hyn, "Oni wn i rym y llais, myfi a fyddaf farbariad i'r hwn sydd yn llefaru, a'r hwn sydd yn llefaru a fydd i mi yn farbariad." Diddymwyd yn hollol y gallu i sicrhau amcan y cydfradwriaeth mawr. Cyfundeb iaith ydyw y cyfrwng trwy yr hwn y dygir meddyliau i berthynas agos, ac y sefydlir nerth cydweithrediad i amcan mawr. Ond y mae y nerth yma yn awr wedi ei symud, a'r crynswth cyfanaidd unwaith, wedi ei wneyd yn ithion. Fel hyn y gorfodwyd hwy i roi i fyny eu bwriad, "a pheidiasant ac adeiladu y ddinas." Ofer ydoedd iddynt aros yn ymgynnulledig o amgylch y lle enwog hyn. Gwnaethai ymryson yn fuan ddilyn y cymmysgedd cyffredinol, i ochel yr hyn daeth yn anghenrheidiol i'r cynnulliadau hyny allent ymddiddan â'u gilydd, i ymsefydlu yn yr un tiriogaethau, a ffurfio yn genhedloedd.

Canfydda y rhai hyny ydynt wedi cymharu yn ofalus ieithoedd gwahanol bobl, gan nad pa mor annhebyg, y gellir eu dosbarthu hwy oll i dri chasgliad mawr, ac hyd yn oed fod gan y tri hyn y fath ranau o gytundeb

fel ag i ddangos eu bod oll wedi tarddu o'r un ffynhonell gyffredin. Ac y mae eto yn fwy hynod a chadarnhaol i'r hanes rhyfedd yma, eu bod yn ymddangos iddynt gael eu tori ymaith yn ddisymmwth, yn union fel y gwelwn mewn rhai rhanau o'r ddaear, fod creigiau wedi eu rhwygo drwyddynt gan rhyw ddirgryniad mawr natur. Mae Anffyddwyr wedi bod yn haeru, o herwydd yr amrywiaethau mawrion mewn iaith, nad allai y gwahanol genhedloedd byth darddu o'r un rhieni, ond mae eu gwrthddadl yn cael ei dadbrofi yn fuddugoliaethus gan y wyddor newydd —Cenedleg—oddiwrth yr hon y derbyniwn wrthddadl mwyaf nerthol dros unoliaeth yr hil ddynol.

Megys y mae cenhedloedd o ddynion wedi eu gwahanu oddiwrth eu gilydd fel hyn gan amrywiaeth tafodau, yr ydym yn cael pan yr ymddangosodd yr ail Adda i'w dwyn hwynt i'r teulu gwaredigol, i ddawn tafodau gael ei gyfranu mewn trefn i bob dyn allu clywed yn ei iaith ei hun fawrion weithredoedd Duw. Yr oedd y wyrth yn anghenrheidiol pan y cyhoeddwyd yr efengyl gyntaf i'r holl genhedloedd, ac yn yr oesau dilynol mae ieithoedd yn cael eu hastudio mewn trefn i wybodaeth iachawdwriaeth gael ei lledaenu dros y byd.

Cofnodir y dygwyddiad mawr yma o dan enw Babel, (cymmysgedd,) "oblegid yno y cymmysgodd yr Arglwydd iaith yr holl ddaear," enw yr hwn ar ol hyn a gadwyd yn Babilon, safle yr hon sydd wedi ei gael allan. Buwyd yn dychymygu mai y crug adfeiliedig a adwaenir fel y Birs Nimroud ydoedd Tŵr Babel, ond mae ymchwiliad diweddar yn profi unrhywdeb yr adfail hwnw â Nebuchodonosor, a'i amserau llawer mwy diweddar. Nid yw modd bynag yn anhebygol i Frenhin Babilon, yr hwn a ymffrostiai gymmaint yn ei adeiladau, wneyd defnydd o'r pentwr anorphenol—wedi myned yn ei amser ef yn grug mawr—fel safle a sylfaen adeilad sydd yn awr yn dwyn ei enw.

Ailgynhyrchir helbul Babel ar raddfa fechan, pan yr ydym yn camddeall geiriau ein gilydd, ac nad ydym yn ofalus i ufuddhau i'r gorchymyn ysbrydoledig: "Ac yr wyf yn attolwg i chwi, frodyr trwy enw ein Harglwydd Iesu Grist, ddywedyd o bawb o honoch chwi yr un peth, ac na byddo ymbleidio yn eich plith." Och! mynych, y gallwn ddysgu yn ein hamser ni fod ymraniad iaith yn arwain i wasgariad dynolryw.

(Darllener Genesis xi. 1—9.)

## PENNOD X.

### Y PATRIARCHIAID OL-DDILUWIOL.

SEM a'i deulu, heb fod yn mysg y mudwyr o'r dwyrain i Sinar, a ddiangasant rhag y drygfyd a syrthiodd ar adeiladwyr Babel. Eu hiaith, os nad yr Hebraeg cyfnod diweddarach, ydoedd y ffynhonell o'r hon y tarddodd yr Hebraeg, ac ieithoedd ereill o'r un teulu, a'r rhai hyd yr amser presenol a gymmerant eu henw—y Semitaidd—oddiwrth Sem. Mae yn hynod nad oes ynddynt ddim o'r nodau hyny o lygriad ac amrywiaeth mawr sydd yn rhedeg trwy yr ieithoedd lefarir gan hiliogaeth Ham a Japheth. Cyfeiria Moses gyda'r dyddordeb dyfnaf at Sem a'i olafiaid. Pan y dechreua achlin Sem, defnyddia y geiriau hynod hyn, "tad holl feibion Heber." Ymddengys fod yr Hebreaid wedi cael eu henw oddiwrth y disgynydd yma i Sem, ac fel yr oedd Moses, Hebrewr, yn ysgrifenu i'r Hebreaid, yr ydym yn deall pam y dylasai adgoffa i'w gydwladwyr mai Sem ydoedd eu cyndad. Mae yn debygol nad Sem ydoedd cyntafanedig Noah, er iddo etifeddu y fendith, canys gelwir Japheth "yr hynaf," ac ynddo ef fel yn Seth gwelwn y modd y trowyd y fendith o'i rhedfa naturiol, gan fyned trwy 'r mab ieuengach, yn lle yr hynaf, i ddysgu yr Iuddewon, ac i'n dysgu ninau, i beidio ymddiried mewn cnawd.

Mae gennym yn awr i edrych ar ysbaid o hanes patriarchaidd yn cyrhaedd dros ryw dri chant o flynyddoedd, yn yr hwn y cadwyd gwybodaeth o'r gwir Dduw a'i addoliad mewn ychydig o deuluoedd patriarchaidd, tra yr oedd eilunaddoliaeth a'i bechodau cydfynedol yn ymsefydlu fel cymylau trymion dros holl ranau yr hil ddynol. Gosodai Nimrod sylfeini ei unbenaeth yn Babilon, canys "dechreuad ei frenhiniaeth ef ydoedd Babel, ac Erech, ac Accad, a Chalneh, yn ngwlad Sinar." Gosodai Assur sylfeini llywodraeth gyffelyb yn mhellach i'r gorllewin, trwy adeiladu Ninifeh a dinasoedd ereill o'r Ymerodraeth Assyriaidd, alwyd ar ol ei enw. Yr oedd meibion Canaan—Sidon a Heth—yn lledu eu tiriogaeth tu a'r gorllewin at y môr mawr y Canoldir, "o Sidon, ffordd

yr elych i Gaza," gan gynhwys Sodom a Gomorrah. Trwy Misraim ymledai hiliogaeth Ham ar hyd dyffryn y Nile, a rhanau ereill o Africa; tra yr oedd meibion Japheth yn ymestyn dros "ynysoedd y cenhedloedd," yn gystal a rhanau canoldirol Europe.

Cyrhaeddodd Sem yr oedran patriarchaidd o chwe' chan' mlwydd, ac yr oedd ei gartref yn drigfa gwirionedd a duwioldeb. Fe sylwir fod ei hiliogaeth yn cael eu rhoi mewn dau ddull gwahanedig; y cyntaf gan gynhwys plant ei bum' mab, (x. 21—30,) fel ag i'w dangos "wrth eu teuluoedd, yn ol eu hieithioedd, yn eu gwledydd, trwy eu cenhedloedd;" ac yna, (xi. 10—26.) yn llinach Arphaxad yn unig, ac yn cyrhaedd i lawr i enedigaeth Abram. Perthyna yr amseryddiaeth cyntaf i hanes cyffredinol y byd; perthyna yr ail i hanes yr eglwys, a dengys i ni y modd y parhaodd yr "afon loew" trwy wahanol droadau a changhenau i "lifo'n mlaen," er fod rhwystrau lliosog a chryfion i'w mynediad syth a thawel.

Mae rhai ysgrifenwyr wedi priodoli i Sem yr oll a ddywedir am Melchisedec. Heb fabwysiadu y dyb yma, am ba un nid oes gennym yr un awdurdod uniongyrchol, ac ni chydsaif ychwaith â dirgelwch rhieniaeth Melchisedec, na'r lleoedd y trigent eu dau—Sem yn aros i'r dwyrain i Babilon, a Melchisedec yn Salem—nis gallwn amheu nad oedd yr hybarch batriarch yn mawr debygu i'r person sanctaidd gyfarfu âg Abram ac a'i bendithiodd. Yr oedd Sem yn offeiriad y Duw Goruchaf, gan uno yn ei berson ei hun awdurdod y patriarch, a dyledswyddau pwysig y swydd offeiriadol, gan wylio ei hiliogaeth rhag y gwrthgiliad ydoedd yn dyfod dros y cenhedloedd fel ail Ddiluw. Profai oedran mawr y patriarch-offeiriad hwn o'r gwerth uwchaf fel moddion i gadw hanes y gweithrediadau Dwyfol yn mysg dynion. Gallai ef, yn wir, "gofio blynyddoedd deheulaw y Goruchaf," a gallai adrodd i lawr hyd amser Isaac hanes y cynddiluwiaid, o annuwioldeb y rhai yr oedd yn dyst. Gallai ddweyd fel yr oeddynt yn gwawdio tra yr oedd ef a'i dad yn adeiladu yr arch, ac mor ofer y gwaeddasant am gymhorth pan y daeth y Diluw. Profai ei feddwl, wedi ei storio a hanes y gweithrediadau Dwyfol, a'r gwirioneddau cyssegredig ddatguddiodd Duw, a'r deddfau sanctaidd a roddodd, yn drysor gwerthfawr i'r hiliogaeth liosog o ba rai efe oedd y pen, ac yn ei achos ef yr oedd hir ddyddiau yn fendith i'r eglwys batriarchaidd, yn gystal

ag i'r byd. Fel hyn arosodd am fwy na phedwar can' mlynedd ar ol genedigaeth Abraham yn "ganwyll yn llosgi ac yn goleuo," yn y Dwyrain pell yna, lle yr ymddengys yr oedd terfynau ei breswylfod wedi ei bennodi.

Yr oedd trigfa Melchisedec yn Salem, yr hon wedi hyn a ddaeth yn Jerusalem. Mae ei darddiad yn fwriadol orchuddiedig gan dywyllwch, fe allai fel y byddai iddo wasanaethu i rag-gysgodi y Messiah. Nid rhaid i ni ddychymygu ei fod yn *llythyrenol*, "heb dad, heb fam," neu mewn un ystyr yn fwy na dyn. Yr ydym yn cyfarfod ag ef fel person hanesyddol yn hanes Abraham, yn sefyll i fyny dros achos y Duw Goruchaf yn Salem; tra yr oedd Sem fel y gwelsom, yn was ffyddlon iddo yn y Dwyrain pell. Yr oedd yn frenhin yn gystal ag offeiriad, ac ymddengys i ragoroldeb ei weinyddiad gael coffawdwriaeth yn enw ei ddinas. Gelwid hi Salem, oblegid fod ei bobl yno yn mwynhau y fendith o heddwch, ac fel hyn y safai allan mewn cyferbyniad nodedig i'r Babel ydoedd eto yn olygfa cymmysgedd, lle yr oedd y gwan yn ymdrechu yn erbyn traws-deyrnedd y cryf. Yr oedd yn Frenhin Salem, am ei fod yn Frenhin Cyfiawnder, ac yn ei deyrnasiad "gwaith cyfiawnder (oedd) heddwch." O dan ei awdurdod tadol trigai y bobl yn ddiogel. Gwireddolodd ef y darluniad prydferth roddwyd gan Ysbryd yr Arglwydd, pan y llefarodd trwy Dafydd, "Bydded llywodraethwr ar ddynion yn gyfiawn, yn llywodraethu mewn ofn Duw; ac efe a fydd fel y bore-oleuni, pan gyfodo haul foregwaith heb gymmylau; fel eginyn a dyf o'r ddaear, gan lewyrchiad yn ol gwlaw."

Yma ar uchelfanau cyssegredig Zion yr offrymodd y dyn sanctaidd hwn aberthau i'r Duw Goruchaf, ac yn yr oes foreuol hon, er nad oedd teml eto yn coroni ei ben, cyfodai perarogl offrwm pur oddiar yr allor batriarchaidd, a galwai i lawr y fendith o faddeuant a phurdeb ar yr addolwyr duwiol. Yma hefyd y rhoddid cysgod i'r gorthrymedig, ac yr estynid cefnogaeth i'r rhai hyny, fel Abraham, oeddynt eu campwyr. I'w cefnogi hwynt, â'i y dyn da hwn allan i'w hadnewyddu hwy â bara a gwin, ac i'w bendithio yn enw y Goruchaf.

Yr oedd "gwlad Us," yn olygfa arall o'r duwioldeb patriarchaidd hwn; canys yn ystod yr oes yr ydym ni yn awr yn ei hystyried, "yr oedd gŵr

yn ngwlad Us a'i enw Job." Us ydoedd ŵyr i Sem, a thybir fod ei "wlad" yn dalaeth yn ngogledd Diffaethwch Arabia, rhwng Idumea, Palestina, a'r Euphrates.[1] Cadwodd hefyd wybodaeth ac ofn y Gwir Dduw, ac yr oedd yn offeiriad ei deulu a'i wasanaethyddion lliosog; cyfodai yn foreu fel y gallai gyflwyno aberth boreuol ar eu rhan, gan ladd yr ebyrth a'u gosod ar yr allor, a chan eiriol drostynt hwy yn gystal a throsto ei hun. Yr ydym yn dysgu oddiwrth ei hanes y modd yn yr oes hono yr hyfforddai Duw ddyn, "trwy weledigaeth nos, pan syrthio trymgwsg ar ddynion," neu trwy wefusau yr hen, neu ysbrydoliaeth yr ieuangc, neu trwy ei lais ofnadwy ei Hun, fel pan y dynesai efe yn "ngoleuni dysglaer" y Shecinah, ac yr attebai y patriarch allan o'r corwynt. Ffynai addoliad y cyrff nefol yn nyddiau Job, a gwnaed cyfreithiau er ei attal; ond gwrthododd y gŵr perffaith ac uniawn hwn bob addoliad i'r goleuadau nefol, gan ddywedyd, "Os edrychais ar yr haul pan dywynnai, a'r lleuad yn cerdded yn ddisglair; ac os hudwyd fy nghalon yn guddiedig, ac os fy ngenau a gusanodd fy llaw; hyn hefyd fuasai anwiredd i'w gospi gan y barnwyr; canys gwadaswn Dduw uchod." Dengys holl Lyfr Job, fywyd sanctaidd a chyfiawn y patriarch, ei olygiadau uchel am y cymmeriad Dwyfol, ffordd maddeuant a chymmeradwyaeth, a'i barch dwfn i gyfraith eang Duw. Felly hefyd yn iaith ei gyfeillion, gwelwn radd uchel o ddoethineb sanctaidd, a myfyrdod duwiol ar weithredoedd a ffyrdd yr Arglwydd; er eu bod oll yn syrthio i'r camgymmeriad mawr, fod duwioldeb yn cael ei wobrwyo yn gyson â llwyddiant allanol, ac mai rhan y drygionus yn unig yw cystuddiau.

Fel hyn am ystod mwy na thri chan' mlynedd o wasgariad dynolryw hyd alwad Abraham, ni adawodd yr Arglwydd ei hun yn ddidyst, ac yr oedd yn y fan leiaf dri lle cyssegredig y parhäi y gwir oleuni i dywynu, ac ni ddiffoddwyd y tânau sanctaidd ar allor yr Arglwydd.

(Darllener Genesis x. 21—32; xi. 10 i'r diwedd. Llyfr Job. Hebreaid vii. 1—24.)

[1] Gesyd Syr H. Rawlinson, hi wrth ben Morgilfach Persia.

## PENNOD XI.

### ABRAM.

YN mysg canlyniadau diweddar ymchwiliad hynafiaethol, un o'r rhai mwyaf dyddorol yw darganfyddiad adfeilion yr hen ddinas hono lle ganwyd Abram.[1] Mae y lle cofiadwy hwn, y Mugeyer diweddar, ar ochr orllewinol yr afon Euphrates, mewn oddeutu un radd ar ddeg ar hugain lledred, a chwe' gradd a deugain hydred. Dygai un rhan o'r ddinas hynafol hon yr enw Ibra, yn debygol oddiwrth Eber, ei sylfaenydd, gan roddi i Abram yr enw Hebrëwr. Mae wedi ei awgrymu, fel ag mai hen enw y ddinas, Ur, yn arwyddo "tân," fod y bobl yn ymroddedig i addoliad yr elfen hono, canys nis gallwn amheu bodolaeth yn y tymhor boreuol hwn y ffurf hyny o eilunaddoliaeth sydd yn parhau yn mysg y Parsees hyd y dydd presennol.

Yma y galwodd Jehofah Abram gyntaf, yr hwn oedd i fod yn dderbynydd a cheidwedydd ei wirionedd, "tad y ffyddloniaid," pen pobl aml, a blaenorydd y Messiah, yn yr hwn yr oedd holl dylwythau y ddaear i gael eu bendithio. Mewn trefn i gyflawni yr amcan grasol hwn, galwyd ar Abram i adael y ddinas eilunaddolgar, a myned i wlad a ddanghosai yr Arglwydd iddo. Yr oedd ei daith gyntaf i fan yn lled bell i'r deheu o Ur, i'r lle yr ymddylynwyd ef gan Terah ei dad, Sarai ei wraig, a Lot, mab ei frawd Haran. Mewn cyfnod diweddarach ymunwyd â'r fyntai fechan hon gan Nahor a'i wraig Milcha, a'r lle yr ymsefydlasant, yr arosfa gyntaf hon i'r ffoaduriaid oddiwrth eilunaddoliaeth, a alwyd Haran, enw wrth yr hwn yr adwaenir ef hyd y dydd hwn, er coffawdwriaeth am fab Terah, yr hwn a fu farw yn Ur. Ar ol rhai blynyddoedd o ymdaith yn Haran, a phan yr oedd yn bymtheg a thriugin oed, galwyd Abram drachefn i fyned i'r wlad oedd Duw wedi drefnu iddo ef a'i hiliogaeth, a symmudodd mewn amgylchiadau o lwyddiant cynhyddol i Sichem, (Shechem,) yn ngwlad Canaan. Yno yr ymddanghosodd yr Arglwydd,

[1] Mae anrhydedd y darganfyddiad hwn yn ddyledus i'r diweddar W. K. Loftus, Ysw. Gwelwch Weithrediadau Cymdeithas Ddaeryddol Frenhinol, cyf. 1, tu dal. 47.

ac yr addawodd y wlad dda hon iddo ef a'i had, ac adeiladodd allor i Jehofah. Symmudodd yn nesaf i le yn mhellach i'r deheu, lle a alwodd ei ŵyr Jacob ar ol hyn Bethel, ac a gododd allor arall, gan alw ar enw Jehofah, ac fel hyn hawlio y wlad i Dduw a'i bobl.

Ond yn awr yr oedd yn rhaid iddo adael Bethel am dymhor, a myned i lawr i'r Aipht, "am drymhâu o'r newyn yn y tir." Disgyna cysgod tywyll yn awr ar hanes Abram. Er arbed ei fywyd fe ymgyrchodd at dwyll. Yr oedd yr Aipht wedi ymsuddo yn ddwfn i gamwedd, hyd yn oed yn y cyfnod boreuol hyn, ac Abram yn ofni y gallai Sarai gael ei dwyn ymaith i lys y brenhin, ar gyfrif ei thegwch, a erfyniodd arni ddweyd mai ei chwaer ydoedd. Tynodd yr ymddygiad annheilwng hyn warth ar y patriarch, a cheryddwyd ef yn gyfiawn am ei dwyll gan y brenhin eilunaddolgar. Wedi ei ollwng ymaith oddiwrth Pharaoh, dychwelodd i Bethel gyda chyfoeth cynhyddol, yr hwn na oddefwyd iddo ddiddyfnu ei galon oddiwrth Dduw, ar enw pa un y galwodd drachefn yn y lle cyntaf y lledodd ei babell, ac y cododd ei allor. Yma y gwelwn y canlyniad poenus i'r cynhydd hyn mewn defaid, gwartheg, a phebyll. Gwelodd Abram a Lot, "am fod eu cyfoeth yn helaeth, na allent drigo yn nghŷd." Mor rhyddgarol y cyfarfyddodd yr hybarch batriarch yr anhawsder, pan y dywedodd wrth Lot, "Na fydded cynnen, attolwg, rhyngof fi a thi, na rhwng fy mugeiliaid i a'th fugeiliaid di;....os ar y llaw aswy y troi di, minnau a droaf ar y ddehau; ac os ar y llaw ddehau, minnau a droaf ar yr aswy!" Gwnaeth Lot yn lle deisyf am i'r dewisiad orphwys gydag Abram, ei ddewisiad gyda golwg ar ei lwyddiant tymhorol yn unig, gan ofalu llawer am ei anifeiliaid, a dim am ei enaid. Aeth i ddyffryn ffrwythlon, ond yn mhell i ffwrdd oddiwrth gwmni duwiol, ac allor Duw, ac iddo yn gymmydogion "wŷr Sodom," y rhai oeddynt ddrygionus, a pechaduriaid dirfawr ger bron yr Arglwydd.

Ar ol ymadawiad Lot adnewyddodd Jehofah ei addewid i'w was ffyddlon, gan orchymyn iddo edrych o amgylch i'r Dwyrain, Gorllewin, Gogledd, Dehau, gan ddywedyd wrtho, "Yr holl dir a weli, i ti y rhoddaf ef, ac i'th had byth," gan erchi iddo ei thramwyo ar ei hyd a'i lled, a rhoddi iddo yr addewid y byddai i'w had y rhai a'i meddiannai, fod mor lliosog a llwch y ddaear.

Symmudodd Abram ei luest yn nesaf i wastadedd Mamre, yr hwn oedd yn agos i Hebron, ac a gododd allor arall i Jehofah. Mae gwastadedd Mamre ychydig yn fwy nag ugain milldir i'r dehau i Jerusalem, a derbyniodd yn debygol ei enw oddiwrth Mamre, un o dri chydymaith y patriarch yn ei ymlidiad ar ol y brenhinoedd a ddaliasant Lot. Gorwedda Hebron eto mewn dwfn esmwythder ar hyd gwastadedd Mamre. Yn ystod ei ymdaith maith yn y lle hyfryd hwn, galwyd ar Abram i weithredu rhan y rhyfelwr. Yr oedd brenhinoedd gormesol Persia a Chaldea, yn barod wedi estyn eu buddugoliaethau dros y talaethau lleiaf yn Palestina, ac wedi eu gosod dan warogaeth am ddeuddeng mlynedd. Yn awr gwrthryfelasant yn erbyn y dreth, ond yn unig i dynu arnynt eu hunain ddychrynfeydd goresgyniad arall, gan fyddinoedd cyngreiriol eu gorthrymwyr. Un o'r brenhinoedd hyn ydoedd Chedorlaomer. Y fath gadarnhad i'r hen hanesiaeth yma roddir gan ymchwiliad diweddar! Darllenir enw y brenhin hwn y dydd presennol ar briddfeini ei hen balas, gweddillion yr hwn geir ar safle y ddinas o'r hon y galwyd Abram—Ur y Caldeaid. Fel hyn yr ydym nid yn unig wedi ein cymysgaeddu â phrawf annibynol o'i fodolaeth, ond dywedir wrthym hefyd am y fan o'r hon y daeth. Ymladdwyd y frwydr yn nyffryn lleidiog Siddim, lle y cwympodd galluoedd gwanach Sodom, neu y gorfu iddynt ffoi, tra y cymmerodd y gorchfygwyr afael yn eu heiddo, ac a'u dygasant ymaith gyda'r caethion, ac yn eu mysg Lot a'i deulu. Pan y clywodd y patriarch fod Lot, ei nai, yn cael ei gymmeryd ymaith yn garcharor, fe arfogodd ei hun a'i dri chant a deunaw gweision, ac a ymlidiodd yr ysbeilwyr hyn hyd Damascus, lle y lladdodd y brenhinoedd gormesol, ac y rhyddhaodd y caethion, ac a'u dygodd yn ol yn fuddugoliaethus, gyda eu holl ysbail. Yn ei ddychweliad yr oedd gan Abram i fyned heibio Salem, yn agos i'r ddinas heddychol hon cyfarfu Melchisedec âg ef, ac a'i bendithiodd, gan weini er ei adloniad ef a'i bleidwyr gwrol, a chan dderbyn gan y gorchfygwr ddegwm o'r holl ysbail. O'r ysbail yma gwrthododd Abram gymmeryd, hyd yn oed "o edau hyd garrai esgid."

(Darllener Genesis xii.—xiv.)

## PENNOD XII.

### ABRAM.

Yn union ar ol gorchfygiad y brenhinoedd, pan yr oedd yn naturiol i Abram deimlo braw mawr, a phan yr oedd wedi gwrthod yn anrhydeddus bob gwobr oddiwrth ddyn, cyfarchodd Jehofah ef drachefn, ac mewn iaith dueddai i leddfu ei ofnau ac i gryfhau ei ffydd, "Nac ofna, Abram; myfi ydyw dy darian, dy wobr mawr iawn." Dechreua hanes y datguddiad cofiadwy hwn gyda golygfa nosawl, yn yr hon yr arweinia Jehofah ei was i fyny i uchelderau Hebron, a chyfarwydda ef i edrych tua'r nef a rhifo'r ser, a cheisio a allai eu cyfrif, gan sicrhau iddo mai yr un mor lliosog y byddai ei had. Credodd Abram, er nad oedd eto blentyn wedi eni iddo, yr addewid adnewyddwyd fel hyn; "a chyfrifwyd iddo yn gyfiawnder," a chafodd ei "gyfiawnhau trwy ffydd." Ar y dydd canlynol, trwy gyfarwyddyd Dwyfol, darparodd Abram aberth o nodweddiad neillduol, anner, gafr, a hwrdd, bob un o honynt yn dair blwydd, oll wedi eu hollti yn y canol, a phob rhan wedi eu gosod ar gyfer eu gilydd; cyflwynodd hefyd durtur, a chyw colommen. Nid oedd y math yma o aberth i gael ei offrymu ond yn unig pan y gwnelid cyfammod rhwng Duw a'i weision, yr offrymwr yn myned rhwng y rhanau, gan gydnabod fel hyn ei fod wedi haeddu marw. Yn ystod yr holl ddydd difrifol hwn, cedwid yr addolwr i ddysgwyl cael clywed beth a orchymynai yr Arglwydd, a gweled beth a wnai. Yn awr dychwela cysgodion y nos, a syrthia cysgodion dyfnach byth ar ei enaid. O'r diwedd clywir y llais Dwyfol, a dysga Abram ddyfodol ei hiliogaeth,—y bydd iddynt fyned i lawr i'r Aipht, ac aros yno mewn adfyd mawr am bedwar cant o flynyddoedd, o ba le y byddai iddynt ddod allan gyda chyfoeth mawr, a chymmeryd meddiant o'r wlad addawsid iddynt,—Abram yn y cyfamser wedi ei gladdu mewn oedran teg. Wedi dychwelyd y nos dywyll, cyflwynwyd golygfa llawn dirgelwch. Ffwrn yn mygu, a lamp danllyd yn tramwyo rhwng darnau yr aberth, fel ag i rag-ddangos y blynydd-

oedd o adfyd oedd yr Israeliaid i ddyoddef yn "mhair haiarn" yr Aipht, ac ar yr un pryd y cyfammod o fendithion yr hwn yr ymgyfranogent. Ac yn awr gwneir y cyfammod hwnw â Thad y ffyddloniaid, yr hwn a glywa y llais Dwyfol yn dywedyd, "I'th had di y rhoddais y wlad hon, o afon yr Aipht hyd yr afon fawr, afon Euphrates."

Aeth blynyddoedd heibio cyn genedigaeth y mab hir-addawedig, o'r hwn yr oedd yr hiliogaeth fawr yma i ddisgyn. Yn y cyfamser, yn ol trefniad Sarai, yr oedd Abram i fod yn dad i Ismael trwy Agar, Aiphtes, un o'r "gwasanaeth-ferched" gyflwynwyd iddo gan Pharaoh. Sarai ei meistres a'i "cystuddiodd hi," a hi "a ffodd rhagddi." Yr oedd yn eglur ei bwriad i ddychwelyd i'r Aipht, canys hi a ffodd i anialwch Sur, rhandir maith tywodlyd yn cyrhaedd dros gant a haner o filldiroedd, rhwng Palestina a'r Aipht, lle y cafodd angel Jehofah hi yn gorphwys wrth ffynhon o ddwfr. Yr oedd hi yn canlyn yr un ffordd gymmerir i'r dydd hwn gan y teithlu wrth fyned o Palestina i'r Aipht. Yr oedd y ffynhon hon yn fan nodedig yn ei hanes trist. Mor bruddaidd ydoedd sefyllfa y ffoadures unig! Nis gallai aros yn hwy yn nhy ei meistres, ymddygiad yr hon ydoedd wedi bod yn ddrwg a chreulon, a phan y byddai iddi ddychwelyd at ei theulu tylawd yn yr Aipht, nis gallai ragweled ond gwarth a dyoddefaint. Yn lluddedig gan ei thaith yn yr anialwch, ac wedi ymollwng yn ei henaid, gallai iddi gael ei themptio i goleddu meddyliau caledion am Dduw. Yma cyfarchwyd hi yn dirion gan angel yr Arglwydd, "Agar, morwyn Sarai, o ba le y daethost? ac i ba le yr ai di?" Pan yr attebodd mai ffoi yr ydoedd rhag gwyneb ei meistres, erfyniodd yr angel arni ddychwelyd, ac ymostwng iddi; rhydd ar yr un pryd addewid y bydd iddi sefyll uwch ben hiliogaeth liosog; darlunia nodwedd rhyfedd ei mhab, a rhydd yr enw wrth yr hwn y gelwid ef. Yr oedd yr enw hwnw, Ismael, sydd yn arwyddo "Gwrandawa Duw," neu gweinydda, yn ymrwymiad o'r gofal Dwyfol a ddanghoswyd yn drugarog yn ei hunigrwydd a'i chyfyngder. "Ni bu anufudd i'r weledigaeth nefol," am yr hon y cadwodd goffawdwriaeth mewn dull hynod Galwodd enw Jehofah yr hwn a lefarodd wrthi, El Roi, (y Duw gweledig,) canys dywedodd, "Oni welais Ef yn amlwg, ger llaw i mi?"[1]

[1] Boothroyd.

Cofnodwyd y dygwyddiad mawr yn yr enw roddwyd i'r lle a gyssegrodd. Galwyd y ffynhon Beer-lahai-roi, ffynhon yr Un Byw Gweledig. Fel hyn yr oedd tri o adgofion o'r Hollwybodaeth Dwyfol i gryfhau ei ffydd—yr enw roddwyd i'w mhab gan Jehofah—yr enw gymhwysodd hi i Dduw, yr hwn a amlygodd ei Hun iddi—a'r enw roddwyd i'r ffynhon gan y bobl i'r rhai yr adroddodd y weledigaeth ryfeddol.

Yr ydym yn gweled Agar drachefn yn mhen rhyw un mlynedd ar bymtheg wedi hyn, pan, gyda Ismael ei mhab, y bwriwyd hi ymaith o'i chartref yn mhabell Abram. Yr oeddynt wedi crwydro tua'r deheu, fel pe ar eu ffordd i'r Aipht, ac yr oedd eu darpariaeth brin wedi darfod. Yr oedd eu dyoddefiadau yn llai oddiwrth newyn na syched, y boen fwyaf i'r hon y mae teithwyr yn agored yn y tir tywodlyd hyny. Rhoddodd ei bachgen i lawr dan un o'r gwŷdd, a chrwydrodd oddeutu ergyd bwa oddiwrtho, canys dywedodd, "Ni allaf fi edrych ar y bachgen yn marw. Ac a ddyrchafodd ei llef ac a wylodd." Paham na alwasai ar Dduw wrth yr enw roddodd iddo—El Roi? A ydoedd wedi ei anghofio? Wrth ystyried y profiad ydoedd wedi ei gael o'r gofal Dwyfol pan y dianghodd oddiwrth ei meistres, gallasem ddysgwyl ei chlywed yn awr yn galw yn galonog arno Ef yr hwn a wnaeth ei Hun yn "Weledig" iddi, gan ddefnyddio y trugareddau a gafodd fel sylfaen dadl am gymhorth presennol. Ymddengys ei bod wedi anghofio Duw, ac wedi goddef i'r trugareddau wrth Beer-lahai-roi i aros heb ymlesoli oddiwrthynt. Ow! yr ydym yn rhy debyg iddi, pan ar ol ein holl brofiad o allu a daioni Dwyfol yn y blynyddoedd aethant heibio, y ca cystuddiau newyddion ni heb ymddiried yn ein Gwaredydd, ac heb appeliadau crediniol am Ei gymhorth. Os ydoedd hi, modd bynag, wedi anghofio Duw, nid oedd Ef wedi ei anghofio hi. Ymddanghosa eto, cerydda ei hofnau, adnewydda yr addewid am Ismael, a danghosa ffynhon o ddwfr o'r hon y llanwodd y gostrel wag, ac a roddodd i'w mhab i yfed. "Ac yr oedd Duw gyda 'r llangc; ac efe a gynnyddodd ac a drigodd yn yr anialwch, ac a aeth yn berchen bwa," ac yn gyndad rhan fawr o lwythau yr Arab gwyllt.

(Darllener Genesis xv.—xxv. 1—9.)

## PENNOD XIII.

### ABRAHAM.

PAN oedd Abram onid un mlwydd cant, ymddanghosodd y Duw Hollalluog drachefn iddo ef, ac adnewyddodd y cyfammod, gan newid ei enw o Abram, "tad uchel," i Abraham, "tad cenhedloedd," ac enw ei wraig o Sarai, "fy nhywysoges," i Sarah, "tywysoges," i gyfatteb i'r urddas roddwyd arno ef. Mewn blwyddyn o'r amser hyn yr oeddynt i fod yn rhieni i fab, enw yr hwn a elwid Isaac, "chwerthin," o'r hwn yr oedd cenhedloedd a brenhinoedd i ddisgyn; ac yr oedd yr enwau newyddion hyn o urddas i gyfatteb i'r mawredd wnai "y Duw Hollalluog" roi arnynt. Fel yr oedd y patriarch i sefyll uwch ben yr hil, ar y rhai yr oedd y fendith Ddwyfol i orphwys, yr oedd yn angenrheidiol iddo fod yn enwog am ei ffydd, ac o hyn bu yr amser maith aeth heibio o'r addewid hyd ei chyflawniad. Rhoddwyd cyfarwyddiadau yn awr am y ddefod o enwaediad, trwy yr hyn yr oedd Abraham a'i hiliogaeth i gael eu gwahaniaethu oddiwrth y cenhedloedd paganaidd; ac fe ufuddhawyd ar unwaith i'r cyfarwyddiadau yma.

Yr oedd tylwyth y patriarch y pryd hyn wedi dyfod yn fawr iawn, yn gynhwysedig o'r rhai "anesid yn tŷ, ac a brynasid â'i arian,"[1] ymadroddion y rhai ydynt wedi eu cymmeryd yn y modd mwyaf anheg i arwyddo ei fod yn berchen caethion. Ond nid yw yr ymadrodd cyntaf, "plentyn y teulu," yn arwyddo caethwas, neu fe ganlynai fod pob merch yn gaethes, canys mae yr un ymadrodd," a anesid yn tŷ," yn cael ei gymhwyso at ferch.[2] Cymhwysir yr ymadrodd "brynesid âg arian" at Ruth, gwraig Boaz,[3] ac nid oedd hi yn sicr yn gaethes. Arwydda yn syml eu bod wedi eu cael fel gwasanaethyddion am gyflog. Nid ydym yn darllen am ddim caethwasanaeth yn y teulu, neu yn ystod amser Abraham. Ni wnai Duw ganiatau i'w was cyfiawn "adeiladu ei dŷ trwy anghyfiawnder," neu "beri i'w gymmydog ei wasanaethu yn rhad, ac heb roddi iddo am ei waith."[4] Os ydoedd yr holl bersonau

[1] Genesis xvii. 27. [2] Leviticus xviii. 9. [3] Ruth iv. 10. [4] Jeremiah xxii. 13.

yma, y rhai a gyrhaeddasant ar ol hyn i dros ddeunaw cant, yn eiddo caeth, naill ai i gael eu gwerthu neu eu trosglwyddo, darllenasem am danynt fel meddiant Isaac, a Jacob ar ei ol. Nid oes modd bynag un crybwylliad am danynt ar ol amser Abraham,[1] er y dywedir wrthym, "Abraham a roddodd yr hyn oll oedd ganddo i Isaac."

Yr oedd y patriarch yn awr yn tawel fwynhau y daioni roddwyd arno ef, ac yn dysgwyl am gyflawniad yr addewid fawr, pan y cyflwynwyd prawf arall nodedig o ffafr Ddwyfol. Gwelwn ef eto yn Mamre, fel yr eisteddai "wrth ddrws y babell, yn ngwres y dydd" a phan y safodd tri o wŷr yn ei ymyl, ag ymddanghosiad teithwyr. Gwasgodd arnynt dderbyn ei groesawgarwch caredig, a chafodd iddo "lettya angylion yn ddiarwybod." Adnewyddasant hwythau hefyd yr addewid am enedigaeth Isaac, a cheryddasant chwerthiniad annghrediniol Sarah pan y clywodd yr addewid yn cael ei hadnewyddu. Amlygodd Jehofah drachefn ei hun i Abraham, mewn ffurff angylaidd, ac wedi iddo ddatgan ei fwriad i ddinystrio Sodom a Gomorrah, o achos eu drygioni dirfawr, cynhyrfwyd Abraham i eiriol ar eu rhan, a thrwy ei eiriolaeth rhyfeddol, addawodd yr Arglwydd beidio dinystrio y lle os ceid deg o rai cyfiawn o'i mhewn.

Aeth y negeswyr nefol yn awr i'w ffordd, eithr nid oedd ond yn unig i fod yn dystion o lygredigaeth anferth gwyr Sodom, ac i waredu Lot, a'i wraig, a'i ddwy ferch, o'r dinystr oedd ar ddyfod; canys gwlawiodd yr Arglwydd ar y dinasoedd "frwmstan, a thân oddiwrth yr Arglwydd."

Gadawodd Abraham yn awr Hebron, ac ymdeithiodd yn agos i Gerar, dinas Abimelech, brenhin Philistaidd. Yma pallodd ei ffydd yr ail waith; ail gyflawnodd y pechod o dwyll ydoedd wedi ei ddianrhydeddu ef yn yr Aipht, a darostyngwyd ef drachefn trwy y cerydd a weinyddodd brenhin eilunaddolgar iddo ef a'i wraig.

Ac yn awr, pan yr oedd y patriarch yn gant oed, ganwyd yr hiraddawedig Isaac. Niweidiwyd y llawenydd, "y chwerthin," cyssylltiedig a'r genedigaeth yn fuan trwy wawd Ismael, yr hwn, gyda ei fam, a fwriwyd allan yn ol dymuniad Sarah. Abimelech wrth weled llwyddiant cynhyddol y patriarch—ac fe allai wrth glywed am y mawredd addawedig


[1] Gwel "Euogrwydd Caethwasanaeth," gan Dr. Cheever, yn mha un mae y pwnc yma yn cael ei resymu yn alluog a gorphenol.

i'w had—a aeth at Abraham, a chynnygiodd gytundeb cyfeillgarwch, yr hwn a wnaethant trwy gyfammod difrifol. Ar yr un amser dychwelodd Abimelech i Abraham bydew dwfr a gloddiodd gweision y patriarch yn agos i'w luest, ac a ddygasai gwyr Abimelech trwy drais. Galwyd y ffynhon hon Beer-seba, "ffynhon y llw," "oblegid yno y tyngasant ill dau." Yma sefydlodd Abraham ei drigfa, ac yma y galwyd ef i roddi y prawf cryfaf o'i ffydd.

Y llais hwnw yr ufuddhaodd iddo mor fynych, a glywwyd yn awr eto yn dywedyd fel hyn, "Cymmer yn awr y mab yna...yr unig un a feddi... yr hwn a hoffaist...yr Isaac yna, a dos rhagot i dir Moriah, ac offryma ef yno yn boethoffrwm ar un o'r mynyddoedd yr hwn a ddywedwyf wrthyt." Arweiniodd ei ffydd dda-ddysgyblaethol i ufudd-dod parod i'r gorchymyn Dwyfol. Nid ymgynghorodd â chig a gwaed, na chyda ei reswm ei hun; ond gwelodd gwawr cynharol y boreu ef ar y ffordd i Moriah bell, mae yn debyg y fan lle codwyd y deml ar ol hyn. "Yno yr adeiladodd allor, ac a osododd y coed mewn trefn, ac a rwymodd Isaac ei fab," ac yr oedd yn barod wedi estyn ei law, a chymmeryd y gyllell i ladd ei fab, pan y clywwyd drachefn y llais Dwyfol yn dywedyd, "Na ddod dy law ar y llangc, ac na wna ddim iddo." Yr oedd ei ffydd yn awr yn fuddugol. Credodd yr oll a addawodd Duw, ac yr oedd yn barod i wneyd yr oll a orchymynai, er y gallai y gorchymyn ymddangos yn groes i'r addewid. Dychwelodd i Beer-seba, gyda ei fab yn fyw eto, fel yr ydoedd wedi hyderus ddysgwyl, ac yr oedd yn awr yn fwy o orchfygwr na phan y dychwelodd yn fuddugoliaethus o orchfygiad y brenhinoedd, canys, "hon yw yr oruchafiaeth sydd yn gorchfygu y byd, sef ein ffydd ni." Offrymodd Isaac, gan gredu fod Duw yn abl i'w gyfodi o feirw, "o ba le y cawsai efe hefyd mewn cyffelybiaeth."

Clywodd Abraham yn awr am lwyddiant ei berthynasau y rhai ydoedd wedi hir adael yn Haran, ac ymddengys ar dderbyniad y newydd yma i Sarah ddychwelyd i Haran, lle a elwid hefyd Caer-Arba—dinas Arba—a'r lle bu farw. "Ac Abraham a aeth i alaru am Sarah, ac i wylofain am dani hi," ac i'w chladdu yn yr ogof a brynasai gan Ephron yr Hethiad.

Mae cenadwri Eliazar, goruchwyliwr Abraham, i geisio gwraig i Isaac,



LEIGHTON, BROTHERS

ABRAHAM OFFERING UP ISAAC.

yn un o'r arddangosiadau mwyaf dyddorol o ffyddlondeb a challineb ar gof. Ysgrifenydd,[1] arosfa yr hwn yn y Dwyrain am gwarter canrif, sydd wedi ei wneyd yn gyfarwydd â'i golygfeydd a'i harferion, a sylwa, fod "yr hanes Biblaidd yma mor naturiol i un cyfarwydd a'r Dwyrain, mor brydferth hefyd, a thebyg i fywyd, a'r holl olygfa yn ymddangos i fod yn amgylchiad yn yr hwn y bu ef ei hun onid yn ddiweddar yn weithredydd." Tebyga pryder Abraham am i'w fab briodi un o'i gyfathrach, i arferiad presennol y penaethiaid Dwyreiniol. Cyfatteba y ddarpariaeth a'r ardrefniad i'r daith, âg arferion y wlad; nid ymgymmerid â hynt or fath i'r fath ddiben â dim anifeiliaid ereill, neu lai o rif. "Efe a wnaeth i'r camelod orwedd," a dyna yr agwedd raid iddynt gymmeryd y dydd presennol. Y lle y gwelodd Rebeccah ydoedd ffynhon yn agos i'r ddinas, ac ar y pryd hyn y ffynhon yw y lle o ymgynnulliad, ac os byddwch wedi colli eich cwmni cyn eich dyfodiad i dref, nid rhaid i chwi ond holi am y ffynhon, a chwi fyddwch yn sicr o'u cael. Yn awr, fel y pryd hyny, â y merched yn y prydnawn i dynu dwfr. Rebeccah yn dwyn ei hystên ar ei hysgwydd, ac yn ei disgyn ar ei llaw, gan ddywedyd yn llawen, "Yf, fy meistr," ydynt oll arweddion yr olygfa yr adgofir teithwyr o honi i'r dydd hwn. Mae croesawiad llettygar y dyeithr, y ddarpariaeth iddo ef a'i anifeiliaid, y cytundeb priodas wnaed gan y tad a'r brawd, yr anrhegion priodasol, y dull o ymadael, a gofal y llangces i ddisgyn oddi ar y camel a gorchuddio ei hun yn mhresennoldeb ei phriod dyfodol, oll yn cael eu heglurhau yn brydferth gan arferion a defodau diweddar.

(Darllener Genesis xvii.—xxv. 1—10.)

[1] Dr. W. M. Thomson. "Y Wlad a'r Llyfr," tu dal. 591 a 592.

## PENNOD XIV.

### Y MÔR MARW.

ER mwyn cadw hanes bywyd Abraham yn annhoredig, aethom dros hanes Lot yn bur gyflym, mewn cyssylltiad â dinystr Sodom, a'r dinasoedd cyfagos i'w gartref. Mae yn awr yn briodol i ni ail alw sylw at y rhan ddychrynllyd yma o'r hanes Biblaidd, ac at y wlad y cymmerodd le. Darlunia Moses (Deut. xxix. 23) y tir "wedi ei losgi oll gan frwmstan a halen; (yn dir) na heuir ef, ac na flaendardda, ac na ddaw i fyny un llysieuyn ynddo."

Fe ymwelwyd â golygfa y trychineb yma ar amrywiol adegau gan deithwyr deallus, y rhai ydynt oll yn unol yn eu cadarnhad i'r hanes ysgrythyrol.

Mae yr holl fro yn cyfatteb i'r sylw wnaed am dani yn yr hanes Dwyfol cyn dinystr dinasoedd y gwastadedd; mae digonol brawfion fod ei hagwedd bresennol wedi ei achosi gan y fath drychineb a'r un gofnodir yn yr Ysgrythyrau.

Gwelsom fod "dyffryn Siddim yn llawn o byllau clai," yn amser rhyfel pobl y diriogaeth hon â'i goresgynwyr. Os daeth y fath wlad ar ol hyn o dan ddwfr, gallem ddysgwyl i'r dwfr ddwyn prawf o'i sefyllfa flaenorol, trwy gario swm mawr o'r "clai" yma, neu losbŷg, i'w arwynebedd. Yr ydym yn cael yn ganlynol fod y môr hwn yn orlawn o Asphalt, yr hwn a dardda allan o'r "pyllau clai," ac oddiwrth hyn y gelwid ef gan y Groegiaid a'r Rhufeiniaid y Llyn Asphaltaidd. Pigir darnau mawrion o'r sylwedd yma i fyny ar y traeth, a cheir ef yn nofio ar wyneb y dwfr. Mae wedi bod yn hir yn nwydd masnachol, a phrynid ef gan yr hen Aiphtiaid y rhai ai defnyddient ef yn y gwaith o bêr-arogli. Yn yr amserau diweddar, mae wedi cael ei luchio i fyny yn symiau mawrion ar ol dygwyddiad daeargrynfeydd, a'i gasglu fel ysbail werthfawr gan yr Arabiaid. Sylwa Dr. Robinson, fod crynswth mawr o losbŷg wedi ei ganfod ar ol y daeargryn yn 1837, yn nofio ar y môr, ac iddo gael ei

daflu i dir ar yr ochr orllewinol, nid yn mhell o Usdum. Torodd y bobl ef i fyny gyda bwyeill, fel ag i'w gymmeryd i'r lan, ac yr oedd cynifer a deg a thriugain o ddynion wrth y gwaith yma, oddiwrth yr hyn y cyrhaeddasant elw mawr.

Drachefn, ar ol y fath drychineb ag a ddarlunia yr hanes, cyfiawnheir ni wrth edrych am brawf o hono yn sefyllfa bresennol y tir, a'r môr tufewnol. "Yr Arglwydd a wlawiodd ar Sodom a Gomorrah frwmstan, a thân oddiwrth yr Arglwydd, allan o'r nefoedd. Felly y dinystriodd efe y dinasoedd hyny, a'r holl wastadedd, a chnwd y ddaear." Gen. xix. 24, 25.) Gall darllenydd yr hanes yma gan hyny ofyn, pa le mae y prawf mai "brwmstan tanllyd" ydoedd yr offeryn a ddefnyddid yn y gwaith o ddinystrio? Ac mewn attebiad, yr ydym yn rhoddi iddo dystiolaeth yr oll a ymwelasant a'r fro.

Edrych gan hyny ar y Môr Marw yma, sydd rhyw ddeugain milldir o hyd, a rhwng chwech ac wyth milldir o led, oddieithr mewn un man lle mae yn culhau i ddim ond dwy filldir, trwy orynys lydan yn taflu allan o'r ochr orllewinol. Ar ei lan ceir cerrig y rhai a gynheuant yn rhanol yn y tân. Yma ceir halen, mygfaen, a math o lo a elwir *musca* gan yr Arabiaid, ac a ffurfia y "brwmstan a halen" am y rhai y llefara Moses yn yr adnod ddifynwyd uchod. Mae ei ddyfroedd yn llawn amrywiaeth o halen, oddiwrth y rhai y cyrhaeddant eu mawr dewder. Dywed un teithydd wrthym, Dr. Robinson, yr hwn, mewn amgylchiadau cyffredin, sydd yn analluog i nofio, y gallai yn y dwfr hwn eistedd, sefyll, gorwedd, neu nofio heb anhawsder. Dywed un arall, Dr. W. M. Thomson, "Mae yn y dwfr lawer mwy o briodbwys na'r corff dynol, a thrwy hyn ni suddais yn is na'r breichiau pan yn sefyll yn syth ynddo. Gorchuddir yr ychydig gychod ollyngwyd ar y dyfroedd hyn, gan waddod gludiog annymunol; rhydir haiarn mewn dull anarferol, ac ymddengys fel pe wedi ei orchuddio â chlytiau o lo-ulbyg, tra y gadawa y droch helïaidd ei hun ar ddillad y teithwyr. Erys yn y croen, ac ymdafla i'r llygaid, y geneu, a'r ffroenau, a chynhyrcha syched parhaus, cysgadrwydd, a choll archwaeth.

Trwy ymchwiliad gofalus o dan chwydd-wydr, mae y sylwedydd wedi bod yn analluog i ganfod yn y dwfr yma yr ôl lleiaf o fywyd anifeilaidd.

Yr ychydig bysgod a ddygir i'r llyn o'r Iorddonen, a fyddant feirw mor gynted y cyrhaeddant yr elfen farwol hyn, ac ni welir adar yn agos iddo ond ar brydiau anfynych iawn, a phan y maent ar eu ffordd i olygfeydd ereill.

Gwnaed cynhygiadau gan ymdeithydd Ffrancaidd i ddarganfod gweddillion y dinasoedd a ddymchwelodd yr Arglwydd; ond nid yw ffrwyth ei ymchwiliadau yn cael eu hystyried yn foddhaol, ac y mae bob amser yn niweidiol i'r hanes ysbrydoledig, i ddwyn prawf amheuol o'i wirionedd. Rhaid i ni modd bynag beidio edrych dros y ffaith fod enw Sodom yn cael ei gadw gan yr Arabiaid yn ngwastadedd *Usdum;* mynydd Sodom yn *Djebel Usdum;* a dyffryn Soar yn Ouad-ez-Zouera. Y dynesiad agosaf i ddarganfyddiad un o'r hen safleoedd hyn a berthyna i Soar, ac hyd yn oed yn ffafr y lle yma byddai yn rhy gynnar yn awr i benderfynu.

Nyni a ddarllenwn fod "holl wastadedd yr Iorddonen yn ddyfradwy oll, cyn i'r Arglwydd ddifetha Sodom," ac ar yr adroddiad yma mae yn ddyddorol i ni sylwi ar nodiadau sylwedydd tra deallus, gan yr hwn mae yr olygfa wedi ei chwilio yn fanwl iawn. Dywed Dr. Thomson: "Fy marn i ydyw hyd ddinystr Sodom mai llyn o ddwfr croew ydoedd hwn; ac i'w nodweddiad gael ei newid y pryd hyn trwy ymwthiad oddi waered craig halen, a chynhyrchion llosgfalaidd ereill, sydd wedi ei wneyd mor dra chwerw a gwrthwynebol. Gwelir prawfion o'r fath weithrediad ac ymwthiad ar grib craig halen elwir Usdum, yn mhen deheuol y môr, ac mhresennoldeb gwybyg a llosbŷg yn ei ddyfroedd. Gan fod y llyn ar y cyntaf yn fyrach o gymmaint a hyd gwastad-diroedd Sodom a Gomorrah yma, fe godai o angenrheidrwydd yn llawer uwch yn ystod y tymhor gwlawog nag y gwna yn awr." "Yr wyf yn tybio fod y gwastadedd deheuol ar yr hwn y safai y dinasoedd, yn weithredol orlifedig gan ddwfr croew yn adeg codiad y llyn, yn union fel y gorlifa y Nile wlad yr Aipht, 'ffordd yr elych i Soar,' a phan y ciliai y dwfr, heuid yr holl wastadedd, yn union fel yr oedd ac y mae yn yr Aipht. Nid rhaid i ni ond tybied y gwyddai y trigolion y modd i reoli codiad y llyn trwy argloddiau fel y gwnai yr Aiphtiaid i'r Nile, nad yw yr holl ddirgelwch am ffrwythlondeb y tir wedi ei eglurhau."

Mae fel hyn gyssylltiad hynod rhwng achosion naturiol a moesol

dinystr y dinasoedd hyn. Gwnai dyddyfriad digonol y gwastadedd, brasder y tir, ar yr hwn y mae glaswellt yn awr yn tyfu, er ei fod yn orchuddedig gan y môr halen yma, a'r gwres sydd yn tarddu o natur llosgfalaidd yr ardal, oll ddwyn yn mlaen ffrwythlondeb o radd uchel. Dylynwyd llawnder ô fara gan orfoethau, fel ag yr oedd esmwythder a gloddest yn meithrin llygredigaeth. Llwythwyd y fro yn mha un yr oedd y bobl hyn yn gwneyd eu had-daliad anniolchgar am eu trugareddau âg offerynau eu cosp, a chynheuodd eu pechod eu hunain y tânau trwy y rhai y dinystriwyd hwy a'u trigfannau. Yr oedd eu cosp "oddiwrth yr Arglwydd, allan o'r nefoedd," ac nid oedd y gosp Ddwyfol yn llai hynod os cynhyrchwyd ei gweinyddiad trwy ddefnyddio fel gweision y llid Dwyfol, holl elfenau dinystr pa rai a gynhwysai yr ardal gylchynol.

Fel yr edrychai Abraham o'i drigfa yn Hebron yn y boreuddydd, "Wele, cyfododd mŵg y tir fel mŵg ffwrn." Yn y pellder o rhyw ddeg milldir ar hugain, gwelodd y fflamau yn mha rai y llosgid y pechaduriaid hyn. Ac onid allwn ni edrych yn ol dros ysbaid maith oesau, a dysgu y wers ddifrifol mae yr hanes yma wedi ei fwriadu i'w dysgu? Bydded i ni "gofio gwraig Lot," yr hon yn nghynhyrfiad dychryn a ffodd o'r goddaith, ac yn lle prysuro ei ffoedigaeth nes sicrhau diogelwch, a drodd ac a edrychodd yn ol gyda rhyw hoffder pechadurus i'r ddinas ddrygionus, a daeth yn gofgolofn o'r llid oddiwrth yr hwn y gallasai ddianc. Rhaid i ni wrando ar y rhybudd: "O herwydd bod digofaint, gochel rhag iddo dy gymmeryd di ymaith a'i ddyrnod; yna ni'th wared iawn mawr." Pan yr ydym yn gweled Duw yn "troi y dinasoedd hyn yn lludw...gan eu gosod yn esiampl (rhybudd) i'r rhai a fyddent yn annuwiol," oni ddylem dalu sylw i'r llais angylaidd sydd yn dywedyd wrth bob un o honom, "Diangc am dy einioes; nac edrych ar dy ol, ac na saf yn yr holl wastadedd; diangc i'r mynydd rhag dy ddifetha." Bydded i ni ffoi trwy ffydd at Grist yr hwn yn unig sydd yn "ymguddfa rhag y gwynt, ac yn lloches rhag y dymmestl."

## PENNOD XV.

### BYWYD JACOB HYD NES YR AETH I LAWR I'R AIPHT.

JACOB, mab Isaac, etifedd bendith Abraham, a phen y deuddeg llwyth, a feddianna ran helaeth o hanes boreuol y Bibl, ac o ranau ereill o'r Ysgrythyr Lân. Yr oedd ei enedigaeth yn atebiad i weddi daer ei dad, ac yn gydfynedol âg awgrymiad hynod, fel er mai efe oedd yr ieuengaf o'r gefeilliaid, "Yr hynaf a wasanaetha yr ieuengaf." Yr enedigaeth-fraint yr hon a ddïystyrodd Esau, a fawr brisiodd Jacob, a chymmerodd gyfle cynharol i sicrhau hawl gyfreithiol i'w meddiannu trwy bryniad, "am un saig o fwyd."

Pan "wedi heneiddio o Isaac a thywyllu ei lygaid fel na welai," ac y rhybuddid ef gan ei nerth diflanedig ei bod yn amser i drosglwyddo i'w fab hynaf y fendith oedd i ddisgyn i genhedlaethau dylynol, fe orchymynodd i Esau ddarparu gwledd, a dyfod i dderbyn y fendith fawr. Rebecca yn ol cipglywed y cyfarwyddyd yma, a ymgyrchodd â moddion pechadurus i sicrhau y fendith i'w mhab hoff Jacob.

Dylid sylwi i Jacob ar y cyntaf wrthod y cynhyg, gan ofni y ceid y twyll allan, ac y derbyniasai felldith yn lle bendith; ond goruwchreolwyd ei wrthwynebiad gan ddylanwad mam. Dengys yr adroddiad yma, roddir yn Gen. xxvii., ffyddlondeb yr hanes sanctaidd, yr hwn a gofnoda feiau a phechodau dynion da yn gystal a'u rhinweddau, a'r modd y goruwchreola yr Arglwydd hwynt oll er cyflawni ei fwriad, yn gystal a chospedigaeth drygioni. Nid oedd Esau, yr hwn a ddïystyrodd ei enedigaeth-fraint, yn berson cymhwys i'w hetifeddu.

Yr oedd Rebecca a'i mhab Jacob yn gwybod mai efe oedd i etifeddu y fendith, a'u pechod oedd yn lle aros i weled y modd y gwnai yr Arglwydd yn ei ffordd ei hun gyflawni Ei fwriad, iddynt fabwysiadu cynllun gwyrdraws o'r eiddo eu hunain i gymmeryd gafael yn y daioni a addawodd Duw. Dywedasant yn ymarferol, "Gwnawn ddrwg, fel y del daioni."

Dygodd digter Esau pan y collodd yr enedigaeth-fraint ofid yn uniongyrchol ar y rhai hyny gan ba rai yr arferwyd twyll, a gwahanodd y fam oddiwrth y mab. Ac eto oni anfonir ef i ffordd gyda "bendith

Abraham," yr hon a fawr werthfawrogai, ac nid oedd Isaac yn ol o roi cynghorion cyfaddas i un gan yr hwn yr oedd i gael ei mwynhau. Sicrhawyd y ffoadur truan ar ei ffordd i Haran, tra yn cysgu yn yr awyr agored heb ddim ond careg yn obenydd, mai ei eiddo ef fyddai y fendith, ac yr âi Duw Abraham gydag ef, a'i gadw ef lle bynag yr âi, a'i arwain yn ol yn ddiogel i Ganaan. Hawlia teimladau Jacob ein hedmygedd pan y dywedodd, "Mor ofnadwy yw lle hwn! nid oes yma onid tŷ i Dduw, a dyma borth y nefoedd;" a'i ofal i wneyd coffawdwriaeth am y weledigaeth Ddwyfol, pan y trôdd ei obenydd careg yn gofarwydd cyssegredig, gan eu bod yn gosod allan yr ymdeimlad uchel grefyddol oedd yn awr yn dechreu ymweithio yn ei galon.

Dylynwch ef yn ei daith i Haran, lle triga eto lawer o'i berthynasau, a gwelwch ei golygfeydd bugeiliol prydferth. Sylwch mor garedig y croesawir ef yn eu mysg, ac y treulia yno rhyw ugain o'r blynyddoedd mwyaf pwysig o'i fywyd. Darllenir yr holl hanesion hyn yn oreu yn y cofnodiad ysbrydoledig,—i'w darllen yn ofalus dymunwn am i'n darllenwyr gael eu cyfarwyddo. Yma priododd Jacob ei ddwy wraig; canys ow! ymdaenai amlwreiciaeth yn awr yn y linell ffafredig hon, yn gystal ag yn mysg y cenhedloedd eilun-addolgar. Yma y daeth yn dad deuddeg pen y llwythau Iuddewig, ond Benjamin ei fab ieuengaf, ac er gorthrwm caled Laban, cynhyddodd ei braidd ef yn fawr, yn gystal a'r eiddo Laban.

Nis gallai Jacob a'i deulu ddyoddef yn hwy y driniaeth annheg dderbynient oddiwrth ei dad yn nghyfraith, ac felly dianghasant ymaith yn ddiarwybod, ac aethant mor bell a Mynydd Gilead. Dylyna Laban ef gyda brys, ac yn ddiamheuol gyda llid; ond ffrwyna Duw yn drugarog y llid hwnw mewn gweledigaeth nos. Un o'r cyhuddiadau ddygai Laban oedd fod Jacob wedi lladratta ei dduwiau. Fel hyn gwelwn y modd yr oedd eilun-addoliaeth wedi llusgo i'r teulu yma. Nid oeddynt yn rhan o'r dyrfa a addolai yn gyhoeddus yn y deml eilun-addolaidd, ond yr oedd ganddynt eilun-dduwiau yn eu tai. Gwnaed y cwrddle yma yn Mispah yn gofiadwy trwy y garnedd a godwyd yno, i fod yn dyst-golofn nad oedd na Laban na Jacob i fyned drosodd gyda bwriadau gelynol at eu gilydd.

Croesliniwyd bywyd Jacob gan liaws o olygfeydd trallodus. Nid cynt yr ymadawodd oddiwrth Laban, nag y dechreuodd ofni ei gyfarfyddiad

a'i frawd Esau. Hynodir ei ymddygiad ar yr achlysur yma trwy ymuniad callineb mawr gyda gwir dduwioldeb. Mae ei weddi gofnodir yn Gen. xxxii. 9—12, yr un mor hynod am ei doethineb a'i ffydd. Fe ddefnyddiodd ei holl ddoethineb ar yr un pryd ag y gweddïai gyda y brwdfrydedd mwyaf. Gwnaeth ei drefniadau goreu i feddalu calon Esau, ac amddiffyn ei deulu ei hun, ac wedi gwneyd yr oll, fe weddïodd drachefn fel na weddïa nemawr byth, "wylodd, ac ymbiliodd; cafodd nerth ar yr angel, a gorchfygodd." "A Jacob a alwodd enw y fan Penïel;" gan ddweyd, "Gwelais Dduw wyneb yn wyneb, a diangodd fy einioes. A'r haul a gyfodasai arno fel yr oedd yn myned dros Penuel, ac yr oedd efe yn gloff o'i glun. Am hynny plant Israel ni fwyttânt y gewyn a giliodd, yr hwn sydd o fewn cysswllt y forddwyd, hyd y dydd hwn; oblegid cyffwrdd â chysswllt morddwyd Jacob ar y gewyn a giliodd."

Ni arferwyd y weddi gref hon yn lle yr holl drefniadau doeth a allasai Israel ddefnyddio, a choronodd Duw yr oll â llwyddiant gogoneddus. Gwelwch gyfarfyddiad y ddau frawd yma, un mor ddiweddar yn ofnus, a'r llall yn ffyrnig. "Ac yntau (Jacob) a gerddodd o'u blaen hwynt, ac a ymostyngodd i lawr seithwaith, oni ddaeth efe yn agos at ei frawd. Ac Esau a redodd i'w gyfarfod ef, ac a'i cofleidiodd ef, ac a syrthiodd ar ei wddf ef, ac a'i cusanodd ef; a hwy a wylasant." Ond ni *chyd-drigodd* y brodyr hyn yn hir. Nid oedd ganddynt un rhwymyn undeb pellach na chyd-waedoliaeth yn unig. "Felly Esau y dydd hwnnw a ddychwelodd ar hyd ei ffordd ei hun i Seir. A Jacob a gerddodd i Succoth, ac a adeiladodd iddo dŷ, ac a wnaeth fythod i'w anifeiliaid; am hynny efe a alwodd enw y lle Succoth." Cyssegrwyd trigfa Jacob, er na chynhwysai ond yn unig y pebyll (Succoth) ledasai yn Sichem, gan y presennoldeb Dwyfol; canys efe "a osododd yno allor, ac a'i henwodd El-Elohe-Israel."

Yn awr cyfarwyddir ef i le cyssegredig arall, un â'r hwn y dylasai ymweled yn gynt yn ol ei adduned ei hun. Adgofia Duw ef o'i adduned. "A Duw a ddywedodd wrth Jacob, Cyfod, esgyn i Bethel, a thrig yno; a gwna yno allor i Dduw, yr hwn a ymddangosodd i ti pan ffoaist o ŵydd Esau dy frawd;" ac ufuddha Jacob yn rhwydd, gan orchymyn i'w deulu ymbarattoi i ddod gydag ef, gan ddywedyd, "Bwriwch ymaith y

duwiau dieithr sydd yn eich plith chwi, ac ymlanhewch, a newidiwch eich dillad; a chyfodwn, ac esgynwn i Bethel; ac yno y gwnaf allor i Dduw, yr hwn a'm gwrandawodd yn nydd fy nghyfyngder, ac a fu gydâ myfi yn y ffordd a gerddais. A hwy a roddasant at Jacob yr holl dduwiau dieithr y rhai oedd yn eu llaw hwynt, a'r clust-dlysau oedd yn eu clustiau; a Jacob a'u cuddiodd hwynt dan y dderwen oedd yn ymyl Sichem." Yr oedd y wersyllfa yn agos i ddinas Luz, ac yno codwyd allor arall i Dduw, Duw Bethel. Yno hefyd syrthiodd cysgod marwolaeth. Yno y mwynhawyd y presennoldeb Dwyfol, ac y cyfranwyd drachefn y fendith Abrahamaidd yn y modd mwyaf gostyngedig a thirion. Wrth deithio ychydig ffordd o Bethel i Ephrath, daethant i orphwysfa arall, yr hwn fwriadid rai blynyddoedd yn ddiweddarach i fod byth yn fwy cofiadwy fel lle genedigaeth Iesu Grist. Tra yn ymdeithio yn y lle hwn, galwyd ar Jacob i Mamre, gydag Esau, i gau llygaid eu hybarch dad, Isaac, yr hwn ar ol bywyd o heddwch cymharol, fu farw mewn ffydd o'r addewid fawr am y Messiah.

Syrthiodd cysgod lled dywyll yn fuan ar lwybr Jacob. Yr anwyl Joseph, i'r hwn yr oedd yr hoffus dad wedi gwneyd siacced fraith, ni allai ddal o flaen cenfigen ei frodyr. Yr oedd gan Dduw fwriadau mawrion i'w cyflawni trwy y llanc hawddgar hwn, a phan yr adroddai yn ddiddichell y breuddwydion yn y rhai yr awgrymid y bwriadau hyn, "hwy a chwanegasant etto ei gasâu ef." Ni bu yn hir cyn iddynt ei werthu ef i fyntai o farchnadwyr Midianaidd, er ugain darn o arian. Wrth geisio ffurfio esgus i Jacob am golli ei fab, ychwanegasant at eu creulondeb, fel y dygent y siacced fraith i'r tad, a dywedasant, "Hon a gawsom; myn wybod yn awr, ai siacced dy fab yw hi, ai nad ê?" A Jacob a ddywedodd, "Bwystfil drwg ai bwyttaodd ef; mae Joseph yn ddiamheu wedi ei larpio yn ddarnau." Ac er i'w holl feibion a merched gyfodi i'w gysuro ef, dywedai, "Yn ddïau disgynaf yn alarus at fy mab i'r beddrod." Yma gwelwn, fel y sylwyd yn dda, hen ddyoddefydd a'i glwyfau yn gwaedu o newydd; ynfydrwydd yn gwynio o dan ei wialen ei hun—y siacced hyny ydoedd achos y cydfradwriaeth yma; gofid yn tynu casgliadau yn y tywyllwch—ni ddylasai ddweyd fod Joseph yn ddiamheu wedi ei larpio yn ddarnau.

(Darllener o Genesis xxv.)

## PENNOD XVI.

### BYWYD JOSEPH.

Y MASNACHWYR Ismaelaidd y rhai a ymdrafnidient mewn "eneidiau dynion," ydynt y caeth-faelwyr cyntaf am y rhai y mae gennym un hanes. Medrasant yn fuan gael prynwr i'r dâ dynol yma, canys yr oedd yr Aipht yn ymlochi yn y pechod o ddal caethion yn y cyfnod hyn, a chan fod Joseph yn hynod am ei harddwch, yr hyn hyd y dydd hwn sydd yn enwog gan feirdd Dwyreiniol, fe'i prynwyd yn union gan Potiphar, cadben y gwarchlu brenhinol, yr hwn yn fuan a'i gwnaeth yn olygwr ar ei dŷ. Gelwir ef yn Aiphtwr, i'w wahaniaethu ef oddiwrth liaws o bersonau oeddynt y pryd hyny mewn swydd, y rhai er eu bod yn trigo yn yr Aipht, a berthynent i hiliogaeth arall, gan y rhai yr oedd y wlad wedi ei gorchfygu. Mor brydferth oedd cymeriad Joseph yn y cyfnod boreuol yma o'i fywyd. Yr oedd yn was i'r Jehofah, ac yr oedd "yr Arglwydd gydag ef." Yr oedd bendith yr Arglwydd arno, ofn Duw yn ei galon; a bendithiodd yr Arglwydd yr Aiphtiaid er ei fwyn. Cylchynid ef gan demptasiynau, a phrofasai harddwch ei berson yn fagl iddo, oni bai yr egwyddor uchel grefyddol hono gan yr hon y dylanwadid ef. Ymegyr ei fywyd gyda buddugoliaeth ogoneddus ar demptasiwn. Yr oedd yr Aiphtiaid yn barod wedi ymsuddo i sefyllfa isel o foesau, a dengys eu cofadeiladau, fod merched yn gystal a dynion wedi ymroddi i annghymmedroldeb, yr hwn a arweiniai i bechodau diraddiol ereill. Cadwyd Joseph rhag y pechod y temptiwyd ef gan amcanion uwch na challineb dynol, fel y dysgwn oddiwrth ei eiriau ei hun, "Pa fodd y gallaf wneuthur y mawrddrwg hwn, a phechu yn erbyn Duw?" (Gen. xxxix. 9.)

Yr oedd Joseph yn awr yn gorfod dyoddef am na wnai bechu, a gadawodd ei hun yn ewyllysgar yn llaw Duw. Taflwyd ef i'r carchar brenhinol, "Ond yr Arglwydd oedd gyd â Joseph, ac a ddangosodd iddo ef drugaredd, ac a roddes ffafr iddo yngolwg pennaeth y carchardy." Yma dau o'r carcharorion, o dan ei ofal, y pen-trulliad a phobydd y brenhin, a gawsant freuddwydion, gan y rhai y trallodwyd hwynt, ac nis gallent

gael yr un deonglwr iddynt ond Joseph. Galluogodd Duw ef, i'r hwn y perthyna deongliadau, fel y dysgodd hwynt, i ddarllen pob breuddwyd, a dweyd i bob breuddwydiwr ei ddyfodol. Yr oedd pen-pobydd neu chwegfwydyddydd Pharaoh, yn berson o bwys yn y tŷ brenhinol, gan fod danteithion ei gelfyddyd yn cael eu mawr brisio gan yr Aiphtiaid, a chafwyd hwynt wedi eu claddu gyda'r corffoethod yn y beddau. Mae yr arferiad o gario bara neu deisenau ar y pen, fel y gosodir allan yn y freuddwyd, yn cael ei ddarlunio ar y cof-adeiladau gan arlunydd Aiphtiaidd. Gallai fod y pen-pobydd wedi cael ei ddrwgdybio o gynghreirio i wenwyno y brenhin â'i ddanteithfwyd. Felly gallai y pen-trulliad syrthio i ddrwgdybiaeth fel y gwasgai sudd y grawnwin i gwppan Pharaoh. Gwadid unwaith fod yr Aiphtiaid yn tyfu grawnwin ac yn yfed y sudd, ond y mae yr holl weithrediad wedi ei gael allan er ys hir amser yn mysg darluniau eu harlunwyr. Nid oedd y Pharaohaid oeddynt ar orsedd yr Aipht, yn debyg i rai o'u rhagflaenoriaid, yn annghynefin âg ymarferyd a gwin; daeth eu teulu o wlad lle yr yfid gwin, ac yr addolid Bacchus. Cyfeiria y freuddwyd at yr arferiad neillduol o yfed y sudd mor gynted y gwesgid ef o'r grawnwin. Yn mhen tridiau wedi hyn, profwyd gwirionedd y deongliadau, pan y crogwyd y pen-pobydd, ac y gosodwyd y pen-trulliad eilwaith yn ei swydd. "Ond y pen-trulliad ni chofiodd Joseph, eithr anghofiodd ef."

Ni anghofiodd yr Arglwydd Joseph. Yr oedd yn awr yn ddeg-ar-hugain oed, pan un boreu y galwyd ef yn frysiog i adael ei ddaiargell, i eillio fel y gwnai yr Aiphtiaid, i roi o'r neilldu ddillad y carchar, i ymwisgo, ac ymddangos ger bron Pharaoh. Yn ystod y nos flaenorol cafodd y brenhin freuddwyd, yr hon nid allai yr un o'r doethion oddeutu y llys ddeongli. Nid cynt yr adroddwyd hi gan y brenhin, nag yr eglurwyd hi gan y caethwas Hebreig. Hanes yr Aipht am y pedair blynedd-ar-ddeg nesaf—y saith mlynedd llawnder a'r saith mlynedd newyn—a ragfynegwyd. Nid yn unig deonglodd y gŵr ieuangc freuddwyd y brenhin, ond aeth yn mlaen i roddi cyngor am y llwybr ddylid ddylyn. Yn ngolwg y brenhin a'r holl lys, "y peth oedd dda," ac fod y cynghorydd ieuaingc yma âg "Yspryd Duw ynddo." Gosodwyd Joseph ar unwaith "yn ben ar holl wlad yr Aipht;" ac yn awr gwelwn

pam y goddefwyd iddo ddyoddef oddiwrth au gyhuddwr, ac i orwedd yn y carchar am dair blynedd. Gollyngwyd y carcharor truan yn rhydd, cafodd ei wisgo mewn gwisg o liain main, ei addurno â chadwyn aur, ei ymddiried â modrwy sel y brenhin, arwyddion o'i swydd uchel, a'i ddyweddïo i ferch Potiphera, archoffeiriad On, ac yna anfonwyd ef trwy Memphis yn eistedd yn ei deyrn-gerbyd, a'r cyhoeddwyr o'i flaen yn llefain, "Plygwch y glin." Arfogir ef â gallu unbenol, canys tra y ceidw Pharaoh yr orsedd, dywed y brenhin, "Hebot ti ni chyfyd gŵr ei law na'i droed, trwy holl wlad yr Aipht." I fwyhau ei neillduolrwydd, derbynia o'r gwefusau brenhinol enw newydd, Saphnath-paaneah. Cyfieithid y teitl yma, "datguddiwr dirgelion," a "gwaredwr yr oes;" ond y mae meddwl arall a mwy mynegiadol wedi cael ei roi yn ddiweddar. Arwydda y cyntaf o'r ddau air hyn, yn ol cyfieithiad ysgolhaig Aiphtaidd, un "yr hwn a dderbynia dduwies doethineb," Neith; a'r ail, "efe yr hwn a ddiangc rhag halogrwydd," yn neillduol godineb. Fel hyn cyhoeddai ei enw newydd i'r Aiphtiaid ei ddoethineb Dwyfol, a'i ddiniweidrwydd o'r trosedd am yr hwn y cafodd ei gospi.

Aeth Joseph ar unwaith yn mlaen at y gwaith i'r hwn y cododd Duw ef i fyny. Aeth trwy y wlad, a gwelodd nad oedd cnwd toreithiog blynyddoedd yr amldra yn cael ei wastraffu, ond ei ystorio yn ddarbodus.[1] Bendithiodd yr Arglwydd ef yn ddirfawr yn ei deulu, yn gystal ag yn ei waith cyhoeddus. Ganwyd ei blant Manasseh, ("anghofio,") ac Ephraim, ("ffrwythlon,") cyn y blynyddoedd prinder, y rhai a ddaethant yn awr nid ar yr Aipht yn unig, ond ar yr "holl wledydd," oblegid "y newyn oedd drwm yn yr holl wledydd."

Yr oedd Jacob a'i feibion yn mysg y dyoddefwyr oddiwrth y prinder cyffredinol. Trwy bwysau y newyn, ac yn unol â chyfarwyddyd eu tâd, anfonwyd hwy i lawr i'r Aipht i brynu ŷd. "A Joseph oedd lywydd ar y wlad, ac oedd ei hun yn gwerthu i holl bobl y wlad; a brodyr Joseph a ddaethant, ac a ymgrymmasant i lawr iddo ef ar eu hwynebau." Fel hyn gwelwn weledigaeth y breuddwydiwr ieuangc yn cael ei chyflawni, a'r meibion hyn i Jacob yn ddiarwybod yn moes-ymgrymu. "A Joseph oedd yn adnabod ei frodyr, ond nid oeddynt hwy yn ei adnabod ef." Yn

[1] Gwelwch Ddarlun Ysgrifenydd Brenhinol yr Ystordai Yd.



LEIGHTON, BROTHERS.

THE CUP FOUND IN BENJAMIN'S SACK.

awr dechreuant brofi y traflwnc chwerw o'r hwn y gwnaethant iddo ef yfed. "Ac efe a'u rhoddodd hwynt i gŷd yngharchar dridiau." Y prawf a'r holiad a gymhwysir yn awr atynt gan Joseph, yr hwn a ofyna iddynt adael un o'u rhif fel gwystl tra y dychwela y lleill i ymofyn eu brawd ieuengaf, a ddeffroa eu cydwybodau, "a dywedasant wrth eu gilydd, Dïau bechu o honom yn erbyn ein brawd; oblegid gweled a wnaethom gyfyngdra ei enaid ef, pan ymbiliodd ef â ni, ac ni wrandawsom ef; am hynny y daeth y cyfyngdra hwn arnom ni." Ymddengys ei ymddygiad pan y cymmerodd Simeon fel gwystl, a'i rwymo o flaen eu llygaid hwynt, yn erwin a dideimlad, ond ffugio yr oedd y llymder yma, canys efe "a drôdd oddiwrthynt, ac a wylodd." Anfonir hwynt yn ol yn awr gyda llawnder, ond heb eu brawd Simeon, ac er eu mawr ddychryn canfyddant "godaid arian pob un yn ei sach." Ar eu dychweliad i Ganaan, dealla eu tad trallodus fod arglwydd y wlad wedi siarad yn arw wrthynt, fod Simeon yn cael ei gadw hyd nes y cymmerir Benjamin anwyl oddiwrth ei dad; a thywallta ei galon rwygiedig ei gofidiau allan fel hyn, "Nid â fy mab i waered gyd â chwi, oblegid bu farw ei frawd, ac yntau a adawyd ei hunan; pe digwyddai iddo ef niwed ar y ffordd yr ewch ar hyd-ddi, yna chwi a barech i'm penwynni ddisgyn i'r bedd mewn tristwch."

Gorchfygodd appeliadau tost y newyn y patriarch o'r diwedd, anfonwyd Benjamin a'i frodyr ymaith gydag anrheg i arglwydd yr Aipht, a "dau cymmaint o arian," yn cael eu dylyn gan weddi eu tad am i'r gŵr fod yn drugarog wrthynt. Saif y brodyr hyn drachefn yn mhresennoldeb Joseph, yr hwn yn awr a'u derbynia hwynt oll gyda charedigrwydd, a chroesawa hwynt â gwledd lawn, wrth yr hon er eu mawr syndod maent yn cael eu hunain yn eistedd yn ol trefn eu hynafiaeth, tra y telir y sylw mwyaf i Benjamin. Ar doriad y boreu-wawr dranoeth, maent oll ar eu ffordd, a chanddynt gyflenwad helaeth o ŷd, a Simeon wedi ei adfer, a Benjamin heb ei gadw; maent yn rhag-ddysgwyl am daith lwyddianus, a chyfarfyddiad llawen a'u tad, pan y dylyna cenad hwynt mewn brys i'w dwyn yn ol i Memphis, o dan y cyhuddiad o ddwyn ei gwppan dewiniaeth oddiar arglwydd y wlad. Yn ymwybodol o'u diniweidrwydd, ymunasant mewn rhoddi i fyny i farw y brawd yn sach yr hwn y ceid hi.

Cafwyd y gwppan yn sach Benjamin. "Yna y rhwygasant eu dillad, ac a bynniasant bawb ar ei asyn, ac a ddychwelasant i'r ddinas." Wedi eu prysuro i bresennoldeb Joseph, cyhuddir hwynt yno o'u trosedd, a dechreua Judah ar amddiffyn ei hun a'i frodyr, mewn adroddiad syml a phrydferth, yn yr hwn y clyw Joseph gyfeiriad ato ei hun fel y brawd a fu farw.

"Yna Joseph ni allodd ymattal ger bron y rhai oll oedd yn sefyll gyd âg ef; ac efe a lefodd, Perwch allan bawb oddi wrthyf. Yna nid arhosodd neb gyd âg ef, pan ymgydnabu Joseph a'i frodyr. Ac efe a gododd ei lef mewn wylofain; a chlybu yn Aiphtiaid, a chlybu tŷ Pharaoh." Nis gallai attal ei deimladau yn hwy. Yr oedd ei galon lawn yn barod i dori, ac y mae yn rhaid iddo gael esmwythad trwy ollyngiad allan ei gariad brawdol. Mae yr araeth yn yr hon y gwnaeth ei hun yn adnabyddus i'w frodyr yn un o symlrwydd mawr a phrydferthwch rhagorol. Pwy a all ei darllen heb fod yn barod i gymhysgu ei ddagrau a'r eiddo y llefarwr, a'i wrandawyr syn-ddychrynedig? "Ac efe a syrthiodd ar wddf ei frawd Benjamin, ac a wylodd; Benjamin hefyd a wylodd ar ei wddf yntau. Ac efe a gusanodd ei holl frodyr, ac a wylodd arnynt; ac ar ol hynny ei frodyr a ymddiddanasant âg ef."

Cyrhaeddodd yr adroddiad o'r olygfa yma yn fuan i glustiau y brenhin, wrth orchymyn yr hwn anfonodd Joseph ei frodyr yn ol wedi eu darbodi yn helaeth â bwyd a dillad, a cherbydau i gludo eu tad a'i holl deulu yn ol i wlad y llawnder yma.

Bydded i ni fyned o'u blaenau, ac edrych ar yr hen ŵr fel yr eistedda yn ei babell, wedi ei amddifadu o'i Joseph, a Simeon, a Benjamin, a'r newyn yn rhythu yn ei wyneb, ac yn rhyfeddu pa ddrygfyd newydd a ddygwydd iddo. Yn ebrwydd deua ei feibion i mewn, a dywedant wrtho fod Joseph yn fyw, ac yn llywodraethwr ar holl wlad yr Aipht. Hawdd y gallasai lewygu a gwrthod credu y chwedl ryfedd yma. Ei ofn oedd y gosodid rhyw ddrwg newydd arno. Fe ymddengys nad oedd yr hen ŵr hyd etto wedi gweled eu cerbydau a'u ceffylau, a'r cyfoeth gyda pha un y llwythwyd hwynt. Gallasent fod yn ofni y profasai yn ormod i'w galon wan ddal. Yn awr danghosant iddo y pethau hyn i brofi gwirionedd eu geiriau, "A dywedodd Israel, Digon ydyw; y mae Joseph fy mab etto yn fyw; âf, fel y gwelwyf ef cyn fy marw."



SPHYNX AND PYRAMIDS.

# PENNOD XVII.

## ISRAEL A'I DEULU YN MYNED I'R AIPHT.

GADAWODD Israel yn awr Hebron, gyda'r oll a feddai, gan deithio agos mewn rhwysg brenhinol; canys aethant "yn y cerbydau a anfonasai Pharaoh i'w ddwyn ef." Ar ei daith gorphwysodd yn Beerseba, ffynhon y llŵ, lle cyssegredig yn hanes ei deulu. Yma y "llefarodd Duw wrth Israel mewn gweledigaethau nos, ac a ddywedodd, Jacob, Jacob. Yntau a ddywedodd, Wele fi. Ac efe a ddywedodd, Myfi yw Duw, Duw dy dad; nac ofna fyned i waered i'r Aipht; canys gwnaf di yno yn genhedlaeth fawr. Myfi a âf i waered gydâ thi i'r Aipht; a myfi gan ddwyn a'th ddygaf di i fyny drachefn; Joseph hefyd a esyd ei law ar dy lygaid di." Yr oedd y weledigaeth hon yn dra amserol. Hyd yn hyn nid oedd Jacob wedi derbyn yr un hysbysiad uniongyrchol oddiwrth Dduw am y cam pwysig oedd yn ei gymmeryd, ac y mae yn debygol nad oedd yn hollol rydd oddiwrth rai amheuon am y canlyniadau i ba rai y gallai arwain. Yr oedd yr arweiniad Dwyfol yma yn ol yr addewid wnaed iddo yn Bethel, ac yn rhan o fendith Abraham, o'r hon yr oedd efe yn awr yn feddiannydd.

Mor gynted yr a i mewn i'r Aipht, anfona Jacob ei fab Judah yn mlaen i hysbysu am ei ddyfodiad, ac yn awr "Joseph a barattôdd ei gerbyd ac a aeth i fyny i gyfarfod Israel ei dad i Gosen; ac a ymddangosodd iddo; ac efe a syrthiodd ar ei wddf ef, ac a wylodd ar ei wddf ef ennyd. A dywedodd Israel wrth Joseph, Byddwyf farw bellach, wedi i mi weled dy wyneb, gan dy fod di yn fyw etto." Ar ol yr ymgyfarfyddiad dedwydd yma, dychwelodd Joseph i fynegi i'r brenhin am ddyfodiad ei dad a'i frodyr, i ddweyd wrtho am eu galwedigaeth fel bugeiliaid, amgylchiad ar yr hyn y gosodai y pwys mwyaf, ac o'r hyn yr oeddynt i fod yn ofalus pan y gofynai y brenhin am eu galwedigaeth. Doeth y cyfarwyddodd ei frodyr i siarad am eu galwedigaeth fel bugeiliaid, ar adeg pan mai "ffieidd-dra yr Aiphtiaid oedd pob bugail defaid."

Mae yn amlwg oddiwrth y cof-adeiladau Aiphtiaidd, fod yr alwedigaeth fugeiliol yn yr adeg yma wedi myned yn ffiaidd yn ngolwg deiliaid Pharaoh. Yr oedd yr Aiphtiaid wedi dyoddef oddiwrth anrheithiadau y llwythau bugeiliol. Yr oedd gwiblwyth adwaenid fel yr Hycksos, y bugail-frenhinoedd, wedi darostwng y wlad, ac yr oedd y brenhin yn un o'u hiliogaeth. Yr oeddynt y fath "ffieidd-dra yr Aiphtiaid" fel y gosodir hwynt allan ar y cof-adeiladau mewn gwahanol foddau o ddiraddiad. Gwesgir hwynt o dan olwynion cerbydau gorchfygwyr, llusgir hwynt fel caethion i'r farchnad, a phaentir hwynt ar wadnau esgidiau a sandalau, fel pe yn haeddu yn unig gael sathru arnynt yn y llwch. Cynhorthwya yr amgylchiad yma i gyfrif am bleidgarwch y Pharaoh sydd yn teyrnasu i'r teulu yma o Hebreaid, y rhai oeddynt fugeiliaid.

Nid dymuniad Joseph oedd cydgorffoli ei frodyr gyda'r genedl ar yr hon y llywodraethai yn awr. Dymunai ef am i'w bobl drigo ar ben eu hunain, yn ngwlad fugeiliol fras Gosen, yn Delta y Nile, y lle mwyaf cyfaddas i fugeiliaid, ac yr oedd y dymuniad hwnw yn fwy tebyg o gael ei sicrhau pan y gwnelid eu galwedigaeth fugeiliol yn hysbys i'r brenhin.

Profodd rhagrybudd Joseph yn llwyddiannus. Pan y cyflwynodd ei frodyr i Pharaoh, cyfarwyddodd y brenhin iddynt gael trigo yn nhir Gosen. Cynhygiodd hefyd roddi iddynt fantais bellach, a sicrhau lles pwysig i'w deyrnas, trwy bennodiad rhai o'r bugeiliaid Israelaidd hyn ar ei ddefaid a'i wartheg ei hun: "Os gwyddost fod yn eu mysg wŷr grymmus, gosod hwynt yn ben-bugeiliaid ar yr eiddo fi." Wrth "wŷr grymmus" golygai y brenhin yn eglur gwŷr o gryfder a gwrolder, y rhai a allent yru yn ol yr ymosodwyr i'r rhai yr oedd y rhan yma o'r wlad yr agored. Gan fod Gosen ar gyffiniau dwyreiniol yr Aipht, byddai o fantais fawr i'r brenhin i gael y fath ddynion i ymsefydlu yn y pwynt gwan yma, i wrthsefyll y rhuthriadau o ba rai yr oedd yn olygfa mynych. Mae yn brawf hynod o ddoethineb y trefniad yma, ac o ffyddlondeb y bugeiliaid Israelaidd i rai o hiliogaeth Jacob ar ol hyn syrthio pan yn canlyn ar ol gwŷr Gath, "o herwydd dyfod o honynt i waered i ddwyn eu hanifeiliaid hwynt." (1 Cron. vii. 21—23.)

Ymddengys fod cyflwyniad Jacob a'i bum' mab i Pharaoh, fel y cofnodir yn Genesis, wedi cael ei ddarlunio gan hen arlunydd Aiphtaidd,



LEIGHTON, BROTHERS.

THE INTRODUCTION OF JACOB AND HIS SONS TO PHARAOH.

a sylw o waith yr hwn a rydd yr esboniad goreu ar y rhan yma o'r hanes Israelaidd.

"Hysbysa cerfysgrif arwyddluniol ni fod y bedd yn yr hwn mae y darlun, yn perthyn i Potipherah, (Pot phra, *ymroddedig i phra, neu yr haul,*) yn yr hwn enw cofia y darllenydd am enw tad-yn-nghyfraith Joseph, archoffeiriad Heliopolis. Meddiannydd y bedd ydoedd Nevopth, neu Nofropth, Joseph yn debygol. Yma, yna, gallai fod gennym i ymwneyd a bedd Joseph, wedi ei nodi yn eglur fel hyn, nid yn unig i adgoffhau ei garedigrwydd, ond i wneyd camsyniad yn annichonadwy pan y daeth yr adeg i gymmeryd ei weddillion i Palestina, mewn ufudd-dod i'w orchymyn manwl gadarhawyd trwy ddifrifoldeb llŵ. (Gen. l. 25, 26.)

"Cyflwynir y cwmni, fel yr arddanghosir yn y darlun, gan ddau Aiphtwr o radd uchel. Enwir y dynion hyn. Gelwir y cyntaf, 'Yr ysgrifenydd brenhinol Nofropth,' yr hwn a gymmerwn i fod *yr ysgrifenydd brenhinol Joseph.* Gelwir yr ail, 'Llywydd y drysorfa Poti,' mewn geiriau ereill, y Poti, enw teuluaidd y rhai a ymddengys yn *Potipherah.* Yma, yna, mae gennym Joseph a'i dad-yn-nghyfraith yn cyflwyno y genadwriaeth Israelaidd i Sethos. Dalia Joseph yn ei law ddehau lech, yn hysbysu fod y personau yma, y rhai yn ol dull arfoeseg unbenaeth, a elwir yn gaethion Pharaoh, o ran gwlad yn Euphratensiaid, enw cyffredinol wrth yr hwn y gelwid ac yr adwaenid y llwythau Semitaidd yn ngogledd-dwyreiniol yr Aipht.

"Awn yn awr yn mlaen at y cwmni Israelaidd. Dywedwyd mai carcharorion rhyfel oeddynt; ond y mae eu safiad rhydd ac annibynol, a'u prydweddau deallgar yn gystal a llawen, yn dangos yn hytrach eu bod yn gwisgo ymddanghosiad myntai ddedwydd, wedi eu gosod mewn lle dewisol a hyfryd. Plyga y llun cyntaf yn barchus tra yn cyflwyno gafrewig fel rhodd i'r teyrn. Dyna Jacob. Mae wedi ymwisgo fel tywysog, a thywysog y gelwir ef yn yr arwyddlun yn union uwch ei ben. Yna canfyddwn yr un cyfenwad *Hyk,* y sill cyntaf o Hyk-sos; arwydda Hyk, brenhin neu bennaeth. Yn yr arwyddlun odditanodd ceir yr enw *Jebusiaid;* felly mae y llun yn cael ei ddarlunio fel *pennaeth y Jebusiaid,* enw cyffredinol ar y llwythau bugeiliol, borthent eu praidd ar neu yn agos i fryniau Judah, lle y safai Jebus, neu Jerusalem. (Josh.

xv. 8, xviii. 28.) Yna cymharwch yr ystum a'r geiriau roddir yn eu genau yn y Bibl, a chwi allech agos dybio eich bod yn eu clywed yn seinio yr atebiad roddasant i ofyniad Pharaoh, 'Beth yw eich gwaith?' A dywedasant wrth Pharaoh, 'Dy weision ydynt fugeiliaid.'

"Dylynir Jacob gan un o'i feibion, yr hwn a gyflwyna lwdn-ewig arall. Dylynir ef gan gynnulliad o bedwar o wrrywod, wedi ymwisgo yn hardd, ac ymarfogi yn briodol; fel hyn, gyda Jacob, yn gwneyd i fyny y chwe' person y rhai y dywed yr Ysgrythyr gyflwynodd Joseph i'w benadur. Yna dylyna cynnulliad tra dysgrifiol a bywiog—asyn, a chawellau, yn cario dau blentyn. Mor eglur mae y gwrthddrychau hyn yn gosod allan y teithwyr a'r 'rhai bach,' y dywedir gymmerasant gyda hwynt! Mae gan y nwyddau hefyd y rhai a ddygodd Jacob, eu cynddrychiolwyr yn y darlun; hefyd, yn y cynnulliad o ferched awyddgar yr olwg, ymholgar, a gwych drwsiadus, y gellwch adnabod 'gwragedd' y penaethiaid patriarchaidd hyny. (Gen. xlvi. 4—7.) Yn union o flaen y merched, saif llangc, yn cael ei osod allan fel o waed pendefigaidd neu dywysogaidd, oblegid y mae o'r llwyth milwrol, fel y gellwch weled oddiwrth y gwaewffyn a garia. Yma yn debygol, y gwelwn Manasseh, yn cael ei ddwyn ger bron fel arwyddlun o'r undeb dedwydd ddechreuwyd fel hyn rhwng yr Iseldirwyr a'r Ucheldirwyr, oeddynt hyd yn hyn mor elynol i'w gilydd. Dylyna ail asyn, yn ymddangosiadol yn llwythog o 'ddodrefn teuluaidd' arwyddluniol. Dibenir yr orymdaith gan ddau was, un o honynt yn cario telyn. Yn y delyn hono, ac yn y gafrewigod hyny, ac yn yr asynod hyny, chwi welwch arwyddion o Ganaan. Gellir gweled arwyddion o ystyr gyffelyb yn y bwâau hyny, a'r dillad hyny, y rhai gwychaf yn cael eu gwisgo gan y rhai rhyddion, y rhai mwy syml gan y gweinyddwyr, adwaenir oddiwrth y cofadeiladau i fod yn wisg y Syriaid, ac yn darlunio i'r llygaid y 'siacced fraith' fynodd Jacob wneyd i Joseph, ei hoff blentyn, ac yn awr ei gymwynaswr tywysogaidd. Yn ddiweddaf, mae gwawr y prydweddion, yn gystal a'r lliw, yn Hebrêig. Mewn gair, mae agos bob amgylchiad cyssylltiedig a'r olygfa, yn gwasanaethu er sicrhau fod yr arlunydd yn bwriadu trosglwyddo i'r oloeswyr goffawdwriaeth o gyflwyniad Jacob yn llys Pharaoh."




LEIGHTON, BROTHERS.



THE FLIGHT

[From a Painting



LEIGHTON, BROTHERS.

INTO EGYPT.

[OHN MARTIN, K.L.]

## PENNOD XVIII.

### GWLAD YR AIPHT.

Trwy ddisgyniad Jacob a'i deulu i'r Aipht, cyfeirir ein sylw yn neillduol yn awr at y wlad hono, yr hon oedd i brofi am hir amser yn olygfa eu hanes. Cyfeiria yr ysgrifenwyr sanctaidd mewn cyfnodau diweddarach yn fynych at yr hen wlad hon, ar gyfrif y cyssylltiad agos yn yr hwn am oesau y safai â phlant Israel. Gwna gan hyny fawr gynhorthwyo y darllenydd i ddeall yr hanes sydd i ganlyn, os cymmerwn drem byr o'r Aipht, ac o'i sefyllfa gymdeithasol ar y cyfnod ydym wedi gyrhaedd. Cafwyd allan trwy fesuriad fod y wlad fras a ffrwythlon hon o gryn radd yn is na Syria, a rhai gwledydd Asiaidd ereill, a thrwy hyn, gyda chywirdeb welwn yn wastad yn yr Ysgrythyrau, dywedir fod teithwyr yn "myned i lawr" i'r Aipht, neu "ddyfod i fyny" o honi i Asia.

Yr Aipht yw y rhan oreu o'r dyffryn hir hwnw trwy yr hwn y gweithia y Nile ei ffordd, yn fwyaf tebygol o fynyddoedd y Lleuad i lawr i'r Delta, ar ol rhedfa o un mil a thri chant-a-haner o filldiroedd morwrol. Lled cyfartal dyffryn y Nile yma o'r dyfrgwymp cyntaf yn Syene (Philæ) i Cairo, sydd oddeutu naw milldir; mae holl hyd yr afon yn fwy nag un mil ac wyth cant o filldiroedd. Priodol y gallai y wlad yma gael ei galw gan Herodotus, "rhodd y Nile," am oni bai yr afon ardderchog hon y buasai yr Aipht mor sych a'r anialdiroedd cymmydogaethol, yn ddyffryn unig a diffaeth, yn derfynedig ar ei ochr orllewinol gan gefnen garegog yn orchuddedig gan dywod, ac ar y dwyrain gan gylch o fynyddoedd ithfaenol, a chreigiau ereill o'r dosbarth hwnw, y creigiau o'r rhai y caed defnyddiau i'r pig-adeiladau hyny, y temlau a chofadeiladau ereill o fedrusrwydd Aiphtaidd, ydynt yn aros hyd y dydd hwn. Gan mai anfynych y disgyna gwlaw yn yr Aipht, mae yn ymddibynu am ddwfr ar yr afon, gorlifiad blynyddol yr hon sydd ffynhonell ffrwythlondeb a chyfoeth. Bydd y wlad wedi ei chrasu i fyny yn Mai a Mehefin, ond dechreua y dyfroedd godi yn Gorphenaf, ac erbyn diwedd Medi bydd agos yr holl ddyffryn yma wedi ei orchuddio â dwfr, y gwrthddrychau


dyrchafedig, fel y dinasoedd a'r trefydd, coedydd a dyfrgloddiau yn ymddangos uwchlaw yr arwynebedd. Heuir y grawn yn Hydref ac yn gynar yn Tachwedd; ac yn Mawrth mae yr haidd yn y dwysen, a'r llin yn y goden. Mae y gwenith a'r rhyg yn fis diweddarach.

Mae y dyfroedd hyn wedi cael eu prisio yn y modd uwchaf bob amser am eu hansoddion hyfryd ac adfywiol, yn gystal ag am eu dylanwad ffrwythlonol ar y wlad trwy yr hon y llifant.

Nid oed gwlad mor fras a deniadol, ac mor agos i'r canolbarth o'r hwn yr ymwasgarodd hiliogaeth Noah, yn debyg o aros yn hir heb ei meddiannu, ac oddiwrth hyn ymddengys i Mizraim, mab Ham, ymsefydlu yn yr Aipht, a rhoddodd iddi ei henw cyntefig, a'r un wrth yr hwn yr adwaenir hi yn y Dwyrain hyd y dydd heddyw, "tir Misr." Ni alwyd hi yr Aipht, neu Ai-kupt, gwlad y Copt, hyd yn agos amser yr Exodus.

Dygodd Mizraim yn y cyfnod boreuol yma gydag ef i'r wlad ffrwythlon hon wareiddiad ei amserau, yr hwn a gynhwysai y wybodaeth gyrhaeddwyd cyn y Diluw, a rhai syniadau godidog am godi cof-adeiladau ar raddfa orfawr. Yn y dyffryn bras yma, cafodd ei hiliogaeth gyfleustra i godi peiramidau uchel, y fath nad oeddynt yn alluog i'w gorphen ar wastadedd Sinar. Oddiwrth hyn gallwn yn rhwydd gyfrif am y gradd uchel o wareiddiad ydoedd y bobl yma wedi gyrhaedd yn y cyfnod boreuol hyn. Mae rhai beirniaid wedi penderfynu yn frysiog fod y cyfwng rhwng y Diluw a'r cyfnod yn awr o dan ystyriaeth yn llawer mwy na'r un roddir yn yr hanes cyssegredig. Yn eu hawydd i ddadbrofi gwirionedd hanes y Bibl, mae rhai ysgrifenwyr wedi cyflawni y camgymmeriad digyffelyb o gymmeryd yr holl restrau o frenhinoedd Aiphtaidd fel yn perthyn i benaduriaid *dylynol*, yn lle edrych arnynt fel *cydoeswyr*, yn llywodraethu ar dalaethau bychain gwahanol. Yn anffodus mae ysgrifenwyr ereill, heb un bwriad i wrthwynebu yr hanes ysbrydoledig, wedi gwirfoddol wneyd goddefiad mawr i'r offeiriaid Aiphtaidd, effaith yr hyn sydd yn dra niweidiol. Eglura amser y camsyniadau i'r rhai y mae yr ysgolheigion Aiphtaidd diweddar wedi syrthio, a chadarnha gywirdeb hanes y Bibl.

Yn y cyfnod ydym yn awr wedi gyrhaedd, yr oedd y wlad yn cynhwys y cof-adeiladau mawrwych hyny o fedrusrwydd adeiladyddol, ar weddillion y rhai yr ydym yn awr yn edrych gyda'r edmygedd uwchaf, ac oddiwrth



LEIGHTON, BROTHERS.

FRESCOES FROM A TOMB AT THEBES.

No. 1. Ladies with Necklaces, Jewels, &c.
2. Chariot.

No. 3. Scribe of the Royal Granaries.
4. Fish Pond. See Isaiah 19. 10.

yr hyn yr ydym yn cael cydnabyddiaeth fanwl âg arferion a defodau y bobl, gan y rhai y codwyd ac yr addurnwyd hwynt. Yr oedd gwag-ogoniant y brenhinoedd mawrion wedi galw i fodolaeth yn barod y pentyrau mawrion hyny o faenwaith, y peiramidau, y rhai yn awr a brofant i fod eu beddau. Dinasoedd mawrion, o ba rai Memphis, Heliopolis, a Thebes oeddynt y penaf, a agorent eu pyrth i'r rhai byw, a mynwentydd mawrion a gynhwysent gyrff eneiniedig y meirw. Temlau o faintioli dirfawr, ddynesid iddynt ar hyd cynteddoedd hir o Geufilod, a rhyfeddol yn yr addurniadau a dderbyniasant oddiwrth y cerfiedydd a'r arlunydd, a gytunant yn hollol a'r darluniad roddir gan y prophwyd, yr hwn a lefara am eu "tir" fel yn "llawn eilunod." Yn mysg y mwyaf ysplenydd o'r palasdai, yr oedd yr adeilad gorwych elwid y Dyrysdŷ, gyda ei ddeuddeg neuadd yn ymgauedig â muriau, a drysau gyferbyn a'u gilydd, chwech yn gwynebu y gogledd, a chwech y dehau. Daeth y palas yma yn ddiweddar i'r amlwg trwy ymdrechion Lepsius, un o ddarganfyddwyr diweddaraf a mwyaf llwyddiannus gweddillion Aiphtaidd.

I'r hyfrydwch gymmerai yr Aiphtiaid mewn addurno muriau yr holl adeiladau hyn â darluniau, a nodwedd ffafriol yr awyrgylch i'w cadw hwynt, yr ydym yn ddyledus am gofnodiad cywir o fywyd dyddiol yr Aiphtiaid, tra y rhydd yr amblygion yn yr rhai yr amdöid y meirw dry-olwg annysgwyliadwy i ni ar eu hanes. Gallwn yn awr, ar ol ymlithriad rhagor na phedair mil o flynyddoedd, edrych ar y bobl ryfedd yma, a gweled y modd yr oeddynt yn byw, ac hyd yn oed y modd y trefnid eu cyrff ar ol eu marw. Yr ydym yn eu gweled yn y wlad yn dylyn eu llafur gwledig, ac yn canlyn eu difyrwch, pysgota, hela, ac amrywiaeth o chwareuon. Maent yn aredig, hau, a medi, ac ystorio i fyny eu cnydau toreithiog. Yn eu tai maent yn canlyn eu galwedigaethau o weu, gwydrchwythu, cwch-adeiladu, gwneuthur basgedau, gweithio priddlestri, gwasgu allan y gwin, a cherfio delwau o goed a cherig; eisteddant wrth eu gwleddoedd, gan fwynhau peroriaeth y chwareuwyr ar y chwibanogl a'r delyn. Yn eu llysoedd barn maent yn profi y cyhuddedig, ac yn gweinyddu cospedigaeth ar yr euog. Derbynia brenhinoedd warogaeth eu deiliaid, ac ymostyngiad eu carcharorion, neu ant allan i ryfel yn eu cerbydau gyda eu gosgorddwyr arfog lliosog.

Arddengys teitl Pharaoh, ddygid gan frenhinoedd yr Aipht, y nodweddiad eilun-addolgar a wisgai eu crefydd yn awr. Nid oedd dim pobl wedi camddefnyddio mwy ar y rhoddion gyfranwyd iddynt gan y gwir Dduw. Cymmerai eu duwiau i mewn amrywiaeth dirfawr, yn gynhwysedig nid yn unig o bethau sylweddol, o'r haul i lawr at y trychfilod gwaelaf, ond creadigaethau o'u dychymygion eu hunain, ar adeg yr oedd y dychymygion hyny yn llygredig arswydus. Yr oedd y tarw yn gyssegredig i Osiris, y fuwch i Isis, a'r gwalch i'r haul. Yr oedd yr epa yn gyssegredig i'r lleuad, a'r ci, y gath, yr hwrdd, yr afanc, y chwilen, a'r sarff, oll yn cael eu hystyried fel yn cynddrychioli amrywiol berffeithderau dwyfol, ac yn cael eu haddoli yn ol hyny. Yr oedd y temlau gorwych hyny, gweddillion y rhai welir yn awr yn Philæ, Edfou, Esneh, Karnac, Luxor, Dendera, a Fayoum, a'u canolranau mwyaf cyssegredig yn guddiedig ganddynt o olwg y cyhoedd trwy leni wedi eu brodio âg aur. Nid oedd neb ond yr offeiriaid yn cael eu goddef i fyned i mewn, ac yma gwrthddrych yr addoliad ydoedd yr afanc, y neidr, neu y gath gyffredin!

Yr eilun-addoliaeth ddelid yn y parch uwchaf a ymddengys ydoedd hwnw yr hwn oedd a'i brif sedd yn On, alwyd ar ol hyn Heliopolis, dinas yr haul. Yr oedd offeiriaid y ddinas hon yn enwog am eu dysgeidiaeth. Ymattalient oddiwrth win yn y deml, ac ymgyflwynent i efrydiaeth a myfyrdod. Yr oedd Potipherah wrth ben yr offeiriaid hyn, ac arwydda enw ei ferch Asenath, " un a berthyn i Neith," eu duwies doethineb.

Yr oedd gan yr Aiphtiaid grediniaeth yn modolaeth yr enaid ar ol marwolaeth y corff, ond yr oedd y gwirionedd yma wedi ei gymylu a lliaws o ofergoelion. Credent os dadfeiliai y corff ei fod yn myned i anifail newydd eni; os byddai wedi trawsfudo trwy holl anifeiliaid tir a môr, yr âi drachefn i gorff dynol, ac y cyflawnid yr yrfa drawsfudol hon yn mhen tair mil o flynyddoedd. Am y rheswm yma yr oeddynt mewn gofal dirfawr a thraul i gadw cyrff y meirw trwy bêr-eneiniad, gan y tybid fod bodolaeth yr enaid yn ymddibynu ar gadwraeth y corff. Oddiwrth hyn hefyd mae codiad eu gwyddfäau dirfawr, a'r "beddau" drudfawr oeddynt mor lliosog " yn yr Aipht." I'r grediniaeth yma yr ydym yn ddyledus am y corffoethod lliosog, amblygiad llian y rhai gofnoda lawer o'r bywyd Aiptaidd.



LEIGHTON, BROTHERS.

SHISHAK.

## PENNOD XIX.

### Y GENHEDLAETH GYNTAF O ISRAELIAID YN YR AIPHT.

"TRIGODD Israel hefyd yngwlad yr Aipht o fewn tir Gosen, ac a gawsant feddiannau ynddi; cynnyddasant hefyd, ac amlhasant yn ddirfawr." Arwydda Gosen, yr enw roddwyd ar y diriogaeth osodwyd i'r Israeliaid, "tir y blodeu," darluniad a wireddolir yn llawn yn y wlad eang a dyfredig hon. Mae yn dra chyfaddas i boriant a chynhydd anifeiliaid.

Yr oedd dwy flynedd-ar-bymtheg wedi llithro ymaith er sefydliad yr Israeliaid yn y porfäau ffrwythlon hyn, pan y teimlai eu tad, gan ei fod yn gant a deugain a saith oed, fod marw yn dynesu; ac anfonodd am ei anwyl Joseph i roddi yr addewid i beidio ei gladdu yn yr Aipht, ond gyda ei dadau yn Nghanaan,—addewid a roddwyd yn ewyllysgar, ac a gadwyd yn ffyddlon. Bu yr hen wr da fyw ychydig yn hwy; a thrachefn dywedwyd wrth Joseph fod ei dad yn glaf. Cyrchodd at ochr ei wely, a chydag ef ei ddau fab, Manasseh, ac Ephraim. Hawliai Jacob y ddau fab hyn fel ei eiddo ef, fel y byddai iddynt fod yn gyfranogion o'r bendithion oeddynt i ddod ar y patriarchiaid Israelaidd.

Cofnoda Jacob yn ddiolchgar y daioni a'i harweiniodd ef ac a'i porthodd dros ei holl fywyd, a thrugaredd yr angel oedd wedi ei waredu oddiwrth bob drwg, ac yna â yn mlaen i fendithio pob un o feibion Joseph, yr hwn a sylwai gyda syndod ar ei dad yn rhoddi ei law ddehau ar ben y mab ieuengaf Ephraim, a'i aswy ar Manasseh. Gwnaeth Jacob hyn yn fwriadol, ac yn ol arweiniad Dwyfol, canys ar bob amgylchiad cyfrenid y fendith Abrahamaidd hon yn ol bwriadau Duw. Yr oedd y fendith hono yn awr i gael ei rhanu yn mysg y meibion yma i Jacob, yn lle disgyn o'r naill i'r llall, a galwodd Jacob gan hyny ar ei holl feibion o gylch ei wely marw, fel y gallent glywed beth ddygwyddai iddynt yn y dyddiau diweddaf.

Rhoddwyd ysbryd prophwydoliaeth yn fwy helaeth ar yr achlysur yma i Jacob nag mewn un oes flaenorol. Rhagfynegir dygwyddiadau yn awr oesau cyn y gallent dderbyn eu cyflawniad, tra yr edrycha un o honynt yn mlaen i yn agos ddau ar bymtheg o ganrifoedd. Yr oedd y gwir

Dduw yn ddïau gyda ei was Jacob, ac mor ddwfn oedd ei argyhoeddiad fod Duw yn llefaru trwyddo, pan yr â ef, ymddibynydd tylawd yn yr Aipht, yn mlaen i ddyranu holl wlad Canaan i'w deulu, ar adeg pan yr oedd y wlad hono yn meddiant hiliogaeth gref a rhyfelgar.

Mor ofidus ydyw i sylwi fod tri o feibion y patriarch yn barod wedi fforffedu eu bendithion trwy eu hymddygiad pechadurus! Os nad oeddynt wedi diystru yn halogedig eu genedigaeth-fraint fel Esau, yr oeddynt mor bell ag y perthynai i fwynhad personol wedi ei cholli trwy eu camwedd. Yr oedd Reuben y cyntaf-anedig wedi troseddu trwy ymlosgach, a Simeon a Lefi trwy greulondeb a llofruddiaeth. Mae yn bur bwysig i sylwi, tra y collodd y tri troseddwr y mwynhad personol o fendith eu tad, ar ol hyn, pan y cyfranai Moses y fendith i'r deuddeg llwyth, ni chauwyd allan hiliogaeth y tri troseddwr yma o'i mwynhad. Yr oedd Judah wedi pechu yn ddirfawr, ond nid oedd wedi cefnogi creulondeb ei frodyr at Joseph, bywyd yr hwn yr ymdrechodd i'w arbed. Yr oedd yr oreu o fendithion y patriarch i fod yn eiddo ef, canys heblaw ei oruchafiaeth ar ei elynion, a'r llawnder oedd i'w fwynhau, yr oedd i fod yn gyndad y Siloh—"Yr Un Heddychol:" "Nid ymedy y deyrnwialen o Judah, na deddfwr oddi rhwng ei draed, hyd oni ddel y Siloh; ac atto ef y bydd cynnulliad pobloedd." Addefa Iuddewon yn gystal a Christionogion mai y Siloh yw y Messiah. Efe yw Tywysog Tangnefedd, ac Awdwr heddwch tragywyddol i bawb a ffoant atto fel eu noddfa a'u hymguddfa. "Hysbys yw mai o Juda y cododd ein Harglwydd ni," a pharhaodd y deyrn-wialen yn y llwyth yma hyd oddeutu amser genedigaeth ein Gwaredwr. Ynddo ef mae y wir lywodraeth yn cael ei gweinyddu. Efe yw y Llew o lwyth Judah; ac y mae y rhagfynegiad, "Atto ef y bydd cynnulliad pobloedd," wedi bod yn derbyn ei gyflawniad byth er pan y bu Ef farw ar y groes, ac y dechreuodd dynu pawb atto ei Hun, ac i'w deyrnas.

Yr oedd Zabulon i gael ei ran ar lan y môr; yr oedd Issachar i gael ei un ef mewn dyffryn ffrwythlon, rhwng dau fryn, ac i ymostwng i ormesiadau yn hytrach na chynnyg gwrthwynebiad; yr oedd Dan i gael ei hynodi yn fwy gan ddoethineb na chan dynerwch, ac i arddangos gwroniaeth mawr mewn amddiffyniad i'w genedl; byddai i Gad, oddiwrth

ei sefyllfa ar y dwyrain i'r Iorddonen, gael ymosod arno yn fynych gan filwyr tramor, ond byddai iddo yn fynych brofio yn fuddugol yn y diwedd; addawid gwlad fras i Aser, yr hon wedi hyn a feddiannodd wrth waelod Lebanon, yn cyrhaedd at y môr; yr oedd Naphtali hefyd i fwynhau gwlad fras a rhydd, ac i fod fel ewig wedi ei ollwng; yr oedd Joseph trwy ei blant i gael ei goroni â bendithion i'r hyn yr oedd holl natur i fod dan deyrnged, a'r fath nad oedd ei flaenafiaid erioed wedi lawn brofi; ac yr oedd Benjamin i gael ei hynodi am y gwroldeb a'i gwnai yn ddychryn ei elynion.

Ychydig cyn i'r rhagfynegiadau hyn gael eu traethu, wedi i Jacob dderbyn y sicrwydd, a gadarnhawyd trwy lŵ, y cai ei gladdu gyda ei dadau, "ymgrymmodd ar ben y gwely," neu fel y mae yr apostol yn ei gyfieithu, "a addolodd a'i bwys ar ben ei ffon." Cymmer y Pabyddion arnynt gael yn y geiriau hyn gefnogiad i'w delw-addoliad hwy, gan gyfieithu yr ymadrodd, efe "a addolodd ben ei ffon," i'r hyn nid oes ganddynt un awdurdod. Addolodd yn ddiolchgar y Duw yr hwn a'i harweiniodd i derfyn ei ddyddiau, a daliai eto y ffon yn ei law, fe allai i awgrymu mai pererin ydoedd ar y ddaear, a'i fod yn credu y cai ei gorff ei orphwysfa yn yr ogof yn Machpelah, a'i enaid orphwysfa o dan y Siloh yr hwn a ragfynegodd.

Yn ol arferiad yr Aipht, ac hefyd i gynhorthwyo Joseph i gyflawni ei addewid ddifrifol, fe "orchymynodd i'w weision y meddygon bêr-arogli ei dad ef; felly y meddygon a bêr-aroglasant Israel." Yr oedd pêr-arogli y pryd hyn, ac wedi bod yn hir, yn un o'r celfyddydau yr oedd yr Aiphtiaid yn rhagori ynddynt. Ceir lliaws dirifedi o gorffoethod yn yr Aipht, y rhai mae y cof-adeiladau yn arddangos y meddygon yn y weithred o'u darparu. Caniatawyd ei gais yn union i gael claddu ei dad yn Nghanaan, a gwnaeth y parch goleddid at Joseph gan y brenhin, a'i lyswyr, a'i weision, y claddedigaeth yma fel un o'r rhwysg-alar brenhinol hyny gymmerai le ar farwolaeth penadur. Mor fawr a gorwych ydoedd y gosgorddlu angladdol fel y derbyniodd y man lle y gorphwysodd am saith niwrnod—llawr-dyrnu Atad—enw er coffawdwriaeth am dano. Galwyd ef Abel-Misraim, "galar pobl Misraim."

Pan y dechwelodd Joseph gyda ei frodyr i'r Aipht, ymosododd cyd-

wybod drachefn ar eu calonau euog, ac ofnent y gwnai yn awr ad-dalu iddynt am yr holl ddrwg a wnaethant iddo. Tybient mai cariad at eu tad ydoedd yr unig gymhelliad trwy yr hwn yr attaliwyd ei lid. Ceisiasant o ganlyniad droi ei gariad mabaidd er mantais iddynt, a dywedasant wrtho, yn debygol gyda gwirionedd, fod Jacob wedi eu cyfarwyddo hwynt i appelio at ei drugaredd ac i faddeu eu trosedd. Yr oedd ymddygiad Joseph pan y cyfarchwyd ef fel hyn yn dra phrydferth. Fe wylodd gyda gwir deimlad brawd pan y gwelodd eu dychryn, ac y deallodd nad oedd eto wedi enill eu hymddiried. Dysgodd hwynt mai Duw oedd a wnelo, ac nid efe, âg ymddwyn tuag at bechod, gan eu cyfarwyddo fel hyn i gael "edifeirwch tuag at Dduw;" a darllenodd iddynt wers ar Ei ragluniaeth, yr hwn mewn ffordd ddirgelaidd a'i hanfonodd i lawr i'r Aipht "i gadw yn fyw bobl lawer." Cysurodd eu calonau, ac addawodd eto eu hamddiffyn a'u cynnal hwynt yn y tir. "A Joseph a drigodd yn yr Aipht, efe, a theulu ei dad; a bu Joseph fyw gan mlynedd a deg. Gwelodd Joseph hefyd, o Ephraim, orwyrion; maethwyd hefyd blant Machir, mab Manasseh, ar liniau Joseph."

Yr oedd Joseph yn awr wedi cyrhaedd yr oed o gant-a-deg mlwydd, ac yn teimlo fod amser ei ymadawiad yn agos, fe gynnullodd ei frodyr o'i gylch, a thrwy ffydd "a roddodd orchymyn am ei esgyrn." Er ei fod wedi cael y fath anrhydedd gan yr Aiphtiaid, yn unedig â hwy trwy briodas, a chanddo blant y rhai oeddynt Aiphtiaid trwy enedigaeth, yr oedd ei galon gyda ei bobl ei hun, a'i Dduw ef oedd eu Duw hwy. Gwerthfawrogai uwchlaw holl gyfoeth yr Aipht fendith Abraham; credai yr addewid Ddwyfol y gwnai Duw eu dwyn hwynt i fyny i Ganaan, ac yn y ffydd yma gorchymynodd i'w esgyrn gael eu cymmeryd gyda hwynt ar eu hymadawiad. Cafodd y cais yma wrth farw yn yr amser cyfaddas ei gyflawni yn ddyladwy. Pan yr oedd yr Israeliaid yn gadael yr Aipht, ni a ddarllenwn i Moses (Exod. xiii. 19) gymmeryd y gweddillion gwerthfawr hyn gydag ef. Cadwyd hwynt yn ofalus hyd ar ol goresgyniad Canaan o dan Joshua, ac a'u "claddasant hwy yn Sichem, mewn rhan o'r maes a brynasai Jacob gan feibion Hemor, a bu i feibion Joseph yn etifeddiaeth."

(Darllener o Genesis xlvii. 27, hyd ddiwedd y Llyfr.)



LEIGHTON, BROTHERS.

LAND OF GOSHEN.

# LLYFR II.

---

Y Brenhin ni adnabuasai Joseph.
Cael hyd i Moses.
Dewisiad Moses.
Galwad Moses.
Rhyddhad Israel yn cael ei hawlio, a'i wrthod.
Plaau yr Aipht.
Y Pasc a'r Degfed Pla.
Y Mynediad Allan.
Y Mynediad trwy'r Môr Coch.
" Cân Moses."
Arabia Petræa.
Iachau y dyfroedd Chwerw—Elim, ei ffynhonau a'i choed palmwydd.
Y Manna.
Taro'r Graig yn Rephidim.
Y Frwydr a'r Amaleciaid.
Moses yn derbyn ymweliad oddiwrth Jethro.
Sinai.
Cyfreithiau Israel.
Y Llo Aur.
Y Tabernacl yn yr Anialwch
Aaron a'r Offeiriadaeth.
Gwasanaeth y Tabernacl, a Neillduad yr Offeiriaid.
Y Soflieir—Beddau'r Blys.
Yr Ymdaith o Sinai tua Chanaan.
Crwydriadau Israel.
Y Moabiaid a Balaam.
Y Sarff Bres.
Yr Olwg ar Ganaan.
Marwolaeth Moses.

"Tarawodd bob cyntaf-anedig yn yr Aipht:
Blaenion eu nerth hwynt ym mhebyll Ham:
Ond efe a yrrodd ei bobl ei hun fel defaid,
Ac a'u harweiniodd hwynt fel praidd yn yr anialwch.
Tywysodd hwynt hefyd yn ddiogel, fel nad ofnasant;
A'r môr a orchuddiodd eu gelynion hwynt.
Hwythau a ddug efe i oror ei Sancteiddrwydd,
I'r mynydd hwn, a ynnillodd ei ddeheulaw ef."

PSALM LXXVIII. 51—54.

## PENNOD I.

### Y BRENHIN NI ADNABUASAI JOSEPH.

Ar ol marwolaeth "Joseph, a'i holl frodyr, a'r holl genhedlaeth honno," "plant Israel a hiliasant ac a gynnyddasant, amlhasant hefyd, a chryfhasant yn ddirfawr odiaeth; a'r wlad a lanwyd o honynt."

Fel hyn, wrth i ni fyned i lyfr Exodus yr ydym yn dechreu hanes yr Hebreaid fel cenedl. "Oblegid (fel y sylwa ysgrifenydd Iuddewig tra dysgedig ar y llyfr hwn) tra yr ymdrinia Genesis ar fywydau y patriarchiaid, adrodda Exodus dynghedion y genedl Hebrëig; cynhwysa y cyntaf yn bennaf fywgraffiadau, yr olaf hanesyddiaeth;....un sydd yr addewid, a'r llall y cyflawniad."

Yr oedd cyfwng maith i lithro ymaith, yn ystod yr hwn yr oedd y teulu Israelaidd yma i gynhyddu mewn rhifedi, ac i ddyfod yn ddigon cryf i oresgyn gwlad yr addewid, ac yn ystod eu harosiad yn Gosen yr oeddynt i gael eu dysgyblu gan gystudd, ac i gael eu cadw ar wahan oddiwrth yr Aiphtiaid eilunaddolgar a moethus.

Dygwyd hil y bugail-frenhinoedd yn awr i derfyniad, ac adferwyd y tywysogion Aiphtaidd brodorol i'r orsedd. Fel hyn nid oddiar anniolchgarwch, ond trwy newidiad y teyrnach "y cyfododd brenhin newydd yn yr Aipht, yr hwn ni adnabuasai mo Joseph." Yr oeddynt yn awr yn cyflawni y rhan dywyll hyny o'u hanes, yr hwn a ragfynegwyd i Abraham, ac a ragddanghoswyd trwy i "ddychryn, a thywyllni mawr, syrthio arno ef." Rhoddwyd y rhagfynegiad fel hyn, "Gan wybod, gwybydd, y bydd dy had di yn ddïeithr mewn gwlad nid yw eiddynt, ac a'u gwasanaethant, a hwythau a'u cystuddiant bedwar can' mlynedd." Dygwyd yr holl hil Hebrëig i sefyllfa o gaethwasanaeth. Yr oedd y bobl yn gwneyd y gwasanaeth mwyaf isel heb un gydnabyddiaeth gyfatebol, ac yn lle bod yn rhydd i fyned i'r man y mynent, amcan y gormesdeyrn oedd rhwystro eu hymdrechion i "fyned i fynu o'r wlad." Yr oedd yr Aipht wedi dyfod fel y darlunia Moses hi ar ol hyn yn "dŷ y caethiwed." Byddai y cymmwynasau y bu Joseph yn foddion i'w gwneyd i'r bugailfrenhin, yn achos o gasineb ac nid o ffafr, ac ofnai y Pharaohaid brodorol

yn naturiol y gwnai yr Hebreaid brofi eu gelynion, os byth y gwnai yr Hyksos gorchfygedig geisio adenill y llywodraeth gollasant. Traethwyd y pryder yma yn weithredol gan Pharaoh wrth ei gynghorwyr, pan y dywedodd, "rhag pan ddigwyddo rhyfel, ymgyssylltu o honynt a'n caseion, a rhyfela i'n herbyn, a myned i fynu o'r wlad."

Gwladlywiad gormesol y teyrn yma, yr hyn a alwai ef "gwneyd yn gall," ydoedd trwy lafur gorthrymus i attal cynhydd y bobl, i dynu i lawr eu gallu, ac i'w gwneyd yn ddinerth. Yr oeddynt i wneyd pridd-feini, a chodi yn Gosen amddiffynfeydd Pithom a Rameses, y rhai oeddynt i dderbyn yr ŷd a thrysorau pentyrol y brenhin, i gadw y bobl i lawr yn barhaus, ac i amddiffyn cyffyniau de-ddwyreiniol y frenhiniaeth rhag ymosodwyr. Yr ydym yn dysgu oddiwrth Gen. xlvii. 11, fod Rameses yn Gosen, canys "Joseph a gyflëodd ei dad a'i frodyr, ac a roddes iddynt feddiant yngwlad yr Aipht, ynghwrr goreu y wlad, yn nhir Rameses, fel y gorchymynasai Pharaoh." Gorwedda dinas y trysorau yma, alwyd ar ol hyn Heroöpolis, gan y Groegiaid, i'r dwyrain i'r Nile, mewn lle elwir Abu Keisheid, ar ol llwyth Arabaidd ydynt yn awr yn gwilio yn y gymmydogaeth. Yr oedd Pithom hefyd yn ngwlad Gosen. Yr oedd yn agos i'r hen gamlas a gyssylltodd y Nile ar ol hyn a'r Môr Coch, ac enw presennol y safle yw Abbseh.

Fod yr Aiphtiaid yn arfer gormesu yn y dull ddarlunir yn Exodus, mae gennym brawf digonol oddiwrth yr arluniau ydynt eto yn aros ar y cof-adeiladau. Mae arluniau yn Thebes nad all neb edrych arnynt heb eu hadgoffa i'r "Aiphtiaid (wneuthur) i blant Israel wasanaethu yn galed. A gwnaethant eu heinioes hwynt yn chwerw trwy y gwasanaeth caled, mewn clai, ac mewn priddfaen, ac ym mhob gwasanaeth yn y maes; a'u holl wasanaeth y gwnaent iddynt wasanaethu, oedd galed." Creda Dr. Lepsius fod un o'r golygfeydd hyn yn darlunio y gwasanaeth gof-nodir yn yr iaith yma, ac ystyria prydweddion y caethweision llafurus fel yn ddiddadl Iuddewig, pwynt ar yr hwn mae gan ein darllenwyr gyfleustra i farnu drostynt eu hunain. Mae yr arddanghosiad o'r hyn lleiaf yn gosod allan bobl orthrymedig "trwy wasanaeth caled." Llafuriant yn ngolwg ac yn ddarostynedig i wialen eu meistred-gwaith. Yr ydym yn eu gweled yn gweithio ar y clai, (nid "morter,") yr hwn

a osodant i lawr yn dyrau, mesur allan gyfranau cyfartal a'u dwyn ymaith, eu gosod mewn moldiau, eu ffurfio yn briddfeini, ac yna eu pentyru mewn trefn i sychu. Yr oedd priddfeini wedi eu darparu fel hyn yn cael eu defnyddio yn helaeth mewn adeiladau Aiphtaidd.

Profodd y cynnygiadau hyn i gadw i lawr nerth y bobl gaethiwus yma yn ffaeledd trwyadl. Gwelwyd mai "fel y gorthrymment hwynt, felly yr amlhaent, ac y cynnyddent." Y brenhin wrth ddeall fod y dull yma yn ddiffrwyth a ymgyrchodd at ddyfais arall. Cynnygiodd yn bwyllog fod yr holl blant gwryw i gael eu lladd yn union ar ol eu genedigaeth, a rhoddodd archiadau am y gwaith o fradladdiad; ond cafodd yr archiadau hyn eu hanufuddhau. Arddengys yn awr galon debyg i Herod, ond yn annhebyg iddo nid oedd ganddo neb i ufuddhau i'r gorchymynion llofruddiol, a bendithiodd Duw y rhai hyny gan ba rai y diystyrwyd ei archiadau. Yn methu cyrhaedd ei nod trwy lindagiad y babanod Hebrëig newyddi-eni, cyhoeddodd y brenhin orchymyn arall i'w holl ddeiliaid,—"Pob mab ar a enir, bwriwch ef i'r afon; ond cedwch yn fyw bob merch." Mae yn addysgiadol ac yn rhybuddiol i sylwi y modd yr â y dyn pechadurus hwn yn mlaen o un ris o gamwedd i'r llall, mewn trefn i gyflawni ei fwriad drygionus. Ar y cyntaf boddlonid ef i gystuddio y bobl a beichiau; yn nesaf gobeithiai trwy ystryw du gael y babanod gwryw newydd-eni wedi eu hamddifadu o fywyd yn yr ystafell lle y cawsant eu geni; ac wedi cael ei rwystro yn ei gynllun, cyhoeddodd yr archiadeb warthus a rwymai "ei holl bobl" i fod yn ddïenyddwyr eu hiliogaeth wrywaidd, ac a lanwai yr holl wlad a galar ac wylofain am aberthau ei wladlywiad creulon. Fel hyn "drwg-ddynion....a ânt rhagddynt waethwaeth." A y galon a'i bryd ar ddrwg yn mlaen ar ei gyrfa ddisgynol, yn cael ei dirgymhell i eithafion arswydus mewn camwedd, nes yr ymsudda i'r gwarth dyfnaf a digofaint diddiwedd.

Dyna y fath ydoedd "y brenhin yr hwn ni adnabuasai mo Joseph." Yn ein pennod nesaf ni a gawn weled y modd y dygodd ei gyngor drwg o amgylch yr amcan y bwriedid iddo ei attal. Arweinia y gyfraith anghyfiawn hon i ddinystr ei hawdwr, ac i ryddhad yr Israeliaid gorthrymedig. "Nid oes doethineb, na deall, na chynghor, yn erbyn yr Arglwydd."

(Darllener Exodus i.)

## PENNOD II.

### CAEL HYD I MOSES.

YR ydym yn awr yn dynesu at y cyfnod pan yn ol yr addewid Ddwyfol y gallasai plant Israel ddysgwyl gwaredigaeth o'u caethiwed, a phan oedd eu Duw ar brofi Ei ffyddlondeb yn y dull mwyaf rhyfeddol. Yr oedd rhagolygon y bobl orthrymedig hyn wedi eu hamdoi a'r tywyllwch mwyaf dudew, a byddai y rhai hyny nad oedd ganddynt ffydd fel un Abraham, yn barod i ymollwng i anobaith. Yr oedd arnynt eisieu dadleuydd galluog yn y llys, i ymresymu ac eiriol a'r brenhin, a rhyw waredydd nef-anfonedig i'w cynnull a'u cychwyn allan o'r caethwasanaeth i'r hwn y darostyngwyd hwy. Yr oeddynt wedi ymsuddo i anwybodaeth dwfn, ac yr oedd yn hanfodol i ryw ŵr Duw gael ei anfon i gyfranu doethineb nefol, ac i ddangos ffordd yr Arglwydd. Ac os oeddynt i fod y genedl gref a addawyd i'w cyndad enwog, yr oedd arnynt eisieu deddfroddwr yr hwn a roddai ddeddfau da i'w harwain yn eu perthynas a'u gilydd, a dangos y modd yr oedd y gwir Dduw i gael ei addoli, ac y diengid rhag euogrwydd eilun-addoliaeth. A pha le y ceid y fath berson?

Rhaid i ni yn awr rodio i lanau y Nile, i fan yn ymyl y palas brenhinol, ac i fysg dail y papyr-frwyn; ar ei min ni a gawn weled arch Aiphtaidd fechan wedi ei gorchuddio yn ofalus â chymhysgedd o glai a phyg i'w gwneyd yn ddwfr-brawf. Nid yw yr arch fechan yna yn cynhwys y marw fel y gallai pobl feddwl, ac fel y gobeithid y gwnaent feddwl. Mae merch y brenhin, yr hon sydd newydd gyflawni ei golchiadau yn yr afon gyssegredig, yn cael ei dylyn gan ei morwynion mygedol, wedi cael tynu ei sylw at yr elor fach hon sy'n nofio, ac anfona y llys-foneddigesau hyn i'w hymofyn. Rhwydd gariant y beth fechan, a gwna hi ei hagor yn awyddus ei hun. Cynhwysa gorffoethyn bychan? Nage—baban byw; canys—wele! y baban yn wylo. Er fod tad y foneddiges hon yn ormesdeyrn, yn anghenfil mewn drygioni, mae ganddi hi galon dyner gariadlawn, ac y mae cri y plentyn truan yna yn effeithio ar y galon dyner



LEIGHTON, BROTHERS.

THE FINDING OF MOSES.

hono. Fel y mae gan Esgob Hall, "Llwyddodd yr hyawdledd ieuangc a bywiog yma." Mae anghenfilod y Nile, Lefiathan (y crocodile), a'r Behemoth (yr hippopotamus), wedi myned heibio yn dawel, ac wedi arbed eu hysglyfaeth, ac ni wna y dywysoges dirion hon oddef i'r un bach farw, yr hwn ni chaniatawyd i'r creaduriaid gwancus hyn i gyffwrdd âg ef. Yr oedd y baban tri mis oed yn nodedig mewn prydferthwch; "gwelodd ei fod yn fachgen tlws." Dywedodd trwy ei dirnadaeth gyflym, "Un o blant yr Hebreaid yw hwn."

Llawer sydd wedi ei ddweyd am brydferthwch Moses gan ysgrifenwyr ysbrydoledig ac ysgrifenyddion Iuddewig anysbrydoledig. Mor gynted y ganwyd ef, gwelodd ei fam mai "tlws ydoedd efe." Dywed Stephan wrthym (Act. vii. 20) ei fod "yn dlws iawn," neu yn llythyrenol "yn dlws i Dduw," yr oedd yn dlws ddwyfol yn marn ei Wneuthurwr, yr hwn a roddodd iddo ei holl brydferthwch. Dywed Josephus wrthym fod "pawb pan y gwelent Moses yn rhyfeddu yn fawr at brydferthwch ei wynebpryd," ac "y dygwyddai yn fynych fod y rhai gyfarfyddent âg ef fel y dygid ef ar hyd y ffordd, yn ymhyfrydu mewn troi drachefn wrth weled y plentyn, y gadawent yr hyn oeddynt o'i gylch, ac y safent yn llonydd am hir amser i edrych arno, canys yr oedd prydferthwch y plentyn mor hynod a naturiol iddo ar lawer cyfrif, fel y cadwai yr edrychwyr ac y gwnai iddynt aros yn hwy i edrych arno." Cofir i'r dydd hwn am brydferthwch Moses yn y Dwyrain, ac y mae yn wrthddrych llawer o draddodiadau; ac y mae cerfiedwyr ac arlunwyr wedi ymgystadlu yn eu hymdrechion i sylweddoli delfryd y ffurf hono yn yr hon yr oedd prydferthwch a mawrhydi wedi eu huno. Yn mysg y cynhyrchion mawrion yma, arlun West a cherflun Angelo ydynt fe allai y rhai enwocaf.

Prydferthwch, yr hyn mewn llawer gormod sydd wedi profi yn fagl, fu y moddion i achub bywyd y bachgen Hebrëig, ac felly i gyflawni amcanion graslon Duw. Rhaid i'r creadur prydferth yma beidio cael marw. Na; mae wedi cael ei "dynu allan" o'r afon, ac na adawer iddo gael ei daflu i mewn drachefn, a'i wneyd yn ysglyfaeth anghenfil nesaf yr afon all ddynesu. Edrychwn gyda dyddordeb ar y cynnulliad ymgasgledig o gylch y baban, yr hwn o hyd sydd yn llefain am ofal ei fam; ond y mae un arall yn sylwi gyda serch cynhesach nag a allwn ni deimlo.

Gwelwch wedi ymguddio yn rhanol yn y llafrwyn uchel, yr eneth ofnus acw, chwaer y plentyn, yr hon sydd wedi bod yn sylwi, gan ddal ei hanadl, i weled beth a wneid iddo. Mor barod yr â yn mlaen pan y mae y dywysoges dirion mewn cyfyng-gynghor, ac y cynhygia ei gwasanaeth i alw mammaeth o'r Hebrëesau "fel y mago hi y bachgen i ti!" Fel yr esmwythâwyd ac y llonwyd ei chalon pan y derbyniodd y gorchymyn, "Dos," a gwneyd yr oll a awgrymodd, fel ag y ca y plentyn ei fagu gan ei fam ei hun, ond i'r dywysoges, a dyfod ei mhab mabwysiadol.

Nid oes dim amser yn cael ei golli wrth fyned na dychwelyd. Dyna Hebrëes wedi ei chael ar unwaith, ac yn hollol barod i ufuddhau i arch y foneddiges. Mor ufudd y gwrandawa ar y gorchymyn, "Dwg ymaith y bachgen hwn, a maga ef i mi!" ond nid yw braidd yn gofalu am wrando yr addewid, "A minnau a roddaf i ti dy gyflog." Mor dyner y derbynia y bychan i'w gofal! mor anwyl y gwasga ef i'w mynwes. Nis gallai fod yn fwy tirion pe buasai ei fam ei hun. Mae Thermatis yn sicr y gofelir yn dda am y plentyn, a dychwela i'r palas wedi ei mawr foddhau gyda dygwyddiad y boreu, yn ddiarwybod wedi gwneyd gwaith yr Arglwydd, ac wedi dyfod yn ddolen bwysig yn nghadwyn hanesyddiaeth Hebrëig.

Yn awr prysura y fam adref eto, yn ysgafndroed a chyda chalon orlawn. Mae yn amser iddi yn awr i wylo, ac y mae yn rhaid i'r ferch gall hono hefyd gael esmwythâd mewn dagrau, oddiwrth yr hyn nis gall Amram wrol ymattal yn dda. Yr oedd digon o ddagrau wedi eu tywallt yn y drigfa isel yna onid awr yn ol, pan oeddynt yn trefnu y baban acw yn yr arch fechan, ar ol ei gadw ef dri mis allan o olwg a chlyw dienyddwyr Pharaoh. Fel y wylent! fel y disgynai eu dagrau ar ei wyneb tlws pan yr oeddynt ar ei orchuddio, ac y codai ei law fach gref i wrthio y dail blinderus i ffwrdd. Rhaid fod y lle yna yn awr wedi ei droi yn addolfa fach, fel y casglai y perthynasau hyn o gylch y plentyn cael, i glodfori Duw Israel am ei fywyd achubedig. Parhaodd y wylo am y nos, ond daeth llawenydd yn y boreu.

Da ydyw ymyryd er achub bywydau tyner babanod. Mewn llawer o wledydd cant eu difetha yn greulon; yn y lleill trengant trwy esgeulustra, ac hyd yn oed yn ein gwlad ni collir myrddiynau o fywydau babanod trwy ein hanwybodaeth o ddeddfau iechyd, neu eu troseddiad gwirfoddol.

O dan ofal y fam "aeth y bachgen yn fawr, a hi a'i dug ef i ferch Pharaoh, ac efe a fu iddi yn fab." Ni hysbysir ni am oed y bachgen Hebreig ar y pryd yma, ond tybir mai yn fuan ar ol ei ddiddyfnu, a phan yr oedd oddeutu tair oed. Derbynia y dywysoges ef yn llawen, a rhoddodd iddo enw, un Aiphtaidd, Moses, i'w adgofio ef a'i hadgofio hithau iddi ei dynu ef allan o'r dwfr. Yr oedd yn dda fel hyn trwy enw mynegol i gofnodi yr hanes dyddorol yma. Yr ydym yn naturiol yn teimlo dyddordeb dwfn yn y rhai hyny y cawsom y cyfleustra i'w lleshau, yn neillduol os profant yn deimladwy o garedigrwydd, ac fel hyn ein galluogi i wneyd daioni iddynt. Parhai y dywysoges yma i edrych ar Moses fel bywyd wedi ei roddi iddi yn rhagluniaethol, tra y coleddai ef deimladau o ddiolchgarwch i'w waredydd.

Yma ni a adawn y plentyn Moses yn mhalas gorwych y brenhin, yn fab mabwysiadol ei ferch. Os oes rhywbeth yn "holl ddoethineb yr Aiphtiaid," gall ei ddysgu ef; canys y mae ganddo hamdden, ac y mae holl ffynhonellau dysgeidiaeth Aiphtaidd yn agored iddo—ond y mae ganddo ddysg uwch a phurach nag a all yr offeiriaid eilun-addolgar yna gyfranu. Nid yw yn cael ei rwystro rhag cael gweled ei "fammaeth," a'r teulu lle y treuliodd flynyddoedd cyntaf ei blentyndod, ac nis gallwn amheu iddo oddiwrthynt hwy ddysgu llawer gwers sanctaidd am Arglwydd Dduw ei dadau. Ni byddent ar ol o'i hysbysu am amgylchiadau ei waredigaeth ei hun rhag angeu, a hanes y bobl y perthynai iddynt. Oddiwrthynt hwy y clywai ef am gymmeriad gogoneddus Abraham, Isaac, a Jacob, am Dduw Abraham, a'r fendith gyssylltiedig â'r cyfammod Abrahamaidd. Fel mewn oes ddiweddarach y gwyliai Mordecai dros Esther y Frenhines, yn mhalas Ahasferus, ac yr adgofiai iddi am ei dyledswydd tuag at Arglwydd Dduw ei thadau, felly nis gallwn amheu i rieni Moses ei ddysgu ef, er fod ei gartref yn y palas brenhinol, mai Hebrëwr ydoedd eto, yr hwn a ddylai addoli Duw Israel, ac fod ganddo i wneyd rhyw waith mawr dros Ei bobl. Efe yr hwn a'i dewisodd i fod yn waredwr a deddf-roddwr dyfodol Israel, a wyliodd ei feddwl yn nghanol y maglau gan y rhai y cylchynid ef, a chadwodd ef rhag y drygau oeddynt yn teyrnasu yn mhalas glythol ac eilun-addolgar y brenhin.

(Darllener Exodus ii. 1—10.)

## PENNOD III.

### DEWISIAD MOSES.

Ymrana bywyd Moses ei hun i dri chyfnod pwysig, pob un yn cynhwys deugain mlynedd; ei artrefiad yn llys Pharaoh, ei ymneillduad yn nhir Midian, a'i fywyd cyhoeddus fel arweinydd Israel.

Am y cyntaf o'r rhanau hyn nid oes un hanes ysbrydoledig yn cael ei gofnodi. Yr ydym yn dysgu oddiwrth araeth Stephan, (Act. vii. 23,) mai "pan oedd efe yn llawn deugain mlwydd oed, daeth i'w galon ef i ymweled a'i frodyr plant yr Israel." Dysgwn yn mhellach oddiwrth yr Epistol at yr Hebreaid, (xi. 24—26,) fod yr ymweliad yma yn ganlyniad dewisiad pwyllog a wnaeth yn flaenorol, ac y tarddai o'i ffydd yn ngair yr Arglwydd, canys "trwy ffydd Moses, wedi myned yn fawr, a wrthododd ei alw yn fab merch Pharaoh; gan ddewis yn hytrach oddef adfyd gydâ phobl Dduw, na chael mwyniant pechod dros amser; gan farnu yn fwy golud ddirmyg Crist, na thrysorau yr Aipht: canys edrych yr oedd efe ar daledigaeth y gobrwy."

Yn llys Pharaoh tra yn cael ei gylchynu gan demptasiynau i eilun-addoliaeth, glythineb, balchder, ac uchelgais, yr oedd Duw yn eglur wedi cyfarfod ag ef a'i hawlio iddo ei Hun. Fel llawer o weision Duw addysgwyd ef mewn gwirionedd Dwyfol, ac arweiniwyd ef yn ffordd sancteiddrwydd, er yn byw yn nghanol annuwolion, gan brofi mai nid creadur amgylchiadau ydyw dyn, fel y mae rhai yn anwybodus wedi haeru.

Yr oedd gan yr Aiphtiaid rywbeth i'w hyfforddi ef gwerth ei ddysgu. Yr oeddynt yn rhagori mewn amrywiol o'r celfyddydau a'r gwyddor-iaethau a ddeuent mewn cyfnod dyfodol o ddefnydd i arweinydd Israel; ond ar y pwnc o grefydd yr oedd eu meddyliau wedi ymlygru yn fawr, ac yr oedd eu moesau aflan yn cydweddu a'u heilun-addoliaeth gwrthun. Yr oedd y plentyn Rhagluniaeth hwn i wneyd gwaith mawr dros Ar-glwydd Dduw ei dadau, ac yr oedd Ysbryd yr Arglwydd gydag ef, i arwain ei feddwl i wirionedd ac i'w gadw ef rhag amryfusedd. Cafodd mae yn

amlwg ryw awgrymiad am y gwaith mawr y darperid ef iddo. Yr oedd ef "yn deall (yr hyn yr oedd ei frodyr yn hwyrfrydig i ddysgu) fod Duw yn rhoddi iachawdwriaeth trwy ei law ef," ac ar yr amser yr ydym yn awr wedi ei gyrhaedd teimlai yn barod i ymgymmeryd a'i waith. Yr oedd ei galon gyda phobl Dduw, ac fe benderfynodd yn bwyllog y caent fod yn bobl iddo ef, a'u Duw hwy ei Dduw ef.

Oddiwrth yr ymadrodd a ddifynasom o'r Hebreaid, dysgwn iddo ystyried yn ofalus y ffordd y dylai ei dylyn cyn iddo ymbriodi yn gyhoeddus ag achos Israel. Eisteddodd i lawr yn dawel i gyfrif y draul o broffesu yn gyhoeddus enw yr Arglwydd, a chymmeryd lle yn mysg Ei bobl ddirmygedig, ac ni a allwn deimlo yn hyderus iddo weddïo yn ddifrifol am arweiniad Dwyfol. Ar un llaw yr oedd "trysorau yr Aipht," fe allai gyfoeth annherfynol i'w gymmeryd a'i wario fel y dewisai; yr oedd hefyd y radd uchel hono a allasai foddio ei uchelgais fydol uwchaf, canys fel mab mabwysiadol merch y brenhin safai yn ddigon agos i'r orsedd, a gallasai ymgeisio am y goron. Eto barnodd nad oedd pleserau y llys drygionus hyny ond "pleserau pechod," ac nas gallent barhau ond "dros amser." Ar y llaw arall yr oedd bendith Abraham, ffafr yr Unig Wir a Bywiol Dduw, y fendith o arweiniad Dwyfol, y fendith o gael cyfran yn y Messiah dyfodol yr hwn a addawyd, a'r fendith fawr odidog a thragywyddol ar ol i'r bywyd byr yma ddibenu. Nid Canaan oedd i fod ei wobr, ond yr orphwysfa nefol, o'r hon nid oedd Canaan ond cysgod gwan. Edrychodd hefyd ar y profedigaethau y byddai raid iddo eu dwyn os bwriai ei goelbren gyda'r bobl gystuddiol yn Gosen. Dyoddefai gystudd a dirmyg gyda phobl Dduw. Gwyddai yn dda eu bod yn cael eu trin fel caethion, a'u gwisgo i lawr gan lafur a thylodi, gwyddai am y dirmyg eithaf y cyfrifid hwynt gan yr Aiphtiaid trahausfalch, a chyda y fath wawd y trinid hwynt pan y dadganent eu gobaith yn y Messiah dyfodol. Hyn oll a wyddai, a chan edrych ar bob ochr, a chan gyferbynu eilunaddoliaeth gyda gwir grefydd, pechod gyda sancteiddrwydd, amser gyda thragywyddoldeb, dychryn y dyfodol gyda "thaledigaeth y gobrwy," ffurfiodd yn bwyllog ei fwriad, ac yn ngymhorth Duw penderfynodd ei wneyd yn adnabyddus heb oedi.

Pan aeth "allan at ei frodyr, ac edrych ar eu beichiau hwynt," yr oedd

yn barod i gydnabod ei berthynas â hwynt, i ymgyfranogi o'u cystuddiau, ac i ddyfod eu harweinydd, os oeddynt yn barod i hawlio eu rhyddid, ac ymadael o'r Aipht. Yr oedd yr olygfa a gwrddodd a'i lygaid yn ddysgrifiol o'r amserau. Gwelodd Aiphtwr yn taro Hebrëwr. Arddanghosir y meistr-gwaith yn gysson ar y cof-adeiladau Aiphtaidd a'i wialen yn ei law, ac fe'i defnyddiai yn hael ar yr Hebrëaid druain, y rhai oeddynt o dan ei lywyddiaeth. Moses wedi ei ddwyn i fyny yn mysg pendefigion y llys yn llawn o nerth a gwroldeb, nis gallai edrych ar y gormesdeyrn bychan heb y cyffroad mwyaf, ac fe allai ag un ergyd bwriodd y troseddwr ar y tywod, yn yr hwn yn fuan y cuddiodd y corff. Dranoeth aeth i lawr drachefn i weled ei bobl, ac yn awr gwelodd ddau o honynt yn ymryson a'u gilydd, oblegid nid oedd yn ddigon fod yr Aiphtiaid yn gorthrymu arnynt rhaid iddynt ychwanegu eu dyoddefiadau trwy wrthwynebu eu gilydd. Ceisiodd Moses weithredu rhan cyfryngwr, a'u "hannog hwynt i heddychu;" ond yn lle derbyn croesawiad, canfyddodd eu bod yn barod i achwyn yn ei erbyn fel llofrudd. Yn ei fyrbwylldra cyflawnodd drosedd mawr, ac yr oedd ganddo reswm i ofni cosp uniongyrchol. Y brenhin yn dra dibetrus yn nghylch llofruddiaeth pan yr attebai ei ddiben ei hun, yn awr a geisiodd ladd Moses. Deallodd fod calon Moses gyda phlant Israel, ac ofnai y gwnai eu blaenori mewn gwrthryfela odditan ei iau. O herwydd hyny "efe a geisiodd ei ladd," a gwnaethai heb betrusder ei ychwanegu ef at y myrddiynau oedd eisioes wedi ei ddinystrio.

Bai Moses oedd iddo ddechreu ar ei waith fel gwaredwr Israel cyn iddo dderbyn ei genadwri Ddwyfol, a'i bechod iddo roi ffordd i ddigofaint, a chyflawni llofruddiaeth. Nid trwy foddion o'r fath y gwnai Duw waredu ei bobl oddiwrth eu gorthrymwyr, nid oedd amser eu gwaredigaeth wedi dod. "Canys digofaint gŵr nid yw yn cyflawni cyfiawnder Duw." Mae gan Moses yn awr i geisio diogelwch trwy ffoi, a phrysura ymaith o'r cartref moethus yn yr hwn y cafodd ei fagu, i beidio myned iddo mwyach hyd nes y dychwela i hawlio rhyddhad ei bobl o'u caethiwed.

Efe yr hwn sydd yn adnabod y diwedd o'r dechreu, ac yn gweithio pob peth wrth gynghor ei ewyllys ei hun, a oruwchreolodd yr amgylchiadau yma er cyflawniad priodol ei fwriad ei Hun. Ffoa Moses i dir Midian er mwyn diogelwch, ond cyfarwydda Duw ei ffoedigaeth i olygfeydd yn



LEIGHTON, BROTHERS.

y rhai yr oedd ei feddwl i gael ei addysgu a'i gymhwyso trwy hir ddysgyblaeth i'w genadwri fawr i Israel.

Ffurfiai Midian ran o Arabia Petræa, a gorwedda i'r dwyrain i'r Aipht, ar yr ochr draw i'r Môr Coch, ac i'r deheu i wlad Canaan. Yr oedd ar ol hyn i ddyfod yn olygfa dygwyddiadau mawrion yn hanes Moses a phlant Israel. Yma y cafodd y ffoadur o Memphis falch a phoblog ei ddirgelfa dawel am yn agos ddeugain mlynedd. Gwelwn ef yn lluddedig ar ol ei fföedigaeth yn eistedd i lawr wrth bydew. Daeth saith o ferched yr offeiriad a phennaeth y wlad i ddyfrhau eu praidd, ond gwthir hwynt yn anfoesgar o'r neilldu oddiwrth y cafnau dwfr gan y bugeiliaid. Ymyra Moses drachefn ar ran y gwan, fe "gododd ac a'u cynhorthwyodd hwynt, a dyfrhaodd eu praidd." Pan y dychwelasant at eu tad, Reuel, a elwid hefyd Jethro, yn llawer cynt nag arfer, "efe a ddywedodd wrth ei ferched, Pa le y mae efe? paham y gollyngasoch ymaith y gŵr? gelwch arno, a bwyttaed fara. A bu Moses foddlawn i drigo gyda'r gŵr; ac yntau a roddodd Sephorah ei ferch i Moses."

Mae Moses yn awr wedi dyfod yn fugail isel, ac yn unigrwydd Midian mwynha yn dawel fyfyrdod a chymmundeb â Duw. Yma tybir iddo ddysgu hanes Job, o'r hwn ystyrir ef yn awdwr ysbrydoledig. Yma gorchfygir dylanwad drwg y llys Aiphtaidd, a rhydd ei danbeidrwydd le i addfwynder doethineb a duwioldeb. Yma hefyd y gwnai fyfyrio er budd ar yr amser aeth heibio, a dysgwyl yn ostyngedig am arweiniad Dwyfol yn y dyfodol.

Llonwyd ei unigrwydd a'i absennoldeb oddiwrth ei bobl trwy enedigaeth ei fab Gersom, ac yn y cyfamser bu y Pharaoh erlidgar farw, ond i gael ei olynu gan un arall yr un mor greulon a gorthrymus, canys "plant Israel a ucheneidiasant oblegid y caethiwed, ac a waeddasant; a'u gwaedd hwynt a ddyrchafodd at Dduw, oblegid y caethiwed. A Duw a glybu eu huchenaid hwynt; a Duw a gofiodd ei gyfammod âg Abraham, âg Isaac, ac a Jacob." Yr oedd cwppan eu cystudd yn barod i lifo drosodd, ac yr oedd amser eu gwaredigaeth yn ymyl.

(Darllener Exodus ii.)

## PENNOD IV.

### GALWAD MOSES.

YR ydym yn awr yn dechreu ar oes y gwyrthiau, y rhai a ddefnyddiwyd gyntaf mewn cyssylltiad a gwaredigaeth Israel o'r Aipht. Darnodir gwyrth yn briodol, fel "attaliad teimladwy, neu reolaeth o, neu wyriad oddiwrth, ddeddfau adnabyddus natur." Gall Efe yr hwn a sefydlodd y deddfau hyny ar unrhyw amser eu hattal, neu gyflawni ei fwriad trwy foddion newyddion, a gynhyrfant ein rhyfeddod, ac a brofant ei gyfryngiad neillduol.

Yma gwelwn y bugail, mab-yn-nghyfraith Jethro, yn arwain ei braidd lliosog bellder mawr o'r anialwch yr hwn a breswyliai y Midianiaid, i'r deheu tu cefn i'r anialwch, i diriogaethau bras a ffrwythlon Mynydd Sinai. "Ac angel yr Arglwydd a ymddangosodd iddo mewn fflam dân o ganol perth; ac efe a edrychodd, ac wele y berth yn llosgi yn dân, a'r berth heb ei difa." Dyma y wyrth gyntaf gofnodir. "A dywedodd Moses, Mi a droaf yn awr, ac a edrychaf ar y weledigaeth fawr hon, paham nad yw y berth wedi llosgi." Ar y cyntaf cynhyrfid ef yn unig gan gywreinrwydd priodol, ond fe ganfyddodd yn fuan ei fod yn mhresennoldeb uniongyrchol Duw. Y goleuni hyny yr hwn a ymddanghosai fel tân ysol ydoedd arddangosiad amlwg o'r presennoldeb Dwyfol; rhybuddid ef i beidio neshau gyda chywreinrwydd fel pe y myfyriai ryfeddod Natur, ond gyda pharch, gan ei fod yn sangyd ar dir sanctaidd. Priodol y tynasai ei esgidiau, cuddio ei wyneb, ac "ofni edrych ar Dduw."

Clywodd ei hun yn cael ei gyfarch wrth ei enw, ac attebodd, "Wele fi," a'r llais a'i galwodd ef ydoedd yr eiddo Duw ei gyndadau enwog, Abraham, Isaac, a Jacob. Hysbysa Duw yn awr i Moses ei fod wedi gweled gorthrymder, a chlywed gwaedd yr Israeliaid, a'i fod ar anfon Moses at Pharaoh, fel y gallai eu dwyn allan o'r Aipht. Moses, yr hwn ddeugain mlynedd yn ol oedd yn gynamserol barod i fod yn bencampwr ei bobl, yn awr pan oedd yr amser iawn, amser yr Arglwydd, wedi dod,

a gilia rhag y gorchwyl mawr, a gofyna, "Pwy ydwyf fi, fel yr awn i at Pharaoh, ac y dygwn Israel allan o'r Aipht?" Mewn attebiad sicrheir ef y ca weled cenedl o'r Israeliaid wedi ei rhyddhau o'r Aipht, ac yn gwasanaethu Duw ar y llanerch y safai ar y pryd, yr hyn a fyddai yn brawf anwadadwy fod Duw gydag ef mewn gwirionedd.

Yn rhagweled cyflawniad y genadwri Ddwyfol, tybia i blant Israel ofyn enw y Duw a'i hanfonodd, a geilw yr ymofyniad yma allan y cyhoeddiad mwyaf rhyfeddol o'r enw hwnw. "A Duw a ddywedodd wrth Moses, YDWYF YR HWN YDWYF; dywedodd hefyd, Fel hyn yr adroddi wrth feibion Israel; YDWYF a'm hanfonodd attoch." Dynoda yr enw yma y Bod Tragywyddol, yr Annibynol, yr Un Digyfnewid, ac y mae ei ystyr yr un â Jehofah. Y fath gyferbyniad i'r duwiau lawer yn ngwlad yr Aipht!

Cyfarwyddwyd Moses i ddadguddio yr enw yma i'w frodyr yn yr Aipht, ac i'w sicrhau hwynt y gwnai yr YDWYF tragywyddol eu harwain hwynt allan, a'u dwyn i'w hetifeddiaeth addawedig. Yr oeddynt i fyned at Pharaoh a hawlio eu rhyddhad, gan ofyn ar y cyntaf ganiatâd i fyned am daith tridiau i'r anialwch i aberthu i'r Arglwydd. Gwrthodai y brenhin y cais rhesymol hwn. Rhagwêl yr Hollwybodol yr oll a wna dynion, ac o ganlyniad dywed, "A mi a wn na edy y brenhin i chwi fyned, ond mewn llaw gadarn." Penderfyna yr YDWYF y ca ei bobl orchfygu, ac addawa fel hyn, "A rhoddaf hawddgarwch i'r bobl hyn yngolwg yr Aiphtiaid: a bydd, pan eloch, nad eloch yn waglaw; ond pob gwraig a fenthyccia gan ei chymmydoges, a chan yr hon a fyddo yn cyttal â hi, ddodrefn arian, a dodrefn aur, a gwisgoedd, a chwi a'u gosodwch hwynt am eich meibion, ac am eich merched, ac a yspeilwch yr Aiphtiaid."

Mae y gair gyfieithir "fenthyccia" wedi ei gyfieithu yn dra anghywir; dygwydda yn Josh. xv. 18, ac hefyd yn Psal. ii. 8, lle y cyfieithir ef yn briodol "gofyn." Nid oes o ganlyniad nerth yn yr wrthddadl fod yr Israeliaid wedi eu cyfarwyddo i fenthyca heb y bwriad neu y gallu i dalu.

Moses yn ofni eto na chredai yr Israeliaid ynddo, na gwrando ar ei lais, aeth yr Arglwydd rhagddo i'w gynhysgaeddu a chredlythyrau o'i genadwri Ddwyfol, trwy y ddawn o allu gwyrthiol, a gyfranwyd yn awr

am y waith gyntaf i ddyn. "A'r Arglwydd a ddywedodd wrtho, Beth sydd yn dy law? Dywedodd yntau, Gwïalen. Ac efe a ddywedodd, Tafl hi ar y ddaear. Ac efe a'i taflodd hi ar y ddaear; a hi a aeth yn sarph; a Moses a giliodd rhagddi. Yr Arglwydd hefyd a ddywedodd wrth Moses, Estyn dy law, ac ymafael yn ei llosgwrn hi. Ac efe a estynodd ei law, ac a ymaflodd ynddi; a hi a aeth yn wïalen yn ei law." Yr amcan i'r hwn y rhoddwyd y gallu yma a eglurir i Moses, "fel y credant ymddangos i ti o Arglwydd Dduw eu tadau, Duw Abraham, Duw Isaac, a Duw Jacob." Yn awr dylyna gwyrth o'r hon Moses ydoedd y gwrthddrych; "A dywedodd yr Arglwydd wrtho drachefn, Dod yn awr dy law yn dy fynwes. Ac efe a roddodd ei law yn ei fynwes; a phan dynnodd efe hi allan, wele ei law ef yn wahan-glwyfol fel yr eira. Ac efe a ddywedodd, Dod eilwaith dy law yn dy fynwes. Ac efe a roddodd eilwaith ei law yn ei fynwes, ac a'i tynnodd hi allan o'i fynwes; ac wele, hi a droisai fel ei gnawd arall ef." Yr oedd yr arwydd yma i gael ei arddangos os profai y cyntaf yn annigonol. Ac os methai y rhai hyn yr oedd wedi ei arfogi â gallu pellach. "A bydd, oni chredant hefyd i'r ddau arwydd hyn, ac oni wrandawant ar dy lais, ti a gymmeri o ddwfr yr afon ac a'i tywellti ar y sychdir; a bydd y dyfroedd a gymmerech o'r afon yn waed ar y tir sych."

Yr oedd gan Moses yn awr wrthwynebiad arall i'w wneyd. "A dywedodd Moses wrth yr Arglwydd, O fy Arglwydd, ni bûm ŵr ymadroddus, na chyn hyn, nac er pan leferaist wrth dy was; eithr safndrwm a thafodtrwm ydwyf." A chyda y fath nerth arddymchwelol y cyfarfyddir a'r gwrthwynebiad yma! "A dywedodd yr Arglwydd wrtho, Pwy a wnaeth enau i ddyn? neu pwy a ordeiniodd fudan, neu fyddar, neu y neb sydd yn gweled, neu y dall? onid myfi yr Arglwydd?" Wedi goruwchreoli yr esgusodion hyn trwy yr ymostyngiad Dwyfol, rhoddwyd y gorchymyn fod i Moses fyned yn mlaen a'i genadwri fawr, ac yn cael ei ddylyn a'r addewid, "Mi a fyddaf gyd a'th enau, ac a ddysgaf i ti yr hyn a ddywedych."

Nid ydym yn rhyfeddu i ddigofaint Duw ennynu yn erbyn Moses, pan, mewn attebiad i'r gorchymyn Dwyfol, y beiddiodd ddweyd, "O fy Arglwydd, danfon, attolwg, gyd a'r hwn a ddanfonych." Ac eto ymos-

tynga yr Arglwydd i ddefnyddio darbwylliad pellach gyda ei was. Galwyd Aaron o'r Aipht i gyfarfod ei frawd ar ol deugain mlynedd o ymwahaniad, a medrai ef lefaru yn groyw. Yma gwelwn y Rhagluniaeth a weithredodd ar yr un amser ar wahanol feddyliau i gyflawni ei bwriadau mawrion. Nid yn unig galwodd Duw Aaron i'r anialwch, ond arweiniodd ef i'r fan lle yr oedd i gyfarfod ei frawd. Aaron, wedi ei ddonio âg ymadrodd, oedd i ddefnyddio ei dafod ffraeth, a Moses i gyflawni y gwyrthiau trwy ba rai y cadarnheid eu cenadwri Ddwyfol.

Wedi i bob gwrthwynebiad yn awr gael ei orchfygu, aeth Moses at Jethro, ac erfyniodd am iddo gael ei oddef i ddychwelyd ac ymweled a'i bobl, a chafodd ganiatâd i fyned mewn heddwch. Ar ei ffordd i lawr i'r Aipht, rhyw afiechyd poenus a anfonwyd trwy law Duw, a'i hadgofiodd o ddyledswydd wedi ei hesgeuluso yn ei deulu, a phan gyflawnwyd y ddyledswydd hono, a'i fab wedi ei enwaedu, caniatawyd iddo fyned i'w ffordd. Yna cyfarfyddodd ag Aaron ei frawd, ac a'i cusanodd ef, a dychwelasant eu dau yn nghyd i'r Aipht, mynegodd Moses i Aaron yr oll a orchymynodd yr Arglwydd. Aethant eu dau at y dynion blaenaf yn mysg yr Israeliaid, ac yn ol y trefniad Dwyfol, "Aaron a draethodd yr holl eiriau a lefarasai yr Arglwydd wrth Moses, ac a wnaeth arwyddion yng ngolwg y bobl." Traddododd Aaron y genadwri oddiwrth yr Arglwydd, a chyflwynodd Moses y credwarantau gwyrthiol. "A chredodd y bobl, a phan glywsant ymweled o'r Arglwydd â meibion Israel, ac iddo edrych ar eu gorthrymder, yna hwy a ymgrymmasant ac a addolasant."

Fel hyn, ar ol absennoldeb o ddeugain mlynedd, dychwela Moses i'r wlad o'r hon y ffôdd am ei fywyd i ddianc rhag llid y brenhin. Fel y mae yr olygfa yr â iddi wedi cyfnewid! Mae y brenhin a'r oll a geisient ei fywyd wedi myned i'r bedd, ac yn eu mysg dichon y foneddiges frenhinol i dosturi yr hon yr oedd yn ddyledus am ei fywyd. Mae cenhedlaeth o Hebreaid hefyd wedi myned ymaith oddi tan law y meistred-gwaith, a myned i'r lle "yr annuwiolion a beidiant a'u cyffro, ac y gorphwys y rhai lluddedig." Ond dyrchafa cri pobl orthrymedig eto i fyny i'r nefoedd, ac â Moses fel gwaredwr Dwyfol-awdurdodedig y rhai ydynt ar drengu.

(Darllener Exodus iii. a'r iv.)

## PENNOD V.

### RHYDDHAD ISRAEL YN CAEL EI HAWLIO, A'I WRTHOD.

Mor gynted ag y boddlonwyd y personau blaenaf yn mysg yr Hebreaid â Dwyfol awdurdodiad Moses ac Aaron, cyrchodd y ddau frawd i'r palas i gyflwyno eu cenadwri i Pharaoh. Yr oedd y breswylfa frenhinol ar y pryd yma wedi cael ei newid yn debygol o Memphis i Tanis, yn agos i eneu un o geinciau dwyreiniol y Delta, canys cyflawnwyd gwyrthiau Moses "ym maes Soan," yr un a Tanis. A Moses gan hyny, nid i'r palas lle y treuliwyd y rhan gyntaf o'i fywyd, ac ychwaith nid yw yn ymddangos ger bron y Pharaoh a geisiodd ei ladd ef. Yr oedd y brenhin hwnw wedi marw, a chyn ei ymadawiad o Midian, dywedodd Duw wrth Moses, "Bu feirw yr holl wŷr oedd yn ceisio dy einioes."

Wele y ddau wŷr hybarch hyn yn sefyll yn syth o flaen y teyrn eilun-addolgar, nid fel ymbilwyr isel, ond fel cenhadon oddiwrth Jehofah, Duw Israel!—canys yn awr, am y waith gyntaf, cyhoedda yr Arglwydd ei berthynas â'r Israeliaid adfydus. Yn yr enw cyssegredig hwnw, gwna Aaron, yr hwn yw y llefarydd, yr hawliad gorchymynol, eto rhesymol, ar i bobl Dduw gael eu goddef i ymadael i'r anialwch, a chynal gwledd grefyddol. Derbyniwyd yr hawliad yma â gwrthodiad dirmygus. Yr oedd Pharaoh yn adnabod ac yn addoli duwiau lawer yr Aipht, ond Jehofah nis adwaenai, ac ni ofalai am ei adwaen, a heriodd yn annuwiol Ei allu. Anturiodd fyned i ryfel â Duw, ac y mae gennym yn awr i nodi yr ymdrechfa anghyfartal a'i chanlyniad. Ailadroddir yr hawliad, ond yn unig i gael ei wrthod, ac anfonir y cenhadon hyn oddiwrth "Dduw yr Hebreaid" ymaith yn ddirmygus, fel personau blinderus, y rhai ydynt yn aflonyddu yr Israeliaid yn eu gwaith, ac yn peryglu diogelwch y cyhoedd.

Dylynwyd yr apeliad yn ffafr yr Israeliaid gan fesurau mwy gormesol. "A gorchymynodd Pharaoh y dydd hwnw, i'r rhai oedd feistred-gwaith ar y bobl, a'u swyddogion, gan ddywedyd, Na roddwch mwyach wellt i'r bobl i wneuthur priddfeini, megis o'r blaen; elant a chasglant wellt

iddynt eu hunain. A rhifedi y priddfeini y rhai yr oeddynt hwy yn ei wneuthur o'r blaen a roddwch arnynt; na leihêwch o hynny: canys segur ydynt; am hynny y maent yn gwaeddi, gan ddywedyd, Gad i ni fyned ac aberthu i'n Duw." Yma gwelwn fod dau ddosbarth o swyddogion wedi eu gosod ar yr Israeliaid, y meistred-gwaith y rhai oeddynt Aiphtiaid, a'r swyddogion ddefnyddid odditanynt, y rhai oeddynt Hebreaid. Pennodai y cyntaf faint o waith i'w wneyd, a gwyliai y lleill dros eu brodyr i weled fod y tasgau yn cael eu gwneyd yn rheolaidd. Gan eu galw hwy bob un i'w bresennoldeb, rhoddodd y brenhin allan y gorchymyn hyny, mor hynod am ei anghyfiawnder a'i orthrwm, fel y mae wedi cael cyfeirio ato yn yr holl oesau dylynol, i osod allan bob hawliadau afresymol a gorthrymus, pan y rhoddir tasg, ac y cedwir yn ol foddion ei gyflawniad.

Defnyddid y gwellt i rwymo y clai yn nghyd, a gellir olrhain hyd eto y defnydd hyny yn hen briddfeini yr Aipht. Nid oedd y meistred-gwaith Aiphtaidd ar ol o gyflawni gorchymynion y brenhin, ac yn ganlynol hwy a gyhoeddasant yr archiadeb ormesol, "Fel hyn y dywed Pharaoh, Ni roddaf wellt i chwi. Ewch chwi, a cheisiwch i chwi wellt lle y caffoch; er hynny ni lehêir dim o'ch gwaith. A'r bobl a ymwasgarodd trwy holl wlad yr Aipht, i gasglu sofl yn lle gwellt." A'r canlyniad anocheladwy fu na wnaed yr un rhifedi arferol o briddfeini. Prysurai y meistred-gwaith Aiphtaidd hwynt gan ddywedyd, "Gorphenwch eich gwaith, (dogn dydd yn ei ddydd,) megis pan oedd gwellt." Ceisiai y swyddogion Hebreig yn ofer roddi boddlonrwydd i'r meistred-gwaith. Bob dydd yr oedd y rhifedi priddfeini ar ol, ac yn awr curwyd yr arolygwyr am beidio gwneyd gwaith annichonadwy. Ceisiodd y bobl gystuddiol hyn am ymwared trwy fyned at y brenhin, ac egluro fod yn annichonadwy cyflawni ei orchymyn. Mae yn dra thebygol fod y Pharaohaid Aiphtaidd hyn fel brenhinoedd Dwyreiniol ereill, yn cynhal llys agored ar ddyddiau pennodol, i'r hwn y goddefid i bob deiliad ymddangos, a hawlio ymwared. Adroddwyd am eu baich mawr yn ofer, ac ailroddwyd y gorchymyn gormesol, a gyrwyd yr achwynwyr o bresennoldeb y gormesdeyrn. Syrthiodd y baich yn drwm yn awr ar y swyddogion Hebreig, y rhai a deimlent "eu hun mewn lle drwg." Gwnaethant o ganlyniad eu happeliad at Moses ac Aaron, wrth y rhai yr achwynasant am eu dyoddef-

iadau mewn dull mor edliwiol fel yr oedd eu ffydd a'u gwroldeb wedi eu gorchfygu. Yna "dychwelodd Moses at yr Arglwydd, ac a ddywedodd, O Arglwydd, paham y drygaist y bobl hyn? i ba beth y'm hanfonaist? Canys er pan ddaethum at Pharaoh, i lefaru yn dy enw di, efe a ddrygodd y bobl hyn; a chan waredu ni waredaist dy bobl."

Tynodd cwyn Moses allan oddiwrth yr Arglwydd amlygiadau newyddion o'r gallu Dwyfol, a'r bwriad o arwain Israel allan o'r caethiwed i wlad Canaan. Ymddanghosodd Duw i'r patriarchiaid Hebreig wrth yr enw Duw Hollalluog, ond dywed Ef, "erbyn fy enw Jehofah ni bûm adnabyddus iddynt." Er fod y mwyaf hyny o'r enwau Dwyfol wedi ei ddadguddio i Abraham, nid oedd ei lawn ystyr yn adnabyddus iddo ef na'i deulu, fel yr oedd yn awr i gael ei wneyd yn hysbys i Moses, a thrwyddo ef i'r Israeliaid. Eglurir ystyr yr iaith dra hynod hyn yn rhagorol gan esboniwr Iuddewig. "Mae y dadguddiad yma yn awr, am y waith gyntaf, i gael ei amlygu i, a'i daenu yn mysg, yr Israeliaid; mae i gryfhau eu gobeithion, ac i'w cyfodi hwy yn eu tristwch, ac yn ddiweddaf i gyfranu i ogoneddiad parhaus Duw, yr hwn trwy waredigaeth Israel a'u goresgyniad o Ganaan a adwaenir nid yn unig fel yn holl-alluog, ond hefyd yn anghyfnewidiol yn Ei fwriadau a'i addewidion."

Cyhoeddodd Moses drachefn y bwriadau Dwyfol i'r Israeliaid gorthrymedig, "ond ni wrandawsant ar Moses, gan gyfyngdra yspryd, a chan gaethiwed caled."

Cyfarwyddwyd Moses i ailfynegu yr hawliad Dwyfol i'r brenhin, ond eto pallodd ei ffydd ef, ac ofnodd fyned gan ddywedyd, "Wele fi yn ddïenwaededig o wefusau; a pha fodd y gwrendy Pharaoh arnaf?" Trwy fod y gofynion hyn oll yn cael eu gwrthod gan Pharaoh, ymgyrchwyd yn nesaf at arwyddion gwyrthiol, arddanghoswyd yn mhresennoldeb y brenhin gan Moses ac Aaron, ac eto rhagwelwyd a rhagfynegwyd na wnai y brenhin oddef i Israel ymadael, hyd oni syrthiai y barnau Dwyfol fel byddin arswydus ar y brenhin a'i bobl.

Mae llawer o bersonau wedi ymddyrysu gyda'r rhagfynegiad, "A minnau a galedaf galon Pharaoh, ac a amlhâf fy arwyddion a'm rhyfeddodau yn ngwlad yr Aipht," yr hwn y maent wedi bod yn analluog i'w gyssoni â rhyddid moesol Pharaoh a'i gyfrifoldeb. Mae yr anhawsder

yn fwy ymddanghosiadol na gwirioneddol. Nid oedd y brenhin yn yr ystyr yma yn eithriad i bob pechaduriaid ydynt yn canfod barnau Duw, yn clywed Ei apeliadau, ac eto nid ydynt yn edifarhau, er ei fod ef yn sefyll wrth ben y dosbarth ofnadwy yma. Dywedir yr un peth am yr Aiphtiaid yn gyffredinol, "Wele, fi, ie myfi, a galedaf galon yr Aiphtiaid, fel y delont ar eu hol hwynt; a mi a ogoneddir ar Pharaoh, ac ar ei holl fyddin, ar ei gerbydau ef, ac ar ei farchogion." Ni ymddygwyd ato yn wahanol i ereill o ddynion, ond yn ol y deddfau unweddol ydynt yn ffynu yn llywodraeth foesol Duw. Bob tro gwrthoda calon atteb i apeliad Dwyfol, mae yn myned yn galetach, a chan i Pharaoh wrthwynebu mwy o'r apeliadau hyn nag un dyn arall, yr oedd ei galon wedi ymgaledu mwy. Nid oedd yr un gweithrediad o allu Dwyfol i rwystro iddo gredu yn Nuw. Aeth y gweithrediad ofnadwy yn mlaen yn gydgordiol a rhedfa cyffredin pethau yn y byd moesol. Felly darllenwn am Pharaoh ar ol symmud y llyfaint, pan y gwelodd fod seibiant iddo, "efe a galedodd ei galon." (Exod. viii. 15.) Pan yr ydym yn gwrthwynebu y llais Dwyfol yr hwn sydd yn apelio atom yn y ddeddf a'r efengyl, yr ydym yn gwneyd niwed marwol i'n heneidiau. I anufuddhau i'r gwirionedd yw i farweiddio ein gallu i ymostwng i'w dystiolaeth; i fygu ein hargyhoeddiadau yw i wneyd yr enaid yn llai parod i dderbyn argraffiad pan y dywedir wrthym am ein pechadurusrwydd ac am y drugaredd Ddwyfol. Os gwnawn ddibrisio y gwirionedd ydym yn glywed, neu oddef iddo fyned ar goll o'r enaid trwy anghof, yr ydym bob amser yn gwrthwynebu yr Ysbryd Glân, a thrwy efelychu esiampl ddrwg Pharaoh, yn rhoddi ein hunain yn agored i'w dynged ofnadwy ef. Bydded i ni weddïo a gwylio na byddo i'n calonau ymgaledu trwy fynychu gwrando y gair Dwyfol, a gweled y gweithredoedd Dwyfol, ac eto gwrthod credu ac ufuddhau.

Dylem ffurfio y farn uwchaf am y gwirionedd dadguddedig, a rhoddi ymostyngiad ein ffydd a'n hufudd-dod serchog. Mae grym y dystiolaeth yn cael ei ddinystrio yn raddol trwy ein hoediad i gydnabod ei hawliau, ac y mae yn dwyll arswydus a marwol i obeithio yr enilla y fory y fuddugoliaeth fawr hono y metha sicrhau heddyw.

(Darllener Exodus v.)

## PENNOD VI.

### PLAAU YR AIPHT.

BYDDWN yn barod i werthfawrogi y wyrth gyntaf wnaed gan Moses ac Aaron yn mhresennoldeb Pharaoh a'i lys, os cofiwn fod sarff-swyno yn un o'r celfyddydau yn y rhai yr oedd y swynwyr Aiphtaidd yn rhagori. Fel yr oedd y gwir Dduw, yr hwn ydoedd yn anadnabyddus i frenhin yr Aipht, yn awr yn hawlio rhyddhad Ei bobl o gaethiwed, yr ydym yn deall yn rhwydd mor angenrheidiol ydoedd i'w genhadon Moses ac Aaron fuddugoliaethu ar offeiriaid yr Aipht, gan y rhai yr arweinid y brenhin, ac ar y gau dduwiau a addolent. Yn gyntaf yr oedd y doethion a'r hudolion i gael eu gorchfygu, ac yna honiadau y duwiau gau i gael eu dadbrofi.

Pan yr oedd y Ffrancod yn yr Aipht, canfyddasant ddosbarth o bersonau y rhai a ragorent yn y gelfyddyd o sarff-swyno. Proffesent i droi math neillduol o sarff yn wïalen, a pheru iddi ffugio bod yn farw. Ar ol amrywiol swyniadau, rhoddodd y gweithredydd ei law ar ben yr anifail, yr hon a ddaeth yn anhyblyg a digyffro, ac a syrthiodd i fath o gwsg. Trosglwyddid dirgelion eu llwyth i lawr o dad i fab, a chedwid hwynt yn ofalus oddiwrth bawb dyeithr. Gan fod y sarff-swynwyr hyn yn cael eu cyflogi gan offeiriaid i gadw eu dylanwad ar y brenhin a'r bobl, cyfarwyddwyd Moses i fyned i bresennoldeb Pharaoh a bwrw ei wïalen i lawr, yr hon yn ebrwydd ydoedd i ddod yn sarff. Wedi gwneyd hyn, anfonodd y brenhin, yn lle cydnabod llaw Jehofah, am swynwyr yr Aipht, y rhai "a wnaethant felly trwy eu swynion." Ni fuasai yn anhawdd iddynt gario seirff yn eu llaw, y rhai a ymddanghosent fel gwïail, ac wrth gael eu bwrw ar y llawr brofi i fod yn seirff; ond yr oedd tystiolaeth wyrthiol Moses ac Aaron yn amlwg drachefn pan y llyngcodd eu sarff hwy seirff y swynwyr. Gwelodd Pharaoh ddigon i argyhoeddi un dyn ag yr oedd ei galon yn agored i wirionedd, ond yr oedd ei galon wedi caledu, a gwrthododd yr appeliad yma.

Yr oedd y wyrth gyntaf yn arwydd nad oedd yn dwyn un golled ar y brenhin na'i bobl, ond wedi ei gwrthod, gorchymynwyd i Moses gyflawni ail wyrth, y cyntaf o ddeg pla yr Aipht. "Yr Arglwydd hefyd a ddywedodd wrth Moses, Dywed wrth Aaron, Cymmer dy wïalen, ac estyn dy law ar ddyfroedd yr Aipht, ar eu ffrydiau, ar eu hafonydd, ac ar eu pyllau, ac ar eu holl lynnoedd dyfroedd, fel y byddont yn waed; a bydd gwaed trwy holl wlad yr Aipht, yn eu llestri coed a cherrig hefyd." Yr oedd hyn i gael ei wneyd yn debygol y dydd ar ol y wyrth gyntaf, yn y boreu pan yr aeth y brenhin allan i rodio ar lan y Nile, yn cael ei ganlyn gan ei lyswyr. Yr oedd i gael ei ragflaenu gan gyhoeddiad o'r bwriad Dwyfol, fel y gallasai y brenhin arbed i'w bobl holl drychineb y pla cyntaf yma. Ac yn awr gwelwch un o'r "rhyfeddodau (yma) yn nhir Soan." Cwyd Aaron ei wïalen i fyny, tarawodd yr afon, ac yn y fan hi "a dröwyd yn waed." Bu y pysgod feirw, daeth y ffrwd gyssegredig yn ddrewllyd, a holl ddyfroedd y ffynhonau, camlasau, ffosydd, a'r llynoedd trwy yr Aipht, a syrthiasant o dan yr un felldith ofnadwy.

Pharaoh, yn lle cydnabod yr Un anfeidrol hwnw trwy yr hwn y gwnaed y wyrth yma, a annogodd ei swynwyr i'w hefelychu, a phrofi nad oedd Moses wedi gwneyd dim tu hwnt i'w gallu. Mae yn debygol iddynt ddefnyddio eu medr fferyllol i roddi lliw gwaed i gyfran fechan o ddwfr yn mhresennoldeb y brenhin, yr hwn a dwyllwyd yn wirfoddol. Bron yn yr un modd y defnyddir "rhyfeddodau gau" Eglwys Rhufain, pan y credir fod gwaed St. Januarius yn ymdoddi yn mhresennoldeb y gynnulleidfa. Gwna y meddwl sydd yn benderfynol i beidio credu y gwirionedd gredu celwydd yn rhwydd. Gwrthddadleuodd Anffyddwyr, os ydoedd Moses wedi troi holl ddyfroedd yr Aipht yn waed, nid oedd dim i'w adael ar yr hwn y gallai y swynwyr weithredu, ond i'r wrthddadl yma rhydd yr hanes atebiad, "A'r holl Aiphtiaid a gloddiasant oddi amgylch yr afon am ddwfr i'w yfed; canys ni allent yfed o ddwfr yr afon."

Yr oedd y pla cyntaf, yr hwn a barhaodd yn y fan leiaf saith niwrnod, yn bur gyfaddas i ddychrynu y brenhin a'i bobl. Yr oedd y Nile yn dduw yn eu cyfrif. Arddengys eu cof-adeiladau un o'u brenhinoedd, Ramases II., yn offrymu gwin i dduw y Nile, yr hwn a elwir "tad bywyd-

roddiad pob bodolaeth." Fel hyn yr aeth y gwir Dduw i frwydr â duwiau gau yr Aipht. Yr oedd troad y dwfr yn waed yn tueddu i adgoffa y brenhin o'r gwaed a dywalltodd trwy ei gyfraith greulon, ac i'w ragrybuddio o'r ad-daliad ofnadwy oedd yn awr yn dyfod ar ei wlad.

Dylynir y pla cyntaf yn gyflym gan yr ail, yr hwn a wneir yn hysbys fel hyn i'r brenhin: "Os gwrthodi eu gollwng, wele, mi a darawaf dy holl derfynau di â llyffaint: A'r afon a heigia lyffaint, y rhai a ddringant, ac a ddeuant i'th dŷ, ac i ystafell dy orweddle, ac ar dy wely; ac i dŷ dy weision, ac ar dy bobl, ac i'th ffyrnau, ac ar dy fwyd gweddill; a'r llyfaint a ddringant arnat ti, ac ar dy bobl, ac ar dy holl weision." Yma eto try Jehofah wrthddrychau eilun-addoliaeth Aiphtaidd yn offerynau cospedigaeth. Ar eu hen emau a thafleni arddanghosir y llyffant yn eistedd ar ddalen o'r lotus cyssegredig, fe allai fel arwyddlun o'r Nile. Amlygwyd llaw yr Arglwydd yn y pla yma trwy achosi yr heidiau hyn o lyffaint i ymdaenu dros y wlad, gan fyned i'w tai, ymosod ar y bobl, y brenhin, a'u gweision, a llenwi eu cafnau tylino a'u ffyrnau. Trwy ryw gelfyddyd o gonsuriaeth, y fath ag a arferir yn ein dydd ni, proffesai y swynwyr i ymgystadlu a'r wyrth hon, ond nid oedd ganddynt allu i yru ymaith y felldith. Y brenhin yn lle galw am eu cymhorth i'r diben yma, yn awr am y waith gyntaf, broffesa i gredu yn ngallu Jehofah, ac i gydnabod Moses ac Aaron fel ei weision, gan ddywedyd, "Gweddïwch ar yr Arglwydd, ar iddo dynnu y llyffaint ymaith oddi wrthyf fi, ac oddiwrth fy mhobl; a mi a ollyngaf ymaith y bobl, fel yr aberthont i'r Arglwydd."

Fel y gwnaeth Duw anrhydeddu ei was Moses pan mewn atebiad i'w weddi, yr "Arglwydd a wnaeth yn ol gair Moses; a'r llyffaint a fuant feirw o'r tai, o'r pentrefydd, ac o'r meusydd!" A'r fath arddanghosiad arswydus o dwyll ac annuwioldeb ymgaledol a rydd y brenhin, pan, mor gynted y gwelodd fod seibiant, y torodd ei addewid, ac y gwrthododd adael i'r bobl fyned.

Mae llawer o esboniadau wedi bod ar y trydydd pla, ond darlunia yr un mwyaf cywir ef fel yn gynhwysedig o wibed, yn debygol y gwibed moscitaidd. Mae y trychbryfaid hyn yn gyffredin yn dra blinderus yn yr Aipht. Darlunia yr holl deithwyr hwynt fel pla cyffredin y wlad.

Dylynant y bobl, rhwystrant iddynt fwyta, aflonyddant eu cwsg, ac achosant chwyddiadau poenus. Ar rai tymhorau llanwant yr heolydd a'r tai. Ar ol cynhauaf rhisyd, ant allant yn heidiau o'r maesydd dylifol, yn y rhai y gosododd y cenhedlaethau blaenorol eu hwyau. Nid oedd yr ymweliad arswydus yma yn gynhwysedig yn nghynnyrchiad trychbryfaid â'r rhai nid oedd gan yr Aiphtiaid adnabyddiaeth flaenorol, ond yn eu lliosogiad dirfawr, mor gynted y tarawodd Moses ac Aaron lwch y ddaear, o ba le yr ehedasant allan i ymosod ar ddyn ac anifail. Pan y gwelodd y swynwyr yr awyr yn ymdewhau o'r trychbryfaid hyn, ac y methodd eu celfyddyd ddynwared y pla, gorfodwyd hwy i gydnabod eu gorchfygiad, ac i briodoli y felldith i "fys Duw;" ond parhaodd calon y brenhin yn galed, ac ni wrandawai ar y llais a lefarai yn y wyrth hon.

Rhagfynegwyd y pedwerydd pla i'r brenhin fel y rhodiai yn gynhar yn y boreu wrth ochr yr afon: "A dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, Cyfod yn fore, a saf ger bron Pharaoh, (wele, efe a ddaw allan i'r dwfr,) yna dywed wrtho, Fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, Gollwng ymaith fy mhobl, fel y'm gwasanaethont: o herwydd, os ti ni ollyngi fy mhobl, wele fi yn gollwng arnat ti, ac ar dy weision, ac ar dy bobl, ac i'th dai, gymmysgbla; a thai yr Aiphtiaid a lenwir o'r gymmysgbla, a'r ddaear hefyd yr hon y maent arni." Y trychbryfyn sydd yn ateb oreu i'r darluniad o'r pla yma yw y chwilen, yr hon a ddaeth allan wrth yr alwad Ddwyfol, ymosododd ar bobl yr Aipht, tynodd ddifrod mawr ar y wlad, ond arbedodd yr Hebreaid. Yr oedd y trychbryfyn yma yn wrthddrych addoliad eilun-dduwiol yn mysg y bobl ar y rhai yr anfonid hwynt yn awr fel melldith. Mor ddychrynllyd ydoedd yr ymweliad yma, fel na wnaeth y swynwyr hyd yn oed gynhyg i'w ddynwared; a'r brenhin i ddianc rhag ei effeithiau erchyll "a alwodd am Moses ac Aaron, ac a ddywedodd, Ewch, aberthwch i'ch Duw yn y wlad." Gwrthodai Moses aberthu yn mhresennoldeb yr Aiphtiaid yr anifeiliaid hyny a ddalient mewn parch, a lladdiad y rhai a gyfrifent fel yn "ffieiddbeth." Ni wnaethai caniatâd y brenhin i ladd yr anifeiliaid hyn amddiffyn yr Hebreaid rhag effeithiau terfysg y bobl, pan y gwnaethai y bobl eu llabyddio. Ailadroddwyd y gofyniad am ganiatâd i fyned i daith tri diwrnod, ac o'r diwedd oddefwyd er mwyn i Moses ymbil ar yr Arglwydd

dros y brenhin a'i bobl. "A dywedodd Moses, Nid cymmwys gwneuthur felly; oblegid nyni a aberthwn i'r Arglwydd ein Duw ffieiddbeth yr Aiphtiaid: wele, os aberthwn ffieiddbeth yr Aiphtiaid yngŵydd eu llygaid hwynt, oni labyddiant hwy ni? Taith tridiau yr awn i'r anialwch, a nyni a aberthwn i'r Arglwydd ein Duw, megis y dywedo efe wrthym ni. A dywedodd Pharaoh, Mi a'ch gollyngaf chwi, fel yr aberthoch i'r Arglwydd eich Duw yn yr anialwch; ond nac ewch ym mhell; gweddïwch trosof fi."

Yr oedd y pumed pla yn fwy niweidiol i'r Aiphtiaid na'r un a'i blaenorodd. Yr oedd anifeiliaid y bobl hyn yn cyfansoddi rhan fawr o'u cyfoeth. Eu ceffylau o brydferthwch a chryfder uwchraddol, a brisid yn uchel gan y brenhinoedd a'r tywysogion, y rhai a'u defnyddient i'w cerbydau rhyfel, fel y darlunir hwynt ar y cof-adeiladau, fel y mae hefyd y mulod a'r asynod. Yr oedd defaid ac ychain[1] yn helaeth iawn, a chyfrifid yr holl anifeiliaid hyn gyda pharch cyssegredig. Yr oedd haint farwol i syrthio ar yr oll dranoeth, os na wnai y brenhin dyneru, tra yr oedd anifeiliaid yr Hebreaid i fod yn rhydd o'r gospedigaeth. Ar yr amser pennodedig, daeth yr haint, a phan yr anfonodd Pharaoh, "wele, ni buasai farw un o anifeiliaid Israel. A chalon Pharaoh a galedwyd, ac ni ollyngodd y bobl."

Dygwyd y chweched pla i mewn yn y dull mwyaf rhyfeddol. Gorchymynwyd i Moses gymmeryd llonaid ei ddwylaw o ludw ffwrn, yn debygol rhyw allor aberthu, a'i fwrw i'r awyr, lle y taenid ef fel llwch ar ddyn ac anifail—canys rhaid darllen yr holl ymadrodd ddefnyddiwyd yn y pla blaenorol mewn cymhwysiad cyfyngedig. Gall y gweithrediad neillduol yma dderbyn rhyw eglurhad oddiwrth arferiad gedwid gan yr offeiriaid Aiphtaidd, y rhai ar ol aberthu dyeithriaid i'w gau dduwiau, a gasglent y lludw, ac a'u taenent yn yr awyr o dan obaith yr ymdaenai bendithion dros wyneb yr holl wlad. Yr eilun-addolwyr yma a adgofid fel hyn o greulonderau eu hofergoeliaeth, a gwelid ffolineb eu dewiniaeth yn y cyferbyniad ofnadwy gyflwynid yn awr. Nid cynt yr ufuddhaodd Moses i'r archiad Dwyfol, nag y daeth yr awyr yn dew o lwch, ac fel y disgynai ar ddyn ac anifail, gorchuddiai cornwydydd poenus a marwol

[1] Gwelwch Ddarlun o anifeiliaid Aiphtaidd.



LEIGHTON, BROTHERS.

EGYPTIAN CATTLE.

From a Fresco Painting in a Tomb at Thebes.

hwynt oll. Y swynwyr, celfyddydau y rhai oeddynt oll wedi methu yn flaenorol, a grybwyllir yn awr yn neillduol fel y rhai oeddynt yn gynhwysedig o fewn y trychineb dychrynllyd yma. Ac etto "Pharaoh ni wrandawai arnynt; megis y llefarasai yr Arglwydd wrth Moses."

Cyfeirid y seithfed pla yn erbyn calon y brenhin, wedi ei fwriadu i dori lawr ei ymdiried balch, a gorchfygu ei wrthwynebiad cyndyn i Dduw. Cenllysg, y fath na adwaenwyd erioed yn yr Aipht, oedd i ddyfod i lawr mewn ystorm ddinystriol, ac yn nghyd a thân mellt i ddisgyn ar ddyn ac anifail, ar bob pren a llysieuyn, ac yn cael ei dylyn gan ruad taranau i ddinystrio pob peth agored i'w chynddaredd. Yr haidd a'r llin, y rhai oeddynt agos yn barod i gael eu tori yn adeg y trychineb yma, a ddinystriwyd. Pan y cofir fod yr Aiphtiaid yn tyfu llin i radd helaeth iawn i wneyd y "lliain main," am yr hwn yr oedd y wlad yn enwog,—yr Aipht ydoedd farchnad lliain yr hen fyd,—ymddengys mawredd y trychineb yma. Arbedwyd y gwenith a'r rhyg, gan nad oeddynt yn addfed am fis yn mhellach. Rhoddwyd rhybudd trugarog i'r brenhin yn y rhagddysgwyliad am y malldod dychrynllyd yma, "Anfon gan hynny yn awr, casgl dy anifeiliaid, a phob dim a'r y sydd i ti yn y maes: pob dyn ac anifail a gaffer yn y maes, ac ni's dyger i dŷ, y disgyn y cenllysg arnynt, a byddant feirw." Rhydd yr ufudd-dod neu yr anufudd-dod ddanghoswyd tuag at y cyfarwyddyd yma, esiampl tarawiadol o weithrediad ffydd ac effaith anghrediniaeth. "Yr hwn a ofnodd air yr Arglwydd o weision Pharaoh, a yrrodd ei weision a'i anifeiliaid i dai: a'r hwn nid ystyriodd air yr Arglwydd, a adawodd ei weision a'i anifeiliaid yn y maes."

Anrhydeddodd Jehofah yn fawr ei was ffyddlon Moses yn rhoddiad a symmudiad yr ystorm ddinystriol hon, canys "Moses a estynodd ei wïalen tu a'r nefoedd: a'r Arglwydd a roddodd daranau a chenllysg, a'r tân a gerddodd ar hyd y ddaear; a chafododd yr Arglwydd genllysg ar dir yr Aipht." "A Moses a aeth oddiwrth Pharaoh allan o'r ddinas, ac a ledodd ei ddwylaw at yr Arglwydd; a'r taranau a'r cenllysg a beidiasant, ac ni thywalltwyd gwlaw ar y ddaear."

Nis gallai Pharaoh yn awr wadu gallu Duw, na Dwyfol awdurdod Moses Ei was. Efe "a anfonodd, ac a alwodd ar Moses ac Aaron, ac a

ddywedodd wrthynt, Pechais y waith hon: yr Arglwydd sydd gyfiawn, a minnau a'm pobl yn annuwiol." Ond Ow! "caledwyd calon Pharaoh, ac ni ollyngai efe feibion Israel ymaith; megis y llefarasai yr Arglwydd trwy law Moses."

Nid cynt y rhagfynegwyd yr wythfed pla, un y locustiaid, i orchuddio yr holl wlad, ac i ddifa pob pren ddiangodd rhag y cenllysg a'r mellt, nag yr erfyniodd gweision Pharaoh, y rhai erbyn hyn oeddynt wedi cael gormod o brofiad o wirionedd Moses i amheu cyflawniad ei fygythion, am i blant Israel gael ymadael, canys yr oedd y wlad wedi ei difetha. Yn ol eu cais anfonwyd am Moses ac Aaron gan y brenhin, yr hwn yn awr a broffesai ei barodrwydd i adael yr Hebreaid i ymadael ac aberthu, ond heb eu gwragedd a'u plant gyda hwynt. Wrth orchymyn Jehofah, estynodd Moses ei wïalen dros y wlad, a chyfododd y Dwyreinwynt, a chwythodd yr holl ddiwrnod hwnw a'r nos ganlynol, "a'r locustiaid a aethant i fyny dros holl wlad yr Aipht, ac a arhosasant ym mhob ardal i'r Aipht: blin iawn oeddynt; ni bu y fath locustiaid o'u blaen hwynt, ac ar eu hol ni bydd y cyffelyb. Canys toisant wyneb yr holl dir, a thywyllodd y wlad; a hwy a ysasant holl lysiau y ddaear, a holl ffrwythau y coed, yr hyn a weddillasai y cenllysg: ac ni adawyd dim gwyrddlesni ar goed, nac ar lysiau y maes, o fewn holl wlad yr Aipht." Yn ol taer erfyniad y brenhin, symmudwyd y trychineb yma, mewn atebiad i weddi Moses, anfonwyd gwynt gorllewin cryf i yru y locustiaid i'r Môr Coch, lle y trengasant. Gwrthodai calon galed Pharaoh etto adael i'r Hebreaid ymadael. Dyma yr ymgyfarfod diweddaf rhwng Moses a'r brenhin drygionus yma, yr hwn a ddywedodd wrtho, "Dos oddi wrthyf, gwylia arnat rhag gweled fy wyneb mwy: oblegid y dydd y gwelych fy wyneb, y byddi farw;" ac i'r hwn yr ateba Moses gyda phwysigrwydd ofnadwy, "Uniawn y dywedaist, ni welaf dy wyneb mwy."

Daeth y nawfed pla, un y tywyllwch goruwchnaturiol yn ddisymmwth ar y wlad, heb un rhybudd blaenorol, ac yn ystod y tri diwrnod yn y rhai yr amguddiwyd yr Aiphtiaid mewn tywyllwch ellid ei deimlo, fel nad allent weled eu gilydd, ac ni allai un dyn adael ei dŷ, "ond yr oedd goleuni i holl feibion Israel yn eu trigfannau." Yr oedd y trychineb yma wedi ei gymhwyso i arswydo meddwl y brenhin a'i bobl, ac i'w

cyffroi a'r ofn o farnau mwy fyth allasent ddyfod arnynt. Yr Aiphtiaid y rhai a addolent Osiris fel duw y dydd, a ganfyddent yn awr nad allai yru ymaith y tywyllwch a gysgodai ei lewyrch, ac fod ei allu yn diflanu o flaen melldith y gwir Dduw. Ymwelir a'r Aipht weithiau a thywyllwch yn ystod ymdaeniad y Chamsin, gwynt poeth llwythog gan lwch, ond ni fu y fath dywyllwch a hwn erioed yn adnabyddus, yr hwn a ddaeth ar y wlad pan yr estynodd Moses ei wïalen, ac oddiwrth yr hwn y cadwyd tai yr Hebreaid yn wyrthiol.

Y degfed pla a'r olaf, yr un mwyaf adfydus a ddisgynodd ar yr Aiphtiaid a ragfynegwyd gan Moses yn ei gyfarfyddiad diweddaf a'r brenhin: "Moses hefyd a ddywedodd, Fel hyn y llefarodd yr Arglwydd; ynghylch hanner nos yr af fi allan i ganol yr Aipht: a phob cyntaf-anedig yn ngwlad yr Aipht a fydd marw, o gyntaf-anedig Pharaoh, yr hwn sydd yn eistedd ar ei deyrn gadair, hyd gyntaf-anedig y wasanaeth-ferch sydd ar ol y felin; a phob cyntaf-anedig anifail. A bydd gweiddi mawr trwy holl wlad yr Aipht, yr hwn ni bu ei fath, ac ni bydd mwyach ei gyffelyb." Oddiwrth yr ymweliad arswydus yma yr oedd pobl Dduw i gael eu hamddiffyn yn drugarog: "Ond yn erbyn neb o blant Israel ni symmud ci ei dafod, ar ddyn, nac anifail; fel y gwypoch fod yr Arglwydd yn gwneuthur rhagor rhwng yr Aiphtiaid ac Israel." Gan fod rhoddiad y pla yma i gael ei ragflaenu gan gadwraeth Swpper y Pasc, ac i'w ddylyn yn union gan yr ymadawiad o'r Aipht, bydd yn angenrheidiol cyfeirio at y pynciau pwysig yma mewn cyssylltiad a'r trychineb ofnadwy hwnw. Pwy all ddarllen dylyniad y pläau ydynt wedi bod o dan sylw, heb gael ei adgofio o wirionedd yr holl fygythion Dwyfol, a'r angenrheidrwydd o ymostwng i Dduw, ac i geisio am drugaredd tra yr ydym etto yn cael ein ffafrio a lle i edifeirwch, "fel na chaleder neb o honoch trwy dwyll pechod."

(Darllener Exodus vii.—xi. Joel i. 6—18.)

## PENNOD VII.

### Y PASC A'R DEGFED PLA.

Yr oedd y pla diweddaf ddisgynodd ar yr Aiphtiaid i gael ei ddylyn gan arbediad trugarog yr Hebreaid, ac i roddi dechreuad i ordinhad grefyddol fwriedid i'w dysgu hwynt yn mhwngc mwyaf eu ffydd. Yr oeddynt i ganu am drugaredd yn gystal a barn, a thra y gwelent "doster Duw" yn y trychineb arswydol ddisgynodd ar yr Aiphtiaid, gwelent hefyd Ei ddaioni yn eu harbediad eu hunain.

O fod yn lliaws o gaethweision, yr oedd yr Hebreaid yn awr i gael eu dyrchafu i'r anrhydedd o genedl; ac yn eu gwaredigaeth o sefyllfa gaethwasaidd, yr oedd i dechreu y gwaith mawr o'u haddysg grefyddol. Fel mai y cyfnod o'u mynediad allan o'r Aipht ydoedd dydd genedigaeth eu cenedloldeb, dywedodd yr Arglwydd, "Y mis hwn fydd i chwi yn ddechreuad y misoedd: cyntaf fydd i chwi o fisoedd y flwyddyn."

Yr oedd tymhor maith eu caledi o dan Pharaoh wedi bod yn dra anffafriol i addysg ac addoliad crefyddol. Yr oedd dydd llafur yn maesydd y priddfeini yn cael ei ddylyn gan gwsg trwm y nos, a phe na buasent wedi anghofio y Sabbath, ni wnaethai yr Aiphtiaid, y rhai na ddanghosent un parch ato, ganiatâu y fraint iddynt o orphwys fel y gallent ei gadw.

Yr oedd Duw modd bynag wedi bod yn eu dysgu hwynt yn awr am yn agos i flwyddyn trwy Ei ragluniaeth ofnadwy. Yr oedd Ei allu wedi cael ei weled mewn naw o bläau dylynol, a'i drugaredd yn amddiffyn Israel rhagddynt. Dysgwyd hwynt "nad yw eilun ddim yn y byd," ac mai Duw eu tadau ydoedd y gwir Jehofah. Yr oeddynt yn awr i gael eu dysgu yn mhellach, ac yn neillduol yr oeddynt i ddysgu y berthynas oedd Duw wedi sefydlu rhwng aberth a diogelwch, rhwng tywallt gwaed a maddeuant pechod.

Rhyw amser cyn y noson ofnadwy ar yr hon y cymhwyswyd y degfed pla, yr oedd y bobl wedi cael eu dysgu am Swpper y Pasc, ac yr oedd iddynt ddarparu yr oll oedd yn ofynol er ei gadw. Cyfarwyddodd yr Arglwydd Moses ac Aaron i ddweyd wrth yr Israeliaid y dylasent gymmeryd iddynt "bob un oen, yn ol teulu eu tadau, sef oen dros bob teulu.

Ond os y teulu fydd ry fychan i'r oen, efe a'i gymmydog nesaf i'w dŷ a'i cymmer, wrth y rhifedi o ddynion: pob un yn ol ei fwytta a gyfrifwch at yr oen. Bydded yr oen gennych yn berffeith-gwbl, yn wrryw, ac yn llwdn blwydd: o'r defaid, neu o'r geifr, y cymmerwch ef. A bydded ynghadw gennych hyd y pedwerydd dydd ar ddeg o'r mis hwn: a lladded holl dyrfa cynnulleidfa Israel ef yn y cyfnos."

Yr aberth diniwed i gael ei ladd ar yr achlysur cofiadwy yma ydoedd oen o dan flwydd oed, neu (fe allai lle na ellid cael hwnw) fyn gafr o'r un oed ieuangc, fel na byddai un teulu neu gwmni yn analluog i fwyta Swpper y Pasc. Yr oedd yr anifail diniwed a thyner hwn i wasanaethu i ddau ddiben—i fod yn swpper ac aberth. Yr oedd i weini er lles dynion, ac i roddi anrhydedd i gyfiawnder Duw. Yr oedd y nodweddiadau bennodwyd yn arwyddocaol a llawn o addysg. Yr oedd i fod yn ddifrycheulyd, yn wryw o'r flwyddyn gyntaf; yr oed pur a thyner yma yn gosod allan y diniweidrwydd a'r purdeb gofynol i wasanaeth Sanct yr Israel. Bedwar diwrnod cyn Swpper y Pasc yr oedd yr oen i gael ei gymmeryd o'r gorlan, a'i neillduo yn aberth. Gan fod yr ordinhad yma yn cael ei bwriadu er addysg y plant yn gystal a'r rhieni, gallwn eu dychymygu hwy yn gwylio yr oen bach o ddydd i ddydd, a holi paham yr oedd wedi ei gau i fyny fel hyn wrtho ei hun, ac yn dysgu gan eu rhieni ei fod i gael ei ladd a'i fwyta, a'i waed ei daenellu ar byst y drws, fel y byddai i'r holl deulu gael eu hamddiffyn pan elai yr angel dinystriol heibio. Mae o bwys sylwi tra yr ydoedd yr ordinhad hynod yma i gael ei chadw gan yr holl genedl, yr oedd i fod yn nodedig o deuluaidd. Dinystria caethwasanaeth y berthynas deuluaidd yr hon a sefydlodd Duw yn y dechreuad, ac a ddefnyddiodd Swpper y Pasc yma i'w chryfhau. Yr oedd i gael ei chadw yn y teulu neu yn y fan bellaf mewn dau deulu cymmydogol, y rhieni a'r plant yn cydgyfranogi, a neb yn symmud o'r tŷ. Yr oedd y gwaed i gael ei daenellu â thusw o isop ar y ddau ystlysbost a chappan y drws, (post uwchaf y drws,) a thrwy y moddion yma proffesai yr Israeliaid eu ffydd yn y gwir Dduw, ac yn yr aberth oedd Ef wedi osod.

Rhoddwyd cyfarwyddiadau neillduol am baratoad yr oen i'r swpper. Nid oedd i gael ei fwyta heb ei gogyddio, fel y gwnelid mewn rhai o

aberthau y paganiaid, y rhai yn eu gloddestwyliau aflan a fwytaent gnawd ymwingol yr aberth wedi ei rwygo oddiwrtho ef tra eto yn fyw. Yr oedd i gael ei rostio yn gyfan, yr esgyrn heb eu tori, gan gysgodi fel hyn Crist, Oen Duw, yr hwn a gyflwynwyd fel aberth difai dros ein pechodau ni, ac na thorwyd yr un o'i esgyrn pan y croeshoeliwyd Ef. Arddanghosai y tân wrth yr hwn y rhostiwyd yr oen, gyfiawnder "ein Duw ni (yr hwn) sydd dân ysol." Yr oedd yr oen i gael ei fwyta gyda dail surion a bara croyw. Arddanghosai y dail chwerwder y dyoddefiadau hyny a brofasai yr Hebreaid yn ystod eu hir gaethiwed, tra wrth y rhai mwyaf goleuedig llefarent am yr edifeirwch chwerw hwnw am bechod yr hwn a ddylai ddylyn ein ffydd yn y gwir aberth. Llefarai y bara croyw am y bara gorthrymder hwnw o'r hwn y bwytasant mor hir, ac fel y cynhyddai eu gwybodaeth o wirioneddau nefol, dywedai wrthynt am y bara pur hwnw o'r nefoedd ydoedd ar ol hyn i gael ei roddi er mwyn bywyd y byd.

Yr oedd y gwestwyr tra yn cyfranogi o'r swpper cyssegredig hwn i fod wedi ymwisgo fel teithwyr yn barod i ymadael i'w taith, wedi gwregysu eu lwynau, eu hesgidiau am eu traed, a'u ffyn yn eu dwylaw, tra yn lle mwynhau y llonyddwch arferol wrth swpper, yr oeddynt i fwyta hwn ar ffrwst. Fel hyn yr oeddynt i gyssylltu y ddefod hon a'r sefyllfa i'r hon yr oeddynt wedi eu dwyn ar y pryd fel pererinon ar ddechreu eu taith i wlad yr addewid; fel y mae credinwyr bob amser ar ol hyn, tra yn cadw Swpper eu Pasc, yn cael eu hadgoffa mai nid hon yw eu gorphwysfa, a'u bod ar eu ffordd i'r wlad o'r hon nid oedd Canaan ond cysgod yn unig.

Wedi lladd yr aberth yn y cyfnos, a'r holl deulu yn aros yn ofalus o fewn y tŷ, ar ddrws yr hwn y taenellwyd y gwaed, aeth oriau y nos heibio fel y cedwid y defodau gorchymynedig, ac mewn sefyllfa o ddysgwyliad dwys. "Nos o gadwriaeth" ydoedd (Exod. xii. 42,) wrth yr hyn y gallwn ddeall noson wedi ei threulio yn yr adolygiad o'u hanes, yn nghynnaliad Swpper y Pasc, mewn gweddi a diolchgarwch, yn nghyssegriad y teulu i Dduw, yn y rhagddysgwyliad o'r farn oedd i syrthio o'u deutu, ac o'r bywyd newydd ar yr hwn yr oeddynt ar ddechreu.

Mae yn ganol nos, ac y mae pob teulu Hebrëig yn dysgwyl yn ddistaw

am yr Angel Dinystriol, yr hwn sydd i fyned heibio ar yr awr ddifrifol hon. Wele! mae yn barod ar ei ffordd yn cyflawni ei genadwri ddychrynllyd. Cyflym yw ei ehediad o'r palas i'r bwthyn, ac yn mhob man yn yr ehediad distaw hwnw cwympa ei ebyrth. Gwrandewch ar gri y fam o'r drigfa Aiphtaidd acw, ar y ddolef dreiddiol yna, ar y cydgor uchel yna o alarwyr! Mae yr awyr wedi dyfod yn seiniol trwy swn wylofain, galar, a gwae; dadseinia yr holl wlad gan y tristwch chwerwaf, clywir y gwragedd a'r plant, y tadau a'r brodyr, oll yn cymhysgu eu cwynfanau yn yr alarnad genedlaethol hon. Hawdd y gallasent wylo, canys nid oedd yr un tŷ lle nad oedd un marw. Syrthiodd yr awel arswydus ar "bob cyntaf-anedig yng ngwlad yr Aipht, o gyntaf-anedig Pharaoh yr hwn a eisteddai ar ei frenhin-faingc, hyd gyntaf-anedig y gaethes oedd yn y carchardy; a phob cyntaf-anedig i anifail."

Wele yma engraifft arswydus o ad-daliad Dwyfol. Pan yr anfonodd Jehofah Moses gyntaf at Pharaoh yr oedd i ddweyd wrtho, "Fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, Fy mab i, sef fy nghyntaf-anedig, yw Israel. A dywedais wrthyt, Gollwng fy mab, fel y'm gwasanaetho: ond os gwrthodi ei ollwng ef, Wele mi a laddaf dy fab di, sef dy gyntaf-anedig." Mae cyfeiriad at yr iaith yma yn Hosea xi. 1: "Pan oedd Israel yn fachgen, mi a'i cerais ef, ac a elwais fy mab o'r Aipht." Yn ddiweddarach yn hanes y prynedigaeth ni a gawn y geiriau hyn wedi eu cymhwyso at Iesu Grist, "O'r Aipht y gelwais fy mab," (Matt. ii. 15,) ac mewn ystyr nad ydynt yn gymhwysiadol at unrhyw fod crëedig. Dygai yr Hebrëaid y neillduolrwydd uchel yma i ddangos y berthynas agos yn yr hon y safent i'r Jehofah, a'r cariad tadol gyda yr hwn yr edrychid arnynt. O dan ei bergyl y daliai Pharaoh y genedl yma yn y caethiwed, pan yr hawliodd ei Thad nefol ei rhyddhad; a syrthia y gosp gan hyny mewn ad-daliad dychrynllyd ar holl gyntaf-anedigion yr Aipht. Yn Iesu ni a allwn yn awr weled cyntaf-anedig Jehofah, "etifedd yr holl greadigaeth," ac ni a fyddwn yn ddiogel a dedwydd yn unig fel yr ufuddhawn i'r gorchymyn Dwyfol "Cusenwch y Mab, rhag iddo ddigio, a'ch difetha chwi o'r ffordd, pan gynneuo ei lid ef, ond ychydig. Gwyn eu byd pawb a ymddiriedant ynddo ef."

(Darllener Exodus xii. 1—29. Psalm lxxviii. 43—52.)

## PENNOD VIII.

### Y MYNEDIAD ALLAN.

"GWAE a ymrysono a'i Luniwr!" Os anturia dyn, pa mor gryf bynag, i ymladd yn erbyn yr Hollalluog, mae yn hawdd rhagfynegu canlyniad y frwydr anghyfartal. Pan y sylwasom gyntaf ar y Pharaoh balch hwn, ni wyddai ddim am Jehofah, a gwrthwynebodd yn ddirmygus y gorchymyn i ollwng Ei bobl yn rhydd. Yn awr, yn nghanol y nos ddychrynllyd yma o wae, anfona am Moses ac Aaron, i erfyn am eu hymadawiad uniongyrchol, gyda holl blant Israel. Caniateir yr oll a geisiodd Jehofah yn awr, ac â y brenhin, wedi cael ei ddychrynu a'i ddarostwng, hyd yn oed yn mhellach na'r peth ofynid, trwy ddeisyf ar Moses geisio am fendith iddo, gan ddywedyd, "Ewch ymaith, a bendithiwch finnau." Ymgyfranoga yr holl Aiphtiaid yn y cais taer yma; hwy "a fuant daerion ar y bobl, gan eu gyrru ar ffrwst allan o'r wlad; oblegid dywedasant, Dynion meirw ydym ni oll."

Y fath ydoedd brys y brenhin a'r bobl i ollwng yr Israeliaid yn rhydd, fel na adawyd amser iddynt lefeinio y bara oedd arnynt eisieu erbyn pryd dranoeth. Yr oedd bara i Swpper y Pasc heb ei lefeinio yn ol y cyfarwyddyd Dwyfol, ac yn awr y "bobl a gymmerodd eu toes cyn ei lefeinio, a'u toes oedd wedi ei rwymo yn eu dillad ar eu hysgwyddau." Y cafnau tylino oeddynt gwppanau coed bychain, y fath ag a ddefnyddir gan yr Arabiaid yr amser presennol, yn ddigon mawr i ddarparu eu cyflenwad dyddiol.

Fel yr ymadawsant yn y modd brysiog hyn o faes eu gorthrymder, gofynodd yr Hebreaid, yn ol y cyfarwyddiadau dderbyniasant oddiwrth Moses, i'r Aiphtiaid, gan y rhai y gorthrymwyd hwy mor hir, am nwyddau o arian, ac aur, a gwisgoedd, y rhai ni "fenthyciwyd," ond a "roddwyd" yn rhydd fel yr arwydda y gair gwreiddiol. Gwelir oddiwrth y Darlun roddasom allan o fedd yn Thebes, fod y boneddigesau Aiphtaidd yn gwisgo arddigonedd o emau, fel colerau, clust-dlysau, breichledau, ac arddyrn-

dlysau. Gofynwyd am yr anrhegion gwerthfawr hyn heb un addewid i'w dychwelyd hwynt, a rhoddwyd hwynt heb un dysgwyliad o'r fath o du y rhoddwyr. Gallwn yn rhwydd gyfrif am y parodrwydd gyda pha un y cyfranwyd y rhoddion hyn, os ystyriwn fod yr Aiphtiaid yn nghanol y barnau ddaeth arnynt, yn rhwym o fod wedi teimlo yn ddwfn am eu hanghyfiawnder a'u gormes, ac yn ofni y gallasai adfydau mwy drachefn gael eu dwyn arnynt, pe yr oedasai yr Israeliaid eu hymadawiad. Crybwyllir hefyd i'r Arglwydd roddi "i'r bobl ffafr yngolwg yr Aiphtiaid. Ac yr oedd Moses yn ŵr mawr iawn yngwlad yr Aipht, yngolwg gweision Pharaoh, ac yngolwg y bobl." Wrth ystyried y rhifedi mawr i'r rhai y rhoddwyd yr anrhegion hyn, nis gallwn feddu un anhawsder i ddeall y modd yr "yspeiliasant yr Aiphtiaid."

Rhifai yr Israeliaid yn awr chwe' chan' mil o wŷr traed, wrth yr hyn gallwn ddeall, gwŷr galluog i ddwyn arfau, neu uwchlaw ugain oed. Rhoddir y rhifedi hyn yn fanylach yn Num. i. 46, fel chwe' chant a thair o filoedd, pum cant a deg a deugain, heblaw dwy fil ar hugain o Lefiaid. Ni byddai y dynion uwchlaw ugain oed dros haner y boblogaeth wrywaidd, tra y byddai y menywod yn y fan leiaf mor lliosog, fel ag y dylid lliosogi y gwŷr arfog â phedwar i roddi y cyfanrif o'r Israeliaid—oddeutu dwy filiwn a haner. At y rhif mawr yma gwnaed ychwanegiad pellach trwy y "bobl gymmysg lawer," cyfansoddedig fe allai o Aiphtiaid brodorol, a thramorwyr ddylynasant y Bugail Frenhinoedd i'r Aipht, ac a fuont gydygfranog a'r Israeliaid yn eu cystudd o dan yr hil frodorol o frenhinoedd adferedig. Os sylwn ar yr adroddiad, "a phreswyliad meibion Israel, tra y trigasant yn yr Aipht, oedd ddeng mlynedd ar hugain, a phedwar can mlynedd," byddwn yn hollol barod i dderbyn y cyfrif Ysgrythyrol o'r rhifedi dirfawr oedd gan Moses ac Aaron i arwain o dan gyfarwyddyd Dwyfol.

Yr orsaf gyntaf yn nheithiau y cwmni mawr yma ydoedd "o Rameses i Succoth," Rameses yn cymmeryd i mewn nid yn unig y ddinas o'r enw hyny, ond y gymmydogaeth eang a'i cylchynai. Nid lle yw "Succoth" a allwn yn awr ddysgwyl gael allan, gan yr arwydda gwersyllfa yn unig, ac yr oedd yn debygol yn daith rwydd i'r llwythau gwaredigol hyn, y rhai o'r dechreu a gadwasant drefn reolaidd yn eu symmudiadau. Gallai

fod y fan oddeutu deuddeg milldir o Cairo, lle yn y dydd presennol yr arosa y teithlu mawr pererinol i Mecca am ddyfodiad y pererinion gorllewinol, a'r lle y tora i fyny ar eu dychweliad o Mecca. O'r wersyllfa yma aethant yn mlaen i Etham, yn agos i bwynt eithaf Morgainc Suez, ac fel yr arwydda ei enw, yn "nherfyn y môr." Mae yn bresennol y trydydd gorsaf y teithlu pererinol o Cairo i Mecca. Buasai ffordd union a thra mynychedig yn eu dwyn hwynt i Palestina mewn wyth neu ddeg niwrnod, yn lle yr hon "Duw a arweiniodd y bobl o amgylch, trwy anialwch y Môr Coch. Ac yn arfogion yr aeth meibion Israel allan o wlad yr Aipht." Un rheswm roddir am y trefniad yma, a osodir allan fel hyn, "Rhag i'r bobl edifarhau pan welant ryfel, a dychwelyd i'r Aipht."

Pe buasai Moses wedi ei adael i'w gyfarwyddyd ei hun, arweiniasai yn debygol y fyntai fawr yma i anialwch Midian, â'r hwn yr oedd yn gynhefin, ac i'r mynydd hwnw ar yr hwn yr addawyd y byddai iddo ef a hwythau addoli Duw. Nid oedd modd bynag i bwyso ar ei ddoethineb a'i brofiad ei hun. Efe yr hwn sydd yn trigo rhwng y Cherubiaid ei Hun a arweiniodd "Joseph fel praidd," canys yr "Arglwydd oedd yn myned o'u blaen hwynt y dydd mewn colofn o niwl, i'w harwain ar y ffordd; a'r nos mewn colofn o dân, i oleuo iddynt, fel y gallent fyned ddydd a nos. Ni thynnodd efe ymaith y golofn niwl y dydd, na'r golofn dân y nos, o flaen y bobl." Amlygiad gweledig ydoedd y cwmwl dirgelaidd yma o bresennoldeb Jehofah. Mae byth er hyny wedi bod yn arwyddlun o'r Rhagluniaeth hono gan yr hon yr arweinir eglwys Dduw yn ei holl deithiau i'r orphwysfa dragywyddol. Ni chafodd yr un fyntai arall o deithwyr, pa mor fawreddog bynag, y fath arweinydd a diffynlu. Duw ei Hun oedd fel hyn eu harweinydd y dydd, eu goleuni y nos, eu cysgod rhag y gwres, a'u hamddiffyn holl-alluog rhag cynddaredd eu holl elynion. O ganol, fe allai, y Shekinah, gogoniant yr Arglwydd, y "dywedodd wrth Moses, Dywed wrth feibion Israel am ddychwelyd, a gwersyllu o flaen Pi-hahiroth, rhwng Migdol a'r môr, o flaen Baal-sephon: ar ei chyfer y gwersyllwch wrth y môr."

Mae rhaid addef anhawsder mawr, os nad anorchfygol, i benderfynu y lle yn fanwl ar draeth gorllewinol y Môr Coch i'r hwn yr arweiniwyd

yn awr y llu mawr yma. Gallai fod y safle wedi cyfnewid yn fawr trwy i ran o'r môr gilio yn ol o'i hen wely. Sicr yw, fod y sefyllfa yn un o'r perygl mwyaf. Yr oedd Pharaoh yn benderfynol fod yr Israeliaid wedi gwersyllu mewn lle y "rhwystrwyd hwynt yn y tir, (ac y) cauodd yr anialwch arnynt," fel y deuent ei ysglyfaeth rhwydd. Yr oeddynt "rhwng Migdol a'r môr." Migdol, fel y dynoda yr enw ydoedd gaerfa, yn debygol gwarchodfa gyffiniol yr Aipht yn erbyn Syria, tra yr oedd y môr yn Pi-hahiroth ("mynedfa Hiroth," neu agorfa y dyffryn, neu mynedfa,) o flaen Baal-sephon, (neu Typhon,) yn fan lle y gallai yr Israeliaid gael mynedfa yn unig trwy wyrth.

Drachefn gofidiodd calon galed Pharaoh iddo oddef i'r bobl fyned, ac yn cael ei gefnogi gan y gobaith y gwnai eu hail orchfygu, "efe a daclodd ei gerbyd, ac a gymmerodd ei bobl gyd âg ef a chymmerodd chwe chant o ddewis gerbydau, a holl gerbydau yr Aipht, a chapteniaid ar bob un o honynt." Yr oedd yr Aiphtiaid yn enwog am eu cerbydau rhyfel,[1] y rhai a arddanghosir ar eu cof-adeiladau, yn cael eu tynu gan feirch tanllyd, tra mae gyrwyr yn eu gyru gyda'r bywiogrwydd mwyaf, a'r rhyfelwyr yn barod gyda eu bwäau a'u saethau, a'u gwaewffyn, i daro y gelyn. Dyma lle yr oedd prawf newydd ar ffydd Moses, pan y cododd meibion Israel "eu golwg, wele yr Aiphtiaid yn dyfod ar eu hol; a hwy a ofnasant yn ddirfawr: a meibion Israel a waeddasant ar yr Arglwydd. A dywedasant wrth Moses, Ai am nad oedd beddau yn yr Aipht, y dygaist ni i farw yn yr anialwch? paham y gwnaethost fel hyn a ni, gan ein dwyn allan o'r Aipht?" Ymddengys fod gwawdeb lem iawn yn yr iaith yma, canys yr Aipht oedd gwlad y beddau, ac ymddengys fod yr Aiphtiaid wedi meddwl mwy am feddau i'r meirw, nag am dai i'r byw. Mae Moses modd bynag yn awr yn gryf mewn ffydd, ac yn alluog i wrthsefyll y dyrfa ddirfawr hon. Geilw arnynt i ddysgwyl am waredigaeth Ddwyfol, "Nac ofnwch, sefwch, ac edrychwch ar iachawdwriaeth yr Arglwydd, yr hwn a wna efe i chwi heddyw: oblegid yr Aiphtiaid y rhai a welwch chwi heddyw, ni chewch eu gweled byth ond hynny."

(Darllener Exodus xiii. 30—51; xiv. 1—14.)

[1] Gwelwch y Darlun.

## PENNOD IX.

### Y MYNEDIAD TRWY'R MOR COCH.

Mae yma argyfwng yn hanes Moses a'r Israeliaid. Mawr oedd peryglon y dyrfa fawr hono, wedi ei chau i fyny gan greigiau, gan y fyddin Aiphtaidd, a chan donau cynddeiriog y môr. Yr oedd gan Moses yr holl beryglon hyn i'w gwynebu, ac yn ychwanegol "digasedd y bobl." Yr oeddynt yn rhwym i'w gilydd trwy gydymdeimlad perffaith fel ebyrth ffolineb a byrbwylldra Moses, yr hwn a gyhuddasant fel awdwr eu dinystr. Pe buasai Moses mor wan ac ofnus a phan welsom ef gyntaf wrth y berth yn llosgi, neu pan yr anfonwyd ef at Pharaoh yn yr Aipht, ymollyngasai ei galon o flaen y môr yma o drallod, a suddasai mewn anobaith. Cyfranodd yr addysg a'r ddysgyblaeth Ddwyfol nerth i'w enaid, a pherffeithiodd ei ffydd yn Nuw. Sylwch ar y sirioldeb nefol ar ei wedd, a seiniau difloesgni ei lais fel y dywed, "Nac ofnwch, sefwch, ac edrychwch ar iachawdwriaeth yr Arglwydd, yr hwn a wna efe i chwi heddyw; oblegid yr Aiphtiaid y rhai a welsoch chwi heddyw, ni chewch eu gweled byth ond hynny. Yr Arglwydd a ymladd drosoch, am hynny tewch chwi a son."

Nid oedd dull y waredigaeth wedi ei hegluro i Moses. Dywedodd yr Arglwydd, "felly y'm gogoneddir ar Pharaoh, a'i holl fyddin; a'r Aiphtiaid a gant wybod mai myfi yw yr Arglwydd." Ond hyd eto ymddengys fod arweinydd y bobl heb ei hysbysu am y modd trwy yr hwn y cyflawnid yr addewid fawr yma. Dengys ffydd fywiog ei hun mewn ymorphwysiad diysgog ar yr addewid Ddwyfol, pan y mae y moddion trwy y rhai y gellir cyflawni yr addewid hyny yn guddiedig o'n golwg. Llefa Moses yn awr ar Dduw, nid mewn anobaith neu gyfyngdra, ond mewn llawn hyder yn yr addewid; ac yn union ateba Jehofah, "Paham y gweiddi arnaf? dywed wrth feibion Israel am gerdded rhagddynt: a chyfod dithau dy wïalen, ac estyn dy law ar y môr, a hollta ef; a meibion Israel a ânt trwy ganol y môr ar dir sych. Wele, fi, ie myfi, a galedaf galon yr

Aiphtiaid, fel y delont ar eu hol hwynt: a mi a ogoneddir ar Pharaoh, ac ar ei holl fyddin, ar ei gerbydau ef, ac ar ei farchogion. A'r Aiphtiaid a gânt wybod mai myfi yw yr Arglwydd, pan y'm gogoneddir ar Pharaoh, ar ei gerbydau, ac ar ei farchogion."

Dylynwyd y gorchymyn yma gan amlygiad aruchel o'r bwriad Dwyfol, wedi ei amcanu i lenwi y bobl a hyder, ac i gefnogi eu hufudd-dod: "Ac angel Duw, yr hwn oedd yn myned o flaen byddin Israel, a symmudodd, ac a aeth o'u hol hwynt; a'r golofn niwl a aeth ymaith o'u tu blaen hwynt, ac a safodd o'u hol hwynt. Ac efe a ddaeth rhwng yr Aiphtiaid a llu Israel; ac yr ydoedd yn gwmmwl ac yn dywyllwch iddynt hwy, ac yn goleuo y nos i'r rhai hyn; fel na nesâodd y naill at y llall ar hyd y nos."

Tra yr oedd gwynt cryf yn gwneuthur archiad yr Arglwydd gan agor llwybr trwy y gronfa dyfroedd, ac adeiladu y muriau grisialaidd ar bob ochr i'r brif-ffordd ryfeddol yma, safodd Angel yr Arglwydd rhwng llu arfog Pharaoh, a'r praidd diamddiffyn arweinid gan Moses ac Aaron. Nis gallai y symmudiad dirgelaidd yma gymmeryd lle heb sicrhau i luoedd Israel eu bod dan amddiffyn Jehofah, tra yr awgrymai i'r Aiphtiaid eu bod wrth ymladd yn erbyn Israel yn ymladd yn erbyn Duw.

Yn awr gwelwch y modd yr anrhydedda Jehofah Ei was Moses, a'r modd yr anrhydedda Moses Ef. Rhoddir y gorchymyn Dwyfol, "Cyfod dy wïalen, ac estyn dy law ar y môr a hollta ef," a Moses, gyda holl fawrhydi tawel y dyn yr hwn mae Duw wedi ei wneyd yn offeryn ei Hollalluogrwydd, a estynodd ei law ar y môr, gan ddal y wïalen â'r hon y cyflawnwyd gwyrthiau yr Aipht, a rhanwyd y dyfroedd—"y ffrydiau a safasant fel pentwr, y dyfnderau a geulasant ynghanol y môr." Fel yr alltudir dychrynfëydd y dyrfa fawr, neu y cyfnewidir i ymddiriedaeth pan y goleua dysgleiriadau y Shekinah y ffordd a agorodd Duw o'u blaen hwynt! Yn awr ânt yn mlaen gyda cham diysgog a chalonau llawen. Nid ydynt yn ofni croesi traeth y môr yma, a myned i lawr i'w wely dwfn. Iddynt hwy Jehofah, eu Duw, a agorodd y llwybr ddylynant, ac "yno," fel yr ant yn mlaen, "llawenychant ynddô Ef." Fel yr edrychent ar y muriau tryloewon adeiladwyd gan y llaw Ddwyfol, gwelent bysg y môr ac anghenfilod y dyfnder ar bob ochr, yn ufudd i

Wneuthurwr pob peth, wedi eu hattal yn eu llwybr hylifol, ac yn aros nes yr elai yr orymdaith newydd yma heibio. Mae hyn yn rhywbeth amgen na fföedigaeth fyrbwyll; mynediad diysgog ydyw yn yr hwn mae gan bob llwyth ei drefn, a phob dyn ei le. Dechreuodd yr orymdaith symmud yn hwyr yn y prydnawn, ac fel yr elai gwyliadwriaethau y nos heibio, parhaodd y llwythau eu taith gysson hyd "y wyliadwriaeth fore," rhwng dau a chwech, pan, "yr Arglwydd a edrychodd ar fyddin yr Aiphtiaid trwy y golofn dân a'r cwmmwl, ac a derfysgodd fyddin yr Aiphtiaid." Tra yr oedd yr Israeliaid yn gwneyd eu ffordd i'r lan gyferbyn, dynesai yr Aiphtiaid atynt gyda chyflymder arswydus, a daeth yn angenrheidiol i afrwyddo eu dyfodiad. Trowyd goleuni ofnadwy y Shekinah arnynt hwy, a datguddiodd eu sefyllfa beryglus. A'r Arglwydd "a dynnodd ymaith olwynion eu cerbydau, ac yr oeddynt yn gyrru yn drwm: fel y dywedodd yr Aiphtiaid, Ffown oddiwrth Israel; oblegid yr Arglwydd sydd yn ymladd drostynt hwy yn erbyn yr Aiphtiaid."

Yr oedd byddin fawr Israel wedi cyrhaedd i'r lan draw yn ddïogel, pan, wrth orchymyn Duw, yr estynodd Moses "ei law ar y môr, a dychwelodd y môr cyn y bore i'w nerth, a'r Aiphtiaid a ffoisant yn ei erbyn ef; a'r Arglwydd a ddymchwelodd yr Aiphtiaid ynghanol y môr. A'r dyfroedd a ddychwelasant, ac a orchuddiasant gerbydau, a marchogion, a holl fyddin Pharaoh, y rhai a ddaethant ar eu hol hwynt i'r môr: ni adawyd o honynt gymmaint ag un." Yn y rhifedi fuont feirw rhaid i ni gynhwys Pharaoh, yr hwn oedd gwir awdwr y blinfyd ddygwyd ar ei bobl, a chrybwyllir yn neillduol am dano (yn Psalm cxxxvi.) yn mysg y rhai fuont feirw. Efe "a ysgytiodd Pharaoh a'i lu yn y Môr Coch; o herwydd ei drugaredd sydd yn dragywydd."

Mae o bwys sylwi ar yr effaith gynhyrchwyd ar feddyliau y bobl i'r rhai y gweithredwyd y waredigaeth wyrthiol hon. Dywedir, "A gwelodd Israel y grymmusder mawr a wnaeth yr Arglwydd yn erbyn yr Aiphtiaid: a'r bobl a ofnasant yr Arglwydd, ac a gredasant i'r Arglwydd, ac i'w was ef Moses."

Gwnaed cynhygiadau i gyfrif am y wyrth aruthrol hon trwy achosion naturiol; ond byddai yn fwy cysson i ymwrthod a'r oll o'r hanes rhyfeddol yma, na gwadu i Jehofah trwy Ei allu gyfryngu er gwaredigaeth

Ei bobl a dinystr Ei elynion. Mae wedi cael ei haeru i Moses gymmeryd mantais ar y trai i arwain yr Israeliaid dros y môr, a myned yn ddïogel, pan y dychwelodd y llanw ac y goddiweddodd eu gelynion. Ond nid oes un cyfeiriad yn yr hanes at drai neu lanw; llefara am yr amgylchiad fel gwyrth, ac nid canlyniad achosion naturiol. Cydnabydda yr Aiphtiaid natur wyrthiol yr amgylchiaid pan y dywedant, "yr Arglwydd sydd yn ymladd drostynt hwy yn erbyn yr Aiphtiaid," a pharha y trai yn unig am amser mor fyr, fel na buasai yn ddichonadwy i'r dyrfa fawr hon gyrhaedd y lan cyn dychweliad y llanw. Rhaid i ni hefyd ofyn i'r rhesymoliad i gyfrif am y trefniad hwnw o'r cwmwl dirgelaidd trwy yr hwn y cerddodd yr Israeliaid mewn goleuni, a'r Aiphtiaid mewn tywyllwch; ac hefyd am y symmudiad yn ngwyliadwriaeth y boreu, trwy yr hyn yr Arglwydd "a derfysgodd fyddin yr Aiphtiaid."

Mae ymdrechion y rhai hyny a gam alwant eu hunain rhesymoliaid, i dynu ymaith y rhyfeddol a'r gwyrthiol o'r hanes yma, yn debyg i'r ymgais wnaed unwaith gan Napoleon Bonaparte i ganlyn camrau Moses a'r bobl, pan y goddiweddwyd ef gan y tonau, ac y bu agos boddi. Ar yr ymgais ynfyd yma sylwyd yn briodol, mai "amcan Napoleon ydoedd dadbrofi y wyrth, ond trodd yr Hollalluog y dygwyddiad fel ag i benderfynu ei chywirdeb tu draw i amheuaeth." "Os nad oedd gan haner dwsin o ryfelwyr ar feirch da ddim amser i groesi pen y morgainc, yn ngoleuni dydd, rhwng y trai a'r llanw, pa fodd y gallasai dwy filiwn o ddynion, merched, a phlant, wneyd hyn yn y tywyllwch, oll ar draed, ac wedi eu beichio yn drwm a llugelfi?"

Mae y traddodiad am y wyrth ogoneddus yma yn cael ei gadw eto gan lwyth yn nwyrain Morgainc Suez, y rhai a ddywedant ar un amgylchiad, trwy drai mawr, i'r holl forgainc ddyfod yn sych, casglodd y dyfroedd i'r ochr gyferbyn, fel yr oedd y gwaelod yn y golwg, ac i orlif cryf lanw y gwely drachefn. Cyflwyna yr holl diriogaeth yn y cyfnod diweddar yma, bob adgofion a allwn yn rhesymol ddysgwyl o'r golygfeydd rhyfeddol hyn.

**(Darllener Exodus xiv. 13—31; xv.)**

## PENNOD X.

### "CAN MOSES."

DAETH yr amser yn awr i Moses arwain calonau y bobl mewn cân o fawl uchel i'w Gwaredwr gogoneddus. Llwyddodd gweddi un ochr i'r Môr Coch, a gelwir am fawl yr ochr arall. Angen yr adeg oedd bardd ysbrydoledig i danio yr arogldarth osodwyd ar allor diolchgarwch, a'i anfon i fyny i'r nef yn bêraroglau uchel a hyfryd. Ni buasai Moses wedi ei ddarparu i'w genadwri Ddwyfol yn yr amser llawen a difrifol yma, pan y safai rhwng yr Aipht a Palestina, pan y bu cenedl farw fel y gwaredid Israel, pan y lluchid cyrff yr Aiphtiaid i'r glanau ar y rhai y safai pobl Dduw yn awr yn fuddugoliaethus, pe na buasai yn gwybod pa fodd i roddi geiriau i deimladau sobr a diolchgar ei galon ei hun, a chalonau y llu gwaredigol hyn.

Ond yr oedd ei Dduw gydag ef, ac fel y cyfranodd ffydd a gwroldeb sanctaidd yn awr y prawf, yr ysbrydola Ei was yn awr yr oruchafiaeth. "Yna"—nid yn hollol y foment hyny, ond heb ragor o oedi nag oedd yn angenrheidiol i drefnu i gyfargofiad effeithiol o'r fuddugoliaeth—"yna y canodd Moses a meibion Israel y gân hon i'r Arglwydd."

Y ganiad fuddugoliaethus hon yw yn llythyrenol y Psalm gyntaf am yr hon y mae genym un cof, ac ymddengys i wasanaethu fel cynllun i holl emynau ysbrydoledig buddugoliaeth. Daeth yn anthem fawr genedlaethol yr Hebrëaid, ac yr ydym yn darllen am y gwaredigion yn y nef eu bod yn canu "cân Moses," yn gystal a "chân yr Oen." Mae wedi hir fod, fel y teïlynga, yn wrthddrych y ganmoliaeth uwchaf. Mae, meddai un, "mor aruchel a grymus yn ei chynhwysiad, ag ydyw o feistrolaidd a pherffaith yn ei ffurf.....Mae y bardd ysbrydoledig, wedi ei gynhyrfu yn nerthol gan gyffroad cryf dygwyddiadau anarferol, yn cael ei gylchynu gan bobl wedi eu gwaredu oddiwrth ddinystr bron sicr, ac yn gweled cyrff y gelynion dïalgar wedi eu pentyru ar y lan gyferbyn, yn cael ei

gario ymaith i arllwysiad brwd o ddiolchgarwch, o orlawenydd, ac o obaith; arllwysiad yn yr hwn nid yw na'i feddwl yn gofalu am hualau cyssylltiad rhesymegol coegddysgedig, na'i ddychymyg am attalfeydd rheolau mydryddol." Dywed beirniad Ellmynaidd enwog, tra chymhwys i farnu y prydferthwch barddonol yma: "Rhoddodd y mynediad trwy y Môr Coch achlysur i'r gân hynaf a mwyaf gorfoleddus a feddwn yn yr iaith Hebrëig. Mae ei chyfansoddiad yn syml, llawn o seiniau cyffelyb ac odlau, y rhai ydwyf yn analluog i roi yn ein hiaith heb wneyd cam a'r geiriau; canys y mae yr Hebraeg yn gyfoethog yn y fath ymadroddion seiniol, ar gyfrif ei chyfansoddiad cyfunwedd. Geiriau ysgafn, hir, ond ychydig, a adseiniant yn yr awyr, a chan mwyaf sain isel o un sill a ddibena y linell."

Dyma yr achlysur cyntaf ar yr hwn y caniatawyd i holl Israel fel cynnulleidfa a phobl ymuno mewn cyhoeddi mawl Jehofah; a rhaid yn ddiau fod y dull hyfryd yn yr hwn y canwyd y gân gyssegredig yma wedi gwasanaethu i ddarparu eu calonau at yr aberthau o fawl y rhai a ffurfient ran arweiniol o'u haddoliad mewn blynyddoedd dyfodol. Fel y canai Moses a phlant Israel, fe allai, bob yn ail bennill, atebai Miriam a'r gwragedd o dan ei harweiniad hwynt yn y gydgan, "Cenwch i'r Arglwydd," rywbeth fel y canwn yn y gydgan fywiog o beroriaeth Hebrëig,—

"Seinwch y dympan dros fôr yr Aipht brudd,
Jehofah orchfygodd—mae Israel yn rhydd."

Gallai fod y gydgan yma o leisiau menywaidd yn cael ei dwyn i mewn yn y gorphwysfâau priodol yn y gân, fel yn y cyfieithiad mydrol canlynol. Y dympan ydoedd yn debygol y math o offeryn cerdd sydd mewn cryn arferiad etto yn y Dwyrain ar adegau gwyliau, i gyd-ddylyn canu a dawnsio, cylch o goed, neu fettel, yn orchuddedig a lledr, gyda chlychau crynion bychain cyssylltiedig a'r ymyl. Defnyddid y dawns fel ar yr achlysur yma yn fynych yn ngwyliau crefyddol yr Hebrëaid, yn gystal a chenhedloedd ereill. Cynhorthwya y cyfieithiad mydryddol canlynol i ffurfio syniad am y gân wreiddiol. Y trefniad sydd gymmesuriad o'r un roddir yn nghyfieithiad Dr. Boothroyd.

"Canaf i'r Jehofah, canys tra dyrchafedig yw Efe:
Taflodd y march a'i farchog i'r môr.
Jehofah yw fy nerth a'm cân,
Ac y mae Efe yn iachawdwriaeth i mi!
Efe yw fy Nuw, efe a ogoneddaf fi;
Duw fy nhad, a mi a'i dyrchafaf Ef.
Galluog mewn rhyfel yw Jehofah!
Jehofah yw ei enw arbenig.

CYDGAN.—Cenwch i'r Jehofah, canys tra dyrchafedig yw Efe:
Taflodd y march a'i farchog i'r môr.

"Efe a daflodd gerbydau Pharaoh a'i feirch i'r môr;
Ei gapteniaid dewisol a foddodd Efe yn y Môr Coch.
A'r tonau llynclynog y gorchuddiodd Efe hwynt;
Disgynasant i'r gwaelod fel carreg.

CYDGAN.—Cenwch i'r Jehofah, canys tra dyrchafedig yw Efe:
Taflodd y march a'i farchog i'r môr.

"Dy ddeheulaw, Jehofah, sydd ardderchog o nerth;
Dy ddeheulaw, Jehofah, a ddrylliodd y gelyn.
Ym mawredd dy ardderchogrwydd
Y dymchwelaist dy wrthwynebwyr;
Dy ddigofaint tanllyd a anfonaist allan,
Hwynt a ysodd efe fel sofl;
Trwy dy chwythad gerwin y dyfroedd gyfodwyd i fyny;
Uniawn safodd y tonau fel pentwr;
Ymgeuledig ydoedd y tonau llynclynog yn nghanol y môr.

CYDGAN.—Cenwch i'r Jehofah, canys tra dyrchafedig yw Efe:
Taflodd y march a'i farchog i'r môr.

"Y gelyn a ddywedodd, Mi a erlidiaf;
Mi a oddiweddaf, mi a rannaf yr yspail;
Caf fy ngwynfyd arnynt.
Tynnaf fy nghleddyf; fy llaw a'u difetha hwynt.
Ti a chwythaist a'th wynt, y môr a'u tôdd hwynt;
Soddasant fel plwm yn y dyfroedd cryfion.
Estynaist dy ddeheulaw,
Llyngcodd y ddaear hwynt.

CYDGAN.—Cenwch i'r Jehofah, canys tra dyrchafedig yw Efe:
Taflodd y march a'i farchog i'r môr.

"Pwy ym mhlith y duwiau sydd debyg i ti, Jehofah?
Pwy fel tydi yn rhagori mewn sancteiddrwydd,
Ofnadwy, canmoladwy, yn gweithredu rhyfeddodau?
Yn dy diriondeb yr wyt yn arwain y bobl a waredaist,
Yn dy nerth y tywysaist hwynt i anneddle dy sancteiddrwydd;
Y bobloedd a glywant, ac a ofnant;
Dolur a ddeil breswylwyr Palestina;
Synedig fydd tywysogion Edom;
Dychryn a ddeil gwyr cedyrn Moab;
A thoddi ymaith wna preswylwyr Canaan.
Ofn ac arswyd a syrth arnynt;
Trwy fawredd dy fraich,
Deuant yn llonydd fel carreg.
Nes i'th bobl di, O Jehofah, fyned trwodd,
Nes i'th bobl di, a brynaist, fyned trwodd.

CYDGAN.—Cenwch i'r Jehofah, canys tra dyrchafedig yw Efe:
Taflodd y march a'i farchog i'r môr.

"Hwynt a ddygi i mewn ac a'u plenni
Ym mynydd dy etifeddiaeth;
Yn dy anneddle, Jehofah, yr hwn a wnaethost;
Y cyssegr, O Jehofah, a ddarparodd dy ddwylaw.
Jehofah a deyrnasa byth!

CYDGAN.—Cenwch i'r Jehofah, canys tra dyrchafedig yw Efe:
Taflodd y march a'i farchog i'r môr.

Ymgura ein calonau mewn cydgordiad a phob llinell o "gân Moses," fel ei canwyd gan y miliwn lleisiau y llu gwaredigol yma, ac os ydym yn ganlynwyr Iesu Grist, ni a gawn, cyn hir, pan wedi ein harwain yn ddïogel trwy "gulfor marwolaeth," ymuno a thyrfa na ddichon neb ei rhifo mewn canu "cân yr Oen." "Mawr a rhyfedd yw dy weithredoedd, o Arglwydd Dduw Hollalluog; cyfiawn a chywir yw dy ffyrdd di, Brenhin y Saint. Pwy ni'th ofna di, O Arglwydd, ac ni ogonedda dy enw? oblegid tydi yn unig wyt sanctaidd; oblegid yr holl genhedloedd a ddeuant ac a addolant ger dy fron di." Er mwyn i ni gyrhaedd y fraint anmhrisiadwy o gyfranogi yn y molawd gogoneddus yma yn y nef, rhaid i ni fod yn ffyddlon ganlynwyr y Gwaredwr ar y ddaear.

(Darllener Exodus xv. 1—21.)

## PENNOD XI.

### ARABIA PETRÆA.

CYNHORTHWYA darluniad byr o ddaearyddiaeth Arabia Petræa—y wlad trwy yr hon yr oedd gan yr Israeliaid i deithio ar eu ffordd i Ganaan—ni i ddeall y rhan hyny o'r hanes cyssegredig yr hwn ydym ar ddechreu. Mae golygfa y teithiau hyn yn cael ei therfynu ar y dwyrain gan Machwy Akaba, ar y gorllewin gan Machwy Suez, gan ffurfio gorynys oddeutu deg milldir a thriugain o hyd, a deg-ar-hugain o led, ac a gyfanneddir yn awr gan oddeutu pedair mil o bersonau, y rhai trwy anhawsder gant foddion cynhaliaeth iddynt hwy a'u praidd. Mae teithwyr rhwng y wlad yma a'r India yn myned heibio yn barhaus ar hyd ochr orllewinol y triongl yma, tra y mae lliaws o deithwyr deallus wedi gosod y canolbarth yn agored i'n golwg.

Darlunia Moses y diriogaeth yma fel "tir anial," "diffaethwch gwag erchyll" (Deut. xxxii. 10); darluniad a gadarnheir yn llawn gan bawb a'i tramwyasant. Geilw Jeremiah ef "anialwch, tir diffaeth a phyllau, tir sychder a chysgod angau, tir nid aeth gŵr trwyddo, ac ni thrigodd dyn ynddo." (ii. 6.) Cynhwysa anialdiroedd Sur, Marah, Elim, Sin, Rephidim, a Sinai. Ei derfyn gogleddol yw y gadwyn hir o'r mynyddoedd El-Tyh, yn estyn o'r dwyrain i'r gorllewin; ar lethr gogleddol y rhai y dechreua *Anialwch crwydriadau plant Israel.* Mae ar yr ochr ddwyreiniol, ar hyd Machwy Akaba, gadwyni afreolaidd o fynyddoedd, yn ffurfio anialwch o greigiau noethlwm. Ymleda yr un nodwedd ar yr ochr orllewinol, lle mae yn y rhan ogleddol y Wady Mokatteb hynod, "dyffryn ysgrifeniadau," lle am filldiroedd mae y creigiau wedi eu gorchuddio yn dew â lluniau a cherfysgrifau. Amrywia y lluniau cynhwysedig, wedi eu tynu yn anghelfydd o ddynion, camelod, geifr, gafrewigod, o haner modfedd i drodfedd o uchder, tra y mae y cerfysgrifau am oesau wedi meddiannu sylw mawr o du y cywrain, ond i lawr hyd y pryd hwn gyda llwyddiant tra amheus.

Ymuna yr holl deithwyr i ddysgrifio yr anialwch mewn perffaith gyd-

gordiad â'r darluniadau roddir yn yr hanes cyssegredig. Dywed Syr F. Henniker: "Pe bai genyf i ddarlunio diwedd y byd, mi a'i cyfluniwn ef oddiwrth Fynydd Sinai. Ymddengys fel pe byddai Arabia Petræa wedi bod yn fôr o ufelwy, a thra yr oedd ei donau yn rhedeg yn llythyrenol uchder mynyddoedd, gorchymynwyd iddo yn ddisymmwth i sefyll yn llonydd." Ysgrifenydd arall, gan gyfeirio yn neillduol at anialwch Sinai, a gytuna â'r darluniad yma, a dywed, "mae y math neillduol o ardderchogrwydd arddunol a gwyllt yn y diriogaeth yma yn sicr yn ddigymhar i ddim a welais i erioed, a rhaid ei fod, mi dybiwn, yn hollol heb ei ail. Mae fel môr o ufelwy berwedig wedi ymgeulo yn ddisymmwth, ac yn ymgodi yn dryblith cymmysgedig o binaclau sydyn ac uchel."

O'r gadwyn o fynyddoedd reda ar groes rhan ogleddol yr orynys, rheda un arall i'r deheu, tua Mynydd Sinai, ond oddiwrth yr hon gwahanir hi gan wastad-diroedd o dywod gwyn, ac amryw fryniau elwir Zebier. Dyma y rhan o Arabia Petræa at yr hwn y gafaela y dyddordeb mwyaf yn meddwl pob crediniwr yn y cofnodion Dwyfol. Fe symmudir y dyryswch deimlwyd weithiau mewn canlyniad i fod dau enw, Sinai a Horeb, yn cael eu rhoi ar y mynydd hwn, wrth sylwi ar ei natur. Ymwahana y pentwr creigiog yma, ac iddo yr un sail, mewn cryn uchder i ddau big anogyhyd, yr un isaf tua'r gogledd yw Horeb, a'r pig uwchaf tua'r dehau yw Mynydd Sinai. Mae yn debygol hefyd fod yr holl diriogaeth yma ar un amser yn cael ei galw Horeb, tra y gelwid y pig uchaf yma Sinai. Cyssyllta y traddodiadau yn mysg yr Arabiaid etto enw prophwyd Israel â'r diriogaeth yma. Llefarant am Fynydd Sinai fel y Jebel Musa, neu Fynydd Moses, ac yma ymgasglant yn flynyddol yn rhifedi mawr i gadw gwyl grefyddol, ac i offrymu lliaws o aberthau. Offrymir dafad gan y Bedouins yma er parch i Moses, ar yr hwn yr ymbiliant am iddo eiriol gyda Duw ar eu rhan. Dylid hefyd sylwi fod y pwynt gyrhaeddwyd gan yr Israeliaid ar ol croesi y Môr Coch, yn cael ei alw yn awr Ras Musa, "penryn Moses."

Paratoa nodweddiad daearegol y diriogaeth yma ni i ddysgwyl am olygfa serth ac afrywiog. Yma mae yr hen ffurfiadau o wenithfaen, yn mha rai mae y lliw coch yn benaf, wedi ymferwi i fyny ar wahanol gyfnodau, gan gyrhaedd yn y pigau deheuol uchder o yn agos i ddeg

mil o drodfeddi, o ben y rhai ymleda y gwelediad dros olygfa o ddeg-ar-hugain i ddeugain milldir o eangder, gan gyrhaedd i Ddiffaethwch yr Aipht. Mae myldardd, a grisgreigiau ereill gwthiedig rhwng y pentyrau ithfaenol yma wedi gweithredu i fwyhau gwylltineb a chymmysgedd yr olygfa dryblithog, yr hon a amliwiant â gwawr goch, trwy yr hyn y mwyheir yn ddirfawr yr olwg aruthrol. Mewn lleoedd ereill mae y grisgreigiau yn gyfansoddedig o gareg werdd, yr hon wedi ymddadgyfansoddi a syrthio i'r gwastad-diroedd isaf, sydd wedi eu taenu drostynt â gwyrdd melynaidd. Mae y ffurfiau gyflwynir i'r llygad weithiau o'r dullweddiad mwyaf gwyllt, fel y rhydd y pigau uchel teneu o fyldardd yr ymddanghosiad o rifedi o binaclau uchel, tebyg i'r tyrau o adeiladaeth Saracenaidd.

Mae teithwyr Cristionogol wedi bod yn awyddus i benderfynu y safle ar ba un y gwersyllai yr Israeliaid tra y rhoddid y ddeddf i Moses. Mae anffyddwyr wedi ymdrechu dangos nad oedd dim gofod yn nghymydogaeth Sinai lle y gallai y dyrfa fawr gael tir i sefyll, ond y mae eu gwagwrthadleuon wedi eu trwyadl ddistewi gan ymchwiliad diweddar. Dengys Dr. Robinson, fod gwastadedd Er-raha yn cyfarfod yn llawn â holl ofynion yr hanes ysbrydoledig. Yma cafodd hyd i ddigon o le i'r holl gynnulleidfa gyfarfod. Dywed, "gorwedda yr holl wastadedd wedi ymledu allan odditan ein traed, gyda'r wadys a'r mynyddoedd cyfagos, tra y cyflwynai y Wady Esh-Sheid ar y deheu, a'r gilfach ar yr aswy, bob un yn gyssylltiedig â ac yn ymagor yn llydan o Er-Rahah, arwynebedd yr hwn a ymddengys agos yn ddwbl un y gwastadedd. Cryfhawyd ein hargyhoeddiad mai yma neu rai o'r gwastad-diroedd cyfagos ydoedd y fan lle 'disgynodd yr Arglwydd mewn tân,' ac y cyhoeddodd y ddeddf. Rhoddasom ein hunain i fyny i argraffiadau yr olygfa ofnadwy, a darllenasom, gyda theimlad o arswyd nad anghofir byth, yr adroddiad goruchel o'r cyflawniad, a'r gorchymynion gyhoeddwyd yno yn y geiriau gwreiddiol, fel eu cofnodir gan y deddfroddwr Hebrëig mawr."

Mae tir y fro yma gan mwyaf yn dywod sych, ac yn anffafriol o'r mwyaf i dyfiant, yr hwn, y man y ceir ef, sydd yn gynhwysedig yn unig o ychydig o fanwydd gwael, gyda drain yr Aipht, a grugwydd. Mae, modd bynag, rai llanerchi ffafriol lle mae y tir yn addas i'w amaethu, ac yn cael eu cyflenwi â dwfr, cynhyrchir planigion a thyflysiau mewn

amrywiaeth. Ffurfia y planigion yn y Wady Feiran, tua gorllewin yr orynys, gyfres ddidor o erddi a llwyni palmaeron, am oddeutu pedair milldir. Cynhwysa y rhan uwchaf o'r dyffryn rhyfedd yma—"Paradwys y Bedouins"—gronfa fras o ddaear, wedi ei gario i lawr o'r mynyddoedd yr hwn a ddyfrheir gan amryw o ffynhonau ffrwythlonol. Yma arddengys y balmwydden deg ffurfiau o brydferthwch anarferol; ac yn eu mysg hwynt, meddai Bartlet, "rhyw ychydig, gan dyfu yn syth, ymgodant lawer uwch na'r lleill eu coronau llon o rugl-wyntyll a sypiau dysglaer o aeron." "Bwrlyma y ffrwd loew yn ffres ar ymyl y cromrodfeydd hyn (ffurfiwyd gan y palmwydd), ac y mae yr unigedd dwfn yn soniarus gan lais yr adar, y gwynt gan ysgubo i lawr y graig chwareua ar y dail sïol â'r murmur tyneraf, ac wedi ei gau i mewn gan y ddau fur o graig oddiwrth yr anialwch llwm tu allan, anghofia y teithydd am ennyd ei beryglon a'i anghysuron."

I ogledd-ddwyrain Arabia Petræa, ac ar ben Morgainc Akaba, safai Ezion-gaber, y porthladd lle y llwythodd Solomon allan ei longau ar ol hyn am Ophir, ac y derbyniodd ei drysorau o'r wlad hono. O'r pwynt yma ymestyna y Wady Araba, yn debygol gwely hen afon redai o Lebanon i'r gogledd tua'r Môr Marw. Mae yr Araba oddeutu can milldir o hyd, ac o bump i bymtheg o led, yn furiedig â chreigiau o un i ddwy fil o drodfeddi o uchder. Un o brif arweddion yr attalgaerau mynyddog hyn yw Mynydd Hor, a enwir yn awr gan yr Arabiaid, Jebel Haroun, neu Fynydd Aaron, ar ol Aaron, yr hwn fu farw yno.

I'r unigleoedd gerwin a gygus hyn arweiniwyd yr Israeliaid, fel, yn nghanol eu neillduedd, yn bell oddiwrth lafur a themptasiynau yr Aipht, y gallent ddysgu y gwersi sanctaidd hyny oedd gan Jehofah i ddysgu iddynt am Ei ragluniaeth, a "phethau mawrion Ei gyfraith." Trwy law Moses ac Aaron arweiniwyd hwynt drwy y bylchau dwfn troiog hyny, wedi eu suddo mewn pruddineb megis "cysgod angau," lle ar bob gorsaf ddylynol y dysgid hwynt am eu dibyniad ar ofal Jehofah, yr hyfforddid hwynt yn ngwybodaeth Ei wirionedd, ac y darostyngid hwynt i'r ddysgyblaeth dadol oedd i'w cymhwyso i wlad yr addewid. Amgylchiad dedwydd yw fod ymchwiliad diweddar wedi taflu cymmaint o oleu ar y golygfeydd yma o ddyddordeb treiddiol i fyfyrwyr y gair Dwyfol.

## PENNOD XII.

### IACHAU Y DYFROEDD CHWERW.—ELIM, A'I FFYNHONAU A'I CHOED PALMWYDD.

ODDIWRTH y darluniad roddwyd yn y bennod flaenorol o Arabia Petræa, bydd yn amlwg nad ydoedd yn wlad yn yr hon y gallai dwy filiwn o bersonau ymgynnal am ddim gwerth o amser heb olyniad o wyrthiau. Dr. Olin, teithiwr Cristionogol deallus yn y wlad hono, a ddywed, "Ni chymmhellodd yr un ystyriaeth ei hun arnaf mor fynych ac mor daer, wrth fyned dros lwybr yr Israeliaid, ag anaddasrwydd hollol a chyffredinol y wlad yma er cynhaliaeth y bywyd anifeilaidd. Ymddengys yn wir i feddu dim elfenau ffafriol i fodolaeth ddynol heblaw awyrgylch bur, ac nid oes dim ymddangosiadau yn ffafrio y dybiaeth ei bod erioed mewn gwirionedd yn well. Llenwir fi â rhyfeddod fod cynifer o deithwyr wedi rhoi gwaith i'w cywreinrwydd i ymryddhau oddiwrth y gwyrthiau, y rhai yn ol hanes Moses a weithredwyd i hyrwyddo taith y llu mawr anhydrin hyny, pan y mae yn brofadwy nad allent fyw am dridiau yn yr anialwch heb adnoddau goruwchnaturiol. Mae, y diriogaeth eang yr oeddym ddeuddeg niwrnod yn myned drwyddi ar dromedariaid, a rhaid ei bod erioed, yn analluog i roddi ymborth digon i gynhal hyd yn oed ychydig o filoedd neu gannoedd o bobl am fis yn y flwyddyn. Nid oes yno ddim tir llafur na phoriant, dim helwriaeth na gwreiddiau, dim braidd o adar na thrychfilod, ac y mae y cyflenwad prin o ddwfr yn ffiaidd ei flas, yn codi syched yn hytrach na'i dori. Beth allasai dwy filiwn o'r Israeliaid fwyta, heb wyrthiau y manna a'r soflieir? Pa fodd y gallasent ddianc rhag dinystr, oni bai iachad dyfroedd Marah?"

Fel yr arweiniwyd y dyrfa yma i'r "diffaethwch erchyll" trwy wyrth, felly rhaid i ni fod yn barod wrth ddylyn ol eu teithiau i weled fod eu cynhaliaeth yn ganlyniad cyfryngiad gwyrthiol cysson. Arweinia y daith gyntaf yn anialwch Sur—*El Shofar*—y llwythau ar y trydydd dydd i Marah, yn debygol yr Howarah diweddar, neu Amarah, ychydig i'w gogledd. Yr oedd y bobl, y rhai oeddynt wedi bod am dridiau, fe

allai un dydd llawn, a rhan o ddau arall, heb ddwfr, yn dioddef yn awr oddiwrth syched angerddol, a phan y daethant at y ffrwd o'r hon dysgwylient gael yfed yn helaeth, cawsant y siomedigaeth o ganfod y dyfroedd mor ammhur fel nad allent yfed o honynt. Mae dyfroedd Howarah mor chwerw a hallt fel y gwrthoda camelod y dydd presennol yfed o honynt, oddieithr eu bod yn sychedig i'r eithaf. Teimlai yr Israeliaid eu siomedigaeth yn fwy trwy fod dyfroedd y Nile â'r rhai yr oeddynt wedi arfer, yn hynod am eu pereidd-dra. Yn lle ymddiried yn y daioni Dwyfol oedd newydd eu dwyn yn ddïogel trwy y Môr Coch, "y bobl a duchanasant yn erbyn Moses, gan ddywedyd, Beth a yfwn ni?" Ond Moses, yr hwn a wyddai yn dda lle i edrych am gymhorth, "a waeddodd ar yr Arglwydd; a'r Arglwydd a ddanghosodd iddo ef bren, ac efe a'i bwriodd i'r dyfroedd, a'r dyfroedd a bereiddiasant." Mae yn annichonadwy cyfrif am yr amgylchiad rhyfeddol yma ar egwyddorion naturiol. Nid oedd aeron y Gharkhad, ddefnyddir i bereiddio dwfr chwerw, yn addfed ar amser y wyrth yma, Gwanwyn y flwyddyn; a phe buasent, pa fodd y gallasai cangen o'r pren buro yn ddisymmwth ddigon o'r dwfr i fwy na dwy filiwn? Mor gynted yna ag y gwnaed y wyrth wirioneddol hon i'r bobl, yr Arglwydd a "wnaeth ddeddf a chyfraith, ac yno y profodd efe hwynt, ac a ddywedodd, Os gan wrando y gwrandewi ar lais yr Arglwydd dy Dduw, ac os gwnai di yr hyn sydd uniawn yn ei olwg ef, a rhoddi clust i'w orchymynion ef, a chadw ei holl ddeddfau ef, ni roddaf arnat yr un o'r clefydau a roddais ar yr Aiphtiaid: o herwydd myfi yw yr Arglwydd dy iachawdwr di." Yr oedd yr Aipht newydd gael ymweled â hi a phlâau tost, a'i chystuddio a lliaws o glefydau, rhag y rhai yr addawai yr Arglwydd eu cadw hwynt os credent ac yr ufuddhaent iddo.

Yr oedd yr Israeliaid yn awr wedi eu gosod dan addysg Ddwyfol, a defnyddiodd Duw Ei air mewn cyssylltiad a'i ragluniaeth, fel y gwna â ni, i argraffu ar eu calonau trwy Ei ddaioni a'i allu, fel y gallent "wrando ar Ei lais, a gwneyd yr hyn sydd uniawn yn Ei olwg."

Trwy daith rwydd arweiniodd Moses y llwythau i Elim, dyffryn hyfryd oddeutu milldir o hyd, yr hwn ar yr amser presennol a ddewisir yn gyffredin fel un o'r prif orsafoedd ar y daith i Sinai. Yma yr oedd deg palmwydden a thriugain, a deuddeg ffynhon; ac y mae eto yn y dyffryn

yma naw o ffynhonau, ac y mae y palmwydd wedi cynhyddu i fwy na dwy fil.

Mae y balmwydden, am yr hon y darllenwn yn fynych yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd, yn un o'r coed mwyaf prydferth. Nid yw y boncyff uchel yn galed fel prenau ereill, ond y mae ei ganol wedi ei lenwi a mwydyn, o gylch yr hwn y tyfa rhisgl llinedaidd gwydn, wrth yr hwn y mae y dail yn ymlynedig. Tyfa y balmwydden i'r uchder o gan' trodfedd, ac yn gyffredin arddengys ffurf unionsyth o degwch a phrydferthwch mawr. Ei dail, y rhai a ymledant allan fel pelydrau yr haul ar ei phen, ydynt yn bur llydain, ac yn chwech i wyth trodfedd o hyd. Gwerthfawrogir y pren yma am ei ddefnyddioldeb yn gystal a'i brydferthwch. Rhydd ei ffrwyth, y palmaeron, a adwaenir yn dda yn y wlad yma, gynhaliaeth i liaws o drigolion yr Aipht, Arabia, a Phersia. Medda hefyd briodoleddau meddygol. Pan y mae y pren yn ei nwyfiant mwyaf, dyga bob blwyddyn bymtheg neu ugain o sypiau o aeron, bob un yn pwyso o bymtheg i ugain pwys. Dywedir wrthym gan y brodorion am ddim llai na thri chant a thriugain o ddefnyddiau y cymhwysir ei fonyn, canghenau, dail, a ffrwyth. Tra y bwyta y bobl y ffrwyth, ymbortha y camelod ar gerig yr aeron; gwna y dail orweddfeinciau, basgedau, cydau, matiau, a gwrychellau, a defnyddir hwy weithiau i doi eu tai. Gwna y canghenau wïeildai i'w hadar dof, a chloddiau i'w gerddi; gwna y llinion, edef, rhaffau, ac offer llong, a defnyddir y bonyn yn danwydd. Cynhyrcha y gwraidd rifedi mawr o ysgewyll, y rhai fel y tyfant i fyny a ffurfiant fath o goedwigfa, fel yr un y tybir fod y brophwydes Deborah yn trigo. (Barnwyr iv. 5.) Gwelir fel hyn paham y mae y pren prydferth a ffrwythlawn yma yn cael ei ddefnyddio yn yr Ysgrythyrau fel arwyddlun o lwyddiant crefyddol. Darllenwn "y cyfiawn a flodeua fel palmwydden;" ac mewn cyfeiriad at yr oes faith y parha yn ffrwythlon, ychwanegir, "y rhai a blannwyd yn nhŷ yr Arglwydd, a flodeuant ynghynteddoedd ein Duw; ffrwythant etto yn eu henaint." Plenir y prenau yna yn nghynteddoedd temlau a phalasdai, ac yr oedd eu llun wedi ei dynu ar furiau y Sanctaidd Sancteiddiolaf yn y deml, yr hyn a all eglurhau yr ymadrodd, "y rhai a blannwyd yn nhŷ yr Arglwydd."

(Darllener Exodus xv. 22 i'r diwedd.)

# PENNOD XIII.

## Y MANNA.

TAITH nesaf yr holl gynnulleidfa ydoedd i Anialwch Sin, ar hyd ochr y môr, trwy Ddyffryn y Cerfysgrifau, ac ar eu ffordd i Sinai. Erbyn hyn yr oedd yr ystôr o ymborth ddygasant o'r Aipht wedi ei dreulio, ac fel y poenid hwy yn ddiweddar gan syched, ofnant yn awr farw o newyn; ac heb ond ffydd wan yn yr addewid Ddwyfol, am gyflawniad pa un dylasent weddïo ar Dduw, hwy "a duchanasant yn erbyn Moses ac Aaron yn yr anialwch," a dywedasant wrthynt, "O na buasem feirw trwy law yr Arglwydd yngwlad yr Aipht, pan oeddym yn eistedd wrth y crochanau cig, ac yn bwytta bara ein gwala: ond chwi a'n dygasoch ni allan i'r anialwch hwn, i ladd yr holl dyrfa hon â newyn."

Cyfarwyddodd Jehofah, yn ei anfeidrol drugaredd, Ei was Moses i ateb i'r llefau tuchanllyd hyn, trwy yr addewid am gyflenwad uniongyrchol, llawn, a chyson o fwyd, "Wele, mi a wlawiaf arnoch fara o'r nefoedd; a'r bobl a ânt allan, ac a gasglant ddogn dydd yn ei ddydd, fel y gallwyf eu profi, a rodiant yn fy nghyfraith, ai na's gwnant." Nid oeddynt i aros hyd y boreu canlynol am eu cyflenwad cyntaf o'r ymborth nef-anfonedig hwn. Yr oedd y prydnawn i'w gweled hwynt yn y mwynhad o ystôr helaeth,—rhydd "yr Arglwydd i chwi yn yr hwyr gig i'w fwytta, a'r bore fara eich gwala." Cyd-ddylynid y cyhoeddiadau yma ag ar-ddanghosiadau o'r gogoniant ac awdurdod Dwyfol, oddiwrth y rhai y gallai y bobl ddysgu fod y gwyrthiau yr oeddynt i fod yn dystion o honynt wedi eu hamcanu i gyrhaedd diben uwch na diwalliad eu hanghenion tymhorol. Yr oedd y ddwy wyrth yma i ddangos i'r bobl "ogoniant Jehofah," Ei allu gogoneddus, a'i adnoddau anfeidrol, trwy ba rai y gallai gyflenwi anghenion Ei bobl. Yr oedd y manna i fod yn offeryn yn eu haddysg grefyddol, i'w "profi hwynt a rodient yn y gyfraith Ddwyfol ai na's gwnant." Gall fod y prawf yma yn cyfeirio yn neillduol at gadwraeth y Sabbath, i'r hwn yr oedd y dull gwyrthiol o gyfranu y rhodd i wneyd

anrhydedd neillduol. Fel hyn y dywedwyd, "ar y chweched dydd y darparant yr hyn a ddygant i mewn, a hynny fydd dau cymmaint ag a gasglant beunydd." Yr oedd y gwyrthiau hyn i gael eu dechreu hefyd trwy amlygiadau neillduol o'r dysgleirdebau Dwyfol yn y Shekinah, canys, "fel yr oedd Aaron yn llefaru wrth holl gynnulleidfa meibion Israel, yna yr edrychasant tua'r anialwch, ac wele gogoniant yr Arglwydd a ymddangosodd yn y cwmmwl."

Moses yn ei adolygiad ar y wyrth fawr hon a ddywed, "Efe a'th ddarostyngodd, ac a oddefodd i ti newynu, ac a'th fwydodd â manna, yr hwn nid adwaenit, ac nid adwaenai dy dadau; fel y gwnai efe i ti wybod nad trwy fara yn unig y bydd byw dyn, ond trwy bob gair a'r sydd yn dyfod allan o enau yr Arglwydd y bydd byw dyn."

Yn ol yr addewid Ddwyfol, dygodd y prydnawn gyflenwad helaeth o soflieir, y rhai a ddaethant i fyny ac a orchuddiasant y gwersyll. Gan ddylyn yr hanes ysbrydoledig, sylwn yn awr ar yr hyn adroddir am y manna, trwy y bydd genym rai sylwadau ar y soflieir mewn rhan bellach o'r hanes yma. Ar y "bore (canlynol) yr oedd caenen o wlith o amgylch y gwersyll. A phan gododd y gaenen wlith, wele ar hyd wyneb yr anialwch dippynau crynion cyn faned a'r llwydrew ar y ddaear. Pan welodd meibion Israel hynny, hwy a ddywedasant wrth eu gilydd, Manna yw; canys ni wyddent beth ydoedd. A dywedodd Moses wrthynt, Hwn yw y bara a roddodd yr Arglwydd i chwi i'w fwytta." Cododd yr enw Hebrëig manna oddiwrth y gofyniad *beth yw hwn?* Darlunia yr hanes ei ymddangosiad "fel had coriander," ond yn anhebyg i'r had hwnw mewn lliw, "gwyn," "a'i flas fel afrllad o fêl." Un o'i neillduolion ydoedd fod ei werth yn myned i golli os cedwid ef yn hwy na'r dydd y disgynai, pan y magai bryfaid, ac y deuai yn ffiaidd. Cyfeiriai hyn modd bynag yn unig at ddyddiau cyffredin yr wythnos, canys ar y chweched dydd, pan y gwlawid cyflenwad gymmaint arall o'r nefoedd, yr oeddynt i gasglu digon am y diwrnod hwnw a'r Sabbath. Darllenwn hefyd, "Etto rhai o'r bobl a aethant allan ar y seithfed dydd i gasglu, ac ni chawsant ddim." Sicrhawyd digonedd a chyfyngiad o'r cyflenwad i bob person, trwy y cyfarwyddyd i ddefnyddio omer i gasglu i'r teulu. Yr oedd omer y degfed ran o ephah, oddeutu chwe pheint, a gall ein

cyfeillion ieuaingc yfory, gan gymmeryd fod gwyr Israel yn chwe' chan' mil, gyfrif faint o fanna syrthiai o amgylch y gwersyll bob dydd. Gallai yr ymborth yma gael ei baratoi trwy bobi neu ferwi, a dywed ysgrifenwyr Iudewig wrthym am lawer o ffyrdd trwy ba rai y darperid ef i'r bwrdd.

Gwnaed cynnygiadau i gyfrif am y rhan wyrthiol yma o'r hanes Hebrëig yn hollol ar egwyddorion naturiol. Adgofir i ni fod math o fanna yn cael ei gynhyrchu yn yr anialwch, o ddrain y tamarisc, ei fod yn cael ei gasglu gan yr Arabiaid cyn codiad haul, yn fuan wedi hyn ymdodda ymaith. Mae y dyb fod y wyrth yn gorwedd yn unig yn helaethder y cyflenwad wedi derbyn gormod o gefnogaeth yn y wlad hon, yn gystal ag oddiwrth yr ysgrifenwyr gyda pha rai y dechreuodd y math yma o esbonio.

Heb anturio penderfynu dull y gweithrediad Dwyfol mewn cynhyrchu y canlyniad rhyfeddol yma, neu ddweyd pa mor bell y gallai y Creawdwr Hollalluog ddefnyddio i'w ddiben y tamarisc, neu unrhyw blanhigyn arall y cynhyrchir manna o hono, gwelwn brawf digonol o wyrth yn yr amgylchiadau roddir yn yr hanes ysbrydoledig. Syrthiai nid ar y Sabbath, ond bob amser ar y chweched dydd ddwywaith gymmaint; gwasanaethai y diben o ymborth digonol a maethlon, tra defnyddir y manna gesglir gan yr Arabiaid yn benaf fel meddyginiaeth, neu yn lle sugr i felysu bwyd; magai bryfaid os cedwid ef am fwy nag un dydd, oddieithr o'r chweched i'r seithfed; rhoddid ef yn y fath ddognau mawr fel yr oedd yr holl Israeliaid yn cael eu diwallu âg ef, tra nad yw y cyflenwad blynyddol yn yr orynys uwchlaw chwech neu saith gant o bwysi. Dechreuodd y cyflenwad i'r gwersyll yn mis Ebrill, ond nid yw y manna geir yn gyffredin i'w gael hyd Awst, yn parhau dim ond dau neu dri mis yn y flwyddyn, tra y parhai y cyflenwad nefol yma trwy bob tymhor am ddeugain mlynedd.

Cyfrenid y rhodd helaeth yma fel ag i ddysgu ei derbynwyr i gydnabod Dwyfol sefydliad y Sabbath, ac i anrhydeddu y dydd sanctaidd. Er eu syndod mawr canfyddai y bobl eu bod wedi casglu cymmaint arall ar y chweched dydd, a phan y dywedodd yr henuriaid wrth Moses am yr amgylchiad, atebodd, "Hyn yw y peth a lefarodd yr Arglwydd, Y fory y mae gorphwysfa Sabbath sanctaidd i'r Arglwydd: pobwch heddyw yr

hyn a boboch, a berwch yr hyn a ferwoch; a'r holl weddill, rhoddwch i gadw i chwi hyd y bore." Y rhai hyny a ddiystyrasant y gorchymyn Dwyfol, "a aethant allan ar y seithfed dydd i gasglu, ond ni chawsant ddim," a dygasant arnynt eu hunain gerydd arswydus, yn gyd-ddylynol a'r cyfarwyddyd, "Arhoswch bawb gartref; nac aed un o'i le y seithfed dydd." "Felly (y darllenwn) y bobl a orphwysasant y seithfed dydd."

Yr oedd coffadwriaeth o'r wyrth i gael ei gadw i'r holl genedlaethau dyfodol; "A Moses a ddywedodd wrth Aaron, Cymmer grochan, a dod ynddo lonaid omer o'r manna, a gosod ef ger bron yr Arglwydd ynghadw i'ch cenhedlaethau." Felly y dylem ni, yn nirgelfanau calon ddiolchgar, drysori i fyny goffawdwriaeth am y bendithion a dderbyniasom yn ystod ein taith bererinol.

Cydmara yr Arglwydd Iesu Grist ei hun i'r manna, fel yr hwn mae wedi ei anfon i lawr i'r ddaear gan ei Dad nefol, fel y byddai i ni ddysgu y gwirionedd o'i enau, a thrwy ffydd dynu ein bywyd o'i angeu. Mae y manna yn gysgod prydferth a mwyaf arddangosiadol o'r Gwaredwr. Bydded i ni oll fel y'n gwahoddir fwyta o hwn, y gwir fara nefol, a byw yn dragywydd. Gwrandewch ef fel y dywed, "Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, Yr hwn sydd yn credu ynof fi, sydd ganddo fywyd tragywyddol. Myfi yw bara y bywyd. Eich tadau chwi a fwyttasant y manna yn yr anialwch, ac a fuont feirw. Hwn yw y bara sydd yn dyfod i waered o'r nef, fel y bwyttao dyn o hono, ac na byddo marw. Myfi yw y bara bywiol, yr hwn a ddaeth i waered o'r nef. Os bwytty neb o'r bara hwn, efe a fydd byw yn dragywydd: A'r bara a roddaf fi, yw fy nghnawd i, yr hwn a roddaf fi dros fywyd y byd.....Oni fwyttewch gnawd Mab y dyn, ac oni yfwch ei waed ef, nid oes gennych fywyd ynoch." Dengys dysgeidiaeth ein Harglwydd ar y pwnc mawr yma i ni yr angenrheidrwydd am grediniaeth ddiysgog yn y gwirioneddau a ddatguddiodd, ac am fyfyrdod duwiol arnynt, fel y profom eu gallu i gyfranu a chynnal ein bywyd ysbrydol. Bydded i ni gydag adnabyddiaeth addas o'r weddi a adroddwn, ddweyd wrth y Gwaredwr yn ngeiriau y dysgyblion, "Arglwydd, dyro i ni y bara hwn yn wastadol."

(Darllener Exodus xvi. Ioan vi. 30—58.)

# PENNOD XIV.

## TARO'R GRAIG YN REPHIDIM.

AR ol eu cyflenwadau gwyrthiol o ymborth, a'u gorphwysfa Sabbathol, yr oedd yr Israeliaid yn barod i ail ddechreu eu teithiau. Fel y cyd-deithiwn â hwynt tua Sinai, yr ydym yn myned ar hyd glan y môr i Dophkah ac Alush, (Num. xxxiii. 12, 13,) gan fyned oddiyno i gilfachau yr orynys, ar ein ffordd tua Sinai, ni a gyrhaeddwn i Rephidim, lle y gorphwysa y gwersyll am dymhor. Er nad yw safle gywir Rephidim wedi ei benderfynu i foddlonrwydd, mae arwyddion mewn perthynas iddo yn y cofnodiad ysbrydoledig a hawliant ein sylw manwl. Yr oedd yn ymyl Horeb, fel y dysgwn oddiwrth y bennod hon (xvii. 6); Horeb ydoedd y gadwyn o fynyddoedd, o'r rhai Sinai oedd y pig deheuol. Nid ydoedd y Sinai a nodir allan yn awr gan fynachod Mynydd St. Catherine a'r Arabiaid. Cyfeiria eu traddodiadau at floc mawr o ithfaen, ar dri ochr arwyneb yr hwn mae oddeutu ugain o agoriadau, pob un oddeutu deg modfedd o hyd, dwy neu dair modfedd o led, ac yn agos i ddwy fodfedd o ddyfnder, a'r rhai y dywedir oeddynt yr agoriadau trwy ba rai y llifai y dyfroedd gwyrthiol. Mae y rhan fwyaf o'r agoriadau yma yn amlwg yn waith celfyddyd, yn dangos nodau y cŷn, tra nad oedd y graig wrth droed Mynydd St. Catherine yn y sefyllfa uchel ddarlunir yn yr hanes ysbrydoledig. Heblaw hyny, yr oedd Sinai yn debygol daith diwrnod i'r dehau o olygfa y wyrth, canys ar ol y gwersylliad yn Rephidim, teithiodd yr Israeliaid, "a daethant i anialwch Sinai." Nis gallai fod y Wady Feiran fawrwyllt a llawn dwfr, lle nad oedd eisieu y fath wyrth, a lle nis gallai yr Israeliaid wersyllu, gan ei bod y pryd hyny, yn ol Makrizi, yn "un o drefydd yr Amaleciaid."

Wedi ymwersyllu yn Rephidim, dioddefa y bobl eto oddiwrth syched angherddol, ac yn lle cofio yn ddiolchgar am wyrth Marah, gan ymddiried yn Jehofah i adnewyddu ei drugareddau, gan weddïo a gofyn

i Moses i eiriol, llefant, "Rhoddwch i ni ddwfr;" tuchanant yn erbyn Moses fel pe buasai wedi eu cymmeryd i'r anialwch i'w lladd hwynt, eu plant, a'u hanifeiliaid â syched.

"Mi a ddysgwyliais," meddai Esgob Hall, "i wrando pryd y gwnaent ddeisyf ar Moses weddïo drostynt, ond lle deisyfu, ymgynhenant; ac yn lle gweddïau, yr wyf yn cael gorchymynion, 'Rhoddwch i ni ddwfr.' Pe buasent wedi myned at Dduw heb Moses, mi a ganmolaswn eu ffydd; ond yn awr ânt at Moses heb Dduw, yr wyf yn cashau eu hanffyddiog-rwydd gwrthnysig."

Er i'r bobl brofi yr Arglwydd ac ymrafaelio ag Ef, eto y fath ydoedd ei drugaredd a'i dosturi fel y trefnodd iddynt gyflenwad digonol o ddwfr. "A dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, Cerdda o flaen y bobl, a chymmer gydâ thi o henuriaid Israel; cymmer hefyd dy wïalen yn dy law, yr hon y tarewaist yr afon â hi, a cherdda." Yr oedd Moses i fyned at y graig yn Horeb rhyw bellder o flaen y bobl, lle yr oedd Jehofah i sefyll o'i flaen ef yn y Shekinah; ac yr oedd Moses i daro'r graig a'i wïalen, â'r un offeryn o allu Dwyfol ag y tarawodd o'r blaen yr afon. Gwelwyd y wyrth, yr hon na oddefwyd i'r bobl fod yn dystion o honi, gan yr henur-iaid, y rhai a allent dystio i'w gwirionedd. Mor gynted yr ufuddhawyd i'r gorchymyn Dwyfol yma, rhyw geudwll mawr yn yr hwn y cadwyd y dyfroedd yn ystôr a agorwyd yn wyrthiol, a rhedodd ei ffrydiau allan mewn cyflawnder. Gallai fel y dychwelodd y prophwyd a'i gwmni at y dyrfa sychedig, i'r ffrwd newydd yma eu "canlyn" yn ei disgyniad chwyrn i'r gwastadedd islaw, gan gludo y fendith anhaeddianol ond tra anghenrheidiol.

Yn agos i ddeng mlynedd ar hugain yn ddiweddarach yn eu hanes, "meibion Israel, sef yr holl gynnulleidfa, a ddaethant i anialwch Sin, yn y mis cyntaf; ac arhôdd y bobl yn Cades; yno hefyd y bu farw Miriam, ac yno y claddwyd hi. Ac nid oedd dwfr i'r gynnulleidfa: a hwy a ymgasglasant yn erbyn Moses ac Aaron." Yna drachefn, heb un adgof diolchgar am y wyrth yma, "ymgynhennodd y bobl â Moses, a llefarasant, gan ddywedwyd, O na buasem feirw pan fu feirw ein brodyr ger bron yr Arglwydd! Paham y dygasoch gynnulleidfa'r Arglwydd i'r anialwch hwn, i farw o honom ni a'n hanifeiliaid ynddo? A phaham y

dygasoch ni i fyny o'r Aipht, i'n dwyn ni i'r lle drwg yma? lle heb hâd na ffigysbren, na gwinwydden, na phomgranadbren; ac heb ddwfr i'w yfed." Mewn atebiad i weddi Moses ac Aaron, cyfarwyddwyd hwy i wneyd gwyrth arall a chyffelyb, "Cymmer y wïalen, a chasgl y gynnulleidfa, ti ac Aaron dy frawd, ac yn eu gwydd hwynt lleferwch wrth y graig; a hi a rydd ei dwfr, a thynn dithau iddynt ddwfr o'r graig, a dïoda'r gynnulleidfa a'u hanifeiliaid." Ond ar yr ail amgylchiad yma yr oedd y wyrth i gael ei gwneyd yn mhresennoldeb yr holl bobl, ac yr oedd Moses i lefaru wrth y graig yn lle ei tharo.

Defnyddir y wyrth yn gyson i'n hadgoffa ni o'r dull y llifa bendithion yr efengyl i lawr i ni oddiwrth y Gwaredwr, yr hwn a "darawyd drosom." Ni wnai y cysgod osod allan yr oll o'r bendithion a dderbyniwn oddiwrth Grist. Dygodd Moses ddwfr o'r graig, ond pan y gwânwyd y waewffon i ystlys y Gwaredwr, daeth allan ddwfr a gwaed—gwaed i aberthu dros euogrwydd pechod, a dwfr i sancteiddio oddiwrth ei halogrwydd. Mae llawer o ddynion sanctaidd wedi traethu ar y wyrth yma, a'r eglurhad a rydd o'r efengyl, ond nid neb yn fwy hyfryd na'r esgob da ddifynasom yn barod, yr hwn a ddywed: "Yr oedd eu bara yn sacramentaidd, o'r hyn yr ymgyfranogent bob dydd. Yn lle i neb achwyn am fynychder, derbyniai yr Israeliaid yn ddyddiol: ac yn awr yr oedd eu diod yn sacramentaidd, gael i'r hen eglwys beidio rhoi gwarant o gymmundeb sych. Dwywaith o ganlyniad y rhoddodd y graig iddynt ddyfroedd o adfywiad, i arwyddo fod y wir Graig ysbrydol yn ei roi bob amser. Y Graig a'u canlynodd oedd Crist. Allan o dy ystlys, O Waredwr, daeth allan y ffrwd waedlyd yna, trwy yr hon y torir syched yr holl gredinwyr yn gysurus. Bydded i ni ond sychedu, (nid gyda grwgnachrwydd, ond gyda ffydd,) a llifa y Graig yma o'th eiddo yn helaeth i'n heneidiau, ac a'n canlyna nes y newidir y dwfr hwn i'r gwin newydd hwnw a gawn yfed yn nheyrnas dy Dad." Yma gwelwn y modd yr oedd hanes, yn gystal a deddfau Israel, yn rhoddi "cysgod daionus bethau i ddyfod."

(Darllener Exodus xvii. 1—7.)

## PENNOD XV.

### Y FRWYDR A'R AMALECIAID.

PAN y cyflenwyd yr Israeliaid yn wyrthiol a dwfr yn Rephidim, yr oedd y dyffryn cyfagos, y Wady Feiran, yn cael ei drigianu yn dew gan hiliogaeth Amalec, ŵyr Esau. Tystia gweddillion Feiran, a threfydd ereill, a'r tyrau, dyfrffosydd, a'r cloddiadau beddol yn y dyffryn mawr-wyllt yma, am gryn gynhydd yn nghelfau gwareiddiad yn mysg yr Amaleciaid, y rhai a ymdebygent i Arabiaid y trefydd.

Yr Amaleciaid yma oeddynt y gelynion cyntaf gan ba rai y cafodd yr Israeliaid ymosod arnynt ar eu taith i Ganaan. Prin yr oedd y bobl wedi gorphwys, ac wedi yfed o'r dyfroedd gyfranwyd iddynt mor drugarog, pan "y daeth Amalec ac a ymladdodd ag Israel," gan adael y dyffryn ffrwythlon yn yr hwn y trigent i wneyd yr ymosodiad yma. Er, fel y gwelsom, eu bod yn tebygu yn fawr i Arabiaid diweddar y dref, yn hytrach na rhai yr anialwch, yr oeddynt fel y dosbarth diweddaf yn y ffyrnigrwydd gyda yr hwn yr ymosodent ar, ac yr ysbeilient deithwyr heddychol. Nid oedd y llwyth ddygir dan ein sylw yn y rhan yma o'r hanes cyssegredig, ond rhan yn unig o'r hiliogaeth wyllt a haner-bar-baraidd oeddynt yn wasgaredig dros Philistria, Idumea, mynyddoedd Ephraim, a rhanau o'r Aipht isaf, yn gystal a'r lle yr ydym yma yn eu cael, Arabia Petræa.

Mae wedi ei awgrymu, a chyda phriodoldeb mawr, y gallai fod yr Amaleciaid wedi eu cynhyrfu i wrthwynebu yr Hebrëaid oddiar yr ofn ddihunwyd trwy ddynesiad agos tyrfa fawr o ddyeithriaid, ac hefyd trwy eu hoffder o ysbeilio ac anrheithio, gan y gallasent fod yn gwybod fod yr Israeliaid ar eu hymadawiad o'r Aipht wedi derbyn anrhegion mawrion oddiwrth bobl y wlad hono. Beth bynag oedd y dybenion a'u cymhellai, ymosodent ar bobl ddiniwed, oddiwrth y rhai ni dderbyniasant un cyth-ruddiad, ac wrth ymladd yn erbyn Israel ymladdent yn erbyn Duw.

I gospi y creulondeb gorthryfol arddanghoswyd gan y bobl yma, cyhoeddodd Jehofah ar achlysur hyn Ei fwriad i ddileu eu hil, gan ddy-

wedyd, "gan ddileu dilëaf goffadwriaeth Amalec oddi tan y nefoedd;" a chanlyniad y frwydr fawr ddarlunir yn yr hanes yma—dinystr Amaleciaid Sinai—a ddylynwyd gan eu gorchfygiad yn mhob gwlad arall, fel ag y mae yr Amaleciaid erys talm wedi eu llwyr ddifa.

Yn awr, am y tro cyntaf, cyfarfyddwn ag enw sydd yn ogoneddus yn yr hanes Hebrëig—JOSHUA—un o'r ddau berson mewn oed adawsant yr Aipht ac a aethant i mewn i Ganaan, yr hwn yn awr a ddygir i sylw fel gweinyddydd cyson ar Moses. Ymddengys o hyn allan fel arweinydd milwrol Israel yn eu rhyfeloedd, cyn ac ar ol eu mynediad i Ganaan, ac sydd yn gysgod enwog o Iesu, ac yn dwyn yr un enw, Joshua—fel yr enw Iesu—yn arwyddo Gwaredwr. Yr oedd yn awr oddeutu pump a deugain oed. Cyfarwyddwyd Joshua gan Moses, yn unol, nis gallwn amheu, â'r hyfforddiadau a gafodd gan yr Arglwydd, i fyned allan, ac ymladd â'r Amaleciaid, yn gyd-ddylynol a'r addewid, "y fory mi a safaf ar ben y bryn, a gwïalen Duw yn fy llaw;" "y bryn" ydoedd yn debygol y graig o ba un yr oedd y dyfroedd yn awr yn llifo yn wyrthiol i'r Israeliaid, yn Rephidim.

O dan arweiniad yr Ysbryd Glân, cofnoda yr hanesydd sanctaidd ddygwyddiad cyssylltiedig a'r frwydr fawr yma, yr hwn a ystyriwyd bob amser fel yn meddu arwyddocâd ysbrydol dwfn, ac yn dirgymhell dyledswydd grefyddol flaenaf. "A phan godai Moses ei law, y byddai Israel yn drechaf; a phan ollyngai ei law i lawr, Amalec a fyddai drechaf. A dwylaw Moses oedd drymmion; a hwy a gymmerasant faen, ac a'i gosodasant dano ef; ac efe a eisteddodd arno; ac Aaron a Hur a gynhaliasant ei ddwylaw ef, un ar y naill du, ar llall ar y tu arall; felly y bu ei ddwylaw ef sythion nes machludo haul." Gofyna hen ysgrifenydd Talmudaidd, "A all dwylaw Moses mewn gwirionedd achosi buddugoliaeth os codir hwy, neu faeddiad os cedwir hwy i lawr? Ond dysga yr Ysgrythyr Lân i ni yma mai pan yr edrychai yr Israeliaid i fyny i'r nef, ac yr ymostyngent ger bron eu Tad nefol yr oeddynt yn fuddugoliaethus; os na, gorchfygid hwynt." Dywed ysgrifenydd Iuddewig arall, "estynid ei ddwylaw mewn hyder a ffydd, a chyda gweddi dduwiol a difrifol." Yn yr un ysbryd cyfeiria ysgrifenwyr Cristionogol at y weithred yma i Moses, fel yn dangos angenrheidrwydd ac effeithioldeb gweddi ddifrifol yn y

brwydrau mawrion yn mha rai yr ydym ni yn ymladd, ac yn ein dysgu beth bynag yw ein dewrder a'n dyfal-barhad nad allwn obeithio am fuddugoliaeth ond fel y gweddïwn. Mae esboniad arall ar y dygwyddiad pwysfawr yma wedi ei awgrymu, nid anheilwng o ystyriaeth, mewn cyssylltiad a'r un derbyniedig, ond nid yn ei le. Fe awgrymwyd fod "Moses wedi codi ei wïalen fel baner, a phan y gwelai yr Israeliaid y faner yma, yr oeddynt yn wrol a buddugoliaethus; os na welent hi, yr oeddynt yn wan galon, a ffoent."....."Pan y goddefai Moses i'w wïalen ddisgyn, tybiai yr Israeliaid ei fod yn dymuno am iddynt roi i fyny y frwydr, a deuent fel hyn yn fwy llwfr yn eu hymdrechion." Onid allwn droi pob un o'r syniadau yma yn un gwirionedd cyffredinol, ein bod yn gyson i "ddyrchafu dwylaw sanctaidd" at Dduw, mewn erfyniad difrifol arno Ef, ac mewn proffes sanctaidd ger bron dynion—ger bron ein cyd-filwyr, i'w gwroli yn eu brwydr fawr; a'n gelynion, i'w dysgu fod ein holl obaith yn yr Arglwydd, a'n cymhorth yn dyfod yn unig oddiwrtho Ef?

Adgofir ni trwy yr hanes tra awgrymiadol yma, am yr undeb agos sydd rhwng y gweledig a'r anweledig, rhwng yr hyn a wneir yn y nef, ac a wneir ar y ddaear; y bwriad Dwyfol ac ymdrech dynol; arfaeth Duw a rhydd weithrediad a chyfrifoldeb dyn, pethau ydynt wedi bod yn unedig bob amser yn y meddwl a'r bwriad Dwyfol, ac a osodir ar wahan yn unig gan ein "balchder rhesymiadol," a chasgliadau gorfrysiog.

Dengys y cyfarwyddyd Dwyfol, "Ysgrifena hyn mewn (y) llyfr, a mynega i Joshua," fod y gelfyddyd o ysgrifenu mewn addfedrwydd y pryd yma, tra y teifl lawer o oleuni ar y dull yn mha un y sicrheid y rhanau hanesyddol o'r Ysgrythyr Lân i ni. Mae genym *y* Llyfr yn mha un mae y cofnodion cyssegredig hyn yn cael eu cadw. Sefydlodd prophwyd yr Arglwydd goffawdwriaeth arall o'r oruchafiaeth ryfeddol yma; canys "Moses a adeiladodd allor, ac a alwodd ei henw hi JEHOFAH-NISSI (JEHOFAH FY MANER): canys efe a ddywedodd, O herwydd tyngu o'r Arglwydd, y bydd i'r Arglwydd ryfel yn erbyn Amalec o genhedlaeth i genhedlaeth." Dyma yr arwyddair a allwn arflunio ar ein banerau, os ydym yn ymdrechu hardd-deg ymdrech y ffydd o dan Iesu, Cadben ein hiachawdwriaeth.

(Darllener Exodus xvii. 8—16.)

## PENNOD XVI.

### MOSES YN DERBYN YMWELIAD ODDIWRTH JETHRO.

MAE yn eglur, er fod barn wahanol wedi ei thraethu, fod ymweliad Jethro â Moses wedi ei dalu cyn rhoddiad y Ddeddf, ac yn union ar ol gorchfygiad yr Amaleciaid. Dywedodd Moses wrtho yr oll a wnaeth yr Arglwydd i Pharaoh a'r Aiphtiaid er mwyn Israel, ond ni chrybwyllodd am y golygfeydd difrifol oeddynt wedi cymmeryd lle ar Sinai, gadawiad allan am yr hyn nis gallwn gyfrif os oedd y Ddeddf Ddwyfol newydd gael ei rhoddi. Cyflwynodd Jethro hefyd offrymau ac aberthau yn mha rai ymgyfranogodd Moses ac Aaron, er eu bod yn batriarchaidd syml yn eu natur, ac nid yn ol y cyfarwyddiadau ar Sinai, ac oddiwrth y rhai rhaid ydoedd peidio bod dim ymadawiad, os oedd y ddeddf o seremoniau Iuddewig newydd ei chyhoeddi.

Mae gennym yma olygfa deuluaidd yn hanes Moses, gŵr Duw. Yr ydym yn ei weled yn gyffredin yn ei fywyd cyhoeddus yn ymwneyd a dyledswyddau mawrion ei alwedigaeth uchel, oddiwrth y rhai ni oddefid i ddim gofynion teuluaidd ei droi ymaith. Er i'w wraig a'i ddau blentyn deithio gydag ef ar ei ffordd o Midian i'r Aipht, mae yn debygol iddynt gael eu troi yn ol ar ol y dygwyddiad adroddir yn Exod. iv. 25, 26, gan y gallai ei fod yn canfod y byddai yn annoeth yn gystal a diangenrhaid i'w cymmeryd i'r wlad o'r hon yr oedd mor fuan i ddychwelyd yn ben ar yr Israeliaid.

Yma, yna, mae aduniad teuluaidd mwyaf dedwydd, mewn golygfa o symlrwydd cyntefig llawn o'r dyddordeb dyfnaf. Derbynir offeiriad oedranus Midian, dynesiad yr hwn a hysbyswyd gan negesydd, gyda'r cariad a'r parch dyledus i'w swydd, a'r berthynas yn yr hon y safai i Moses; yr hwn "a aeth allan i gyfarfod a'i chwegrwn, ac a ymgrymmodd, ac a'i cusanodd." Dychwela y gŵr parchedig i Moses yr aelodau anwyl hyny o'i deulu oeddynt wedi trigo yn ddïogel yn ei bebyll, tra yr oedd Moses yn dwyn yn mlaen ei ymdrechfa galed gyda'r Aiphtiaid. Fel yr edrycha ar ei feibion, ac yr adeilw eu henwau, adgofir ef er ei fod wedi

bod yn "ddieithr mewn gwlad estronol," fod Duw ei dadau wedi bod yn "gynhorthwy" iddo.

Ac yn awr, pan y mae aelodau y teulu yma oll wedi eu casglu yn mhabell Moses, dywedir wrthym am bwnc eu hymddyddan, "A Moses a fynegodd i'w chwegrwn yr hyn oll a wnaethai yr Arglwydd i Pharaoh ac i'r Aiphtiaid, er mwyn Israel, a'r holl flinder a gawsent ar y ffordd, ac achub o'r Arglwydd hwynt." Y fath hanes rhyfeddol oedd gan Moses i'w ddweyd! Onid yw yn hyfryd pan y mae aelodau gwasgaredig teulu wedi eu haduno, a phan y gallant adrodd i'w gilydd y trugareddau a dderbyniasant oddiar law yr Arglwydd, yr hwn a'u gwaredodd hwynt rhag peryglon, a'u cyfoethogodd a'i ddoniau, ac a wnaeth iddynt gyfranogi o fendithion Ei ras? Yr ydym yn gwneyd daioni mawr i'n gilydd trwy goffhau gweithredoedd nerthol yr Arglwydd, yn neillduol y rhai ydym wedi bod yn dystion o honynt yn ein hanes ein hunain. Effaith yr adroddiadau rhyfeddol yma ar feddwl Jethro ydoedd i gadarnhau ei ffydd yn Jehofah, a chynhyrfu ei ddiolchgarwch duwiol, "Yn awr y gwn mai mwy ydyw'r Arglwydd na'r holl dduwiau; oblegid yn y peth yr oeddynt falch o hono, yr oedd efe yn uwch na hwynt." Dibenodd y dydd yn nghanol defodau crefydd, a mwynderau cymdeithasol gwledd gyssegredig. "A Jethro, chwegrwn Moses, a gymmerodd boethoffrwm ac ebyrth i Dduw; a daeth Aaron, a holl henuriaid Israel, i fwytta bara gyd â chwegrwn Moses, ger bron Duw." Mewn coffawdwriaeth ddiolchgar am yr oll oedd newydd glywed, aberthodd Jethro i Jehofah, ac yna casglodd ei westwyr gylch ei fwrdd. Cyfranogodd cwmni lliosog, gan gynhwys holl henuriaid Israel, o'r wledd, ond yr oedd "ger bron Duw." Mae gan y rhai a ysgarant y mwynhad o roddion da Duw oddiwrth wasanaeth Duw, ac a ystyriant grefydd yn unig fel peth o drymder a phrudd-der, eto i ddysgu ei gwir natur.

Dranoeth eisteddodd Moses i farnu rhwng y bobl, a chedwid ef o'r boreu hyd y prydnawn i drefnu yr achosion ddygid ger ei fron, heb dderbyn hyd eto y gwahanol gyfreithiau wrth ba rai yr oedd y dyrfa i gael eu llywodraethu. Yr oedd Jethro fel offeiriad Midian, ac hen ŵr, wedi cael profiad a ystyriai yn gyfaddas i'r achos, ac felly cynhugiodd ef er cyfarwyddyd i Moses. Moses hyd eto yn dysgwyl am y cyfarwyddyd

Dwyfol, a weithredai yn syml fel canolwr rhwng y bobl: "Pan fyddo iddynt achos, attaf fi y deuant; a myfi sydd yn barnu rhwng pawb a'u gilydd, ac yn hyspysu deddfau Duw a'i gyfreithiau." Ystyriai Jethro fod gan Moses ddyledswydd llawer uwch i'w gwneyd na'r eiddo llywodraethwr ac ynad cyffredin; "Bydd di dros y bobl ger bron Duw, a dwg eu hachosion at Dduw; dysg hefyd iddynt y deddfau a'r cyfreithiau, a hyspysa iddynt y ffordd a rodiant ynddi, a'r gweithredoedd a wnant." Cynghorai i lywodraethwyr o wahanol raddau gael eu pennodi ar y bobl, gyda swyddfraint yn cyrhaedd o ddeg i fil, hyd nes y deuai yr achosion o gymmaint pwys ag i hawlio apeliad terfynol at Moses, fel gweinidog Duw.

Dylid sylwi i Jethro roddi ei holl gynghor mewn ymostyngiad gostyngedig i'r ewyllys Ddwyfol, Ei iaith oedd, "Os y peth hyn a wnai, a'i *orchymyn o Dduw iti*, yna ti a elli barhau, a'r bobl hyn a ddeuant i'w lle mewn heddwch." Gwyddai fod Jehofah wedi cymmeryd yr Hebrëaid o dan ei nodded neillduol, a dewis Moses fel Ei was, ac y byddai i'r cynghor doeth a roddodd gael ei ddylyn yn unig os derbyniai y gymmeradwyaeth Ddwyfol.

Os ea y cofnodion roddir yn y tair brawddeg gyfeirir atynt yn niwedd y bennod hon eu cydmaru yn briodol, ni a ddarllenwn fel hyn yr hanes dyddorol yma. Yn gyntaf, rhoddodd Jethro ei gynghor yn seiliedig ar ei sylw ei hun, ond yn cael ei ddylyn gyda dymuniad am i Moses ddysgwyl wrth y gorchymyn Dwyfol. Ni weithredodd Moses yn union yn ol y cynghor yma; ond ar gyfnod diweddarach (Num. xi. 14) a ddywedodd wrth Dduw, "Ni allaf fi fy hunan arwain yr holl bobl hyn, canys rhy drwm ydyw imi." Mewn attebiad i'r achwyniad yma, cyfarwyddodd Jehofah ef i ddewis deg a thriugain o bersonau a'u cyflwyno ger ei fron Ef, fel y derbynient yr un ysbryd a dywalltwyd arno ef. Mewn ufudd-dod i'r cyfarwyddyd Dwyfol, "Moses a aeth allan ac a draethodd eiriau'r Arglwydd wrth y bobl, ac a gasglodd y dengwr a thriugain o henuriaid y bobl, ac a'u gosododd o amgylch y babell. Yna y disgynodd yr Arglwydd mewn cwmmwl, ac a lefarodd wrtho, ac a gymmerodd o'r yspryd oedd arno, ac a'i rhoddes i'r deg henafgwŷr a thriugain: a thra y gorphwysai yr yspryd arnynt y prophwydent, ac ychwaneg ni wnaent."

Y dynion a ddewiswyd fel hyn gan y bobl, ac a ddoniwyd ag ysbryd Duw, a ddaethant eu llywodraethwyr, yn ol yr ordeiniad Dwyfol.

Os sylwir ar y drefn yma yn yr hanes ysbrydoledig, gwelir mor lleied o rym sydd yn yr wrthddadl nad oedd gan Moses gynhorthwy un ysbrydoliaeth Ddwyfol yn y pwnc pwysig yma, ond iddo gael yr holl feddwl a'r cynllun oddiwrth gynghor ac annogaeth Jethro; oddiwrth yr hyn argymhellir yr wrthddadl anffyddol, gan nad oedd yr amgylchiad yn ganlyniad ysbrydoliaeth Ddwyfol, felly nis gallai ychwaith ei gofnodiad fod yn ysbrydoledig. Pan y codwyd yr wrthddadl yma gyntaf, cafodd attebiad dioed yn y rhesymiad a roddasom yn fyr.

I orphen y gwyriad dyddorol yma yn hanes Moses, rhaid i ni ychwanegu y gwahoddiad calonog roddodd i Jethro (Num. x. 29): "Myned yr ydym i'r lle am yr hwn y dywedodd yr Arglwydd, Rhoddaf hwnw i chwi; tyred gyda ni, a gwnawn ddaioni i ti; canys llefarodd yr Arglwydd ddaioni am Israel." Cymhellwyd Jethro gyda y taerineb dwysaf, "Na ad ni, attolwg;" ac yn yr un ysbryd caredig y dylem ni, os ydym yn bererinion tua'r Ganaan nefol, annog y rhai hyny yr ydym yn unedig â hwynt trwy gylymau naturiol, i ddyfod yn gwmni i ni ac yn gyd-deithwyr. Gallwn fel Moses addaw rhan i bob un o honynt o'r dedwyddwch tragywyddol a ddysgwyliwn ein hunain,—"A phan ddelych gyd â ni, a dyfod o'r daioni hwnnw yr hwn a wna yr Arglwydd ini, ninnau a wnawn ddaioni i tithau." Ymddengys i Moses feddwl y gwnai Jethro brofi yn gymhorth ammhrisiadwy i'r bobl yn eu teithiau,—"canys ti a adwaenost ein gwersyllfaoedd yn yr anialwch, ac a fyddi yn lle llygaid ini." Ni adawyd ef modd bynag i'r fath arweiniad, Jehofah ydoedd i fod ei gyfarwyddwr diwyro yn ei holl deithiau; ac felly darllenwn, "Moses a ollyngodd ymaith ei chwegrwn; ac efe a aeth adref i'w wlad." Mewn cyfnod diweddarach taflodd teulu Jethro eu coelbren gyda phobl Dduw, "A meibion Ceni, chwegrwn Moses, a aethant i fyny o ddinas y palmwydd gyd â meibion Judah, i anialwch Judah, yr hwn sydd yn nehau Arad; a hwy a aethant ac a drigasant gyd a'r bobl." Yn y ffaith ddyddorol yma, gwelwn hyd yn oed ar y cyfnod boreuol hwn, i fendith Abraham ddyfod ar y cenhedloedd, yn erbyn y rhai nid oedd drws trugaredd wedi ei gau.

(Darllener Exodus xviii. Numeri x. 29—32; xi. 14—17, 25. Deuteronomium i. 9—18.)



LEIGHTON, BROTHERS.

ENCAMPMENT OF ISRAELITES, MOUNT SINAI.

# PENNOD XVII.

## SINAI.

O REPHIDIM gadewch i ni ganlyn y lliaws miloedd Israel trwy y dyffrynoedd dwfn a throiog a'u harweiniodd hwynt at droed Sinai, lle y maent i wersyllu am flwyddyn. Rhydd i ni foddlonrwydd neillduol i roddi ger bron ein darllenwyr haul-ddarlun o "fan debygol gwersylliad yr Israeliaid o flaen Mynydd rhoddiad y Ddeddf." Yn mysg yr amrywiol leoedd dybir i fod y Mynydd sanctaidd, mae y flaenoriaeth yn ddyledus i Ras Sasâfeh, yr hwn gyda ei wrthddrychau cylchynol sydd wedi ei ddarlunio a chywirdeb diwyro goleuni nefol. Yr heuldeb[1] dynwyd gan y Parch. A. B. Cotton, A.C., a thrwy ei ganiatâd caredig roddir i mewn yn mysg ein darluniau, nis gall gael ei gyfrif gan yr efrydydd Biblaidd yn amgen nag yn un o'r cymhwysiadau mwyaf dyddorol a gwerthfawr o'r gelfyddyd ryfeddol hon. Trwy y cynhorthwy roddir yn awr gallwn fyfyrsyllu ar "y mynydd teimladwy," i ben yr hwn y disgynodd Jehofah gyda mawrhydi ofnadwy, a lanwodd yr Hebreaid a dychryn. I aswy y darlun mae Wady Ed-Deir a Mynachdy St. Catherine; yn y canol mae clogwyni y Ras Sasâfeh, tu ol i'r rhai mae Gebel Mousa. I'r dehau mae y bryniau o flaen Gebel Katharin, rhwng pa rai a Ras Sasâfeh, mae y Wady Leja, dyffryn yr "afon oedd yn disgyn o'r mynydd." (Deut. ix. 21.) Dengys y tir o'r blaen, a'r dyffrynoedd dynesol iddo, y pebyll diroedd yn mha rai "y gwersyllodd Israel ar gyfer y mynydd." Dylid sylwi, mai dyma yr unig ran o'r orynys yr hwn sydd yn llawn ffynhonau a phorfëydd gwelltog, a fforddia le cyfaddas o arosiad yn ystod blwyddyn i'r bobl, a phorfa i'w hanifeiliaid; ac mai Gebel Mousa yw Mynydd Sinai traddodiad.

Ar ddarlleniad manwl o'r Ysgrythyrau enwir ar ddiwedd y bennod, gwelir i Moses mor gynted ag y gwersyllodd y bobl, esgyn mynydd Jehofah, yr hwn a'i cyfarwyddodd i adgoffa i'r bobl y modd y dygodd hwynt

[1] Cyhoeddedig gan Hogarth, Haymarket, Llundain.

ar adenydd eryrod, ac yr addawodd os ufuddhaent i'w lais, a chadw Ei gyfammod, y byddent iddo Ef "yn frenhiniaeth o offeiriaid, ac yn genedlaeth sanctaidd." Pan yr adroddodd Moses ar ddiwedd yr ymweliad cyntaf yma y geiriau hyn i'r henuriaid, a thrwy yr henuriaid i'r dyrfa, yr "holl bobl a gydattebasant ac a ddywedasant, Nyni a wnawn yr hyn oll a lefarodd yr Arglwydd." Dychwelodd Moses yn union at Dduw, ac fel cynrychiolydd y bobl a draethodd eu bwriad gwirfoddol a difrifol i ufuddhau i'r gorchymynion Dwyfol. Efe "a ddug drachefn eiriau'r bobl at Dduw."

Yna hysbysodd yr Arglwydd i Moses, a thrwyddo ef i'r genedl, Ei fwriad o ddyfod i lawr yn ngolwg yr holl bobl ar y mynydd, a'u bod yn ystod y "tri diwrnod neillduaeth" i ddarparu yn ddifrifol trwy buredigaeth fewnol ac allanol, naturiol a moesol, erbyn y golygfeydd ofnadwy ddifrifol yr oeddynt i'w gweled. Gan fod Sinai yn awr i ddyfod yn drigfa y Sancteiddiolaf, nid oedd neb o'r bobl, oddieithr Moses a'r ychydig a'i canlynai, i esgyn i'w uchelderau cyssegredig. Rhoddwyd y cyfarwyddyd i Moses fel hyn: "A gosod derfyn i'r bobl o amgylch, gan ddywedyd, Gwyliwch arnoch, rhag myned i fynu i'r mynydd, neu gyffwrdd a'i gwrr ef; pwy bynnag a gyffyrddo a'r mynydd, a leddir yn farw: na chyffyrdded llaw ag ef, onid gan labyddio llabyddier ef, neu gan saethu saether ef; pa un bynag ai dyn ai anifail fyddo, ni chaiff fyw." Pan ganai yr udgorn modd bynag o ganol y cymylau, y taranau, a'r mellt, yna yr oedd y bobl nid i ddyfod "i fyny i'r mynydd;" ond fel y dylid cyfieithu y geiriau—i "fyned yn mlaen at y mynydd."

Ar y dydd ofnadwy hwnw erbyn yr hwn y gwnaed y paratoadau difrifol hyn, "Mynydd Sinai oedd i gyd yn mygu, o herwydd disgyn o'r Arglwydd arno mewn tân; a'i fwg a ddyrchafodd fel mwg ffwrn, a'r holl fynydd a grynodd yn ddirfawr." Dengys yr holl gyfeiriadau at yr arddanghosiad ofnadwy yma o'r mawrhydi Dwyfol, ei fod wedi ei fwriadu i lenwi y bobl a'r ofn a'r parch mwyaf. Gan gyfeirio mewn cyfnod diweddarach at yr amlygiadau gorlethol o'r gogoniant Dwyfol, dywed Moses wrth y bobl: "Y geiriau hyn a lefarodd yr Arglwydd wrth eich holl gynnulleidfa yn y mynydd, o ganol y tân, y cwmmwl, a'r tywyllwch, â llais uchel." Ystyria yr apostol Paul hefyd yr arddanghosiad

mawreddog yma o'r mawrhydi Dwyfol fel cyferbyniad perffaith i'r dysgleirdeb tyner a welwn yn Nghalfaria: "Ni ddaethoch chwi at y mynydd teimladwy sydd yn llosgi gan dân, a chwmmwl, a thywyllwch, a thymmestl, a sain udgorn, a llef geiriau; yr hon pwy bynnag a'i clywsant, a ddeisyfiasant na 'chwanegid yr ymadrodd wrthynt." Pan yr ydoedd yr arddanghosiad yma o fawrhydi'r Jehofah yn uchder ei fawredd, "Moses a ddug y bobl allan o'r gwersyll i gyfarfod a Duw; a hwy a safasant yngodre'r mynydd."

Mae y bobl y rhai oeddynt wedi adnabod yn barod Jehofah fel eu Gwaredwr o'r Aipht, fel Awdwr eu cyflenwadau gwyrthiol, yn awr i'w adnabod Ef fel eu Deddfroddwr a'u Brenhin; ac am y rheswm yma mae eu llywodraeth o hyn allan i gael ei hystyried fel Duwlywiaeth. Ond yr oedd yr amlygiadau yma o'r presennoldeb Dwyfol yn orlethol i'r dyrfa; ac nid cynt y gwelsant "ogoniant (Jehofah) a'i fawredd, ac y clywsant ei lais o ganol y tân," nag y dychrynasant, ac y deisyfasant na 'chwanegid yr ymadrodd wrthynt. Dywedasant wrth Moses, "Llefara di wrthym ni, a nyni a wrandawn; ond na lefared Duw wrthym, rhag i ni farw."

Ar ol i Moses trwy y cyfarwyddyd Dwyfol rybuddio y bobl drachefn i sefyll o bell oddiwrth y mynydd, galwyd ef ac Aaron i'w ganlyn o fewn llen ofnadwy y mawrhydi Dwyfol, i dderbyn y cyfreithiau oeddynt i lywodraethu y genedl oedd Jehofah wedi ddwyn fel hyn mor agos ato Ef.

Yr oedd y rhan gyntaf o'r Ddeddf ysgrifenwyd ar y llechau gan y llaw Ddwyfol yn gofnodiad o'r gorchymynion moesol hyny roddwyd i'w cadw gan bawb ar bob amser. Yr oeddynt wedi eu datguddio o'r blaen mewn gwahanol ddulliau, wedi eu traethu gan y llais Dwyfol, a'u hysgrifenu ar lech y galon; ac yn ddiweddarach mewn hanesyddiaeth maent wedi eu cyhoeddi gan "Un mwy na Moses." Er yn cael eu dirgymhell trwy ryw gymhelliadau cyfaddasedig neillduol i sefyllfa a rhagolygon yr Hebreaid, maent i gael eu derbyn gan bob cenedl fel o rwymedigaeth gyffredinol a pharhaus, a'n gweddi a ddylai fod ar iddo Ef a'u rhoddodd eu hysgrifenu hwynt oll ar ein calonau.

Gwelir gwahaniaeth bychan rhwng "y Deg Gair" fel eu darllenir yn Exodus a Deuteronomium, am yr hwn y cyfrifir yn llawn trwy sylwi mai

y rhai hyny yn Exodus ydynt y Ddeddf wreiddiol fel ei rhoddwyd i Moses, ac a gerfiwyd wedi hyn ar lechau y cyfammod, tra y perthyna y rhai hyny yn Deuteronomium mewn ffurf hanesyddol yn y talfyriad rydd Moses o hanesyddiaeth Hebreig.

Dechreua a diwedda y Ddeddf gynhwysfawr yma gyda'r galon, fel eisteddle meddwl a ffynhonell gweithrediad. Hawlia ar fod yr enaid yn cael ei lenwi a Duw, ac yn rhydd oddiwrth ddymuniadau trachwantus. Mae y lech gyntaf a chyfeiriad neillduol at ddyledswyddau crefyddol, a'r ail at y rhai a berthynant i gymdeithas, tra y mae pob un yn unedig yn y pumed gorchymyn, am yr hwn y dywedwyd yn brydferth, "mae tuag i fyny yn bwynt o ymadawiad am y dwyfol, a thuag i lawr am ddyledswyddau dynol." Gwelwn fel hyn y modd y mae rhwymedigaethau mabaidd yn sefyll yn y canol rhwng dyledswyddau dwyfol a dynol, ac mai yn ofer y gwna y rhai nad ydynt yn anrhydeddu eu rhieni broffesu eu bod yn addoli Duw. Ar yr holl ddeg gorchymynion bydded i ni wrando ar esboniadau aruchel y Gwaredwr, mewn attebiad i ofyniad y dadleuid yn fynych arno yn mysg yr Iuddewon, "Pa un yw'r gorchymyn mawr yn y gyfraith?" "Ceri yr Arglwydd dy Dduw a'th holl galon, ac a'th holl enaid, ac a'th holl feddwl. Hwn yw'r cyntaf, a'r gorchymyn mawr. A'r ail sydd gyffelyb iddo; Car dy gymmydog fel ti dy hun. Ar y ddau orchymyn hyn y mae yr holl gyfraith a'r prophwydi yn sefyll."

Deillia y deddf-lyfr perffaith yma oddiwrth Awdwr a Rheolwr yr holl fydysawd, am Ddeddf gyffredinol yr hwn, yn iaith ragorol Hooker, "nis gellir cydnabod yn llai nag fod ei heisteddle yn mynwes Duw, ei llais yn beroriaeth y Byd; gwna pob peth yn y nef a'r ddaear warogaeth iddi, y lleiaf fel yn teimlo ei gofal, a'r mwyaf fel heb fod yn rhydd oddiwrth ei gallu; angylion, a dynion, a chreaduriaid i gyd, o ba sefyllfa bynag, pob un mewn gwahanol fodd a dull, eto oll gyda chydsyniad unol, yn ei mawrygu fel mam yr heddwch a'r llawenydd yma." Nid oes dim yn fwy amlwg yn nysgeidiaeth Iesu, yr hwn a ddaeth i roddi "moesau newyddion i ddynolryw," na'r anrhydedd a hawlia i'r ddeddf foesol, i'r hon y rhoddodd ei holl fywyd ymostyngiad perffaith.

(Darllener Exodus xix., xx. Deuteronomium v.)

# PENNOD XVIII.

## CYFREITHIAU ISRAEL.

Y RHAN gyntaf o'r cyfreithiau roddwyd i'r Hebreaid oedd y Deg gorchymyn—y gyfraith foesol, yn rhwymedig nid arnynt hwy yn unig, ond ar bob dyn. Dylynwyd hyn gan ddatguddiad helaethach, ddarlunir fel Llyfr y Cyfammod, o'r hwn y mae gennym yr adysgrif o Exod. xx. 19, i xxiii. 33. Mae gan y rhan bwysig yma o lyfr y cyfreithiau Hebrëig y dynodiad hwn, oblegid ynddo "Moses a "'sgrifenodd holl eiriau'r Arglwydd," a chynhwysai y cyfreithiau y rhai a roddasai Jehofah fel Brenhin Israel, ac yr ymgyfammodasai y bobl yn y dull mwyaf difrifol i'w cadw. "Ac attebodd yr holl bobl yn un air, ac a ddywedasant, Ni a wnawn yr holl eiriau a lefarodd yr Arglwydd."

Mae yr amgylchiadau yn nglyn a'r cyhoeddiad yn mysg yr Israeliaid o'r rhan yma o'u deddf-lyfr cenhedlaethol, o'r natur mwyaf difrifol. Fel hyn y darllenwn, "A Moses a 'sgrifenodd holl eiriau'r Arglwydd, ac a gododd yn fore, ac a adeiladodd allor is law'r mynydd, a deuddeg colofn, yn ol deuddeg llwyth Israel. Ac efe a anfonodd langciau meibion Israel, a hwy a offrymasant boethoffrymau, ac a aberthasant fustych yn ebyrth hedd i'r Arglwydd. A chymmerodd Moses hanner y gwaed, ac a'i gosododd mewn cawgiau, a hanner y gwaed a daenellodd efe ar yr allor. Ac efe a gymmerth lyfr y cyfammod, ac a'i darllenodd lle y clywai'r bobl: a dywedasant, Ni a wnawn, ac a wrandâwn yr hyn oll a lefarodd yr Arglwydd. A chymmerodd Moses y gwaed, ac a'i taenellodd ar y bobl, ac a ddywedodd, Wele, waed y cyfammod, yr hwn a wnaeth yr Arglwydd a chwi, yn ol yr holl eiriau hyn." At y llyfr yma y cyfeiria'r apostol Paul pan y dywed "ac a'i taenellodd ar y llyfr a'r bobl oll."

I feddiannu syniad eglur am yr amgylchiadau cyssylltiedig a chyflwyniad y Ddeddf, dylem sylwi ar yr hanes mewn olyniad i'n pennod flaenorol. Tra yr oedd Moses yn derbyn y cyfreithiau yn Llyfr y Cyfammod, y bobl, yn ol y cyfarwyddiadau roddwyd iddynt yn fynych, a safent o bell oddiwrth y mynydd. Yna disgynodd Moses, a darllenodd y

geiriau i'r bobl, ar ol yr hyn cyfarwyddid ef i ymddangos drachefn yn y presennoldeb Dwyfol, ac yn ei ganlyn Aaron, Nadab, Abihu, a deg a thriugain henuriaid Israel; ond efe yn unig oedd i fyned o fewn cwmwl y Shekinah, tra yr arosai y rhai hyn, ei gymdeithion detholedig, o bell—ond mewn rhyw ran ddyrchafedig o'r Mynydd sanctaidd. Cyn i Moses eu gadael, ffafriwyd hwynt a gweledigaeth o'r Mawrhydi Dwyfol; canys "gwelsant Dduw Israel; a than ei draed megis gwaith o faen saphir, ac fel corph y nefoedd o ddisgleirder." Aeth Moses yn awr yn ol y wŷs a dderbyniodd i ben y mynydd, yn cael ei ganlyn yn unig gan ei was gweinyddol, Joshua; ond yr oedd yn chwe diwrnod cyn iddo glywed llais Jehofah yn galw arno i fyned i mewn i gwmwl y gogoniant a gyssegr-gadwai y Mawrhydi Dwyfol. "A Moses a aeth i ganol y cwmmwl, ac a aeth i fynu i'r mynydd; a bu Moses yn y mynydd ddeugain niwrnod a deugain nos." Yn ystod yr amser difrifol yma, "golwg ar ogoniant yr Arglwydd oedd fel tân yn difa ar ben y mynydd, yngolwg meibion Israel."

Yno, yn ol yr addewid Ddwyfol, y derbyniodd Moses y llechau meini, ar y rhai yr ysgrifenwyd y "deg gair" gan y llaw Ddwyfol, a'r rhai a glywodd yn flaenorol o eneu Duw; hefyd "y Ddeddf a'r gorchymynion." Yno hefyd y dysgodd yr ewyllys Ddwyfol mewn perthynas i addoliad crefyddol, y gwasanaeth yn mha un yr oedd i fod yn gynhwysedig, y lleoedd cyssegredig yr oedd i gael ei gynhal, a phob neillduolion mewn perthynas i'r tabernacl, portread o'r hwn a ddanghoswyd yn awr. Rhoddwyd cyfarwyddiadau am y personau y rhai oeddynt i weini mewn pethau sanctaidd, o'r archoffeiriad i lawr at y cymynydd coed distadl, a'r gwehynydd dwfr. Dynodwyd yr amserau ofynid i wasanaeth yr addoliad Hebrëig, trefnwyd y gwyliau blynyddol, danghoswyd eu diben, a darluniwyd dull ac amgylchiadau eu cadwraeth. Rhoddwyd hyfforddiadau gofalus am ymddygiadau y bobl at eu gilydd, a chyda cenhedloedd ereill; a rhoddwyd cyfarwyddiadau am y brwydrau mawrion yr oeddynt i fyned iddynt, mewn trefn iddynt allu enill meddiant llwyr a pharhaus o'r wlad yr oeddynt i'w chael.

Yn mysg y gorchymynion gyhoeddwyd fel hyn, yr ydym yn canfod lliaws o orchymynion perthynol hollol i'r gyfraith *foesol*, yn rhoddi

manylion bywyd personol, cymdeithasol, a chrefyddol, ac felly yn cyfeirio at bob pobl gyda grym o rwymedigaeth barhaus. Mae deddf-lyfr *gwladol* yn gynhwysedig hefyd yn y ddedfwriaeth Ddwyfol yma, ac er fod llawer o'i gosodiadau yn cyfeirio yn neillduol, a rhai yn hollol at y bobl Hebrëig, maent wedi profi yn gyfaddas nodedig i genhedloedd ereill. Cyfranasant i ddeddfwriaeth gyntefig ein gwlad ni ran helaeth o'r cyfiawnder a'r uniondeb wrth ba rai yr hynodir ein cyfreithiau gwladol. Perthynai y rhan *seremoniol* o'r cyfreithiau yn hollol i'r genedl Iuddewig, y rhai a feddent "gyssegr bydol," yn mha un, trwy offerynoliaeth defod ysblenydd a seremoniau arwyddocaol, yr oedd yr addolwyr i ddynesu at Dduw gydag ofn a pharch; tra yr oedd eu holl wasanaeth yn rhag-gysgodi y daionus bethau oeddynt i gael eu datguddio yn y dyfodol.

Ni ddylid siarad am y cyfreithiau yma fel cyfreithiau Moses, oddieithr mewn ystyr gyfyng iawn, nid ar un amser fel prawfion o'i graffder deddfwriaethol. Mynegiadau Dwyfol ydynt, o ba rai efe ydoedd y cyfrwng. Ni fenthyciwyd hwynt oddiwrth yr Aiphtiaid, i reolau deddfwriaeth pa rai yr arddanghosant y cyferbyniad mwyaf tarawiadol, fel y gellir gweled yn nghyssegrwydd bywyd dynol yn mysg yr Hebreaid, a'r ammharch gyda pha un mae yn wybyddus yr ymddygid ato yn yr Aipht.

Hynodir cyfreithiau gwladol yr Hebreaid am eu manylder a'u dihalogrwydd. Fel yn amlygu ewyllys yr Hollalluog nis gallent gael eu hammarchu yn ddigosp, a hawliant ein hedmygedd am y parch a ofynant ac a gynhyrfant i gyfraith. Ar yr un amser dirgymhellant holl ddyledswyddau gwir ddynoliaeth, i ymarferiad pa rai gwnant ddarpariaeth neillduol. Trwy gymhlethiad mwyaf rhagorol o'r naturiol a'r moesol, y materol a'r ysbrydol, lles unigolion a'r genedl, unant holl fuddiannau dyn, y tymhorol a'r tragywyddol, a dygant argraff o Ddwyfoldeb. Fel y cynhydda unrhyw genedl mewn gwybodaeth Ddwyfol, a gwir sancteiddrwydd, dynesa ei deddfwriaeth at y cyfreithiau gwladol roddwyd i Israel trwy law Moses. Nid ydym yn ddigon hysbys o'r lles a dderbyniodd cenhedloedd Ewropeaidd oddiwrth y deddf-lyfr Dwyfol yma, nac o'r manteision a gaent trwy fwy o gydffurfiad ag ef. Mae gennym yma y gwraidd o wir fawredd i bob cenedl.

(Darllener Exodus xxi.—xxiv.)

## PENNOD XIX.

### Y LLO AUR.

Mor ychydig a wyddai yr Hebreaid am eu calonau eu hunain pan yr addawasant gyflawni yr holl orchymynion a roddasai Duw iddynt, a holl ddatguddiedigaethau dyfodol Ei ewyllys! Nid cynt y traethwyd y penderfyniad yma nag y torwyd ef, a phrofodd y man ar ba un y rhoddwyd y Ddeddf yn le ei droseddiad, ar yr adeg pan yr oedd "golwg ar ogoniant yr Arglwydd fel tân yn difa ar ben y mynydd," gyda'r cymylau a'r mellt, yn ymestyn ar hyd y rhes o fryniau wrth draed pa rai yr ymwersyllent, daethant yn eilun-wneuthurwyr ac yn eilun-addolwyr.

Er mor ddyeithr yr ymddengys cais y bobl a chydsyniad Aaron, goddefant beth eglurhad, er nad un esgusawd. Daeth y cais am yr eilun oddiwrth bersonau oeddynt newydd ddianc o wlad oedd yn llawn eilunod. Yr oeddynt wedi eu dwyn o olygfeydd eilun-addoliaeth at droed y mynydd trwy ymddiried yn Moses, yn hytrach na thrwy ffydd yn Nuw; a phalla ffydd fydd yn pwyso ar ddyn bob amser pan y symmudir dyn. Felly "pan welodd y bobl fod Moses yn oedi dyfod i wared o'r mynydd, yna yr ymgasglodd y bobl at Aaron, ac y dywedasant wrtho, Cyfod, gwna i ni dduwiau i fyned o'n blaen; canys y Moses hwn, y gŵr a'n dug ni i fynu o wlad yr Aipht, ni wyddom beth a ddaeth o hono." Bydd i ni ryfeddu llai at eu hysbryd a'u hymddygiad, os sylwn mor fynych y gwneir ac y cedwir proffes grefyddol yn unig o dan ddylanwad dynol, ac y diflana yn hollol mor gynted y tynir ymaith y dylanwad hwnw.

Am Aaron, cyfododd ei bechod mawr ef o ddiffyg gwroldeb moesol sanctaidd, pan y gwnaeth y bobl y cais poethwyllt yma. Pan yn Rephidim yr oedd y bobl yn barod i labyddio Moses, a llefodd yntau ar yr Arglwydd, ac felly dygodd y gallu Dwyfol i'w waredu; ond Aaron, fe allai oddiar ofn y bobl, a roddodd i fyny ar unwaith i'w cri meistrolaidd. Mae o bwys sylwi ar y rhan yma o'r hanes, gan y cynhorthwya ni i ddeall paham yr arbedwyd ei fywyd pan y dinystriwyd cynifer o'r bobl ar ol hyny.

Danghosir hefyd effeithiau niweidiol cymdeithas ddrwg yn ymddygiad

Aaron. Yr oedd wedi gweled yn fynych yn yr Aipht addoliad Apis, eilun a addolid o dan y ffurf o ych, ac a gredid i fod yn cynhwys enaid Osiris. Yr oedd hefyd wedi dysgu y celfau hyny o ddelidwaith a cherfio ar fetteloedd, yn mha rhai y rhagorai yr Aiphtiaid, ac yr oedd fel hyn yn darparu yn gyflym i gyflawni ceisiadau eilun-addolgar y dyrfa. Daeth ei fedr celfyddydol yn fagl iddo, ac yn anffodus nid yw yn sefyll yn unig fel un gan yr hwn y mae cyrhaeddiadau y celfyddydwr yn cael eu cam ddefnyddio. Gyda zel diarbed casglai y dynion yr addurniadau roddwyd gan eu gwragedd a'u plant, a ffurfiodd Aaron yn fuan y tawddlun yn mha un yr oedd y pethau hyn i gael eu llunio yn lo, dros yr hwn y tynodd yn fedrus offer cerfio yr eilun-wneuthurwr. Fel hyn "llo a wnaethant yn Horeb, ac ymgrymmasant i'r ddelw dawdd. Felly y troisant eu gogoniant i lun eidion yn pori glaswellt."

Ar ol gweini fel hyn i ddymuniadau pechadurus y bobl, cyfododd Aaron allor ger bron yr eilun, ac ymdrechodd uno addoliad Apis a Jehofah. Yr wyl eilun-addolaidd gyhoeddwyd i fod dranoeth, ydoedd i fod "i'r Arglwydd," a gallai fod Aaron yn boddio ei hun yn y twyll, tra yr ydoedd yn cyfarfod a dymuniadau y bobl, ei fod yn arwain eu meddyliau at Dduw, yr hwn a'u dygodd o wlad yr Aipht. O! dwyll. Darparodd yr eilun-addolwyr eu gwleddoedd aberthol, ac ymfoddhasant yn eu gloddestwyliau, a dawnsiau gorphwyllog eilun-addolwyr, wrth iddynt "fwytta ac yfed a chodi i fynu i chwarae."

Sylwch ar y cyferbyniad rhwng eu teimladau cynhyrfus a hyfryd, eu hunan-foddlondeb a'u llawenydd gorphwyllog, a'r darluniad a rydd eu Barnwr cyfiawn o'u gwrthryfel yn ei erbyn Ef. "Ymlygrodd dy bobl: buan y ciliasant o'r ffordd a orchymynais iddynt: gwnaethant iddynt lo tawdd, ac addolasant ef, ac aberthasant iddo, dywedasant hefyd, Dyma dy dduwiau di, Israel, y rhai a'th ddygasant i fynu o wlad yr Aipht." Y fath ydoedd yr hysbysiad brawychus a wnaed gan yr Hollwybodol i Moses, tra mewn cymmundeb ag Ef ar ben Sinai. Y fath aflonyddwch sobr ar y mwynhad tawel raid ei fod ef yn brofi yn mhresennoldeb yr Un Sanctaidd! Ac mor fynych, mewn modd cyffelyb, mae adegau mwyaf cyssegredig o gymmundeb a Duw wedi cael eu dylyn, os nad eu haflonyddu, gan annuwioldeb ac anufudd-dod plant gwrthryfelgar!

Yn awr canlyna y bygythiad o gospedigaeth haeddianol: "Yr Arglwydd hefyd a ddywedodd wrth Moses, Gwelais y bobl hyn, ac wele pobl wargaled ydynt: am hynny yn awr gad i'm lonydd, fel yr ennyno fy llid yn eu herbyn, ac y difethwyf hwynt; a mi a'th wnaf di yn genhedlaeth fawr." Nid cynt y rhoddwyd yr awgrymiad yma, nag y galwodd allan weddi eiriolaethol oddiwrth ŵr Duw, yn yr hon y dadleua dros y bobl, gyda holl frwdfrydedd ing sanctaidd; appelia at drugaredd a ffyddlondeb Dwyfol, ac yn hynaws dewisa les Israel o flaen unrhyw anrhydedd a mawredd a allesid roddi arno ef ei hun a'i deulu, a gofidia am y gorfoledd a roddai i'r Aiphtiaid, os gallent ddweyd, "Mewn malais y dygodd efe hwynt allan i'w lladd yn y mynyddoedd, ac i'w difetha oddiar wyneb y ddaear." Gweddïa ar yr Arglwydd, "Tro oddiwrth angerdd dy ddigofaint, a bydded edifar gennyt y drwg a amcenaist i'th bobl." Terfyna yr eiriolaeth yma gydag appeliad at y cyfammod wnaed ag Abraham, ac nid cynt y dibenodd, nag "edifarhaodd ar yr Arglwydd am y drwg a ddywedasai efe y gwnai i'w bobl."

Fel y disgynai Moses o'r mynydd, dywedodd ei weinyddwr ffyddlon Joshua wrtho am y bloeddiadau eilun-addolgar a glywodd oddiwrth y dyrfa, "a bu wedi dyfod o hono yn agos i'r gwersyll, iddo weled y llo a'r dawnsiau: ac ennynodd digofaint Moses, ac efe a daflodd y llechau o'i ddwylaw ac a'u torrodd is law'r mynydd. Ac efe a gymmerodd y llo a wnaethent hwy, ac a'i llosgodd â thân, ac a'i malodd yn llwch, ac a'i tanodd ar wyneb y dwfr, ac a'i rhoddes i'w yfed i feibon Israel."

Pan yr holodd Moses Aaron am ei ran ef yn y trosedd mawr yma, attebodd mewn dull a arddanghosai yn darawiadol y diraddiad i ba un y suddodd. Gwelir yn hyn ynfydrwydd ei esgusawd.

Dygodd y gwrthryfel ofnadwy yma yn erbyn Jehofah swm dychrynllyd o gospedigaeth ar y pechaduriaid hyn. Yn ol y gorchymyn Dwyfol, o ba un meibion Lefi oeddynt y gweithredwyr, cwympodd o'r bobl yn nghylch tair mil o wŷr, ac oni bai y drugaredd Ddwyfol weithredwyd drachefn trwy eiriolaeth Moses, buasai yr holl genedl wedi marw.

(Darllener Exodus xxxii. Psalm cvi. 19—23.)

## PENNOD XX.

### Y TABERNACL YN YR ANIALWCH.

TRWY fod Jehofah yn Frenhin, yn gystal ag yn Arglwydd Dduw Israel, yn eu harwain hwynt trwy yr anialwch i wlad yr addewid, ni a allwn yn rhwydd ganfod doethineb Ei osodiad, pan y penderfynodd y cai y bobl adeiladu y Tabernacl i fod yn Dŷ yn yr hwn y trigai, ac i fod yn deml yn yr hon yr addolid Ef. Ni ddylai fod dadl pa un a ddylem ystyried yr adeilad cyssegredig yma fel pabell frenhinol y Teyrn, neu deml symmudol Duw, gan ei fod yn eu cyfuno hwynt bob un. Danghosa y trosedd dwys ydym newydd sylwi arno ysywaeth yn rhy eglur nad oedd y bobl wedi gwneyd ond ychydig o gynhydd mewn gwir ysbrydolrwydd, ac fod ar eu meddyliau angen meithriniad cyson yn ngwybodaeth ac addoliad Duw, ac mewn ufudd-dod teyrngarol i'w Brenhin nefol, trwy bresennoldeb y babell sanctaidd yn eu mysg, a'r defodau cyssegredig hyny yn mha rai yr oedd yr offeiriaid, ei weision, i gyflwyno eu gwarogaeth.

Nid yw mewn un gradd yn tynu ymaith oddiwrth nodweddiad sanctaidd y Tabernacl i siarad am dano fel palas mawreddog i Frenhin Hollalluog Israel, am yr offeiriaid fel gweision ei droedfainc, am yr aberthau fel arddanghosiadau o deyrngarwch sanctaidd, am y bara gosod a'r gwin fel ymborth osodid ar y bwrdd, am y drugareddfa fel yr orseddfainc at yr hon y gelwid y prif weinidog, ac am y cyssegr fel y llys yn mha un y goddefid i'r swyddogion wasanaethu. Felly, fel ag oddifewn ei drigfa gyssegredig, yr oedd Brenhin Israel yn bresennol yn nghanol ei ddeiliaid, i dderbyn eu gwarogaeth ac addoliad, i weled fod Ei gyfreithiau sanctaidd yn cael eu cadw, i ymarfer uchelfraint Ei drugaredd, a chyfranu Ei fendithion.

Gwnaed y Tabernacl o fyrddau acacia, elwir yn gyffredin coed Sittim, oddiwrth y lle y caent ef, a'r lle y ceir ef eto. O'r pren yma wedi, ei ffurfio yn ystyllod, gwnaed ystafell hirgul, deg trodfedd a deugain o hyd, wrth ddeunaw o led, ac wedi ei gorchuddio a llafnau aur, yr oll yn cael ei ranu i ddwy ran anghyfartal, dwy ran o dair yn gyssegr, ac un rhan o dair yn Sanctaidd Sancteiddiolaf. Darlunir yn fanwl y dull y delid y

byrddau hyn wrth eu gilydd, ac y cedwid yr oll yn ei le, yn yr Ysgrythyrau gyfeirir atynt yn niwedd y bennod hon. Cedwid y mynedfa i'r cyssegr gan len o liain cyfrodedd, tra y cuddiai ail len y Sanctaidd Sancteiddiolaf. Dros yr holl adeilad gosodid pedwar o orchuddiadau. Yr oedd y cyntaf yn gynhwysedig o liain o'r gwead meinaf dichonadwy, yn mha un yr oedd lluniau cerubiaid wedi eu gweu mewn glas, coch, a rhuddgoch. Dros y llen yma, gynhwysedig, o ddeg o ddarnau wedi eu dolenu yn nghyd â bachau a boglymau aur, yr oedd gorchudd o flew geifr, yn debygol geifr Angora, gan ffurfio gwead prydferth a chryno, galluog i gadw'r gwlaw draw. Dros hwn drachefn yr oedd gorchudd arall o grwyn hyrddod, wedi eu lliwio yn goch, ac ar yr oll grwyn daearfoch, trwy ba rai y cedwid ef yn effeithiol rhag y tywydd.

Nid yn unig danghoswyd portread o'r Tabernacl, ond hefyd o'i holl ddodrefn cyssegredig, i Moses yn y Mynydd. Fel y babell sanctaidd, yr oedd nid yn unig yn werthfawr yn ei ddefnyddiau, ond yn dra arwyddluniol yn ei arwyddocâd. Safai yr holl adeilwaith mewn cyntedd yn gylchynedig a cholofnau, wrth y rhai y crogai rhwydwaith, ac yn y cyntedd yma, elwid cyntedd y Tabernacl, safai yr allor bres, ar yr hon y llosgai y tân sanctaidd, a lle yr offrymid yr ebyrth. Yr oedd cyrn yn y pedair congl, wrth y rhai y rhwymai yr offeiriaid yr aberth. Rhwng yr allor yma a'r Tabernacl safai y noe bres, llestr gron, yn yr hon y gosodid dwfr ffres bob dydd, er puredigaeth yr offeiriaid a'r bobl.

Wrth fyned trwy y llen gyntaf i'r cyssegr, gwelwn ei holl ddodrefn cyssegredig, trwy gynhorthwy y saith llusern sy'n llosgi yn y canhwyllbren aur, y rhai a borthid yn barhaus âg olew puraf yr olewydd. Ffurfiwyd y gwrthddrych prydferth yma yn ol llun coeden, ei baladr yn fonyn, y saith braich yn ganghenau, y cnapiau yn arddangos y ffrwyth, a goruwch yr oll y blodeu ymledol. Gyferbyn a'r canhwyllbren, ac ar yr ochr ogleddol, yr oedd bwrdd y bara gosod, wedi ei wneyd o goed acacia, ac wedi ei orchuddio ag aur, ar yr hwn gosodid deuddeg torth, a adnewyddid bob wythnos, yn gystal a'r cwpanau gwin, i gael ei "dywallt ger bron yr Arglwydd." Yr oedd allor yr arogl-darth hefyd o goed acacia, wedi ei gorchuddio ag aur, ac arni gosodai yr offeiriad yr arogldarth sanctaidd y boreu a'r prydnawn, yr hwn a esgynai fel offrwm

peraidd, tra yr oedd y bobl oddiallan mewn distawrwydd yn offrymu gweddïau, o ba rai yr arogl-darth yma ydoedd yr arwyddlun.

Yn y Sanctaidd Sancteiddiolaf yr oedd Arch y Cyfammod. Cist ydoedd wedi ei gwneyd o goed acacia, wedi ei gorchuddio oddifewn ac oddiallan ag aur pur, tra yr oedd ei chauad, elwid y drugareddfa a'r gymmodfa, wedi ei wneyd yn hollol o'r metel gwerthfawr hwnw. "Ac uwch ei phen (lluniau) cherubiaid," fwriedid i ddangos y greadigaeth nefol, ac yn edrych tua'r arch. O fewn y gist gyssegredig yma yr oedd llechau y gyfraith; yma hefyd gosodwyd y crochan aur a'r manna, gwïalen Aaron a flagurasai, a Llyfr y Cyfreithiau a roddodd Duw i Moses. Y man mwyaf sanctaidd yn y lle sancteiddiolaf hwn ydoedd rhwng y cerubiaid, canys cwmwl y Gogoniant a orchuddiai y drugareddfa ydoedd yr arwydd o'r presennoldeb Dwyfol, a'r arddanghosiad o'r Mawrhydi tragywyddol.

Y gwersi mawrion a sanctaidd fwriadwyd i'r Tabernacl i'w dysgu, ydynt wedi meddianu llawer o sylw o du esbonwyr Iuddewig a Christionogol, ac y mae llawer wedi priodoli ystyr ddirgelaidd i bob rhan o'r adeilad cyssegredig. Heb ganlyn yr eglurhadau manwl hyn, gallwn ymfoddloni ar yr esboniadau ysbrydoledig roddir yn yr Epistol at yr Hebreaid, ac os oedd rhanau am y rhai nid allai yr ysgrifenydd "ddywedyd bob yn rhan," gallwn weled ynddynt ystyr addysgiadol, os cymmerwn hwynt yn israddol i amcan mawr yr oll. I'r Hebreaid dysgai am sancteiddrwydd Duw a'i drugaredd; y warogaeth ddyledus oddiwrth ddyn, a'i euogrwydd a'i lygredd; yr angenrheidrwydd am aberth a chyfryngdod o du pawb a fynant neshau at Dduw. Cyfeiriai yr oll, feddwl yr Israeliad duwiol at y sefyllfa ddyfodol a rhagorach hono, yn yr hon yr ydym yn byw, yn mha un mae Crist wedi dod, "yn Archoffeiriad y daionus bethau a fyddent, trwy dabernacl mwy a pherffeithiach, nid o waith llaw, hynny yw, nid o'r adeiladaeth yma; nid chwaith trwy waed geifr a lloi, eithr trwy ei waed ei hun, a aeth unwaith i mewn i'r cyssegr, gan gael i ni dragywyddol ryddhad." Crist hefyd yw yr Allor sydd yn sancteiddio y rhodd, ac ynddo Ef "y mae gennym ni Allor, o'r hon nid oes awdurdod i'r rhai sy yn gwasanaethu y tabernacl i fwytta."

(Darllener Exodus xxv.—xxvii. Hebreaid ix. 1—14.)

## PENNOD XXI.

### AARON A'R OFFEIRIADAETH.

PENNODODD Jehofah wrth ffurfio y genedl dros yr hon yr oedd i deyrnasu, offeiriadaeth newydd, gan ba un yr oedd gwasanaeth ei gyssegr i gael ei ddwyn yn mlaen. Fel ag yr oedd Israel wedi dyfod yr unig genedl gan ba un y cedwid y wybodaeth am Dduw, felly yr oedd "tŷ Aaron," i fod yr unig deulu i wasanaethu gyda chymmeradwyaeth yn y swydd offeiriadol. Yr oedd cyntaf-anedigion gwrywaidd yr holl genedl yn cael eu hawlio gan Jehofah i'w wasanaeth, ond derbynid holl deulu Lefi trwy linell Cohath, fel eu dirprwywyr a'u cynrychiolwyr. Aaron yn unig, a'i ddisgynyddion Nadab, Abihu, Eliezar, ac Ithamar, oeddynt i gyfansoddi yr offeiriadaeth. Yr oedd symlder yr amserau patriarchaidd, yn mha rai pen pob teulu duwiol ydoedd ei offeiriad, yn awr i roi ffordd i oruchwyliaeth yn mha un yr oedd gweision y cyssegr i ymgymmeryd a lle amlwg, gan dderbyn eu pennodiad oddiwrth Jehofah, tra yr oedd eu hurddiad, eu gwisg, eu dyledswyddau cyssegredig, eu rhagorfreintiau, a'r ddarpariaeth neillduol at eu cynhaliaeth, i'w gwahaniaethu hwynt oddiwrth y gweddill o'r bobl. Gan fod i holl swyddi yr offeiriadaeth Aaronaidd arwyddocâd dwfn, yr oedd pob peth perthynol iddi yn fater ordeiniad Dwyfol, o'r hyn y mae gennym y manylion yn Llyfr Exodus.

Yma y gwelwn nad "yw neb yn cymmeryd yr anrhydedd hwn iddo ei hun, ond yr hwn a alwyd gan Dduw, megis Aaron;" ac nid cynt y dewiswyd Aaron a'i feibion i'r offeiriadaeth, nag y rhoddwyd cyfarwyddiadau neillduol, fel y byddai iddynt fod yn barod i'w dyledswyddau uchel a chyssegredig. Yr oedd gwisgoedd yr archoffeiriaid i gael eu hynodi am eu prydferthwch a'u gwychder, y defnyddiau i fod y rhai mwyaf costfawr—lliain main, glas, porffor, ac ysgarlad, ac aur a gemau.

Yr oedd gwisg yr offeiriaid cyffredin yn gynhwysedig o'r islodrau lliain, yr hugan liain, ("pais,") yn sutio yn dyn am y corff, ac yn llaes at y fferau, gyda llewis tynion am y breichiau. Dywedid ei bod yn debyg



LEIGHTON, BROTHERS.

MOSES CONSECRATING AARON.

i wisg ein Harglwydd, yn "ddi-wnïad, wedi ei gwau o'r cwr uchaf trwyddi oll." Gwisgent wregys o liain brwydweithiol, gan groesi y ddwyfron, a chrogi i lawr o'r tu blaen. Nid oedd dim esgidiau na sandalau yn cael eu gwisgo gan yr offeiriaid tra yn cyflawni eu gwasanaeth, a'u pen-wisg ydoedd dwrban o frethyn lliain, yr hwn yn ein cyfieithiad ni a elwir cap. Eu gwaith oedd lladd yr anifeiliaid i'w haberthu, cadw tân parhaus ar yr allor, a'r goleu yn y canwyllbren aur, i ddarparu y bara gosod, a'i osod bob Sabbath ar y bwrdd aur, a'r arogldarth i'r thuser aur a'r allor aur. Mewn cyfnod diweddarach o'u hanes, pan wedi ymsefydlu yn eu gwlad eu hunain, yr oedd yr offeiriaid hyn yn dra lliosog, ac wedi eu rhanu i wahanol ddosbarthiadau, gyda dyledswyddau neillduol cyfaddas i'r Deml a'i gwasanaeth.

Yr oedd yr archoffeiriad wedi cael ymddiried iddo brif weinyddiad y cyssegr, ac efe yn unig a allai fyned i mewn i'r Sanctaidd Sancteiddiolaf, ac ymddangos ger bron Jehofah, fel cyfryngwr rhyngddo Ef a'r bobl. Gwahaniaethai ei wisg ef hefyd oddiwrth yr offeiriaid cyffredin. Yr oedd ei wisg benaf, elwid "mantell yr ephod," wedi ei gwneyd "oll o las," ac ar ei godrau ddarluniau pomgranadau, a rhwng pob un o honynt gloch aur. Cyssylltir y pwysigrwydd mwyaf a'r rhan yma o'i wisg: "A hi a fydd am Aaron wrth weini; a cheir clywed ei swn ef pan ddelo i'r cyssegr, ger bron yr Arglwydd, a phan elo allan, fel na byddo farw." Yr Ephod enwyd oddiwrth air Hebrëig yn arwyddo i rwymo, neu roi am, ydoedd wisg wedi ei gwneyd o ddau ddarn, un yn disgyn dros y ddwyfron ac yn cyrhaedd at y wasg, a'r llall i'r cefn yn cyrhaedd at y traed. Unid y rhanau hyn ar yr ysgwyddau gan ddau faen onix, wedi eu gosod mewn aur, "meini coffawdwriaeth," ar y rhai yr oedd enwau y deuddeg llwyth wedi eu cerfio, chwech ar bob maen. Yr oedd wedi ei gweu o'r lliain meinaf ac edau aur a phorffor.

Y rhan bwysicaf o'r wisg sanctaidd yma ydoedd "y ddwyfronneg," wedi ei gwneyd o'r un defnydd a'r Ephod, ac yn dal pedair rhes o feini gwerthfawr, tri yn mhob rhes, yr oll yn cynhwys enwau y deuddeg llwyth. Yr oedd yn nglyn a'r Ephod, yr hon gyda'r gwisgoedd ereill a sicrheid a "gwregys yr Ephod." Yr oedd wedi ei gwneyd o liain wedi ei chydweu o las, coch, a rhuddgoch, ac fel llen y cyssegr, wedi ei brodio

yn hardd. Llefarir hefyd am y ddwyfronneg yma, elwir "dwyfronneg barnedigaeth," fel yr "Urim a'r Thummin," goleuni a pherffeithder, neu oleuni perffaith. Gwisgid hi ar galon yr archoffeiriad, a gallai ei henw wasanaethu i'w adgoffa o'r angenrheidrwydd o ymgyflwyniad pur a gwresog i'r gwasanaeth Dwyfol, a lles uwchaf y bobl.

Dywed ysgrifenwyr Iuddewig "fod yr archoffeiriad yn yr olwg ar y gemau hyn, dan argraffiad nerthol o urddas ei genadwri; rhoddai ei feddwl ei hun i fyny yn hollol i ddyledswyddau ei swydd; diflanai pob meddwl daearol o'i flaen; dyrchefid ef i weledigaeth brophwydol; ac yn y sefyllfa yma o sancteiddrwydd brwdfrydig, ymostyngodd Duw i ddatguddio iddo ef Ei ewyllys, a thynged Ei bobl, ac yr oedd yr archoffeiriad a'r bobl yn argyhoeddedig o wirionedd y fath ysbrydoliaethau." Yr oedd y ddwyfronneg yma hefyd ryw ffordd heb ei darlunio yn y Gair Sanctaidd, y moddion trwy ba rai y cyfrenid goleuni Dwyfol i'r archoffeiriad, ac y galluogid ef i gyhoeddi y barnau Dwyfol mewn achosion o bwys, pan yr "attebai (Duw) ef trwy Urim a Thummin." Yr oedd y twrban elwid y meitr yn rhan dra phwysig o'r wisg gyssegredig. Ar ei thu blaen daliai ddalen o aur, elwir yn fynych y goron, ac arni yr arysgrifen arwyddocaol SANCTEIDDRWYDD I'R ARGLWYDD, ac felly yn llefaru am waith uchel a chyssegredig yr un gan yr hwn y gwisgid hi.

Cynhelid yr offeiriaid a'r Lefiaid, nid fel y gweddill o'r Israeliaid, trwy alwedigaethau bydol a rhanau yn ngwlad Canaan, ond trwy ddegymau delid gan y bobl i'r Lefiaid, o'r rhai rhoddid y ddegfed ran i'r offeiriaid. Yr oedd rhanau pennodol o'r offrymau yn cael eu defnyddio i'w gwasanaeth, yn gystal a blaenffrwyth coedydd, y degfed o'r ysbail gymmerid mewn rhyfel, a dirwyon am bryniad cyntaf-anedig dyn ac anifail. A'r amcan oedd fel y gallai y personau cyssegredig hyn gyssegru eu holl amser i wasanaeth Duw, heb ddim profedigaeth i ymwneyd ag un alwedigaeth fydol. Yr oedd gwefusau yr offeiriaid i gadw gwybodaeth, ac yr oeddynt i fod yn addysgwyr cyffredin y bobl yn ngwirioneddau crefydd a dyledswyddau y Ddeddf. Yr oedd yr archoffeiriad i fod yn nodedig am ei sancteiddrwydd enwog, ac ymgyssegriad i'r gwasanaeth Dwyfol, fel y darllenwn yn Heb. v. 1, 2.

(Darllener Exodus xxviii. Hebreaid v. 1—10; viii. 1—6.)

# PENNOD XXII.

## GWASANAETH Y TABERNACL, A NEILLDUAD YR OFFEIRIAID.

CYFRANWYD yn ewyllysgar y defnyddiau angenrheidiol at y Tabernacl a'i ddodrefn gan yr Israeliaid, yn ol y cyfarwyddyd Dwyfol, a chyfrifir eu gwerth yn oddeutu dau cant a deugain o filoedd o bunnau o'n harian ni. Nid cynt y gorphenwyd y gwaith, nag y cafodd ei gyssegru i'r defnydd sanctaidd yr amcanwyd ef, ei wasanaeth cyntaf yn gynhwysedig o neillduad Aaron a'i feibion. Yr oedd y seremoniau hyn wedi eu cyfaddasu yn dda i argraffu ar yr offeiriaid a'r bobl argyhoeddiad dwfn o'u pechadurusrwydd, a'r angenrheidrwydd o faddeuant a phurdeb, mewn trefn i allu addoli y Sanct yn gymmeradwy. Rhoddir y cyfarwyddiadau i'r holl wasanaeth hyn yn Exodus xxix., a chofnodir eu cyflawniad yn Lefiticus vii.

Dygid yn mlaen holl wasanaeth y neillduad yma gan Moses, fel gweinidog a chynrychiolydd Jehofah, i sicrhau Aaron a'i feibion, ac i argyhoeddi y bobl eu bod wedi eu Dwyfol bennodi i'w swyddi cyssegredig. Felly pan y cymmerodd Moses y gwisgoedd, ac y rhoddodd am danynt, fe'i hurddodd i'w swydd gyssegredig yn enw a thrwy orchymyn yr Arglwydd. Yr oedd un o'r prif ranau, a mwyaf pwysig o'r seremoniau hyn, yn gynhwysedig yn offrymiad yr aberthau, y bustach a'r ddau hwrdd. Yr oedd y bustach i gael ei ladd "ger bron yr Arglwydd, wrth ddrws pabell y cyfarfod," hyny yw, wrth yr allor bres yn y cyntedd, yr offeiriaid yn gosod eu dwylaw ar ben yr aberth-gweithred arwyddocaol, trwy yr hyn y cydnabyddent eu pechodau a'u dymuniad am gael maddeuant trwy aberth. Yr oedd un o'r hyrddod hyn i fod yn boeth-offrwm, offrwm i gael ei wneyd trwy dân i'r Arglwydd. Yn wahanol i'r bustach, yr hwn a losgid yn gyfan, heb gael ei ranu, o herwydd mai pech-aberth ydoedd, yr oedd hwrdd y poeth-offrwm yma i gael ei dori yn ddarnau, wedi i Aaron a'i feibion yn gyntaf osod eu dwylaw ar ei ben, a chyda'r

eithriad o'r rhanau enwir yn adnod 13, yr oedd i gael ei losgi tu allan i'r gwersyll. Yr oedd yr "ail hwrdd," elwid "hwrdd cyssegriad," i gael ei ferwi yn nghyntedd y Tabernacl, lle hefyd yr oedd i gael ei fwyta gan yr offeiriaid yn unig, a'r gweddill ei ddifa a thân. Crybwyllir am ran tra arwyddocaol o'r seremoni gyssylltiedig a hwrdd y cyssegriad fel hyn: "A chymmer yr ail hwrdd; a rhodded Aaron a'i feibion eu dwylaw ar ben yr hwrdd. Yna lladd yr hwrdd, a chymmer o'i waed, a dod ar gwrr isaf clust ddehau Aaron, ac ar gwrr isaf clust ddehau ei feibion, ac ar fawd eu llaw ddehau hwynt, ac ar fawd eu troed dehau hwynt; a thaenella y gwaed arall ar yr allor o amgylch." Fel hyn y dysgid hwynt bob amser i wrando ar y gorchymynion Dwyfol, i ymaflyd gyda bywiogrwydd yn y gwasanaeth Dwyfol, ac i rodio yn ffyrdd y Gyfraith Ddwyfol.

Y geiriau Hebrëig gyfieithir, "A thi a gyssegri Aaron a'i feibion," a arwyddant yn llythrenol, "ti a lenwi law Aaron, a llaw ei feibion," ac arddanghosant y weithred o gyssegru mewn dull syml ond mwyaf grymus. Cyfeiriant at y cyfarwyddyd roddwyd wedi hyn: "Cymmer hefyd o'r hwrdd, y gwer a'r gloren, a'r gwer sydd yn gorchuddio y perfedd, a rhwyden yr afu, a'r ddwy aren, a'r gwer sydd arnynt, a'r ysgwyddog ddehau; canys hwrdd cyssegriad yw: ac un dorth o fara, ac un deisen o fara olewedig, ac un afrlladen o gawell y bara croyw, yr hwn sydd ger bron yr Arglwydd. A dod y cwbl yn nwylaw Aaron, ac yn nwylaw ei feibion, a chyhwfana hwynt yn offrwm cyhwfan ger bron yr Arglwydd." Yn union fel y rhoddir y deyrnwialen yn llaw y brenhin, neu y berllysg yn llaw y maeslywydd, felly yr oedd yr offrymau hyn i'r Arglwydd i "lenwi llaw" yr offeiriad, gwaith cyssegredig yr hwn ydoedd i'w hoffrymu hwynt ger ei fron Ef.

Bydded i ni hefyd sylwi yn ofalus ar y cyfarwyddiadau roddir yn adnod 21: "A chymmer o'r gwaed a fyddo ar yr allor, ac o olew yr enneiniad, a thaenella ar Aaron, ac ar ei wisgoedd, ar ei feibion hefyd, ac ar wisgoedd ei feibion gydag ef; felly sanctaidd fydd efe a'i wisgoedd, ei feibion hefyd, a gwisgoedd ei feibion gyd ag ef." Mor eglur y dysgant, nid yn unig yr angenrheidrwydd am ymgyflwyniad llwyr i Dduw o du yr offeiriaid, ond eu hanaddasrwydd i ddynesu at Dduw heb

faddeuant trwy waed yr aberth; tra ar yr un pryd, gan mor ddrwg yn ngolwg Duw yw pechod, fel y mae yr allor yn halogedig trwy gyffyrddiad dyn, ac y mae yn rhaid ei thaenellu a gwaed "o amgylch." "Saith niwrnod y gwnai gymmod dros yr allor, ac y sancteiddi hi; felly yr allor fydd sanctaidd; pob peth a gyffyrddo a'r allor a sancteiddir."

Rhoddir amlygiad pellach o'r un gwirionedd, ond oddiar olwg arall, yn y peth gofynol i Moses i'w gyflawni pan y cyflwynai Aaron a'i feibion eu hunain iddo ef wrth ddrws y Tabernacl,—"A golch hwynt a dwfr." Fel y dysgai gwaed yr aberthau offrymiadol yr angenrheidrwydd am faddeuant o euogrwydd, felly y gwnai y golchiad yma, a'r "amryw olchiadau" yn y Tabernacl, arwyddo yr angenrheidrwydd ar i feddyliau a theimladau yr enaid gael eu puro gan yr Ysbryd Glân, o allu sancteiddiol yr hwn yr ydoedd yr arwyddlun cyssegredig o dan y Gyfraith. Mae arnom oll angen maddeuant trwy yr aberth mawr, a phurdeb oddiwrth yr Ysbryd Glân, fel y gallom neshau "wedi glanhau ein calonau oddiwrth gydwybod ddrwg, a golchi ein corph â dwfr glân."

Yr offrymau o wenith ofynid i wasanaeth y Tabernacl fel cydnabyddiaethau o'r haelioni Dwyfol, a'n hymddibyniad ar ofal Rhagluniaethol, a arddanghosid ar yr achlysur yma trwy y cawell wedi ei lanw a "bara croyw, a theisenau croyw wedi eu cymmysgu âg olew, ac afrllad croyw wedi eu hiro âg olew, o beilliaid gwenith." Nid yw y gair "bwyd-offrwm" yn cyfleu meddwl yr Ysgrythyrau gwreiddiol, gan y cyfeiria bob amser at offrymiad bwyd blodiog. Trwy gyflwyno yr offrwm yma i'r Arglwydd cydnabyddai yr offeiriaid a Moses yn ddifrifol mai "eiddo yr Arglwydd y ddaear, a'i chyflawnder."

Mae gennym eto i sylwi, fod Moses ar gyssegriad Aaron a'i feibion, wedi ei gyfarwyddo i gymmeryd olew yr eneiniad a'i "dywallt ar ei ben ef." Sylwir fod gwahaniaeth rhwng y geiriau ddefnyddir i arddangos eneiniad Aaron a'r offeiriaid cyffredin, y cyntaf yn arwyddo fod yr olew sanctaidd yn cael ei dywallt mewn cyflawnder, a'r olaf ei fod yn cael ei gymhwyso mewn rhan fechan yn unig. Defnyddid yr olew yma hefyd ar goroniad brenhinoedd Israel, weithiau ar alwad prophwýdi, a gwasanaethai fel arwyddlun o'r gosodiad Dwyfol i swydd uchel neu sanctaidd. Defnyddir ef gan Dafydd fel arwyddlun o gariad

brawdol: "Y mae fel yr ennaint gwerthfawr ar y pen, yn disgyn ar hyd y farf, sef barf Aaron; yr hwn oedd yn disgyn ar hyd ymyl ei wisgoedd ef." A llanwyd ein Harchoffeiriad ni heb fesur a'r Ysbryd Dwyfol, o'r hyn yr olew sanctaidd ydoedd y cysgod. Yr ydym yn cofio y modd y dywedodd yn y synagog yn Nazareth: "Yspryd yr Arglwydd sydd arnaf fi, o herwydd iddo fy enneinio i, i bregethu i'r tlodion;" ac ychwanegodd, "Heddyw y cyflawnwyd yr Ysgrythyr hon yn eich clustiau chwi."

Nid cynt y codwyd y Tabernacl nag y cafodd ei gyssegru gan y presennoldeb Dwyfol: "Ac ar y dydd y codwyd y Tabernacl, y cwmmwl a gauodd am y Tabernacl dros babell y dystiolaeth; a'r hwyr yr ydoedd ar y Tabernacl megis gwelediad tân hyd y bore. Felly yr ydoedd yn wastadol: y cwmmwl a gauai am dano y dydd, a'r gwelediad tân y nos. A phan gyfodai y cwmmwl oddiar y babell, wedi hynny y cychwynai meibion Israel: ac yn y lle yr arhosai y cwmmwl ynddo, yno y gwersyllai meibion Israel." Ar yr achlysur yma, fel ar gyssegriad y Deml, "gogoniant yr Arglwydd a lanwodd y Tabernacl, ac ni allai Moses fyned i mewn o herwydd y cwmmwl."

Pan y darparwyd y babell sanctaidd yma, ac y dadguddiwyd y Ddeddf, ailgychwynodd yr Israeliaid eu taith: "Hwy a aethant oddiwrth fynydd yr Arglwydd daith tri diwrnod: ac arch cyfammod yr Arglwydd oedd yn myned o'u blaen hwynt daith tri diwrnod, i chwilio am orphwysfa iddynt. A chwmmwl yr Arglwydd oedd arnynt y dydd, pan elent o'r gwersyll." Cofnodir yn ofalus y weddi bennodedig at deithio a gorphwys. Mae o brydferthwch neillduol, a gall wasanaethu yn dda fel cynllun i'n gweddïau ni tra yn myned trwy yr anialwch yma, o herwydd nyni, megis Israel, a fyddwn yn ddiogel yn unig fel y cysgoda Jehofah, a bydd ein gyrfa yn uniawn yn unig fel yr arweinia Ef ni. "A hefyd pan gychwynai yr arch, Moses a ddywedai, Cyfod, Arglwydd, a gwasgarer dy elynion; a fföed dy gaseion o'th flaen. A phan orphwysai hi, y dywedai efe, Dychwel, Arglwydd, at fyrddiwn miloedd Israel."

(Darllener Exodus xxix. Lefiticus viii.)

## PENNOD XXIII.

### Y SOFLIEIR.—BEDDAU'R BLYS..

Yr oedd ymdaith gyntaf yr Hebreaid gyda'r Tabernacl ac Arch y Cyfammod i'w harwain hwynt—daith tri diwrnod o Fynydd Horeb—i un o'r golygfeydd mwyaf dychrynllyd yn Ngorynys Sinai. Tybir fod Jeremiah (ii. 6) yn cyfeirio yn neillduol at y rhan yma o'r anialwch, pan y darlunia ef fel "tir diffaeth a phyllau." Dywed teithiwr diweddar yn ei "Ddeugain niwrnod yn yr Anialwch:" "Mae yn annichonadwy cyfleu un meddylddrych o'r teimlad o lwyr flinder sydd yn dyfod dros y crwydryn unig, fel y treiddia yn mhellach ddydd ar ol dydd i ganol yr anialwch mawr ac ofnadwy yma; fel y dylyna ceunant ar ol ceunant, pob un yn fwy anghyfannedd ac anial na'r olaf, gyda ei wely o dywod neu raian, a mynyddoedd yn crogi uwch ei ben, y rhai yn eu ffurfiau dirgrynedig, eu serthedd syth ac ofnadwy, eu lliw sych, o lwyd, du, gwyn, coch, a melyn, o hyd yn ardywynu o dan yr un haul tanllyd, a ymddanghosant fel rhan o ryw fyd boreuol heb ei gyfanneddu gan ddyn, —rhyw blaned olosgedig ymweledig yn anialwch ein breuddwydion, lle na sangodd troed dynol erioed, ac nad oes i'r bywyd dynol na diben na chynhaliaeth. Syrthia y meddwl yn ol arno ei hun, ac ymhyfryda i adalw dygwyddiadau yn eu holl fywiogrwydd y cyfnod boreuol hwnw pan y gwthiodd y llu Israelaidd drwy y bylchau blinderus hyn—i arddangos iddo ei hun bob amgylchiad yn eu hymdaith luddedig, a'r teimlad o arswyd a syndod raid fod wedi digaloni eu hysbrydoedd, fel y teimlent eu hunain wedi eu halltudio o'r Aipht werddlas i ganol y fath unigrwydd."

Rhoddir dau enw ar y wlad yma yn yr hanes cyssegredig, pob un o honynt yn cofnodi pechodau a chospedigaethau yr Hebreaid. Y cyntaf, Taberah, (llosgiad,) a lefara am dân difaol anfonwyd gan yr Arglwydd yn erbyn y bobl, o herwydd yma y grwgnachasant yn ei erbyn Ef—yn debygol am y golygfeydd pruddaidd i ba rai yr arweiniodd Efe hwynt. Yr ail le, Cibroth-Hattaafah, (Num. xi. 35,) "beddau y blys," a gofnoda flys angerddol yr Israeliaid am fwyd gwahanol i'r un a ddarparodd Jehofah iddynt, a'r marwoldeb â'r hwn yr ymwelwyd a'u trosedd.

Dechreuwyd y cyffroad gan y bobl gymmysg oeddynt wedi myned gyda'r Hebreaid o'r Aipht, yn mha rai y gwelwn y drwg ddygir trwy gyfeillach annuwiol. Nid cynt y traethasant eu hanfoddlonrwydd nag yr ymunodd Israel â hwynt, ac "a wylasant." I'r fath helaethder y cariwyd yr ynfydrwydd pechadurus yma, fel y "clybu Moses y bobl yn wylo trwy eu tylwythau, bob un yn nrws ei babell: ac ennynodd dig yr Arglwydd yn fawr; a drwg oedd gan Moses." Ar yr achlysur yma y cyfarwyddodd Jehofah Moses i fabwysiadu y cynghor doeth roddwyd yn flaenorol gan Jethro, gan ddywedyd, "Casgl i mi ddengwr a thriugain o henuriaid Israel, y rhai a wyddost eu bod yn henuriaid y bobl, ac yn swyddogion arnynt; a dwg hwynt i babell y cyfarfod, a safant yno gydâ thi. Canys disgynaf, a llefaraf wrthyt yno: a mi a gymmeraf o'r yspryd sydd arnat ti, ac a'i gosodaf arnynt hwy; felly y dygant gydâ thi faich y bobl, fel na ddygech di ef yn unig." Ac yn awr yr oedd y bobl iselwael hyn i gael llawn foddloni eu dymuniadau, ac yr oedd eu pechod i ddwyn ei gospedigaeth ei hun.

Pan, yn nechreu eu teithiau, grwgnachasant oddiar ofni bod ag eisieu bwyd, yr oedd y bobl heb dderbyn y manna; ond yn awr y maent yn ei gael bob boreu yn gorwedd o amgylch eu gwersyll, ac eto maent yn llefain, "Pwy a rydd i ni gig i'w fwytta?" Penderfyna Jehofah eu porthi â chig am fis; yr oedd eu rhif mor fawr—chwe' chan' mil o wŷr traed, wedi eu lliosogi a phedwar—fel yn ol syniadau Moses mai o'r braidd y buasai y defaid, a'r gwartheg, a physgod y môr, yn ddigon. Mae ganddo Ef yr hwn nad yw ei law wedi byrhau, adnoddau anfeidrol o ba rai i gyflawni Ei holl addewidion, ac felly ar yr amser pennodedig, "fe aeth gwynt oddiwrth yr Arglwydd, ac a ddug soflieir oddiwrth y môr, ac a'u taenodd wrth y gwersyll, megis taith diwrnod ar y naill du, a thaith diwrnod ar y tu arall, o amgylch y gwersyll, a hynny yng nghylch dau gufydd, ar wyneb y ddaear. Yna y cododd y bobl y dydd hwnnw oll, a'r nos oll, a'r holl ddydd drannoeth, ac a gasglasant y soflieir: yr hwn a gasglodd leiaf, a gasglodd ddeg omer; a chan daenu y taenasant hwynt iddynt eu hunain o amgylch y gwersyll." Coffheir am y cyflenwad gwyrthiol yma gan y Psalmydd: "Gyrrodd y dwyrein-wynt yn y nefoedd; ac yn ei nerth y dug efe ddeheu-wynt. Gwlawiodd hefyd


LEIGHTON, BROTHERS.

GOATS AND QUAILS.

gig arnynt fel llwch, ac adar asgellog fel tywod y môr." Amrywia barnau am yr aderyn anfonwyd yn awr yn y fath amlder dirfawr; yr un mwyaf tebygol yw mai rhywogaeth fawr ydoedd, a elwir gan yr Arabiaid *Kata*, y *Tetrao Alchata*, neu *Israelitum Linnæas*, ac a ddarlunir fel o faint y durtur, "mae ganddo big byr, cam, a melyn, wedi ei nodi ag ysmotyn gwyn ar y blaen, gwddf a phen llwyd-wyn, corff a chefn cochlyd, cynffon gŷnaidd, a choesau pluog, a rhaid o ganlyniad yn briodol ei restru yn mysg llwyth y grugiar." Un sydd wedi gwylio yn ofalus eu harferion yn Palestina, a ddywed, "maent yn symmudol, yn dod yma yn y gwanwyn, ac yn myned yn mlaen i'r gogledd. Ymguddiant o dan y llwyni, ac ni chodant oddieithr iddynt gael eu gorfodi i hyny gan gi neu'r heliwr ei hunan."

Mae yn beth hynod fod Buffon yn cyfeirio mewn perthynas i'r wyrth yma, a'r modd yn mha un yn ol yr hanes cyssegredig ei cyflawnwyd: "Yr ydym yn gweled hyd yn oed yma fod Creawdwr y bydysawd wedi defnyddio y moddion hyn, (y gwynt,) fel y mwyaf cydweddol a'r deddfau cyffredinol sefydlwyd ganddo Ef ei hun, i anfon rhifedi mawr o soflieir i'r Israeliaid yn yr anialwch. Chwytha y gwynt de-ddwyrain yma, yn wir, yn yr Aipht, yn Ethiopia, ar lan y Môr Coch, ac mewn gair yn yr holl diriogaethau hyny lle y mae digonedd o soflieir."

Ond yr oedd y llawnder yma yn felldith yn lle yn fendith. Yr oedd yn foddion i gospi pechod mawr: "A'r cig oedd etto rhwng eu dannedd hwynt heb ei gnoi, pan ennynodd digofaint yr Arglwydd yn erbyn y bobl; a'r Arglwydd a darawodd y bobl a phlâ mawr." "Tra yr ydoedd eu bwyd yn eu safnau, digllonedd Duw a gynneuodd yn eu herbyn hwynt, ac a laddodd y rhai brasaf o honynt, ac a gwympodd etholedigion Israel." Fel hyn gwnaeth yr Arglwydd eu bwrdd yn fagl iddynt; ac fel yr ydym yn edrych ar feddau pentyredig Cibroth-Hattaafah, yr ydym yn darllen y modd y mae dyn wedi ei ddarostwng pan y mae blysiau ei galon wedi eu sefydlu ar y bwyd a dderfydd, a phan y mae ei chwantau anifeilaidd yn ceisio am foddhad ar draul ffydd yn Nuw, ac ymostyngiad i'w ewyllys dda a sanctaid Ar yr achlysur pruddaidd yma dywed traddodiad i Mose gyfansodd Psalm xc.

(Darllener Numeri xi. Psalm xc.)

## PENNOD XXIV.

### YR YMDAITH O SINAI TUA CHANAAN.

Llefara Moses am daith faith a blin yn yr ychydig eiriau hyn yn Deut. i. 19: "A phan fudasom o Horeb, ni a gerddasom trwy yr holl anialwch mawr ac ofnadwy hwnnw, yr hwn a welsoch y ffordd yr eir i fynydd yr Amoriaid, fel y gorchymynasai yr Arglwydd ein Duw i ni; ac a ddaethom i Cades-Barnea." Yr ydym yn darllen, yn ol dull cyffredin o deithio, mai "Taith un diwrnod ar ddeg sydd o Horeb, ffordd yr eir i fynydd Seir, hyd Cades-Barnea;" ond nid oedd y dyrfa fawr yma yn alluog i gyflawni y daith mewn llai na thri mis. Canlynwyd y pererindod yma o dan gyfarwyddyd Dwyfol, canys dywedodd yr Arglwydd, "Digon i chwi drigo hyd yn hyn yn y mynydd hwn: dychwelwch, a chychwynwch rhagoch, ac ewch i fynydd yr Amoriaid, ac i'w holl gyfagos leoedd, i'r rhos, i'r mynydd, ac i'r dyffryn, ac i'r dehau, ac i borthladd y môr, i dir y Canaaneaid, ac i Libanus, hyd yr afon fawr, afon Euphrates." Yn cael eu harwain gan y Tabernacl a'r cwmwl cyssegredig, yr oedd gan y bobl i fyned trwy amrywiol olygfeydd; yn gyntaf ar hyd y Wady Es-Sheik aruthrol yna, i'r gwastadedd eang adweinir yn awr fel El Hudera, gyda ei ffynhonau, lle y gwersyllodd y bobl, a lle y llefarodd Miriam ac Aaron yn erbyn Moses, ac y daeth Miriam yn "wahanglwyfus, fel yr eira;" oddiyno yr oedd ganddynt i groesi cadwyn fynyddog uchel yr El Tyh, o benau y rhai y gallent edrych yn ol ar lawer o'r golygfeydd trwy y rhai y daethant, ac edrych ar draws yr anialwch yr oedd ganddynt i'w groesi ar eu ffordd i wlad yr addewid. Fel hyn disgynasant i "anialwch Paran," lle y gwersyllasant. Mae yr "anialwch mawr ac ofnadwy" yma wedi cael ymweled ag ef gan deithwyr anturiaethus, y rhai a ddywedant wrthym am ei greigiau caled a noeth, ei lawr callestrig a thoredig, ei wres mwll—liniarir yn unig gan y llifeiriaint rhuthrol—y rhai a redant yn fynych yn ffrochwyllt trwy y dyffrynoedd. Rhoddant eu tystiolaeth unol i unigrwydd diffaeth a gwylltedd anwar yr anialwch anghroesawgar hwn.

Gwyddai y teithwyr Hebrëig, modd bynag, mai Jehofah ydoedd eu Harweinydd, canys blaenorai y Tabernacl sanctaidd eu hymdaith, yr oedd y cwmwl cyssegredig wedi ei daenu drostynt fel eu cysgod rhag gwres, a thywalltai ei belydrau tyner trwy y gwersyll i gyfranu goleu y nos. Calonogid hwy yn eu hymdaith trwy y sicrwydd eu bod yn nesu at wlad y gorphwys, ac fod taith pob dydd yn eu cludo i'w lle dymunol. Wedi gadael Sinai oddeutu mis Mai, cyrhaeddasant Cades-Barnea yn Awst. Pa un, ar eu cychwyniad cyntaf i Ganaan y torasant ar draws Anialwch Paran, mewn cyfeiriad gogleddol, neu droi i'r dwyrain a wnaethant am Akabah, a myned ar hyd y Wady Arabah, sydd anhawdd ei benderfynu, gan y rhana y pwnc farnau y teithwyr a'r ysgrifenwyr mwyaf deallus.

Wedi cyrhaedd i Cades-Barnea, gwersyllodd y llu ar ymyl gogleddol yr Anialwch Mawr, a bron ar derfyn deheuol Canaan. Yn ol y cyfarwyddyd Dwyfol, dewisodd Moses gynrychiolydd o bob llwyth i archwilio y wlad o'r dehau i'r gogledd, a rhoddi adroddiad o honi, pa un ai da ai drwg ydoedd; o'r trigolion, pa un ai cryfion neu weiniaid oeddynt, ychydig neu lawer; ac o'u trigfanau, pa un ai pebyll neu amddiffynfeydd. Yr oeddynt hefyd i chwilio y tir yn ofalus, a dod yn ol ac engreifftiau o'i gynhyrch. Dau o'r dirprwywyr hyn oedd yn deilwng o'r genadwri a ymddiriedwyd iddynt. Yr oedd Caleb yn ddyn o ffydd gref a gwroldeb ardderchog; a phrofodd Oshea mab Nun, enw yr hwn a arwyddai "Achub di," gan ei adgoffa ef o'i ddyledswydd i gynhorthwyo a gwaredu, mor ffyddlon i Moses fel ag i'w lenwi ef ag ymddiried perffaith y gwnai gyflawni ei genadwri, fel y galwodd Moses ef Jehoshua, "efe a achub," gan fynegu fel hyn ei sicrwydd y gwnai brofi yr oll a arwyddai ei enw. Arwydda Cades "y sanctaidd," a gallai i Barnea gael yr enw hwn o herwydd iddo ar yr amgylchiad yma gael ei gyssegru gan y presennoldeb Dwyfol yn y Tabernacl sanctaidd.

Wedi eu hyfforddi fel hyn, aeth y deuddeg dyn yma yn fuan o'r anialwch gan fyned i Ganaan o'r dehau, godrefu yr hen Hebron, a chyrhaedd y gogledd eithaf yn Hamath, ger Libanus. Ar eu dychweliad, daethant i ddyffryn Escol, "a thorrasant oddi yno gangen âg un swp o rawnwin, ac a'i dygasant ar drosol rhwng dau; dygasant rai o'r pomgranadau

hefyd, ac o'r ffigys." Tystid am frasder a ffrwythlondeb y wlad gan yr oll, ond am y trigolion yr oedd yr holl ysbïwyr oddieithr Caleb a Jehoshua wedi edrych arnynt trwy niwl chwyddol eu hofnau anghrediniol, ac felly dywedasant, "Y mae y bobl sydd yn trigo yn y tir yn gryfion, a'r dinasoedd yn gaerog ac yn fawrion iawn; a gwelsom yno hefyd feibion Anac." Cynghorodd Caleb wrol y bobl i fod yn ddewr fel ef ei hun, gan eu sicrhau o fuddugoliaeth os aent yn awr i'r wlad; ond aildraethodd y deg digalon eu hadroddiad, gan ddywedyd, "Yno y gwelsom y cawri, meibion Anac, y rhai a ddaethant o'r cawri: ac yr oeddym yn ein golwg ein hunain fel ceiliogod rhedyn, ac felly yr oeddem yn eu golwg hwythau."

Y fath ydoedd effaith trist yr adroddiad drwg yma, fel y gwrthododd y bobl yr alwad i fyned yn mlaen, grwgnachasant yn erbyn Moses ac Aaron, a chynhygiasant ethol blaenor i'w harwain yn ol i'r Aipht. Mor heintus ydoedd yr ysbryd ofn yma fel yr ymdaenodd megis pla yn mysg y bobl, "yr holl gynnulleidfa a ddyrchafodd ei llef ac a waeddodd," a threuliodd yr holl nos i wylo. Yn ofer y cynhygiodd Joshua fel Caleb eu hail gefnogi, gan ddywedyd, "Na wrthryfelwch yn erbyn yr Arglwydd, ac nac ofnwch bobl y tir; canys bara i ni ydynt: ciliodd eu hymddiffyn oddiwrthynt, a'r Arglwydd sydd gyda ni: nac ofnwch hwynt." Bu agos i'r appeliad gwrol yma gostio iddo ei fywyd, canys galwodd yr holl dorf yn ffyrnig am iddo gael ei labyddio i farwolaeth. Dyna y pryd y tywynodd y cwmwl ofnadwy gyda dysgleirdeb a arwyddai fod Jehofah yn agos, ac fod Ei lid wedi ei ennynu. Bygythiai Duw daro yr holl dorf a haint, ac yr oedd yn foddlawn gwneyd Moses yn gyndad pobl fawr a chryfion. Tynodd y bygythiad yma oddiwrth ŵr Duw weddi eiriolaethol arall, yn cael ei hynodi gan ing sanctaidd a thaerineb gwresog. Mewn atebiad i'r weddi yma, dywedodd yr Arglwydd, "Maddeuais yn ol dy air." Ond dylynodd bygythiad ofnadwy: "Os byw fi, yr holl dir a lenwir o ogoniant yr Arglwydd. Canys yr holl ddynion y rhai a welsant fy ngogoniant, a'm harwyddion a wneuthum yn yr Aipht, ac yn y diffaethwch, ac a'm temtiasant y deng waith hyn, ac ni wrandawsant ar fy llais; ni welant y tir y tyngais wrth eu tadau hwynt; sef y rhai oll a'm digiasant, nis gwelant ef."

Yn gydunol â'r bygythiad a draethwyd yn awr, anfonwyd y bobl yn

ol i'r anialwch i grwydro a threngu, i gael eu difa a marw yno, fel o'r holl ddynion ugain oed a arweiniwyd allan o'r Aipht, nid oedd yr un i fyned i Ganaan ond Caleb a Joshua. Profodd y deugain niwrnod ymchwiliad yn Nghanaan yn ddiddefnydd, ac yn awr am ddeugain mlynedd yr oeddynt i ddwyn eu cospedigaeth. Nid cynt y rhagfynegwyd y farn yma, nag fel gwystl o'i chyflawniad, y syrthiodd pla ar y deg ysbïwr twyllodrus eu calon, a threngasant.

Pan y deallodd y bobl y bwriad Dwyfol i'w rhwystro i fyned i mewn i Ganaan, cynhygiasant yn gildynus ei ddiddymu. Yr oedd gwir wroldeb yn eisieu ar yr adeg amserol i oruchafiaeth, ac arddanghoswyd eondra rhyfygus pan y collwyd y cyfleustra hwnw, ac y daeth gorchfygiad yn sicr. "A chodasant yn fore i fyned i ben y mynydd, gan ddywedyd, Wele ni, a ni a awn i fynu i'r lle am yr hwn y dywedodd yr Arglwydd; canys ni a bechasom." Yn ofer y rhybuddiai Moses hwynt, ac y rhagfynegai eu gorchfygiad, gan ddywedyd, "Nac ewch i fynu, canys nid yw yr Arglwydd yn eich plith; rhag eich taro o flaen eich gelynion." Rhyfygasant fyned i ben y mynydd, a herio yr Amaleciaid oeddynt yn y dyffryn. Gall y teithiwr eto weled y mynedfa serth ac anhawdd, i fyny yr hwn y gwnaeth y gwyr dibris yma eu ffordd i ganol eu gelynien, ac y tramwyasant yr hen ffordd wedi ei ffurfio o risiau naddedig yn y graig, yn arwain at adfeilion amddiffynfeydd yn mhen a gwaelod y mynydd. Fel yr edrycha ar yr olygfa gall adfeddwl er budd, nad "oes doethineb, na deall, na chyngor yn erbyn yr Arglwydd." Dysga hyd yn oed pagan yr un wers i ni. Hannibal, yn canfod bwriad o'i eiddo yn cael ei orchfygu, a ddywedodd wrth y rhai oedd o'i gylch, "Chwi welwch ei bod yn annichonadwy gwneyd dim yn erbyn ewyllys Duw." Aethant, er na symmudodd yr arch "o ganol y gwersyll." Fel y canlyniad, yr ydym yn darllen, "Yna y disgynodd yr Amaleciaid a'r Canaaneaid y rhai oedd yn preswylio yn y mynydd hwnnw, ac a'u tarawsant, ac a'u difethasant hyd Hormah."

Mor bwysig ydyw i'n calonau guro mewn atebiad parod i'r cyfarwyddiadau Dwyfol, i ni adnabod dydd ein hymweliad trugarog, a bod yn barod i weithredu pan y cyhoedda Duw Ei orchymynion!

(Darllener Numeri xiii., xiv. Deuteronomium i. 19 i'r diwedd.)

## PENNOD XXV.

### CRWYDRIADAU ISRAEL.

WRTH adolygu teithiau meithion yr Israeliaid ar ol eu cynhygiad rhyfygus i fyned i Ganaan, nid ydym yn cael darllen y fath adroddiadau dyddorol ag a roddir yn y rhanau blaenorol o'r hanes yma. Nid ydym yn canfod mwyach eu bod yn cael eu blaenu yn eu hymdeithiau gan y Tabernacl Sanctaidd, yr hwn fe allai a arosodd yn Cades, hyd nes y daeth yr hil newydd i'r gymmydogaeth ddeunaw mlynedd ar hugain yn ddiweddarach, ar eu ffordd i Ganaan. Felly y dywed Moses, "A'r dyddiau y cerddasom o Cades-Barnea, hyd pan ddaethom dros afon Zared, oedd onid dwy flynedd deugain; nes darfod holl genhedlaeth y gwyr o ryfel o ganol y gwersyllau, fel y tyngasai yr Arglwydd wrthynt."

Ni chanlynodd yr ymadawiad o Cades-Barnea yn uniongyrchol ar ol eu gorchfygiad gan yr Amaleciaid, fel yr ydym yn dysgu oddiwrth Moses: "Ac arhosasoch yn Cades ddyddiau lawer, megis y dyddiau yr arhosasoch o'r blaen." Yn ystod yr arosiad yma, rhoddodd Jehofah i Moses y cyfreithiau ychwanegol hyny gofnodir yn Num. xv., mewn perthynas i amrywiol offrymau—cospedigaeth torwr y Sabbath—a rhyw neillduolion yn ngwisg yr Hebreaid, trwy ba rai yr oeddynt i gael eu cadw mewn cof o'r cyfreithiau Dwyfol.

Yr oedd y lle yma hefyd yn olygfa gwrthryfel Corah a'i blaid: "Ac ymgasglasant yn erbyn Moses, ac yn erbyn Aaron, ac a ddywedasant wrthynt, Gormod i chwi hyn, canys y mae yr holl gynnulleidfa yn sanctaidd bob un o honynt, ac y mae yr Arglwydd yn eu mysg: paham yr ymgodwch goruwch cynnulleidfa yr Arglwydd?" Lefiaid oedd y gwyr hyn, y rhai oeddynt a'u dyledswyddau pennodedig yn nglyn a'r Tabernacl, fel y darlunir gan Moses,—"Neillduo o Dduw Israel chwi oddiwrth gynnulleidfa Israel, gan eich neshau chwi atto ei hun, i wasanaethu gwasanaeth Tabernacl yr Arglwydd, ac i sefyll ger bron y gynnulleidfa, i'w gwasanaethu hwynt? Canys efe a'th nesâodd di, a'th holl frodyr, meibion Lefi gyda thi." Gwrthwynebodd y blaid

yma, yn gynhwysedig o ddau cant a haner o bersonau o ddylanwad mawr, y trefniad Dwyfol, trwy ba un yr oedd Aaron a'i deulu yn unig i weinyddu dyledswyddau yr archoffeiriadaeth. Dylid darllen hanes eu pechod a'u cospedigaeth yn ofalus fel y rhoddir yn Num. xvi. a dylem ddysgu oddiwrtho mai er eu perygl ofnadwy y gwrthwyneba pechaduriaid y gosodiadau Dwyfol.

Dylynwyd y farn ddychrynllyd yma gan amgylchiad o ddyddordeb mawr, ac o'r hwn cadwyd cofnodiad parhaus yn yr hanes Hebrëig. I gadarnhau Dwyfol bennodiad tŷ Aaron fel yr unig offeiriaid, y rhai oeddynt i gael gofal y Tabernacl, gyda ei lestri cyssegredig, a gwasanaethu ger bron Jehofah mewn pethau sanctaidd, yr oedd pennaethiaid y llwythau i roddi i mewn eu gwïail swyddogol, gyda eu henwau yn ysgrifenedig arnynt, enw Aaron yn ysgrifenedig ar wïalen Lefi. Yna gadawyd hwy yn y Tabernacl o flaen yr arch, ac yn ol yr addewid Ddwyfol, gwïalen Aaron, gŵr dewisedig Duw i'w wasanaeth gyssegredig, a flodeuodd, a dygodd ffrwyth almonau. Rhoddodd y wyrth yma arwyddlun prydferth o'r llwyddiant a ganlynai tŷ offeiriadol Aaron mewn cenhedlaethau dylynol.

Os â y darllenydd yn mlaen yn awr i Num. xx., efe a ganfydda fod yr hanesydd sanctaidd yn gadael allan yr ysbaid maith o ddeunaw mlynedd ar hugain, ar ddiwedd pa un â "yr holl gynnulleidfa" i mewn i Anialwch Sin, a deuant i aros i Cades. Nid y Cades-Barnea yw hwn y buom yn sylwi arno yn ddiweddar, ac nid y rhai hyn yw y bobl y buom yn ystyried eu hanes. Hil newydd ydynt; yr oedd agos yr oll a ddaethant allan o'r Aipht wedi marw yn eu crwydriadau yn yr anialwch. Gelwid y Cades blaenorol Barnea, fe allai trwy fod y gymmydogaeth yn dwyn cyflenwad da o ŷd, ac felly ei wahaniaethu oddiwrth yr anialwch i'w ddehau, tra y gelwir y Cades lle mae yr hil newydd wedi cyrhaedd, Cades Meribah, (cynhen,) canys "ymgynhenodd meibion Israel a'r Arglwydd." Gelwid pob un o honynt Cades, (sanctaidd,) yn debygol o achos i'r Tabernacl orphwys ynddynt, a "sancteiddiwyd" Jehofah, neu amlygwyd Ei sancteiddrwydd yno trwy Ei farnau ofnadwy. Yr oedd y Cades blaenorol yn Anialwch Paran; yr oedd y Cades Meribah yma yn Anialwch Sin, i'w dde-ddwyrain.

Yn mha le yr oedd y dyrfa fawr yma yn ystod y deunaw mlynedd ar hugain cydrhyngol? I gael atebiad rhaid i'r ymholydd ddarllen y rhestr faith o enwau yn Num. xxxiii. 18—36. Yr oedd rhifedi yr holl orsafoedd o'r Cades cyntaf i'r un ydym wedi ei gyrhaedd yn ddeunaw. Wrth gyfeirio at y darlun-leni mae myfyrwyr Biblaidd enwog wedi ddarparu i egluro y rhan yma o grwydriadau yr Israeliaid, canfyddir eu bod yn gwahaniaethu yn fawr, nid yn unig yn y manylion, ond yn y prif ranau. Am y gwahaniaethau hyn gallwn yn rhwydd gyfrif, os sylwn nad yw y gorsafoedd hyn yn cynhwys dim lleoedd hynod am arweddion daearyddol, neu bwysigrwydd hanesyddol; ac os sylwn yn mhellach, y gallai y dyrfa wrth deithio "ar hyd ffordd y Môr Coch," gyrhaedd y Môr Coch yn ei gainc ddwyreiniol—y Morgainc Elanitaidd; neu yn ei gainc orllewinol—Môr Arabia, mor gofiadwy yn rhan foreuol eu teithiau. Mae y tywyllwch sydd yn gorphwys ar y rhan yma o'r hanes Hebrëig yn awgrymiadol o'r dull yn mha un y dylyna Rhagluniaeth gyfiawn rhyw weithred fawr o anufudd-dod yn mywyd personau neu genedloedd, gan oddef iddynt grwydro mewn tywyllwch a thrueni, heb adael dim i'r crwydryn adolygu gyda boddhad, dim i'r bywgraffydd na'r hanesydd i'w gadw. Peth mor ddrwg ydyw i beidio bod yn barod i'r ewyllys Ddwyfol, a hwylio pan y mae uchel lanw llwyddiant yn dod i mewn.

Nid cynt y daeth Moses gyda'r bobl i Cades Meribah, nag yr ymosododd angeu ar ei deulu, ac y dygodd ymaith ei chwaer Miriam, yr hon a gladdwyd yno. Dylynodd adfyd trymach byth yn uniongyrchol: "Ymgynhenodd y bobl â Moses, a llefarasant, gan ddywedyd, O na buasem feirw pan fu feirw ein brodyr ger bron yr Arglwydd!" I'w cyflenwi â dwfr yr oedd Moses i lefaru wrth y graig yn mhresennoldeb y dyrfa, a dywedodd Duw, "A hi a rydd ei dwfr, a thynn dithau iddynt ddwfr o'r graig, a dioda y gynnulleidfa a'u hanifeiliaid." Yma pechodd Moses ac Aaron yn fawr, gan oddef i'w llid yn erbyn y bobl eu harwain i soriant nwydwyllt, canys dywedasant, "Gwrandewch yn awr, chwi wrthryfelwyr; ai o'r graig hon y tynnwn i chwi ddwfr? A Moses a gododd ei law, ac a darawodd y graig ddwy waith a'i wïalen: a daeth dwfr lawer allan, a'r gynnulleidfa a yfodd, a'u hanifeiliaid hefyd. A dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, ac wrth Aaron, Am na chredasoch

i mi, i'm sancteiddio yngŵydd meibion Israel, am hynny ni ddygwch y dyrfa hon i'r tir a roddais iddynt."

Pechod y ddau frawd yma ydoedd eu diffyg i ufuddhau yn syml i orchymyn Jehofah, a rhoddi i Dduw yn unig y gogoniant dyledus iddo, trwy lefaru wrth y graig yn Ei enw; yn lle hyny ymgymmerasant eu hunain a'r anrhydedd o dynu y dwfr o'r graig. Dylem bob amser fod yn wyliadwrus rhag cymhelliadau cynhyrfiad digofus, trwy ba un y gallwn ddwyn dianrhydedd ar yr enw sanctaidd trwy yr hwn yn galwyd, ar ol i flynyddoedd gael eu treulio mewn gwasanaethu Duw, gallai mewn sefyllfaoedd uchel ac anrhydeddus. Nid trosedd bychan a wnaethai gau allan arweinyddion y bobl o wlad yr addewid, ar ol deugain mlynedd o bererindod, a phan oeddynt mor agos i'r "orphwysfa a'r etifeddiaeth," i'r lle yr oeddynt bron wedi arwain y lliaws miloedd Israel. Mor fawr y trosedd pan y coleddir hunan-hyder ac ymfoddineb gan y rhai a elwir i wneuthur gwaith yr Arglwydd! Mor arswydus y pechod pan y mae dyn yn foddlawn i dderbyn y gogoniant a berthyn i'r Arglwydd yn unig!

Cyflawnwyd y bygythiad yn bur fuan yn achos Aaron. Cofnodir yr hanes effeithiol o'i farwolaeth yn niwedd Num. xx. Arddengys Mynydd Hor, yn mha un y cymmerodd le, olygfa mwyaf nodedig, ac y mae yn awr yn llanerch cyssegredig yn nghyfrif yr Arabiaid Bedouaidd, gan ba rai y gelwir ef Jebel Neby Haraun, mynydd y prophwyd Aaron. Pan y dynesa teithlu yn agos i'r olygfa, aberthir oen er coffawdwriaeth am yr archoffeiriad Iuddewig. Mae wedi ei ddarlunio yn gywir fel gwir "orsedd anghyfanneddrwydd, yn gynhwysedig o uchelderau toredig, drylliog, a gwgus, adfail yn bentyredig ar adfail, a dyfnder du traflyncol wedi ei ychwanegu at ddyfnder." I'r uchelder prudd hwn esgynodd Aaron, ei feibion, a Moses, yn gwmni ufudd, ond trist: "A dïosgodd Moses oddi am Aaron ei wisgoedd, ac a'u gwisgodd hwynt am Eleazar ei fab ef; a bu farw Aaron yno ym mhen y mynydd: a disgynodd Moses ac Eleazar o'r mynydd. A'r holl gynnulleidfa a welsant farw Aaron, a holl dŷ Israel a wylasant am Aaron ddeng niwrnod ar hugain."

(Darllener Numeri xv.—xvii.; xx.; xxxiii.

## PENNOD XXVI.

### Y MOABIAID A BALAAM.

PAN yr oedd yr Hebreaid yn gwersyllu yn Cades Meribah, yr oeddynt o fewn ychydig o deithiau rhwydd i'w gorphwysfa addawedig, pe y gallasent yn unig gael caniatâd gan yr Edomiaid i ymdeithio ar draws y Wady Arabah, a thrwy eu tiriogaeth. Anfonodd Moses gan hyny at Frenhin Edom, gan ddywedyd, "Fel hyn y dywed Israel dy frawd, Ti a wyddost yr holl flinder a gawsom ni: pa wedd yr aeth ein tadau i waered i'r Aipht, ac yr arhosasom yn yr Aipht lawer o ddyddiau; ac y drygodd yr Aiphtiaid ni, a'n tadau. A ni a waeddasom ar yr Arglwydd, ac efe a glybu ein llef ni, ac a anfonodd angel, ac a'n dug ni allan o'r Aipht; ac wele ni yn Cades, dinas ar gwrr dy ardal di." Priodol y gallasai Israel arddel perthynas ag Edom, gan fod pob un o'r bobl yn ddisgynyddion o un tad, Isaac. Y cais rhesymol yma, er ei ail ofyn, a wrthodwyd, ac a arweiniodd i ymosodiad ffyrnig o du Edom; "am hynny Israel a drodd oddiwrtho ef."

Gan ein bod wedi sylwi yn barod ar farwolaeth a chladdedigaeth Aaron yn Mynydd Hor, ni a gawn ddylyn yr Israeliaid yn eu hymdaith fuddugoliaethus i Ganaan. Rhoddwyd y rhagarwydd o'u buddugoliaethau dyfodol trwy orchfygiad Arad y Canaanead, a llwyr ddinystr ei ddinasoedd, fel yr adroddir yn nechreu Num. xxi.

Wedi i'r Edomiaid wrthod y mynediad i'r Israeliaid trwy eu gwlad fynyddig, o'r hon Mynydd Seir—y Jebebel Shera presennol, ydoedd y prif ran, daeth yn rhaid arnynt "i amgylchu tir Edom;" gan gyfeirio at yr amgylchiad hyn, dywed Moses, "Yna y troisom, ac yr aethom i'r anialwch, ar hyd ffordd y Môr Coch, fel y dywedasai yr Arglwydd wrthyf, ac a amgylchasom Fynydd Seir ddyddiau lawer. Llefarodd yr Arglwydd hefyd wrthyf gan ddywedyd, Digon i chwi amgylchu y mynydd hwn hyd yn hyn: ymchwelwch rhagoch tua'r gogledd. A gorchymyn i'r bobl, gan ddywedyd, Yr ydych i dramwyo trwy derfynau eich brodyr, meibion Esau, y rhai sydd yn trigo yn Seir, a hwythau a

ofnant rhagoch: ond ymgedwch yn ddyfal. Nac ymyrrwch arnynt; o herwydd ni roddaf i chwi o'u tir hwynt gymmaint a lled troed; canys yn etifeddiaeth i Esau y rhoddais Fynydd Seir."

Yn ystod y rhan flinderus yma o'u pererindod, "cyfyng ydoedd ar enaid y bobl, o herwydd y ffordd," ac ymlochasant yn y gwaradwyddiadau hyn, a ddygodd arnynt fflangell arswydus y seirph tanllyd, a symmudwyd yn drugarog trwy y cyfryngiad Dwyfol. Ar y rhan bwysig yma o'u hanes cyflwynir rhai sylwadau yn ein pennod nesaf.

Ar ol myned allan o'r dyffryn oddeutu can' milldir o hyd—y Wady Arabah—ymdeithiodd yr Israeliaid ar hyd ei derfyn creiglyd, ar eu gyrfa ogleddol, gan odrefu gwlad Edom, oddiwrth yr hwn ni dderbyniasant un gwrthwynebiad pellach. Aethant yn nesaf yn agos i Petra, wedi hyny mor enwog am ei phalasdai a'i themlau craig-naddedig; hwy "a wersyllasant yn Oboth," ac yn Ije Abarim, "y carneddau mynyddog," o'r rhai yr oedd Peor, cyssegredig i addoliad Baal, yn arwedd amlwg; croesasant yr Arnon yn ddiogel, ac aethant i mewn i diriogaeth yr Amoriaid. Yma arweiniodd Duw hwynt i fan lle y cyfarwyddwyd y tywysogion i gloddio ffynhon, a gwnaeth y bobl goffawdwriaeth am y cyflenwad helaeth mewn cân o ddiolchgarwch.

Gwrthododd yr Amoriaid, er yn perthyn yn agos i Israel trwy Lot, eu cyndad, ganiatâd i fyned trwy eu gwlad, a daethant allan i ymladd yn ei erbyn; ond gwnaeth Jehofah Israel yn fuddugoliaethus, a meddiannodd ei dir ef o Arnon hyd Iabboc, a chymmerodd ei holl ddinasoedd. Yr oedd yr oruchafiaeth yma yn fwy pwysig, trwy fod Sehon, Brenhin yr Amoriaid, wedi dwyn y meddiannau yma oddiar frenhin blaenorol Moab, a'i wneyd yn destyn cân fuddugoliaethus, gofnodir yn Num. xxi. 27—30. Mae Hesbon, dinas Sehon, wedi ei chael allan yn ddiweddar. Safai un milldir ar hugain i'r dwyrain o'r Iorddonen, ar fryn uchel, a thystia ychydig o golofnau toredig, a rhai pydewau a ffynhonau mawrion, eto am bwysigrwydd y ddinas, o'r hon yr aeth allan unwaith fflamau dinystriol rhyfel i losgi "arglwyddi yr uchelfeydd."

Yr ymosodiad nesaf ar y llu buddugoliaethus a wnaed gan y Basaniaid, y rhai a feddianent wlad borfaol fras ar y dwyrain i fôr Galilea, fel y darllenwn, "Troisant hefyd ac aethant i fynu hyd ffordd Basan: ac Og,

Brenhin Basan, a ddaeth allan yn eu herbyn hwynt i ryfel, hyd Edrei, efe a'i holl bobl. A dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, Nac ofna ef: canys yn dy law di y rhoddais ef, a'i holl bobl, a'i holl dir; a gwnai iddo ef megis y gwnaethost i Sehon brenhin yr Amoriaid yr hwn oedd yn trigo yn Hesbon. Am hynny y tarawasant ef, a'i feibion, a'i holl bobl, fel na adawyd iddo ef weddill; a hwy a berchenogasant ei dir ef."

Trwy orchfygiad blaenorol y Moabiaid gan yr Amoriaid, yr oeddynt wedi eu tynu i lawr yn fawr mewn rhifedi a thiriogaeth, yr olaf yn cael ei derfynu ar y dwyrain gan y nant Zared, ar y gogledd gan yr afon Arnon, ei "derfyn eithaf," ac ar y gorllewin gan y Môr Marw. Yma teyrnasai Balac, mab Sippor, ar bobl weiniaid, ac yn analluog i wrthwynebu y fyddin ymosodol gyda grym milwrol, efe a ymgyrchodd at swynion a dewiniaeth, yr hyn sydd wedi rhoddi hynodrwydd dychrynllyd i'w enw, ac i'w hanes le mawr yn yr adroddiad ysbrydoledig.

Fel hyn y dywedir wrthym am ei ofnau fel y dynesai yr Israeliaid at ei diriogaeth wanychol, efe a "ofnodd rhag y bobl yn fawr, canys llawer oedd; a bu gyfyng ar Moab o achos meibion Israel. A dywedodd Moab wrth henuriaid Midian, Y gynnulleidfa hon yn awr a lyfant ein holl amgylchoedd, fel y llyf yr ŷch wellt y maes. A Balac mab Sippor oedd frenhin ar Moab yn yr amser hwnnw." Yr hyn nid allai wneyd trwy wroldeb ei bobl, efe a obeithiai gyrhaedd trwy gyfrwysder dyeithriol. Fel gormod o lywodraethwyr, efe a chwenychai ddefnyddio yr hyn a ystyriai ef yn ddylanwadau crefyddol yn offerynau ei wladlywiad drygionus. Tybiai y byddai gallu offeiriadol neu brophwydol yn offerynoliaeth gyfreithlon i frenhin ddefnyddio, ac arweiniodd ei benboethni dall ef i'r twyll y gallasid defnyddio prophwyd i'r Jehofah, i gyfarwain mellt digofaint Jehofah.

Yn Aram—hyny yw, yn Mesopotamia—wrth yr afon Pethor, trigai y dyn yr hwn a dybiai y brenhin a allai ddefnyddio i'w fwriad maleisddrwg. Trigai yn "nhir meibion ei bobl,"—yn debygol disgynyddion Terah, yr hwn a ddeuai o Ur eilunaddolgar, ac a gadwodd beth gwybodaeth am Jehofah. Yr oedd ag enw Jehofah ar ei wefusau, ond llywodraethai cybydd-dod ei galon, canys efe "a garodd wobr anghyfiawnder."

Gwnaed y daith o yn agos i gan milldir yn fuan gan genhadon y

brenin, y rhai a gyflwynasant eu cenhadwri, danghosasant eu gwobr, a lletyasant yn nhy y prophwyd, yr hwn eto a orfodid i'w gyru ymaith, gan na oddefai Jehofah iddo fyned ar y neges ddrygionus. Anfonwyd ail genhadwriaeth mwy anrhydeddus yn uniongyrchol, a goddefwyd i'r prophwyd eu canlyn, ond i ddweyd yn unig yr hyn a gyfarwyddai Jehofah. Gan iddo, modd bynag, fyned gyda'r gobaith o brophwydo er mwyn gwobr, yr oedd Duw yn ddig wrtho, a safodd angel Jehofah yn ei ffordd gyda chleddyf noeth i'w wrthwynebu. Darllenwch fel y gwaharddodd yr asen fud ynfydrwydd y prophwyd, fel y "gogwyddodd ei ben, ac a ymgrymmodd ar ei wyneb." Fel hyn ceryddwyd ei ddymuniadau cybyddlyd cyn iddo gael ei oddef i fyned i'w daith.

Y brenhin, yr hwn a'i cyfarfyddodd ar derfyn ei frenhiniaeth, ond gyda cherydd llym am beidio ufuddhau yn fwy parod i'r ceisiadau brenhinol, a'i cymmerodd ef i "ddinas o heolydd," ac wedi gwneyd ei offrymau dranoeth fe'i harweiniodd i ben mynydd, "fel y gwelai oddiyno gwrr eithaf y bobl." Yna darparodd y brenhin ei offrwm o fustych a hyrddod, ac aeth Balaam i dderbyn ei genhadwri oddiwrth Jehofah, ond nis gallai gael y wobr ysblenydd a gynhygiodd y brenhin. Dychwelodd yn unig i fendithio y bobl. Yn awr newidiwyd yr olygfa i ben Pisgah, ac yna i ben Peor, ond yn unig gyda'r un canlyniad. Fel yr oedd yr asen fud o'r blaen wedi traethu geiriau dyn, felly y cafodd y dyn cybyddlyd yma ei ddefnyddio yn unig i draethu geiriau Duw, ac i dywallt allan ffrwd o fendith ar y bobl yma. Felly "cododd Balaam ac a aeth, ac a ddychwelodd adref; a Balac a aeth hefyd i'w ffordd yntau."

Ow! i'r bobl yma, y rhai nad allai dim gelynion eu gorchfygu trwy ryfel neu ddewiniaeth, ddinystrio eu hunain a syrthio yn ysglyfaeth i hudoliaethau iselwael eu temptiwr eilun-addolgar. I ddangos Ei ddigllonedd at eu trosedd, ni syrthiodd dim llai na phedair ar hugain o filoedd yn y plâ a pha un yr ymwelodd Duw a'u gwrthgiliad gwarthus. Onid yw yn brawf rhyfeddol o ofal rhagluniaethol a thrugaredd diball Jehofah, pan y cymmerodd Moses, yn ol y cyfarwyddyd Dwyfol, gofrifiad o'r bobl, fod eu rhifedi yn agos mor fawr a phan ddeugain mlynedd yn ol y gadawodd eu cyndadau yr Aipht?

(Darllener Numeri xx. 20 i'r diwedd; xxi.—xxiv.)

## PENNOD XXVII.

### Y SARFF BRES.

FEL y teithiai yr Hebreaid o Fynydd Hor, gan wneyd eu ffordd i'r Môr Coch, i "amgylchu tir Edom," daethant drachefn yn drallodus a digalon gyda eu pererindod hirfeithiol, a phorthid yr anesmwythder yma gan yr ystyriaeth nad oeddynt yn awr yn cael eu goddef i ddylyn llwybr union-syth, ac enill eu hetifeddiaeth addawedig heb ragor o oediad. Anghof-iasant fod y crwydriadau cwmpasog hyn wedi dyfod yn angenrheidiol o achos pechod eu cyndadau yn gwrthod myned i Ganaan ar yr amser priodol; ychwaith ni wnaethant anrhydeddu yn addas eu Harweinydd diwyro, yr hwn "a'u tywysodd hwynt ar hyd ffordd uniawn, i fyned (i'w) dinas gyfanneddol."

Os nad allwn nodi y lle yn fanwl yn mha un yr ymosodwyd arnynt gan y seirff tanllyd, ac am yr hwn y mae llawer o wahanol farnau yn bod, ni a allwn ddweyd heb betrusder ei fod yn agos i'r rhes hir o fynyddoedd a ffurfiant derfyn dwyreiniol y Wady Arabah, a rhwng Hor a mynyddoedd Abarim a gylchynant y Môr Marw. Fel yr oeddynt yn myned yn mlaen ar hyd llethrau dwyreiniol Mynydd Seir, mwyheid dyoddefiadau y bobl trwy wres angherddol y tymhor.

Ni roddai y drygau hyn modd bynag un esgus dros iddynt drachefn dori allan i wrthryfel "yn erbyn Duw ac yn erbyn Moses." Yn ysbryd eu cyndadau, iaith waradwyddus y rhai a ailadroddasant, ni a'u clywwn yn gofyn, "Paham y dygasoch ni o'r Aipht i farw yn yr anialwch? canys nid oes bara na dwfr; a ffiaidd gan ein henaid y bara gwael hwn." Oddiwrth eu hiaith yr ydym yn dysgu eu bod eto yn cael eu cyflenwi yn y ddeugeinfed flwyddyn yma â manna o'r nef, o'r hwn yr oedd y cyf-lawnder yn helaeth, ac yn erbyn yr hwn yr achwynasant yn annuwiol, pan y dywedasant, "ffiaidd gan ein henaid y bara gwael hwn."

Yr oedd y gosp am eu pechod o'r nodwedd mwyaf dychrynllyd. Mae y wlad yn yr hon y gwersyllent eto yn cael ei blino gan seirff gwenwynig, ac yr oedd y gosp yn gynhwysedig yn nghynydd disymmwth a dirfawr yr ymlusgiaid gwenwynig hyn, fel y dygai eu brathiad angeuol farwol-

aeth ar wŷr, gwragedd, a phlant o bob oedran. Gelwir hwynt "seirff tanllyd," fe allai oddiwrth y cen gloew a pha rai y gorchuddid hwynt, a pha rai gan adlewyrchu pelydrau llosgedig yr haul a roddai iddynt olwg danllyd; neu oddiwrth yr effeithiau ennynol gynhyrchid yn uniongyrchol gan eu brathiad; neu gall fod pob un o'r achosion yma wedi rhoddi cyfaddasder neillduol i'r dynodiad. Yr oedd effeithiau yr ymweliad yma yn farwol, canys "bu feirw o Israel bobl lawer."

Datguddiai cydwybod pob un yr achos o'r trychineb yma, ac yn lle ei briodoli i ailachosion, "daeth y bobl at Moses, a dywedasant, Pechasom; canys llefarasom yn erbyn yr Arglwydd, ac yn dy erbyn dithau; gweddia ar yr Arglwydd, ar yrru o hono ef y seirph oddi wrthym. A gweddiodd Moses dros y bobl." Rhyfedd yn wir iddynt alw fel hyn am eiriolaeth gŵr Duw, yn erbyn yr hwn yr oeddynt newydd lefaru, neu gan gredu fod ganddo allu gyda Duw, iddynt anturio ei ddirmygu ef. Ond Moses, yn lle edliw, a weddiodd drostynt, ac atebodd yr Arglwydd ei weddiau.

Rhaid fod y dull yn mha un y gweithredodd yr Arglwydd yn awr ei drugaredd wedi llenwi y bobl a syndod. Cyfarwyddwyd Moses fel hyn: "Gwna i ti sarph danllyd, a gosod ar drostan; a phawb a frather, ac a edrycho ar hono, fydd byw." Gallasai ymresymu a gwrthdystio, ac oedi ufuddhau i'r cyfarwyddyd Dwyfol. Gallasai wrthddadleu nad oedd y moddion orchymynid yn gyfaddas i sicrhau yr amcan ddymunid. Gallasai y bobl, wrth ymwingo ac ymysgwyd mewn poen, feddwl nad allai edrych ar y sarff bres dynu allan y gwenwyn, symmud eu poen, neu gadw draw y farwolaeth fygythiedig. Nid yn y dull yma y meiddiodd Moses ymddadleu a Duw. Digon iddo ef ydoedd deall y gorchymyn Dwyfol. Efe a "wnaeth sarph bres, ac a'i gosododd ar drostan; yna os brathai sarph ŵr, ac edrych o hono ef ar y sarph bres, byw fyddai." Felly yr ufuddhaodd, ac felly yr anrhydeddodd Duw ei ffydd a'i ufudd-dod.

Ychwaith ni wrthododd y bobl y drefn Ddwyfol i'w hachub. Nid cynt y codwyd y trostan gyda'r darlun pres yma yn crogi arno, nag y daeth yn wrthddrych at yr hwn y trowyd pob llygad, a'r un brathedig fel yr edrychai, a iacheid. Yr hyn ydoedd yn eisieu oedd ffydd syml yn y gair a lefarodd Duw, ac yr oedd i'r ffydd yma ei gwobr uniongyrchol. Ni wyddai yr Israeliad y modd yr effeithid yr iachad, trwy ba ymweithiad

dirgelaidd yr iacheid ef, digon ydoedd fod Duw wedi cyssylltu ei iachad a'r weithred syml yma o ufudd-dod. Megis Abraham, nid amheuodd yr addewid trwy anghrediniaeth, "efe a nerthwyd yn y ffydd, gan roddi gogoniant i Dduw."

Yn yr oll o hyn, fel y dysgwn oddiwrth addysg yr Arglwydd Iesu, yr oedd darlun o'r Efengyl, ac o'r dull yn mha un y sicrheir ei bendithion. "Ac megis y dyrchafodd Moses y sarph yn y diffaethwch, felly y mae yn rhaid dyrchafu Mab y dyn; fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragywyddol."

Yn y ddau amgylchiad yr ydym yn gweled yr un gosodiad Dwyfol. Ni fuasai Moses byth yn dychymygu am y fath ddull o drafod y pla ydoedd yn ymgynddeiriogi yn y gwersyll. Felly y mae y wir ffordd i achub y pechadur trwy farwolaeth Crist yn amlygiad o ddoethineb anfeidrol, gan ddangos i ni fod meddyliau Jehofah yn uwch na'n meddyliau ni, gan ymgodi uwchlaw iddynt fel y mae y nefoedd yn uwch na'r ddaear. Profodd y trefniad rhyfeddol yma fel yr oedd Duw yn caru y bobl, ac y mae gennym ni Iachawdwr, oblegyd felly y carodd Duw y byd. Yr oedd y gwrthddrych osodwyd o flaen llygaid y dyrfa, er o ran ffurf yn gyffelyb i achos yr afiechyd mawr, ei hun yn hollol bur; ac yn Iesu yr ydym yn gweled un a ddygodd ein natur, yr hwn ei Hun oedd "heb bechod." Y dull yn mha un yr oedd y lles yn cael ei gynhyg ydoedd trwy osod y gwrthddrych i sylw cyffredinol yn amlwg o flaen llygaid y bobl. Felly y mae Awdwr iachawdwriaeth dragywyddol yn cael ei ddal allan yn yr Efengyl ogoneddus, bregethir i'r holl genhedloedd, fel pe byddai angel yn hedeg trwy ganol y nef a'r newyddion da ganddo i'w cyhoeddi i bawb a drigant ar y ddaear. Yna sicrheid y fendith trwy weithred wirfoddol y dyoddefydd, yr hwn a ymddiriedai yn y cyhoeddiad y byddai byw os edrychai ar y sarff bres. Felly y mae yn awr. Ni a allwn fyw a mwynhau iechyd ysbrydol yn unig fel yr edrycha pob un drosto ei hun ar y Gwaredwr, yr hwn a godwyd i fyny ar y groes, ac sydd yn awr yn ddyrchafedig yn y Gair Dwyfol a'r Efengyl bregethedig "fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragywyddol."

(Darllener Numeri xxi. 4—9. 2 Brenhinoedd xviii. 4. Ioan iii. 14.)

# PENNOD XXVIII.

## YR OLWG AR GANAAN

YR ydym yn awr gyda'r Israeliaid wedi cyrhaedd terfynau gwlad yr addewid, golygfa eu buddugoliaethau, eu llwyddiant, eu gwyliau sanctaidd, ac, ow! eu pechodau yn erbyn Jehofah. Anwyl neillduol i ni yw y wlad,—

"Dros erwau'r hon y rhodiai'r sanctaidd draed,
A hoeliwyd ddeunaw cant o flwyddau'n ol,
Er budd i ni, ar bren y garw groes."

Nid yw fel gwlad yr Aipht, o ba le y daethant, lle fel y dywedodd Moses wrth y bobl yma, "Yr heuaist dy had, ac y dyfrhêaist â'th droed, fel gardd lysiau." Mae yn "wlad afonydd dyfroedd, ffynhonau, a dyfnderau yn tarddu allan yn y dyffryn, ac yn y mynydd; gwlad gwenith, haidd, a gwinwydd, a ffigyswydd, a phomgranadwydd; gwlad olew olewydden, a mêl;" gwlad y sicrheid yr Israeliaid y caent fwytta "bara ynddi heb brinder, yr hon y mae ei cherrig yn haiarn, ac o'i mynyddoedd y cloddi bres."

Moses, yr hwn am ei drosedd na oddefwyd i fyned i'r wlad yma, a arweiniwyd i ben Pisgah, crib o Fynydd Nebo; "A'r Arglwydd a ddangosodd iddo holl wlad Gilead, hyd Ddan, a holl Naphtali, a thir Ephraim, a Manasseh, a holl dir Judah, hyd y môr eithaf, y dehau hefyd, a gwastadedd dyffryn Jericho, a dinas y palmwydd, hyd Soar." Dr. W. M. Thomson, yr hwn sydd wedi mynychu y golygfeydd yma yn aml, a'n sicrha y gallesid mwynhau yr olygfa eang yma heb gymhorth gwyrthiol. Gan gyfeirio at dryloewder yr awyrgylch, dywed, "Myfi a allaf eich arwain i lawer Pisgah ar Libanus a Hermon, oddiar ba rai mae yr olygfa yn llawer mwy eang." Gadewch i ni, yn gynhorthwyedig gan arweiniad teithwyr diweddar, gymmeryd golwg byr ar y diriogaeth gyssegredig hon, fel y byddom yn barod i farnu am yr etifeddiaeth yr oedd Jehofah ar roddi i'w bobl dewisedig.

Wrth fyned i Ganaan yn ei therfyn gogleddol, yr ydym yn myned ar

hyd dyffryn eang a phrydferth, pedwar ugain a deg milldir o hyd, ac unarddeg o led, yn derfynedig ar bob ochr gan fynyddoedd o gerig calch gwyn Libanus, yn ymgodi i'r uchder o yn agos i ddeg mil o droedfeddi. Mae bardd Arabaidd wedi dweyd yn brydferth am Libanus, ei fod "yn dwyn y gauaf ar ei ben; chwareua y gwanwyn ar ei ysgwyddau; gorphwysa hydref ar ei fynwes; tra y gorwedda yr haf gan huno wrth ei draed." Y gadwyn ar yr aswy i'r dyffryn yma yw Gwrth-Libanus, crib uwchaf yr hwn yw Mynydd Hermon, ar yr hwn disgyna y gwlith mor helaeth a phan y cyfeiriai Dafydd at ei ddiferion cymhysgedig fel arwyddlun o gariad brawdol. Enw diweddar Hermon yw Jebel-esh-Sheik, mynydd yr hen ŵr, oddiwrth ei debygrwydd i ben llwyd a barf hen Sheik. Yn y dyffryn yma gallwn aros i sylwi ar brydferthion adeiladyddol Baalbeck, y Baal Gad yn amser Joshua. Mwynha y teithiwr olwg ffafriol ar Libanus fel yr â i mewn i Borthladd Beirut, lle y glania ar ei ffordd i Jerusalem.

Gan ddylyn ein taith ar hyd llinell isel glan y môr, yr ydym yn myned heibio y ddyfrffos, a thrwy ffrwyth berllanau mawrion yr hen Sidon, ac yn cyrhaedd i longborth gwag Tyrus, lle

"Dargysgodd telyn Tyria'n lân,
A'i llonder isel mae;
Distaw'd yr offer cerdd a'r gân,
Neu deffro wnaent mewn gwae."

Nyni a ddeuwn yn nesaf i Acre, enwog yn y dyddiau canoloesawl a diweddar, a chan groesi ei morgilfach, cyrhaeddwn Carmel, clogwyni marmaidd yr hwn a'n hadgoffa o'n rhai ni, ac a roddai iddo yr enw Ras el Bayad, y penrhyn gwyn. Mae y lle yma, mor enwog yn hanes Elias, hyd etto "yn faes ffrwythlawn," yn cael ei adnewyddu a'i ffrwythloni gan y ffrydiau a lifant lawr ei ochrau. Gan ymestyn yn mlaen i'r gogledd-ddwyrain ni a welwn wastadedd Jezreel, a adwaenir wedi hyn fel gwastadedd Esdraelon, "maes rhyfel cenhedloedd." Gan ddylyn etto linell glan y môr, ni a awn ar hyd gwastadedd Saron. Yma nyni a edrychwn yn ofer am y rhosyn â'r hwn y mae ein dychymyg wedi planu y maesydd hyn, ond yr ydym yn cael y *cistus roseas*, yr hwn a all fod un Caniad Solomon. Fe'n hadgofir o'n hinsawdd dymherus ein hunain fel



LEIGHTON, BROTHERS.

SIDON AND MOUNT LEBANON.

yr edrychwn ar y meillion gwynion, y cȯr tiwlip, a'r manwydd a'r blodeu ydynt yn tyfu o honynt eu hunain o'n cylch. Gan ddylyn ein gyrfa ddeheuol, ni a rodiwn ar hyd heol boblog Jaffa, yr hen Joppa; neu grwydro trwy y gerddi swynol, lle y mae yr awyr wedi ei lwytho a pherarogl yr oreins, lemwn, afalau, bricyll, cwins, eirin, a'r pren china mewn blodeu. Pan y byddwn wedi myned heibio gweddillion yr hen Gaza, a'r ddinas ddiweddarol adfeiliedig, yr ydym yn gadael y wlad ffrwythlawn, ac yn cyrhaedd anialwch tywodlyd Sur a Paran, o ba le bydded i ni droi yn ol mewn cyfeiriad gogleddol.

Sylwa daearyddwyr diweddar fod i Palestina bedwar parth wedi eu nodi yn eglur. Mae un yn gynhwysedig o bentwr Libanus, gyda chodiad o bedair mil i yn agos ddeg mil o droedfeddi, a thri o'i gopaoedd yn orchuddedig gan eira parhaus, a'i dymheredd blynyddol canolog mor isel a phymtheg ar hugain o raddau. Mae y llall yn gynhwysedig o'r gwastad-diroedd cyfagos i lan y môr, yn mha rai y mae yr hinsawdd mor dyner, fel y mae y coed oreins yn llwythog o flodeu a ffrwyth yn Ionawr. Y nesaf yw ardal y bwrdd-diroedd, yn cynhwys y bryniau dyrchafedig ar bob ochr dyffryn yr Iorddonen, yr hon a eilw yn awr am ein sylw, i gael ei dylyn gan Fro eang Gostyngiad, yn cyrhaedd o darddiad yr Iorddonen i'r Môr Coch.

Yr ydym yn esgyn, yna, o ddeheu Judah ar hyd y bwrdd-diroedd dyrchafedig ymestynant tua'r gogledd i Galilea, ac awn yn gyntaf trwy "Ddiffaethwch Judea." Dyma lle y cawn y porfeldir, lle yr oedd Dafydd a'r bugeiliaid yn gwylio eu praidd ar hyd nos. Dyma lle mae yr hen Hebron, dinas fechan Bethlehem; ac fel y dylynwn ein llwybr, cyrhaeddwn y mynyddoedd o amgylch Jerusalem. Rheda yr un bryniau cerig calch trwy Samaria, gan ffurfio mynyddoedd Ephraim, ac yn eu mysg uchelderau mawrion Ebal a Garizim, wrth droed yr hwn y safai ein Harglwydd pan yr ymddiddanai a'r wraig o Samaria. Mae mynyddoedd Gilboa, lle y cwympodd Saul a Ionathan, yn rhan o'r un gadwyn, ac yn gyssylltiedig â hi mae Tabor, y mynydd uwchaf yn Galilea Isaf, a lle tybiedig y gweddnewidiad. Amgylcha pentwr o'r un bryniau, pymtheg mewn rhifedi, dref Nazareth, ac oddiar ael un o honynt y ceisiodd y bobl anniolchgar, ond yn ofer, daflu y Gwaredwr ar ol ei bregeth yn

eu Synagog. Mae Nazareth yn dra dyddorol i ni, y ddinas fechan lle y treuliodd Iesu gynifer o flynyddoedd ei fywyd anghyoedd. Byddwn wedi gorphen yr hynt yma pan y cyrhaeddwn Fynydd Safed, yn Galilea, crib wrtho ei hun, ac yn nesu at dair mil o droedfeddi o uchder, ac yn cynhwys y "ddinas osodwyd ar fryn," at yr hon y cyfeiriai y Gwaredwr yn debygol yn ei ddammeg.

Arwedd hynod o Palestina yw Bro Gostyngiad, yn cyrhaedd o gymmydogaeth Libanus i lawr i'r Môr Coch. Yn ystod rhyw ddirgryniad mawr natur, mae y tir wedi suddo i lawr mewn rhai lleoedd islaw arwynebedd y môr, gan ffurfio gwelyau tri llyn, Merom, Tiberias, a'r Môr Marw, y ddau ddiweddaf driugain a phump o filldiroedd oddiwrth eu gilydd, yn cael eu cyssylltu gan afon yr Iorddonen. Mor fawr yw gostyngiad y dyffryn yma islaw y bwrdd-diroedd uchel y sylwyd arnynt yn barod, fel yn y daith o Jerusalem i Jericho, nad yw y gostyngiad yn ddim llai na thair mil a chwe' chant o droedfeddi, fel y mae gan y teithiwr i fyned yn llythyrenol "i lawr" wrth ddylyn y daith beryglus hono. O herwydd cyfddulliad rhyfeddol y tir, rhydd yr holl ddyffryn yma, gedwir rhag y gwyntoedd oerion ac a adlewyrcha wres yr haul, hinsawdd yn gwahaniaethu yn fawr oddiwrth y parthau ydym wedi sylwi arnynt yn barod, ac yn addfedu cynhyrchion y poeth-gylch. Tra mai tymheredd canolog Libanus yw pymtheg ar hugain o raddau, y bwrdd-diroedd o driugain i driugain a phump, y gwastad diroedd ar hyd Môr y Canoldir o driugain a phump i driugain a deg, mae gwres y dyffryn yma, yr El Ghor, o driugain a deg i bymtheg a thriugain, yn dri o raddau yn uwch nag un Cairo. Hyd yn oed yn nghysgod ffigyswydd gwylltion, mae y gwres yn y boreu cynharol yn Mai, wedi cyrhaedd y dymheredd o bedwar ugain a deuddeg o raddau.

Wrth dramwyo ochr orllewinol y dyffryn yma, yr ydym yn godrefu glanau y Môr Marw, dyfroedd trymion yr hwn a orchuddiant wastad-diroedd bras Sodom. Yr ydym yn myned yn mlaen ar hyd ceulanau uchel yr Iorddonen, gan adael safleoedd Jericho, a hen drefydd ereill, hyd nes y cyrhaeddwn Lyn Galilea, yr hwn, er yn glir a thawel fel yr ydym yn edrych arno heddyw, gall gael ei ysgwyd i dymhestl erbyn y nos, fel y gyra y gwyntoedd yn ddisymmwth trwy y dyffrynoedd cyfagos.



LEIGHTON, BROTHERS.

PILGRIMS BATHING IN THE JORDAN.

Yma ar ei ymyl y mae tref Tabariyeh, yr hen Diberias, hyd etto yn dwyn nodau o'r daeargryn yn 1837. Ar lanau gogleddol a gorllewinol y llyn y safai Capernaum, Corazin, a Bethsaida, lle y cyflawnwyd cynifer o weithredoedd nerthol y Gwaredwr; ond nis gall yr ymchwilydd manylaf hyd etto wneyd allan weddillion y dinasoedd gynt-ffafredig hyn. Yr hynafiaethydd Cristionogol, ar ol ei ymchwiliad ofer yn mysg yr adfeilion maluredig, a ofyna etto:—

"Bethsaida p'le?
Corazin, p'le'r wyt ti?
Chwi deilchion mân, dywedwch 'nawr,
Ai yma'r oedd tref Crist?
Godwyd hyd nef, ai suddo'i lawr
A wnaeth, hyd uffern drist?"

Cyn croesi yr Iorddonen, bydded i ni sefyll yn wylaidd wrth droed Mynydd y Gwynfydau, a gwrando arno Ef, yr hwn a lefarodd fel na lefarodd dyn erioed. Yn ddiweddaf, yr ydym yn croesi i'r ochr arall, ac yr ydym drachefn ar derfyn dwyreiniol yr Iorddonen a'r dyffryn mawr yr ydym wedi ei dramwyo. Yr ydym yn rhoi i mewn o ysgrifell y Parch. Canon Stanley, ddarluniad byr o'r tir cefn dwyreiniol yma i'r Tir Sanctaidd: "Cwyd y mynyddoedd o ddyffryn yr Iorddonen i'r uchder, fe gredir, o ddwy i dair mil o droedfeddi. Pan gyrhaeddir eu penau, ymdora golygfa hollol newydd i'r golwg. Ymddengys bwrdd-dir llydan wedi ei luchio oddeutu mewn cymhysgedd gwyllt, o waenydd tònog, wedi eu gwisgo â phorfa fras trwyddynt; yn y parth deheuol mae coed wedi eu gwasgaru yn deneu yma ac acw, hen goed wedi eu gorchuddio a mwsogl, fel pe yn weddillion coedwig gyntefig wedi ei hen symmud ymaith; mae y parthau gogleddol etto yn llawn o brenau godidog sycamor, ffawydd, tyrpant, celyn, a ffigyswydd anferthol. Torir y gwaenydd hyn gan dri o fylchau dyfnion, trwy ba rai y cwympa tair o afonydd, yr Yarmuc, yr Iabboc, a'r Arnon, i ddyffryn yr Iorddonen a'r Môr Marw. Ar y dwyrain ymdoddant ymaith i'r gwastadedd coch eang, yr hwn, trwy ddisgyniad graddol a ymuna a gwyneb gwastadedd Hauran, a Diffaethwch Assyria."

(Darllener Deuteronomium xxxiv. 1—4. Psalm cxxxvi.)

## PENNOD XXIX.

### MARWOLAETH MOSES.

TERFYNA marwolaeth Moses ran bwysig o'r hanes Hebrëig, a chyfrana i ni, fel y gwnaeth i'r Israeliaid, y gwersi mwyaf difrifol ac effeithiol.

Ni chynhwysa hanes yr Hen Destament un enw mor fawr a'r eiddo Moses, ac fel yr adolygwn y dygwyddiadau rhyfeddol ar y rhai yr ydym wedi bras sylwi yn y Llyfr yr hwn a derfyna y bennod hon, yr ydym yn gweled gwir fawredd y dyn "a adnabu yr Arglwydd wyneb yn wyneb; yn mhob rhyw arwyddion a rhyfeddodau, y rhai yr anfonodd yr Arglwydd ef i'w gwneuthur yn nhir yr Aipht ar Pharaoh, ac ar ei holl weision, ac ar ei holl dir ef, ac yn yr holl law gadarn, ac yn yr holl ofn mawr, y rhai a wnaeth Moses yngolwg holl Israel."

Gan edrych ar holl ymddygiad y gwas ffyddlon yma i Jehofah, rhydd ysgrifenydd yr Epistol at yr Hebreaid y farn Ddwyfol mewn perthynas iddo, pan y dywed, "A Moses yn wir a fu ffyddlawn yn ei holl dŷ, megis gwas, er tystiolaeth i'r pethau oedd i'w llefaru." Fel hyn y gosodir ef ger ein bron fel esiampl aruchel o ffyddlondeb yn ngwasanaeth Jehofah. Codwyd ef i wneyd gwaith mawr dros Dduw, dros y genedl Hebrëig, a thrwyddynt hwy dros y byd, ac yr ydym wedi gweled gyda pha fath egni diball y parhaodd hyd nes y gorphenwyd ef. Os eithriwn Ef, o'r hwn yr oedd Moses yn gysgod, nis gallwn gael y fath engraifft o wir wladgarwch ac o gwbl gyssegriad i'r gogoniant Dwyfol. Na fydded i ni ddarllen cofnodion ei fywyd maith heb ddysgu gwneyd a'n holl egni y daioni i ddynolryw, yr hwn yr anfonodd Duw ni i'r byd i'w wneyd.

Mae marwolaeth Moses fel ei fywyd yn llawn o addysg ddifrifol. Beth bynag yw ein ffyddlondeb a'n sel yn y gwasanaeth Dwyfol, nis gallwn ochelyd y farn hono yr hon sydd wedi syrthio ar holl blant Adda. Mae gennym oll i'w gyfarch Ef, yr hwn sydd wedi bod yn "breswylfa" Ei bobl "ym mhob cenhedlaeth," a gostyngedig ddywedyd, fel y'n dysgir yn "ngweddi Moses, gŵr Duw:" "Troi ddyn i ddinystr; a dywedi, Dychwel-

wch, feibion dynion. Canys mil o flynyddoedd ydynt yn dy olwg di fel doe, wedi yr êl heibio, ac fel gwyliadwriaeth nos. Dygi hwynt ymaith megis â llifeiriant; y maent fel hun; y bore y maent fel llysieuyn a newidir. Y bore y blodeua, ac y tyf: prydnawn y torrir ef ymaith, ac y gwywa."

Yr hyn sydd mor boenus yn marwolaeth Moses yw yr adgof mae yn ddeffro o'r pechod trwy yr hwn ei hachoswyd. Nis gallai, oddieithr iddo gael ei symmud yn wyrthiol fel Enoch ac Elias, ysgoi y rhybudd a ddywed, "Dychwelwch, feibion dynion;" ond gan na "thywyllasai ei lygad, ac ni chiliasai ei ireidd-dra ef," gallasai fyned i Ganaan, a threilio ei flynyddoedd diweddaf yn nghanol y golygfeydd hyfryd hyny i ba rai yr oedd y bobl ar fyned i mewn.

Yr oedd ei farwolaeth ar Nebo i gyfranu gwers drugarog i'r Hebreaid, pa rai, tra yn galaru am dano, a gaent eu dysgu yn effeithiol o ddrwg pechod, yr hwn a ddygodd yr amddifadiad yma ar un gan yr hwn y cafodd yr Arglwydd ei wasanaethu yn ffyddlawn. Fel yr oeddynt yn awr ar fyned i mewn i'w hetifeddiaeth hir-addawedig, mabwysiadodd Jehofah y dull mwyaf difrifol o argraffu ar eu calonau y gwersi sanctaidd oeddynt wedi ddysgu oddiwrth Moses tra yn fyw. "Os," meddai Esgob Hall, "rhaid i Moses farw y farwolaeth gyntaf am un bai, pa fodd y diangant hwy yr ail am bechu o hyd! Hyd yn oed lle y mae Duw yn caru, ni wna edrych heibio i bechod; ac os na chosper, cerydda. Pa faint llai y gall sefyll gyda'r cyfiawnder tragywyddol hyny i oddef i bechaduriaid gwirfoddol ddianc rhag cospedigaeth!"

Etto yr oedd gan Moses i ganu am drugaredd yn gystal a barn. Yr oedd wedi byw i gyflawni yr holl weithredoedd mawrion oedd Duw wedi osod iddo, ac yn awr terfyna ei yrfa ar ymyl gwlad yr addewid. Yr oedd i osod o'r neilldu y wïalen hono ddefnyddiwyd mor fynych fel offeryn gallu gwyrthiol; tra yr oedd Joshua, yn llawn o wroldeb sanctaidd, i gymmeryd cleddyf rhyfelwr, ac arwain lluoedd awyddgar Israel i'w hetifeddiaeth. I Moses yr oedd Duw wedi "rhagweled rhyw beth gwell." Nid oedd y wlad hono, oedd yn llifo o laeth a mel, ond darlun gwan o'r wlad nefol i'r hon yr oedd ysbryd gŵr Duw i gael ei arwain. Dysg ei farwolaeth cyn myned i Ganaan i ni, os ydym yn wir Israeliaid, yn addoli Duw yn yr ysbryd, yn llawenychu yn y Prophwyd mawr, yr

hwn a ragfynegodd Moses, y cawn ddiweddu ein pererindod daearol yn ngolwg y wlad nefol, a gorphwys gyda Christ yn ei ogoniant.

Bydded i ni hefyd sylwi ar y dyddordeb parhaus a arddanghosodd Moses yn achos Duw ar y ddaear, a gwir lwyddiant cenhedlaethau dylynol Ei bobl. Pan yr oedd ganddo i ddweyd wrthynt, "Ni allaf mwy fyned allan, a dyfod i mewn," parhaodd i wylio dros y bobl gyda'r dyfalwch mwyaf, ac fel Pedr yr Apostol, ei ymdrech diweddaf oedd ar ol ei "fynediad allan" o'r byd hwn, ar iddynt hwy allu "bob amser wneuthur coffa am y pethau hyn." Efe a aeth drachefn gan hyny dros y cyfreithiau ydoedd wedi eu cyhoeddi yn flaenorol, ac y maent gennym yn Deuteronomium, neu, fel yr arwydda yr enw, yr ail Ddeddf; traethodd y rhybuddion mwyaf difrifol yn erbyn pechod, a rhagfynegodd ei ganlyniadau; defnyddiodd bob cymhelliad taer i ufudd-dod sanctaidd i'r Jehofah; a chyhoeddodd, wrth archiad Duw, y fendith ar y llwythau, gan ddyranu i bob un ei randir, a chan ddarlunio nodweddiadau ei hanes dyfodol. Ni bu farw y byd o herwydd nad oedd Moses i weled dyn mwy ar y ddaear; ond cadwyn euraidd o gydymdeimlad sanctaidd a'i huna ef a'r eglwys ac â dyn yn ymdrechion mawrion y dyfodol.

Ac fel y mae y diwedd yma i hanes Moses yn dyrchafu ein barn dda am Iesu Grist, yr hwn nid yn unig sydd yn arwain ei bobl i ymyl y nef, ond wedi myned o fewn ei phyrth, a ddaw yn ol ei addewid etto i'w derbyn hwynt ato ei hun, fel y byddont yn wastadol gyda'r Arglwydd.

Bu farw Moses yn y breichiau tragywyddol, ond dyrchafwyd ei enaid o ben Pisgah i Sïon nefol. Claddodd Duw ef hefyd yn y dyffryn, ond ni wyddai neb am le ei feddrod; ac felly y gwaredwyd yr Israeliaid rhag pechod i'r hwn y gallasent yn rhwydd syrthio, a rhoddwyd gwers addysgiadol i grair-addolwyr yn yr holl flynyddoedd dyfodol. Mor ogoneddus y mae y gwas ffyddlon yma i'r Arglwydd yn cael ei arddangos i ni yn hanes y Testament Newydd! Ymddengys gyda'r Gwaredwr yn ngogoniant ei weddnewidiad, ac Elias gydag ef—bob un yn eu cyrff gogoneddus—gwelir ef gan y disgyblion, a chlywwyd ef yn ymddiddan a'r Messiah mewn perthynas i'r ymadawiad (y mynediad allan) oedd Ef ar gyflawni yn Jerusalem.

(Darllener Deuteronomium xxxiv. 4 i'r diwedd. Hebreaid iii. 5.)

# LLYFR III.

---

Joshua, arweinydd Israel.

Buddugoliaethau Joshua, ac Ymsefydliad y Llwythau.

Y Gedrwydden—y Dderwen—y Tyrpant.

Y Ffynnidwydden—y Binwydden—y Bocs—y Myrtwydd.

Coed Sittim—y Balmwydden—y Pren Almon.

Y Winwydden—yr Olewydden—y Pren Afalau.

Y Llew—yr Arth—y Llewpard.

Y March—Asyn Syria—y Camel.

Anghenfilod y Nile.

"Yr Unicorn"—Estrys—Gwalch—Cigfran—Eryr—Cwningen—Morgrugyn.

Achubwyr Dialeddol Israel.

Gedeon a'r Midianiaid.

Samuel, y diweddaf o'r Barnwyr.

"Gofyn yn awr i'r anifeiliaid, a hwy a'th ddysgant; ac i ehediaid yr awyr, a hwy a fynegant i ti:

Neu dywed wrth y ddaear, a hi a'th ddysg; a physgod y môr a hysbysant i ti."

JOB XII. 7, 8.

"Ystyriwch y brain: canys nid ydynt yn hau nac yn medi; i'r rhai nid oes gell nac ysgubor, ac y mae Duw yn eu porthi hwynt; O ba faint mwy yr ydych chwi yn well na'r adar?

Ystyriwch y lili, pa fodd y maent yn tyfu: nid ydynt yn llafurio, nac yn nyddu; ac yr wyf yn dywedyd i chwi, na wisgwyd Solomon yn ei holl ogoniant fel un o'r rhai hyn.

LUC XII. 24, 27.

## PENNOD I.

### JOSHUA.

PAN y galwyd Moses i'w orphwysfa, galwodd Jehofah Joshua i fod yn arweinydd milwrol yr Israeliaid, i'w harwain hwynt dros yr Iorddonen, i ddadwreiddio cenhedloedd Canaan, ac i blanu y deuddeg llwyth yn y wlad a addawcdd Ef iddynt. Yr oedd i gario allan holl gyfarwyddiadau "Llyfr y Gyfraith," ar yr hwn yr oedd i fyfyrio ddydd a nos; ac wedi cael sicrwydd o'r presennoldeb Dwyfol yn barhaus, ei ddyledswydd ydoedd i feithrin yr ymddiried mwyaf, ac arddangos y gwroldeb mwyaf diysgog.

Nid cynt y derbyniodd Joshua ei genadwri nag y gorchymynodd i'r bobl fod yn barod mewn tri diwrnod i groesi yr Iorddonen, gan adgoffa yn neillduol i lwythau Reuben, Gad, a haner llwyth Manasseh, ar iddynt hwy, oeddynt yn barod wedi ffurfio eu sefydliadau ar ochr ddwyreiniol yr afon, gymmeryd y blaen yn y frwydr fawr oedd ar ddylyn. Cyn dechreu ei ymosodiad ar Jericho, anfonodd Joshua ddau ŵr allan i edrych y tir, ac i roddi adroddiad o'r wlad oeddynt ar fyned iddi. Gan gyfeirio at y ffydd weithredwyd gan Rahab, gyda yr hon y llettyasant, yr ydym yn darllen, (Heb. xi. 31,) "Trwy ffydd ni ddifethwyd Rahab y buttain gyd a'r rhai ni chredent, pan dderbyniodd hi yr yspïwyr yn heddychol."

Mae mynediad y fyddin fawr yma ar draws yr Iorddonen wedi cael ei hystyried yn briodol yn wyrth ychydig, os dim, yn llai nag un y Môr Coch. Cymmerodd le yn debygol mewn man ychydig uwchlaw y Môr Marw, a lle mae lled yr afon yn oddeutu bedwar can' llath, a'i dyfnder yn bedair troedfedd ar ddeg. "Yma," fel y sylwa Dr. Hales, "ni ddefnyddiwyd un offerynoliaeth naturiol pa bynag; dim gwynt nerthol i agor ffordd, fel yn yr amgylchiad blaenorol; dim gwrthrediad ar y llanw, ar ba un y gallasai athronyddion manwl ymafael er bychanu y wyrth. Ymddengys o ganlyniad wedi ei hamcanu yn rhagluniaethol i ddistewi trawsddadleuon mewn perthynas i'r gyntaf; cyflawnwyd hi ganol dydd yn ngwyneb haul, ac yn mhresennoldeb, ni a allwn gasglu, y trigolion

cymmydogaethol." Fel hyn, yn ol yr hanes ysbrydoledig, "holl Israel oedd yn myned drosodd ar dir sych, nes darfod i'r holl genedl fyned trwy yr Iorddonen."

Y cyflenwad gwyrthiol o fanna, wedi iddo ateb y diben am ddeugain mlynedd, a ddygwyd yn awr i'r pen. "A meibion Israel a wersyllasant yn Gilgal, a hwy a gynnaliasant y pasc ar y pedwerydd dydd ar ddeg o'r mis, brydnawn, yn rhosydd Jericho. A hwy a fwyttasant o hen ŷd y wlad, drannoeth wedi y pasc, fara croyw, a chras-ŷd, o fewn corph y dydd hwnnw. A'r manna a beidiodd drannoeth wedi iddynt fwytta o hen ŷd y wlad; a manna ni chafodd meibion Israel mwyach, eithr bwyttasant o gynnyrch gwlad y Canaaneaid y flwyddyn honno."

I wroli calon Joshua fel yr oedd ar ddechreu ar ei frwydrau mawrion, fe'i ffafriwyd a gweledigaeth Ddwyfol. Ymddanghosodd Tywysog llu yr Arglwydd, gyda chleddyf noeth yn ei law, a chyfarwyddodd ddull o warchae hollol anadnabyddus mewn rhyfel, trwy ba un y gellid cyrhaedd goruchafiaeth rwydd ar ddinas gaerog Jericho, a gogoniant y fuddugoliaeth berthyn i'r Jehofah yn unig. Ac felly, "trwy ffydd y syrthiodd caerau Jericho, wedi eu hamgylchu dros saith niwrnod."

Fel yr ydym yn dylyn gyrfa lwyddianus Joshua a'i fyddin fuddugoliaethus, rhaid i ni edrych arnynt fel offerynau dialedd Dwyfol ar genhedloedd eilun-addolgar a drygionus, oeddynt wedi anurddo y tir a'u temlau, ac wedi ei halogi a'u hofergoelion a'u troseddau. Attaliwyd y buddugoliaethau hyn trwy gybydd-dod un dyn, yr hwn ar gymmeriad Jericho, a gymmerodd yr hyn oedd wedi ei neillduo i Jehofah; dinystriodd yn agos yr holl gyfundeb, a dygodd felldith ddychrynllyd arno ei hun. Canlynwyd y gosp yma ar Achan gan fuddugoliaethau dylynol. Trwy gyfrwysder llwyddianus, cymmerwyd Ai; crogwyd ei brenhin, dinystriwyd ei deuddeg mil trigolion, a throwyd y ddinas gadarn yn bentwr o adfeilion. Parodd y cospedigaethau arswydus hyn ddychryndod trwy'r wlad yn mhob cyfeiriad: yn mysg yr Hethiaid, yn y deheu, o gylch Hebron; yr Amoriaid, yn agos i lanau y Môr Marw; y Canaaneaid, y bobl fasnachol yn y parth gogledd-orllewinol; y Pereziaid, y *pentrefwyr* yn nghanol y wlad; yr Hefiaid, yn y gogledd, oddeutu Hermon; a'r Jebusiaid, yn amgaeredig yn Jerusalem a'r mynyddoedd cylchynol. Y

Gibeoniaid, trwy gynllun dwfn a chyfrwys, a hudasant Joshua i gyfammod difrifol i'w "cadw hwynt yn fyw." Cadwyd at y cyfammod, er iddo gael ei gyrhaedd mor gyfrwys; ond gwnaed hwynt yn gymmynwyr coed ac yn wehynwyr dwfr i'r gynnulleidfa.

Arweiniodd dinystr Ai, ac ymostyngiad y Gibeoniaid, i gyfuniad y brenhinoedd cymmydogaethol, y rhai a ymosodasant ar y Gibeoniaid, gan ba rai y gwnaed appeliad taer at Joshua am gymhorth. Dygodd taith frysiog yn ystod y nos Joshua i Gibeon, lle y cafodd y byddinoedd ymunedig wedi ymwersyllu; "a'r Arglwydd a'u drylliodd hwynt o flaen Israel, ac a'u tarawodd hwynt â lladdfa fawr yn Gibeon, ac a'u hymlidiodd y ffordd yr eir i fynu i Bethhoron, ac a'u tarawodd hwynt hyd Azecah, ac hyd Maccedah."

Ar yr achlysur yma, Joshua—yn ofni y machludai yr haul, ac na chyfranai y lleuad ddigon o oleuni yn "nyffryn gwyrdd lydan" Ajalon, cyn i'r gelynion gael eu gyru yn hollol ar ffo—"a lefarodd wrth yr Arglwydd" mewn gweddi, ac ar yr awdurdod Ddwyfol, a orchymynodd i'r haul a'r lleuad aros. "A'r haul a arhosodd, a'r lleuad a safodd, nes i'r genedl ddial ar eu gelynion." "Yr haul a safodd yn nghanol y nefoedd, ac ni frysiodd i fachludo dros ddiwrnod cyfan." Gwell ydyw darllen, yr haul "ni frysiodd i fachludo pan y dibenodd y dydd." Anffyddwyr, wrth roddi eu hesboniad eu hunain ar y dygwyddiad yma, a'i llwythant âg annichonderau naturiol, neu a briodolant iddo y canlyniadau mwyaf dinystriol i'r bydysawd. Damcanant ar yr "attaliad yma ar ddeddfau ysgogiad yn effeithio ar y ddaear trwy dymheredd cynhyddol, gan chwyrndaflu y dyfroedd allan o'u pantleoedd, a chynhyrchu cynhyrfiadau yn nghyfundrefn gyffredinol y bydysawd." Wrth ddarllen yn iawn, ni chynhwysa yr anrhydedd rhyfeddol roddwyd ar Joshua y fath anhawsderau. Gallai Efe, yr hwn sydd ganddo holl ddylanwadau y bydysawd o dan lywyddiaeth, ac yn eu mysg galluoedd gwrthdroiol hyny yr awyrgylch trwy ba rai cynhyrchir yr ymddangosiadau mwyaf rhyfeddol yn ein hamser ni, yn rhwydd gadw goleuni yr haul ar uchelderau Gibeon, a thaenu pelydrau y lleuad trwy ddyffryn Ajalon, i gyfiawnhau ffydd Joshua, a gorphen dymchweliad Ei elynion.

(Darllener Joshua i.—vii.)

## PENNOD II.

### BUDDUGOLIAETHAU JOSHUA AC YMSEFYDLIAD Y LLWYTHAU.

DYLYNWYD buddugoliaethau cyntaf Joshua gan neillduad y tir i wasanaeth Jehofah. Yn ol gorchymyn Duw, roddwyd trwy Moses, casglodd Joshua y llwythau yn y dyffryn rhwng Ebal a Gerizim, lle y cododd allor, y cyflwynodd aberthau, yr ysgrifenodd y Ddeddf ar lechau mawrion paratoedig i'r diben, ac yr ailadroddodd yr appeliadau a'r rhybuddion Dwyfol yn nghlustiau y ddau gwmni mawr i ba rai yr oedd y bobl wedi eu rhanu. Adroddir yn fanwl y cyfarwyddiadau i'r gwasanaeth cenhedlaethol mawr yma yn Deut. xxvii. a xxviii., ac yn y Llyfr hwn Joshua (viii.) mae gennym hanes eu cyflawniad.

Un sydd wedi ymweled yn fynych a golygfa fawreddog yr wyl hon, a ddywed ei bod "tu hwynt i bob dadl neu gydmariaeth y gynnulleidfa fwyaf ardderchog y tywynodd yr haul erioed arni; ac ni byddaf byth yn sefyll yn y gwastadedd cul, gydag Ebal a Gerizim yn ymgodi ar bob llaw i'r nen, heb yn ddifwriad adalw ac adgynhyrchu yr olygfa. Mi a waeddais er mwyn cael clywed yr adlais, ac yna dychymygais pa fodd y rhaid ei fod pan y cyhoeddodd y Lefiaid uchel-leisiol oddiar glogwyni noeth Ebal, "Melldigedig yw y gŵr a wnel ddelw gerfiedig, sef ffieiddra gan yr Arglwydd." Ac yna yr Amen dychrynllyd! deg gwaith uwch, oddiwrth y gynnulleidfa fawr, yn ymgodi ac yn ymchwyddo, ac yn adleisio o Ebal i Gerizim, ac o Gerizim i Ebal. Amen! felly bo; bydded felldigedig. Na, ni fu erioed gynnulleidfa i'w chydmaru a hon."

Mae un pwynt o ddyddordeb yn yr hanes yn hawlio ein sylw. Yn ol cyfarwyddyd Moses nid oedd y Gyfraith yn awr i gael ei cherfio yn y garreg, ond ar lechau wedi eu gorchuddio â chymrwd: "A chalcha hwynt â chalch"—fel y gallai Joshua ysgrifenu yn rhwydd "yno, ar y meini, gopi o gyfraith Moses, yr hon a ysgrifenasai efe yngŵydd meibion Israel." Yma yr oedd gwaith neillduol i Joshua i'w gyflawni; ac o barhad llechi wedi eu paratoi felly, byddai yn dda sylwi ar yr eglurhad diweddar canlynol. Yr oedd "yn syml i'w hysgrifenu hi *ar*, neu *yn*, y cymrwd

iawn baratoedig. Yn yr hinsawdd boeth hono, lle nad oes dim rhew i ddadmeru y cymrwd, parha yn galed a didoredig am filoedd o flynyddoedd, yr hyn yn ddiau sydd yn ddigon maith. Parha y cymrwd ar lynoedd Solomon mewn cadwraeth ragorol, er yn agored i holl gyfnewidiadau yr hinsawdd, ac heb un cysgod. Mae y cymrwd yn y beddau oddeutu Sidon hyd etto yn berffaith, a'r ysgrifen arnynt yn gyfan, er y gweithredir arnynt gan yr awyr llaith, gwlyb, geir yn wastad mewn ogofeydd, am fe allai ddwy fil o flynyddoedd. Yr hyn a wnaeth Joshua, gan hyny, pan y cododd y cerrig mawrion hyny yn Mynydd Ebal, ydoedd yn unig ysgrifenu *yn* y cymrwd meddal etto â phin, neu, yn fwy tebygol *ar* y wyneb caboledig, pan yn sych, â phaent coch, fel mewn hen feddau. Pe cawsent eu cysgodi yn briodol, a pheidio eu tori ymaith trwy gam, parhasent hyd y dydd hwn."

Gan fod Joshua a'r bobl yn awr yn ufuddhau yn ffyddlawn i'r gorchymyn Dwyfol, gwthiasant yn mlaen yn gyflym eu buddugoliaethau, a "tharawodd yr holl fynydd-dir, a'r dehau, y gwastadedd hefyd, a'r bronnydd, a'u holl frenhinoedd; ni adawodd efe un yngweddill; eithr efe a ddifrododd bob perchen anadl, fel y gorchymynasai Arglwydd Dduw Israel. A Joshua a'u tarawodd o Cades-Barnea, hyd Gazah, a holl wlad Gosen, hyd Gibeon. Yr holl frenhinoedd hyn hefyd a'u gwledydd a ynillodd Joshua ar unwaith, canys Arglwydd Dduw Israel oedd yn ymladd dros Israel."

Cynhyrfodd y buddugoliaethau hyn yn mharth deheuol y wlad ofn yn y brenhinoedd gogleddol, ac wedi uno eu galluoedd, "hwy a aethant allan, a'u holl fyddinoedd gyda hwynt, pobl lawer, fel y tywod sydd ar fin y môr o amldra; meirch hefyd a cherbydau lawer iawn." Golygfa y frwydr fawr a ganlynodd ydoedd "wrth ddyfroedd Merom," y llyn bychan i'r gogledd i Fôr Galilea, ac yn agos i darddiad yr Iorddonen. Dylynwyd yr oruchafiaeth yn Merom gan fuddugoliaethau olynol, o ba rai mae gennym y rhestr yn Joshua xi., xii.

Trwy y tiriogaethau ennillwyd fel hyn, yr oedd Joshua yn alluog i ranu eu hetifeddiaethau i bump o'r llwythau, a chan geryddu y bobl am ballu o'u gwroldeb, efe a anfonodd ddeuddeg gŵr allan o Siloh, lle y codwyd y Tabernacl, fel y byddai iddynt dramwyo trwy y wlad ni orch-

fygasid, a darlunio pob rhan mewn darlunlen. Wedi gwneyd hyn, bwriwyd coelbren dros bob llwyth, ac y mae gennym yr holl ganlyniadau wedi eu cofnodi yn Joshua xviii., xix.

Furfia y terfynau, neu "gyffiniau," i ba rai y rhanwyd yr holl wlad, bwnc dyddorol o efrydiaeth Fiblaidd, i ba un y mae teithwyr Cristionogol yn awr yn cyflwyno eu hymchwiliadau gyda llwyddiant tra boddhaol. Darlunid y terfynau gyda'r gofal mwyaf, yna bwrid coelbrenau dros bob llwyth, yn Siloh, a byddai gan bob Israeliad duwiol a diolchgar reswm i ddweyd. "Y llinnynau a syrthiodd i mi mewn lleoedd hyfryd; ïe, y mae i mi etifeddiaeth deg."

"Ond i lwyth Lefi ni roddodd Moses etifeddiaeth;" ychwanegir yn brydferth, "Arglwydd Dduw Israel yw eu hetifeddiaeth hwynt, fel y llefarodd efe wrthynt." Felly y darllenwn yn y Testament Newydd, fod credinwyr yn Nghrist, y rhai ydynt yr "offeiriadaeth sanctaidd," yn (Rhuf. viii. 17) "etifeddion i Dduw, a chyd etifeddion a Christ." Yr oedd Jehofah yn ofalus am Ei weision, a rhoddwyd wyth a deugain o ddinasoedd iddynt, trwy goelbren, allan o etifeddiaethau y llwythau ereill.

Cafodd y wlad yn awr lonydd oddiwrth ryfel, gan ei fod yn cael ei adael i bob llwyth i ennill y rhan hyny o'i etifeddiaeth oedd yn aros etto yn llaw y pagan. Anfonwyd y ddau lwyth a haner ymaith i'r sefydliadau ar y dwyrain i'r Iorddonen gyda bendith, yn cael eu dylyn gan y cynghorion difrifol yma: "Cedwch yn ddyfal ar wneuthur y gorchymyn a'r gyfraith a orchymynodd Moses gwas yr Arglwydd i chwi; sef caru yr Arglwydd eich Duw, a rhodio yn ei holl ffyrdd ef, a chadw ei orchymynion ef, a glynu wrtho ef, a'i wasanaethu ef a'ch holl galon."

Y gŵr ffyddlawn yma yn awr wedi "myned mewn dyddiau," a gynnullodd y bobl yn Siloh, adroddodd hanes yr ymddygiadau Dwyfol tuag attynt hwy a'u cyndadau, rhybuddiodd hwynt, rhag eilun-addoliaeth, galwodd am ymgyflwyniad adnewyddol a gwirfoddol i wasanaeth Jehofah, "a gwnaeth gyfammod a'r bobl y dwthwn hwnw, ac a osododd iddynt ddeddfau a barnedigaethau, yn Sichem." Yna yr Arglwydd, yr hwn a wasanaethodd yn ffyddlawn, a'i cymmerodd i orphwysfa well, a'r bobl "a'i claddasant ef yn nherfyn ei etifeddiaeth, o fewn Timnath-serah."

(Darllener Joshua viii. i ddiwedd y Llyfr.)



LEIGHTON, BROTHERS.

## PENNOD III.

### Y GEDRWYDDEN—Y DDERWEN—Y TYRPANT.

GAN ein bod wedi gweled llwythau Israel yn ymsefydlu yn ngwlad yr addewid, byddai yn dda i ni fwrw golwg ar y cynhyrchion bras ac amrywiol am ba rai y mae yn enwog yn yr hanes cyssegredig. O herwydd yr amrywiaeth hinsawdd y sylwyd arno yn barod, yr oedd hanesiaeth naturiol y Tir Sanctaidd yn dra eang. Nid oedd holl hyd y diriogaeth yn gyffredin ddim dros gant a phedwar ugain o filldiroedd o'r gogledd i'r dehau, tra nad oedd ei lled yn y gogledd ond ugain milldir, gan ymestyn yn raddol rhwng pedwar ugain a phedwar ugain a deg yn y dehau. Yn llawnder ac amrywiaeth ei chynhyrch, o dan amaethiad medrus a diwyd, yr oedd wedi ei chyfaddasu yn dda i wasanaethu er cynhaliaeth a chysur poblogaeth dew a llwyddianus, a chadw ei chlod fel gwlad "yn llifo o laeth a mêl." Yr oedd gan Solomon ddigon o le i'w bin fel naturiaethwr, heb fyned o'i wlad ei hun, pan y "llefarodd am brennau, o'r cedrwydd sydd yn Libanus, hyd yr isop a dyf allan o'r pared;.... am anifeiliaid, ac am ehediaid, ac am ymlusgiaid, ac am bysgod."

Gan ddylyn ei esiampl, ni a gawn ddechreu gyda cedrwydd Libanus. I gael gweled "penau uwchaf a llwyttaf" y pren hynafol hwn, rhaid dringo i esgynlawr ar Libanus chwe' mil o droedfeddi uwchlaw arwynebedd y môr. Mae rhif y prenau hyn, dybir i fod mewn bod yn y cyfnod Biblaidd, wedi eu tynu i lawr i ychydig iawn; haera rhai i ddim mwy nag unarddeg, er fod yn anhawdd tynu y linell rhwng hen dadau y mynydd, a rhai amserau mwy diweddar. Dr. Thomson, ein hawdurdod diweddaraf, a ddywed, "Cyfrifais bedwar cant a deugain a thri, mawr a bach;....mae rhai wedi eu taro i lawr gan fellt, eu tori gan lwythi dirfawr o eira, neu eu dryllio yn ddarnau gan dymhestloedd. Cyfodir hyd yn oed y fwyall anrheithiol weithiau yn eu herbyn." Mae yn hyfryd modd bynag i wybod, y gwnai, pe heb aflonyddu arnynt, yr hil ardderchog yma brofi mor barhaus a'r bryniau ar ba rai y tyfant, gan fod "coed ieuaingc yn codi yn gyson o wreiddiau yr hen rai, ac o hadau conau addfed."

Dalia y dderwen le amlwg yn mysg y prenau a addurnent Palestina. Fel y dderwen enwog yn Hebron a ledodd ei breichiau dros Abraham a'i dylwyth, mae yn fynych yn bren hynafol, o dan gysgod yr hwn gall y teithiwr orphwys. Gwahaniaetha derwen Palestina oddiwrth yr eiddom ni mewn cadw ei dail gwyrddion trwy'r flwyddyn, ac fel hyn yn rhoddi, nid yn unig cysgod rhag gwres yr haf, ond cysgod tywyll, yr hyn oedd yr achos yn fynych iddi gael ei dewis i ddibenion ofergoeliaeth. O ddylanwad y cysgodion yma cawn engraifft gan ysgrifenydd Cristionogol, yr hwn a ddywed: "Ni ddaethum erioed o fewn y fath lwyn, hyd yn oed a hwn, heb fod yn ymwybodol o ryw swyn annarluniadol, yn tueddu yn gryf i barch crefyddol." Mae llwyni mawrion o dderw etto yn blaguro yn Palestina Ogleddol, i'r gogledd i Tabor, yn Libanus a Hermon, yn Gilead a Basan, am ddeg milldir ar hugain ar hyd y bryniau i'r gorllewin i Nazareth, hyd yn oed yn Carmel, ac i'r dehau i Cæsarea. Gwasanaethodd y dderwen i dynged dychrynllyd Absalom wrthryfelgar, ar y mynyddoedd tu dwyrain i'r Iorddonen, lle mae yn awr "filoedd o brennau o'r fath yn gyfaddas ragorol i ddal gwrthryfelwyr hir-walltog." Fel y gwaredid y bobl oddiwrth eu heilun-addoliaeth, hwy a "gywilyddiasant o achos y derw a chwennychasant," a gwaith diwygwyr crefyddol oedd tori i lawr y llwyni. Onid yw yn foddhaol i ddeall fod yr Arabiaid yn yr un ysbryd, fel y dygir hwynt o dan ddylanwad yr Efengyl, yn dinystrio yr olion hyn o ofergoeliaeth ddiraddiol?

Y tyrpant, yr hwn a fedd ryw debygrwydd i'r dderwen, er heb fod cystal, sydd trwy fath o arferiad yn mysg cyfieithwyr diweddar wedi dyfod yn ymgystedlydd â'r hen bren hynafol. Mae yn ddymunol cyfarfod a gwrthdystiad cryf oddiwrth awdurdod digonol yn erbyn y cynhygiadau hyn i yru brenhin y goedwig allan o'i hen diriogaeth. Mae y tyrpant yn llai na'r dderwen, gan fod llawer o dderw, mewn cymmariaeth i'r rhai nid yw y tyrpant ond baban. Gwahaniaetha oddiwrth y dderwen yn Palestina, yr hon sydd bythwyrdd, trwy fwrw ei dail bob tymhor, gan ei bod yn gwympiadol; ac yn wasgarog mewn ffurf, a noeth mewn ymddangosiad, nid yw byth fel y dderwen yn blanedig yn nghynteddau tai, dros feddau, mewn cyrchleoedd pentrefi; ac anfynych, os byth, mewn llwyni.

(Darllener Psalm xcvi. Ezekiel xxxi.)

## PENNOD IV.

### Y FFYNNIDWYDDEN—Y BINWYDDEN—Y BOCS—Y MYRTWYDD.

MAE dosbarth mawr a phwysig o goed yn y Tir Sanctaidd yn gynhwysedig o dan enw Hebrëig, (*berosh*,) yr hwn a gyfieithir weithiau yn binwydden, ac amserau ereill ffynnidwydden. Gwahaniaetha oddiwrth bob un o'r prenau sylwyd arnynt yn y bennod flaenorol; ac yn Zechariah (xi. 2) mae ei israddolder i'r gedrwydden yn cael ei osod allan yn eglur, "Y ffynnidwydd, udwch; canys cwympodd y cedrwydd." Er nad yn gyfartal i'r gedrwydden fawreddog, yr oedd y dosbarth yma o goed, a allwn ystyried fel y *genus pinus*, yn awr a fawr brisir ac a dyfir yn ein gwlad ein hunain, yn cael ei barchu yn uchel yn Nghanaan a'r gwledydd cymmydogaethol. Esaiah, wrth ddarlunio dyfodol llwyddiannus i'w wlad, a lefara am y "ffynnidwydd" fel wedi eu planu "yn y diffaethwch;" a dywed hefyd "yn lle drain y cyfyd ffynnidwydd;" a chyssyllta "y ffynnidwydd, ffawydd, a bocs ynghyd," i harddu cyssegr yr Arglwydd.

Mawr werthfawrogid coed y pren yma mewn adeiladu, am ddefnyddioldeb ac addurn. Meddianna yr ail le yn y rhestr o'r prenau yr erfyniodd Solomon ar Hiram i'w hanfon at adeiladu y Deml, plygddorau pa un a wnaed o'r coed yma. Yn mysg y rhai uwchaf o'r ffynnidwydd hyn yr ydym yn darllen yr adeilada y ciconia ei thŷ.

Mae teithwyr yn ngwledydd y Bibl wedi cyfeirio eu sylw yn ddiweddar at y dosbarth yma o goed, ac y maent i fesur mawr wedi ychwanegu at yr hysbysiaeth gyfyngedig roddwyd yn flaenorol mewn perthynas iddynt. Ymddengys bron yn anghyfrifadwy na fuasai mwy o ymchwiliad wedi ei gyfeirio at y "ffynnidwydd uchel hyn, gyda eu nenfydau heulrodol," fel y tyfant ar y tir tywodlyd yn Libanus, a thrwy ffurfiau hardd y rhai ymddengys y mynydd hynafol yn "ogoneddus a mawreddog."

Gan yr awgryma yr ymadrodd dyddorol canlynol adnabyddiaeth bellach o'r dosbarth yma o goed, ychwanega yn debygol lawer at drysorau eglurhadaeth Fiblaidd. Gan gyfeirio at fan yn ymyl Jaffa, dywed teithiwr cenhadol: "Yma mae y coedwigoedd pinwydd arferol yn tyfu arno. Y rhai hyn ydynt yr engreifftiau tecaf a welsom yn Palestina, er fod pob

cefnen dywodlyd o Libanus a Hermon wedi ei gwisgo a hwynt, ac yn fynych twf llawer mwy. Nid ydynt i'w gweled ar fynyddoedd Palestina, o herwydd nad yw y ffurfiad tywodlyd penodol hwnw i'w gael yno. Gelwir y pren yma gan yr Arabiaid *sunbar,* ac yn fy marn i y *berosh* Hebrëig ydyw, mewn perthynas i'r hwn y mae cymmaint o gymmysgedd yn ngwahanol gyfieithiadau o'r Bibl. Yn y Gymraeg cyfieithir ef yn gyffredin *ffynnidwydden,* ond barna amrai feirniaid diweddar mai *cypreswydden* a ddylai fod. Yr wyf fi, modd bynag, yn tybio mai *berosh* yw yr enw cynrywiol am y binwydden, o ba un y mae llawer o fathau ar Libanus. Anfynych y ceir cypres yno, ond ceir pinwydd yn mhob man, a dyma *y* pren a ddefnyddir yn drawstiau a thylathau. *Ers* yw yr enw gwahaniaethol am y cedrwydd, *berosh* am y pinwydd.

"Dyga y pren yma gyrnen fawr a chryno, oddiwrth ba un ceir *cneuen* y farchnad. Cesglir y gyrnen yma pan yn addfed gan berchenogion y coedwigoedd; a phan wedi sychu yn hollol ar y nen, neu wedi ei thaflu am ychydig fynydau i'r tan, ymwahana i liaws o ranau, o bob un o ba rai disgyna cneuen wen deg, mewn ffurf yn debyg i had y palmaeron. Mae y plisgyn yn bur galed, ac o'i fewn y mae y ffrwyth yr hwn a ddefnyddir i wneyd saig Dyrcaidd, a darpariadau ereill o risyd, ac hefyd mewn gwahanol fathau o chwegfwydydd. Yn y Bibl Arabaidd, y *myrrh,* yr hwn a gariai yr Ismaeliaid a brynodd Joseph i'r Aipht, a elwir *sunbar;* ac os hwn mewn gwirionedd yw *berosh* y Bibl, nid oes nemawr o bren arall yn cael ei grybwyll yn amlach, a byddai hyn mewn cyfattebiad manwl i'w wir werth.

"Mae yr amrywiaeth pinwydd a welsom ar y tu gogleddol i'r Em Khâlid, ac yn mha un mae yr adar tô wedi gwneyd eu nyth, i'w gael dros holl Libanus, ond nid yw byth yn tyfu yn uchel, nac yn cael ei ddefnyddio ond ychydig mewn adeiladu, neu yn y celfyddydau; ac felly pob math arall yn y wlad hon, oddieithr maen-binwydd y llwyn."

Crybwyllir am y bocs (Esaiah xli. 19) mewn cyssylltiad a'r pinwydd a'r ffynnidwydd, fel un a blanai yr Arglwydd yn y diffaethwch i gyferbynu a'r anghyfannedd-dra cylchynol; a thrachefn fel y gwelsom, (Esaiah lx. 13,) Efe a'i defnyddiai i addurno Ei gyssegr. Gallwn ei ystyried fel yr un a'r hwn a werthfawrogwn mor fawr yn ein gerddi, lle y defnyddiwn

ef yn gyffredin i'r diben isel o ymylgylch, er trwy amaethiad y cyrhaedda faintioli mwy pwysig. Yr ydym yn ei werthfawrogi am ei wyrddlesni anwywadwy, a gadwa trwy'r flwyddyn; a chynhorthwya enw rhywogaethol hwn, *Buxus sempervirens*, y syniad mai y pren ydyw at ba un y cyfeiria y prophwyd. Mae ein harlunwyr yn eithaf cyfarwydd a'i werth mawr, am ei ymblethiad unedig, a'i galedrwydd neillduol; ac mewn llawer o fanau yn ein gwlad ein hunain, yn gystal ag yn y Dwyrain—fel ar hyd y bryniau sydd yn godrefu yr Wy, rhwng Chepstow a Tintern—rhydd ei gyfartaledd teg iddo le pwysig yn y tirddarlun.

Rhaid i ni hefyd sylwi ar y myrtwydd, yr hwn er nad yn fawr yn mysg prenau, a ymddengys yn y gyfrol sanctaidd fel planhigyn o ddyddordeb mawr. Crybwyllir ef mewn cyferbyniad i'r mïeri: "Yn lle mïeri y cyfyd myrtwydd"—ac arddengys yn darawiadol y gwahaniaeth rhwng y dryg-ionus "trahäus," a'r "gŵr da" haelionus, grasusau yr hwn a ennynant ein hedmygedd a'n diolchgarwch i Awdwr pob da. Gwelsom wyrddlesni dail y myrtwydd, wedi eu pigdyllu ag ysmotiau tryloew, ymhyfrydasom yn ei berarogl anghydmarol, a chasglasom ei flodeu gwynion hyfryd gartref, ond yn y Dwyrain mae ei degwch yn llawer mwy. Lle mwyaf dewisol y planhigion hyn yw y dyffryn tawel, yn cael eu cysgodi gan y bryniau rhag yr awel lem, ac oddiwrth hyn danghosir hwynt mewn gweledigaeth i'r prophwyd Zechariah fel arwyddluniau o heddwch a diogelwch yr eglwys o dan yr amddiffyn Dwyfol.

Tyfa y planhigyn dewisol yma yn wyllt yn Palestina, lle y cyrhaedda yr uchder o ugain troedfedd. Defnyddid ei ganghau yn Ngwyl y Pebyll, fel y darllenwn yn Nehem. viii. 15, yr oedd gan y bobl i geisio "cangau y myrtwydd," yn gystal a rhai yr olewydd, y pinwydd, a'r palmwydd, "i wneuthur bythod." Sonir hefyd am y myrtwydd gan Esaiah, fel arwydd-lun o nodweddiad sanctaidd y dyn adgenhedlig yn nyddiau yr Efengyl, yr hwn a blana yr Arglwydd yn y manau diffaeth hyny, lle yr oedd tegwch gwir grefydd a'i pherarogledd yn anadnabyddus o'r blaen. Cyf-lawnir hyn lle y derbynir gwirioneddau yr Efengyl i galonau credinol; a chynhyrcha ffydd yn Nuw, edifeirwch am bechod; gan ein dysgu i fyw yn sobr, yn gyfiawn, ac yn dduwiol, yn y byd drwg presennol.

(Darllener Psalm lxv. Esaiah xli. 10—20.)

## PENNOD V.

### COED SITTIM—Y BALMWYDDEN—Y PREN ALMON.

RHAID fod y crybwylliad mynych am goed Sittim yn y darluniad o'r Tabernacl a'i ddodrefn cyssegredig wedi tynu sylw pob darllenydd y Bibl. Unwaith yn unig y sonir am y pren trwy ba un y cynhyrchir y coed gwerthfawr yma yn y rhif unigol; ac yna dywed Jehofah, (Esaiah xli. 19,) "Gosodaf yn yr anialwch y cedrwydd, sittah, myrtwydd, ac olewydd;" ac ni a allwn ddysgu oddiwrth y dosbarthiad yma y parch uchel yn mha un y safai. Yn ein cyfeithiad Cymraeg mae y gair heb ei gyfieithu, ond yr hen gyfieithwyr Groegaidd, y rhai oeddynt, fe allai, yn eithaf adnabyddus o'i briodoleddau, a'u cyfieithent y "coed anllygredig," tra yn y cyfieithiad Lladinaidd yr arwydda draenen *(spina)*. Fe allai fod gwreiddyn Hebrëig y gair *shata*, yr hwn a arwydda i wrthod neu droi o'r neilldu, wedi ei fwriadu i ddarlunio ei effeithiau ar unrhyw berson neu anifail a ddaethai yn ei ffordd. Gwelir ei fod yn yr ystyr yma yn gyffelyb i'r acacia, gyda yr hwn yr ydym ni yn gyfarwydd.

Yr oedd y pren yma yn dra chyfaddas i'r defnyddiau cyssegredig i ba rai ei cymhwyswyd. Yr oedd i wneyd byrddau i'r Tabernacl, colofnau i'r lle sanctaidd, bwrdd y bara gosod, yr arch gyssegredig, a'r trosolion a pha rai y dygid hwynt. Yr oedd priodoleddau adnabyddus yr acacia yn ei gymhwyso i'r dibenion pwysig hyn. Mae yn galed, gwydn, llyfn, heb gnapiau, ac yn dra phrydferth. Mae ei galedrwydd mor fawr fel yr ystyrir ef mor ammhydradwy ag un math o goed. Mae hefyd yn dra pheraidd, yr hyn a ychwanegai at ei werth fel defnydd i ddibenion cyssegredig. Priodoledd arall yr acacia, yr hyn a ychwanegai ei werth mewn cyssylltiad a'r Tabernacl a'i ddodrefn, ydoedd ei ysgafnder neillduol, trwy ba un yr oedd yn gymhwys i adeilad ydoedd yn fynych i gael ei dynu i lawr, a'i gario ar deithiau meithion.

Yn awr mae y pren yma i'w gael eto yn Anialwch Sinai, lle yr oedd yn rheidiol i'r Tabernacl, ac y mae yn hynod nad yw yn cael son am dano fel un o'r defnyddiau ddefnyddiwyd yn y Deml neu ei dodrefn, gan

i amaethiad prenau a dadforiad mathau gwerthfawr o goed roddi i Dafydd a Solomon gyflenwad digonol ac amrywiol o honynt i'w gwaith cyssegredig. Dyma y pren mwyaf ei faint o lawer, yn gystal a mwyaf cyffredin, yn Anialwch Sinai, i ba un ymddengys ei dir sych, graianog, yn gyfaddas neillduol.

Tyfa yr acacia i'r fath faintioli fel ag i roddi yn rhwydd y byrddau i'r Tabernacl, gan y cynhyrcha blanciau deuddeg cyfudd o hyd. Gellir gweled y pren yma eto yn y Tir Sanctaidd. Ar y ffordd i Sarafend, Sarepta yr Ysgrythyr, sylwa y teithiwr ar wyddrodfa ryfedd o'r prenau hyn, gyda eu "bonau ceimion a'u breichiau preiffion wedi ymblethu yn mhob cyfeiriad," a chan ffurfio yr arwedd mwyaf hynod yn y tirddarlun.

Mae y palmwydd uchel, meindwf, mawreddog, gyda eu pen-wisg hardd fel plu penoblygol, yn mysg gwrthddrychau mwyaf deniadol o dyfolion Dwyreiniol. Perthynant yn hytrach i anialdiroedd tu allan i'r Tir Sanctaidd, fel y gwelsom hwynt yn barod yn Elim, ond tyfant eto yn Palestina. Gwelir hwynt mewn prydferthwch mawr ar y ffordd rhwng Beirut a Damascus, lle y safant fel arwyddlun o'r gŵr perffaith, yn unionsyth yn nghanol holl demptasiynau a chyfnewidiadau y bywyd hwn, ac yn wahanol i brenau ereill, yn byw heb effeithio arnynt gan oerder y gauaf, na chan boethder yr haf. Nid yw y balmwydden "yn llawenhau yn ormodol o dan wlaw toreithiog y gauaf, ac nid yw yn dihoeni o dan haul poeth yr haf. Ac nid all pwysau trymion y rhai a rydd dynion ar ei phen, nac angerddoldeb taer y gwynt, ei gogwyddo oddiwrth uniondeb perffaith."

Mae yr aeron, ffrwyth un rhywogaeth o'r palmwydd, yn awr yn dra adnabyddus yn ein mysg, a llefara helaethder eu cyflenwad am ffrwythlonder y pren trwy ba un y cynhyrchir eu sypiau. Onid yw yn ein hadgoffa ni o un nodweddiad y gwir dduwiol? Yr ydym yn gweled y gall y ffrwyth fod yn gynhyrch prenau ydynt wedi bod yn rhoddi eu cyflenwadau am lawer o oesau. Felly y rhai cyfiawn, fel y prysura y bywyd hwn tua'i derfyn, ac yr ymdaena gwendid henaint drostynt, a ddygant ffrwythau cyfiawnder a dyngarwch Cristionogol. Rhai o'r cyfranwyr mwyaf haelfrydig i ddedwyddwch a hawddfyd dynolryw, i achos Iesu Grist ar y ddaear, ydynt bersonau hen, y rhai, os nad allant yn awr

fyned o amgylch i wneuthur daioni, a allant weddio dros y gweithwyr sydd wrthi, a'u cynhal hwynt trwy eu rhoddion haelfrydig.

Jericho, dinas y palmwydd, a gymmerodd ei henw oddiwrth yr helaethrwydd o balmwydd a flodeuent yn nyffryn poeth yr Iorddonen; ac oddiwrth helaethrwydd cyffelyb o'r prenau dewisol hyn, y cymmerodd y ddinas hono, oedd yn harddwch Diffaethwch Syria, ei henw Palmyra.

Mae canghau y palmwydd wedi cael eu dewis gan wahanol genhedloedd fel arwyddluniau o lawenydd a buddugoliaeth. Mewn gwledydd clasurol dygai y gorchfygwr gangen o'r palmwydd fel arwyddlun o'i oruchafiaeth. Pan y cadwai yr Hebreaid eu gwyl y cynnull am saith niwrnod bob blwyddyn, yr oeddynt i ufuddhau i'r gorchymyn Dwyfol yma, "A'r dydd cyntaf cymmerwch i chwi ffrwyth pren prydferth, canghenau palmwydd, a brig pren caeadfrig, a helyg afon; ac ymlawenhewch ger bron yr Arglwydd eich Duw saith niwrnod."

Mae yr almon yn un o'r prenau boreuaf mewn blagur, ac nid cynt y ffurfia y ffrwyth nag yr addfeda, fel y gwelir y ffrwyth a'r blodeu yn fynych ar y pren yr un pryd. Gan yr ymddengys y blagur yn Chwefror, cyn i'r prenau ereill ddeffroi o'r cwsg gauafol, rhydd y pren almon arwyddlun cyfaddas o'r cyflymder gyda pha un y cyflawnir rhai o'r bwriadau Dwyfol. Fel hyn ni a ddarllenwn yn Jeremiah: "Daeth gair yr Arglwydd attaf, gan ddywedyd, Jeremiah, beth a weli di? Minnau a ddywedais, Gwïalen almon a welaf fi. A dywedodd yr Arglwydd wrthyf, Da y gwelaist; canys mi a brysuraf fy ngair i'w gyflawni."

Am yr un rheswm cyfarwyddwyd Moses i ddewis gwïail o'r pren almon i'w gosod yn y Tabernacl pan y terfynodd Jehofah y ddadl rhwng Aaron a'i wrthymgeiswyr: "A thrannoeth y daeth Moses i babell y dystiolaeth: ac wele gwïalen Aaron dros dŷ Lefi a flagurasai, ac a fwriasai flagur, ac a flodeuasai flodeu, ac a ddygasai almonau."

Y pren prydferth yma, yn orchuddedig a'i flodeu gwynion, heb unrhyw gymhysgedd o ddail gwyrddion, a arddengys hefyd ddarlun tarawiadol o henaint. Pan y gorchuddir y pen a gwallt mor wyned a'r eira, dywedir fod "y pren almon" yn "blodeuo." "Coron anrhydeddus yw penllwydni, os bydd mewn ffordd cyfiawnder."

(Darllener Job xxxviii.)

## PENNOD VI.

### Y WINWYDDEN—YR OLEW-WYDDEN—Y PREN AFALAU.

YR oedd y winwydden yn un o gynhyrchion brasaf tir Palestina, a rhydd rai o'r eglurhadau mwyaf prydferth yn yr Ysgrythyrau sanctaidd. I ddarlunio sefyllfa o wir lwyddiant yn mysg yr Israeliaid, rhagfynega Hosea, y "blodeuant fel y winwydden;" i gofnodi gofal rhagluniaethol Jehofah dros Ei bobl, ni a ddarllenwn (Psalm lxxx.), "Mudaist winwydden o'r Aipht: bwriaist y cenhedloedd allan, a phlennaist hi, a pheraist i'w gwraidd wreiddio, a hi a lanwodd y tir;" a defnyddir yr un ffugyr hefyd gan Esaiah (v.).

Arddanghosodd grawnsypiau Escol i'r Israeliaid synedig engreifftiau o'r fath dyfiant nad oeddynt erioed wedi weled yn yr Aipht, er eu bod wedi cael eu codi yn llwyddianus yn y wlad hono; a phan yr enillasant feddiant o'r diriogaeth gyssegredig cawsant fod "gwaed y grawnwin" yn barod i'w gwasanaeth trwy yr holl wlad, o Escol i uchelderau Libanus, lle, yn ngwinllanoedd Celo-Syria yr oedd y grawn o faintioli mawr. Yr oedd "gwin Libanus" o bereidd-dra neillduol. Ffurfiai y winwydden a dyfai dros nen gwastad y ty, ac wedi ei meithrin ag ychydig gelfyddyd, gysgod adfywiol i'r trigolion, a darlunid yn brydferth amser o ddiogelwch a mwynhad heddychol, fel un yn yr hwn y gallai pob dyn eistedd o dan ei winwydden a'i ffigysbren ei hun, heb neb yn meiddio ei ddychrynu.

Cadarnha ein hadnabyddiaeth bresennol o Palestina yr oll a ddarllenwn yn yr Ysgrythyrau am dyfiant helaeth y winwydden, y gwaith a roddai i'r gwinllanwyr, a'r medr a'r gofal gyda pha rai y dylynent eu celfyddyd. Cafodd teithiwr diweddar wrth dramwyo y wlad oddeutu Bethlehem, hyd i ddyffryn mwyaf hyfryd, yn llawn o lysiau peraroglaidd, ac wedi ei blanu yn helaeth a gwinwydd. Cafodd allan mai dyffryn Escol ydoedd, a sicrhawyd ef gan y monachod, eu bod eto yn cael sypiau, hyd yn oed yn sefyllfa esgeulusedig bresennol y wlad, yn pwyso deg neu ddeuddeg pwys.

Ond yr Israeliaid, fel gormod yn mhob oes a gwlad, a gamddefnyddiasant y rhoddion yma o'r llaw Ddwyfol, a gwelir yn y rhan o Esaiah nodir i'w ddarllen ar ddiwedd y bennod hon, i anghymmedroldeb mawr

ddwyn arnynt y digofaint Dwyfol. Gymmaint yn well fuasai llwyr ymattaliad oddiwrth y moethau hyn, na'r pechod diraddiol oedd gan y prophwyd i'w gondemnio! Cyfarwyddir y prophwyd Joel i alw ar y "meddwyr" ac "yfwyr gwin" i ddeffroi ac udo, o herwydd fod yr Arglwydd wedi goddef i fyddin o locustiaid i oresgyn y wlad; "am y gwin newydd, Gosododd y winwydden yn ddifrod;" "sychodd y winwydden a'r gwin newydd."

Moses, pan yn llefaru wrth yr Israeliaid am y daioni a fwynhaent yn Nghanaan, a sonia am "olewŷdd" na phlanasant hwy; a chyfiawnha helaethder a gwerth y pren yma ei nodi yn mysg cynhyrchion gwlad yr addewid. Llefara Hosea am yr olew-wydden fel gwrthddrych o degwch, "A bydd ei degwch fel yr olewŷdden;" ond priodoledd mwy hynod ydoedd ei gwerth mawr. Yn mysg pob dosbarth yr oedd yn ddefnydd ymborth o fawr bris. Ar y dydd presennol â y dyn tylawd "allan at ei waith yn y maes ar doriad y boreu, neu cychwyna i daith, heb un ddarpariaeth amgen nag olew-wydd wedi eu plygu mewn nifer o'i dorthau *papyr-debyg;* ac ar hyn mae yn foddlawn. Yna mae agos bob dysglaid wedi ei chogyddio mewn olew, ac hebddo mae y wraig dda wedi dyrysu yn hollol; a phan y palla yr olew, â y llusern yn mhreswyl y tylawd allan. Heblaw hyny, mae yr holl gyflenwad o sebon yn y wlad hon (Syria) yn gynhyrch yr olew-wydd. Rhydd Habacuc, gan hyny, ardystiad tra tharawiadol o'i ffydd yn Nuw, pan y dywed, "Er i waith yr olewŷdd ballu, etto mi a lawenychaf yn yr Arglwydd; byddaf hyfryd yn Nuw fy iachawdwriaeth."

"Gwaith yr olewŷdd" a ddeallir yn well trwy y darluniad dylynol o'i harferion a'i ffrwythlonder mawr: "Oddieithr o dan amgylchiadau ffafriol neillduol ni ddwg rawn hyd y seithfed flwyddyn; ac nid yw y cnwd yn werth llawer hyd nes y byddo y pren yn ddeg neu bymtheg oed; ond yna mae "gwaith yr olewŷdd" yn dra enillfawr, a pharha y pren i roddi ei ffrwyth hyd yn hen iawn, fel rhai rhagorol y ddaear. Cyhyd ag y bo dernyn yn aros, er yn allanol yr edrycha y pren mor sych a'r post, eto parha i roddi ei lwyth o rawn olewaidd; ac am ugain o genhedlaethau casgla y perchenogion ffrwyth oddiar yr hen batriarch ffyddlawn."

Mae eglurhad tra phrydferth wedi ei roddi yn ddiweddar ar yr ymadrodd

hwnw yn Psalm cxxviii., yn mha un y dywed Dafydd, "Dy blant (fyddant) fel planhigion olewŷdd *o amgylch* dy ford." Teithiwr sylwgar a ddywed: "Dylynwch fi i'r llwyn, ac mi a ddanghosaf i chwi beth a awgrymodd y gydmariaeth. Yma yr ydym wedi taro ar eglurhad prydferth. Mae y pren hen a gwywedig yma yn gylchynedig, fel y gwelwch, gan liaws o ysbrigau ieuaingc a chynhyddol, y rhai a darddant o wraidd yr hen fonyn. Ymddanghosant yn ei gynhal, attegu, a'i gofleidio. Gallwn hyd yn oed dybied eu bod yn awr yn dwyn y llwyth o ffrwyth a fuasai oni bai hyny yn cael ei ofyn gan yr hen bren egwan. Fel hyn yr ymgasgla plant da a serchog o amgylch bord y cyfiawn. Cyfrana pob un rywbeth at gyfoeth a hawddfyd yr oll—golygfa hardd, gyda pha un bydded i Dduw adloni llygaid pob cyfaill i mi."

Gwneir gwahaniaeth yn yr ysgrifeniadau sanctaidd rhwng "prennau y coed" a "phrennau y maes." Fel hyn y ddarllenwn, "Gwywodd y winwydden, llesgaodd y ffigysbren, y pren pomgranad, y balmwydden hefyd, a'r afallen, a holl brennau y maes a wywasant; am wywo llawenydd oddiwrth feibion dynion." Wrth y dosbarth diwėddaf y deallir yn eglur prenau yn dwyn ffrwyth. Yn y rhif yma rhoddir lle amlwg i'r pren afalau, nid un ein hinsawdd ni, ond yr eurafalwydden, y *pren aroglus*, fel yr arwydda yr enw, oddiwrth y perarogl hyfryd a rydd. Mae yn hardd ynddo ei hun, yr oedd yn fwy felly wrth edrych arno mewn cyferbyniad i "brennau y coed." Felly y darllenwn, "Megis pren afalau ym mysg prennau y coed, felly y mae fy anwylyd ym mhlith y meibion; bu dda gennyf eistedd tan ei gysgod ef, a'i ffrwyth oedd felus i'm genau." "Nis gellir meddwl braidd am wrthddrych harddach nag eurafalwydden fawr ac ymledol, wedi ei llwytho ag afalau eurliw, ac wedi ei gwisgo a dail o'r gwyrdd tecaf. Dewisai Maundrell yr ardd oreins neu y llwyn eurafalwydd yn Beroot, ar arfordir Syria, i bob peth arall a gwrddodd yno."

Y fath ydoedd ei arogl adfywiol, fel y defnyddid ei ffrwyth euraidd yn berarogl; ac yn mysg hen arluniau Aiphtaidd, arddanghosir boneddigesau fel yn y weithred o arogli y ffrwyth yma, yn union fel y cymhwysir perarogl hyfryd yn ein dydd ni. Dengys hyn i ni wir feddwl yr ymadrodd, "Cynheliwch (cynhorthwywch neu adfywiwch) fi âg afalau."

**(Darllener Psalm lxxx. Hosea xii. Esaiah v. 1—7; xxviii. 1—8. Joel i. 1—13.)**

## PENNOD VII.

### Y LLEW—YR ARTH—Y LLEWPARD.

PAN yr aeth yr Israeliaid i'w gwlad addawedig, yr oedd ganddynt elynion ereill i ymladd yn eu herbyn heblaw y cenhedloedd arfog, gan ba rai y gwrthwynebid eu hymsefydliad. Mae Palestina, fel pob tiriogaeth lle y ffynha y graig galchfaen, yn hynod am rif a helaethder ei hogofäu; a ffurfiai y llochesfanau mawrion hyn gartrefi diogel i'r bwystfilod gwylltion yn ystod goleuni y dydd. I'w hattal rhag cynhyddu ar yr Israeliaid, caniatawyd i lawer o drigolion y wlad i gadw eu hetifeddiaeth ar ol i'r Hebreaid ymsefydlu yn eu mysg. Am hyn mae y cyfarwyddyd, "ni elli eu difetha hwynt ar unwaith, rhag myned o fwystfilod y maes yn amlach na thydi."

O herwydd y dull yn mha un y llywodraethir y wlad y dydd presennol, ac o ddiffyg poblogaeth weithgar a llwyddianus, mae llawer o ranau yn mha rai y ceir llewpardiaid mawrion, eirth, bleiddiaid, udfilod, ac anifeiliaid distrywiol ereill, mewn rhifedi mawr, ac y mae y pentrefwyr yn gorfod cadw yn arfog yn wastad rhag i'r dywalgi Syriaidd ymysglyfaethu ar y tylwyth a'r praidd.

Yn milhanes Canaan, mae y lle cyntaf yn ddyledus i'r llew mawreddog, yr hwn, er yn awr wedi ei yru yn ol i'r anialwch, a ddalia eto ei hen fawredd fel y "cryf ym mhlith anifeiliaid." Sicrha naturiaethwyr ni y gall ag un tarawiad o'i bawen dori cefn ceffyl, a chydag un ysgutiad o'i gynffon daflu dyn cryf i'r llawr. Fel yr ydym yn edrych arno yn awr yn fynych yn ei attalgell gref, gyda ei fwng anferth, a'i ysgythr-ddannedd cryfion, a'i lygaid o dân, ymddengys yn gynllun perffaith o gryfder a gwroldeb, a theimlwn yn ddiolchgar nad ydym a dan ei afaelion. Rhybuddia ei ruad a'i chwyrnad dwfn ni ei fod wedi cynhyrfu, a rhoddir ni ar ocheliad i beidio ychwanegu at ei fâr, canys dywedir wrthym nad oes yr un creadur pan ei cynhyrfir mor arswydus o ffyrnig. "Cura ei ochrau a'r llawr a'i gynffon, symmuda groen ei wyneb, cydbletha ei eiliau mawrion, dengys ei ysgythr-ddannedd dychrynllyd, a gwthia allan ei



LEIGHTON, BROTHERS.

LION, LIONESS, AND CUBS.


LEIGHTON, BROTHERS.

LEOPARD.

dafod, gyda ei bicellau arfog, mor galed fel y mae ei hun yn ddigon i rwygo y croen a'r cnawd heb gymhorth na'r dannedd na'r crafangau."

Mor beryglus ydoedd bywyd y bugail pan yr oedd ei braidd yn agored i ymosodiad y llew! ac eto dywed Dafydd wrth Saul, "Bugail oedd dy was di ar ddefaid ei dad; a daeth llew ac arth, ac a gymmerasant oen o'r praidd; ac mi a euthum ar ei ol ef, ac a'i tarewais ef, ac a'i hachubais o'i safn ef; a phan gyfododd efe i'm herbyn i, mi a ymaflais yn ei farf ef, ac a'i tarewais, ac a'i lleddais ef." Mae Duw wedi rhoddi awdurdod i ddyn dros y creaduriaid ffyrnig hyn i'w dinystrio hwynt, fel y darllenwn am Samson, ac hefyd am Benaiah, yr hwn "a ddisgynodd ac a laddodd lew mewn pydew yn amser eira." Bydded i ni sylwi hefyd fod cryfder ofnadwy y llew yn cael ei ddefnyddio i lenwi pechaduriaid ag arswyd y dialedd Dwyfol, i'r hwn, tra yn anedifeiriol, yr ydym yn sefyll yn agored. "Ond mi a fyddaf fel llew iddynt; megis llewpard ar y ffordd y disgwyliaf hwynt. Cyfarfyddaf â hwynt fel arth wedi colli ei chenawon, rhwygaf orchudd eu calon hwynt, ac yna fel llew y difaf hwynt."

Gwnai y llew yn fynych ei loches yn y planigion tewion a dyfent ar lanau dyfnion yr Iorddonen, a phan yn y gwanwyn y llifai yr afon hono dros ei glan isaf, yr anifail yn cael ei aflonyddu o'i orphwysfa, a âi allan er dychryn mawr i'r trigolion. Fel hyn arwyddai yr ymadrodd, "Fel llew y daw i fynu oddiwrth ymchwydd yr Iorddonen" (Jer. xlix, 19); y perygl mwyaf i'r troseddwyr a safent yn agored i'r llid Dwyfol.

Mae yr arth Syriaidd i'w chael eto yn mynyddoedd uwchaf y wlad. Dywed yr Hermoniaid y tafla yn ol gerig mawrion ar ei hymlidwyr gyda chyfeiriad diwyro a grym dychrynllyd. Mae yn elyn y cryna y dyn cryfaf yn ei bresennoldeb, oddieithr ei fod yn gyflawn arfog. Yn hyn yr oedd gwroldeb neillduol Dafydd, yr hwn pan yr oedd yr arth yn dianc gyda'r oen, a redodd ar ei hol, ac a'i lladdodd. Gwyddai i bwy i ddiolch am hyn, canys dywed, "yr Arglwydd a'm hachubodd."

Yr oedd y llewpard yn un o'r dinaswyr gwylltion hyny o wlad Israel, a wrthwynebent allu yr etifeddwyr newyddion, ac a'u cadwai yn wastad yn effro, pa un bynag ai gartref neu ar eu teithiau. Mae gan yr anifail yma "ystum ffyrnig, llygad anesmwyth, agwedd greulawn, mae yn dra ystwyth yn ei symmudiadau; mae ganddo dafod mor arw ag un y llew,

dannedd cryfion a miniog, pawenau caledion a llymion, croen hardd, yn amliwedig a 'brychni' duon crynion, ond yn agored i fwy o amrywiaeth na'r panther." Nis gall y llewpard golli y brychau hyn, ac ni wnai, fe ddichon, pe gallai, gan eu bod yn mawr harddu ei gob.

Rhoddir eglurhad hynod o'r dull yn mha un y "dofwyd gan natur ddynol" greaduriaid anwaraidd o'r math yma, yn ngeiriau trigianydd diweddar yn Syria, yr hwn ydoedd ei hun yn wrthddrych yr hanes. Mae yr olygfa yn agos i droed Mynydd Tabor, heb fod yn mhell o dref Nain.

"Yn foreu dranoeth, tra yn eistedd yn nrws fy mhabell yn ysmocio, fe'm cynhyrfwyd wrth weled panther (*nimr*) mawr, yn rhedeg ar hyd y gwastadedd, yn ymlid ar ol haid o gwn oeddynt wedi ymosod arno. Gan wneyd cylch hir, ysgubasant o gwmpas fy mhabell, pan y gadawodd y panther y cwn, neidiodd dros gornel y babell, lluchiodd fy mhibell i'r gwynt, ac yna llamodd i ffordd ar ol y cwn. Mewn mynyd rhagor dychwelodd, neidiodd i ben y babell, a rhoddodd ei hun i orwedd yno. Yr oeddwn wedi brawychu, ond eisteddais yn llonydd, ac fe neidiodd yn fuan o'r babell ac ymorweddodd yn ymyl fy nhraed. Yr oedd allan o anadl, a chwythai yn ofnadwy. Er nad mewn un modd yn foddlawn i gael y bwystfil ffyrnig mor agos, mi a gedwais fy llygad yn ddiysgog, ac wedi ei sefydlu yn llym ar ei un ef. Arosodd yn llonydd nes y daeth ei wyliwr o babell y penaeth i'w ddal eilwaith, yna chwyrnai yn ffyrnig, ac yr oedd yn barod i ymladd am ei ryddid, ac nid cyn iddynt ddyfod a pheth cig ffres y gallasant gael gafael arno. Yr oedd yn un dof, mor bell y gellir dofi *nimrs*, wedi ei ddwyn i fyny gan y penaeth i hela gafrewigod. Dywedodd y penaeth wrthyf y cymmer y *nimrs* hyn saith mlynedd i orphen eu prifiant, a chylch cyson o fagwraeth ofalus yr holl amser hyn i'w gwneyd yn helwyr da. Mae yn dra chyfrwys yn ei ddynesiad tuag at ei ysglyfaeth, gorwedda yn wastad ar ei fol, ymgropia braidd yn ddiarwybod tuag ato. Mae ei liw pryd hyny mor debyg i'r gwelltglas a'r sofl cylchynol, fel y dywedai y penaeth nas gallai gadw ei ol. Cyfrwysdroa fel hyn am oriau, nes o'r diwedd, pan mewn pellder naid, y llama ag un crychnaid dychrynllyd arno. Os metha ef, rhydd i fyny am y tro hyny, ac ni wna dim ei ddenu i ganlyn yn mlaen yr helfa."

(Darllener Psalm civ.)



LEIGHTON BROTHERS.

THE HORSE.

## PENNOD VIII.

### Y MARCH—ASYN SYRIA—Y CAMEL.

MEWN trefn i gadw yr Israeliaid oddiwrth gariad at rwysg milwrol, i gadw i lawr yr ysbryd rhyfelgar, ac i'w hattal i fod yn ymgymhysgedig a'r Aiphtiaid, gwaharddodd Duw i'w bobl rhag amlhau meirch. Y fath, modd bynag, yw prydferthwch ffurf, cryfder gewyn, yni tanllyd, yr anifail ardderchog yma, yn enwedig y rhywogaeth Aiphtaidd ac Arabaidd, fel y mae gennym ddarluniad ysbrydoledig wedi ei roddi trwy eneu Jehofah ei hun yn Llyfr Job. Mae y beirdd wedi ymhyfrydu i ddarlunio y march, ac y mae y beirdd Arabaidd wedi manwl nodi teithi edmygol eu meirch tanllyd; ond ni wna yr un darlun dynwyd gan yr hynafiaid, yn mysg y rhai rhaid crybwyll Homer a Virgil, ddal gyda'r adran yn Job.

Ni anufuddhawyd i'r cyfarwyddyd Dwyfol yn erbyn amlhau meirch hyd amser Solomon. Yna y brenhin "a gasglodd gerbydau a marchogion; ac yr oedd ganddo fil a phedwar cant o gerbydau, a deuddeg mil o farchogion, y rhai a osododd efe yn ninasoedd y cerbydau a chyd a'r brenhin yn Jerusalem." Prynwyd yr anifeiliaid hyn yn yr Aipht a'r gwledydd cylchynol, i ba rai yr oedd clod y teyrn mawr hwnw wedi cyrhaedd. Fel y mae un trosedd yn arwain i un arall, felly gwelwyd fod camwedd Solomon yn taenu yn helaeth anymddiried yn yr Arglwydd, ac arweiniodd yn y diwedd i eulun-addoliaeth yn y ffurf neillduol o aberthu meirch i'r haul. Dewisodd lliaws o genhedloedd paganaidd yr arferiad yma, o herwydd y dychymgent fod yr haul yn cael ei dynu o amgylch y nefoedd, mewn cerbyd wrth ba un yr oedd meirch tanllyd Apollo wedi eu harneisio. Mewn cydffurfiad a'r dyb yma cyflwynodd rhai o frenhinoedd Judah y goreuon o'u meirch i'r haul, gan eu gosod wrth brif byrth ei Deml. Felly y darllenwn pan y diwygiodd y brenhin da Josiah y llygredigaethau oeddynt wedi ymlusgo i mewn yn mysg ei bobl, "efe a ddifethodd y meirch a roddasai brenhinoedd Judah i'r haul, wrth ddyfodfa tŷ yr Arglwydd, wrth ystafell Nathan-melech yr ystafellydd, yr hwn oedd yn y pentref, ac a losgodd gerbydau yr haul yn y tân."

Mewn canlyniad i'r gwaharddiad a ddiystyrodd y Brenhin Solomon,

arferai yr Israeliaid boreuaf ddefnyddio asyn Syria yn lle yr anifail ardderchocach, Yr oedd yn bedwarcarnoliad hoff a thra defnyddiol yn eu mysg, yn arwyddlun o lwyth Issachar, yr hwn a ddarluniwyd fel "asyn asgyrnog yn gorwedd rhwng dau bwn." Gwerthfawrogir yn fawr yr anifeiliaid hyn yn Syria, ac yn y gwledydd Dwyreiniol cymmydogaethol. Maent o ffurf ysgafn a hardd, trodiad bywiog, tra ystwyth, a chyflym yn eu symmudiadau. Yr oedd y mathau tecaf yn cael eu hystyried yn eithaf cymhwys i gario y personau cyfoethocaf a mwyaf yn mysg yr Hebreaid. Yr oedd gan Jair, y Gileadiad cyfoethog, "ddeng mab ar hugain yn marchogaeth ar ddeg ar hugain o ebolion asynod, a deg dinas ar hugain oedd ganddynt, y rhai a elwyd Hafoth-Jair hyd y dydd hwn, y rhai ydynt yngwlad Gilead." Yr oedd gan Abdon y Pirathoniad, "ddeugain o feibion, a deg ar hugain o ŵyrion, yn marchogaeth ar ddeg a thriugain o ebolion asynod; ac efe a farnodd Israel wyth mlynedd." Yn yr amserau syml hyny, y Barnwyr a farchogent "ar asynod gwynion."


Ar ol amser Solomon, cafodd yr anifail isel yma ei ddiystyru gan y cyfoethogion a'r mawrion yn mysg y bobl, y rhai a farchogent yn ei le y march gwych-addurnedig, neu y mul. Trwy hyn, pan y darlunia y prophwyd Zechariah ddynesiad y Brenhin Messiah llariaidd, y dywed, "Bydd lawen iawn, ti ferch Sion; a chrechwena, ha ferch Jerusalem; wele, dy frenhin yn dyfod attat: cyfiawn ac achubydd yw efe; y mae efe yn llariaidd, ac yn marchogaeth ar asyn, ac ar ebol llwdn asen." Dychwelodd at arferiad syml a dirodres yr hen amseroodd, a chydymffurfiodd a gofynion yr hen ddeddfau hyny y daeth i'w hanrhydeddu a'u cyflawni.

Y camel, enw Hebrëig yr hwn sydd wedi dyfod yn air Cymraeg, a dderbynia ei gyfenwad oddiwrth nodwedd sydd yn bob peth ond dymunol. Arwydda y gair *gamel* i ad-dalu, a chofnoda y ffaith, er fod yr anifail camdriniedig yma yn nodedig o fwyn a hydrin, y cofia yn hir y cam a dderbyniodd, a dysgwylia y cyfle i ddial. "Digter y camel" yw ymadrodd yr Arab am elyniaeth anghymmodadwy. Y fath modd bynag ydyw gwerth y camel, "llong yr anialwch," fel y mae wedi gwneyd i fyny yn hir brif gyfoeth yr Arabiaid ac ereill. Yr oedd gan Job cyn ei golledion, dair mil o gamelod, a dwy waith y rhif hyny pan yr adferwyd ei lwyddiant.

Gwnaed yr anifail yma i dramwyo yr anialwch tywodlyd, ac y mae yn




ANTELOPES.



LEIGHTON, BROTHERS.

CAMELS.

nodedig o gyfaddas i'w diriogaethau angwesteiol. Mae ei droed wedi ei leinio a chlap o gnawd, yr hwn a'i cynhalia ar y tir tywodlyd, tra y mae ei ffurf ysgafn cydmarol, a'i alluogrwydd i ddioddef lludded gydag ond ychydig luniaeth, yn ei gymhwyso at y diriogaeth lle y mae ei wasanaeth yn fwyaf angenrheidiol. Mae ei neillduolion yn yr ystyr yma wedi cael eu darlunio yn fynych. Fel hyn y darllenwn, "yr ysgallen sychaf a'r ddraenen lymaf yw yr holl ymborth a ofyna, ac hyd yn oed y pryd hyny, er arbed amser, bwyttâ wrth fyned yn mlaen ar ei daith, heb aros nac achosi mynyd o oediad. Gan fod ganddo i deithio anialdiroedd mawrion, lle nad oes dwfr i'w gael, a gwledydd heb hyd yn oed eu lleithio a gwlith y nefoedd, mae wedi ei gynhysgaeddu a gallu mewn un dyfrle i gadw ystôr, gyda yr hwn y cyflenwa ei hun am ddyddiau i ddyfod. I gynhwys y swm dirfawr yma o wlybwr, mae Natur wedi gwneyd dyfrgistiau mawrion o'i fewn, o ba rai, wedi eu llenwi unwaith, fe dyna fel y myno yr hyn fydd arno eisieu, a thywallta ef i'w gylla.

Y dromedari sydd fath o gamel, yn fwy hynod am ei gyflymder nag am ei allu i gario llwythi trymion, fel y camel, yr hwn weithiau a lwythir â phum cant o bwysau. Mae gan yr anifail yma ffurf decach na'r camel, a chnwb bychan ar ei gefn. Dywed yr Arabiaid y gwna eu dromedariaid redeg dros gymmaint o dir mewn un dydd a'r march mewn wyth neu ddeg, ond y mae yn rhaid i ni bob amser oddef i'r Arab ryw fesur o drwydded farddonol. Llefara yr Ysgrythyrau am "y cyflym gamelod;" ac yr ydym yn cael, pan y dymunodd y Frenhines Esther anfon cenhadwriaethau gyda'r cyflymder mwyaf trwy frenhiniaeth Ahasferus, fod yr anifeiliaid hyn wedi eu defnyddio i'r diben. Adrodda Dr. Shaw, fod y *Sheic* a arweiniodd ei gwmni ef i Sinai, ar gefn dromedari, ac y gwnai yn fynych eu difyru hwy ag arddanghosiad o'i alluoedd, trwy ymadael oddiwrth y teithlu i arolygu un arall bron yn y golwg, a dychwelyd mewn llai na chwarter awr. Yr anifeiliaid hyn yw yr "anifeiliaid buain," at ba rai y bernir fod y prophwyd Esaiah yn cyfeirio, pan wrth ddarlunio troedigaeth y cenhedloedd, y dywed, "Hwy a ddygant eich holl frodyr o blith yr holl genhedloedd, yn offrwm i'r Arglwydd, ar feirch, ac ar gerbydau, ac ar elorau meirch, ac ar fulod, ac ar anifeiliaid buain."

(Darllener Job xxxix.)

## PENNOD IX.

### ANGHENFILOD Y NILE.

YN mysg yr anifeiliaid grybwyllir yn yr Ysgrythyrau sanctaidd, nid oes yr un yn fwy hynod nag anghenfilod y Nile—yr afon-farch a'r crocodeil—arddanghosir yn ein eglurhadau darluniadol. Yn ol barn y cyfieithwyr diweddar, darlunir yr anifeiliaid hyn yn Llyfr Job o dan yr enwau behemoth a lefiathan, er fod yr esbonwyr boreuaf yn barnu fod y cyntaf o'r enwau hyn yn cyfeirio at y cawrfil, a'r diweddaf at y morfil.

Feallai mai ychydig o'n darllenwyr ddarfu fethu defnyddio y fantais ar y cyfle i gael golwg ar yr hippopotamus—yr afon-farch—ac edrych ar yr anifail, yr hwn yn neillduol a deilynga eu sylw, fel y "pennaf o ffyrdd Duw." Fel yr ydym yn darsyllu ar ei gryfder aruthrol, ei groen anhydraidd, agoriad anferthol ei eneu, ei wancusrwydd mawr, ei gymhwysder i fyw ar dir neu mewn dwfr, i ymwibio ar lanau yr afon, neu ymsoddi i'w dyfnderoedd, yr ydym yn barod i briodoli iddo y neillduolrwydd sylwyd arno eisoes. "Mae yr afon-farch," meddai naturiaethwr, yr hwn sydd wedi sylwi yn ofalus ar ei arferion, "yn byw gan mwyaf yn y dwfr, a cherdda ar y gwaelod fel yn yr awyr agored, etto ceisia ei ymborth y rhan amlaf ar y tir, lle y difa gorsenau-sugr, brwyn, milet, rhisyd, gwreiddiau, a thyfolion o bob math, mewn dognau dirfawr, a difroda yn mhell ac agos y maesydd amaethedig. Heb ymfoddloni ar ddiffeithio y gwastad-diroedd, â yn mlaen yn y nos i'r bryniau a'r mynyddoedd, a dechreua o newydd ar ei anrheithiadau."

Yn y darluniad o arferion y creadur mawr yma roddir yn Job, dywedir wrthym, y gorwedda "dan goedydd cysgodfawr, mewn lloches o gyrs a siglenydd," ac yn gydunol a'r darluniad yma, mae yn wybyddus ei fod yn mynychu y cyrs a orchuddiant y morfa ac a ymylant yr afon. Y cyrs yw ei gyrchfa ddewisol; cyflenwant ef ag ymborth, a chysgodant ef rhag gwres canol dydd.

Er cryfed yw nerth yr afon-farch, ac er crculoned hyd yn oed mor bell



LEIGHTON, BROTHERS.

MONSTERS OF THE NILE.

a difa ei rai bach, eto nid yw y creadur bob amser heb ryw radd o diriondeb. Ymbortha ar bysgod, a phrofa yn elyn naturiol i'r crocodeil, ond y mae anifeiliaid y tir yn ddiogel pan yn pori wrth ei ochr. Ar y tir mae yn fwy ofnus nag yn y dwfr, a gyrir ef yn rhwydd yn ol o'r maesydd amaethedig. Yr ydym wedi sylwi mor barod yr ymsodda i'r dwfr, ac yr arosa yn ei ddyfnderoedd, ac yn y ddyfais yma, daw o hyd yn fynych i'w noddfa; canys, pan mewn perygl, ymsodda i'r Nile, a theithia bellder mawr cyn dyfod drachefn i'r wyneb. Dywedir wrthym fod yr Indiaid yn arfer a thaflu iddo ran o'u pysgod pan y daw yn agos i'w ceufadau, ac yr â wedi hyny heibio iddynt heb unrhyw niweid. Dywed Dampier wrthym hefyd, fel yr oedd ei gwch yn gorwedd yn agos i'r lan, i afonfarch fyned odditano, gan ei ddymchwelyd a'r chwe' dyn oedd ynddo, ond na wnaeth un drwg pellach.

Gan olygu lefiathan Llyfr Job yr un a'r crocodeil, gwel y darllenydd wrth ganlyn y darluniad, y modd yr atteba y crocodeil mewn amrywiol neillduolion i'r manylion o ba rai y gwneir y darluniad hwnw i fyny. Gwawdia holl offer y pysgotwr, yr hwn yn ofer a geisiai roi "bach yn ei drwyn ef," neu "dyllu asgwrn ei ên ef a mynawyd." Yn ychwanegol at y nerth sydd yn codi o'i faint a'i bwysau, mae ganddo amdiffyn neillduol yn ei orchudd cenog. "Ei falchder yw ei emmau, wedi eu cau ynghyd megis â sel gaeth. Y mae y naill mor agos at y llall, fel na ddaw gwynt rhyngddynt; pob un a lŷn wrth eu gilydd; hwy a gydymgyssylltant, fel na wahenir hwy." Mae rhai wedi honi mae y morfil yw yr anifail feddylid yn y darluniad o'r lefiathan, ond ni wna un cywreinrwydd deongliadol wneyd yr adroddiad yma yn gymhwysiadol i'r morfil. Gan y crocodeil, a'r dosbarth y perthyna iddo, yn unig y mae y gorchudd yma o liaws o lafnau ysgyrnog cryfion ac agos-gyssylltiedig, o dan amddiffyniad yr hwn nid ofnant un ymosodydd, ac ni ddiangant rhag un perygl. Wedi ei arfogi a'r amddiffyn yma, "efe a gyfrif haiarn fel pren pwdr. Ni phar saeth iddo ffoi, cerrig tafl a droed iddo yn sofl;.... efe a chwardd wrth ysgwyd gwaywffon." Profa y creadur arswydol yma wedi ei amgau fel hyn yn ei lurig, yn anarcholladwy, pyla fin y cleddyf, tora big y waywffon, a phar i'r saeth union-gyfeiriol neidio yn ol.

Pan wedi ymddigoni ar ei ysglyfaeth, gadawa y crocodeil ddyfnder-

oedd yr afon, i orphwys ar ei glanau, ond ni feiddia neb aflonyddu ar ei gwsg, "nid oes neb mor hyderus a'i godi ef." Mae ganddo ei amddiffyn hefyd yn esgyrn yr ên anferthol hyny, arfogedig â dannedd fel pe buasent gynnifer o waywffyn a chleddyfau. Gall pob un a welodd yr anifail, neu y darlun o hono, deimlo grym yr ymofyniad, "Pwy a egyr ddorau ei wyneb ef? ofnadwy yw amgylchoedd ei ddannedd ef." Mae y dannedd hyn yn driugain mewn rhif, ac i gyd yn "ofnadwy o amgylch." Tafla rhai allan fel ysgythr-ddannedd yr arth, ereill yn gyssylltiol fel dannedd crib, ac y mae y brathiad yn nesaf i anwelladwy, hyd yn oed pe digwyddai i'r ysglyfaeth fwriadol ddianc. Anfynych y cyrhaeddir diangfa gan unrhyw beth a syrth o fewn yr esgyrn gên anferthol hyny, canys fel y morgi, gall y crocodeil ranu y corff dynol âg un brathiad.

Dywedir wrthym y troa ei wyneb at yr haul pan y cysga ar lanau yr afon, ac yn y sefyllfa yma deua mor boeth, fel y gwna yr anadl, wthir yn rymus trwy y ffroenau, ffrydio allan gyda'r fath angerddolrwydd, fel yr ymdebyga i ffrwd o oleuni. Mae gradd uchel o brydferthwch barddonol yn y darluniad o'i lygaid, y rhai a gydmerir i "amrantau y bore." Ymddengys yr haul yn codi o'r môr gyda llewyrch pwl, edwinol, gan gynhyddu fel yr ymddyrchafa uwchlaw y gorwel, ac felly ymddengys llygad y lefiathan yn bwl fel y cyrhaedda y wyneb, gan gynhyddu mewn dysgleirdeb fel yr ymryddha o'r dwfr. Ymddengys i'r Aiphtiaid sylwi ar y tebygrwydd yma mewn cyfnod boreuol, a chymmeryd llygaid y crocodeil fel arwyddlun o'r wawr.

Y fath yw y lefiathan. Ond gyda ei holl ddychrynfeydd i ddyn, mor wan ydyw ger bron braich hollalluog ei Luniwr! "Ti yn dy nerth a berthaist y môr; drylliaist bennau dreigiau yn y dyfroedd. Ti a ddrylliaist ben lefiathan, rhoddaist ef yn fwyd i'r bobl yn yr anialwch." Mor wan y profa y brenhinoedd cryfaf pan yr ymladdant yn erbyn Brenhin y Brenhinoedd! Gan gyfeirio at Frenhin yr Aipht, dywed Esaiah, "Y dydd hwnw yr ymwêl yr Arglwydd â'i gleddyf caled, mawr, a chadarn, â lefiathan y sarph hir-braff, ie, â lefiathan y sarph dorchog."

(Darllener Job xl.)



LEIGHTON, BROTHERS.

THE EAGLE.

## PENNOD X.

### "YR UNICORN"—ESTRYS—GWALCH—CIGFRAN—ERYR—CWNINGEN—MORGRUGYN

At y planhigion a'r anifeiliaid yn Palestina a'r gwledydd cymmydogaethol a sylwyd eisoes arnynt, byddai yn dda i ychydig o engreifftiau ereill o hanesiaeth naturiol gael eu hychwanegu, i'r diben o egluro y cyfeiriadau wneir atynt yn Ysgrythyrau yr Hen Destament.

Yr "unicorn" grybwyllir yn Job xxxix. yw yn debygol y rhyncorn, at yr hwn y cymhwysa yr Arabiaid yr enw Hebrëig *reem*. Defnyddia yr hen Roegiaid air yn arwyddo "un-gorniog" i'r rhyncorn, yn debygol o achos y tafliad allan corniog ar ran blaen ei ben. Ni wna neb ystyried y dynodiad yn gymhwys i anifail dychymygol yr herodwyr, ond dylid cofio i'r diweddar John Campbell ddwyn o Ddeheudir Africa ben rhyncorn, a'r corn wedi ei ddad-blygu mor llawn fel ag i gyfiawnhau y dynodiad o anifail uncorniog. Gellir ei weled yn Amgueddfa y Gymdeithas Genhadol Llundain. Dywed ei ddarganfyddwr yr ymddengys oddiwrth ei bwysau a gosodiad y corn, yn alluog i orchfygu unrhyw greadur adnabyddus hyd yn hyn. Gan fod yr holl gorn yn berffaith galed, gwna y brodorion o un corn bedwar carn i'w cadfwyeill.

Mae y rhan yma o Lyfr Job yn gyfoethog o hanesiaeth naturiol, i'r diben o ddangos i ddyn mor wan ydyw i'w gydmaru a rhyfeddodau byw ereill o law y Creawdwr. Yma cawn y paun gyda ei "adenydd hyfryd." Tynodd yr aderyn yma trwy ei ffurf hardd, ei agwedd dlws, a'i blu ysblenydd, sylw marchnadyddion Solomon, pan yr hwyliasant i Persia, ac yn mhellach drachefn i'r dwyrain, mewn ymchwiliad am gynhyrchion godidog a newydd. "Unwaith yn y tair blynedd y deuai llongau Tharsis, yn dwyn aur, ac arian, ac ifori, ac eppäod, a pheunod."

Ymddengys y crybwyllir am yr estrys fel eglurhad ar yr egwyddor ad-daliadol welir mor fynych mewn natur, yn mha un y mae diffyg amlwg yn cael ei gyflenwi gan ryw drefniad neillduol. Mae gan yr estrys adenydd hynod o fyrion, ond gwna iddynt ymysgwyd gyda'r fath gyflymder fel ag i gynhorthwyo yn fawr ei symmudiadau buain, fel yn

"yr amser yr ymgodo hi yn uchel, hi a ddiystyra y march a'i farchogion." Gyda ei holl gryfder mae yr estrys yn ddiffygiol mewn doethineb, canys hi "a âd ei hwyau yn y ddaear, ac a'u cynhesa yn y llwch, ac y mae hi yn gollwng dros gof y gallai droed eu dryllio hwynt, neu anifail y maes eu sathru."

Wrth y gwalch gallwn, fe allai, ddeall y gwahanol rywiogaethau o lwyth yr hebog; a thybir fod y gofyniad, "Ai trwy dy ddoethineb di yr eheda y gwalch, ac y lleda efe ei adenydd tu a'r dehau?" yn cyfeirio at arferiad y rhywogaeth hon ac ereill o symmud i'r tiriogaethau deheuol ar ddynesiad yr oerni, a dychwelyd i'r gogledd gyda thoriad y gwanwyn. Cyfeirir at yr ehediadau dirgelaidd hyn i ni gan Jeremiah: "Ie, y ciconia yn yr awyr a edwyn ei dymhorau; y durtur hefyd, a'r aran, a'r wennol, a gadwant amser eu dyfodiad; ond fy mhobl ni wyddant farn yr Arglwydd." Nid yw dyn, gyda yr holl wyddoriaeth mae wedi gyrhaedd, etò yn alluog i ddarlunio y greddfau trwy ba rai y cesglir y teithwyr pluog hyn ar y tymhor priodol, a'r cyfarwyddwyr wrth ba rai y rheolant eu mordaith allan ac adref, gan gyrhaedd eu lle amcanedig.

Mae y gigfran, un o'r adar aflan, oddiwrth ei phlu tywyll, ei llais garw a thrwm, ei harferion gwrthun, a'r creulondeb gyda pha un yr ysglyfaetha ar anifeiliaid byw a diamddiffyn, yn wrthddrych o gasineb cyffredinol. Eto mae gan y gigfran ei lle ei hun wedi ei benodi iddi yn "nghadwyn bodolaeth," a gwna ei rhan o wasanaeth i "Arglwydd pawb." Cafodd fyned ar ei nheges o'r arch pan oedd dyfroedd y Diluw yn treio. Mae weithiau yn gyflawnydd yr ewyllys Ddwyfol yn erbyn plant gwrthryfelgar, fel y darllenwn, "Llygad yr hwn a watwaro ei dad, ac a ddiystyro ufuddhau ei fam, a dynn cigfran y dyffryn, a'r cywion eryrod a'i bwytty." Wrth yr un gorchymyn mae y cigfrain wedi myned ar neges o drugaredd at ŵr Duw. Dewiswyd yr aderyn aflan hwn gan Jehofah i ddarparu i Elias, pan wrth afon Cerith yr ymguddiodd rhag y brenhin drygionus Ahab. (1 Bren. i. 17.) Ac nid yw Duw yn ddiofal am y rhan yma o'i greaduriaid, canys pwy ond Efe "a ddarpar i'r gigfran ei bwyd?"

Mae gan frenhin yr adar ei le yn y Llyfr hwn yn gystal a brenhin y bwystfilod. Mae y darluniad yn deilwng o'r creadur ardderchog at yr hwn ei cymhwysir: "Trig efe ac erys mewn craig, ac ar ysgythredd y



LEIGHTON, BROTHERS.

THE OSTRICH.



LEIGHTON, BROTHERS.

THE PELICAN AND STORK.

graig, a'r lle cadarn. Oddiyno y chwilia am fwyd, ei lygaid a ganfyddant o bell. Ei gywion hefyd a sugnant waed; a lle y byddo celanedd, yno y bydd efe." Mor wir yw am ei lygaid y "canfyddant o bell," gan "y credir bob amser y gall pan wedi ymgodi i'r awyr i uchder a'i gwna yn anweladwy i lygad dynol, ganfod symmudiadau anifeiliaid tra bychain ar wyneb y ddaear."

Mae gan rai anfeiliaid grybwyllir yn yr Ysgrythyrau sanctaidd, er yn adnabyddus yn y wlad hon, neillduolion arbenig, pa rai a roddant eglurhadau Biblaidd tra dyddorol. Rhoddir yr engreifftiau dylynol gan Dr. Hamilton yn ei waith bychan gwerthfawr, "Y Lamp a'r Llusern."

"Arferai pobl ystyried cwningod Solomon yr un a'n rhai ni, y rhai yn wir 'nid ydynt bobl rymus,' ond ni 'wnant eu tai yn y graig.' Yn awr gan ei fod wedi ei gael allan mai y wningen yw y *daman*, neu *hyra*, creadur gwylaidd diamddiffyn, yr hwn a ymlecha yn nghlogwyni y mynyddoedd, ac a bicia i'w wâl ar y dynesiad lleiaf o berygl, cyrhaedda geiriau Agur eu llawn arwyddocâd. Pan y dywed Solomon, 'Cerdda at y morgrugyn, tydi ddiogyn; edrych ar ei ffyrdd ef a bydd ddoeth; nid oes ganddo neb i'w arwain, i'w lywodraethu, nac i'w feistroli, y mae efe yn parattoi ei fwyd yr haf, ac yn casglu ei luniaeth y cynhauaf;' nis gall fod yr amheuaeth leiaf ei fod yn priodoli rhagddarbodaeth bentyrol i'r motgrugyn. Ond gan na wyddir am yr un rhywogaeth Europeaidd yn pentyru ystôr, mae wedi bod yn arferol i ddeall yr adnod fel cyfaddasiad i syniad poblogaidd. Gall fod felly; ond y mae yn Asia yn y fan leiaf un rhywogaeth ystôr-gasglyddol. 'Yn Mehefin, 1829,' meddai y Milwriad Sykes, 'yn fy rhodfa foreuol, mi a sylwais ar fwy nag ugain o bentyrau bychain o hadau porfa *(panicum)* mewn amrywiol fanau, ar dir anniwylledig, yn agos i'r cad-drefnfa (yn Poonah); cynhwysai pob pentwr oddeutu llonaid llaw. Trwy ymchwiliad cefais eu bod wedi eu codi gan fath o forgrug *(atta providens)*, cannoedd o ba rai oeddynt ar waith yn dwyn yr hadau i'r wyneb o ystôr oddi lawr. Gwlychodd y grawn yn debygol ar ddechreuad y cylchwynt, a chymmerodd y morgrug fantais ar y diwrnod heulog cyntaf i ddod ag ef i fyny i sychu. Rhaid fod yr ystôr wedi ei gasglu o amser addfediad yr hadau porfa yn Ionawr a Chwefror.'"

(Darllene Job xxxix.)

## PENNOD XI.

### ACHUBWYR DIALEDDOL ISRAEL.

O YMSEFYDLIAD yr Israeliaid yn ngwlad yr addewid a marwolaeth Joshua, hyd ddewisiad eu brenhin cyntaf, cyrhaedda yr hanes cyssegredig am ysbaid o dros drichant o flynyddoedd. I'r rhan yma o'r hanes mae un o lyfrau yr Hen Destament yn neillduedig, ac os darllenir ef gyda chyfeiriad priodol at ddaearyddiaeth y wlad a'r tiriogaethau cymmydogaethol, yn gystal ag amgylchiadau neillduol yr Israeliaid mewn perthynas i'r bobl yr oedd ganddynt i'w gorchfygu, gwna yn fynych enyn cymmaint o ddyddordeb a ffugchwedl hanesyddol, tra y byddai yn annichonadwy prisio yn rhy uchel ei werth fel rhan o hanes ysbrydoledig.

Cawsai etifeddwyr newyddion y wlad hon, pe buasent wedi cyflawni y gofynion Dwyfol, fwynhau y meddiant tawel o honi; cyrchasent i'r Tabernacl cyssegredig, sefydlwyd yn awr yn Siloh, yn agos i Gibeon, lle dair gwaith yn y flwyddyn y cynhaliesid eu gwyliau cyssegredig; tra trwy y tiriogaethau hyfryd roddwyd iddynt, y cawsai y llwythau fwynhau bendith Jehofah ar eu llafur yn y maes, ac y tywynasai canwyll yr Arglwydd ar eu trigfanau. Y fath, yn anffodus, nid ydoedd nodwedd y bobl yma yn ystod un cyfnod hirfaith o'u hanes, os eithriadwn y genedlaeth aeth i Ganaan gyda'r gorchfygwr. Yr oeddynt hwy yn ddynion a feddent ffydd gref yn Nuw, a phrofasant yn gymhwys i'r cyfnod yn mha un yr oeddynt yn byw, a'r genhadwri oedd ganddynt i'w chyflawni. Felly y darllenwn: "A'r bobl a wasanaethasant yr Arglwydd holl ddyddiau yr henuriaid y rhai a fu fyw ar ol Joshua, y rhai a welsent holl fawrwaith yr Arglwydd, yr hwn a wnaethai efe er Israel."

Nid rhai felly ydoedd eu dylynwyr uniongyrchol, canys "cyfododd oes arall ar eu hol hwynt, y rhai nid adwaenent yr Arglwydd, na'i weithredoedd a wnaethai efe er Israel." Rhoddir crynodeb byr o'r hanes yma yn y rhan sydd yn ol o'r bennod hon (ii.), oddiwrth ba un dealla y darllenydd paham yr oedd Barnwyr yn ofynol ar y cyfnod hwn, a pheth oedd y dyledswyddau oedd ganddynt i'w cyflawni. "Yr Arglwydd a gododd

farnwyr, y rhai a'u hachubodd hwynt o law eu hanrheithwyr." O'r braidd y gwna ein term ni, Barnwyr, gyfleu syniad dynodiadol o'r dosbarth pwysig yma o bersonau, y rhai a ellir yn hytrach eu hystyried yn ol yr enw wrth ben y bennod hon, fel Achubwyr Dialeddol Israel. Nis gallwn lefaru am danynt fel hil o ba rai yr oedd olyniad rheolaidd, fel gyda'r brenhinoedd, yn gymmaint ag y gelwid hwy at eu gwaith yn unig pan yr oedd achos yn gofyn gan Jehofah, yr hwn yn drugarog a glywai y cri o gyfyngder yn cyfodi oddiwrth Ei bobl wrthryfelgar. Yr oedd y rhinweddau a feddai yr achubwyr hyn bob amser yn gymhwysiadol i'r amgylchiadau yn mha rai y gelwid arnynt i weithredu, tra yr oedd y gwasanaeth neillduol y galluogwyd hwy i'w wneyd i'w cenedl, yn rhoddi prawfion hynod fod Jehofah eto yn ymarfer rhagluniaeth neillduol ar ran Ei bobl. Cyfeiria yr Apostol at yr achubwyr hyn, pan y dywed, "yr amser a ballai i mi i fynegi am Gedeon, am Barac, ac am Samson, ac am Jephthah."

Yr un diweddaf enwyd o'r gwroniaid enwog hyn oedd Jephthah, y Gileadiad, wedi ei enwi felly oddiwrth ei dad a'r wlad yn yr hon yr oedd yn byw, yr ardal fynyddig i'r dwyrain i'r Iorddonen, perthynol i'r ddau lwyth a haner. Am ddeunaw mlynedd cafodd y llwythau hyn eu gormesu gan yr Ammoniaid, i'r rhai yr oedd Jehofah wedi eu gwerthu am eu gwrthgiliad gwrthun, canys yr oeddynt wedi dyfod yn addolwyr duwiau meibion Ammon. Yr oedd eu gormeswyr wedi hyd yn oed groesi yr Iorddonen, ac wedi ymladd yn llwyddianus yn erbyn llwythau Judah a Benjamin. Yn y cyfyngder gynhyrchwyd fel hyn, llefasant ar yr Arglwydd, yr hwn yn gyfiawn a'u cyhuddodd hwy am eu camweddau, a dywedodd, "Ewch, a llefwch at y duwiau a ddewisasoch: gwaredant hwy chwi yn amser eich cyfyngdra." Yn eu hawydd difrifol am waredigaeth, bwriodd yr Israeliaid ymaith eu heilunod, cyfaddefasant eu pechodau, a llefasant yn uchel am drugaredd, a chlybu Jehofah eu llef. "A'i enaid ef a dosturiodd, o herwydd adfyd Israel," a chyfododd achubwr.

Ar y pryd hyny, yr oedd yn byw yn rhan ogleddol tiriogaeth Manasseh, yn Tob, ŵr, yr hwn ydoedd yn fath o alltud o'i lwyth, a'i drosedd ydoedd mai estronyddes oedd ei fam. At yr alltud yma, yr hwn a feddai nifer o ganlynwyr diddeddf, cyrchodd prif ddynion Gilead am gymhorth, yr hyn, modd bynag, ni roddai hyd nes yr ymrwymasant yn ddifrifol i'w

wneyd ef yn ben, a chadben arnynt, os profai yn fuddugoliaethus. Cadarnhawyd yr ymrwymiad yma gan Jephthah yn mhresennoldeb y pentwr o dystiolaeth a gododd Jacob eu cyndad, ac oddiwrth yr hyn y derbyniodd eu cartref yr enw Gilead.

Nid cynt y cadarnhawyd yn ddifrifol y cytundeb yma, nag yr ydym yn cael Jephthah yn cael ei gyfarch gan frenhin yr Ammoniaid, yr hwn a anfonodd y cyhoeddiad yma o ryfel, ac a adhawliodd y diriogaeth a roddodd Jehofah i Israel. I'r hawliad yma rhydd Jephthah ei attebiad gyda manylder neillduol, gan ddangos cyfiawnder y rhyfel ar yr hon yr oedd ar gychwyn, a chan wneyd ei appeliad at Jehofah y Barnwr: "Am hynny ni phechais yn dy erbyn di, ond yr ydwyt ti yn gwneuthur cam â mi, gan ymladd yn fy erbyn; yr Arglwydd farnwr a farno heddyw rhwng meibion Israel a meibion Ammon."

Yn awr cawn y gwron wedi ymarfogi â'r Ysbryd at ei waith: "Daeth yspryd yr Arglwydd ar Jephthah, ac efe a aeth dros Gilead a Manasseh, ac a aeth dros Mispah Gilead, ac o Mispah Gilead yr aeth efe drosodd at feibion Ammon;" a rhoddodd yr Arglwydd yr Ammoniaid yn ei law ef. "Ac efe a'u tarawodd hwynt o Aroer hyd oni ddelych di i Minnith, sef ugain dinas, a hyd gwastadedd y gwinllanoedd, â lladdfa fawr iawn. Felly y darostyngwyd meibion Ammon o flaen meibion Israel."

Cyn cychwyn ar y rhyfel, syrthiodd i'r camgymmeriad a'r pechod o wneyd yr "adduned fyrbwyll," â'r hon y mae ei enw yn gyssylltiedig hyd y dydd hwn. Ni ofynodd Jehofah ganddo ddyweyd: "Yr hwn a ddelo allan o ddrysau fy nhŷ i'm cyfarfod, pan ddychwelwyf mewn heddwch oddiwrth feibion Ammon, a fydd eiddo yr Arglwydd, a mi a'i hoffrymaf ef yn boeth-offrwm." Gwelwch y trychineb y tynodd ei hun a'i blentyn iddo! Dychwela yn achubwr ei wlad, a'r un ymroddedig sydd yn dyfod i'w gyfarfod, yw ei ferch ei hun, ei unig-blentyn! Hawlia yr iaith grefyddol yn yr hon y cyfarchodd ei thad ein hedmygedd, a gwasanaetha i ddangos i ni fawredd colled y rhiant hwnw.

Fel hyn dïofrydwyd merch Jephthah, nid yn aberth—canys ni dderbyniasid aberth dynol o'i law—ond i fywyd o wyryfiaeth parhaus, yn ol yr "adduned a addunasai efe."

(Darllener Barnwyr xi.; xii. 1—7.)



LEIGHTON, BROTHERS.

JEPTHA'S RASH VOW.

## PENNOD XII.

### GEDEON A'R MIDIANIAID.

"A MEIBION Israel a wnaethant ddrwg yngolwg yr Arglwydd; a'r Arglwydd a'u rhoddodd yn llaw Midian saith mlynedd." Mae y geiriau hyn i'r hanesydd cyssegredig yn dwyn i sylw ddarlun mwyaf adfydus o'r trueni a'r diraddiad i'r hwn y dygwyd plant Israel mewn canlyniad i oresgyniad y Midianiaid, "meibion y dwyrain," y rhai oeddynt wedi croesi yr Iorddonen a gwersyllu yn nhiriogaeth Manasseh, Aser, Zabulon, a Naphtali. "Canys hwy a ddaethant i fynu a'u hanifeiliaid, ac a'u pebyll, a daethant fel locustiaid o amldra; ac nid oedd rhifedi arnynt hwy, nac ar eu camelod; a hwy a ddaethant i'r wlad i'w distrywio hi." Gyrwyd yr Israeliaid o'u trigfanau eu hunain, a gorfodwyd hwy i ymguddio yn "y llochesau sydd yn y mynyddoedd, a'r ogofeydd, a'r amddiffynfaoedd." Dylid sylwi fod ogofeydd yn lliosog yn Palestina, fel yn mhob gwlad lle y ffynha y garreg galch.

Yn eu hadfyd llefodd plant Israel ar Jehofah, yr hwn a anfonodd brophwyd i ddangos iddynt eu pechodau, ac i'w ceryddu am eu heilunaddoliaeth gwrthun. Anfonodd hefyd "achubwr dialeddol" yn mherson Gedeon, i weithredoedd gwronaidd yr hwn y defnyddir rhan helaeth o'r hanes dyddorol yma. Mae yr hanes yma, fel pob un arall roddir yn y Bibl, yn cael ei gadarnhau yn hynod yn ei amrywiol fanylion, gan y rhai ydynt wedi ymweled â'r golygfeydd am ba rai yr adrodda, ac wedi cyfeirio eu sylwadau at ddygwyddiadau yr ystori gyssegredig.

Pan yr ymddengys Gedeon gyntaf yn yr hanes, mae "yn dyrnu gwenith wrth y gwinwrŷf, i'w guddio rhag y Midianiaid." Ca y teithiwr yn awr y llawr dyrnu hâf yn y wlad agored, mewn safle ddyrchafedig, lle delir yr awel; ond nis gall Gedeon nithio ei rawn yn y lle manteisiol yma, rhaid ydyw iddo ei guddio yn y winllan, fel ar y dydd presennol mae gan y Syriaid gorthrymedig i gadw eu cynhyrch rhag llygaid y Bedwaid. Pan wrthi fel hyn, "Angel yr Arglwydd a ymddanghosodd iddo ef, ac a ddywedodd wrtho, Yr Arglwydd sydd gyda thi, ŵr cadarn nerthol." Eisteddai dan dderwen, pren a gwrddir yn fynych yn agos i'r

gwinwryf, a chysgod yr hwn a brofai yn dra derbyniol o dan haul cynhauaf y wlad boeth hono.

Yn cael ei gysuro gan y sicrhad, "Yr Arglwydd sydd gyda thi, ŵr cadarn nerthol," tynodd Gedeon ddarlun effeithiol o'r caledi i'r hwn yr oedd ei bobl a'i deulu tylawd yn Manasseh wedi eu dwyn, a chanddo ffydd yn y dadganiad annogaethol, dymunai ddangos anrhydedd a chroesaw i'r ymwelydd nefol, gan yr hwn y gwnaed ef. Felly, "Gedeon a aeth i mewn, ac a barattodd fynn gafr, ac epha o beilliaid yn fara croyw; y cig a osododd efe mewn basged, a'r isgell a osododd efe mewn crochan, ac a'i dug atto ef dan y dderwen, ac a'i cyflwynodd."

Profodd yr hyn a fwriadwyd yn wledd i negesydd nef-anfonedig yn aberth derbyniol i Dduw; canys "angel Duw a ddywedodd wrtho, Cymmer y cig, a'r bara croyw, a gosod ar y graig hon, a thywallt yr isgell. Ac efe a wnaeth felly. Yna Angel yr Arglwydd a estynodd flaen y ffon oedd yn ei law, ac a gyffyrddodd a'r cig, ac a'r bara croyw; a'r tân a ddyrchafodd o'r graig, ac a ysodd y cig, a'r bara croyw. Ac Angel yr Arglwydd a aeth ymaith o'i olwg ef." Ac yn awr, yr ymwelydd dirgelaidd hwn, "ni ymddanghosai yn hwy yn ddyn." Onid allwn ddychymygu y ffurfnewidiad ryw beth ar y dull ddarlunir gan fardd i ni?

> "Ei ieuangc wedd yn decach fwynach âi;
> Ei wisg drôai'n wen, gorchuddio'i draed a wnaî;
> Mae'n gylchau am ei wallt belydron teg;
> Trwy'r awyr chwytha peraroglau chweg;
> A lliwiau'r esgyll d'wnai ar y dydd,
> Ac ar ei gefn y plu yn llydan sydd;
> Y ffurf awyrol dyr i'w olwg ef,
> Symmuda fel goleuni pur y nef."

Yn ufudd i'r gorchymyn Dwyfol, dymchwelodd Gedeon yr allor, a thorodd i lawr lwyn Baal, cyfododd allor i Jehofah, a chyflwynodd yr offrwm pennodedig. Gan herio Baal a'i addolwyr, ennillodd yr enw Jerubbabel, *dadleued Baal*, ac aeth gydag Ysbryd yr Arglwydd arno i gasglu ei lwyth ei hun, a'r llwythau cymmydogaethol, i frwydr a'u goresgynwyr.

Dengys hanes Gedeon y modd y gall Jehofah waredu gydag ychydig, yn gystal a chyda llawer, ac y mae y fuddugoliaeth roddwyd i'r fyntai

wrol o dri chant, ar ol gollyngiad ymaith yn nghyntaf o ddwy fil ar hugain, ac yna o ddeg mil yn rhagor, yn ein hadgoffa y gwnai achos Duw a'i wirionedd ennill buddugoliaethau mwy pe eu gwaredid rhag cymhorth y rhai hyny nad ydynt yn iawn o "du yr Arglwydd," ac "at wirionedd yn gryf ar y ddaear."

Mewn eglurhad o'r dull hynod yn mha un y cuddiodd y rhyfelwyr gwrol hyn eu lampau mewn piserau pridd, dysgwn nad oedd y trefniad mewn un modd yn anghyffredin. Yn y wlad fu yn dyst o'r fuddugoliaeth ryfeddol, yma, dywed ysgrifenydd Cristionogol, "Mi a welais yn fynych lamp olew fechan y brodorion yn cael ei chario mewn 'piser,' neu lestr pridd, yn y nos."

Deallir yn well y freuddwyd am dorth o fara haidd yn ymdreiglo i wersyll y Midianiaid, fel yr adroddwyd gan un o'r bobl wrth ei gyfaill, ac a glybuwyd gan Gedeon a'i was, ar ol i'r darllenydd fyned dros y sylwadau canlynol.

"Ni a allwn gofio nad yw y bara *haidd* yn cael ei fwytta ond yn unig gan y *tylawd a'r anffortunus.* Nid oes dim yn fwy cyffredin nag i'r bobl hyn, ar y dydd hwn, i achwyn nad yw eu gormeswyr wedi gadael dim iddynt ond *bara haidd* i'w fwytta. Yr wyf yn cofio mai dyma ydoedd cwynfan amaethwr cyfoethog, yr hwn a farchogai gyda mi yr haf diweddaf o Zer'in i Jenin. Tybid yn naturiol gan hyny fod y dorth yma o fara haidd yn perthyn i'r Israeliaid gorthrymedig, daeth i lawr o'r mynydd lle y gwyddid fod Gedeon, dymchwelodd y babell, fel y syrthiodd i lawr, gan rag-gysgodi dinystr o ryw gyfeiriad ne'i gilydd. Yr oedd yn wrthwynebydd dirmygus, ac eto o'r braidd yr oedd yn fwy felly na Gedeon yn ngolwg y Midianiaid balch. Nid yw fod y deonglydd wedi taraw ar yr eglurhad roddwyd gan hyny yn dra hynod; ac os oedd y Midianiaid yn arferol yn eu caneuon rhygomiol, o alw Gedeon a'i fyntai yn '*fwyttawyr bara haidd,*' fel eu holynwyr, y Bedwaid trahausfalch yma a wnant yn fynych i wawdio eu gelynion, byddai y cymhwysiad yn fwy naturiol fyth. O'r hyn leiaf, darllenodd y deonglydd y ddameg yn iawn, a chyrhaeddodd wir amcan y rhamant." "Felly y darostyngwyd Midian o flaen meibion Israel."

(Darllener Barnwyr vi.—viii.)

## PENNOD XIII.

### SAMUEL.

Yr olaf a'r mwyaf hybarch o'r gwyr hynod hyny a farnasant Israel cyn sefydliad y frenhiniaeth ydoedd Samuel, yr hwn a "roddwyd i'r Arglwydd" o'i febyd; a bywyd hirfaith yr hwn o bedwar ugain a deg a dreuliwyd yn Ei wasanaeth. Adgofia ei enw, a arwydda "ofynwyd gan Dduw" i ni am weddi ei fam dduwiol Hannah, gwraig Elcanah, yr hon fel yr addolai o flwyddyn i flwyddyn yn y Tabernacl yn Siloh, a addunedodd i'r Arglwydd, ac a ddywedodd, "O Arglwydd y lluoedd, os gan edrych yr edrychi ar gystudd dy law-forwyn, ac a'm cofi i, ac nid anghofi dy law-forwyn, ond rhoddi i'th law-forwyn fab; yna y rhoddaf ef i'r Arglwydd holl ddyddiau ei einioes, ac ni ddaw ellyn ar ei ben ef." Nid anghofiwyd yr adduned yma pan y daeth yr amser i'w chyflawni, a phan y cyssegrodd ei phlentyn dros ei holl oes i'r Arglwydd, ac yr ymaflodd yntau yn llawen ar y gwasanaeth bendigaid, i'r hwn yr oedd duwioldeb rhiannol wedi ei draddodi. Dathlwyd cyflwyniad y plentyn Samuel mewn cân ysbrydoledig, yn mha un, fel ar ol hyn yn nghân Mair, y coffheir am fawredd Duw a'i ddaioni i'w law-forwyn mewn iaith buddugoliaeth sanctaidd.

"A Samuel oedd yn gweini o flaen yr Arglwydd yn fachgen, wedi ymwregysu âg ephod liain," gan ddangos ei fod ar yr adeg foreuol hon wedi ei alw at ddyledswyddau offeiriadol, yn mha rai yr oedd ei hyfrydwch cyssegredig i ymwneyd. Fel y cynhyddodd mewn oedran, cyflwynodd esiampl sanctaidd o dduwioldeb i'r ieuaingc, canys yr oedd mewn "ffafr gyd â Duw a dynion." Ymddanghosai y duwioldeb ieuengaidd yma yn fwy hyfryd oddiwrth y cyferbyniad hynod a arddanghosai i ymddygiad gwael Hophni a Phineas, meibion Eli yr Archoffeiriad. Ar y pryd hwn, anfonwyd gŵr Duw at yr hen offeiriad, i ragfynegi y farn ofnadwy oedd yn crogi uwch ei ben ef a'i deulu. Yr oedd yr offeiriadaeth i gael ei chymmeryd o'r teulu i'r hwn y disgynodd; ac anfonwyd y negesydd ysbrydoledig i draethu gair yr Arglwydd: "Cyfodaf i mi offeiriad ffyddlawn, a wna yn ol fy nghalon a'm meddwl; a mi a adeiladaf iddo ef dŷ sicr, ac



LEIGHTON, BROTHERS.

SAMUEL AND ELI.

efe a rodia ger bron fy Enneiniog yn dragywydd." Yr oedd y rhagfynegiad yma a chyfeiriad neillduol at y sefyllfa uchel a sanctaidd i'r hon yr oedd Samuel i gael ei ddyrchafu.

Er fod prophwydoliaethau wedi cael eu rhoddi yn flaenorol gan ddynion ysbrydoledig, eto gellir dweyd fod oes y prophwydi, fel hil, wedi dechreu gyda'r plentyn sanctaidd hwn. Fel hyn, yn yr Epistol at yr Hebreaid, yr ydym yn darllen am "Samuel a'r prophwydi," yr hil yr hon a ddechreuwyd gydag ef, a gyrhaeddodd i lawr hyd ddyddiau Malachi. Rhydd y drydedd bennod o'r Llyfr hwn brawf digonol o'r ffafr gyda pha un y cyfrifid Samuel. Dyma ran o'r Ysgrythyr sanctaidd y gwna rhieni yn dda ei darllen i'w plant, gan y dengys y modd y gall yr Anfeidrol a'r Tragywyddol lefaru wrth yr ysbryd ieuangc, ac mor fuan y gall wisgo y wedd o astudrwydd duwiol, a dywedyd, "Llefara, Arglwydd, canys y mae dy was yn clywed."

Yr oedd Samuel yn awr fel geneu yr Arglwydd i Eli, ac yn unol a geiriau gŵr Duw, rhagfynegodd y blinderau ofnadwy oeddynt yn dod ar ei dŷ, "O herwydd i'w feibion haeddu iddynt felldith, ac na's gwaharddodd efe iddynt." Er yn ddiffygiol mewn awdurdod a disgyblaeth dadol, eto arddengys Eli ar yr achlysur yma radd o ymroddiad ac ymostyngiad sydd yn addysgiadol i ni feddwl am danynt. "A Samuel a fynegodd iddo yr holl eiriau, ac nis celodd ddim rhagddo; dywedodd yntau, Yr Arglwydd yw efe; gwnaed a fyddo da yn ei olwg."

O'r braidd yr oedd y geiriau hyn wedi eu traethu, pan y dechreuodd eu cyflawniad. Aeth yr Israeliaid allan i ymladd yn erbyn y Philistiaid, a phan yr ymgyfarfu'r gâd, tarawyd Israel. Mae gennym yma brawf trist fod crefydd yr Hebreaid wedi dirywio i ffurfioldeb yn unig. Yr oedd gair Duw yn "werthfawr," neu yn brin, yn y dyddiau hyny; nid oedd neb i ddysgu ffordd uniawn yr Arglwydd. Dysgodd yr offeiriaid trwy eu bywyd gwrthun y bobl i bechu, a hen ŵr ammhenderfynol, yr hwn nad allai lywodraethu ei dŷ ei hun, a lywyddai yn ofer ar freintiau crefyddol yr holl bobl. Pan yr oedd rhyfelwyr Israel, wrth ganfod eu hunain wedi eu gorchfygu, yn ymgynghori yn y gwersyll, ymgymmerasant arnynt i anfon i Siloh am yr arch gyssegredig, yr hon a draddodwyd iddynt gan yr offeiriaid drwg, heb aros i ymgynhori a'r Arglwydd. Ym-

ddiriedai y rhyfelwyr ar bresennoldeb yr arch, yn lle gweddio am bresennoldeb Jehofah, a'r canlyniadau oeddynt y cyfryw ag a allesid ddisgwyl. Ni roddodd yr arch ddim amddiffyniad, ond fe'i cymmerwyd gan y gelyn; gorchfygwyd yr Israeliaid, a lladdwyd deg mil ar hugain, ac yn eu mysg ddau fab Eli. Pan y dygwyd y newydd trwm at Eli, efe "a syrthiodd oddi ar yr eisteddle yn wysg ei gefn ger llaw y porth, a'i wddf a dorrodd, ac efe a fu farw; canys y gŵr oedd hen a thrwm; ac efe a farnasai Israel ddeugain mlynedd." A phlentyn i Phineas anwyd yn yr awr bruddaidd hono a dderbyniodd yr enw hwnw Ichabod, yr hwn bob amser ar ol hyn, gofnoda ymadawiad y gogoniant oddiwrth Israel.

Adfeddiannodd Jehofah yn fuan yr arch yn yr ymarferiad o'i raglun-iaeth ryfeddol, ond gadawodd hi am ugain mlynedd yn Ciriath-jearim, lle y neillduodd offeiriad i'w chadw, gan amddifadu fel hyn Siloh o'i gogoniant. Yn y cyfamser, "gwybu holl Israel, o Ddan hyd Beerseba, mai prophwyd ffyddlawn yr Arglwydd oedd Samuel." Cyflwyna yr olygfa a gymmerodd le yn Mispah, Samuel ger ein bron fel prophwyd ffyddlawn, ac offeiriad Jehofah. Yr ydym yn ei weled yn casglu yn nghyd y tyrfaoedd dirfawr o'r bobl, gan eu cynghori i roddi heibio eu heilunod, a'r bobl yn ufuddhau iddo. "A hwy a ymgasglasant i Mispah, ac a dynnasant ddwfr, ac a'i tywalltasant ger bron yr Arglwydd, ac a ymprydiasant y diwrnod hwnnw, ac a ddywedasant yno, Pechasom yn erbyn yr Arglwydd. A Samuel a farnodd feibion Israel yn Mispah." Dylynwyd yr edifeirwch hwn gan brawfion adnewyddol o bresennoldeb Jehofah gyda Ei bobl. Ar ol i Samuel weddio ac aberthu drostynt hwy, "y Philistiaid a nesasant i ryfel yn erbyn Israel; a'r Arglwydd a daranodd â tharanau mawr yn erbyn y Philistiaid y diwrnod hwnnw, ac a'u drylliodd hwynt, a lladdwyd hwynt o flaen Israel. A gwŷr Israel a aethant o Mispah, ac a erlidiasant y Philistiaid, ac a'u tarawsant hyd oni ddaethant dan Bethcar. A chymmerodd Samuel faen, ac a'i gosododd rhwng Mispah a Sen, ac a alwodd ei enw ef Eben-ezer, ac a ddywedodd, Hyd yma y cynnorthwyodd yr Arglwydd nyni." O'r pryd hwn yr ydym yn ei gael yn ymarfer ei swyddi mewn dull rywbeth yn gyffelyb i Farnwr ein gwlad ni, yn myned i'w gylchdaith, ac yn ol i'w drigfa yn Ramah.

(Darllener 1 Samuel ii. 1—11; iii.; vii.)

# LLYFR IV.

---

Cyfodiad y Frenhiniaeth Hebreig—Saul.
Y Brenhin Dafydd—ei Nodwedd a'i Hanes.
Jerusalem cyn y Caethiwed.
Solomon—Addewid ei Ddyddiau Boreuol.
Teml Solomon yn cael ei darlunio.
Solomon yn ei Ogoniant a'i Ddirywiad.
Yr Hebreaid wedi eu rhannu i Ddwy Genedl.
Y Prophwydi, a'r Priodoleddau.
Perthynas y Prophwydi a Hanesiaeth Hebreig.
Ahab—Jezebel—Elias.
Elias y Prophwyd.
Elias yn Sarephtah.
Carmel—Jehofah neu Baal?
Y Pryd Gwyrthiol a'r Daith i Horeb.
Dyddiau Diweddaf Elias.
Brenhinoedd Judah—Teyrnasiad Asa.
Jehosaphat—ei Deyrnasiad Gogoneddus.
Eliseus a'i Amserau.
Naaman y Gwahanglwyfus—ei Iachad a'i Ddychweliad.
Jehu—y Pechadur yn Dialu Pechod.
Joas—Athaliah—Jehoiada.
Jonah a'i Genadwri.
Uzziah—yn Pechu trwy Ryfyg.
Yr Ymerodraeth Assyriaidd.
Ahaz—ei Deyrnasiad Annuwiol.
Esaiah—"Tywysog yr holl Brophwydi."
Dirywiad Israel.
Y Frenhiniaeth Ysbrydol yn cael ei Rhagfynegi.
Dwyn Israel i'r Caethiwed.

"Dyn anniolchusaf! mor llawn o rad, i
Bechu * * * mor llawn o
Wynfyd, i bechu'n erbyn Duw pob gras:
Cariad Bythol! Y Sanctaidd, Cyfiawn, Da!
Drwg nas gwelwyd, clywwyd, ddych'mygwyd chwaith!
P'am hunai dial? Na, ni hunodd ddim,
Gollyngai'r bythol uniawn gyfiawn Dduw
Ei lid, nes llwyr foddhau'r bygythiad trwm."

"Gyrfa Amser" gan Pollok.

## PENNOD I.

### CYFODIAD Y FRENHINIAETH HEBREIG—SAUL.

TUA diwedd ei fywyd cyhoeddus, ufuddhaodd Samuel i'r cyfarwyddiadau Dwyfol, trwy ddwyn i sylw yr Israeliaid Saul, mab Cis, yr hwn a benododd Jehofah yn frenhin cyntaf iddynt. Gofynai yr amserau yn mha rai y sefydlwyd y frenhiniaeth Hebrëig am ddyn o yni naturiol mawr a dewrder, yr hwn a allai ymladd a'r gelynion nerthol gan ba rai y goresgynid y wlad, a pha rai a fygythient ddinystr y wladwriaeth Hebrëig. Yr oedd yr Israeliaid, modd bynag, trwy ddeisyf am frenhiniaeth wedi ymwrthod a'r llywodraeth Ddwyfol—y Duwlywiaeth; a gwnaed eu deisyfiad yn y fath fodd fel ag i ddwyn arnynt eu hunain amlygiad o'r llid Dwyfol. "Er hynny, y bobl a wrthodasant wrando ar lais Samuel; ac a ddywedasant, Nagë, eithr brenhin fydd arnom ni."

Dylai hanes Saul gael ei ddarllen yn ofalus gan ddynion ieuaingc gobeithiol ac uchel-geisiol, gan y dengys y modd y gall bywyd ar yr hwn y tywynai haul llwyddiant yn y dydd boreuol, ddiweddu mewn trueni ac ammharch; y modd y metha gobeithion dysglaer yr ieuangc, pan nad yw y galon wedi ei llwyr roddi i Dduw, mewn ffydd a duwioldeb, egwyddor grefyddol uchel, a gwir ostyngeiddrwydd ysbryd. Yn y dyddiau boreuol hyn, nid oedd ar ol yn Saul lawer o'r rhagoriaethau hyny a hawliant ein hedmygedd, tra yr ymddanghosai hefyd i addaw i'r genedl lawer o fantais oddiwrth ei briodoliaethau brenhinol. Ei berson hardd, yn ymgodi uwchlaw ysgwyddau yr holl bobl; ei ofal am eiddo ei dad, mewn ymchwiliad am ba rai yr oedd yn foddlawn i deithio o ddydd i ddydd; ei ystyriaeth am deimladau ei dad, pan y dywedodd, "Tyred, a dychwelwn; rhag i'm tad beidio a'r asenod, a gofalu am danom ni;" ei ostyngeiddrwydd, pan y deallodd gyntaf y gallai ddod yn frenhin; ei ufudd-dod parchus i gyfarwyddiadau Samuel; ei brophwydiad yn mysg meibion y prophwydi; a'r Ysbryd yn dyfod arno ef, fel y daeth yn "ddyn arall," oeddynt oll addewidion o ddyfodol da a dedwydd, a gwasanaethant i ddangos mor bell y gallwn fyned yn mlaen tua theyrnas nefoedd, ac eto syrthio yn fyr o honi.

Er fod yr Israeliaid yn awr wedi gwrthod cydnabod Jehofah fel eu hunig frenhin, eto nid oedd yn ddiofal am eu buddiannau fel cenedl; a thrwy y ragluniaeth hono sydd yn goruwchreoli holl fwriadau a gweithrediadau dynion, arweiniodd Saul i drigfa Samuel, yr hwn a gyfarwyddodd i'w eneinio ef yn frenhin ar Israel. Darllenir holl amgylchiadau dyddorol y cydymgyflwyniad yma yn yr adran y cyfeirir ati ar ddiwedd y bennod hon.

Pan y galwyd ar Saul gyntaf i ddangos ei ddewrder yn achos ei genedl, yr oedd yn trigo yn dawel gyda ei deulu yn Gibeah, a chyfarfyddodd y cenhadon ag ef yn dyfod allan ar ol y gwartheg o'r maes. Daethant o Jabes Gilead, yr ochr draw i'r Iorddonen, ac wylasant fel yr adroddent y modd y bygythiodd yr Ammoniaid dynu allan lygaid y dinaswyr, a'u gwneyd yn warth i holl Israel. Daeth Ysbryd yr Arglwydd ar Saul i roddi iddo y ddoethineb a'r gwroldeb a ofynai yr achlysur. Ni chollodd ddim amser mewn gorchymyn byddiniad holl wyr Israel, y rhai o un fryd a ymgasglasant yn Bezec, yn llwyth Manasseh. Yno "bu i Saul osod y bobl yn dair byddin; a hwy a ddaethant i ganol y gwersyll yn y wyliadwriaeth fore, ac a laddasant yr Ammoniaid nes gwresogi o'r dydd; a'r gweddillion a wasgarwyd, fel na thrigodd o honynt ddau ynghyd." Ennillodd y waredigaeth amserol hon i Saul ymddiried yr holl bobl, a phan y cynhygiasant ladd y rhai hyny a wrthwynebasant y brenhin, arddanghosodd ddynoliaeth a duwioldeb, gan ddywedyd, "Ni roddir neb i farwolaeth heddyw; canys heddyw y gwnaeth yr Arglwydd ymwared yn Israel."

Nid oedd Saul wedi "teyrnasu ddwy flynedd ar Israel," cyn iddo siomi yr holl obeithion oedd Samuel wedi ffurfio mewn perthynas iddo, ac yr oedd gan y prophwyd i ddweyd wrtho, "Ynfyd y gwnaethost; ni chedwaist orchymyn yr Arglwydd dy Dduw, yr hwn a orchymynodd efe i ti; canys yr Arglwydd yn awr a gadarnhasai dy frenhiniaeth di ar Israel yn dragywydd." Pan yn awyddus i ymosod ar y Philistiaid, ac yn ddiamynedd wrth oediad Samuel i'w gyfarfod ef yn Gilgal, dywedodd, "Dygwch attaf fi boeth-offrwm, ac offrymmau hedd. Ac efe a offrymmodd y poethoffrwm." Yna deallodd Saul na byddai i'w frenhiniaeth barhau, ac fod Jehofah eisoes wedi dewis ei olynydd, "gŵr wrth fodd ei galon ei hun." Dylynwyd y cyhoeddiad gan arddanghosiad mwyaf rhyfeddol o'r presen-

noldeb Dwyfol gyda Jonathan, mab Saul. Dena y gwroldeb a'r ymddiriedaeth sanctaidd a arddanghosodd Jonathan yn "rhyfel Michmas," edmygedd ysgrifenwyr yn ein dydd ni. Mewn cyfeiriad at y gorchestion adroddir yn 1. Sam. xiv., haedda y nodiadau canlynol sylw neillduol.

"Nid rhyw synnianydd gwan oedd Jonathan, cyfaill Dafydd, ond gwladgarwr penderfynol, pan y deuwn i sylwi arno yn agos. Yn y rhyfel a'r Philistiaid, elwir yn gyffredin oddiwrth ei lleoliad, 'rhyfel Michmas' —fel y gelwid blynyddoedd diweddaf y rhyfel Peloponnesiaidd, am reswm cyffelyb, 'rhyfel Decelea,'—yr oedd Jonathan yn enwog gyfartal am ei eonder a'i wroldeb. Fel y dywed Mr. Stanley, cyfododd yn ddisymmwth yn erbyn y Cadfridog Philistiaidd yn Geba, '*fel y cyfododd Tell yn erbyn Gesler*, neu, fel mewn hanesiaeth gyssegredig, y cyfododd Moses yn erbyn yr Aiphtiwr,' yr hwn a laddodd. Efe ydoedd y cyntaf i gynhyrfu dull llymach o orthrech, a'r cyntaf i waredu ei gydwladwyr oddiwrth ei iau. Nid oedd ysbryd anturiaethus mor ddyrchafedig hyd yn oed yn Bruce neu Schamyl a phan y dringodd Jonathan, yn cael ei ganlyn yn unig gan ei gludydd-arfau, i fyny y clogwyn a arweiniai at amddiffynfa y Philistiaid. 'Tyred, ac awn drosodd i amddiffyna y rhai dïenwaededig hyn; nid hwyrach y gweithia yr Arglwydd gyd â ni; canys nid oes rwystr i'r Arglwydd waredu trwy lawer neu trwy ychydig.'

"Nis gall dim fod yn fwy naturiol neu lai anghyffredin nag ymuniad y fath ysbryd a nodweddion mwy tyner, a pha rai yr ydym ni yn fwy cynhefin a'i adnabod ef. Mae yn brawf swynol o'i ddynoliaeth, tra mor wrol a hunan-ymddiriedol, y gwnai goleddu ymlyniad mor dyner wrth ei dad a'i gyfaill. Mae ymadroddion y rhai a ddanghosant ei ddylanwad ar Saul, hyd yn oed yn ei awr dywyllaf; tra y mae ei ymrwymiad ymadawol i Dafydd na chaffai Saul afael arno, 'a thi a deyrnasi ar Israel, a minnau a fyddaf yn nesaf attat ti,' yn arddangos gallu o hunan-aberth 'mwy na'r eiddo gwraig,' ac eto gyfartelir mewn ychydig o gyfeillachau hyd yn oed o hynafiaeth glasurol."

Os ydyw calon y darllenydd trwy y sylwadau hyn yn cael ei harwain i ganol yr hanes yma, fe'i gwisgir a'r dyddordeb mwyaf angherddol ond poenus. Gwelir y cysgodion tywyllaf yn syrthio ar olygfa yr hon a fu yn pelydru a dysgleirdeb y boreu, ac ar bob cam mae cymmeriad Saul yn

myned yn dduach, hyd nes y mae yn marw marwolaeth hunanlofrudd. Ei ddrwgdybiaeth o'i fab Jonathan, llofruddiaeth yr hwn fuasai wedi gyflawni oni bai cyfryngiad y bobl; ei anufudd-dod yn arbed Agag, brenhin yr Amaleciaid, yr hwn a ddylasai ladd; ei ddymuniad balch am i Samuel ei anrhydeddu ger bron y bobl, er fod y frenhiniaeth wedi ei rhwygo oddiwrtho; ei ddrwgdybiaeth o'r llangc a laddodd bencampwr cawraidd Philistia, a thoriad allan mynych ei gynddaredd pan y lluchiai ei waewffon ato ef, a'i hela "fel petris yn y mynyddoedd;" a'i orchfygiad gan y Philistiaid, a lanwant i fyny y gweddill o'i fywyd pechadurus.

Yn union cyn yr olygfa derfynol, ymwela a dewines oedd yn trigo mewn ogof yn Endor, lle y gweithredai yn gyfrwys ar ei thwylledigion, trwy gymmeryd arni godi y marw. I'w dychryn, rhoddodd Jehofah genad i ddrychiolaeth o'r dyn sanctaidd, am bresennoldeb yr hwn y galwodd y brenhin syrthiedig; a phan y gofynodd Samuel, "Paham yr aflonyddaist arnaf, gan beri i mi ddyfod i fynu? A dywedodd Saul, Y mae yn gyfyng iawn arnaf fi; canys y mae y Philistiaid yn rhyfela yn fy erbyn i, a Duw a giliodd oddiwrthyf fi, ac nid yw yn fy atteb mwyach, na thrwy law prophwydi, na thrwy freuddwyddion; am hynny y gelwais arnat ti, i hysbysu i mi beth a wnawn."

Trwy gyd-ddygwyddiad hynod, derbynia y rhan yma o hanes yr Hen Destament gadarnhad rhyfeddol yn ein dydd ni. Dywed teithiwr diweddar: "Edrychwch i rai o'i hogofäau;....mae disgynfa y mynydd wedi ei drydyllu yn mhob man â hwynt, ac nid yw y rhan fwyaf o'r preswylfanau ond muriau yn unig wedi eu codi o gylch y mynediadau i'r llochesau hyn. Rhoddir y gwartheg ynddynt gyda eu perchenogion, ac felly yr oedd yn amser Saul. Meddiannai y ddewines yn ddiamheu un o'r ogofäau hyn, ac yn ei gilfachau tywyll arferai ei hudoliaethau.....Edrycha yr hen wrach acw, ysgyrnygant arnom o eneuau ymagoriadol eu trigfanau duol, yn fwy tebyg i reibesau na gwragedd. Pa un a'i rheibesau neu beidio, maent yn ddiamheuol wedi eu 'meddiannu,' a byddai cystal i ni fyned yn mlaen o'u golwg. Gwelwch, dyma haner dwsin o loi bach ar eneu yr ogof yma: llo cyffelyb a laddodd y ddewines i Saul ar y noson drist hono pan y ceisiodd Saul ei thrigfa."

(Darllener 1 Samuel ix.—diwedd y Llyfr.)

## PENNOD II.

### Y BRENHIN DAFYDD.

MAE hanes Dafydd mor bwysig, fel, cyn yr adroddir am ei yrfa bersonol ef, y cynysgaeddir ni yn Llyfr Ruth a gwyriad-draith prydferth o hanesiaeth Hebrëig, wedi ei ysgrifenu yn benaf i'r diben o gofnodi ei achyddiaeth. Dengys yr ystori ddyddorol hono, mor llawn o eglurhadau o arferion syml yr Israeliaid yn amser y Barnwyr, y modd y daeth Ruth, y Foabes weddw, i ymddiried o dan adenydd Arglwydd Dduw Israel, ac y daeth yn hynafyddes Dafydd a'r Messiah. Diwedda yr hanes gyda'r cofnodiad i Boaz, gŵr Ruth, genhedlu "Obed, ac Obed a genhedlodd Jesse, a Jesse a genhedlodd Dafydd."

Yr oedd Dafydd oddeutu pymtheg oed pan y dewisodd Jehofah ef o fysg ei frodyr, ac yr eneiniodd Samuel ef i fod yn frenhin dyfodol dros Israel. Dychwelodd y pryd hyny at ei orchwylion bugeiliol isel, lle, tra yn gwylio ei braidd, yn gwaredu ei ddefaid rhag y llew a'r arth, yn cyweirio ei delyn at dônau sanctaidd, yn sylwi gydag edmygedd duwiol ar waith Duw o'i amgylch ac uwch ben iddo, ac yn dyrchafu ei galon at Jehofah mewn cân fendigaid, yr oedd yn ymbaratoi erbyn y dyfodol gogoneddus oedd yn ei aros ef.

Nid hir y bu cyn i'r telynwr ieuangc gael ei alw i'r llys i lonyddu drwg ysbryd Saul, pruddineb yr hwn a dderbyniai ryw esmwythâd oddiwrth beroriaeth hyfryd y bugail-gerddor. Dychwelodd modd bynag at ei braidd, i gael ei anghofio hyd ymddanghosiad pencampwr y Philistiaid, y cawr deg troedfedd o uchder, yr hwn a frawychai ac a ddarostyngai bob dyn yn Israel trwy y beiddiad bostfawr a gyhoeddai bob dydd. Pan y gosododd Dafydd y gwron balch yn isel trwy gareg fechan o'r nant, nid oedd yr un a'i hadwaenai ef fel y llangc ydoedd wedi bod o'r blaen yn delynwr i'r brenhin, gan gymmaint y cyfnewidiad oedd ychydig o flynyddoedd wedi weithio ar ei wyneb, ei lais, ei safiad, a'i wedd.

Pan y clywodd Saul gantorion Israel yn mawrygu clodydd Dafydd, yr hwn oedd wedi lladd ei fyrddiwn, efe a ddaeth yn ysglyfaeth i ddrwgdybiaeth, fel yr oedd wedi bod o'r blaen i bruddineb, ac ymdrechodd

amryw weithiau ladd y gŵr ieuangc gwronaidd, yr hwn a geisiodd wellhau ei anhwylder prudd. Er ei fod trwy ei ddewrder wedi dod yn fab-yn-nghyfraith i Saul, trwy briodi ei ferch Michal, ni chafodd ddim cartref yn y palas, o ba le y gorfodwyd ef i ddianc am ei einoes, ond nid cyn iddo ef a Jonathan fyned i gyfammod o gyfeillgarwch parhaus, fel y darllenwn: "Felly y cyfammododd Jonathan a thŷ Dafydd, ac efe a ddywedodd, Gofynodd yr Arglwydd hyn ar law gelynion Dafydd. A Jonathan a wnaeth i Dafydd yntau dyngu, o herwydd efe a'i carai; canys fel y carai ei enaid ei hun, y carai efe ef."

Dyga yr hanes ni gyda'r alltud i Ramah, lle yr ymgynghorodd a Samuel; i Naioth lle y cafodd ef a Jonathan ymgyfarfyddiad dirgelaidd; i Nob, lle y derbyniwyd ef gan Abimelech yr arch-offeiriad, yr hwn a roddodd gleddyf Goliah iddo o'r Tabernacl, a lle y bwyttaodd ef a'i gwmni y bara gosod; i Gath, lle y cymmerth arno ynfydu yn mhresennoldeb y brenhin Achis; ac i ogof Adulam, lle yr ymgasglodd llu o bedwar cant o wyr o'i gylch. Yn Ceilah gorchfyga y Philistiaid, a Saul yn ei ymlid, mae yn gorfod ffoi i Anialwch Maon; ymlidir ef eto gan Saul, yr hwn a encilia wrth glywed fod y Philistiaid wedi goresgyn y tir. Yna ffoa i Engedi, lle yr ymguddia mewn ogof, i ba un yr â y brenhin i mewn, pan y tora y gŵr erlidiedig, yn lle cymmeryd ei einoes, gwrr o'i fantell, ac am dymhor a dynerodd galon y brenhin trwy ei garedigrwydd a'i oddefgarwch. Ar achlysur arall arbedodd Dafydd fywyd ei elyn tra y cysgai yn drwm, fel y pennaethiaid Arabaidd yn y dydd presennol, gyda gwaewffon hir wedi ei sicrhau yn y llawr wrth ochr ei babell, a llestr dwfr wrth ei obenydd.

Ar ol y pethau hyn goresgynodd y Philistiaid y tir, a chafwyd Saul gyda'r anwyl Jonathan yn mysg y lladdedigion ar fynyddoedd Gilboa, gan roddi achlysur i Dafydd draethu un o'r galargwynion barddonol godidocaf geir yn y gyfrol gyssegredig. O'r pryd yma dechreuodd Dafydd ar y gwaith o lywodraethu, yn cael ei gydnabod fel brenhin gan lwyth Judah, ac ar ol marwolaeth Ishboseth, mab Saul, a gyhoeddwyd yn frenhin ar holl Israel.

Un o weithredoedd mwyaf pwysig Dafydd ydoedd cymmeryd amddiffynfa y Jebusiaid, "amddiffynfa Sion," ar un rhan o'r hon y cododd ei



LEIGHTON, BROTHERS.

DAVID SPARETH SAUL AT HACHILAH.

balas ei hun, tra y neillduodd y llall fel safle i'r Deml. Yma hefyd y cyrchodd yr arch o Ciriath-jearim, gyda llawenydd mawr. "A phan gychwynodd y rhai oedd yn dwyn arch yr Arglwydd chwech o gamrau, yna efe a offrymmodd ychain a phasgedigion. A Dafydd a ddawnsiodd a'i holl egni ger bron yr Arglwydd."

Wrth ddarllen hanes maith ac amrywiol y brenhin o'r cyfnod yma, ni a welwn amlygiad newydd o drugaredd Ddwyfol i'r genedl yr oedd ef wedi dyfod yn brif lywydd iddi. "A phan eisteddodd y brenhin yn ei dŷ, a rhoddi o'r Arglwydd lonydd iddo ef rhag ei holl elynion oddi amgylch, yna y dywedodd y brenhin wrth Nathan y prophwyd, Wele, yn awr, fi yn preswylio mewn tŷ o gedrwydd, ac arch Duw yn aros o fewn y cortynau." Nathan, gan lefaru yn ol ei farn, a ddywedodd wrth y brenhin, "Dos, gwna yr hyn oll sydd yn dy galon; canys yr Arglwydd sydd gyda thi." Ond yr oedd gan Jehofah fwriadau ereill mewn perthynas i Dafydd, ac yr oedd yr amser wedi dyfod pan y caent eu hamlygu iddo. Felly ar y noson hono derbyniodd y prophwyd ei genadwri oddiwrth yr Arglwydd i'w chyflwyno i'r brenhin, a chofnodir y cyfammod wnaed â Dafydd, yn llawn o addewidion grasol a chyfarwyddiadau yn 2. Sam. vii. 1—17. Yr oedd y brenhin yn barod i gyflawni y gwaith mawr at yr hwn y galwodd Duw ef, ac y mae gennym hanes am ei deimladau diolchgar, a'i fwriadau sanctaidd yn y gweddill o'r bennod.

Mae yn llesol o'r mwyaf i ddarllen y rhan sydd yn ol o hanes y Brenhin Dafydd, gan gofnodi fel y gwna ei zel dros wasanaeth Duw, i Deml yr hwn y casglodd ddigonedd o ddefnyddiau, er y gwrthodwyd yr anrhydedd o'i chodi iddo ef, ac a gadwyd i Solomon ei fab. Yr oedd yn wir yn "bêrganiedydd Israel," ac mewn llawer o ystyriaethau yn gysgod byw o'r Messiah, er nad fel Efe "heb bechod." Cofnodir yn ffyddlawn hanes ei gwymp sobr, a'i gamwedd dyblyg, ac felly hefyd ei alar dwfn yn ei psalm edifeiriol. Ffurfiodd ei deyrnasiad ef, ac un ei fab, y cyfnod euraidd yn yr hanes Hebrëig, a rhoddodd y cyfraniadau mwyaf gwerthfawr i drysorau yr eglwys hono, nodwedd yr hon, a Gwaredwr gogoneddus yr hon, yr oedd ei fraint fawr i'w rhagfynegu.

(Darllener 1 Samuel xvi.—diwedd. 2 Samuel i.—xii.; xiii. 23—diwedd y Llyfr. Llyfr Ruth. Psalm lxxxix.; cxxxii.)

## PENNOD III.

### JERUSALEM.

NID oes yr un ddinas yn y byd yn dal lle mor bwysig mewn hanesiaeth a Jerusalem. O amser Dafydd daeth yn brifddinas y genedl Hebrëig, nid yn unig fel sedd y llywodraeth, ond fel canolfan crefyddol lle y cyrchai yr holl gyfundeb, o herwydd ei bod yn breswylfa Dwyfol, ac yn olygfa y gwyliau mwyaf cyssegredig. Yno y traethodd y prophwydi ysbrydoledig eu rhagfynegiadau mewn perthynas i genhedloedd ereill, ac yno y rhaghysbysasant y barnedigaethau oeddynt i ddisgyn ar Israel am ei hymadawiad oddiwrth Jehofah. Uwchlaw pob peth, Jerusalem oedd y ddinas i'r hon y daeth Gwaredwr dynion, lle y dysgodd, ac yr offrymodd ei hun yn aberth dros bechod, ac o ba le yr anfonodd allan oleuni ei Efengyl i oleuo yr holl genhedloedd. Y fath ydoedd cyssegrwydd y lle a elwir hyd eto y Sanctaidd, fel y daeth yn gysgod o'r eglwys waredigol, ac yn ddarlun o'r nef ei hun.

Ymhyfrydai Dafydd, a gwŷr ysbrydoledig ereill, mewn mawrygu gogoniant y ddinas sanctaidd, fel "tegwch bro, llawenydd yr holl ddaear;" "mynydd yr Arglwydd," lle yr esgynodd gydag arch Ei bresennoldeb, a lle yr adwaenid Ef "yn ei phalasau yn amddiffynfa." Siriolai y pererinion tua theml Jehofah eu llwybr fel y darlunient y ddinas "wedi ei chydgyssylltu ynddi ei hun. Yno yr esgyn y llwythau, llwythau yr Arglwydd, yn dystiolaeth i Israel, i foliannu enw yr Arglwydd." Hyd yn oed, pan, trwy y barnedigaethau Dwyfol, y gwnaed y ddinas sanctaidd yn garnedd o adfeilion, yr oedd ei mheibion "yn hoffi ei meini, ac yn tosturio wrth ei llwch;" a'r alltudiaid caethgludol yn Babilon bell, a "wylasant pan feddyliasant am Sion."

Ac eto nid oedd y ddinas bwysicaf yma wedi dyfod i feddiant Israel am bedwar can' mlynedd ar ol iddynt fyned i mewn i'r Tir Sanctaidd, pan, fel y gwelsom yn barod, y cymmerwyd hi trwy ddewrder Dafydd a'i gymdeithion gwrol. Trwy ei sefyllfa fanteisiol fel amddiffynfa yr oedd



LEIGHTON, BROTHERS.

JERUSALEM.

ei hen breswylwyr, y Jebusiaid, yn alluog i ddal allan hyd amser Dafydd, yr hwn a heriasant i ddyfod i'r amddiffynfa, pa un y tybient fod y cloff a'r dall yn ddigon i'w chadw. "A'r brenhin a'i wŷr a aethant i Jerusalem, at y Jebusiaid, preswylwyr y wlad; y rhai a lefarasant wrth Ddafydd, gan ddywedyd, Ni ddeui di yma, oni thynni ymaith y deillion a'r cloffion; gan dybied, Ni ddaw Dafydd yma. Ond Dafydd a ynnillodd amddiffynfa Sion: honno yw dinas Dafydd. A dywedodd Dafydd y dwthwn hwnw, Pwy bynnag a elo i fynu i'r gwtter, ac a darawo y Jebusiaid, a'r cloffion a'r deillion, y rhai sydd gas gan enaid Dafydd, hwnw fydd blaenor. Am hynny y dywedasannt y dall a'r cloff ni ddaw i mewn i'r tŷ."

Yn yr hen arluniau Aiphtaidd, gwelir y cloff a'r anafus ar ben amddiffynfa yn ymddwyn at y gwarchaewyr gyda gwawd a dirmyg, ac oddiwrth hyn y gallwn ddeall penderfyniad y brenhin i gymmeryd yr amddiffynfa o law ei diffynwyr dirmygus. Trwy ryw fynedfa ddiamddiffyn, "y gwtter," yr hon a allasai fod yn ddyffrffos neu ffrydle, aed i mewn, a daeth Dafydd a'i wŷr dewr yn feddiannwyr amddiffynfa, yr hon, gyda gofal iawn, a allasai brofi yn anorchfygadwy.

Tardda Jerusalem ei henw yn debygol o Salem, yr enw oedd iddi yn nyddiau Melchisedec, ac oddiwrth y Jebusiaid ei meddiannwyr diweddarach. Saif ar ran o'r bwrdd-diroedd uchel hyny redant o'r gogledd i'r deheu yn Palestina, ac a arddanghosant yn y pwynt yma godiad o rhwng dwy a thair mil o droedfeddi. Deua y bryniau cerryg calch hyn, ymledant i'r deheu o Samaria i derfyniad sydyn yn Jerusalem, lle yr ymsuddant i dri dyffryn, o ba rai y coda bryniau Judea a ymledant drachefn i'r deheu. Oddiwrth hyn y darllenwn fod Jerusalem "a'r mynyddoedd o'i hamgylch." Mae hyn yn llythyrenol wir, gyda'r eithriad o "ystlysau y gogledd," gyfeirir atynt yn Psalm xlviii., yn debygol ar gyfrif yr amgaerau celfyddydol, y "tyrau," a'r "rhagfuriau," â pha rai yr amddiffynir y rhan hyny o'r ddinas. Hyd yn oed ar y gogledd, y mae y tir yn uwch na safle y ddinas. Rhoddai y disgyniadau ogwyddant yn uwchrawdau, ar y dwyrain i ddyffryn Jehosaphat, gydag afon Cedron; ar y deheu i dyffryn Ben-hinnom; ar y gorllewin, i ddyffryn Rephaim, neu Gihon; amddiffynfa naturiol digonol yn erbyn yr holl ymosodwyr,

a allent fyned "o amgylch Jerusalem ac ystyried ei rhagfuriau." O'r dyffrynoedd hyn cyfyd Mynydd yr Olewydd ar y dwyrain; Bryn y Tramgwydd, neu y Drwg Gyngor, ar y deheu, lle y dywed traddodiad y darfu Caiaphas a'r Iuddewon ymgynhori i ddifetha y Gwaredwr; a Mynydd Gihon, gwastad creigiog ar y Gorllewin; gyda bryn Gareb ar y gogledd.

Oddiwrth y darluniad yma, gwelir fod "yn rhaid ei bod i'r teithiwr ddynesai o'r gorllewin neu y dwyrain, bob amser wedi cyfleu yr ymddanghosiad tu hwnt i'r un brifddinas arall yn y byd, o ddinas fynyddog; yn anadlu, a'i chydmaru a gwastad-diroedd mwll yr Iorddonen neu yr arfordir, awyr y mynydd; yn orseddedig, a'i chydmaru a Jericho, Gaza, a Tyrus, ar gaerfa fynyddog."

Ar y dwyrain i Sion, yr oedd Mynydd Moriah, safle y Deml, oddiwrth ba un yr oedd yn wahanedig gan ddyffryn yn rhedeg o'r gogledd i Lyn Siloam, ar gydiad dyffrynoedd Hinnom a Jehosaphat. Adwaenid y ceunant fel dyffryn y Cawswerthydd, neu y Tyropeon. Josephus, gan gyfeirio at yr arweddion hynod yma, a ddywed, "Codwyd y ddinas ar ddau fryn, y rhai oeddynt gyferbyn i'w gilydd, ac iddynt ddyffryn yn eu rhanu yn y canol, yn yr hwn ddyffryn y terfyna y rhestrau cyferbyniol o dai ar y ddau fryn." Rhoddodd y dyffryn yma gychwyniad i un o'r rhai ardderchocaf o weithiau Solomon, yr "esgynfa ar hyd yr hon yr âi efe i fynu i dŷ yr Arglwydd," a pha un a ennynodd edmygedd uchel Brenhines Sheba. Arweinia ymchwiliadau diweddar i'r penderfyniad mai fforbont ydoedd yr "esgynfa" hon, yn gynhaledig gan fwäau, gan ba rai rhychwantid y dyffryn, a'r rhai a gyfrifir oeddynt bump o rif, tra y gallai fod y pileri ddaliai y bwa canol yn gant a deg ar hugain o droedfeddi o uchder.

Y fath ydoedd y safle fanteisiol a feddianai Dafydd fel "amddiffynfa," ac yna a'i galwodd "Dinas Dafydd." Ei waith ef a'i olynwyr ydoedd i'w hamgaeru, a'i chadarnhau â thyrau cryfion a phyrth, ac i sicrhau cyflenwad digonol o ddwfr, trwy gloddio llynoedd a phydewau mawrion, a chario ffrydiau o'r tiroedd uchaf yn neillduol at wasanaeth y Deml.

(Darllener Psalm xlviii.; lxviii.; cxxiii.; cxxv.; cxxxii.)

## PENNOD IV.

### SOLOMON.

RHAGFYNEGWYD i Dafydd enedigaeth Solomon, a'r gwaith mawr oedd i'w wneyd i Israel a thros ogoniant Jehofah, yn fuan ar ol "pan eisteddodd y brenhin yn ei dŷ, a rhoddi o'r Arglwydd lonydd iddo ef rhag ei holl elynion oddi amgylch." Cyd-ddilynid yr addewid, "Efe a adeilada dŷ i'm henw i, minnau a gadarnhâf orseddfainc ei frenhiniaeth ef byth; Myfi a fyddaf iddo ef yn dad, ac yntau fydd i mi yn fab," gyda rhybudd yn arwyddo y perygl y gallasai Solomon, ar ol ei holl fawredd a gogoniant, gyflawni anwiredd, ac y byddai raid i Dduw ei "geryddu â gwïalen ddynol." Ychwanegodd gan hyny y sicrhad trugarog, "Fy nhrugaredd nid ymedy âg ef, megis ag y tynnais hi oddiwrth Saul."

Mae Dafydd, yn dra diolchgar am yr addewid roddwyd fel hyn, yn byw i weled ei chyflawniad. Yma gwelwn y brenhin, pan yn hen, ac y cilia llanw bywyd yn gyflym yn ol, yn anfon am Bathseba, mam Solomon, ac yn ngŵydd gwŷr mawrion ei lŷs, yn trosglwyddo y deyrnwialen i'w fab. Ufuddhawyd i'r ewyllys Ddwyfol, lefarwyd fel hyn trwy eneu y brenhin, yn uniongyrchol. Darparwyd gorymdaith frenhinol, a Sadoc yr arch-offeiriad, "Nathan y prophwyd, a Benaiah fab Jehoiada, a'r Cerethiaid, a'r Pelethiaid, a aethant i waered, ac a wnaethant i Solomon farchogaeth ar fules y brenhin Dafydd, ac a aethant âg ef i Gihon. A Sadoc yr offeiriad a gymmerodd gorn o olew allan o'r babell, ac a enneiniodd Solomon; a hwy a udganasant mewn udgorn; a'r holl bobl a ddywedasant, Bydded fyw y brenhin Solomon. A'r holl bobl a aethant i fynu ar ei ol ef, yn canu pibellau, ac yn llawenychu â llawenydd mawr, fel y rhwygai y ddaear gan eu swn hwynt." Yn y modd yma llethwyd bradwriaeth Adoniah a'i gwmnion y rhai oeddynt y pryd hyn yn gwledda yn Jerusalem, er anrhydedd am ei esgyniad i'r orsedd. Nid cynt y gwnaed coroniad Solomon yn hysbys yn y wledd lawen hon, nag y dychrynodd yr "holl wahoddedigion, y rhai oedd gyda Adonïah, ac a gyfodasant, ac a aethant bob un ei ffordd."

Gweithred ddiweddaf Dafydd oedd rhoddi cyngor sanctaidd i'w fab

brenhinol, gan ei annog i "gadw cadwraeth yr Arglwydd ei Dduw, i rodio yn ei ffyrdd ef, i gadw ei ddeddfau ef, a'i orchymynion, a'i farnedigaethau, a'i dystiolaethau, fel yr ysgrifenwyd ynghyfraith Moses." Yr oedd y brenhin ieuangc, er fod ei deyrnasiad i fod yn un heddychol, yn ol yr enw a ddygai, i weinyddu cyfiawnder ar Joab ddrygionus a bradwrus; ond gorchymynwyd iddo ddangos caredigrwydd i Barzilai, ac i barchu yr addewid oedd Dafydd wedi ei wneyd i Simei, canys, yn anffodus, arddengys ein cyfieithiad ni y teyrn marwol fel yn gorchymyn yr hyn a wahardda yn fanwl. "A Solomon a eisteddodd ar orsedd-fainc Dafydd ei dad; a'i frenhiniaeth a sicrhawyd yn ddirfawr." Cosbedigaeth am drosedd newydd ydoedd marwolaeth Simei mewn cyfnod diweddarach, pan y torodd ei ymrwymiad ei hun i Solomon, trwy adael dinas Jerusalem, i'r hon yr oedd wedi ei ymddiried, a lle y gallasai drigianu o dan olwg y brenhin.

Cyn fod gennym un weddi gofnodiadol i Solomon am arweiniad Dwyfol, ni a ddarllenwn iddo "ymgyfathrachu â Pharaoh, brenhin yr Aipht, ac a briododd ferch Pharaoh, ac a'i dug hi i ddinas Dafydd, nes darfod iddo adeiladu ei dŷ ei hun, a thŷ yr Arglwydd, a mur Jerusalem oddiamgylch." Ac yn yr adolygiad ar ei fywyd gan yr hanesydd cyssegredig (1 Bren. xi. 1—13), yn gystal ag yn y ceryddon am briodasau cymhysg gyhoeddwyd gan Nehemiah (xiii. 26), crybwyllir am y gyfathrach yma fel un o'r achosion o'i gwymp dyfodol i eilun-addoliaeth. Ar yr achlysur o'r briodas hon, tybir iddo ysgrifenu Caniad Solomon, yn yr hon y mawryga hawddgarwch ei briodasferch Aiphtaidd, y dyrchafa ddeddf wreiddiol priodas i'w gwir fawredd, tra, trwy y rhan yma o'r canon cyssegredig, y tybir ei fod yn darlunio perthynas ddirgelaidd Crist a'i eglwys, fel yn Psalm xlv.

Dyga yr hen Gibeon, lle y safai y Tabernacl, er heb yr allor, hyd eto enw trwy ba un y cyssylltir hi a Solomon. O'r tu gogledd i'r hen ddinas, mae y Wady Sâleyman, dybir fod wedi derbyn ei henw oddiwrth ymweliadau mynych y brenhin i'r fan lle yr arosodd y babell sanctaidd hyd godiad y Deml yn Jerusalem. Yno yr offrymodd Solomon fil o boeth offrymau i Jehofah, ac ar ddiwedd y defodau hyn, ymddanghosodd yr Arglwydd iddo mewn breuddwyd nos, ac annogodd yr amlygiad o'i

ddymuniadau mewn gweddi. Gan deimlo ei ymddibyniad ar y ddoethineb Ddwyfol i'w arwain ef, a'i fod onid "dyn ieuangc iawn," nid "bachgen," efe a weddiodd: "Dyro i'th was galon ddeallus, i farnu dy bobl."

Yn y weddi hon yr oedd gan y brenhin ieuangc gyfeiriad neillduol at ei sefyllfa fel penadur yn nghanol cenedl fawr, a'i brif ddymuniad oedd am fesur helaeth o ddoethineb ddeddfwriaethol a medr gweinyddiadol. A'r weddi "fu dda yngolwg yr Arglwydd," am fod yr ymofynydd yn erfyn am y fendith oedd yn hanfodol i lwyddiant y genedl ar yr amser yr atebwyd y weddi. Dywedwyd fod y weddi yn hytrach am ddoethineb nag am dduwioldeb, er fod y ddawn ddiweddaf a'r bwysicaf yn gynhwysedig yn yr erfyniad, eto mae yn rhaid i ni ystyried y brenhin fel yn meddu dymuniad neillduol am ddoethineb enwog yn ei swydd frenhinol.

Nid cynt y deffrodd Solomon o'i freuddwyd, ac y dychwelodd i Jerusalem, i aberthu yno hefyd i Jehofah, nag y profodd yn y farn gyntaf gyhoeddodd, fod Jehofah yn wir wedi gwrando ei weddi. Profodd y farn enwog a roddodd y plentyn byw i'w fam, "fod doethineb Duw ynddo i wneuthur barn;" a dynodir y gallu i benderfynu yn gywir rhwng gwrthymgeiswyr hyd heddyw yn "farn Solomon" gan "feibion y dwyrain."

Un o'r darnau tlysaf yn Seisonaeg yw y darluniad canlynol o ddoethineb Solomon, o ysgrifell y dysgedig Dr. Isaac Barrow, yn ei "Bregethau ar Ddyledswydd a Gwobrwyon Diwydrwydd."

"Ystyriwch, os byddwch cystal, y fath ysgolhaig ydoedd Solomon, heblaw ei fedr mewn gwleidyddiaeth, yr hyn oedd ei brif allu a swydd, trwy ba un y rheolodd, gyda deheurwydd rhagorol a challineb, amgylchiadau y deyrnas fawr hono, 'gan farnu ei bobl, a deall rhagor rhwng da a drwg;' gan weinyddu cyfiawnder yn gywir; gan sefydlu ei wlad mewn sefyllfa mwyaf llwyddianus o heddwch, trefn, llawnder, a chyfoeth; gan eangu ei diriogaeth yn fawr; fel yr oedd ei ddoethineb o'r fath yma yn enwog dros y ddaear; heblaw, yr wyf yn dywedyd, y ddoethineb wladol yma, yr oedd ganddo fedr rhagorol mewn athroniaeth naturiol a meddyginiaeth; canys 'llefarodd am brennau,' neu blanhigion, 'o'r cedrwydd sydd yn Libanus, hyd yr isop a dŷf allan o'r pared; ac efe a lefarodd am anifeiliaid, ac am ehediaid, ac am ymlusgiaid, ac am bysgod.'

"Yr oedd yn eithaf hyddysg mewn mesuroniaeth; canys dywedir,

'doethineb Solomon oedd fwy nâ doethineb holl feibion y dwyrain, ac nâ holl ddoethineb yr Aipht;' yr oedd doethineb y cenhedloedd hyny yn gynhwysedig yn y gwyddorau hyn. Ac o'i fedr gallofyddol, gadawodd yn gofgolofn yr adeilad gogoneddusaf safodd erioed ar y ddaear.

"Yr oedd yn dra medrus mewn barddoniaeth a cherddoriaeth; gwnaeth ei hun 'fil a phump' o ganiadau, o'r hyn mae un eto ar gael yn dangos arucheledd ei ddychymyg, cyfoeth ei awen, a dillynder ei arddull.

"Yr oedd ganddo ddawn mawr a rheitheg; yn ol hyny yn y Doethineb, 'Duw a roddes i mi ddywedyd yn ol fy meddwl;' a hyny yn y Pregethwr, 'Chwiliodd y Pregethwr am eiriau cymmeradwy;' ac engraifft odidog o hyn yw y weddi ragorol hono o'i eiddo ar gyssegriad y Deml.

"Rhagorai yn rhyfeddol mewn moesddysg; am yr hyn y 'llefarodd dair mil o ddïarhebion,' neu wirebau moesol; ac 'hefyd,' medd y Pregethwr, 'am fod y Pregethwr yn ddoeth, efe a ddysgodd etto wybodaeth i'r bobl; ïe, efe a ystyriodd, ac a chwiliodd allan, ac a drefnodd ddïarhebion lawer;' y rhai a gynhwysent amrywiaeth o gyfarwyddiadau defnyddiol i fywyd cyffredin, wedi eu gwisgo mewn ymadroddion bywiog.

"Am dduwinyddiaeth, gan mai myfyrio hyny oedd y prif fyfyrdod at yr hyn yr annogai ereill, (fel at y 'pennaf,' neu brif ran 'doethineb,) felly, yr oedd ei hun yn drwyadl gyfarwydd ynddo, er prawf o'r hyn gadawodd gynifer o arwirebau rhagorol a gorchymynion dwyfyddol i ni

"I derfynu, nid oes un math o wybodaeth at ba un na ddarfu droi ei fyfyrdod; bydded ef ei hun yn dyst, 'A rhoddais fy mryd ar geisio a chwilio trwy ddoethineb, am bob peth a wnaed dan y nefoedd.'

"Dyna y fath ysgolhaig ydoedd; ac os oes gennym ni uchelgais ardderchog i fod felly, rhaid i ni ddefnyddio y llwybr a wnaeth ef; yr hyn oedd, yn nghyntaf i ddewis yn ei galon ddoethineb o flaen pob peth daearol; yna i weddio ar Dduw am dani, neu ar ei fendith yn ein hymchwiliad am dani; yna i ddefnyddio y moddion i'w chyraedd, ymchwiliad diwyd, a myfyrdod caled; canys hyn oedd ei ddull ef fel y dywed wrthym; 'Mi,' meddai, 'a droais â'm calon i wybod, ac i chwilio, ac i geisio doethineb, a rheswm.' Dengys ystyriaethau fel hyn yr angenrheidrwydd am ddiwydrwydd i ysgolhaig."

(Darllener 2 Samuel vii. 1 Brenhinoedd i. 28—diwedd; ii.; iii.)

## PENNOD V.

### TEML SOLOMON.

HYNODWYD teyrnasiad Solomon, yr hyn a barhaodd am dros ddeugain mlynedd, gan heddwch a chyfoeth, a chafodd y brenhin ei hun wedi ei gynhysgaeddu a phob defnyddiau a chynhorthwyon angenrheidiol i orphen y gwaith mawr hwnw—codi Teml i Jehofah yn Jerusalem. "Efe oedd yn llywodraethu ar y tu yma i'r afon oll, o Tiphsah hyd Azzah, ac ar yr holl frenhinoedd tu yma i'r afon; ac yr oedd iddo ef heddwch o bob parth iddo o amgylch. Ac yr oedd Judah ac Israel yn preswylio yn ddiogel, bob un o dan ei winwydden a than ei ffigysbren, o Dan hyd Beerseba, holl ddyddiau Solomon." Tiphsah ydoedd ddinas ar yr Euphrates, Azzah ydoedd Gaza, y pwynt acw sydd yn gorwedd ar derfyn deheuol tir Israel, fel yn iaith yr Ysgrythyr, ymestynai tiriogaeth y brenhin mawr yma, "o'r afon hyd derfynau y ddaear."

Er na chaniatâwyd i Dafydd adeiladu y Deml, fe dreuliodd ei gyfoeth yn helaeth, a chasglodd ddefnyddiau at y gwaith cyssegredig. "Wele," meddai wrth Solomon, "yn fy nhlodi y parottoais i dŷ yr Arglwydd gan mil o dalentau aur, a mil o filoedd o dalentau arian; ar bres hefyd, ac ar arian, nid oes bwys (canys y mae yn helaeth); coed hefyd a meini a barottoais i; ychwanega dithau attynt hwy." Cyfrifir yr aur a'r arian, heblaw yr holl ddefnyddiau ereill gasglwyd fel hyn, yn haner can' miliwn o'n harian ni. Solomon, yn ystyriol o'r gofal ymddiriedwyd iddo, a'r hyn ydoedd gwaith mawr ei fywyd, a ddylynodd esiampl ei dad duwiol mewn casglu defnyddiadau i'r adeilad, yr hwn, "am ei uwchder, gorwychder, a phrydferthwch, a fawrygir trwy yr holl wledydd." Aeth i gyngrair masnachol a Hiram, Brenhin Tyrus, cyfaill ei dad; ac yn gyfnewid am yd ac olew, anfonwyd iddo y cedrwydd mwyaf dewisol a ffynnidwydd o Libanus, heblaw meini mawrion a drudfawr, y rhai a ddarparodd y seiri meini yn y fan ar ol iddynt gael eu naddu o chwarelau Libanus. Yr oedd y meini hyn "i sylfaenu y tŷ," a'r un oeddynt ag a gynhyrfasant edmygedd disgyblion y Gwaredwr, fil o flynyddoedd yn ddiweddarach.

Yma rhaid i ni sylwi ar gadarnhad damweiniol i'r hanes cyssegredig. Darllenwn: "A'r tŷ, pan adeiladwyd ef, a adeiladwyd o gerrig wedi eu cwbl naddu cyn eu dwyn yno; fel na chlybuwyd na morthwylion, na bwyill, nac un offeryn haiarn, yn y tŷ, wrth adeiladu." Mae yr adroddiad a gyfeiria at y cerrig sylfaen mawrion hyn, yn gymhwys hefyd at yr holl gerrig ddefnyddiwyd yn yr adeilad. Dengys yr ymchwiliad diweddar i'r chwarelau mawrion o dan Jerusalem, nid yn unig fod y cerrig yn cael eu gwneyd yn barod cyn eu dwyn i'r Deml, ond hefyd y modd y darperid hwynt. "Tynai y pensaer yn nghyntaf amlinell o'r blociau ar wyneb y chwarel; yna naddai y gweithwyr hwynt allan yn eu trwch cyfan, gan eu gwahanu yn hollol oddiwrth eu gilydd, gan eu gadael yn ymlynol yn eu cefnau yn unig wrth y mur caled. Yna gwahanid hwy trwy dori agorfa tu ol iddynt, pa un, tra yn gwahanu y blociau, a'u gadawai wedi eu trwsio yn fras, a'r mur yn barod i weithrediad pellach." Mewn rhai o'r chwarelau hyn, gall yr ymchwilydd weled eto y blociau o gerrig ydynt wedi eu cloddio yn gorwedd wedi eu trwsio yn rhanol; mewn rhai mae y blociau yn ymlynol eto wrth y graig; mewn rhai mae y gweithwyr newydd ddechreu naddu; ac mewn rhai mae llinell y pensaer yn amlwg ar wyneb llyfn y chwarel. Fel ag y cana un o'n beirdd,—

> "Ni chlywid arf, na morthwyl yno chwaith;
> Fel tyfa pren, cyfodai'r adeil-waith."

Safle Teml Solomon ydoedd Mynydd Moriah, feddianwyd wedi hyny gan y Deml godwyd ar ddychweliad yr Iuddewon o Babilon, yna gan Deml Herod, yr hon a safai yn nyddiau ein Harglwydd, ac yn awr gan Mosc Omar. Gan nad oedd arwynebedd Moriah yn ddigon mawr i'r adail gyssegredig, fe'i heangwyd ychydig trwy furiau cryfion godwyd o'r dyffryn, llanwyd y lleoedd rhyngddynt a phridd. Er i ychydig mwy na saith mlynedd gael eu treulio yn yr adeiladiad yma, nis gallwn ffurfio ond syniad amherffaith o'i ardderchogrwydd, gan fel y gwelsom fod yr oll wedi ei gynllunio, ac yn agos yr holl ddefnyddiau wedi eu trefnu yn hir cyn dechreu ar adeiladu.

Rhoddir y mesuriadau gyda chywirdeb yn yr Ysgrythyrau a ddifyn-

asom, ond yr ydym yn analluog i roddi darluniad boddhaol o'r adeilad rhyfeddol yma, ucheledd yr hwn o'r hyn leiaf sydd fater o gryn amrywiaeth barn. Mae yr oll, modd bynag, yn cytuno am ei ardderchogrwydd odiaeth, a'i wychder, o'r hyn y mae gennym brawf digonol oddiwrth lawnder y metteloedd gwerthfawr, y coed godidog, y crogleni costus, a medr enwog y celfyddydwyr, yn mysg pa rai yr oedd y rhai a anfonwyd gan Hiram o Tyrus yn amlwg. Dylid sylwi fod yr adeilad yn cyrhaedd o'r dwyrain i'r gorllewin, a'r prif fynedfa gyferbyn a Mynydd yr Olewydd, fel yr un modd ag y sylwyd, yr oedd cwmwl y presennoldeb Dwyfol "ar derfyn gorllewinol y cyssegr, gan gyfeirio fel pe buasai i Galfaria, gwir le iawn dros bechodau dynolryw, ac hefyd i'w gwahaniaethu oddiwrth y temlau paganaidd, dirgelfanau y rhai, neu oraclau, yn gyffredin a wynebent y dwyrain, neu godiad haul, prif wrthddrych eilunaddoliaeth paganaidd." Eglura y trefniad yma y darluniad roddwyd gan Ezekiel o'r dirywiad a welodd mewn gweledigaeth, o "ynghylch pum ŵr ar hugain, a'u cefnau tu ag at deml yr Arglwydd, a'u hwynebau tu a'r dwyrain; ac yr oeddynt yn ymgrymu i'r haul tu a'r dwyrain."


Wrth droi y mesuriadau Hebrëig o'r Deml i'n safon Seisonig, fe ganfyddir nad oedd y Deml yn llawer mwy nag un o'n heglwysi; nid oedd yn fwy na chant a phump o droedfeddi o hyd, pymtheg troedfedd ar hugain o led, a deuddeg troedfedd a deugain o uchder, ac mewn ffurf yn gyffelyb i'r fath adeilad yn ei chymmedrau. Gan dybied yr adeilad yma wedi ei ranu i dair rhan cyfartal, penodid dwy i'r Sanctaidd, ac un rhan i'r Sanctaidd Sancteiddiolaf, enwid yn gyffredin yr Oracl, y dirgelfan gyssegredig, o ba le y deuai allan yr atebion oraclaidd.

Yr oedd y Sanctaidd Sancteiddiolaf—lle yr oedd yr arch, gysgodid gan y cerubiaid, ac uwch ben yr hon y gorphwysai cwmwl y gogoniant—yn wahanedig oddiwrth y Sanctaidd gan len o las, porphor, ysgarlad, a llïain main cyfrodedd. Yr oedd gan y lle sanctaidd ei ddeg canwyllbren aur, pump ar bob ochr, ei fwrdd y bara-gosod, a'i allor aur arogldarth, mor agos i'r oracl fel y gallai ei pherarogiau fyned yn barhaus o fewn y llen, gan arddangos gweddiau y duwiol. I'r lle sanctaidd yma nid âi i mewn ond yr offeiriaid "oedd yn cyflawni gwasanaeth Duw;" tra yr arch-offeiriad yn unig âi i mewn i'r Sanctaidd Sancteiddiolaf, a hyny yn unig ar Ddydd

y Cymmod. Neillduid yr oll o'r adeilad yma yn hollol i'r offeiriaid a'r Lefiaid, ac wrth ei adael yr ydym yn myned trwy borth gorwych Solomon, yr hwn oedd yn y fan leiaf yn gant a phedwar ugain, neu fe allai yn ddau cant a deg o droedfeddi o uchder. Gallai fod yn debyg i dŵr un o'n heglwysi, neu eglwysi cadeiriol, neu y porth ddarganfyddwyd yn ddiweddar o flaen palas yn hen Ninefeh. O flaen y porth hwn yr oedd y ddwy golofn uchel, Jachin a Boas, wedi eu toddi o bres, trwy fedr Hiram a'i weithwyr.

Cylchynid y Deml gan gyntedd yr offeiriaid, yn mha un y safai yr allor fawr o gerrig yn orchuddedig a phres, deg o noeau yn ymyl y fynedfa, heblaw y môr pres, yn pwyso ar ysgwyddau deuddeg ych, hefyd wedi eu toddi o bres. Yn ol 2 Chron. iv. 5, "tair mil o bathau a dderbyniai, ac a ddaliai;" ond yn ol 1 Bren. vii. 26, "dwy fil o bathau a annai ynddo." Gellir ystyried yr adroddiad cyntaf o'r rhai hyn fel yn hysbysu ei gymhwysder, yr olaf ei gynhwys cyffredin, pa un ydoedd yn un mil ar bymtheg o alwyni. Oddiallan i'r cyntedd yma yr oedd "cyntedd Israel," o faintioli llawer mwy, wedi ei neillduo i'r bobl a aent i ymddangos ger bron Duw yn Ei le sanctaidd; y rhan bellaf o'r hwn a elwid y "cyntedd nesaf allan," a neillduid i addolwyr menywaidd, a thu draw i'r hwn y caniatëid iddynt fyned heibio yn unig pan y byddai ganddynt aberthau i'w cyflwyno. Tu draw i'r cyntedd hwn i'r menywod, yr oedd un arall, gwahanedig oddiwrtho gan fûr tair cyfudd o uchder o waith dellt, a thrwy y rhai y gallai y Cenhedloedd, i ba rai y penodid ef, fod yn dystion o'r defodau cyssegredig. Hwn ydoedd y mwyaf o'r holl gynteddau, a chyrhaeddai dros bedair ar ddeg o erwau Seisonig. Amgylchid yr oll o'r cynteddau hyn gan drigfanau i'r offeiriaid lliosog a'r Lefiaid, pa rai yn eu hamrywiol ranau a aethant i'r cyssegr i "gyflawni gwasanaeth Duw." Gan fod y gwahanol gynteddau yn codi o'r mynedfa yn uwchrawdau, pob cyntedd nesaf i mewn yn codi at godiad y lle sanctaidd, yr oedd yr addolwyr, gan nad pa mor bell, yn alluog i weled y defodau; tra yr oedd y Deml, trwy ei chodiad, i'w gweled yn amlwg o bob rhan o'r ddinas, a chan y llwythau fel y dynesent o'r wlad o amgylch.

(Darllener 1 Brenhinoedd iv.)



SOLOMON IN HIS GLORY.

## PENNOD VI.

### SOLOMON YN EI OGONIANT A'I DDIRYWIAD.

PAN y cyflawnodd Solomon amcanion goruchel ei dad, yn nghodiad y Deml, efe "a ddug i mewn yr hyn a gyssegrasai Dafydd, ac a osododd yn nhrysorau tŷ Dduw yr arian, a'r aur, a'r holl lestri." Hyd yn hyn yr oedd arch y dystiolaeth wedi aros yn Sïon, dinas Dafydd, ond yn awr, "yr offeiriaid a ddygasant arch cyfammod yr Arglwydd i'w lle ei hun, i gafell y tŷ, i'r cyssegr Sancteiddiaf, dan adenydd y cerubiaid. Canys y cerubiaid oedd yn lledu eu hadenydd dros le yr arch, a'r cerubiaid a orchuddient yr arch, a'i barrau oddi arnodd. A'r barrau a estynnasant, fel y gwelid pennau y barrau o'r cyssegr o flaen y gafell, ond ni's gwelid oddi allan: yno y maent hwy hyd y dydd hwn."

Yr arch hon, pa un y pryd yma ydoedd yn hybarchus am ei hoedran —canys yr oedd wedi ei gwneyd oddeutu pedwar cant a deugain mlynedd —a ddylynid eto gan yr arwydd o'r presennoldeb Dwyfol; ac nid cynt y cymmerwyd hi i'w lle—i'r Sanctaidd Sancteiddiolaf, nag y llanwodd "y cwmmwl dŷ'r Arglwydd, fel nad allai yr offeiriaid sefyll i wasanaethu, o herwydd y cwmmwl; canys gogoniant yr Arglwydd a lanwasai dŷ yr Arglwydd." Dengys gweddi Solomon, pan y cyssegrodd y Deml i Jehofah, ei aberthau drudfawr, pa rai yr oedd yr allor bres fawr yn "rhy fechan i dderbyn," ei fendith gyhoeddodd ar y bobl, a'i gynghor i rodio yn ffyrdd yr Arglwydd a chadw Ei orchymynion, a'i groesawgarwch brenhinol am bedwar diwrnod ar ddeg i'w holl ddeiliaid, gyda pha fath ddifrifwch ac hyfrydwch Sanctaidd yr ystyriai y gwaith mawr a oddefodd Jehofah iddo i'w wneyd. Dylynwyd y dydd cofiadwy hwnw gan nos gyssegredig, yn yr hon ymddanghosodd Jehofah drachefn mewn gweledigaeth i'w was, ac a'i sicrhaodd ef fod ei weddi wedi ei gwrando, y Deml wedi ei chyssegru, a therfynodd gyda'r addewid os gwnai ef barhau yn ffyddlawn i Jehofah fel ei dad Dafydd, y cadarnhai Jehofah ei orsedd yn dragywydd. Dylynid yr addewid yma á rhybudd ffyddlawn rhag gwrthgiliad. Os digwydda hyny, meddai Jehofah, "Yna y torraf Israel oddiar

wyneb y tir a roddais iddynt hwy; a'r tŷ hwn a gyssegrais i'm henw a fwriaf allan o'm golwg; ac Israel fydd yn ddiareb ac yn wawd ym mysg yr holl bobloedd."

Ar ol gorpheniad y Deml cododd y brenhin mawr yma balas iddo ei hun, un arall i'w frenhines, ac adeiladau rhwysgfawr ereill yn Jerusalem, yn mysg pa rai yr oedd llys barn, yn cynhwys "gorseddfa fawr o ifori, ac a'i gwisgodd âg aur pur. A chwech o risiau oedd i'r orseddfa, a throedle o aur, ynglŷn wrth yr orseddfa, a chanllawiau o bob tu i'r eisteddle, a dau lew yn sefyll wrth y canllawiau. A deuddeg o lewod yn sefyll yno ar y chwe gris o bob tu; ni wnaethpwyd y fath mewn un deyrnas." Yr oedd yn ofalus i amgaeru, nid yn unig y ddinas lle y trigai, ond ei ddinasoedd trysorau a'i amddiffynfeydd trwy ei diriogaeth. Arddanghosid ei chwaeth gref at adeiladaeth, yr hyn a gynhelid gan ei adnoddion dirfawr, yn mharthau pellaf ei lywodraeth. Gwelsom fod ei lywodraeth yn cyrhaedd i'r Euphrates, yn agos i'r hon "efe a adeiladodd Tadmor yn yr anialwch." Awgrymwyd, a chyda phriodoleb mawr, i'r ddinas yma gael ei chodi i gynhorthwyo y fasnach yn mha un yr ymwnai y brenhin. Mae y gymmydogaeth yn unrhyw beth ond deniadol, ond y mae gan y safle y fantais o gyflenwad helaeth o ddwfr, tra y mae y mwyaf manteisiol er sicrhau y fasnach ardirol rhwng Persia, India, ac Asia Orllewinol, gan gynhwys Palestina. Erys olion y ddinas hon yn awr yn adfeilion Palmyra, ond y mae ei cholofnau Corinthiaidd hardd yn fwy diweddar nag amser Solomon. Bahalath, dybir i fod yr un a Baalbec, a feddiannai y rhan ogleddol o diriogaeth Solomon, gan y safai yn Cœle-Syria, dyffryn mawr Libanus, a chyrhaeddai ei frenhiniaeth i "Libanus pellaf." Rhoddai Bahalath neilldufa haf lawn i'r brenhin, a chyfrifa ei arosiad yn nghanol ei golygfa brydferth, am y cyfeiriadau yn ei ysgrifeniadau at y parth mwyaf dewisol yma. Yr adfeilion clasurol o'r Baalbec ddiweddar, ydynt o ddyddiad nid hir cyn y cyfnod Cristionogol.

Yn awr am y waith gyntaf, o dan arweiniad eu brenhin deallgar, dechreuodd yr Israeliaid ganfod gwerth a medi y fantais o fasnach eang. "A'r brenhin Solomon a wnaeth longau yn Esion-gaber, yr hon sydd wrth Eloth, ar fin y Môr Coch, yng ngwlad Edom. A Hiram a anfonodd

ei weision yn y llongau, y rhai oedd longwyr yn medru oddiwrth y môr, gyd a gweision Solomon. A hwy a ddaethant i Ophir, ac a ddygasant oddi yno bedwar cant ac ugain o dalentau aur, ac a'u dygasant at y brenhin Solomon." Aeth ei gludresau o nwyddau masnachol heibio rhwng Jerusalem a môrgainc dwyreiniol y Mor Coch, lle yn Esion-gaber, y cafodd "longau a gweision cyfarwydd ar y môr," ac felly trafnidiasant i Ophir, lle y cawsant gyflenwadau helaeth o aur ac arian, ifori, eppaod, a pheunod. Nid yw y dysgedigion mewn un modd yn unol yn unrhywio Ophir neu Tarsis amserau Solomon, ac y mae yn eithaf tebygol fod pob un o'r enwau wedi eu defnyddio yn yr ystyr y llefarwn ni yn awr am Eldorado, gwlad yr aur, neu fel y defnyddia yr Arabiaid y gair Ophir, i arwyddo "y gwledydd cyfoethog." Ymddengys i'r Phœniciaid wylio gydag eiddigedd mawr dros eu trafnidiaeth a'r byd gorllewinol, a gallai y defnyddir y Tarsis grybwyllir yn hanes Solomon, yn lle dynodi Tartessus yr Ysbaen, mewn ystyr gyffredinol, i osod allan rai o'r lleoedd pell a pha rai y dygai llynges Solomon yn mlaen ei fasnach lwyddianus.

Darlunia Solomon ei hun yn ffyddlawn y rhan yma o'i hanes pan y dywed: "Mi a wneuthum i mi waith mawr; mi a adeiledais i mi dai; mi a blennais i mi winllannoedd; mi a wneuthum erddi a pherllannau, ac a blennais ynddynt brennau o bob ffrwyth; mi a wneuthum lynnau dwfr, i ddyfrhau â hwynt y llwyni sydd yn dwyn coed." Dywed wrthym hefyd mor lleied o fwynhad gwirioneddol a ddygodd y gweithiau hyn: "Wele, hyn oll oedd wagedd a gorthrymder ysbryd!"

Tra fel hyn yn uchder ei fri am fawrhydi a doethineb, "clybu brenhines Seba glod Solomon, am enw yr Arglwydd; hi a ddaeth i'w brofi â chwestiynau caled." Gallwn gyfrif "Brenhines y Dehau" fel tywysoges Abyssiniaidd fawr, yr hon oedd wedi clywed am glod Solomon trwy rai o'r marchnadyddion a drafnidient drosto ef yn ei gwlad hi, a gallai fod y "cwestiynau caled" yn dal perthynas a'r wir grefydd hono adwaenid yn unig yn mysg y bobl dros ba rai y teyrnasai Solomon, canys hi a glybu am ei "glod am enw yr Arglwydd." Mae y golygiad yma yn sicr yn unol a'r dôn grefyddol yn mha un y traethodd ei llongyfarchiadau: "Bendigedig fyddo yr Arglwydd dy Dduw, yr hwn a'th hoffodd di, i'th osod ar ei orseddfa ef, yn frenhin dros yr Arglwydd dy Dduw: o herwydd

cariad dy Dduw tuag at Israel, i'w sicrhau yn dragywydd, am hynny y gwnaeth efe dydi yn frenhin arnynt hwy, i wneuthur barn a chyfiawnder." Yr oedd y frenhines yn un o lawer a edmygai ei ddoethineb, canys yr "holl fyd oedd yn ceisio gweled wyneb Solomon, i glywed ei ddoethineb ef, a roddasai Duw yn ei galon ef." Gallai fod yr edmygiad a dderbyniodd wedi profi yn fagl iddo, ac i'w gyfoeth helaeth, pan y "brenhin a wnaeth yr arian yn Jerusalem fel cerrig, a'r cedrwydd a wnaeth efe fel sycomorwydd yn y doldir, o amldra," gynhorthwyo i ddenu ei galon oddiwrth Dduw.

Dylynir yr arddanghosiadau o'i ogoniant yn union gan yr hanes am ei gwymp. Ei liaws gwragedd dïeithr "a droisant ei galon ar ol duwiau dïeithr; ac nid oedd ei galon ef berffaith gyda'r Arglwydd ei Dduw, fel y buasai calon Dafydd ei dad." Efe, yr hwn a adeiladodd Deml ogoneddus ar Moriah, ac a'i cyssegrodd â gweddi ddifrifol, ac âg aberthau drudfawr i'r unig wir Dduw, yn awr "a wnaeth yr hyn oedd ddrwg yngolwg yr Arglwydd, ac ni chyflawnodd fyned ar ol yr Arglwydd, fel Dafydd ei dad. Yna Solomon a adeiladodd uchelfa i Chemos, ffieidd-dra Moab, yn y bryn sydd ar gyfer Jerusalem; ac i Moloch, ffieidd-dra meibion Ammon. Ac felly y gwnaeth efe i'w holl wragedd dieithr, y rhai a arogldarthasant ac a aberthasant i'w duwiau."

Anfonodd yr Arglwydd drallodion ar y brenhin eilun-addolgar. Cyffrowyd gwrthwynebwyr i fyny yn Edom a'r Aipht, tra yn ei diriogaethau ei hun, gwelodd yr wrthryfel yn codi ydoedd i gipio oddiar ei fab ddeg rhan o'i frenhiniaeth ogoneddus. Onid allwn, modd bynag, ffafrio y dyb mai y trallodion hyn oeddynt y gwiail cerydd gyda pha rai y fflangellodd Jehofah y troseddwr, ac iddo yn ei ddyddiau diweddaf weithredu yr edifeirwch dwfn o ba un mae Llyfr y Pregethwr yn gofnodiad? Fel y dysga yr hanes yma ni i "beidio a'r dyn," gan nad yw ar y goreu ond gwagedd, ac i edrych ato Ef, o ddoethineb, gogoniant, a llywodraeth eang yr hwn, nid oedd Solomon ond cysgod gwan! Bydded i ni fyned i Jerusalem fil o flynyddoedd yn ddiweddarach na'r cyfnod ydym ni yn awr wedi ei gyrhaedd, a gwrando arno Ef yr hwn a ddywed, "wele fwy na Solomon yma."

(Darllener 1 Brenhinoedd viii.—xi. Pregethwr ii. 1—11.)

## PENNOD VII.

### YR HEBREAID WEDI EU RHANU YN DDWY GENEDL.

REHOBOAM, y mab a adawodd Solomon i fod ei olynydd ar orsedd Israel, ydoedd blentyn o undeb llygredig rhwng brenhin Hebrëig a thywysoges Ammonaidd, enw yr hon oedd Naamah. Gan nad ellid disgwyl am fendith i'r genedl Hebrëig oddiwrth yr hiliogaeth anghyfreithlawn yma, felly y cawn i Judah o dan ei deyrnasiad ef wneyd "drygioni yngolwg yr Arglwydd, a hwy a'i hannogasant ef i eiddigedd, rhagor yr hyn oll a wnaethai eu tadau, yn eu pechodau a wnaethant. Canys hwy a adeiladasant iddynt uchelfeydd, a delwau, a llwyni ar bob bryn uchel, a than bob pren gwyrddlas. A gwŷr Sodomaidd oedd yn y wlad; gwnaethant hefyd yn ol holl ffieidd-dra y cenhedloedd a fwriasai yr Arglwydd allan o flaen meibion Israel."

Rhoddodd y brenhin ieuangc yma, yr hwn a esgynodd i orsedd Israel yn un-ar-bymtheg oed, y prawf mwyaf niweidiol o'i anghyfaddasder i lanw gorsedd Dafydd. Pan yr ymgynnullodd y bobl yn Sichem i'w wneyd ef eu brenhin, hwy yn mherson Jeroboam, a achwynasant ar drethoedd trymion y teyrnasiad blaenorol, a chyflwynasant y cais cymhedrol ar iddo ysgafnhau yr iau oedd wedi gwasgu mor drom arnynt. Y cais hwn, gynhorthwyid gan annogaeth hen gynghorwyr ei dad, a wrthodwyd yn ddirmygus. Yn unol a chynghor y gwyr ieuaingc a ddewisodd yn gwmnïon, anerchodd y tywysog ieuangc cyndyn yma fel hyn ei ddeiliaid: "Fy nhad a wnaeth eich iau chwi yn drom, a minnau a chwanegaf ar eich iau chwi; fy nhad a'ch ceryddodd chwi â ffrewyllau, a minnau a'ch ceryddaf chwi âg ysgorpionau."

Costiodd yr araeth ynfyd a thraws-arglwyddol yma i'r brenhin y rhan fwyaf o lawer o'i frenhiniaeth, ac arweiniodd at gwblhâd y rhagfynegiad oedd Ahïah y prophwyd wedi ei draethu yn barod yn nghlustiau Jeroboam. Darllenwn am dano ef ei fod yn "ŵr grymmus o nerth; a Solomon a ganfu y llangc hwnnw yn medru gwneuthur gwaith, ac a'i gwnaeth ef yn oruchwyliwr ar holl faich tŷ Joseph. A'r pryd hynny, a Jeroboam yn myned allan o Jerusalem, prophwyd Ahïah y Siloniad a'i cafodd ef

ar y ffordd; ac efe oedd wedi ei wisgo mewn gwisg newydd; a hwynt ill dau oeddynt yn unig yn y maes; ac Ahïah a ymaflodd yn y wisg newydd oedd am dano ef, ac a'i rhwygodd yn ddeuddeg o ddarnau. Ac efe a ddywedodd wrth Jeroboam, Cymmer i ti ddeg darn; canys fel hyn y dywed yr Arglwydd, Duw Israel, Wele fi yn rhwygo y frenhiniaeth o law Solomon, a rhoddaf ddeg llwyth i ti." Dyna ydoedd dechreuad brenhin cyntaf Israel, fel ei gwahaniaethid oddiwrth frenhinoedd Judah a Benjamin. Mae o bwys sylwi ar y digwyddiad yma, gan iddo wahanu i ddwy genedl y bobl, pe buasent yn ffyddlawn i Jehofah, a fwynhasent undeb nad allai yr un gelyn ei ranu, gan drigo o dan gysgod yr Hollalluog. Parhaodd yr ymraniad grewyd fel hyn am dros ddau cant a haner o flynyddoedd, ac yr oedd yn achos o wendid, eilun-addoliaeth, terfysgiadau mewnol, a gorchfygiad gan y gelynion.

Un o ganlyniadau cyntaf yr ymraniad yma ydoedd sefydliad dwy deml eilun-addolgar i'r Israeliaid, i'w rhwystro i fyned i addoli i'r Deml i Jerusalem. Jeroboam, yr hwn oedd wedi bod yn ymnoddydd yn yr Aipht, a roddodd ei galon ddibetrus yno i fyny i eilun-addoliaeth, a phan y canfyddodd y gallai egwyddorion crefyddol y bobl beryglu eu hymlyniad, fe ddefnyddiodd y gwladlywiad hwnw sydd yn gwneyd crefydd yn israddol i bethau bydol, ac yn gynhorthwyedig gan ei gynghorwyr efe "a wnaeth ddau lo aur, ac a ddywedodd wrthynt hwy, Gormod yw i chwi fyned i fynu i Jerusalem; wele dy dduwiau di, O Israel, y rhai a'th ddug di i fynu o wlad yr Aipht. Ac efe a osododd un yn Bethel, ac a osododd y llall yn Dan. A'r peth hyn a aeth yn bechod; oblegid y bobl a aethant ger bron y naill hyd Ddan. Ac efe a wnaeth dŷ uchelfeydd, ac a wnaeth offeiriaid o'r rhai gwaelaf o'r bobl, y rhai nid oedd o feibion Lefi."

Un o'r gwyriad-draith mwyaf dyddorol yn yr hanes yma a berthyna i'r prophwyd yr hwn a anfonodd yr Arglwydd i Bethel mor gynted y codwyd yr allor eilun-addolgar, i draethu barnau yr Arglwydd yno yn erbyn yr olygfa yma o ofergoeliaeth, a'r offeiriaid a wasanaethai o'i chylch.

Cyflwynodd ei genadwri yn ffyddlawn, a gwrthododd wedi hyny gymmeryd lluniaeth yn nhŷ y brenhin, neu dderbyn ei lwgr-wobr. Ar ei ddychweliad, lladdwyd ef gan lew, o herwydd anufuddhau o hono i orch-

ymyn yr Arglwydd, wrth oddef iddo ei hun gymmeryd ei ddenu o'r neilldu gan hen brophwyd, yr hwn a ddywedodd gelwydd wrtho. Llanwodd Jeroboam y ddwy flynedd ar hugain o'i deyrnasiad mewn arwain ei ddeiliaid i bechod; efe a "gariodd Israel i bechu." Gan i'r offeiriaid hyny oeddynt wedi eu chwalu trwy y wlad wrthod ymuno yn yr addoliad eilun-addolgar a sefydlodd, hwy a ffoisant i Jerusalem a Judah, tra y syrthiodd amrai yn ferthyron i wir ffydd Abraham.

Nid oedd Rehoboam wedi bod ond pum' mlynedd ar orsedd Judah, pan y profodd aflwyddiant newydd trwy ei ffolineb. Ennynodd y cyfoeth mawr ymgasgledig yn Jerusalem, yn y palas, ac yn y Deml, drachwant Sisac, brenhin yr Aipht; a chan fod Jeroboam wedi bod yn ymddibynydd ar y brenhin Aiphtaidd, ni theimlai awydd i wrthwynebu ei oresgyniad ar lwyth Judah, a'i ysbeiliad o'r Deml. Yr oedd brenhin Judah yn rhy wan i gynhyg gwrthwynebiad, ac felly Sisac "a ddug ymaith drysorau tŷ yr Arglwydd, a thrysorau tŷ y brenhin; efe a'u dug hwynt ymaith oll; dug ymaith hefyd yr holl dariannau aur a wnaethai Solomon."

Yma ni a allwn sylwi ar amgylchiad arall yn mha un mae yr hanes cyssegredig yn cael ei gadarnhau o ffynhonellau allanol. Ychydig o flynyddoedd yn ol, ysgrifenydd deallgar a ddywedodd, "Gall manylion y rhyfelawd yma fod wedi eu cofnodi yn arwyddluniau yr Aipht, ac ni all neb ddyweyd na roddir y rhai hyn ryw ddydd ne'i gilydd i'r byd." Mae y disgwyliad fynegwyd fel hyn wedi ei gyflawni yn llawn. Dywed Dr. Brugsch: "Dengys y basddarlun mawr yn Karnak i ni y brenhin Sisac wedi ei goroni â dwy goron—yr Aipht Uwchaf ac Isaf. Cyfyd ei law ddeheu, ac ysgydwa y crymgledd Aiphtaidd i ladd nifer o elynion estronol ar eu gliniau wrth ei draed. Hysbysa nifer o arysgrifau arwyddluniol ar y mur ni, nad yw y Pharaoh neb amgen na Mab buddugoliaethus yr Haul, ac anwylyd mynwesol Ammon Sheshouk I. Mae enwau y dinasoedd estronol, amddiffynfeydd, a'r gwledydd gymmerwyd gan Pharaoh yn amgauedig mewn mwy na chant a deunaw ar hugain o belgistiau mandyllog, yn gylchynedig gan ddarluniau haner-hyd, pob un yn arddangos y lle personoledig. Arddengys yr enwau hyn liaws o drefydd yn Judea, yn gystal ag yn Idumea."

(Darllener 1 Brenhinoedd xi.)

## PENNOD VIII.

### Y PROPHWYDI.

NID oedd y prophwydi yn urdd fel yr offeiriaid Iuddewig, yn gyfyngedig i oruchwyliaeth neillduol, canys yr ydym yn eu cael yn cyrhaedd o amser Enoch cyn y Diluw, hyd Ioan, ysgrifenydd diweddaf y Testament Newydd. Mae Tad ein hysbrydoedd wedi cadw iddo ei hun y gallu, o dan bob goruchwyliaeth, i godi dynion sanctaidd, gan eu llenwi â'i Ysbryd Glân, a'u hanfon hwy allan i gyflwyno ei genadwriaethau naill ai at yr eglwys neu y byd. Yn ei ystyr fanwl a phriodol, cyfeiria y term at un sydd wedi ei anfon i ddatguddio y bwriad Dwyfol, naill ai o drugaredd neu farn, mewn digwyddiadau ydynt yn ymyl, neu i gael eu cyflawni yn y dyfodol pell. Yn yr amgylchiad cyntaf, dywedid wrthynt am beidio a selio i fyny eu prophwydoliaeth, ac yn y llall yr oedd ganddynt i selio eu rhagfynegiadau, a'u dodi yn ddiogel at wasanaeth yr eglwys yn yr oesau dyfodol.

Yr oeddynt yn fynych yn ddynion isel, fel Amos, yr hwn ydoedd driniwr ffigys gwylltion; ond yr oedd rhai o ddiwylliad ac addysg uchel, fel Esaiah, ysgrifeniadau yr hwn a berthynant i'r oes euraidd yn llenyddiaeth Hebrëig. Eu gwisg yn gyffredin ydoedd "grys o rawn" o flew camel, a gwregys o groen am eu lwynau; tra yr oedd eu trigfanau yn y wlad bellenig, ar wahan oddiwrth gyrchleoedd cyffredin dynion, at y rhai y danfonid hwy, a llygredigaethau pa rai yr oedd ganddynt i'w ceryddu.

Cyfarwyddid y prophwydi yn fynych i ddatguddio yr ewyllys Ddwyfol trwy arddanghosiadau arwyddluniol. Fel hyn, pan y fforffediodd Saul frenhiniaeth Israel, wedi i'r brenhin rwygo mantell Samuel, dywedodd y prophwyd wrtho, "Yr Arglwydd a rwygodd frenhiniaeth Israel oddi wrthyt ti heddyw." Rhanodd Ahïah fantell Jeroboam i ddeg o ddarnau, fel arwydd fod deg o'r llwythau i gael eu rhwygo oddiwrth Rehoboam a'u rhoddi iddo ef. Eliseüs, wrth farw, a orchymynodd i Joas yn gyntaf i saethu saeth allan o'r ffenestr, ac yna taro ar y llawr â sypyn o saethau, fel arwydd y cai yr Assyriaid eu gorchfygu.

Rhaid i ni wahaniaethu, modd bynag, rhwng y gweithredoedd hyny

oeddynt yn allanol, a'r rhai oeddynt yn fewnol. Yr oedd llawer o'r cyfarwyddiadau roddwyd i'r prophwydi yn perthyn i'r gweledigaethau â pha rai y ffafriwyd hwy, i'r diben o argraffu y gwirionedd Dwyfol ar eu meddyliau eu hunain. Yn y modd yma y gallwn ddeall y cyfarwyddiadau i Jeremiah, i gymmeryd phiol win a'i hanfon i'r holl genhedloedd i yfed o honi, (Jer. xxv. 15); Ezekiel yn cymmeryd rhol y llyfr i'w fwytta, (Exek. ii. 9); a rhai pethau ydynt yn anghyson a'r cyfreithiau Dwyfol.

Yr oedd gau yn gystal a gwir brophwydi; a threfnodd Jehofah i'w bobl brawfion trwy ba rai y gallent yn wastad wahaniaethu rhwng y gwir a'r gau. Nid oedd dim ffydd i gael ei roddi i ragfynegiadau un gŵr a safai i fyny yn enw yr Arglwydd, oddieithr ei fod wedi ei gymmeradwyo trwy wyrthiau a ddalient yr ymchwiliad eithaf, a phrofi yn "arwyddion" o'i genadwri Ddwyfol. Mewn amgylchiadau ereill, yr oedd y brophwydoliaeth a chyfeiriad at ddigwyddiadau oeddynt i gymmeryd lle yn fuan, yn gystal ag at amserau pellach, tra yr oedd y digwyddiad agosaf yn sail ddigonol i grediniaeth yn y dyfodol. Pan yr ystyriom werth dirfawr y gwirionedd Dwyfol ddatguddiwyd i'r Israeliaid, nis gallwn deimlo dim rhyfeddod at y rhag-rybuddion fabwysiadwyd rhag y gau brophwydi, y rhai a safent i fyny i demptio y bobl i ymadael o uniawn ffyrdd yr Arglwydd; ac ni a allwn yn rhwydd ddirnad cyfawnder y ddedfryd a gondemniai y temptiwr i'r gosb o farwolaeth.

Nid oes dim gormodiaeth yn y darluniad hyawdl roddir o'r gwyr ysbrydoledig hyn, trwy ba rai y llefarodd Duw "gynt wrth y tadau," a geiriau pa rai a ffurfiant ran mwyaf pwysig o Ysgrythyrau yr Hen Destament. Dr. Anthony Horneck, yn ei "Ddeddf Fawr Ymbwylledd," a ddywed eu bod "yn ddynion, fel lampau, a losgent eu holew eu hunain i oleuo eu gwrandawyr i'r nefoedd. Pan nad allai geiriau ffynu, dagrau oeddynt y moddion i'w hystwytho ac effeithio arnynt; ac ymddengys nad oes rheitheg gryfach yn y byd na'r rhai hyn. Yma llefarai un prophwyd fel areithydd; yna un arall fel rhesymegydd. Yma ymdrechai un trwy hyawdledd i'w swyno; yna un arall trwy reswm eglur i'w hargyhoeddi. Yma *bygythiai* un; yna *addawai* un arall. Yma deuai un a *theyrnwialen cariad;* yna un arall ag *udgorn rhyfel.* Yma galwai un arnynt oddiar Fynydd Ebal; yna un arall oddiar Fynydd Gerisim. Yma

tyngheda un hwynt trwy fendithion y *cawell* a'r *gell;* yna un arall trwy ffrwyth eu *cyrff* a ffrwyth eu *tir*. Yma gwnai un iddynt deimlo eu cyfraith danllyd; yna un arall a'u gwahoddai trwy *win* a *llaeth, heb arian* ac *heb werth*. Yma danghosai un iddynt *fara a dwfr gorthrymder;* yna un arall a agorai *afonydd* ar *leoedd uchel*, a *ffynhonau* yn nghanol y *dyffrynoedd*. Yma cynhygiai un ei law i'w gwaredu, yna un arall a ddinoethai ei fraich ddialeddol. Yma cynhygiai un arch i'r rhai a ddymunent am drugaredd; yna un arall a wlawiai i lawr *ddylifiadau* o felldithion i foddi y cyndyn. Yma arddanghosai un Dduw wedi tynu allan ei gleddyf, *mwg* yn myned allan o'i ffroenau, a thân fflamllyd o'i eneu; yna canlynai un arall bechaduriaid at byrth uffern, gyda chynhygion o drugaredd yn ei law, a thra yr oedd dial yn curo wrth y drws, a'r cleddyf wrth eu calon, galwai arnynt, 'Dychwelwch, dychwelwch; paham y byddwch feirw?'"

Yn mysg nodweddiadau teg y "dynion Duw" hyn, dylem yn neillduol sylwi ar eu gwroldeb moesol sanctaidd. Wedi derbyn eu harchiad difrifol o eneu yr Arglwydd, ymgodai eu ffydd uwchlaw ofn dyn, ac ni chyfrifasant eu bywydau yn werthfawr iddynt, os gallent gyflwyno eu cenadwriaethau gyda phob ffyddlondeb, a phrofi yn ffyddlawn i'w Tad nefol. Gyda phob parch gweddus i'w cyd-ddynion, yn mhob gradd o fywyd, yr oeddynt bob amser yn barod i wynebu pob math o berygl, a chyhoeddi yn ddiofn air yr Arglwydd. Ni phetrusodd Nathan i gymhwyso ei ddamheg, trwy ddyweyd wrth y Brenhin Dafydd, "Ti yw y gŵr." Safodd Elïas yn mhresennoldeb Ahab ddrygionus i ddadgan ei bechodau. Eu braint a'u dyledswydd oedd honi yr awdurdod Ddwyfol dros bob dyn, gan nad beth eu gradd a'u gallu, a gadael yr holl ganlyniadau gyda'r Rheolwr Goruchaf, i ddyweyd wrth y galluocaf yn mysg dynion eu tynghed, os diystyrent orchymynion Jehofah. Credent, am hyny, llefarent. Bydded i ni efelychu eu hesiampl, a chydag un o brophwydi y Testament Newydd, ddyweyd, "Yr ydym yn credu, ac am hynny yn llefaru." Nis gellir gwneyd gwaith mawr Duw ar y ddaear ond yn unig fel yr ychwanegwn at ein ffydd y gwroldeb hwnw a'n galluoga i osod ein gwynebau yn erbyn anwiredd amledol, a phrofi yn gryf "at wirionedd ar y ddaear."

(Darllener Deuteronomium xiii. 1—5; xviii. 15—22.)

## PENNOD IX.

### PERTHYNAS Y PROPHWYDI A HANESIAETH HEBREIG.

MAE y cenhadon ffyddlawn hyny i Jehofah, nodweddion pa rai ddarluniwyd yn y bennod flaenorol, yn cael eu dwyn ger ein bron yn gyson yn y rhan hyny o hanesiaeth yr Hen Destament a hawlia eto ein hystyriaeth. Os y cyfwng rhwng marwolaeth Joshua a dyfodiad Saul ydoedd un y Barnwyr, ni a allwn ystyried y mwy na phedwar canrif o farwolaeth Solomon hyd amser Malachi fel yn arbenigol yn oes y Prophwydi.

Yr Hebreaid, wedi eu rhanu i ddwy ran elynol, cenfigen a chasineb pa rai a derfynasant mewn brwydrau ffyrnig a marwol, a fethasant a chyrhaedd yr amcanion i ba rai y planwyd hwy yn y Tir Sanctaidd. Gwelsom yn barod y modd y gwnaeth Jeroboam fab Nebat "i Israel bechu." Cymmer hanesion yr Israeliaid i mewn deyrnasiad pedwar ar bymtheg o frenhinoedd, a braidd heb eithriad, hwy "a wnaethant yr hyn oedd ddrwg yngolwg yr Arglwydd." Ymroddasant i eilun-addoliaeth, a dylynodd y bobl eu hesiampl drwg; ac hyd yn oed pan y gwnaeth y brenhinoedd unrhyw wrthwynebiad i eilun-addoliaeth ac offeiriaid eilunaddolgar, fel Jehu, "nid edrychasant am rodio ynghyfraith yr Arglwydd." Mae holl yrfa y genedl Israelaidd yn dangos nerth esiampl drwg, gan i olynwyr "mab Nebat" barhau i ganlyn y llwybrau ceimion a dorodd ef allan iddynt. Canlynid eilun-addoliaeth anfad gan bob math arall o drosedd, yn mha rai yr oedd llofruddiaeth yn dal lle amlwg. Zachariah, mab Jeroboam yr ail, Salum, Pecahiah, Pecah, oll a syrthiasant trwy law bradwriaeth a chreulondeb, tra yr arddanghosai y tir bob trosedd i ba un y mae ein dynoliaeth lygredig yn alluog.

Yn ffodus, ymddengys brenhiniaeth Judah mewn gwedd wahanol. Meddianwyd ei gorsedd gan lawer o frenhinoedd duwiol, megis Asa, Jehosaphat, Uzziah, Jotham, Hezekiah, a Josiah; tra y syrthiodd ereill fel brenhinoedd Israel i eilun-addoliaeth a'i droseddau cydfynedol, i ba rai yr oedd y bobl hefyd wedi ymsuddo. Mae enwau Jehoram, Ahaz, Manasseh, ac Amon, fel hyn yn anurddo yr hanesiaeth Judeaidd.

Yn yr amgylchiadau prudd yma, danghosodd Jehofah Ei ofal gwyliad-

wrus am Ei wirionedd a'i eglwys, trwy y mynychder gyda pha un yr anfonodd Ei brophwydi at y ddwy genedl, i wrthdystio yn erbyn pechod, ac i rybuddio y tywysogion a'r bobl rhag ei ganlyniadau, tra yr oeddynt i aildraethu a dirgymhell yr holl gyfreithiau Dwyfol, a llefaru geiriau o gysur i'r cyfiawn a'r ffyddlawn. Mae yr hanesion cynhwysedig yn Llyfrau y Brenhinoedd a'r Chroniclau gan hyny yn agos gyssylltiedig âg ysgrifeniadau yr un prophwyd ar bymtheg; ffurfia yr hanesion hyny y ffurf-waith yn mha un y derbynia y prophwydoliaethau eu lle. I ddarllen y prophwydi yn ddeallgar a chyda budd, mae yn angenrheidiol darllen a chofio y llyfrau hanesiol hyn, gan eu bod yn cofnodi yr amgylchiadau yn mha rai y gosodwyd y prophwydi, a'r rhesymau paham y traethwyd eu rhagfynegiadau; ac ar y llaw arall, i dynu oddiwrth yr hanesion hyn y gwersi mawrion maent wedi eu cyfaddasu i'w dysgu i ni, rhaid i ni glywed y mynegiadau ysbrydoledig a roddodd pob "gŵr Duw" allan yn nghanol y golygfeydd poenus yn mha rai y safai.

Mae y cymhlethiad yma o'r rhanau hanesol a phrophwydol o Ysgrythyrau yr Hen Destament yn un o'r ymarferiadau mwyaf buddiol y gallwn ymwneyd ag ef, ac ni bydd i un darllenydd y Bibl ofidio am yr amser a dreulia mewn dwyn y goleuadau hanesiaeth a phrophwydoliaeth yma i gynhorthwyo eu gilydd. Gobeithir y ca efrydydd y Bibl yn y pennodau canlynol o'r gwaith hwn ryw gynhorthwy mewn cydmaru prophwydoliaethau yr Hen Destament a digwyddiadau yr Hen Destament; nid amcan yr ysgrifenydd, modd bynag, yw diddymu yr angenrheidrwydd am ymchwiliad personol a gofal wrth ddylyn y cynllun yma, ond i ddangos yr hyfrydwch a rydd, a'r fantais gyda pha un y gellir ei ddylyn.

Un arwedd mwyaf hynod o'r cyfnod hanesol a phrophwydol hwn yw y goleuni efengylaidd a gynhyrchodd. Os methodd crefydd Moses, trwy galedrwydd calonau y bobl i gyflawni y dibenion mawrion i ba rai e'i rhoddwyd, ni wnai Jehofah oddef gorchfygiad Ei amcanion graslawn mewn perthynas i'n byd. Yr hyn nad allid sicrhau trwy gyfammodau a deddfau, a seremonïaeth orwych, gyda ei thabernacl bydol, ei haberthau, ac ordinhadau, oedd i gael ei gyflawni eto, ond mewn dull newydd, pa un y dechreuodd Jehofah yn awr ei ddatguddio trwy Ei weision y prophwydi; a rhoddir yr eglurhadau mwyaf dyddorol i ni o gyfoeth y

doethineb, trugaredd, a gallu Dwyfol, yn y dadganiadau yr awdurdodwyd y prophwydi i'w rhoddi am yr oes ddyfodol, yn mha un y gwnai Brenhin cyfiawn deyrnasu ar galonau pobl ewyllysgar, gan offrymu aberthau ysbrydol yn gyson, tra na chyfyngid bendithion ei frenhiniaeth i un wlad ffafredig, ond gorchuddio gwyneb yr holl ddaear, "megis y mae y dyfroedd yn toi y môr." Llonai y rhagfynegiad am yr amserau gogoneddus hyn galonau y rhai hyny na phlygent i ddelw Baal, a droisant oddiwrth annuwioldeb yn Jacob, ac a ddygasant "nerthoedd y byd a ddaw" er cynhorthwy i'w ffydd a'u cariad, pan y cylchynid hwy gan demptasiynau i wrthgilio oddiwrth y Duw byw.

Ni chyfyngid mynegiadau y prophwydi i dynghedion yr Hebreaid. Yr oedd ganddynt i ragfynegu y gorthrymderau oeddynt i ddisgyn ar genhedloedd cylchynol, ar rai o honynt cyhoeddasant y farn o lwyr ddinystr; rhagfynegasant hefyd godiad brenhiniaethau mawrion, a darluniasant eu hanes. Yr oedd y cenhedloedd a oddefwyd i gystuddio hiliogaeth wrthryfelgar Israel, ac ymlawenychu arnynt, i ddysgu y gwnai Jehofah pan ar ol eu defnyddio megis ffon yn Ei law, a gwïalen Ei lid, eu dwyn hwy i ddinystr am eu heilun-addoliaethau gwrthun, a'u troseddau ofnadwy. Mae gennym gan hyny liaws o feichiau yr Arglwydd yn erbyn Assyria, Babilon, yr Aipht, Ethiopia, Moab, Syria, Tyrus, a gwledydd ereill, tynged pa rai a ragfynega y gwyr ysbrydoledig hyn, ac a adrodda hanesiaeth yn y dull mwyaf hynod. Fel hyn y mae y prophwydi yn gyssylltiedig nid yn unig a hanes eu hamserau eu hunain, ond a'r eiddo yr oesau dyfodol; a chynhysgaedda y cyfatebiad rhwng y rhagfynegiad a'i gyflawniad ni a'r dosbarth mwyaf pwysig o brofion Ysgrythyrol. Mor ddiolchgar y dylem fod i ran helaeth o'r rhagfynegiadau sanctaidd hyn gael eu hysgrifenu er ein haddysg ni!

Yn Jeremiah xxxvi., mae gennym ddarluniad dyddorol o'r amgylchiadau yn mha rai yr ysgrifenwyd un o ragfynegiadau pwysig y prophwyd hwnw, ac o orchfygiad y rhai a geisient ddinystrio gair yr Arglwydd. Dengys y cofnodiad yma y rhagluniaeth ofalus trwy ba un mae y Gair ysgrifenedig wedi ei gadw, ynfydrwydd pob cynhyg i ddistewi yr oraclau Dwyfol, a'r cosbau arswydol a gynhwysa y cynhygion hyn.

(Darllener Jeremiah vii.; xxxvi.)

## PENNOD X.

### AHAB—JEZEBEL—ELIAS.

ADRODDIR hanes y brenhinoedd, y rhai oeddynt yn olynwyr uniongyrchol Jeroboam ar orsedd Israel, yn fyr yn y cofnodion cyssegredig. Nadab, mab Jeroboam, "a wnaeth ddrygioni yngolwg yr Arglwydd, ac a rodiodd yn ffordd ei dad, ac yn ei bechod ef â'r hwn y gwnaeth efe i Israel bechu." Yn mhen dwy flynedd syrthiodd yn ysglyfaeth i fradwriaeth, a Baasa, blaenor y fradwriaeth hono, a esgynodd i'r orsedd. Am Baasa, ni a ddarllenwn, "efe a darawodd holl dŷ Jeroboam; ni adawodd un perchen anadl i Jeroboam, nes ei ddifetha ef, yn ol gair yr Arglwydd, yr hwn a lefarasai efe trwy law ei was Ahïah y Siloniad: am bechodau Jeroboam y rhai a bechasai efe, a thrwy y rhai y gwnaethai efe i Israel bechu, o herwydd ei waith ef yn digio Arglwydd Dduw Israel."

Yr oedd y dyn yma, yr hwn oedd yn offeryn i gosbi pechodau Jeroboam, ei hun yn euog o'r un pechodau; ac o'r braidd yr oedd wedi cyflawni dial yr Arglwydd, pan y cyfarchodd y prophwyd Jehu ef, ac a ragfynegodd fel hyn ei dynged ofnadwy: "Wele fi yn torri ymaith hiliogaeth Baasa, a hiliogaeth ei dŷ ef; a mi a wnaf dy dŷ di fel tŷ Jeroboam mab Nebat. Y cwn a fwytty yr hwn fyddo marw o'r eiddo Baasa yn y ddinas; ac adar y nefoedd a fwytty yr hwn fyddo marw o'r eiddo ef yn y maes." Efe, yr hwn a wnaeth ei ffordd i'r orsedd trwy dywallt gwaed, a ddaeth yn ei dro yn ysglyfaeth i fradwriaeth a chreulondeb, canys "Zimri ei was ef (tywysog ar hanner y cerbydau), a gydfwriadodd yn ei erbyn ef, ac efe yn yfed yn feddw, yn Thirsah, yn nhŷ Arsa, yr hwn oedd benteulu yn Thirsah. A Zimri a aeth ac a'i tarawodd ef, ac a'i lladdodd, yn y seithfed flwyddyn ar hugain i Asa, brenhin Judah, ac a deyrnasodd yn ei le ef."

Dechreuodd Zimri ar ei deyrnasiad trwy ladd holl dŷ Baasa, ond ni pharhaodd y teyrnasiad hyny ond saith diwrnod, gan i'r bobl ddewis Omri, eu blaenor milwrol, i fod eu brenhin. "A phan welodd Zimri fod y ddinas wedi ei hynnill, efe a aeth i balas tŷ y brenhin, ac a losgodd dŷ y brenhin am ei ben â thân, ac a fu farw." Fel hyn y terfynodd gyrfa

fer a theyrnfradol y trawsfeddianydd hwn mewn gweithred o hunanlofruddiaeth.

Yn ystod haner teyrnasiad Omri, dioddefodd y wlad ddychrynfeydd rhyfel gartrefol, canys "ymranodd pobl Israel yn ddwy ran: rhan o'r bobl oedd ar ol Tibni mab Ginath, i'w osod ef yn frenhin; a rhan ar ol Omri. A'r bobl oedd ar ol Omri a orchfygodd y bobl oedd ar ol Tibni mab Ginath: felly Tibni a fu farw, ac Omri a deyrnasodd." Yn yr hanes yma o ddeuddeg mlynedd, gwelwn y modd yr â dynion drwg, beth bynag eu sefyllfa, yn fynych yn bellach na'u blaenafiaid mewn camwedd. "Omri a wnaeth ddrygioni yngŵydd yr Arglwydd, ac a wnaeth yn waeth na'r holl rai a fuasai o'i flaen ef. Canys efe a rodiodd yn holl ffordd Jeroboam mab Nebat, ac yn ei bechod ef, trwy yr hwn y gwnaeth efe i Israel bechu, gan ddigio Arglwydd Dduw Israel â'u gwagedd hwynt." Hynodwyd y teyrnasiad yma gan ddigwyddiad o gryn bwys yn hanes Israel. Yr oedd y brenhin cyntaf wedi nodi ar Bethel a Dan fel y dinasoedd i ba rai yr oedd y deg llwyth i gyrchu i ddelw-addoliad, ac nid oedd ei olynwyr eto wedi sicrhau un ddinas o bwys i fod yn brifddinas Israel a allai mewn un gradd ymgystadlu â Jerusalem, prifddinas Judea. Ni a ddarllenwn, gan hyny, i Omri "brynu mynydd Samaria gan Semer, er dwy dalent o arian, ac a adeiladodd yn y mynydd, ac a alwodd enw y ddinas a adeiladasai efe, ar ol enw Semer, arglwydd y mynydd, Samaria." Dyna ydoedd tarddiad y ddinas hono Samaria, oddiwrth ba un y derbyniodd gwlad y Samariaid ei henw.

Derbynia cynhydd ofnadwy drygioni eglurhad dychrynllyd yn mab Omri. Profodd Ahab yn mhob ystyr yn deilwng o'i dadogaeth, ac yn efelychydd gofalus o'r esiampl roddwyd o'i flaen ef. Nid yw hyn, modd bynag, yn ddarluniad llawn o'i nodwedd, canys efe "a wnaeth ddrygioni yngolwg yr Arglwydd y tu hwnt i bawb o'i flaen ef;" ac efe "a wnaeth fwy i ddigio Arglwydd Dduw Israel nâ holl frenhinoedd Israel a fuasai o'i flaen ef."

Fel hyn, o fewn deg mlynedd a deugain o farwolaeth Jeroboam, bu gan Israel bedwar o frenhinoedd, bywydau pa rai a waradwyddid gan holl ddrygau y cenhedloedd eilun-addolgar, oddiwrth ba rai y gwahanwyd hwy. Dechreuodd Ahab ei ugain mlynedd teyrnasiad fel eilun-addolwr gwrthun

a selog, a phrofodd y brenhin gwaethaf a deyrnasodd erioed ar Israel. Prysurodd i wneyd y ddinas newydd-gyrhaeddedig Samaria, i fod yn fath o brifddinas eglwysig eilun-addoliaeth. Yno yr adeiladodd deml, y cododd allor, ac y planodd lwyn er anrhydedd i Baal.

Yr oedd gan yr olygfa ddiraddiwyd fel hyn trwy ddefodau eilun-addolgar ac ammhur Baal, fanteision naturiol pwysig, a hynodir hi gan degwch mawr. Darlunir "mynydd Samaria," gan un a ymwelodd yn ddiweddar ag ef, fel yn "hyfryd yn ol barn gyffredinol. Mae yn fryn tra mawr wrtho ei hun, yn cyfodi yn uwchrawdau dylynol, o'r hyn leiaf chwe' chant o droedfeddi uwchlaw y dyffrynoedd a'u cylchynant. Mae yn hirgrwn o ran ei ffurf, ac una y pen lleiaf ac isaf ef a'r mynydd cyf-agos ar y dwyrain. Nid oes yr un ffynhon ar y bryn, ac yn ystod gwarchae rhaid fod y trigolion yn ymddibynu yn gwbl ar bydewau. Mae dwfr, modd bynag, mewn cyflawnder yn y gymydogaeth. Mae yno ffynhon dda ychydig islaw i'r de-ddwyrain, a nant o'r mynyddoedd yn yr un cyfeiriad digon i droi melin. Mae yr olygfa o uwchrawd uchaf Samaria dros y gwastad-diroedd a'r bryniau bras o'i hamgylch, ac yn bell draw i For y Canoldir glas, yn wir fawreddog." Dynodir Samaria gan y prophwyd Esaiah (xxviii. 1,) yn "goron balchder,... yr hwn y mae ardderchowgrwydd ei ogoniant yn flodeuyn diflannedig ar ben y dyffrynoedd breision."

Fel hyn yn Samaria ni a welwn un o'r golygfeydd prydferth hyny, ffurfiwyd ac addurnwyd gan y llaw Ddwyfol, lle mae

"Pob golygfa'n boddio,
A dim ond dyn o'i le;"

lle y dylai Jehofah gael ei fawrygu am weithredoedd hyny Ei ddwylaw a ffurfiant yn deml naturiol i'w addoliad. Y fath ydoedd yr olygfa lle y mwynhaodd offeiriaid Baal ofal meithrinol brenhin Israel, a lle y traws-feddianodd defodau ffiaidd ac annynol le yr addoliad pur hwnw i ba un yr oedd y wlad wedi ei chyssegru. Y brenhin drygionus, a'i fryd ar wneyd pob ammharch i Jehofah, a lanwodd i fyny gwpan ei annuwioldeb trwy ddewis fel ei frenhines ddynes eilun-addolgar, yr hon a adwaenid am ei sêl dros achos paganiaeth. "Canys ysgafn oedd ganddo ef rodio ym mhechodau Jeroboam mab Nebat, ac efe a gymmerth yn wraig

Jezebel merch Ethbaal brenhin y Sidoniaid, ac a aeth ac a wasanaethodd Baal, ac a ymgrymmodd iddo." Dywed hanesiaeth Tyriaidd wrthym, mai offeiriad oedd Ethbaal y cyfnod hwn i Astoreth, Gwener y Sidoniaid.

Tra yr oedd y brenhin gwrthgiliedig hwn a'i frenhines waedlyd yn ymwledda yn nghanol eu heilun-addoliaethau ffiaidd, yr allorau yn mygu gan aberthau i Baal, y deml yn orlawn o fryntni yr eilun, a'r offeiriaid yn gwledda wrth y byrddau brenhinol, yn ddisymwth cynhyrfir yr holl olygfa gan ddyfodiad cenhadwr dirgelaidd ac anghroesawus. "Ac Elïas y Thesbiad, un o breswylwyr Gilead, a ddywedodd wrth Ahab, Fel mai byw Arglwydd Dduw Israel, yr hwn yr ydwyf yn sefyll ger ei fron, ni bydd y blynyddoedd hyn na gwlith na gwlaw, ond yn ol fy ngair i."

Nis gallasai pelen ffrwydrol yn syrthio yn nghanol gwersyll greu mwy o ddychryn a braw na'r cyhoeddiad wnaed fel hyn yn ddisymwth. Dygodd warth dychrynllyd i'r teyrn Israelaidd, yr hwn a ddylasai fod yn addolwr gostyngedig Arglwydd Dduw Israel, a rhoddodd i'w galon awgrymiadau ofnadwy o'r farn oedd i gosbi ei wrthgiliad drygionus. Dywedodd wrth y frenhines, yr ymgyflwynyddes eilun-addolgar, ei gydymaith ar yr orsedd, mai yn ofer y llafuriai i sefydlu eilun-addoliaethau Phœnicia yn y wlad a hawliai Arglwydd Dduw Israel fel Ei eiddo Ef. I'r offeiriaid, o ba rai yr oedd y ddinas yn llawn, fe ddaeth fel awel boeth o'r anialwch i ddifetha gwyrddlesni eu llwyni, ysgubo ymaith ddanteithion y byrddau, ac i ddwyn i ben eu cyfareddion trwy ba rai y caent eu cyfoeth. Iddynt hwy yr oedd y nodau prophwydol hyn yn fwy ofnadwy, o herwydd eu bod yn dwyn eu holl alluoedd offeiriadol i'r prawf llymaf. Byddai yn farwol yn wir i'w crefft, i arglwydd mawr eu haddoliad, os nad allai efe, i'r hwn yr oedd yr holl ddinas yn gyssegredig, roddi gwlaw, neu os nad allai y cannoedd a wasanaethent wrth ei allor ac yn ei lwyni lwyddo, a chael atebiad i'w gweddiau. Yn nghanol y dychryn gynhyrchwyd fel hyn, mae pawb yn awyddus i ddal y cenhadwr anfoesgar, am ddaliad yr hwn rhoddir y gorchymyn. Mae y gwarchodlu yn ddyfal, cauir y drysau a'r pyrth; mae yr erlynwyr yn yn barod i olrhain ei ffoad, canys yn y cymhysgedd a'r dychryn canfyddir fod Elïas wedi diangc.

(Darllener 1 Brenhinoedd xv. 23—diwedd; xvi.; xvii.)

## PENNOD XI.

### ELIAS Y PROPHWYD.

PWY ac o ba le mae yr ymwthiwr yma, yr hwn a ruthra i bresennoldeb y Brenhin Ahab a'r Frenhines Jezebel, yn y wisg anghyflys hon, a chyda ei lais garw yn llefain yn y clustiau brenhinol? Elïas, enw yr hwn a hona "nerth Jehofah," sydd ŵr o agwedd estronol ac ofnadwy; yn sicr yn ŵr nad yw i'w gael o amgylch llys ac yn sefyll ger bron gorsedd frenhinol. Mae darluniad diweddar o'i agwedd yn cyd-ddwyn yn hollol a'r hanes ysbrydoledig: "Main, teneu, ac ystwyth, wedi ymwisgo yn ysgafn a garw, gyda gwallt yn neillduol yn hongian oddeutu mewn cyflawnder, canys 'gŵr blewog oedd efe,' neu yn llythyrenol 'arglwydd gwallt.' Gwisgai wregys o groen o amgylch ei lwynau, a gallai y gweddill o'i ddillad garw fod yn groen anifail wedi ei daflu draws ei ysgwyddau."

O ba le y daeth efe? Nis gwyddom ddim am ei darddiad mwy nag a allwn gasglu oddiwrth yr ychydig eiriau hyn, "Y Thesbiad, un o breswylwyr Gilead." Ni ddywedant ddim wrthym am ei rieni, ei deulu, neu hyd yn oed ei lwyth. Nid yw lle ei enedigaeth na'i breswylfod wedi ei gael allan, canys ni ddywed daearyddiaeth ddim wrthym am Tisbe yn Gilead. Mae y wlad a elwir Gilead yn eithaf adnabyddus, ac fe'i darlunir fel "gwlad helwriaeth a phoriant, o bentrefydd pebyll a chastelli mynyddog, yn cael ei thrigianu gan bobl ansefydlog ac anwareiddiedig, fel y rhai a ffurfient wladwriaethau Ephraim a Judah, ond o arferion crwydrol ac afreolaidd, yn agored i ymosodiadau gwiblwythau yr anialwch, ac yn raddol yn cydymffurfio mwy a mwy ag arferion y llwythau hyn; yn rhyfela a'r Hagariaid, a chymmeryd afrifed filoedd eu hanifeiliaid, ac yna trigo yn eu lle."

Mae wedi ei awgrymu, ac efallai yn gywir, fod y golygfeydd gwylltion yn mha rai y magwyd y gŵr hwn wedi cynhorthwyo i'w ddarparu at ei waith; iddo "ymaflyd yn ei genadwri gyda mwy o rwyddineb a chryfach nerth, o herwydd ei fod yn dal cymmundeb a natur, ac o herwydd fod

ganddo fywiogrwydd, nerth, goddefgarwch, sydynrwydd, ac arferion haner-gwareiddedig mynyddwr Gileadaidd."

Y rhai hyn oeddynt y cymhwysderau allanol yn unig y "gŵr Duw" hwn, pan y dywedodd wrth Ahab: "Fel mai byw Arglwydd Dduw Israel, yr hwn yr ydwyf yn sefyll ger ei fron, ni bydd y blynyddoedd hyn na gwlith na gwlaw, ond yn ol fy ngair i." Gofynai ei gyhoeddiad wroldeb moesol uchel, os oedd ganddo i sicrhau i'r brenhin am y sychder dyfodol—palliad, nid yn unig gwlaw, ond gwlith y nef am flynyddoedd. Gofynai am bresennoldeb a nerth Duw, pe wedi ei anfon i gyflwyno y genadwri ddychrynllyd hon. Gofyna ei eiriau ein hystyriaeth ofalus. Honant nid yn unig allu Duw, ond hefyd nerth gweddi. Dywedant, "mai byw Arglwydd Dduw Israel," ac felly Ei wahaniaethu oddiwrth y "dim yn y byd" a ddwyfolodd yr eilun-addolwyr, a dywedant wrth y brenhin mai Efe yn unig a allasai agor a chau y nefoedd; a dywedant yn mhellach, Ei fod wedi rhoddi agoriad y nefoedd hyn yn llaw dyn, a'r dyn hwnw y prophwyd hwn o fynyddoedd Gilead. Mae y geiriau rhyfeddaf yn y mynegiad rhyfeddol hwn ar ei derfyn—"ond yn ol fy ngair i." Amcan yr ymweliad dyeithriol yma, yna, ydoedd peri i'r brenhin eilun-addolgar ddeall nad oedd Baal ddim, mai ofer oedd ei brophwydi, mai Jehofah, Duw Israel, yn unig allasai roddi gwlaw, ac y gwnai Ef ei roddi yn unig mewn atebiad i weddi Elïas.

Pwy, yna, yw Elïas? Beth yw cyn-nodweddion hanes ysbrydol y dyn hwn? Dyma lle y mae y Testament Newydd yn dod i mewn i'n cynhorthwyo ni yn neongliad o'r Hen. Bydded i ni wrando ar yr Apostol Iago: "Elïas oedd ddyn yn rhaid iddo ddïoddef fel ninnau; ac mewn gweddi efe a weddïodd na byddai wlaw, ac ni bu gwlaw ar y ddaear dair blynedd a chwe' mis." Mae yr hanesion Ysgrythyrol yn fynych yn dra byr, ond fel y dywed y Rabbiniaid, "croga mynyddoedd o feddwl ar eu geiriau." Yn unigleoedd gwyllt Gilead, addysgodd Jehofah Elïas, nid yn unig i weddio, ond i gredu y derbyniai pa beth bynag a ofynai mewn ffydd. Y genadwri yr awdurdodwyd ef i'w chyflwyno yn Samaria ydoedd yn eglur yn ganlyniad ei ddeisyfiad blaenorol ei hun, fynegwyd mewn gweddi daer. Efe a gyflwynodd y cais hwnw hyd nes y rhoddwyd ef, yn gyd-ddylynol a'r sicrhad mai yn ol "ei air," mewn atebiad i'w weddi

y byddai i'r nefoedd eto ymagor, ac y byddai iddynt "wrandaw ar Jezreel." Yn unigleoedd gwyllt Gilead, y wylodd gŵr Duw uwch ben gwrthgiliad dychrynllyd Israel; y dysgodd y modd yr oedd rhoddion helaeth y llaw Ddwyfol wedi eu camdroi i ddibenion darfoddiant moethus ac anghymmedroldeb, a pha fodd yr oedd cynhyrch "dyffrynoedd bras" Samaria wedi ei gyssegru i Baal a'i offeiriaid. Yn ei eiddigedd sanctaidd dros Arglwydd Dduw Israel, efe a ddeisyfodd ar i'r eilunaddolwyr annuwiol gael teimlo eisieu y cymhwynasau a gamddefnyddient, a gwyddai os deuai y nefoedd fel pres uwch ben y byddai y ddaear, heb fod mwy yn ffrwythlon, fel haiarn odditanynt; efe a ddeisyfodd gan hyny nid yn unig yr ymyriad rhagluniaethol hwn, ond ar iddo gael ei ganiatâu i'w hysbysu a chyflwyno ei hun i lys drygionus Ahab, ac felly dechreu ar ei genadwri brophwydol.

Yma mae gennym ymarferiad boreuol o'r "ffydd wyrthiol," a ofynai y Gwaredwr ar ol hyn gan y rhai a aent allan fel negesyddion Ei deyrnas. Megis hwythau, credai y prophwyd o Gilead fod Duw gydag ef, ac y gwnai gyflawni yr holl ragfynegiadau a draethodd, pa un bynag ai mewn soriant neu drugaredd; ac oddiwrth hyn, yn nghyflawniad ei genadwri, ni a'i cawn ef yn siarad a gweithredu o dan yr argyhoeddiad ei fod megis "geneu Duw" i'r bobl.

Felly y cyflwynodd ei genadwri gyntaf, yn mha un yr honodd hawl unigol Jehofah i fod yn "Dduw Israel," a chyffrodd Ahab, ei lyswyr, ac offeiriaid, trwy ragfynegu dychrynfeydd newyn; ac wedi hawlio iddo ei hun yr anrhydedd o fod yn weinidog Jehofah, i gau y nefoedd neu ei hagor trwy ei weddiau, derbyniodd y negesydd nefol hwn ei archion oddiwrth yr Arglwydd, a dechreua eu cyflawni hwy. "A gair yr Arglwydd a ddaeth atto ef, gan ddywedyd, Dos oddiyma, a thro tu a'r dwyrain, ac ymguddia wrth afon Cerith, yr hon sydd ar gyfer yr Iorddonen. Ac o'r afon yr yfi; a mi a berais i'r cigfrain dy borthi di yno." Gweision rhyfedd i weini ar brophwyd yr Arglwydd! Ac eto ufuddhasant i arch eu Crewr; a phan oedd dynion yn anffyddlawn, profasant hwy yn ufudd i'r gair Dwyfol. Fel y dysgir ni fod gan Jehofah bob creadur o dan ei lywyddiaeth, a'u bod yn weision parod i'w ewyllys!

(Darllener 1 Brenhinoedd xvii. 1—7.)

## PENNOD XII.

### ELIAS YN SAREPHTAH.

Fel yr oedd Elïas yn genhad neillduol Jehofah, felly y gwelwn ragluniaethau neillduol a rhyfeddol yn amlygedig yn ei gynhaliaeth a diogeliad. Ar ol i'r cigfrain ddwyn iddo ei brydiau boreuol a nawnol wrth afon Cerith hyd nes pallu o'r dyfroedd, cyfarwyddwyd ef gan Jehofah i fyned i Sarephtah, lle rhwng Tyrus a Sidon, yn y wlad i ba un y perthynai Jezebel erledigaethus a'i theulu eilun-addolgar. Yr oedd y newyn rhagfynegedig nid yn unig wedi ymledaenu dros wlad Israel, ond ar yr amser yma, fel y dysgwn oddiwrth ysgrifenydd paganaidd, parhai sychder hynod am flwyddyn hefyd yn Phœnicia. Yn y wlad baganaidd hon, yr oedd y prophwyd i gael ei gartref yn nhy gweddw, ac yr oedd y weddw hono mor dlawd fel pan y dynesai y gŵr newynog at borth y ddinas lle y trigai hi, wele, yr oedd hi yno yn casglu briw-wŷdd, ac fel y deallodd yn fuan, nid oedd ganddi damaid o fara i'w ranu ag ef, canys hi a ddywedodd, "Fel mai byw yr Arglwydd dy Dduw, nid oes gennyf deisen ond llonaid llaw o flawd mewn celwrn, ac ychydig olew mewn ystên; ac wele fi yn casglu dau o friw-wŷdd, i fyned i mewn, ac i barottoi hynny i mi ac i'm mab, fel y bwyttâom hynny, ac y byddom feirw." Yn awr gwneir gwyrth arall i gynhal y prophwyd a'r teulu tlawd, llettywr pa un a ddaeth. Yr oedd ganddo ffydd yn yr addewid Ddwyfol, ac felly fe'i hailadroddodd, gan ddywedyd, "Y blawd yn y celwrn ni threulir, a'r olew o'r ystên ni dderfydd, hyd y dydd y rhoddo yr Arglwydd wlaw ar wyneb y ddaear." "Ni ddarfu y celwrn blawd, a'r ystên olew ni ddarfu, yn ol gair yr Arglwydd, yr hwn a ddywedasai efe trwy law Elïas."

Nis gallwn yn foddhaol nodi allan afon Cerith, neu ddyweyd pa un ydoedd ar y dwyrain neu gorllewin i'r Iorddonen, i ba un y rhedai; ond nid oes gennym un amheuaeth am Sarephtah, lle y deuodd y prophwyd o hyd i'w noddle, hyd nes yr ymddanghosodd drachefn ger bron Ahab. Mae i'r ddinas hon, elwir Sarepta yn y Testament Newydd, ddyddordeb

ychwanegol, oddiwrth y tebygolrwydd iddi gael ymweled a hi gan ein Harglwydd pan yr "aeth i gyffiniau Tyrus a Sidon, ac a aeth i mewn i dŷ, ac ni fynnasai i neb wybod; eithr ni allai efe fod yn guddedig. Canys pan glybu gwraig, yr hon yr oedd ei merch fechan âg yspryd aflan ynddi, son am dano, hi a ddaeth ac a syrthiodd wrth ei draed ef: a Groeges oedd y wraig, Syro-phenisiad o genedl; a hi a attolygodd iddo fwrw y cythraul allan o'i merch." "Yna'r attebodd yr Iesu, ac a ddywedodd wrthi, Ha wraig, mawr yw dy ffydd: bydded i ti fel yr wyt yn ewyllysio. A'i merch a iachawyd o'r awr honno allan."

Saif pentref bychan Sarafeud, cynrychiolydd diweddar Sarepta, yn agos i lan y môr, nid yn bell i ddeheu Sidon, a thybir ei fod wedi ei adeiladu er y ddeuddegfed ganrif. Arddengys ddau bentwr o adfeilion, un tua'r môr, a'r llall yn cyrhaedd i'r deheu am dros filldir, o ba le y cymmerir cyfran helaeth o gerrig yn awr i adeiladu catrotty yn Beirut. Llefara y colofnau toredig, y mynorlechi, a gweddillion ereill geir yn mysg yr adfeilion, am ddinas gyfoethog a blodeuog blynyddoedd gynt.

Gwelir, meddai Dr. W. M. Thomson, fod "y cyfieithiad Seisonig yn gwneyd fod Elïas yn byw mewn 'llofft,' ond nid yn gywir iawn. Yn yr Hebraeg *'alliyeh* ydyw, a dyma y gair Arabaeg cyffredin am ystafelloedd uwchaf tai. Yr *'alliyeh* yma yw y rhan mwyaf dymunol o'r sefydliad, sydd wedi ei ddodrefnu oreu, ac a roddir eto i lettywyr yr ymddygir atynt gyda pharch. Mae y merched a'r rhai yn gweini yn byw i lawr, a gelwir eu rhandy *ordiyeh,* neu lawr isaf; mewn siarad cyffredin, yn syml *beit,* neu dy. Nid oes gan y math tlotaf yr un *'alliyeh.* Ni a allwn gasglu amryw bethau oddiwrth y *gair* yma; fod y dull o adeiladu yn amser Elïas, a'r arferiad o roi yr *'alliyeh* i'r llettywr, yr un ag yn awr; hefyd, nad oedd y wraig weddw hon yn wreiddiol yn mysg y dosbarth tlotaf oll, ond fod ei hangen dirfawr trwy y newyn oedd yn ffynu y pryd hyn. Yr ystafell fechan wnaed i Eliseüs gan y Sunamees a elwir hefyd *'alliyeh,* ac yr oedd, gan hyny, yn oruch-ystafell barchus a chysurus. Maent yn fwy neillduedig na rhanau isaf y tŷ, ac wrth gwrs yn gyfaddas i orphwysle y prophwyd."

Cyfeiria ein Harglwydd at anfoniad Elïas i dŷ y weddw Phœnicaidd hon, fel eglurhad o ffafr hynodol Jehofah. "Eithr mewn gwirionedd

meddaf i chwi, llawer o wragedd gweddwon oedd yn Israel yn nyddiau Elïas, pan gauwyd y nef dair blynedd a chwe mis, fel y bu newyn mawr trwy yr holl dir; ac nid at yr un o honynt yr anfonwyd Elïas, ond i Sarepta yn Sidon, at wraig weddw." Ac eto paganes fel yr oedd, darparodd ei chalon garedig hi i'r llettywr anfonir yn awr i'w thrigfa. Canys, sylwer, cyn iddi ddysgu oddiwrth y gwyrthiau a wnaeth i ddyweyd, "Gwn mai gŵr Duw ydwyt ti, ac mai gwirionedd yw gair yr Arglwydd yn dy enau di," yr oedd wedi rhanu ag ef yr "ychydig olew mewn ystên," a'r "llonaid llaw" o flawd adawyd yn y celwrn. Bydded i'r darllenydd wrando ar y llais a'i dysga ef "i beidio myned ymaith oddiwrth y fan hynod yma heb osod yn ngwaelod ei galon y wers ardderchog ddysgir gan y weddw a'i chelwrn blawd. Yn ei hangen eithaf, ar gogyddio ei thamaid diweddaf a marw, gwrandawa eto ar alwad dynoliaeth, dyga ddwfr i'r prophwyd sychedig, a rhana ag ef ei phryd diweddaf. Dos a gwna yr un modd. Yn yr oriau o gyfyngder ac angen mwyaf rhanwch a'r rhai mwy anghenus na chwi, a bydded i dranoeth ofalu am dano ei hun. Pwy nad oes arno yn fynych eisieu y wers i gynhyrfu ei enaid anewyllysgar i weithredoedd o drugaredd, a'r canlyniad i gadarnhau ei ffydd wan?"

Sylwch ar ffydd syml a difrifol y prophwyd pan y bu farw mab y weddw. Nis gallasai gredu y gwnaethai Duw ddrygu y wraig gyda'r hon yr arosai trwy ladd ei mhab. Efe a gymmerth gan hyny y plentyn i fyny i'w ystafell, ac fel Abraham, "gan gyfrif bod Duw yn abl i'w gyfodi ef o feirw." Y fath esiampl sydd gennym o "daer weddi" fewnol weithiedig! "O Arglwydd fy Nuw, dychweled, attolwg, enaid y bachgen hwn iddo eilwaith." Ymddengys ei ffydd yn fwy pan y cofiwn mai dyma y tro cyntaf i wyr neu "wragedd dderbyn eu meirw trwy adgyfodiad." Ystyriai gŵr Duw y wyrth hon yn angenrheidiol er gogoniant Dwyfol a chyflawniad y genadwri ar ba un yr anfonwyd ef, ac o ganlyniad teimlodd y gallai ddisgwyl a galw am yr amlygiad newydd hwn o allu Duw. O am y ffydd hon a'r weddi nerthol yma, nid am wyrthiau newyddion, ond am drugareddau newyddion i ni ein hunain, ein cyfeillion, a'r byd!

(Darllener 1 Brenhinoedd xvii. 8—24.)

## PENNOD XIII.

### CARMEL—JEHOFAH NEU BAAL?

TRA y trigai Elïas yn ddiogel ar lanau y Cerith, ac yn ei oruchystafell yn Sarephtah, yr oedd y newyn a ragfynegodd yn ymgynddeiriogi yn Samaria, ac yr oedd cenhadon Ahab yn cael eu hanfon yn mhob cyfeiriad am y dyn gan yr hwn ei rhagfynegwyd, a thrwy eiriolaeth yr hwn yn unig y gellid ei ddwyn i'r pen. Oddiwrth fynegiad Obadiah, dysgwn, fod y brenhin wedi anfon i chwilio am y prophwyd at bob cenedl a brenhiniaeth, a "phan ddywedent, Nid yw efe yma, efe a dyngai'r frenhiniaeth a'r genedl, na chawsent dydi." Aeth yn agos i dair blynedd a haner heibio heb wlaw neu wlith, ac yr oedd y felldith yn syrthio yn drom ar ddyn ac anifail. Yn unig trwy anfon yr anifeiliaid i'r holl wlad, at yr afonydd a ffynhonau, y gallasai y brenhin obeithio cael "glaswellt fel y cedwid yn fyw y ceffylau a'r mulod," a diogelu ymborth, ar yr hwn y gallasai ef a'i bobl fyw.

Yr oedd Obadiah, i ofal yr hwn yr ymddiriedwyd haner yr anifeiliaid, yn cyflawni y ddyledswydd roed iddo, pan y brawychwyd ef trwy gyfarfod a'r prophwyd, yr hwn a osododd ei hun yn ei ffordd. Yn llawn o wroldeb sanctaidd, dadganodd Elïas ei barodrwydd i sefyll ger bron y brenhin; a phan yr amlygodd Obadiah dda ei ofnau na wnai y prophwyd sefyll yn y presennoldeb brenhinol, "Dywedodd Elïas, Fel mai byw Arglwydd y lluoedd, yr hwn yr wyf yn sefyll ger ei fron, heddyw yn ddïau yr ymddangosaf iddo ef. Yna Obadiah a aeth i gyfarfod Ahab, ac a fynegodd iddo; ac Ahab a aeth i gyfarfod Elïas." Ac yn awr gwynebir y brenhin drygionus eto gan y gŵr yr hwn a ystyria fel yr achos o'i holl gyfyngder, a'r hwn a hola fel hyn yn drahaus, "Onid ti yw yr hwn sydd yn blino Israel?" Nis gallai dim fod yn fwy ardderchog nag atebiad y prophwyd. Gyda pha fath wir wroldeb y tafla yn ol at y brenhin drygionus y cyhuddiad o flino Israel! "Ni flinais i Israel; ond tydi, a thŷ dy dad, am i chwi wrthod gorchymynion yr Arglwydd, ac i ti rodio ar ol Baalim." Yr oedd yr amser yn awr wedi dyfod i ddadl yr Arglwydd â Baal a'i brophwydi, a gwahodda Elïas gyfarfyddiad: "o holl Israel" i fynydd

Carmel, lle y gallasai herio holl offeiriaid eilun-addolgar Baal, i roddi galluoedd yr eilun i brawf, yn mhresennoldeb y tyrfaoedd cynnulledig, tra y safai ef, unig brophwyd Jehofah, i fyny fel Ei was a phrofi Ei allu.

Cydysyniodd y brenhin a'r dull yma o benderfynu y ddadl fawr, ac wrth ei arch ymgynnullodd yr holl bobl wrth droed Carmel, pen amlwg yr hwn a roddai yr esgynlawr uchel ar ba un yr oedd y chwareueg ryfeddol i gael ei gweithredu. Ymddengys y fan gywir ar ba un y cymmerodd y golygfeydd hyn le, i fod wedi ei nodi a'r enw El Mukhrakah, yr hyn a arwydda *llosg-le*, ac y mae wedi cael ei gyfrif trwy yr oesau dylynol fel y man ar ba un y disgynodd y tân o'r nefoedd, tra yn agos iddo mae gennym Fryn'r offeiriaid, lle, efallai, y lladdwyd offeiriaid Baal. Perchir y llanerch yma gan holl breswylwyr y gymmydogaeth—Iuddewon, Cristionogion, Moslemiaid, Drusiaid, a Bedwaid—fel golygfa gwyrth, ac hyd y dydd hwn dynesir ato gydag ofn a pharch. Yn flaenorol i'r drafodaeth fawr yma, yr oedd y lle wedi bod yn gyssegredig i addoliad Jehofah, canys yr ydym yn darllen i Elïas "gyweirio allor yr Arglwydd, yr hon a ddrylliasid."

Ar y man yma, fu gynt yn gyssegredig trwy addoliad y gwir Dduw, y galwodd y prophwyd godidog y bobl i benderfyniad. Yr oeddynt yn cloffi rhwng dau feddwl; canys, er sel Ahab a Jezebel, nid oeddynt wedi ymwrthod yn hollol â Jehofah, a phan y crybwyllwyd Ei enw, nis gallent anturio gwadu Ei hawl i'w haddoliad. Dyna lle safai Ei genhad ei hunan, yn cael ei wrthwynebu gan bedwar cant a haner o brophwydi Baal; ac yn awr rhoddwyd y beiddiad teg: "Rhodder gan hynny i ni ddau fustach; a dewisant hwy iddynt un bustach, a darniant ef, a gosodant ar goed, ac na osodant dân dano: a minnau a barottôaf y bustach arall, ac a'i gosodaf ar goed, ac ni roddaf dân dano: a gelwch chwi ar enw eich duwiau, a minnau a alwaf ar enw yr Arglwydd; a'r Duw a attebo trwy dân, bydded efe Dduw." Y bobl, pa rai a fuont yn ddistaw ar yr appeliad cyntaf—dan ofn, gallai, trwy bresennoldeb eu brenhin eilun-addolgar—a ymddangosant yn awr i fod wedi eu dylanwadu gan frwdfrydedd sanctaidd y prophwyd, ac wedi eu hargyhoeddi gan degwch ei gynhygiad, a godasant y floedd, "Da yw y peth." Dygwyd eu tadau allan o eilun-addoliaeth trwy "arwyddion a rhyfeddodau," ac ni allent

hwy, yn ddirywedig er eu bod, wrthsefyll yr appeliad rhesymol i'r prawf yma o wirionedd ac ysbrydoliaeth.

Yr oedd yn dda fod i'r lliaws offeiriaid Baal gymmeryd y flaenoriaeth yn yr ymdrech yma. Ar wahoddiad Elïas, "hwy a gymmerasant y bustach a roddasid iddynt, ac a'i parottoisant, ac a alwasant ar enw Baal o'r bore hyd hanner dydd, gan ddywedyd, Baal, gwrando ni! Ond nid oedd llef, na neb yn atteb. A hwy a lammasant ar yr allor a wnelsid." O'r boreu cyntaf hyd y prydnawn yr oeddynt yn uchel yn eu hymbiliau, ac yn methu yn eu gweddiau, yn ol eu harfer, ac yn eu pryder a'u cynhyrfiad, llammasant i fyny ac i lawr wrth yr allor.

Yr holl oriau hyn yr oedd Elïas yn ddistaw, ac yr oedd y bobl yn dal sylw yn bryderus, yn argyhoeddedig yn barod, efallai, y methai prophwydi Baal yn druenus. Taflodd gŵr Duw yn awr i mewn ei fratheiriau, ac ni fu gwawd erioed yn fwy haeddianol, neu yn cael ei gymhwyso yn fwy priodol, na phan ddarfu "i Elïas eu gwatwar hwynt, a dywedyd, Gwaeddwch â llef uchel; canys duw yw efe; naill ai ymddiddan y mae, neu erlid, neu ymdeithio y mae efe; fe a allai ei fod yn cysgu, ac mai rhaid ei ddeffro ef." Yna y twyllwyr gwallgofus, yn gwybod fod amser taledigaeth yn agos, "a waeddasant a llef uchel, ac a'u torrasant eu hunain yn ol eu harfer â chyllill ac âg ellynod, nes i'r gwaed ffrydio arnynt." Felly yr aeth heibio y dydd yma o brawf hyd amser offrymu yr aberth prydnawnol, ac yna "dywedodd Elïas wrth yr holl bobl, Nesêwch attaf fi. A'r holl bobl a nesasant atto ef. Ac efe a gyweiriodd allor yr Arglwydd, yr hon a ddrylliasid."

Sylwch ar ofal y prophwyd i ddangos i'r bobl wirionedd y wyrth oedd ar gael ei chyflawni, ac i symmud oddiwrthynt hwy a'r offeiriaid bob tir i'w phriodoli i unrhyw achos naturiol. Mae yr aberth a'r coed wedi eu gorchuddio yn helaeth â dwfr, a gwneir hyn yr ail a'r drydedd waith, nes yr oedd yr oll wedi eu gwlychu drwyddynt, "a'r dyfroedd a aethant o amgylch yr allor, ac a lanwodd y ffos o ddwfr." Ac yn awr gwrandewch y weddi fer ond aruchel ar Jehofah, "O Arglwydd Dduw Abraham, Isaac, ac Israel, gwybydder heddyw mai ti sydd Dduw yn Israel, a minnau yn was i ti, ac mai trwy dy air di y gwneuthum i yr holl bethau hyn. Gwrando fi, O Arglwydd, gwrando fi; fel y gwypo y bobl hyn mai tydi

yw yr Arglwydd Dduw, ac mai ti a ddychwelodd eu calon hwy drachefn." A sylwch ar yr atebiad i'r appeliad yma: "Yna tân yr Arglwydd a syrthiodd, ac a ysodd y poeth-offrwm, a'r coed, a'r cerrig, a'r llwch, ac a leibiodd y dwfr oedd yn y ffos."

Yn ol cyfreithiau yr Israeliaid, yr oedd pob gau brophwyd a godai yn eu plith i gael ei roddi i farwolaeth. Yr oedd Elïas yn genhad neillduol y cyfiawnder Dwyfol; a chan fod y prophwydi hyn i Baal wedi eu heuogbrofi mewn prawf mawr gan yr holl bobl, canlynodd eu tynged yn uniongyrchol, ddygid yn mlaen gan Elïas, yr hwn, gyda y bobl ddigofus, a'u lladdodd wrth afon Cison, sydd yn rhedeg wrth droed Carmel.

Nid attaliodd Arglwydd Dduw Israel yn hwy oddiwrth Ei dir y cawodau ffrwythlon hyny, am ba rai y "gweddiodd drachefn" Ei was y prophwyd. "Elïas a aeth i fynu i ben Carmel, ac a ymostyngodd ar y ddaear, ac a osododd ei wyneb rhwng ei liniau, ac a ddywedodd wrth ei langc, Dos i fynu yn awr, edrych i fynu tu a'r môr. Ac efe a aeth i fynu ac a edrychodd, ac a ddywedodd, Nid oes dim. Dywedodd yntau, Dos etto saith waith." Canlynir ei erfyniad taer a'r fendith. Y cwmwl bychan fel cledr llaw gŵr o ran ffurf a maint ymddangosiadol, fel a ragarwydda yn awr yn fynych ystorm yn Môr y Canoldir, a welir gan was y prophwyd, fel y cadwa wyliadwriaeth oddiar uchelfanau Carmel. Llywodraetha y prophwyd yn awr symmudiadau y brenhin, a chyfarwydda ei ddychweliad brysiog i ddinas Jezreel, rhag y byddai iddo gael ei atal gan yr ystorm wlaw oedd yn dod i fyny dros y môr mawr. Felly, "Ahab a farchogodd, ac a aeth i Jezreel."

Cyflym rhed cerbyd y brenhin dros y deuddeg milldir sydd rhwng troed Carmel a'r ddinas frenhinol, ond cyflymach byth y rhed y prophwyd heinif, canys "llaw yr Arglwydd oedd arno ef." Yn y dull yma gwnaeth Elïas anrhydedd i'r brenhin, yn debyg fel y cadwa rhedegwyr ar y blaen i gerbyd rhyw dywysog mawr yn y Dwyrain. Elïas, tra yn ceryddu pechodau y brenhin, ni chafodd ei orchymyn i ymddwyn at ei swydd gydag ammharch, ac yn y dull hynod yma a awgrymodd y modd y gwnai gwir brophwydi Jehofah ei anrhydeddu, os gwnai ef gadw gair a rhodio yn ffyrdd "Jehofah, Duw Israel."

(Darllener 1 Brenhinoedd xviii.)

## PENNOD XIV.

### Y PRYD GWYRTHIOL A'R DAITH I HOREB.

PAN y ffôdd Elïas o Samaria i Beerseba, efe "a aeth am ei einioes," nid yn cael ei hyrddio gan ofn, ond gan gallineb priodol, canys yr oedd yn wastad yn barod i ateb i'r alwad Ddwyfol beth bynag fyddai y perygl allasai ei ufudd-dod ddwyn arno. Yn flinedig ac wedi ymdreulio allan ar ol yr olygfa gynhyrfus yn Carmel, buasai yn dibenu ei fywyd a'i lafur yn llawen yn yr anialwch, lle y ceisiodd am orphwysdra. Fel y disgynodd i lawr yn lluddedig o dan y goeden, yr hon oedd efallai fanadlen yn hytrach na "merywen," efe "a ddeisyfodd iddo gael marw; dywedodd hefyd, Digon yw; yn awr Arglwydd, cymmer fy einioes; canys nid ydwyf fi well nâ'm tadau." Nid oedd ei Feistr nefol wedi derbyn oddiwrtho y gwasanaeth hwnw i ba un y galwyd ef; a chyn caniatâu iddo gael ei neilldufa dros dymhor trwy daith i Horeb, Efe a ddarparodd iddo yn wyrthiol luniaeth i'w bererindod o ddeugain niwrnod. "Ac efe a edrychodd, ac, wele, deisen wedi ei chrasu ar farwor, a phiolaid o ddwfr wrth ei ben ef; ac efe a fwyttâodd ac a yfodd, ac a gysgodd drachefn. Ac angel yr Arglwydd a ddaeth drachefn yr ail waith, ac a gyffyrddodd âg ef, ac a ddywedodd, Cyfod a bwytta; canys y mae i ti lawer o ffordd. Ac efe a gyfododd, ac a fwyttaodd ac a yfodd, a thrwy rym y bwyd hwnnw y cerddodd efe ddeugain niwrnod a deugain nos, hyd Horeb mynydd Duw."

Gwnai yr ogof yn Horeb ffurfio trigfa pur gydnaws i'r prophwyd. Gallai iddo fyned i Horeb i fyfyrio ar yr amlygiadau ofnadwy o ba rai y bu yn olygfa, ac ar y "Gyfraith danllyd" a roddwyd yno. Yno y gallai fyfyrio hefyd ar Moses, yr hwn a drosglwyddodd i'r bobl y Cyfreithiau sanctaidd hyny, troseddiad o ba rai a'i poenai fel hyn, ac awdurdod pa rai a hiraethodd am adnewyddu. Yno hefyd y gallasai obeithio dal cymmundeb â Duw Israel, a thrwy adloni ei ysbryd ei hun, adnewyddu ei nerth erbyn yr adelwid ef at ei waith gogoneddus. Mae wedi bod yn ddyledswydd bob amser ar y rhai hyny sydd ganddynt waith mawr i'w

wneyd yn y cyhoedd dros y gogoniant Dwyfol, i borthi llusern gwybodaeth a brwdfrydedd, ffydd a duwioldeb, yn y neilldufa dawel, lle y gallent gymdeithasu a'u Tad nefol.

Os dyna ydoedd amcanion yr ymneillduad yma i Horeb, ni siomwyd yr enciliedig. Clywwyd llais tra adnabyddus Jehofah yn nghilfachau tywyll yr ogof, yn dywedyd, "Beth a wnai di yma, Elïas?" a galwyd arno, "Dos allan, a saf yn y mynydd ger bron yr Arglwydd." Bydded i ni hefyd wrando ar y llais Dwyfol yn cymhwyso yr un gofyniad i ni ein hunain, a bydded ein rhan ni i wybod ein bod yn y man y mynai Duw i ni fod, wrth ein dyledswydd, ac yn gwneyd yr hyn y mynai Ef i ni wneyd.

Safodd Elïas yn awr ar y mynydd sanctaidd i weled rhyw arddangosiadau goruchel o'r gallu a'r Mawrhydi Dwyfol: "Ac wele, yr Arglwydd yn myned heibio, a gwynt mawr a chryf yn rhwygo y mynyddoedd, ac yn dryllio y creigiau o flaen yr Arglwydd; ond nid oedd yr Arglwydd yn y gwynt: ac ar ol y gwynt, daear-gryn; ond nid oedd yr Arglwydd yn y daear-gryn: ac ar ol y daear-gryn, tân; ond nid oedd yr Arglwydd yn y tân: ac ar ol y tân, llef ddistaw fain." Nid oedd y gwynt cryf a ddrylliai y creigiau; y daear-gryn a siglai y mynydd i'w sylfeini dyfnion; tân Duw—y mellt a syrthiai o'r nef, ac a redai ar hyd y llawr; ond rhagredegwyr y Mawrhydi Dwyfol oedd yn awr yn dynesu, ac yn barod i lefaru yn nghlustiau y prophwyd syn-darawedig. Dylai y rhai a dybiant y gallwn ddysgu digon o nodwedd a meddwl Duw trwy fyfyrio ar yr aruchel mewn natur, sylwi ar y dywediadau arwyddocaol nad oedd yr Arglwydd "yn y gwynt," "nid oedd yn y daear-gryn," "nid oedd yn y tân." Rhaid i'n hysbrydoedd wrando ar oruchel Dad yr Ysbrydoedd; rhaid i ni wrando ar eiriau Duw, geiriau trwy ba rai yr ydym i gael ein dysgu a'n hachub, os ydym am ymarfer â Duw. Felly daeth yr Arglwydd at Elïas mewn "llef ddistaw fain," ac yr oedd i ailadrodd y gofyniad, "Beth a wnai di yma, Elïas?"

Cywir ydoedd gofid y prophwyd am annuwioldeb ei gydwladwyr. Efe a lefarodd yn hollol wir pan y dywedodd: "Dygais fawr zêl dros Arglwydd Dduw y lluoedd: o herwydd i feibion Israel wrthod dy gyfammod di, a distrywio dy allorau, a lladd dy brophwydi a'r cleddyf; a

mi fy hunan a adawyd; a cheisio y maent fy einioes innau i'w dwyn hi ymaith." Nid oedd yn ddigon i'r prophwyd, modd bynag, i alaru uwch ben gwrthgiliad Israel ac achwyn am eu pechodau, ac ychwaith nid oedd yn deg iddo aros yn hwy draw oddiwrthynt, am eu bod yn ceisio ei einioes i'w gymmeryd ymaith. Ac nid ydym ni i ymfoddloni ar alaru uwch ben pechodau a ffynant yn ein tir, neu mewn lleoedd pell. Gallwn, a rhaid i ni yn wir alaru a gweddio yn y dirgel, ond rhaid i ni hefyd fyned allan a chymhwyso y meddyginiaethau effeithiol hyny roed i ni yn drugarog i iachau yr anhwylderau moesol mawrion hyn, ac adferu byd pechadurus.

Fel hyn ail-awyd Elïas at ei waith ofnadwy; pan yr "Arglwydd a ddywedodd wrtho, Dos, dychwel i'th ffordd i anialwch Damascus; a phan ddelych, enneinia Hazael yn frenhin ar Syria; a Jehu fab Nimsi a enneini di yn frenhin ar Israel; ac Eliseus mab Saphat, o Abel-meholah, a enneini di yn brophwyd yn dy le dy hun. A'r hwn a ddiango rhag cleddyf Hazael, Jehu a'i lladd ef, ac Eliseus a ladd yr hwn a ddiango rhag cleddyf Jehu."

Y wers a ddysgwyd i Elïas yn ei neilldufa unig yn Horeb, sydd un ag y mae yn ffodus lawer o weision Duw wedi ei dysgu yn ein dydd ni. Gallwn fod yn barod, fel y gwelwn ledaeniad annuwioldeb, ac y gwrandawn "eiriau caledion" y drygionus, i ddyweyd gyda Jeremiah: "O na bâi fy mhen yn ddyfroedd, a'm llygaid yn ffynnon o ddagrau, fel yr wylwn ddydd a nos am laddedigion merch fy mhobl! O na byddai i mi yn yr anialwch letty fforddolion, fel y gadawn fy mhobl, ac yr elwn oddiwrthynt!" Ond nid dyma y ffordd y mynai Duw i'w weision ymddwyn at "y drygau sydd yn y byd." Rhaid i ni gario canwyll y gwirionedd nefol i ganol y tywyllwch amgylchynol, myned at yr anwybodus a'u dysgu, at y syrthiedig a'u codi, at y pell-grwydriog a'u dychwelyd. Rhaid i weddi a galar flaenori a dylyn ymroad brwdfrydig, ond ni ddylent gael eu hystyried yn ei le. Rhaid i'n galar am bechod gael ei ddangos trwy ein hymroad i'w symmud; ein tosturi dros ofidiau o bob gradd trwy ein hymdrechion i'w gwellhau hwy.

(Darllener 1 Brenhinoedd xix.)

## PENNOD XV.

### DYDDIAU DIWEDDAF ELIAS.

YR ydym yn awr yn olrhain gyrfa Elïas i'w therfyn fuddugoliaethus. Galwyd ef at ddyledswyddau uwch a mwy anhawdd na'r rhai roddwyd i brophwydi ereill ei amser, ac oddiwrth hyn, pan y traethodd yr un "mwy na'r prophwydi"—Ioan Fedyddiwr—y bygythiadau Dwyfol yn erbyn pechaduriaid mawrion ei amser, y dywedwyd iddo ddod yn "ysbryd a nerth Elïas." Ei "ysbryd" ydoedd yr un o'r ffydd gryfaf yn Nuw, o'r sêl mwyaf tanllyd dros Ei ogoniant, a'r gwroldeb moesol mwyaf yn nghanol y perygl tostaf; ac oddiwrth hyn mae y "nerth" cyssylltiedig a'i enw.

Yr oedd yn awr i eneinio brenhin newydd i Syria yn lle Benhadad, brenhin newydd dros Israel yn lle Ahab, a phrophwyd arall i'w olynu ef ei hun yn ei genadwri beryglus. Yr oedd y dynion hyn i brofi yn offerynau yn y llaw Ddwyfol, pob un yn ei ffordd ei hun yn cyflawni y bwriad Dwyfol tuag at yr Israeliaid eilun-addolgar. Mor gysurol i Elïas, fel y clywodd am y rhyfeloedd oedd yn dyfod ar ei gydwladwyr, oedd y sicrhad fod yno saith mil o wyr yn Israel nad oeddynt wedi addoli delw Baal, a pha rai a gedwid rhag yr adfydau oeddynt ar ddyfod ar y genedl! Felly nid yw Jehofah erioed wedi gadael ei hun heb ryw dystion o'i wirionedd, hyd yn oed yn yr amserau mwyaf dirywiol.

Ychydig a fanteisiodd Ahab trwy y gwersi mawrion ddysgwyd yn Carmel. Clywodd y prophwydi, ac ufuddhaodd iddynt yn unig i foddio ei fwriad ei hun, ond nid i wasanaethu yr Arglwydd. Efe a ufuddhaodd yn ewyllysgar y prophwyd hwnw yr hwn a'i rhybuddiodd i orchymyn rhyfel yn erbyn brenhin Syria; ond pan y daeth y brenhin hwnw yn garcharor iddo, yn lle ei "ddifetha," gwahoddodd ef fel brawd i'w gerbyd, ac a'i gwnaeth ei gynghreiriad. Fel hyn ni "bu neb fel Ahab, yr hwn a ymwerthodd i wneuthur drwg yngolwg yr Arglwydd, o herwydd Jezebel ei wraig a'i hannogai ef Ac a wnaeth yn ffiaidd iawn, gan fyned ar ol

delwau yn ol yr hyn oll a wnaeth yr Amoriaid, y rhai a yrrodd yr Arglwydd allan o flaen meibion Israel."

"Yn drist ac yn ddigllawn" am y barnedigaethau gyhoeddwyd yn ei erbyn am y palliad yma i ufuddhau i'r Gorchymyn Dwyfol, ceisiodd y brenhin gysuro ei hun trwy ormesu un o'i ddeiliaid, yr hwn a drigai yn agos i'w balas yn Samaria. Perthynai Ahab i'r dosbarth a brofant na wna meddiannau mawrion ddiwallu yr enaid, y dylai y diriogaeth gael ei gwneyd ychydig yn fwy, ac fod yr olygfa decaf yn cael ei niweidio gan rhyw ddrych a ddylai gael ei symmud, am ei fod yn croesi chwaeth y perchenog arglwyddaidd. Yr oedd arno eisieu tir Naboth yn "ardd lysiau," a gwnaethai aberth mawr er mwyn ei gael; ac am na ymadawai Naboth a etifeddiaeth ei dad—y brenhin, yn fwy fel plentyn anwesog na dyn "a orweddodd ar ei wely, ac a drodd ei wyneb ymaith, ac ni fwyttâi fara."

Yr oedd gan Jezebel fwy o wroldeb ac yni na'i gŵr, ond llai o betrusder lle yr oedd boddhad ei bwriad ei hun i'w gyrhaedd. Mae hi yn engraifft o'r ffordd yn mha un y mae penderfyniad ac yni mawr yn troi yn ddrygau dirfawr, o eisieu egwyddorion crefyddol a theimlad haelfrydig. Pe buasai ei chalon yn iawn, gwnaethai nodweddiad ardderchog, a gwnaethai lawer dros ogoniant Duw a lles Israel. Cyssegrodd ei galluoedd mawrion i'r Un Drwg, a chyflawnodd yn frwdfrydig ei waith. Nid cynt y lladdwyd y diniwed Naboth, nag yr oedd Elïas drachefn yn mhresennoldeb y brenhin, i argyhuddo ei drosedd, a rhagfynegu ei farwolaeth ef a'i wraig ar y man y tywalltwyd gwaed eu hysglyfaeth, a lle y llyfai cwn y ddinas ac adar rheibus yr awyr eu gwaed hwynt.

Yn nghanol yr holl droseddau hyn, y fath arddanghosiad sydd gennym ni o drugaredd byth-barhaol a byth-barod yr Arglwydd! "A phan giybu Ahab y geiriau hyn, efe a rwygodd ei ddillad, ac a osododd sachlïain am ei gnawd, ac a orweddodd mewn sachlïain, ac a gerddodd yn araf. A gair yr Arglwydd a ddaeth at Elïas y Thesbiad, gan ddywedyd, Oni weli di fel yr ymostwng Ahab ger fy mron? Am iddo ymostwng ger fy mron i, ni ddygaf y drwg yn ei ddyddiau ef; ond yn nyddiau ei fab ef y dygaf y drwg ar ei dŷ ef."

Yr oedd Elïas mor ffyddlawn i Ahaziah, ag yr ydoedd wedi bod i'w

dad Ahab. Pan yr anfonodd y brenhin, yr hwn oedd yn gorwedd yn beryglus glaf ar ol ei gwymp o'i oruchystafell, ei genhadau at Baal-zebub, safodd y prophwyd yn eu llwybr, a rhoddodd y wybodaeth yr oeddynt ar geisio gan yr eilun. "Fel hyn y dywed yr Arglwydd, Ni ddisgyni o'r gwely y dringaist arno, eithr gan farw y byddi farw. Ac Elïas a aeth ymaith."

Y brenhin, pan y dychwelasant gyda y rhagfynegiad tyngedfenol hwn, ac y darluniasant ei awdwr, fel "gŵr blewog, wedi ymwregysu a gwregys croen am ei lwynau," a wybu mai y prophwyd o wae ydoedd—"Elïas y Thesbiad." Anfonwyd deng ŵr a deugain i ddal y prophwyd, yr hwn oedd yn eistedd ar ben bryn; ond yn ofer yr ymgeisiodd y llu yma a'i gadben i ddal gŵr Duw, wrth orchymyn yr hwn y disgynodd y fflach-mellt ac a'i hysodd hwynt. Daeth llu arall o ddeg a deugain, a chyfranogasant o'r un dynged; ac nid cyn i dywysog y llu arfog nesaf ymgrymu ar ei liniau ac ymbilio ag ef, y cyfododd y prophwyd ac yr aeth i lawr gydag ef at y brenhin. Ac yn awr anturia y gŵr yma o "nodweddiad mwyaf ardderchog a rhamantus" i'r llys, a saif wrth ochr gwely y brenhin, yn gylchynedig gan ei warchlu, nid i ymollwng a chrynu, neu erfyn am drugaredd, ond i ddywedyd, "O herwydd it' anfon cenhadau i ymofyn a Baal-zebub, Duw Ecron, (ai am nad oes Duw yn Israel i ymofyn a'i air?) am hynny ni ddisgyni o'r gwely y dringaist arno, eithr gan farw y byddi farw."

Dyga yr hanes ysbrydoledig ni yn awr i Gilgal, ychydig i'r deheu o Jericho, lle y cwrddwn a'r ddau brophwyd, Elïas ac Eliseus. Yr oedd y prophwyd hynaf bron a gorphen ei yrfa, a byddai cerbydau Duw yn barod yn fuan i'w ddwyn ef i'w orphwysfa nefol. Bodolai ymlyniad serchog sanctaidd rhwng y gwŷr Duw hyn; ac Elïas, yn anfoddlawn i ganu yn iach a'r anwyl Eliseus, a gynhygiodd fyned wrtho ei hun i Bethel, ond mynai Eliseus ei ganlyn hyd yno. Yn Bethel yr oedd ysgol prophwydi, a mynegodd y gwŷr ieuaingc i Eliseus fod y dydd ymadawiad wedi dod. I ochel yr awr bruddaidd ymadael hono, deisyfai Elïas gael myned ei hun i Jericho, ond ni ymadawai Eliseus ag ef, ac "felly y daethant i Jericho," lle yr oedd ysgol arall y prophwydi, ac yno drachefn yr oedd yn wybyddus fod Elïas i adael y ddaear yn fuan am y

nefoedd. Aethant eu dau i lawr i'r Iorddonen, ac "Elïas a gymmerth ei fantell, ac a'i plygodd ynghŷd, ac a darawodd y dyfroedd, a hwy a ymwahanasant yma ac accw, fel yr aethant hwy trosodd ill dau ar dir sych."

Elïas yn ei chanfod yn annichonadwy i gelu y bwriad Dwyfol i'w symmud ef oddiar y ddaear, a annoga Eliseus i ofyn beth a fynai cyn i'r prophwyd gael ei gymmeryd ymaith, ac mewn ysbryd yn gweddu i'w genadwri fawr, dywed, "Bydded attolwg, ddau parth o'th yspryd di arnaf fi." Gwyddai fod ganddo i gymmeryd i fyny y gwaith mawr yr oedd Elïas ar ei adael, ac y gallai brofi yn ffyddlawn yn unig fel y cyflenwid ef yn ddigonol a'r ysbryd a orphwysai ar y Thesbiad. Atebwyd ei weddi briodol, er iddo ofyn "peth anhawdd." Ond yn awr y mae cerbyd a meirch y nef yn disgwyl, ac nid oes gan Elïas ffyddlawn amser bron i ganu yn iach i Eliseus drist, pan y mae ar ei ffordd i'w orphwysfa dragywyddol.

Mae llawer o addysg dwfn i'w gael trwy gydmaru ymddygiad Eliseus a'r eiddo prophwydi ieuaingc Jericho ar ol y dygwyddiad gwyrthiol hwn. Daethant i gwrdd a Eliseus, "ac a ymgrymmasant hyd lawr iddo. A hwy a ddywedasant wrtho, Wele yn awr, y mae gyd a'th weision ddeg a deugain o wŷr cryfion; elont yn awr, ni a attolygwn, a cheisiant dy feistr; rhag i yspryd yr Arglwydd ei ddwyn ef, a'i fwrw ar ryw fynydd, neu mewn rhyw ddyffryn. Dywedodd yntau, Na anfonwch. Etto buant daer arno, nes cywilyddio o hono, ac efe a ddywedodd, Anfonwch. A hwy a anfonasant ddengwr a deugain, y rhai a'i ceisiasant ef dridiau, ond ni's cawsant." Fel rhai o ddysgawdwyr ein hamser ni, priodolent wyrth y symmudiad i egwyddorion naturiol yn unig. Ymgodai y cyfryngiad Dwyfol yma uwchlaw eu hathroniaeth, a cheisiai eu dengwr a deugain gael ar y ddaear y corff ydoedd wedi ei symmud yn wyrthiol i'r nef. Y fath gerydd grymus sydd yn ngeiriau y prophwyd, "Oni ddywedais i wrthych, Nac ewch." Bydded yr eiddom ni, gydag Eliseus, i gydnabod y llaw sydd yn symmud prophwyd anwyl a ffyddlawn i'r nef, ac yn yr ysbryd ddanghosir yma i lefain, "Pa le y mae Arglwydd Dduw Elïas?" Mae y gwas wedi myned, ond bydded i ni geisio yn daer am bresennoldeb ei feistr.

(Darllener 1 Brenhinoedd xix. 15—21.; xx. 2 Brenhinoedd i.; ii.)

## PENNOD XVI.

### BRENHINOEDD JUDAH—TEYRNASIAD ASA.

**Wrth** ddylyn gyrfa Elïas, cenadwri yr hwn ydoedd at Israel yn hytrach nag at Judah, yr ydym wedi gadael yn ddisylw ran bwysig o hanes Judah, ar ba un y sylwn yn awr gyda mwy o foddhad, fel y dengys y modd yr oedd goleuni Cyfraith Duw yn tywynu yn Jerusalem, tra yr oedd tywyllwch eilun-addoliaeth yn ymdaenu dros y frenhiniaeth ogleddol.

Aeth tair blynedd o deyrnasiad Abiah heibio rhwng Rehoboam ac Asa. "Efe a rodiodd yn holl bechodau ei dad, y rhai a wnaethai efe o'i flaen ef; ac nid oedd ei galon ef berffaith gyd a'r Arglwydd ei Dduw, fel calon Dafydd ei dad." Ni a'i cawn ef yn proffesu sel fawr dros grefydd ei gyndadau, ac yn gwneyd araeth fawr wrth yr Israeliaid ar eu gwrthgiliad oddiwrth Jehofah. Yr oedd yn un o'r llywodraethwyr hyny a ddefnyddiant grefydd yn unig fel offeryn gwladlywiad, gan werthfawrogi duwioldeb y bobl a gwasanaeth yr offeiriaid yn unig fel y dyrchafent ei ddiogelwch a'i lwyddiant. Yn ei anerchiad gwladlywiol fel y safai ar Fynydd Semaraim, gan ddadleu yn erbyn llygredigaethau Israel, a dangos y purdeb a hynodai grefydd ei wlad, nid oedd "yr Arglwydd ein Duw" ond gwaedd rhyfel yn ei eneu, a chyflawnwyd ei fwriad pan y profodd ei fyddin yn fuddugoliaethus ar Israel. Hynodid ei deyrnasiad gan oresgyniad rhan helaeth o diriogaeth, pa un a gymmerodd oddiar Israel, ac a ychwanegodd at Judah. "Ac Abïah a erlidiodd ar ol Jeroboam, ac a ddug oddiarno ef ddinasoedd Bethel a'i phentrefydd, a Jesanah a'i phentrefydd, ac Ephraim a'i phentrefydd."

Dengys yr araeth at yr hon y cyfeiriasom (2 Cron. xiii. 4—12) nad oedd Abiah yn ddiffygiol mewn dealltwriaeth, ac fod ganddo allu areithyddol enwog. Gall yr "un araeth" yma gyfrif am y cyfeiriad at ei "eiriau" ar ddiwedd ei fywgraffiad byr: "A'r rhan arall o hanes Abïah, a'i ffyrdd ef, a'i eiriau, y maent yn ysgrifenedig yn llyfr y prophwyd Ido." "Llyfr y prophwyd Ido" sydd un o lawer o gofnodion cyhoeddus gyfeirir atynt yn Llyfrau y Brenhinoedd a'r Croniclau, gedwid yn mysg

y cofysgrifau yn Jerusalem, oddiwrth ba rai y casglwyd y llyfrau hyn gan y prophwydi o dan yr arweiniad Dwyfol.

Er nad oedd yn Abiah ddim duwioldeb cywir, dim gwir gariad at Arglwydd Dduw Israel, "ond, er mwyn Dafydd y rhoddodd yr Arglwydd ei Dduw iddo ef oleuni yn Jerusalem, i gyfodi ei fab ef ar ei ol ef, ac i sicrhau Jerusalem." Duw yn ei drugaredd i Judah yn awr, a gyfododd i fyny olynydd, yr hwn am lawer o flynyddoedd a'i gwasanaethodd Ef yn ffyddlawn, ac a ddyrchafodd wir lwyddiant y frenhiniaeth. Ymagorodd y teyrnasiad yma gyda deng mlynedd o heddwch; canys ni chafodd Jehoram brenhin Israel "nerth mwyach yn nyddiau Abïah." Mae y darluniad ysbrydoledig o nodweddiad Asa, roddir mewn ychydig eiriau, yn dra chynhwysfawr, a dengys fod ei galon yn uniawn gyda Duw; efe "a wnaeth yr hyn oedd dda ac union yngolwg yr Arglwydd ei Dduw." Crybwyllir am Jehofah, nid yn unig fel Duw ei dadau, ond fel Duw ei ddewisiad, i ba un yr oedd wedi cyssegru ei galon.

Efe a ddechreuodd ei deyrnasiad trwy ddiwygiad crefyddol mawr. Cefnogai defodau llygredig paganiaeth y troseddau bryntaf, a chylchynid temlau Baal gan y rhai hyny a weithredent fel hudwyr i'r llygredigaeth o'r nodwedd mwyaf gwrthun, ac ysgûbodd y brenhin duwiol ymaith y minteioedd anghrefyddol hyn, gyda'r eilunod, i addoliad pa rai y gwasanaethent. Yr oedd Maachah ei fam, neu yn hytrach mam ei dad Abiah, yr hon a addolai ac a noddai eilunod, wedi codi teml i ddibenion eilun-addolgar mewn lle a goffâ eto am ei henw a'i chyssylltiad ag eilun-addoliaeth, Abel-beth-maachah. Dinystriodd Asa ei heilun, a llosgodd ef wrth afon Cedron. Ni wnai oddef i ddim hawliau o gydwaedoliaeth i ymyraeth a'r gwaith oedd ganddo i'w wneyd i'r Arglwydd, ac felly symmudodd hi o'i mawredd brenhinol, fel na wnai ei dylanwad wrthwynebu y gwaith da o ddiwygiad.

Gwna y rhai hyny nad ydynt yn darllen y cofnodion sanctaidd gyda gofal priodol, benderfynu yn frysiog fod iaith y Brenhinoedd a'r Croniclau yn groes i'w gilydd. Ni a ddarllenwn (1 Bren. xv. 14) na "fwriwyd ymaith yr uchelfeydd;" ond yn 2 Cron. xiv. 5 dywedir, "Efe a fwriodd ymaith o holl ddinasoedd Judah yr uchelfeydd a'r delwau; a chafodd y frenhiniaeth lonydd o'i flaen ef." Cysonir y gwrth-ddywediad ym-

ddangosiadol trwy frawddeg yn 2 Cron. xv. 17: "Ond ni thynnwyd ymaith yr uchelfeydd o Israel; etto yr oedd calon Asa yn berffaith ei holl ddyddiau ef." Dylid cofio fod ychwanegiadau mawrion o diriogaeth, ychydig cyn ei esgyniad, wedi eu gwneyd, trwy oresgyniadau yn Israel, a bai Asa oedd na ddarfu ddinystrio uchelfeydd Israel fel y gwnaeth yn Judah. Gan i Bethel syrthio i'w ddwylaw, y ddinas eilun-addolgar hono lle y gosododd Jeroboam gyntaf i fyny ddelw y llo, dylasai Asa beidio arbed ei huchelfeydd, ond, gan ystyried ei hun fel gwas Jehofah, dylasai weithredu er Ei ogoniant yn y diriogaeth osodwyd yn awr o dan ei lywodraeth. Dysga yr iaith arwyddocaol o dan ystyriaeth i ni nad yw llywodraethwyr yn boddhau Duw os ydynt yn gefnogwyr mewn un wlad o eilun-addoliaethau na oddefant mewn gwlad arall. Nid yw yn deg i fod ag un gwladlywiad crefyddol i Loegr, ac un arall i'r India.

Gwnaeth Asa ddefnydd doeth o amser heddwch i godi dinasoedd amddiffynol, ac i sicrhau nerth milwrol digonol. "Ac yr oedd gan Asa lu o wŷr yn dwyn tariannau a gwaywffyn, o Juda tri chan mil; ac o Benjamin dau cant a phedwar ugain mil yn dwyn tariannau, ac yn tynnu bwa; y rhai hyn oll oedd wŷr grymmus." Pan y goresgynwyd ei wlad gan Zerah, yr Ethiopiad, gyda ei lu o fil o filoedd a'i dri chant o gerbydau rhyfel, y rhai a wnaethant eu ffordd i Judah, yn lle dibynu ar ei fyddin, gweddiodd Asa weddi lawn o daerineb difrifol. "Ac Asa a waeddodd ar yr Arglwydd ei Dduw, ac a ddywedodd, O Arglwydd, nid yw ddim i ti gynnorthwyo, pa un bynnag ai gyd â llawer, ai gyd a'r rhai nid oes ganddynt gryfdwr; cynnorthwya di ni, O Arglwydd ein Duw; canys pwyso yr ydym ni arnat ti, ac yn dy enw di y daethom yn erbyn y dorf hon. O Arglwydd ein Duw ni ydwyt ti, na orfydded dyn i'th erbyn." Gwrandawodd yr Arglwydd y weddi, a dychwelodd y brenhin buddugol yn ddiogel, gyda chyflawnder o ysbail, i'w ddinas.

Dylynwyd y fuddugoliaeth hon gan apeliad at frenhin Syria, gan Azariah, gwir brophwyd yr Arglwydd, yr hwn a'i cynghorodd i barhau yn y gwaith da oedd wedi ei ddechreu; "a phan glybu Asa y geiriau hyn, a phrophwydoliaeth Oded y prophwyd, efe a gryfhaodd, ac a fwriodd ymaith y ffiaidd eilunod o holl wlad Judah, a Benjamin, ac o'r holl ddinasoedd a ynnillasai efe o Fynydd Ephraim, ac a adnewyddodd allor

yr Arglwydd." Gan gynnull ei bobl, a lliaws "a syrthiasant atto ef yn aml o Israel," efe a wnaeth offrymau mawrion i Jehofah, o'r anrhaith a gymmerasant. Mygai yr allor gan aberthau, ac aeth y bobl dan gyfammod cenhedlaethol mawr i wasanaethu Jehofah yn unig. Ar yr un amser y brenhin "a ddug i dŷ yr Arglwydd yr hyn a gyssegrasai ei dad, a'r hyn a gyssegrasai efe ei hun, arian, ac aur, a llestri. Ac ni bu ryfel mwyach hyd y bymthegfed flwyddyn ar hugain o deyrnasasiad Asa."

Mor bell a hyn yr ydym yn darllen hanes Asa gyda boddhad mawr, ond ni chofnoda y rhan sydd yn ol ond ychydig nad yw yn boenus. I sicrhau cynhorthwy brenhin Syria, efe "a ddug allan arian, ac aur, o drysorau tŷ yr Arglwydd, a thŷ y brenhin, ac a'u hanfonodd at Benhadad brenhin Syria." Pan y ceryddodd Hanani, y gweledydd, ei ddiffyg ffydd yn Jehofah, "yna digiodd Asa wrtho, ac a'i rhoddodd ef mewn carchardy; canys yr oedd efe yn ddigllawn wrtho am y peth hyn;" ac efallai o herwydd dangos o'r bobl eu hanfoddlonrwydd y dechreuodd eu gormesu hwynt. Syrthiodd cystudd yn awr arno ef, efe "a glafychodd o'i draed, nes i'w glefyd fyned yn ddirfawr; etto ni cheisiodd efe yr Arglwydd yn ei glefyd, ond y meddygon." Yr oedd yn iawn iddo geisio cymhorth ei feddygon, a theimlo yn ddiolchgar am eu medrusrwydd, ond yr oedd yn bechod mawr i'w rhoi yn lle "yr Arglwydd (ei) iachawdwr." Esgeuluso cynhorthwy o'r fath a disgwyl iachad sydd ryfyg; ond ei dderbyn yn lle y llaw Ddwyfol, sydd annuwioldeb arswydus. Fel y dysga yr hanes yma ni i barhau, os proffesasom i wasanaethu yr Arglwydd, a gochelyd yn y diwedd gwneyd llong-ddrylliad am ein ffydd!

Nid oedd pobl Judah, er yn drallodus gan derfyniad prudd dyddiau Asa, yn ddiystyr o'r holl ddaioni a wnaeth efe iddynt, a'i sel dros Jehofah yn ei flynyddoedd boreuol. "A chladdasant ef yn ei feddrod ei hun, yr hwn a wnaethai efe iddo yn ninas Dafydd, a rhoddasant ef i orwedd mewn gwely a lanwasid â phêraroglau o amryw rywogaethau, wedi eu gwneuthur trwy waith apothecari; a hwy a gynneuasant iddo ef gynneu mawr iawn." Bydded i ni ddethol o dudalen hanesiaeth yr oll sydd yn deg a hardd; ac felly bydded i ni ymddwyn at goffadwriaeth y marw, a "pha bethau bynnag sydd ganmoladwy, meddyliwch am y pethau hyn."

(Darllener 1 Brenhinoedd xv. 1—24. 2 Cronicl xiv.—xvi.)

# PENNOD XVII.

## JEHOSHAPHAT.

Ni rydd blwyddolion Judah ddim hanes a allwn darllen gyda mwy o ddyddordeb angherddol, neu oddiwrth ba un y gallwn gael mwy o addysg, na theyrnasiad Jehoshaphat. Gellir dysgu gwersi pwysig oddiwrth ei fawredd, a'r achos i ba un y cymhwysir ef, tra y rhydd ei ddiffygion rybuddion i ni o'r gwerth mwyaf, gan yr olrheinir hwythau hefyd i'w priodol ffynhonell. "A'r Arglwydd a fu gyd â Jehoshaphat, o herwydd iddo rodio yn ffyrdd cyntaf Dafydd ei dad, ac nad ymofynodd â Baalim; eithr Duw ei dad a geisiodd efe, ac yn ei orchymynion ef y rhodiodd, ac nid yn ol gweithredoedd Israel." Yr oedd "ffyrdd cyntaf ei dad" Asa, yn rhagorol, ac efe a'u dylynodd yn egniol, tra yr edrychodd yn mhellach yn ol yn yr hanesiaeth deuluaidd am esiampl teilwng, a chafodd ef yn mywyd y Brenhin Dafydd. Dedwydd y dyn a ddefnyddia felly hanesiaeth ei gyndadau, gan efelychu yr oll sydd yn sanctaidd a da yn eu bywydau, a gwrthod yr oll sydd yn bechadurus ac anheilwng.

Un o'i weithredoedd cyntaf ydoedd anfon nifer o ddarllenwyr yr Ysgrythyrau trwy ei frenhiniaeth. Erfyniodd am gydweithrediad ei dywysogion; "efe a anfonodd at Ben-hail Lefiaid; sef Semaiah, a Nethanïah, a Zebadiah, ac Asahel, a Semiramoth, a Jehonathan, ac Adonïah, a Thobïah, a Thob-adonïah, y Lefiaid; a chydâ hwynt Elisama, a Jehoram, yr offeiriaid. A hwy a ddysgasant yn Judah, a chydâ hwynt yr oedd llyfr cyfraith yr Arglwydd, felly yr amgylchasant hwy holl ddinasoedd Judah, ac y dysgasant y bobl."

Yr ydym wedi cyfeirio at y gwallau a lychwinent yrfa ysblenydd y brenhin da yma, ac o'r rhai hyn y penaf, a ffynhonell ereill, ydoedd ei "ymgyfathrachiad âg Ahab." Ymhyfrydai brenhin gwrthgiliedig Israel groesawu brenhin Judah i'w brifddinas, efe "a laddodd ddefaid a gwartheg lawer, iddo ef a'r bobl oedd gyd âg ef;" ond efe a ddylynodd y wledd frenhinol yma a gwahoddiad i Jehoshaphat fyned gyd âg ef i Ramoth-gilead i ryfel, fel y gallai fyned a'r ddinas hono oddiar frenhin Syria.

Ni ddechreuai brenhin duwiol Judah ar yr anturiaeth yma heb geisio cyfarwyddiadau oddiwrth Jehofah; a chyfarfyddodd Ahab y cynhygiad yma trwy gasglu o'u cylch ei bedwar cant o brophwydi eilun-addolgar. Yr ydym yn edmygu ffyddlondeb Jehoshaphat pan y gofynodd, "Onid oes yma un prophwyd i'r Arglwydd etto mwyach, fel yr ymgynghorem ag ef?" Nis gallai Ahab wrthwynebu i'r dull moesgar yn mha un y rhoddwyd yr ymofyniad, a galwodd yr ymofyniad am Micheah, yr hwn a ymddengys a ddygwyd allan o'r carchar i'r achlysur.

Cyfarfod tra hynod oedd hwnw a gymmerodd le "wrth ddrws porth Samaria," pan yr ymgasglodd yr holl brophwydi i brophwydo mewn perthynas i'r rhyfelgyrch cynhygiedig yn erbyn y Syriaid. Gan fabwysiadu y gweithrediad arwyddluniol pa un a orchymynid i'r gwir brophwydi weithiau ddefnyddio, ni a welwn i un o au brophwydi Baal, "Sedecïah, mab Cenaanah, wneuthur iddo ei hun gyrn heiyrn, ac efe a ddywedodd, Fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, A'r rhai hyn y corni di y Syriaid, nes i ti eu difa hwynt. A'r holl brophwydi oedd yn prophwydo fel hyn, gan ddywedyd, Dos i fynu i Ramoth-gilead, a ffynna: canys yr Arglwydd â'i dyry hi yn llaw y brenhin." Cyfarwyddid prophwyd yr Arglwydd, Micheah, gan y llys-genhad i brophwydo yn unol a'r prophwydi hyn i Baal; ond mor fawreddog ydoedd ei atebiad, "Fel mai byw yr Arglwydd, yr hyn a ddywedo fy Nuw, hynny a lefaraf fi!" Ar y cyntaf ymddygodd at Ahab gyda gwawdineb, ac adleisiodd eiriau y gau brophwydi; ond yna yn cael ei dynghedu gan y brenhin drygionus, efe a adroddodd weledigaeth a ganfyddodd, yn mha un y lladdwyd y brenhin ac y gwasgarwyd ei fyddinoedd. Llwyddodd yr ysbryd celwyddog, ac yr oedd yn feius o du Jehoshaphat i ddiystyru rhybuddion prophwyd yr Arglwydd, a myned i'r rhyfel. Yn y frwydr farwol hono, er wedi ymddieithrio, syrthiodd Ahab trwy saeth "rhyw ŵr," yr hwn "a dynnodd mewn bwa ar ei amcan;" tra y bu agos i frenhin Judah golli ei fywyd ei hun, a buasai wedi cwympo, oni bai iddo lefain ar yr Arglwydd am gymhorth, pan y cylchynodd y Syriaid ef, a "Duw a'u gyrrodd hwynt oddiwrtho ef."

Ond nis gall un rhan o'r blwyddolion hyn ymgystadlu mewn dyddordeb âg ymddygiad y brenhin duwiol yma pan y daeth "meibion Moab a meibion Ammon, a chyd â hwynt eraill heblaw yr Ammoniaid, yn erbyn

Jehoshaphat, i ryfel." Wrth glywed fod y lluoedd cyngreiriol hyn yn heidio i'w frenhiniaeth, y brenhin, yn lle ymddired ar gryfder ei fyddin, a gyhoeddodd ympryd, ac a gasglodd ei bobl o holl Judah mewn cymanfa gyhoeddus fawr, yn Nheml yr Arglwydd. Yno y safodd yn nghanol ei bobl, ac a weddiodd gyda brwdfrydedd sanctaidd, gan appelio at y ffyddlondeb Dwyfol, a chan ddarlunio sefyllfa ddigynhorthwy y bobl, a'u gobaith yn Nuw, gan ddywedyd, "Ac ni wyddom ni beth a wnawn: ond arnat ti y mae ein llygaid."

Prin yr oedd y weddi ar ben, pan y daeth Ysbryd yr Arglwydd ar Jahaziel, yr hwn a'u cyfarwyddodd i fyned yn mlaen heb ofn tuag at y llu ymosodol, gan ddywedyd, "Nid rhaid i chwi ymladd yn y rhyfel hwn; sefwch yn llonydd, a gwelwch ymwared yr Arglwydd tu ag attoch, O Judah, a Jerusalem; nac ofnwch, ac na ddigalonwch: ewch y fory allan yn eu herbyn hwynt, a'r Arglwydd fydd gyd â chwi." Dranoeth, yn cael ei chefnogi gan ei harweinydd duwiol, aeth y fyddin allan, yn cael ei rhagflenu gan lu o gantorion, "ac yn yr amser y dechreuasant hwy y gân a'r moliant, y rhoddodd yr Arglwydd gynllwynwyr yn erbyn meibion Ammon, Moab, a thrigolion mynydd Seir, y rhai oedd yn dyfod yn erbyn Judah; a hwy a laddasant bawb eu gilydd." Nid oedd gan drigolion Judah a'u brenhin ond yn unig i edrych fel y lladdai y goresgynwyr eu gilydd. "A phan ddaeth Jehoshaphat a'i bobl i ysglyfaethu eu hyspail hwynt, hwy a gawsant yn eu mysg hwy lawer o olud, gyd a'r cyrph meirw, a thlysau dymunol (yr hyn a ysglyfaethasant iddynt) beth anfeidrol; a thridiau y buant yn ysglyfaethu yr yspail, canys mawr oedd." Fel hyn y gwaredodd Jehofah y brenhin da yma a'i bobl, "A hwy a ddaethant i Jerusalem â nablau, a thelynau, ac udgyrn, i dŷ yr Arglwydd. Ac ofn Duw oedd ar holl deyrnasoedd y ddaear, pan glywsant hwy" y pethau hyn.

Syrthiodd Jehoshaphat i gamgymmeriad mawr arall pan yr ymunodd âg Ahaziah, brenhin Israel, mewn anturiaeth fasnachol, ac y ceisiasant adeiladu eu llongau yn Esion-gaber. Anfonodd yr Arglwydd Ei brophwyd i rybuddio yn erbyn yr hynt unedig, a'i wynt i ddryllio y llongau, "fel na allasant fyned i Tarsis."

(Darllener 2 Cronicl xvii.—xx.)

## PENNOD XVIII.

### ELISEUS A'I AMSERAU.

Cyrhaeddodd bywyd cyhoeddus Eliseus dros dymhor o fwy na deg mlynedd a deugain. Yn ystod ei holl yrfa, yr oedd Jehofah yn cofio am ei weddi ddifrifol, a gorphwysai ysbryd Elïas arno mewn helaethder. Fel Elïas, yr oedd yn llawn o ffydd yn y gallu Dwyfol, a thra yr oedd yn gwneyd gwaith yr Arglwydd, yr oedd ar bob amser yn ymwybodol o'r presennoldeb Dwyfol, a theimlai fod llaw yr Arglwydd arno ef. Yr oedd yn cael, tra yr oedd Duw wedi galw am Ei was i'r nef, iddo dywallt ei Ysbryd mewn atebiad i weddi ffyddiog; a rhydd ei hanes galondid i ni pan y mae ein Elïasiaid da a ffyddlawn yn cael eu cymmeryd oddiarnom, i erfyn am "Arglwydd Dduw Elïas" lenwi y gwagleoedd achosir gan angeu, a dwyn yn mlaen y gwaith da trwy offerynau ereill.

A mantell Elïas tarawodd y prophwyd newydd yr Iorddonen, a'r "dyfroedd a wahanwyd yma ac accw, ac Elisëus a aeth drosodd." Pan y dywedodd meibion y prophwydi yn Jericho wrtho, "Wele, attolwg, ansawdd y ddinas, da yw, fel y mae fy arglwydd yn gweled, ond y dyfroedd sydd ddrwg, a'r tir yn ddiffaeth, efe a ddywedodd, Dygwch i mi phiol newydd, a dodwch ynddi halen; a hwy a'i dygasant atto ef. Ac efe a aeth at ffynhonell y dyfroedd, ac a fwriodd yr halen yno, ac a ddywedodd, Fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, Mi a iachêais y dyfroedd hyn; ni bydd oddi yno farwolaeth mwyach, na diffrwythdra." Pan y gwawdiodd y gwŷr ieuaingc ei foelni—a gwnaethant felly, efallai, o herwydd y cyferbyniad rhwng ei ymddanghosiad a'r eiddo Elïas—efe "a'u melldithiodd yn enw yr Arglwydd; a dwy arth a ddaeth allan o'r goedwig, ac a ddrylliodd o honynt ddau a deugain." Llefara ein cyfieithiad ni am y gwatwarwyr hyn fel "plant bychain," ond defnyddir y term a gyfieithir felly mewn gwahanol ranau o'r Ysgrythyr i arddangos oedran gwŷr, cymhwysir ef at Isaac pan yn wyth ar hugain oed, ac at ereill mewn oedran mwy. Gwŷr ieuaingc diràs oeddynt, perthynol i Bethel eilun-addolgar, ac ammharchasant Jehofah trwy y gwawd a daflasant ar Ei brophwyd.

Fel ei ragflaenydd mawr, cynhorthwyid Eliseus yn gyson gan nerthoedd gwyrthiol. Pan yr achwynodd gweddw prophwyd am ei thlodi, ac yr ofnai y teflid ei dau fab i gaethiwed am ddyledion eu tad, caniatawyd i'r prophwyd amlhau yr ychydig olew oedd yn aros yn ei thŷ, nes y daeth yn ddigon i dalu y dyledion hyny, ac ni allai fenthyca dim rhagor o lestri i ddal y cyflenwad gwyrthiol. Wrth ei air collodd gwenwyn marwol ei lymdostedd, a bwyttaodd meibion y prophwydi yn ddiberygl. Fel Elïas, fe adalwodd ysbryd plentyn marw, ac adferwyd ei fywyd. Fe gyfarwyddodd arglwydd Syriaidd gwahanglwyfus i ymolchi saith waith yn yr Iorddonen, "a'i gnawd a ddychwelodd fel cnawd dyn bach, ac efe a lanhawyd;" ac wrth ei air syrthiodd yr afiechyd ar Gehazi, yr hwn a aeth allan yn wahanglwyfus cyn wyned a'r eira. Nid oedd rhaid iddo ond llefaru, a tharewid gelynion Israel a dallineb, ac mewn atebiad i'w weddi adferid eu golwg. Mewn pethau bach yn gystal a mawr, deuai gallu gwyrthiol i'w gynhorthwyo, canys pan y suddodd yr offeryn haiarn. i'r dwfr, nid oedd rhaid i'r prophwyd ond taflu pren i mewn a nofiodd yr haiarn. Hyd yn oed ar ol ei farw, gwnaeth y Duw yr hwn a wasanaethodd yn ffyddlawn yn ei fywyd anrhydedd mawr i'w weddillion, canys "pan oeddynt yn claddu gŵr, wele hwy a ganfuant dorf, ac a fwriasant y gŵr i feddrod Eliseus; a phan aeth y gŵr i lawr a chyffwrdd ag esgyrn Elisëus, efe a ddadebrodd, ac a gyfododd ar ei draed."

Dylynodd Eliseus ei yrfa yn ffyddlawn, a gwelwn ef wrth y gorchymyn Dwyfol yn bresennol lle bynag yr oedd ei eisieu i draethu gair yr Arglwydd wrth frenhiniaethau Israel a Judah. Pan y dylynodd Jehoram ei dad Ahab, nid ymadawodd oddiwrth ffyrdd Jeroboam, er iddo roi heibio delw Baal a wnaeth ei dad. Gadawyd i Mesa, brenhin Moab, gan hyny wrthryfela, ac atal ei deyrnged arferol. Ymunodd Jehoshaphat, brenhin Judah, a brenhinoedd Israel ac Edom, i wrthwynebu brenhin Moab, ond ar ol taith saith niwrnod, cawsant nad "oedd dwfr i'r fyddin, nac i'r anifeiliaid oedd yn eu canlyn hwynt." Yn y cyfwng yma gwnaed anrhydedd i Eliseus gan y tri brenhin, y rhai a aethant i lawr ato, canys hwy a wyddent fod "gair yr Arglwydd gyd âg ef." Er y diystyrasai y prophwyd erfyniad Jehoram eilun-addolgar, efe a barchodd bresennoldeb Jehoshaphat, yr hwn "ni ŵyrodd oddiwrth wneuthur yr hyn oedd

union yngolwg yr Arglwydd." Gan alw am gerddor, yr hwn a chwareuodd ger ei fron, "daeth llaw yr Arglwydd arno," ac efe a brophwydodd y llenwid y dyffryn â dwfr, ac y gorchfygid y Moabiaid. "A'r bore pan offrymmwyd y bwyd-offrwm, wele, ddyfroedd yn dyfod o ffordd Edom, a'r wlad a lanwyd o ddyfroedd." "A hwy a ddistrywiasant y dinasoedd, ac i bob darn o dir da y bwriasant bawb ei garreg, ac a'i llanwasant; a phob ffynnon ddwfr a gauasant hwy, a phob pren da a gwympasant hwy i lawr; yn unig yn Cir-haraseth y gadawsant ei cherrig; etto y rhai oedd yn taflu a'i hamgylchynasant, ac a'i tarawsant hi."

Yn yr olyniad i dŷ Judah, yr ydym yn cael yn nesaf Joram, neu Jehoram, yr hwn yn ystod teyrnasiad o wyth mlynedd, a rodiodd yn ffyrdd drygionus brenhinoedd Israel, a pha rai y gwnaeth gyngrair priodasol gwarthus, trwy briodi Athaliah, merch Ahab a Jezebel. Oddieithr fod adysgrifenydd hen law-ysgrif wedi gwneyd y camgymmeriad o ysgrifenu Elïas am Eliseus, (2 Cron. xxi. 12,) yr oedd y prophwyd Elïas wrth ragweled ymddygiad Jehoram, wedi gadael iddo lythyr i gael ei gyflwyno yn y fan leiaf saith niwrnod ar ol ei symmudiad. Yn yr ysgrifen hono, rhagrybuddia y prophwyd y brenhin o'r farwolaeth ddychrynllyd a thorcalonus yr oedd i farw o honi, ac o'r plâau mawrion oeddynt i ddisgyn ar ei bobl, ei blant, a'i wragedd, o herwydd na rodiodd yn ffyrdd Jehoshaphat ei dad. Ar yr amser gosodedig, "efe a ymadawodd heb hiraeth am dano." Gwelwch fel y dylynir pechod gan gosb yn fynych yn y bywyd hwn, yn gystal a'r un sydd i ddod. Gynifer sydd, fel y gloddestwr brenhinol hwn, y mynyd yma yn ymbrysuro i lawr i'w beddau, yn cael eu poeni gan rhyw afiechyd gwanychol, canlyniad eu gyrfa bechadurus, a nod o'r anfoddlonrwydd Dwyfol yn erbyn pechod.

Dengys "ysgrifen" Elïas i ni y modd y mae dyn da, "wedi marw, yn llefaru etto," adgoffa i ni am was ffyddlawn arall i'r Arglwydd, yr hwn yn bell wedi hyn a ddywedodd, "Mi a wnaf fy ngoreu hefyd ar allu o honoch bob amser, ar ol fy ymadawiad i, wneuthur coffa am y pethau hyn." Dylem ystyried y cenhedlaethau sydd i ddod, yn gystal a'r un yr ydym yn byw ynddi, ac ymgeisio am les uwchaf pob un.

(Darllener 2 Brenhinoedd ii.; iii. 2 Cronicl xxi.)

## PENNOD XIX.

### NAAMAN Y GWAHANGLWYFUS—EI IACHAD, A'I DDYCHWELIAD.

DECHREUA hanes Naaman trwy ddarluniad o'i fawredd a'i brofedigaeth drom. Os cydmarwn ei fawredd i radd gyfatebol gyda ni, efe ydoedd prif-gadlywydd y fyddin Syriaidd, ar amser pan yr oedd medr a dewrder milwrol yn cael eu dal yn y parch uwchaf; a chyrhaeddodd y radd yma a ffafr mawr ei benadur "canys trwyddo ef y rhoddasai yr Arglwydd ymwared i Syria." Nis gallai ei gyfoeth na'i radd ei amddiffyn rhag cystudd, oblegid dioddefai oddiwrth yr afiechyd arswydus o wahanglwyf. Gwahana yr afiechyd cas yma yn gyffredin y rhai hyny ar ba un y syrthia oddiwrth bawb, oddieithr eu cwmnion mewn dioddefaint, ac nid yw yn rhoi ffordd i ddim medr a all gwyddoriaeth feddygol ddefnyddio. Ystyrir ef fel anhwylder roddir trwy y llaw Ddwyfol, ac fel un a all y llaw hono yn unig symmud.

Yn amser yr hanes yma yr oedd y Syriaid yn genedl gref, ac fel y dengys yr hanes, blinent yr Israeliaid yn fawr, gan anfon allan yn fynych finteioedd anrheithiol a dwyn ymaith gaethion. Yn y dull yma gwnaed llawer o'r Israeliaid yn gaethion, ac o'u nifer yr oedd y "langces fechan" oedd yn gwasanaethu gwraig Naaman. Am ei rhieni a'i llwyth, ac am ei hanes ar ol hyn, yr ydym yn anhysbys, ac oni bai yr ychydig eiriau a ddiferodd o'i gwefusau un diwrnod pan oedd yn gweini ar ei meistres, aethai heibio gyda'r myrddiynau o ba rai nid yw hanesiaeth yn gadael dim ol. Ailadroddir ei hanes yn fynych i'n dysgu y gallwn yn y sefyllfa mwyaf isel wneuthur daioni i ddyn, a dwyn gogoniant i Dduw. Mor ddinerth er daioni yr ymddengys y gaethes fach yma, hyd nes y clywwn y dymuniad caredig a duwiol, "O na byddai fy arglwydd o flaen y prophwyd sydd yn Samaria! canys efe a'i hiachâi ef o'i wahanglwyf." Yr oedd ganddi gydymdeimlad a'i mheistres, tosturi dros ei meistr arglwyddaidd, a ffydd gref yn Nuw Israel, prophwyd yr hwn oedd yn Samaria.

Pwy all ddyweyd gwerth ychydig o "eiriau uniondeb" wedi eu traethu

yn ddoeth ar yr adeg iawn wrth y glust iawn? Cymmerwyd yr ychydig eiriau hyn i fyny yn awyddgar, ac adroddwyd hwy gan y llyswyr, nid i Naaman, ond i'w feistr brenhinol, yr hwn nid cynt a'u clywodd hwy, nag yr anfonodd ei was ffyddlawn at frenhin Israel, gydag anrheg fawr, a llythyr yn deisyf ar y brenhin i iachau y gwahanglwyfus o'i anhwylder. Llanwodd y genhadwri Jehoram a dychryn, ac yn debygol a chynddaredd, canys pan y "darllenodd y llythyr, efe a rwygodd ei ddillad, ac a ddywedodd, Ai Duw ydwyf fi, i farwhau ac i fywhau, pan anfonai efe attaf fi i iachâu gŵr o'i wahanglwyf? gwybyddwch gan hynny, attolwg, a gwelwch mai ceisio achos y mae efe i'm herbyn i." Yr hyn na allasai yr un gallu brenhinol effeithio, a allasid wneyd gan brophwyd Jehofah, yr hwn yn awr a anfonodd at y brenhin, gan ddywedyd, "Paham y rhwygaist dy ddillad? deued yn awr attaf fi, ac efe a gaiff wybod fod prophwyd yn Israel."

Naaman, yn cael ei ganlyn gan ei holl gwmni, yn ei bryder am iachâd, a ddengys beth gostyngeiddrwydd pan y gyra at drigfa isel Eliseus, ac y saif wrth ei ddrws; ac ni a allwn gyfrif am ddigofaint yr hoffddyn brenhinol hwn, pan yr anfonodd y prophwyd, yn lle dyfod allan a symmud ei law dros gorff y dioddefydd, "atto ef gennad, gan ddywedyd, Dos ac ymolch saith waith yn yr Iorddonen, a'th gnawd a ddychwel i ti, a thi a lanhêir." Dolurid ei falchder gan ammharch ymddangosiadol y prophwyd, a thramgwyddid ei farn gan y moddion iachâd gyfarwyddid, canys os oedd ymdrochi mewn afon yn ddigonol, ni buasai raid iddo adael Damascus, afonydd hyfryd pa un oeddynt yn well na'r Iorddonen. Paham y dylai efe, gan hyny, gychwyn at yr Iorddonen, i geisio iachâd trwy ei dyfroedd? Yr oedd ei ddigofaint yn gyffelyb i un y pechadur balch, yr hwn y dywedir wrtho y gellir iachâu ei anhwylderau ysbrydol yn y ffynhon agorwyd i bechod ac aflendid, ac yno yn unig.

Yr oedd yn fraint i Naaman ei fod yn cael ei gylchynu gan gyfeillion a gweinyddwyr call, a'i ddoethineb i ddylyn eu cynghorion da. Felly y darllenwn, "a'i weision a nesasant, ac a lefarasant wrtho, ac a ddywedasant, Fy nhad, pe dywedasai y prophwyd beth mawr wrthyt ti, onis gwnelsit? pa faint mwy, gan iddo ddywedyd wrthyt, Ymolch, a bydd lan? Ac yna efe a aeth i waered, ac a ymdrochodd saith waith yn yr

Iorddonen, yn ol gair gŵr Duw; a'i gnawd a ddychwelodd fel cnawd dyn bach, ac efe a lanhawyd."

Ni effeithiwyd yr iachâd gan ddyfroedd yr afon, ond trwy law Jehofah, ac yn ddedwydd pan y gweithredwyd yr iachâd gwyrthiol ar berson Naaman, effeithiwyd iachâd mwy yn ei enaid, canys dysgodd mai gwagedd oedd eilunod Syria, ac nad "oes Duw trwy yr holl ddaear, ond yn Israel."

Yn ddiolchgar am ei iachâd, dymuna Naaman wobrwyo y prophwyd, ac y mae y rhodd fawr a gynhygia yn dangos anhunangarwch y gŵr Duw mawr-frydig hwn. Cyfrifir fod y deg talent hyny o arian, a'r chwe' mil o ddarnau aur, o werth mwy na phedair mil ar ddeg o bunnau; eto y prophwyd tlawd, wedi ei adael i'w ddewisiad ei hun, heb yr un gwaharddiad Dwyfol, yn haelfrydig a'u gwrthoda hwynt oll. Ei unig ddymuniad oedd gogoneddu Duw, ac nid cyfoethogi ei hun.

Cyn ei ymadawiad i Syria, amlygodd Naaman ei fwriad i addoli Jehofah yn unig, a chymmeryd pridd o dir Israel, a chodi ei allor i Dduw y Tir Sanctaidd. Ar yr un pryd rhoddodd fater o gydwybod i'r prophwyd, fel hyn: "Yn y peth hyn yr Arglwydd a faddeuo i'th was, pan elo fy arglwydd i dŷ Rimmon i addoli yno, a phwyso ar fy llaw i, a phan ymgrymmwyf finnau yn nhŷ Rimmon; pan ymgrymmwyf yn nhŷ Rimmon, maddeued yr Arglwydd i'th was yn y peth hyn." Gallwn ddeall ymofyniad pryderus y proselyt newydd yn rhwyddach nag atebiad y prophwyd, yr hwn yn fynych a gyfrifwyd yn anhawdd i'w esbonio yn gyson a'i ffyddlondeb. Ni wnai gŵr Duw gefnogi eilun-addoliaeth, na thebygrwydd iddo. Yn lle, gan hyny, ystyried ei eiriau, "Dos mewn heddwch," fel goddefiad i ragrith, oni ddylem eu hesbonio yn iawn, fel cyfarwyddyd i ymadael gyda ei ffydd newydd, ac yn lle rhagddisgwyl anhawsderau y dyfodol, ymddiried yn Nuw Israel, i fod gydag ef, a rhoddi iddo ras i fod yn ffyddlawn, a nerth i wrthsefyll yr holl brofedigaethau fel y cyfodent? Onid yw yr un newydd ei ddychwelyd yn fynych yn orbryderus am drannoeth, yn lle ei adael i ofalu am dano ei hun? ac oni ddylai yn hytrach wedi ymolchi yn ffrydiau iachawdwriaeth, fyned "mewn heddwch," gan wrando ar y llais sydd yn dywedyd, "Digon i ti fy ngras i; megis dy ddyddiau, y bydd dy nerth."

(Darllener 2 Brenhinoedd v.)

## PENNOD XX.

### JEHU—Y PECHADUR YN DIALU PECHOD.

Ym mysg y trysorau ddygwyd i'r wlad hon o adfeilion Ninefeh, gwel y darllenydd bigadail du, ddarganfyddwyd gan Dr. Layard, ac a saif yn awr yn Ngorneuadd Ganolog Nimroud, yn yr Amgueddfa Brydeinig. Arddengys frenhin Assyria, yn cael ei ganlyn gan ei weinyddwyr, ac yn derbyn yr anrhegion anfonwyd gan dretholion a brenhinoedd cyfeillgar, yn gynhwysedig o gawrfil, rhyncorn, y Bactriad neu y camel dau-grwb, y tarw, y llew, y carw, ac amrywiol fathau o epaod. Yn yr arysgrifen, pa un a gyrhaedda i ddau cant a deg o llinellau, yr ydym yn cael y crybwylliad cyntaf am frenhin Israel, a'r enw hwnw yw Jehu, "Yahua," "fab Cimri," neu Omri. Ymddengys fod Jehu yn cael ei alw yn fab Omri, yn lle ei dad ei hun, Jehosaphat, yn ol yr arferiad gedwid ar y cofgolofnau Assyriaidd o alw Samaria "tŷ Omri." Efe yw y brenhin cyntaf y darganfyddwyd ei enw ar un o'r colofnau Assyriaidd; ac y mae yn dda sylwi ar y dystiolaeth enillir fel hyn o ffynhonellau allanol i fodolaeth y dyn hynod, hanes yr hwn a hawlia yn awr ein sylw.

Ymddengys ei enw gyntaf mewn cyssylltiad ag Elïas, gan yr hwn yr oedd i gael ei eneinio yn frenhin Israel, a'r awgrymiad roddid y pryd hyny mai efe oedd i fod yn weithredydd y dialedd Dwyfol ar dŷ drygionus Ahab: "A'r hwn a ddïango rhag cleddyf Hazael, Jehu a'i lladd ef." Am ryw reswm nad enwir yn yr hanes ysbrydoledig, ni chyflawnwyd y cyfarwyddiadau yma i Elïas ganddo ef ei hun, na chan Eliseus, ond gan un o feibion y prophwydi, a hyny dros ddeg mlynedd ar ol eu derbyn.

Cyrhaeddodd y cenhad Jehu pan yr oedd yn Ramoth-gilead, gyda byddin ei feistr Joram, brenhin Israel, yr hwn oedd yn ymladd yn erbyn Hazael, brenhin Syria. Tra yr oedd Jehu yn eistedd yn mysg tywysogion y llu, daeth gŵr ieuangc i mewn yn frysiog, ac a ddywedodd, "Y mae i mi air â thi, O dywysog. A dywedodd Jehu, A pha un o honom ni oll? Dywedodd yntau, A thydi, O dywysog. Ac efe a gyfododd ac a aeth i mewn i'r tŷ; ac yntau a dywalltodd yr olew ar ei ben ef, ac a

ddywedodd wrtho, Fel hyn y dywed Arglwydd Dduw Israel, Myfi a'th enneiniais di yn frenhin ar bobl yr Arglwydd, sef ar Israel."

Heb oddef i un ddiangc a dwyn y newydd i'r brenhin, yr hwn a orweddai yn archolledig yn Jezreel, esgynodd Jehu i'w gerbyd, a phrysurodd at y gwaith dychrynllyd oedd ganddo i'w gyflawni. Dygodd ei yriad ffyrnig ef, am ba un yr oedd yn nodedig, yn gyflym i olwg y gwylwyr safent ar furiau Jezreel; a'r brenhin, yr hwn a ymddengys ydoedd wedi rhagweled perygl, a anfonodd ei genhadau i gael allan pa un oedd Jehu yn dyfod ar neges heddychol; ond bwrid hwy yn ddirmygus tu ol i'r marchoglu. Y brenhin, yn ei ddychryn yn awr a aeth allan; "a phan welodd Joram Jehu, efe a ddywedodd, A oes heddwch, Jehu? Dywedodd yntau, Pa heddwch tra fyddo putteindra Jezebel dy fam di, a'i hudoliaeth, mor aml?" Yn fuan saeth, yr hon a saethwyd gan fraich gref Jehu, a drywanodd y brenhin trwy ei galon, a thaflwyd ef i faes Naboth, yn ol y rhagfynegiad yr hwn a gofiai Jehu iddo glywed ugain mlynedd yn ol fel y marchogai ar ol cerbyd Ahab. Yn nesaf syrthiodd Ahaziah, trwy orchymyn Jehu, ond dygwyd ef i ddinas Dafydd, a chladdwyd ef gyda ei dadau.

Yna neshaodd Jehu i Jezreel, i weinyddu y gosb Ddwyfol ar Jezebel, yr hon a "olurodd ei hwyneb, ac a wisgodd yn wŷch am ei phen, ac a edrychodd trwy ffenestr." Ond yn ofer y disgwyliai droi gweinidog cyfiawnder oddiwrth ei fwriad. Wrth ei orchymyn taflodd ei hystafellyddion ei hun hi o'r ffenestr, i gael ei mathru tan draed ei feirch, a'i bwyta gan gwn y ddinas, yn ol geiriau da-gofus Elïas. Yna gorchymynodd Jehu ddienyddiad deg mab a thriugain Ahab, a phan y tyrwyd eu penau yn ddau bentwr wrth borth Jezreel, efe "a ddywedodd wrth yr holl bobl, Cyfiawn ydych chwi: wele, myfi a gydfwriedais yn erbyn fy arglwydd, ac a'i lleddais ef; ond pwy a laddodd yr holl rai hyn? Gwybyddwch yn awr na syrth dim o air yr Arglwydd i'r ddaear, yr hwn a lefarodd yr Arglwydd am dŷ Ahab; canys gwnaeth yr Arglwydd yr hyn a lefarodd efe trwy law Elïas ei was. Felly Jehu a darawodd holl weddillion tŷ Ahab yn Jezreel, a'i holl bennaethiaid ef, a'i gefneseifiaid ef, a'i offeiriaid, fel na adawyd un yngweddill." Yr oedd brenhinoedd Judah wedi ffurfio cyfathrach a thŷ Ahab, ac yr ydym yn cael dau a deugain o frodyr

Ahaziah ar eu ffordd i Jezreel i ymweled a'u perthynasau brenhinol, ac nid cynt y cyfarfyddodd Jehu a hwynt, nag y "dywedodd, Deliwch hwynt yn fyw. A hwy a'u daliasant hwy yn fyw, ac a'u lladdasant wrth bydew y tŷ cneifio, sef dau ŵr a deugain; ac ni adawodd efe ŵr o honynt."

Wrth neshau tua Samaria, cyfarfyddodd y wïalen drom yma ar dŷ Ahab ac offeiriaid Baal â Jehonadab, fab Rechab, un o'r llwyth llym ac hunan-ymwadol a gadwai ar wahan oddiwrth yr afradlonedd a'r eilun-addoliaeth ymdaenol. Yn falch o'i sêl dros Jehofah, gwahoddodd y gŵr tlawd i'w gerbyd, a bod yn dyst o hono; "a phan ddaeth efe i Samaria, efe a darawodd yr holl rai a adawsid i Ahab yn Samaria, nes iddo ei ddinystrio ef, yn ol gair yr Arglwydd, yr hwn a lefarasai efe wrth Elïas."

Nid oedd hyn ond dechreu y gwaith yn Samaria. O dan yr esgus i "Ahab wasanaethu Baal ychydig, ond Jehu a'i gwasanaetha lawer," efe a gynnullodd gyfarfod mawr yn nheml yr eilun, yn gynhwysedig o'i holl brophwydi, gweision, ac offeiriaid, i fod yn bresennol mewn aberth sanctaidd. Galwyd am bleidwyr Baal o holl barthau Israel, llanwyd ei deml fel y safai ei addolwyr "enau yngenau," a holl addolwyr Jehofah wedi eu cau allan yn ofalus, tra yr oedd yr eilun-addolwyr wedi eu gwisgo â gwisgoedd offeiriadaeth Baal, a gwnaed yr offrymau mawrion. Ond "pan orphenodd efe wneuthur y poeth-offrwm, Jehu a ddywedodd wrth y swyddogion a'r tywysogion, Ewch i mewn, lleddwch hwynt."

Dylynwyd llofruddiaeth yr eilun-addolwyr hyn gan ddinystr eu heilunod, pa rai a ddygwyd allan wedi eu tori a'u llosgi, tra y tynwyd i lawr y deml, ac y trowyd i'r defnyddiau iselaf. "Felly y dileodd Jehu Baal allan o Israel."

Jehu, yr hwn a deyrnasodd wyth mlynedd ar hugain yn Samaria, a ymddengys wedi cael perffaith foddhad oddiwrth yr ymwybodolrwydd ei fod megis cleddyf yn y llaw Ddwyfol i weinyddu cosb ar dŷ drygionus Ahab, ac addolwyr eilun-addolgar Baal. Yr oedd ei grefydd yn gynhwysedig yn unig mewn cyflawni y prophwydoliaethau yn erbyn gelynion Jehofah, ac y mae i'w hanes ei gyffelyb yn fynych mewn oesau ar ol hyn, ac hyd yn oed yn ein hamserau ni. Gwelwch mor rhwydd ydyw bod yn sêlog yn gwrthwynebu cyfeiliornad, a chosbi pechaduriaid, ac eto heb feddu dim cariad at Dduw a'i wirionedd.

(Darllener 2 Brenhinoedd ix.; x.)

# CHAPTER XXI.

## JOAS—ATHALIAH—JEHOIADA.

Yr ydym wedi gweled fod Jehoshaphat wedi syrthio i'r camgymmeriad mawr o ymgyfathrachu ag Ahab, brenhin annuwiol Israel, trwy yr hyn ni chyfranodd ddim lles i'w gyngrheiriad, a derbyniodd niwed i'w enaid ei hun. Arweiniodd y cyngrair yma i briodas ei fab a'i olynydd Jehoram, gydag Athaliah, merch Jezebel, a gellir olrhain ei lofruddiaeth farbaraidd o'i frodyr, mor gynted y "cyfododd ar frenhiniaeth ei dad," i'r briodas bechadurus hon. "Efe a rodiodd yn ffordd brenhinoedd Israel, fel y gwnelsai tŷ Ahab; canys merch Ahab oedd wraig iddo; ac efe a wnaeth yr hyn oedd ddrwg yngolwg yr Arglwydd."

Ni theyrnasodd Ahaziah, yr unig fab yr hwn a oroesodd Jehoram, ond blwyddyn, a syrthiodd yn aberth i'w berthynas a thŷ Ahab. Ar ol ei farwolaeth, ei frenhines Athaliah, gyda chreulondeb anwaraidd ei mham Jezebel, a "ddifethodd holl frenhinol had tŷ Judah." Yr oedd yn meddwl eu difetha hwynt oll, ond cymmerodd chwaer Ahaziah un o'r plant a chuddiodd ef a'i famaeth yn ystafell y gwelyau y Deml, lle am chwe blynedd y cuddiwyd ef o dan ofal ei ewythr duwiol, Jehoiada, yr archoffeiriad.

Trwy ei chyfrwysder creulon, bu Athaliah yn alluog i ormesu fel brenhines dros frenhiniaeth Judah am chwe blynedd, ac yn ystod yr amser yma yr oedd y tywysog ieuangc Joas yn trigo o dan gysgod yr Hollalluog, yn cael ei gadw mewn diogelwch rhag erlyniad y fenyw waedlyd, yr hon na ddychymygodd erioed ei fod mor fuan i'w thaflu oddiar ei gorsedd. Yn ystod ei theyrnasiad, Baal a'i addolwyr oedd mewn awdurdod, ac yr oedd y ddinas sanctaidd wedi ei halogi trwy ei deml, ei allorau, ei ddelwau, a'i offeiriaid.

Yr oedd yr amser wedi dod yn awr pan yr oedd y bobl yn barod i ddiorseddu y trawsfeddianydd, a phan yr ymunodd yr offeiriad da Jehoiada a holl arweinyddion y genedl, i arwain y tywysog ieuangc i orsedd ei dadau. Dydd o ad-daliad ofnadwy oedd hwnw i Athaliah, pan y gwelodd y tyrfaoedd cynhyrfus yn rhedeg trwy heolydd Jerusalem, ac y

clywodd hwy yn gwaeddi, "Duw gadwo'r brenhin." Yn ei dychryn prysurodd gyda'r ffrwd i'r Deml, "a hi a edrychodd, ac wele y brenhin yn sefyll wrth ei golofn yn y ddyfodfa, a'r tywysogion, a'r udgyrn yn ymyl y brenhin; a holl bobl y wlad yn llawen, ac yn lleisio mewn udgyrn; a'r cantorion âg offer cerdd, a'r rhai a fedrent foliannu. Yna Athaliah a rwygodd ei dillad ac a ddywedodd, Bradwriaeth, bradwriaeth!"

Dychymygwch ei helbul pan y gwelodd y bachgen brenhinol yn sefyll i fyny yn mysg y dyrfa o offeiriaid, a Lefiaid, a thywysogion, gyda'r goron frenhinol am ei ben, a'i syndod a'i chyfyngder pan y darganfyddodd yn y plentyn brenhinol hwnw y baban yr hwn a feddyliai yn sicr oedd chwe blynedd cyn hyn wedi syrthio o dan gyllill ei bradlofruddion cyflogedig. Fel y crochlefa y lofruddes druenus, "Bradwriaeth, bradwriaeth!" ond mor ofer yr apelia at ei llyswyr! Llofruddiasent yn rhwydd y bachgen mewn atebiad teyrngarol i'w hapeliad, ond yr oedd Jehoiada wedi trefnu ei gynlluniau yn rhy dda i adael i'r ddynes waedlyd hon eu gorchfygu. Yr oedd wedi sicrhau yr un dan ei ofal rhag pob ymosodiad o'r fath, "ac efe a gyfleodd yr holl bobl, a phob un a'i arf yn ei law, o'r tu dehau i'r tŷ hyd y tu aswy i'r tŷ, ynghylch yr allor a'r tŷ, yn ymyl y brenhin oddiamgylch." Gwyddai yr archoffeiriad doeth a ffyddlawn yn eithaf pa fodd i weithredu yn y cyfwng yma, canys adseiniodd y Deml yn uniongyrchol a'r gorchymyn ofnadwy, "Dygwch hi allan o'r rhesau (neu derfynau); a'r hwn a ddelo ar ei hol hi, lladder ef a'r cleddyf. Canys dywedasai yr offeiriad, Na leddwch hi yn nhŷ yr Arglwydd. A hwy a roddasant ddwylaw arni hi, a hi a ddaeth tu a'r porth y deuai y meirch i dŷ y brenhin, ac yno y lladdasant hwy hi."

Am rai blynyddoedd llywodraethid y frenhiniaeth gan Jehoiada yn hytrach na chan Joas, yr hwn modd bynag a ymostyngodd yn rhwydd i arweiniad ei ewythr, yn ystod bywyd yr hwn, efe "a wnaeth yr hyn oedd uniawn yngolwg yr Arglwydd." Ar ddydd ei goroniad rhoddodd yr offeiriaid iddo y "dystiolaeth," llyfr y Gyfraith, ac mor gynted y gallodd ffurfio penderfyniadau o'i eiddo ei hun, efe a ddanghosodd lawer o sêl dros ogoniant Jehofah. Efe "a roes ei fryd ar adnewyddu tŷ yr Arglwydd. Ac efe a gynnullodd yr offeiriaid a'r Lefiaid, ac a ddywedodd wrthynt, Ewch i ddinasoedd Judah, a chesglwch gan holl Israel arian i

gyweirio tŷ eich Duw, o flwyddyn i flwyddyn, prysurwch chwithau y y peth; ond ni frysiodd y Lefiaid." Cwynodd hyd yn oed wrth Jehoiada am beidio ceisio gan y bobl ddwyn i mewn eu casgliadau tuag at adnewyddu y Deml. "A rhoddasant gyhoeddiad yn Judah, ac yn Jerusalem, ar ddwyn i'r Arglwydd dreth Moses gwas Duw, yr hon a roisid ar Israel yn yr anialwch. A'r holl dywysogion, a'r holl bobl a lawenychasant, ac a ddygasant, ac a fwriasant i'r gist, nes gorphen o honynt." Mor haelfrydig ydoedd atebiad y bobl i apeliad eu brenhin, fel yr oedd eu hoffrymau dros ben y cyflenwad angenrheidiol i adnewyddu yr adeilad cyssegredig, ac o'r gweddill y "gwnaethant lestri i dŷ yr Arglwydd, sef llestri y weinidogaeth, a'r morterau, a'r llwyau, a'r llestri aur ac arian; ac yr oeddynt hwy yn offrymu poeth-offrymau yn nhŷ yr Arglwydd yn wastadol, holl ddyddiau Jehoiada."

"Ond Jehoiada a heneiddiodd, ac oedd gyflawn o ddyddiau, ac a fu farw; mab can mlwydd a deg ar hugain oedd efe pan fu farw." Yr oedd dydd marwolaeth y prophwyd hynafol yn ddydd trwm i Joas, ac i Judah. Safai eu ffydd hwy yn noethineb dynion, ac nid yn nerth Duw. Arddangosasant yn fuan ddiffyg egwyddor gwir grefyddol wedi ei sefydlu yn ddwfn yn yr enaid. "A hwy a adawsant dŷ Arglwydd Dduw eu tadau, ac a wasanaethasant y llwyni, a'r delwau; a daeth digofaint ar Judah a Jerusalem, o herwydd eu camwedd hyn." Pan y ceryddodd Zechariah, mab duwiol Jehoiada, un o'r prophwydi hyny ar yr hwn y daeth Ysbryd Duw, eu camweddau, fe'i llabyddiwyd a meini wrth orchymyn y brenhin. Gallasai yr engraifft yma o anniolchgarwch arswydus arwain yn briodol y prophwyd merthyredig fel y llabyddient ef i farwolaeth i ddywedyd, "Edryched yr Arglwydd, a gofyned." Yn bur fuan gweithredodd Barnwr yr holl ddaear ei gyfiawnder ad-daledigol ar y bobl euog, a'u brenhin mwy euog. Ychydig lu o Syriaid a oddiweddasant lu mawr o'r Judeaid, a gwnaethant farn yn erbyn Joas. "A phan aethant hwy oddiwrtho ef, (canys hwy a'i gadawsant ef mewn clefydau mawrion,) ei weision ei hun a gyd-fwriadodd i'w erbyn ef, o herwydd gwaed meibion Jehoiada yr offeiriad, ac a'i lladdasant ef ar ei wely, ac efe a fu farw; a hwy a'i claddasant ef yn ninas Dafydd, ond ni chladdasant ef ym meddau y brenhinoedd."

(Darllener 2 Cronicl xxiii.; xxiv.)

# PENNOD XXII.

## JONAH.

JONAH ydoedd o ran amser, y cyntaf o'r prophwydi hyny, ysgrifeniadau pa rai a gedwir yn y cofnodion ysbrydoledig. Ei le genedigol ydoedd Gath-hepher, yn Zabulon, pa un mewn cyfnod diweddarach a berthynai i Galilea, ac oddiwrth yr hyn, fel y sylwyd yn deg, ni a allwn weled anwybodaeth gwirioneddol neu ffugiol y Phariseaid pan y dywedasant, "Ni chododd prophwyd o Galilea."

Mae Llyfr Jonah yn gofnodiad ffyddlawn o'i fywyd cyhoeddus, ac mewn un ystyr, yr hanes mwyaf rhyfeddol o ba un yr oedd bod dynol yn unig yn wrthddrych. Dygir ef ger ein bron yn berson wedi ei alw gan Jehofah i fyned fel ei genhad i Ninefeh: "Cyfod, dos i Ninefeh y ddinas fawr, a llefa yn ei herbyn; canys eu drygioni hwynt a ddyrchafodd ger fy mron." Yn lle rhoi ufudd-dod parod i'r gorchymyn Dwyfol, efe a brysurodd ymaith mewn cyfeiriad croes i'r un yr anfonwyd ef, "a chyfododd i ffoi i Tarsis oddi ger bron yr Arglwydd, ac efe a aeth i waered i Joppa; ac a gafodd long yn myned i Tarsis, ac a dalodd ei llong-lôg hi, ac a aeth i waered iddi i fyned gyd â hwynt i Tarsis, oddi ger bron yr Arglwydd."

Mor ofer yw y cynhyg i ddiangc o ŵydd Jehofah! Ymlidia y gwyntoedd cyflym hyny, pa rai ydynt ei genhadau Ef, i ehedeg ar y neges Ddwyfol, ar ol y ffoadur, cydwybod yr hwn a ddywed wrtho ef yn fuan paham y mae y dymhestl wedi ei chodi, ac y bydd y llong a'i dwylaw yn ddiogel yn unig pan y bydd ef wedi ei fwrw i'r môr, ac felly ni a'i clywwn ef yn dyweyd wrth y morwyr, "Cymmerwch fi, a bwriwch fi i'r môr; a'r môr a ostega i chwi, canys gwn mai o'm hachos i y mae y dymmestl fawr hon arnoch chwi." "Yna y cymmerasant Jonah, ac a'i bwriasant ef i'r môr: a pheidiodd y môr a'i gyffro."

Efe, yr hwn oedd a gwaith mawr i Jonah i'w gyflawni, a fabwysiadodd Ei drefn ddoeth a rhyfeddol ei hun o gadw Ei genhad rhag boddi yn

nyfnderoedd y môr, ac er nad yw y drefn hono yn derbyn cymmeradwy-aeth anffyddwyr, nac yn cyd-daro a'u rheswm, yr ydym yn credu â ffydd ddïysgog yr Ysgrythyr a ddywed, "A'r Arglwydd a ddarparasai bysgodyn mawr i lyngcu Jonah. A Jonah a fu ym mol y pysgodyn dri diwrnod a thair nos." Nid yw yn ofynol i ni ateb yr holl wrthddadleuon beirniadol mae anghredinwyr wedi godi yn erbyn yr hanes rhyfeddol yma. Rhaid i ni foddloni i'w dderbyn ar y dystiolaeth Ddwyfol, gan gofio yn neillduol y modd ei difynwyd gan y Gwaredwr ei hun, fel cysgod o'i gladdedigaeth a'i adgyfodiad: "Canys fel y bu Jonas dridiau a thair nos ym mol y morfil, felly y bydd mab y dyn dridiau a thair nos y'nghalon y ddaear."

Ar ol y waredigaeth ryfeddol hon i'w was rhag angeu, adnewydda Jehofa y cyfarwyddyd a roddasai: "Cyfod, dos i Ninefeh y ddinas fawr, a phregetha iddi y bregeth a lefarwyf wrthynt." Yr oedd y prophwyd yn awr wedi ei ddysgu mor ofer ydoedd gwrthwynebu yr ewyllys Ddwyfol, ac felly ailgychwynodd ar unwaith i'w genhadaeth. "A Jonah a gyfododd ac a aeth i Ninefeh, yn ol gair yr Arglwydd."

Grthwyneba anffyddiaeth y dywediad, "a Ninefeh oedd ddinas fawr iawn o daith tri diwrnod." Mae darganfyddiad diweddar, modd bynag, yn cadarnhau yr hanes cyssegredig, a chan ddangos y cymmydogaethau eaing i ba rai y rhoddid yr enw Ninefeh, gyda ei gerddi a phorfeydd, gwiria yr adroddiad ar ba un y chwarddai anffyddiaeth falch ac an-wybodus. Dros y diriogaeth eang, gweddillion pa un ddygwyd yn ddiweddar i oleuni dydd, nis gallai y teithiwr ddim myned heibio mewn llai nag un diwrnod llawn, a rhan o ddau arall, yr hyn yn ol y drefn Hebrëig o gyfrif amser a fyddai yn "dri diwrnod."

Gwelwch y prophwyd wedi ymwisgo yn ei wisg arw, yn myned yn mlaen yn araf ar hyd heolydd y brifddinas falch yma yr ymerodraeth Assyriaidd. Mae ganddi y palasau mwyaf mawreddog a'r temlau gwychaf, gweddillion pa rai ydynt wedi dod i'n sylw yn ddiweddar, a'n llanw a syndod. Y fath ddychryn ymaflodd yn y dyrfa fel y gwran-dawent ar y seiniau dwys, treiddiol hyny, "Deugain niwrnod fydd etto, a Ninefeh a gwympir! Deugain niwrnod fydd etto, a Ninefeh a gwympir!" Nid cynt y clywa y bobl, nag y credant; cyhoeddant ympryd, a gwisgant sach-lïain, o'r mwyaf hyd y lleiaf o honynt. Cyrhaeddodd geiriau y

prophwyd bob dosbarth; "canys gair a ddaeth at frenhin Ninefeh, ac efe a gyfododd o'i frenhinfaingc ac a ddïosgodd oddi am dano ei frenhinwisg, ac a roddes am dano lïain sach, ac a eisteddodd mewn lludw." Gallasai y brenhin paganaidd hwn yn dda beri cywilydd i frenhinoedd calon-galed Israel a Judah; canys, pagan fel yr ydoedd, efe a roddes allan ei gyhoeddiad, a pharodd "ddywedyd trwy Ninefeh, trwy orchymyn y brenhin a'i bendefigion, gan ddywedyd, Dyn ac anifail, eidion a dafad, na phrofant ddim; na phorant, ac nac yfant ddwfr: gwisger dyn ac anifail â sach-len, a galwant ar Dduw yn lew; ïe, dychwelant bob un oddiwrth ei ffordd ddrygionus, ac oddiwrth y trawsder sydd yn eu dwylaw. Pwy a ŵyr a dry Duw ac edifarhâu, a throi oddiwrth angerdd ei ddig, fel na ddifether ni?"

Gwelwch drugaredd yr Arglwydd: "A gwelodd Duw eu gweithredoedd hwynt, droi o honynt o'u ffyrdd drygionus; ac edifarhaodd Duw am y drwg a ddywedasai y gwnai iddynt; ac ni's gwnaeth." Pe buasem heb ddarllen yr hyn sy'n ol o'r hanes hynod yma, barnasem yr edrychasai y prophwyd ar yr arddanghosiad yma o drugaredd Ddwyfol, gyda'r boddhad mwyaf: ond "bu ddrwg iawn gan Jonah hyn, ac efe a ddigiodd yn fawr." Nid oedd eto wedi darllen y gyfraith drugarog gyhoeddwyd ar ol hyn trwy Jeremiah: "Pa bryd bynnag y dywedwyf am ddiwreiddio, a thynnu i lawr, a difetha cenedl neu frenhiniaeth; os y genedl honno y dywedais yn ei herbyn a dry oddiwrth ei drygioni, myfi a edifarhaf am y drwg a amcenais ei wneuthur iddi;" ond gwyddai fod Duw yn raslawn a thrugarog, hwyrfrydig i ddig, ac aml o drugaredd. Dylasai fod yn ddiolchgar iddo allu cyflwyno ei genadwri yn ffyddlawn, ac fod y bobl trwy edifeirwch amserol a chywir wedi derbyn trugaredd. Os cyfrifwn y plant y rhai "ni wyddent ragor rhwng eu llaw ddehau a'u llaw aswy," fel y pumed ran o'r holl boblogaeth, rhaid fod rhif y rhai a waredwyd fel hyn yn cyrhaedd i chwe' chan' mil. Y fath olwg effeithiol ac anogaethol a rydd diweddbarth yr hanes yma o'r drugaredd hono sydd yn parhau yn dragywydd, ac yn ei hamlygiadau dylynol cyfrana nid pelydryn yn unig o obaith, ond y sail gadarnaf o hyder i'r rhai hyny a ffoant am noddfa at y Gwaredwr!

(Darllener Llyfr Jonah.)

## PENNOD XXIII.

### UZZIAH.

CODWYD y brenhin Uzziah, neu Azariah, yr hwn a deyrnasodd ddeuddeg mlynedd a deugain yn Jerusalem, i orsedd Judah, trwy ewyllys y bobl, pa rai "a gymmerasant Uzzïah, ac a'i hurddasant ef yn frenhin yn lle Amasïah ei dad." Yr oedd y teyrnasiad blaenorol yn llawn o addysg a rhybudd. Gwnaeth Amasiah yn ystod ei naw mlynedd ar hugain teyrnasiad yn Jerusalem, "yr hyn oedd uniawn yngolwg yr Arglwydd, ond nid â chalon berffaith." Arweiniodd ei feiddiad balch i frenhin Israel, "Tyred, gwelwn wyneb ein gilydd," i gynnulliad gelynol o ddwy fyddin yn Bethsemes, "a Judah a darawyd o flaen Israel, a hwy a ffoisant bawb i'w pebyll." Dygwyd ef yn ol yn garcharor i'w brifddinas ei hun, lle y cafodd y dwys ofid o weled ei muriau wedi eu tori i lawr, y Deml sanctaidd a'i balas ei hun wedi eu hanreithio, y trysorau ynghyd a gwystlon, wedi eu dwyn ymaith i Samaria. Pymtheg mlynedd yn ddiweddarach bradfwriadodd ei bobl yn ei erbyn, ac efe a ffòdd i Lachis, lle y dylynwyd ar ei ol ac ei llofruddiwyd. Dygwyd y blinderau hyn arno ef o herwydd iddo ymadael "oddi ar ol yr Arglwydd."

Gwnaeth Uzziah, yr hwn a alwyd i deyrnasu yn yr oed ieuangc o unarbymtheg, "yr hyn oedd uniawn yngolwg yr Arglwydd," ac fel y dysgwn, derbyniodd les mawr oddiwrth gynghorion dyn da, Zechariah, nid y prophwyd o'r enw hwnw, ac am yr hwn ni a glywwn yn unig, fod "ganddo ddeall yngweledigaethau Duw." Rhydd y cofnodydd cyssegredig ar ddeall fod y brenhin wedi colli cyfaill rhagorol yn Zechariah, yn nyddiau yr hwn y ceisiodd efe Dduw, gan ychwanegu, cyhyd ag y ceisiodd efe yr Arglwydd, i Dduw wneyd iddo lwyddo.

Yr oedd y ffyniant allanol hwn i'w weled yn llwyddiant ei arfau yn erbyn y Philistiaid, yr Arabiaid, a'r Ammoniaid, "efe a ymgryfhaodd yn ddirfawr," ac ymdaenodd ei glod hyd yn oed i derfynau yr Aipht. Cynhyddodd nerth milwrol ei frenhiniaeth mewn llawer ffordd. Cyrhaeddai ei bennaethiaid i ddwy fil chwe chant, a'i fyddin i dros dri chant a saith o filoedd. Dyfeisiodd y periannwyr milwrol, y "rhai cywraint"

ei amser, "offer i fod ar y tyrau, ac ar y conglau, i ergydio saethau a cherrig mawrion;" ac y mae yn beth hynod fod y fath offer rhyfel yn cael eu defnyddio mewn rhifedi ac amrywiaeth mawr gan yr Assyriaid, fel y dysgwn oddiwrth eu cofgolofnau.

Heblaw dwyn yn mlaen y gweithiau milwrol hyn, ac ailadeiladu tyrau a muriau Jerusalem oeddynt wedi eu dinystrio yn nheyrnasiad ei dad, "efe a adeiladodd dyrau yn yr anialwch, ac a gloddiodd bydewau lawer; oblegid yr oedd ganddo lawer o anifeiliaid, yn y dyffryndir ac yn y gwastadedd; a llafurwyr a gwinllanwyr yn y mynyddoedd, ac yn Carmel; canys hoff oedd ganddo goledd y ddaear." Rhydd yr ychydig eiriau hyn ddarlun o heddwch a llwyddiant trwy holl frenhiniaeth Judea. Cyfundrefn eang o amddyfriad wedi ei darparu er cynhydd anifeiliaid, a phorai y praidd a'r gwartheg nid yn unig yn y dyffrynoedd, ond ar y tiroedd uchel; tra ar ochrau y mynyddoedd, ac i ben Carmel, canlyna llafurwyr a gwinllanwyr eu galwedigaethau heddychol, gan fedi cynhauafau toreithiog, a chasglu i mewn y grawnwin gwerthfawr. Gallwn deimlo yn sicr fod chwaeth y brenhin yr hwn a hoffai "goledd y ddaear," yn cael ei gyfranogi gan ei holl bobl, ac y cae gweledigaethau hyfryd Esaiah eu gwerthfawrogi yn dda, oddiwrth y llwyddiant amaethyddol fwynhawyd yn ystod y teyrnasiad yma, tua therfyn pa un y dechreuodd ei ragfynegiadau gogoneddus.

Hynodwyd y teyrnasiad maith yma gan bresennoldeb prophwydi ffyddlawn, Jonah, Joel, Amos, Hosea, ac Esaiah, pa rai a gynghorasant Israel a Judah i ufuddhau i air yr Arglwydd, a rhagddywedasant am y barnedigaethau oeddynt yn ddyledus am anufudd-dod, rhagfynegasant am ddychweliad yr Iuddewon i'w gwlad, a theyrnasiad y gwir Fessiah.

Y fath engraifft drist a rydd Uzziah o gamddefnydd o lwyddiant allanol! "Ond pan aeth yn gryf, ei galon a ddyrchafwyd i'w ddinystr ei hun; canys efe a droseddodd yn erbyn yr Arglwydd ei Dduw, ac efe a aeth i mewn i Deml yr Arglwydd, i arogldarthu ar allor yr arogldarth." Priodol y sylwa Esgob Hall ar yr hanes yma: "Nid yw mawredd Uzziah, a dyfeisiadau anghyffredin o'i beiriannau celfyddydol i ryfel, ddim wedi dyrchafu mwy ar ei glod nag ar ei galon. Mor galed ydyw iddo ef sydd wedi dyfeisio peiriannau dieithr er hyrddbwyo ei elynion, i guro i lawr

ei feddyliau balch ei hun! Am ei fod wedi cael goruwchreoli yn y llysoedd, y dinasoedd, y maesydd, yr anialdiroedd, y byddinoedd, a'r arfdai, gan hyny meddylia y gall wneyd felly yn y Deml hefyd."

Yr oedd Jehofah o'r amser y ffurfiodd yr Hebreaid yn genedl, wedi cyfyngu swyddau cyssegredig yr offeiriadaeth i lwyth Lefi, a thŷ Aaron, a gwylio y cyssegr trwy y rhybuddion mwyaf difrifol, a barnedigaethau arswydus. Gyda rhyfyg y mae yn ofnadwy i feddwl am dano, tora brenhin Judah trwy y terfynau gyda pha rai yr oedd Arglwydd y Deml wedi amgylchu Ei allor, a chan gymmeryd thuser, aeth i losgi arogldarth wrth yr allor aur. Byddai yn annichonadwy i ni ddethol engraifft mwy arswydlawn o ynfydrwydd balchder, ac annuwioldeb hunan-ymddiriedaeth, o'r cofnodion cyssegredig. Da y gall Azariah a'r pedwar ugain o offeiriaid wrthwynebu yr ymwthiwr brenhinol hwn, a phrofi eu hunain yn "feibion grymmus" yn achos Jehofah, yn enw yr hwn y dywedasant, "dos allan o'r cyssegr." Ni adawyd hwy yn unig i ddadleu y mater yma a'r brenhin, a dioddef ei lid, canys "edrychodd Azarïah yr archoffeiriad a'r holl offeiriaid arno ef, ac wele yr oedd efe yn wahanglwyfus yn ei dalcen, a gwnaethant iddo frysio oddi yno; ac yntau hefyd a frysiodd i fyned allan, o herwydd i'r Arglwydd ei daraw ef."

Prysurodd ei deimlad ei hun o ddiraddiad ef o'r lle cyssegredig yr oedd wedi ei halogi, ac ni a allwn mewn dychymyg ei glywed ef yn dywedyd, "Mi a fynaswn ddod i mewn fel offeiriad, ond yn awr yr wyf yn myned allan yn wahanglwyfus; gwnaeth balchder fy nghalon i mi feddwl fy hun yn deilwng o bresennoldeb Duw; mae anfoddlonrwydd Duw yn awr wedi fy ngwneyd yn anheilwng o bresennoldeb dynion; tra yr argeisiais yr allor, collais fy ngorsedd; tra y gwrthodais yn ddirmygus gynghor a cheryddon gweinidogion Duw, yr wyf yn awr wedi dyfod yn ddrych o ddychryn a gwrthuni i fy ngweision fy hun. Myfi yr hwn a anfonaswn ber-aroglau i'r nefoedd, ydwyf wedi gwneyd fy mhryntni yn adgas i fy synwyrau fy hun. Beth wyf fi yn ei wneyd o dan y gronglwyd sanctaidd yma? Nid yw tŷ Dduw yn awr i mi, nac un fy hun. Pa gell, pa ddaeardy, sydd ddigon dirgel i mi i dreulio allan ynddynt y gweddill o fy nyddiau annedwydd! O Dduw, Tydi ydwyt gyfiawn, a myfi yn druenus."

(Darllener 2 Brenhinoedd xv. 1—10. 2 Cronicl xxvi. Esaiah vi.)

## PENNOD XXIV.

### YR YMERODRAETH ASSYRIAIDD.

DWG y rhan o hanesiaeth Hebrëig ydym wedi gyrhaedd ni i gyffyrddiad a'r Assyriaid, pa rai a ddefnyddid megis gwialen yn y llaw Ddwyfol i gosbi yr Israeliaid am eu gwrthryfel yn erbyn Jehofah. Mae Ninefeh, prifddinas Assyria, wedi dyfod eisoes o dan ein sylw mewn cyssylltiad a'r prophwyd Jonah, trwy rybuddion ffyddlawn yr hwn y dygwyd y brenhin a'i bobl i edifarhau a derbyn trugaredd.

Mae pob oes wedi rhoddi ei chyfran ei hun i drysorfa fawr tystiolaeth yn ffafr y cofnodion ysbrydoledig. Mae gwastad-diroedd Mesopotamia, pa rai am dair mil o flynyddoedd a gadwasant gofnodion hanesiaeth Assyriaidd, wedi eu rhoi hwynt i fyny i'n hoes ni, mewn llawer o engreifftiau mor berffaith a phan y daethant o ddwylaw yr arlunwyr a wnaethant y cerfluniau a'r arysgrifau, â pha rai eu gorchuddid. Mae y priddfeini haul-losgedig ddefnyddiwyd yn nghodiad temlau a phalasau Ninefeh, a dinasoedd ereill, tra y methasant roddi parhad i'r adeiladau, wedi profi y defnydd goreu er cadw y mynorion gwerthfawr â pha rai y gorchuddid eu muriau. O herwydd yr amgylchiad yma, ymollyngodd muriau Ninefeh i bentwr o glai yn hir cyn i ddannedd amser ddechreu difa y bas-ddarluniau gleinfaen a mynor a orchuddient y muriau, a chadwodd hwynt yn ddiogel hyd ein dydd ni, pan y cyflwynir hwynt i ddwylaw pobl ddeallus, gan ba rai y gwerthfawrogir hwynt yn ddyladwy, a cha eu cofnodion eu darllen a'u hegluro.

Ymddengys yr ymchwilydd difrifol a brwdfrydig yn ein dydd ni, fel pe yr ufuddhâi i'r cyfarwyddiadau Dwyfol roddwyd i Ezeciel: "Ac efe a ddywedododd wrthyf, Mab dyn, cloddia yn y pared; a phan gloddiais yn y pared, wele ddrws. Ac efe a ddywedodd wrthyf, Dos i mewn, ac edrych y ffieidd-dra drygionus y maent hwy yn eu gwneuthur yma. Felly mi a aethum, ac a edrychais; ac wele bob llun ymlusgiaid, ac anifail ffiaidd, a holl eilunod tŷ Israel, wedi eu portreio ar y pared o amgylch ogylch." Mae gennym yn awr wedi eu gosod yn ddiogel yn ein prif-

ddinas ni y llechau cerfluniol hyny â pha rai yr oedd y brenhinoedd Assyriaidd yn falch i addurno muriau eu temlau a'u palasau.

Yn y bas-ddarluniau y caniateir i ni yn awr eu hastudio, yr ydym yn gweled y Ninefeaid yn eu gorchwylion teuluaidd, yn eu hymlidiadau helwriaethol gwyllt, yn eu gweithrediadau rhyfelgar, a'u haddoliad crefyddol. Mae eu trefniadau milwrol yn cael eu henwi gyda gofal mawr, yn dangos yr arfau a ddefnyddient, y modd yr ymosodid ar ddinasoedd, y rhydid afonydd, y tangloddid muriau, y dygid peiriannau mawrion i weithredu yn erbyn muriau, ac y gweinyddid arteithiau ar y gorchfygedig. Ar un lech yn oriel Nimroud, arddanghosir dinas mewn sefyllfa o warchae gan Sardanapalus. Mae yno "furiau gyda bronweithiau bylchog, pyrth bwäog gyda moldenau addurniadol; yr ymosodwyr ar unwaith yn tangloddio, bylchu a murddringo; a hyrddiadyr yn gweithio o'r tu mewn i beiriant symmudol, yn gylchynedig a thwr, pa un a lenwir a bwäwyr a ffondaflwyr; y gwarchauedig yn gollwng gafaelfachau o wrthglawdd i ddal yr hyrddiadyr, ac yn chwyrndaflu pentewynion, 'piccellau tanllyd,' i danio y peiriant, y gwarchauwyr yn lluchio dwfr ar y fflamau, a phob ochr yn taflu saethau a cherrig." Gwelir brenhinoedd mewn gwisgoedd gwych, a'u trulliaid a'u swyddogion uchel yn gweini arnynt, yn derbyn y caethion ddygir i'w presennoldeb, a rhai o honynt yn ymostwng ar y ddaear gael i'r gorchfygwr osod ei droed ar wddf ei elynion. Y caethion ydynt frodorion gwahanol wledydd, yn arddangos amrywiaeth mawr mewn gwedd a dullwisgiad, ac yn eu mysg, nid yn unig gwelir yn fynych yr arwedd Iuddewig, ond yno hefyd mae gwir ddarluniau brenhinoedd grybwyllir yn hanes y Bibl. Gwelir y brenhinoedd Assyriaidd yn fynych yn yr agwedd o addoli, gan offrymu aberthau yn mhresennoldeb y pren cyfrinol; tra yn crogi uwch eu penau mae yr arwyddlun o Ddwyfoldeb o fewn cylch adeiniog, a'r un darlun, yn cael ei arddangos yn gyson fel y duw gwarcheidiol, yn gwylio dros y brenhin, ac hyd yn oed yn ymladd drosto yn nydd y frwydr.

Mae y lluniau dirfawr yn dra hynod, yn gyfansoddedig o ranau o wahanol anifeiliaid, i osod allan y priodoliaethau cryfder, dealldwriaeth, a bywyd angylaidd, megis y llew neu darw ac adenydd a phen dyn. Gosodid y rhai hyn ar y fynedfa i'r deml a'i gwahanol adranau. Yn


mysg yr hynafiaethau hyn mae gennym hefyd ddelwau eilun-addoliaeth Assyriaidd, grybwyllir yn yr Ysgrythyrau sanctaidd, megis Nebo, Nisroch, Dagon, a Bel.

Y brenhin Assyriaidd enwir gyntaf yn yr hanes sanctaidd yw Pul, am yr hwn y darllenwn iddo ddod yn erbyn tir Israel, "a Menahem a roddodd i Pul fil o dalentau arian, fel y byddai ei law gyd âg ef, i sicrhau, y frenhiniaeth yn ei law ef. A Menahem a gododd yr arian ar Israel, sef ar yr holl rai cedyrn o allu, ar bob un ddeg sicl a deugain o arian, i'w rhoddi i frenhin Assyria; felly brenhin Assyria a ddychwelodd, ac ni arhosodd yno yn y wlad." Gan fod hen ddinas Ninefeh wedi rhoddi i fyny gynifer o gofnodion i ymchwiliad dyfal, ac y darllenir ei hen hanesiaeth yn awr ar ei chofgolofnau, dylem ddisgwyl oddiwrth y cyfnod at ba un yr ydym wedi cyrhaedd ryw gyfeiriad mynych at Israel a'i brenhinoedd yn unol ag adroddiadau y Bibl. Mae y disgwyliad teg yma wedi ei gadarnhau yn gyflawn trwy y cofgolofnau Assyriaidd, fel chwarter canrif yn ol y cyfiawnhawyd disgwyliadau o'r fath trwy y cofgolofnau Aiphtaidd. Nid cynt yr â enw brenhin Assyriaidd i mewn i'r hanes cyssegredig, nag y cawn ef ar fynorion Assyriaidd mewn cyssylltiad a hanesiaeth Israelaidd. Digwydda enw Menahem, brenhin Israel, ar lechfeini y palas yn Nimroud fel cydoesydd a Pul.

Yr oedd Pul, y cyntaf o hil newydd o frenhinoedd Assyria, wedi cael ei ragflaenu gan ddeg ar hugain o frenhinoedd, o ba rai Sardanapalus oedd yr olaf. Dygodd Menahem arno ei hun luoedd Assyria mewn canlyniad i'w ddynesiad byrbwyll ei hun i'r wlad hono. Fel yr hysbysa yr hanes Ysgrythyrol ni, yr oedd wedi dwyn ei fyddin mor bell a Tiphsah, neu Thapsacus, ar yr Euphrates, lle y profodd yn orchfygol, ac y gweinyddodd y creulonderau mwyaf ar y trigolion. Y fuddugoliaeth yma a ddygodd ar Israel yr ymosodiad Assyriaidd cyntaf, o dan lywyddiaeth Pul.

Rhagfynega y prophwyd Nahum, yr hwn oedd yn byw pan oedd Assyria yn ymerodraeth flodeuog, ei dinystr dros gan mlynedd cyn y digwyddiad. Nahum, wedi gosod allan nodweddiad y Ninefeaid, a dyna ddarlun byw o'r gwarchae ar eu dinas, dychryn y trigolion, eu symmudiad i gaethiwed; a gadawa ei brophwydoliaeth hi yn "wag, gorwag, ac anrheithiedig."

(Darllener Llyfr Nahum.)



LEIGHTON, BROTHERS.

SARDANAPALUS.

From a relievo in British Museum.

# PENNOD XXV.

## AHAZ.

AHAZ, brenhin Judah, a ellir ddarlunio yn gywir fel mab drygionus i dad da, ac fel tad drygionus i fab da. Ei dad, Jotham, ydoedd fab Uzziah, ac o'r adeg y tarawyd ef â gwahanglwyf, efe "oedd ar y tŷ, yn barnu pobl y wlad;" neu, i fabwysiadu ein llafarddull ni, yn llenwi y swydd o Dywysog Llywodraethol. Gwnaeth Jotham yr hyn oedd uniawn yn ngolwg yr Arglwydd, gan ochelyd y rhyfyg byrbwyll o ba un y rhoddes ei dad iddo esiampl, ac efe "a aeth yn gryf, oblegid efe a barattôdd ei ffyrdd ger bron yr Arglwydd ei Dduw."

Ahaz, er yn frenhin Judah, a rodiodd yn ffyrdd brenhinoedd Israel, a hyny ar adeg pan oedd cwpan eu hannuwioldeb yn barod i redeg drosodd. "Ac efe a arogldarthodd yn nyffryn Ben-hinnom, ac a losgodd ei blant yn tân, yn ol ffieidd-dra y cenhedloedd a fwriasai yr Arglwydd allan o flaen meibion Israel. Efe a aberthodd hefyd, ac a arogldarthodd yn yr uchelfeydd, ac ar y bryniau, a than bob pren gwyrddlas." Fel cosbedigaeth am y camweddau gwrthun hyn, goddefodd Jehofah i Pecah, mab Remaliah, brenhin Israel, a Resin, brenhin Syria, fyned i fyny i Jerusalem, a rhyfela yn ei herbyn. Y fath ydoedd trugaredd Duw i frenhiniaeth Judah, fel na oddefwyd i'r byddinoedd unedig hyn gymmeryd y ddinas sanctaidd. Yr oedd amser caethiwed Israel yn agos, ond yr oedd gan Dduw amcanion trugarog tuag at Judah, pa rai oeddynt i gael eu cyflawni ar fyrder. Yr oedd brenhinoedd da wedi teyrnasu yn Jerusalem, a byddai i ereill gael eu codi, ac felly ni allasai byddinoedd cyngreiriol Syria ac Israel, pan y gwarchaeasant ar Ahaz, "ei orchfygu ef."

Er na chymmerwyd Jerusalem, syrthiodd adfydau trymion iawn ar y bobl, gan i nifer mawr gael eu lladd, a lliaws eu caethgludo i Damascus a Samaria. Dygodd y barnedigaethau hyn deulu y brenhin a'i wasanaethyddion i gyfyngder mawr, canys "Zichri, gŵr grymmus o Ephraim, a laddodd Maaseiah mab y brenhin, ac Azricam, llywodraethwr y tŷ, ac Elcanah y nesaf at y brenhin."

Pan yr oedd y caethion Judeaidd yn dynesu i Samaria, cyfryngodd

Duw eu tadau yn drugarog ar eu rhan. "Ac yno yr oedd prophwyd i'r Arglwydd, a'i enw Oded; ac efe a aeth allan o flaen y llu oedd yn dyfod i Samaria, ac a ddywedodd wrthynt, Wele, o herwydd digofaint Arglwydd Dduw eich tadau yn erbyn Judah, y rhoddodd efe hwynt yn eich llaw chwi, a lladdasoch hwynt mewn cynddaredd yn cyrhaeddyd hyd y nefoedd. Ac yn awr yr ydych chwi yn amcanu darostwng meibion Judah a Jerusalem, yn gaeth-weision, ac yn gaeth-forwynion i chwi: onid oes gydâ chwi, ïe, gydâ chwi, bechodau yn erbyn yr Arglwydd eich Duw? Yn awr gan hynny gwrandewch arnaf fi, a gollyngwch adref y gaethglud a gaethgludasoch o'ch brodyr; oblegid y mae llidiog ddigofaint yr Arglwydd arnoch chwi." Cefnogwyd cyfarwyddiadau y prophwyd gan y pennaethiaid yn mysg yr Ephraminiaid, pa rai a welsant y pechod o ddal eu brodyr mewn caethiwed, ac a ofnasant y canlyniadau a ddygai arnynt. Ni wnaed y gwrthdystiad yn ofer, canys, "felly y llu a adawodd y gaethglud a'r anrhaith o flaen y tywysogion, a'r gynnulleidfa." Canlynwyd eu llwyddiant gan weithredoedd o garedigrwydd i'w brodyr, pa rai ydynt yn hyfryd o'r mwyaf i feddwl am danynt. "A'r gwŷr, y rhai a enwyd wrth eu henwau, a gyfodasant ac a gymmerasant y gaethglud, ac a ddilladasant eu holl rai noethion hwynt a'r yspail, a dilladasant hwynt, a rhoddasant iddynt esgidiau, ac a wnaethant iddynt fwytta ac yfed; enneiniasant hwynt hefyd, a dygasant ar asynod bob un llesg, ïe, dygasant hwynt i Jericho, dinas y palmwydd, at eu brodyr; yna hwy a ddychwelasant i Samaria."

Mawr gynhorthwyir astudiaeth y rhan yma o'r hanesiaeth Iuddewig, gan ysgrifeniadau Esaiah, yr hwn ar y pryd a brophwydai yn Jerusalem. Yma yn wir mae gennym eglurhad o'r manteision geir oddiwrth ddarllen hanesiaeth y Bibl, a'r prophwydoliaethau mewn cyssylltiad. Dengys pennod vii. i ni y prophwyd ffyddlawn yn cyflawni ei waith o sicrhau a chynhal calon y brenhin a'i bobl, pan y cyffroisant "megis y cynhyrfa prennau y coed o flaen y gwynt." Pe credasent yn Nuw, buasent wedi eu "cadarnhâu," a phob drygfyd bygythiedig wedi ei ochel.

Y fath ydoedd trugaredd Duw i Judah, fel y cyfarwydda y prophwyd, yn cael ei ddylyn gan ei fab, i fyned "allan yr awr hon i gyfarfod Ahaz, wrth ymyl pistyll y llyn uchaf," a'i sicrhau o waredigaeth, gan ddywedyd

wrtho, "Ymgadw, a bydd lonydd; nac ofna, ac na feddalhâed dy galon, rhag dwy gloren y pentewynion myglyd hyn, rhag angerdd llid Resin, a Syria, a mab Remalïah." Amcan y cydfradwyr oedd gwneyd rhwyg yn y ddinas, a gosod i fyny frenhin arall—tywysog Israelaidd yn debygol—fel y byddai i'r hiliogaeth Judeaidd gael ei dinystrio. Sicrheir y brenhin na cha yr amcan yma ei gyflawni. Rhagfynega y prophwyd gaethiwed Israel, a dymchweliad Syria gan frenhin Assyria, a diboblogiad y tir, fel y byddai y cyflenwadau o ymborth yn llawer helaethach nag a allai y bobl dreulio.

Parhaodd Ahaz, modd bynag, i "droseddu yn erbyn yr Arglwydd yn ddirfawr;" am ba achos, efe a "ddarostyngodd Judah." Gormesid y wlad yn awr gan yr Edomiaid, pa rai a darawasant Judah, ac a gaethgludasant gaethglud; a chan y Philistiaid, pa rai a "ruthrasant i ddinasoedd y gwastadedd, a thu dehau Judah, ac a ynnillasant Bethsemes, ac Ajalon, a Gederoth, a Socho a'i phentrefydd; Timnah hefyd a'i phentrefydd, a Gimzo a'i phentrefydd; ac a drigasant yno."

Yn lle ceisio yr Arglwydd mewn edifeirwch a gweddi, apeliodd y brenhin drygionus hwn at Tiglath-pilneser, "dywalgi," Assyria, cynhorthwy yr hwn a obeithia brynu trwy roi i fyny iddo drysorau y Deml. Efe "a gasglodd lestri tŷ Dduw, ac a ddarniodd lestri tŷ Dduw, ac a gauodd ddrysau tŷ yr Arglwydd, ac a wnaeth iddo allorau ym mhob congl yn Jerusalem." Gwnaeth oddefiadau mwy fyth i genedloedd paganaidd, dan obaith troi heibio yr adfydau â pha rai y bygythient ef, "canys efe a aberthodd i dduwiau Damascus, y rhai a'i tarawasent ef; ac efe a ddywedodd, Am i dduwiau brenhinoedd Syria eu cynhorthwyo hwynt, minnau a aberthaf iddynt hwy, fel ym cynnorthwyont innau; ond hwy a fuant iddo ef ac i holl Israel yn dramgwydd." Gwasgai yr Assyriaid oddiar eu trethedigion ryw addefiad ffurfiol o'u duwiau dieithr, a rhoddodd Ahaz yr ymostyngiad gwasaidd a drygionus yma, trwy orchymyn i'w archoffeiriad i osod i fyny allor Assyriaidd yn Nheml yr Arglwydd. Eto brenhin Assyria "a gyfyngodd arno ef, ac ni's cynnorthwyodd ef;" a phan y bu farw y brenhin drygionus hwn, barnodd ei bobl ef yn anheilwng o gladdedigaeth yn meddau brenhinoedd Israel.


(Darllener 2 Brenhinoedd xv.; xvi. 2 Cronicl xxviii. Esaiah vii.)

## PENNOD XXVI.

### ESAIAH—"TYWYSOG YR HOLL BROPHWYDI."

MAE y lle roddir i ysgrifeniadau Esaiah yn y gyfrol sanctaidd yn dangos y pwysigrwydd tra-rhagoriaethol a gyssylltai casglwyr canon yr Hen Destament a'r trysorau hyn o wirionedd Dwyfol y caniatâwyd iddo ef gyflwyno i'r eglwys. Nid efe, o ran amser, oedd y cyntaf o'r prophwydi y mae eu "gweledigaethau" yn cael eu cadw yn yr Ysgrythyrau sanctaidd, ond y mae rhesymau digonol dros ei ystyried ef yn iaith Esgob Lowth, fel "tywysog yr holl brophwydi." Ymegyr y llyfr trwy ddyweyd wrthym pa bryd y galwyd ef gyntaf at ei ddyledswyddau sanctaidd, a'r gyfres faith o flynyddoedd trwy ba rai y cyrhaeddodd ei fywyd, gan y cynhwysa "weledigaeth Esaiah, fab Amos, yr hon a welodd efe am Judah a Jerusalem, yn nyddiau Uzzïah, Jotham, Ahaz, a Hezecïah, brenhinoedd Judah." Dywed traddodiad, ond nid heb wrthddywediad, ei fod o'r teulu brenhinol, mai Amos oedd ei dad, brawd y brenhin Uzziah; fod ei yrfa brophwydol yn cyrhaedd dros driugain mlynedd, a'i fywyd i dros gant, pa un a derfynodd trwy iddo gael ei "dorri â llif," trwy orchymyn Manasseh ddrygionus.

Fel prophwyd ffyddlawn i Jehofah, llwyr-feddiannir ei feddwl a'i ysgrifeniadau a'r pyngciau mawrion ar ba rai yr anfonwyd ef i bregethu, y "gweledigaethau" a welodd ac oedd ganddo i'w hadrodd, a'r rhagfynegiadau o ddigofaint neu drugaredd oedd ganddo i gyflwyno. Meddiannid ei holl enaid a'r genadwri ar ba un yr anfonwyd ef, ac ymddengys fod aelodau ei dŷ yn cael eu defnyddio i'w gynhorthwyo i'w chyflawni. Gelwir ei wraig "y brophwydes," a'r enwau a ddygid gan ei blant oeddynt wedi eu rhoddi i adgoffa y ddwy genedl Hebrëig am y dynged oedd yn eu haros. Yr oedd enw Maher-shalal-has-baz—*brysia i'r yspail a phrysura i'r anrhaith*—yn rhybudd y byddai cyfoeth Damascus ac ysbail Samaria ddyfod yn fuan yn ysglyfaeth brenhin Assyria, ac fel hyn yr oedd yn fygythiad i Israel; tra yr oedd enw Sear-jasub—*y gweddill a ddychwel*—yn wystl i Judah y dygid ei chaethion yn ol o'u caethiwed yn Babilon. Yr oedd ei enw ei hun—*iachawdwriaeth yr Arglwydd*—yn




LEIGHTON, BROTHERS.

FROM THE SISTINE CHAPEL.

ddarluniad o'r gweledigaethau gogoneddus hyny a lefarent nid yn unig am y gwaredigaethau tymhorol addawyd i Judah, ond am yr iachawdwriaeth ogoneddus hono oedd i gael ei chyflawni gan y Messiah, yr hon a gyhoeddodd mor llawn, fel yr oedd mewn modd nodedig "y prophwyd efengylaidd."

Mae y rhai hyny ydynt wedi astudio yn fwyaf gofalus ysgrifeniadau Esaiah, wedi llafurio i nodweddu y prydferthion mawrion â pha rai yr hynodir hwynt. Fel hyn dywed Jerome eu bod yn "dalfyriad o'r Ysgrythyrau Sanctaidd, yn gasgliad o'r wybodaeth mwyaf anghyffredin o ba un y mae y meddwl yn alluog—athroniaeth naturiol, moesoldeb, a duwinyddiaeth. Yn ei ysgrifeniadau ni a gyfarfyddwn â phurdeb y tafodiaith Hebrëig, fel yn yr areithydd, â dillynder y chwaeth Atticaidd. Cydmara Grotius ef i Demosthenes. Mae y ddau yn aruchel a mawreddog yn eu priod-ddull, angherddol yn eu cynhyrfiadau, helaeth yn eu ffigyrau, a thra phoethlyd pan y darluniant bethau o natur ddirfawr, neu ydynt erchyll ac adgas."

Mae Esgob Lowth, yr hwn sydd wedi gwneyd mwy nag un ysgrifenydd i eglurhau prydferthion barddonol hwn, a phob ysgrifenydd ysbrydoledig arall o farddoniaeth Hebrëig, wedi darlunio y prophwyd fel hyn: "Mae Esaiah yn orlawn o'r fath ragoriaethau tra godidog, fel y gellir yn briodol ddyweyd y rhydd y cynllun perffeithiaf o'r farddoniaeth brophwydol. Mae ar unwaith yn dlws ac aruchel, grymus ac addurnol; una yni a thoraethder, a mawreddusrwydd gydag amrywiaeth. Yn ei syniadau mae ucheledd a mawrhydi anarferol; yn ei ddelweddiad y priodoldeb, tlysder, mawreddusrwydd, a'r amrywiaeth mwyaf; yn ei iaith, prydferthwch ac yni anghyffredin, ac er aneglurder ei destynau, gradd rhyfeddol o yni a symlrwydd. At y rhai hyn gallwn ychwanegu, mae y fath fwynder yn nghyfansoddiad barddonol ei frawddegau, pa un a dardda ai peidio oddiar gelfyddyd neu athrylith, fel os ydyw y farddoniaeth Hebrëig yn meddu dim o weddillion ei thlysder a'i chynghanedd cynhenid, ni a gyfarfyddwn â hwy yn benaf yn ysgrifeniadau Esaiah, fel y gellir cymhwyso dywediad Ezecial at y prophwyd hwn :—

"'Ti wyt gynllun sefydledig o fesurau,
Llawn o ddoethineb, a chyflawn o degwch.'"

Yr hyn sydd yn rhoddi gwerth anrhaethol i ysgrifeniadau prydferth ac aruchel Esaiah, fel i rai yr holl brophwydi, yw yr ysbrydoliaeth Ddwyfol o ba un y maent hwy y cyfrwng, fel at ddarluniad hyawdl Esgob Lowth, mae gennym i ychwanegu, fod y prophwyd yn "traethu ei ganeuon perlewygol gyda'r fath ucheledd a mawrhydi nad allai gwefusau halogedig byth gyrhaedd; ac o fawreddusrwydd y bennod gyntaf, i ddarluniad diweddgloawl o'r Efengyl, i gael ei dwyn allan mewn rhyfeddodau, ac i derfynu yn ngoruchwyliaeth tragywyddoldeb, mae un arddanghosiad parhaus o ddoethineb ysbrydoledig, yn datguddio ei horaclau a'i gorchymynion er addysg ac iachawdwriaeth dyn."

Nid yw ysgrifenydd sanctaidd yn llai ysbrydoledig, os fel Esaiah, y bydd ei feddwl wedi ei gynhysgaeddu yn helaeth â doethineb, a'i goethi â chelfyddyd. Efe, yr hwn a alwodd Amos o drin ffrwyth y sycomorwŷdd, a gododd Esaiah i ddysgu yn mhalas Hezeciah; yn union fel y cyfarwyddid byddin yr Hebreaid i chwythu yn y cyrn hyrddod pan oedd muriau Jericho i syrthio, ac yr oedd chwareuwyr offerynau i roi allan y seiniau mwyneiddiaf pan oedd y Deml i gael ei llenwi â mawl.

Mor dda y gwyddai y prophwyd nad oedd ei gyrhaeddiadau naturiol yn rhoddi dim cymhwysder iddo i'r swydd o brophwyd, fel pan mewn gweledigaeth y gwelodd ogoniant Jehofah, ac y clywodd y seraph yn cyhoeddi y sancteiddrwydd Dwyfol, y dywedodd, "Gwae fi! canys darfu am danaf; o herwydd gŵr halogedig ei wefusau ydwyf fi, ac ym mysg pobl halogedig o wefusau yr ydwyf yn trigo; canys fy llygaid a welsant y brenhin Arglwydd y lluoedd." Hyd nes y cyffyrddodd un o'r seraphiaid hyny a'i wefusau â marworyn oddiar yr allor, ac y galwodd arno i fyned fel cenhad yr Arglwydd, nid anturiodd ddywedyd, "Wele fi; anfon fi."

Gwna gynhorthwyo yn fawr ddarlleniad buddiol o'r prophwydoliaethau hyn i gofio eu bod yn syrthio o dan ddau brif ddosbarthiad; y cyntaf o ddechreu y llyfr i ddiwedd pennod xxxix., a'r ail yn cyrhaedd o pennod xl. i ddiwedd y llyfr. Cynhwysa y dosbarthiad cyntaf anerchiadau ac ysgrifeniadau yn cyfeirio yn uniongyrchol at nodwedd pobl Judea, at ba rai yn hytrach nac at Israel, yr anfonwyd y prophwyd; perthyna yr ail ddosbarthiad i ddigwyddiadau pellach, yn cyrhaedd o'r Caethiwed i'r oruchwyliaeth Gristionogol.

Beth a all fod yn fwy aruchel na'r apeliad â pha un y dechreua y llyfr sanctaidd hwn! "Gwrandewch, nefoedd; clyw, dithau ddaear; canys yr Arglwydd a lefarodd, Megais a meithrinais feibion, a hwy a wrthryfelasant i'm herbyn." Mewn cyfeiriad at ba un fe sylwyd, "Priodol y gallasai Jehofah reithresu yr holl greadigaeth i roddi dedfryd ar yr anniolchgarwch anghydmarol yma." O'r digwyddiadau ragfynegwyd gan y prophwydi yr oedd rhai yn bur agos wrth law. Yr oedd Syria a Samaria i gael eu gorchfygu cyn i blentyn bach y prophwyd allu dyweyd "fy nhad;" yr oedd y "baich ar Arabia" i gael ei gyflawni yn mhen blwyddyn; yn mhen tair blynedd yr oedd gogoniant Moab i gael ei gondemnio, gyda yr holl gynnulleidfa fawr hono. Gwnaeth agosrwydd y digwyddiadau, a'u cyflawniadau ar yr adegau ragfynegwyd, sefydlu hawliau y prophwyd, a chyfiawnhau ffydd y duwolion yn yr oll a ragfynegodd mewn perthynas i amserau pellach. Rhoddir rheswm argyhoeddiadol iawn yn awr dros ysbrydoliaeth yr Ysgrythyrau Sanctaidd, trwy gydmaru y prophwydoliaethau hyn â ffeithiau hanesiaeth mewn perthynas i Assyria, Babilon, Moab, yr Aipht, Philistia, Syria, Edom, a Tyrus. Yn mysg y mwyaf argyhoeddiadol o'r prawfion hyn, mae y crybwylliad wrth ei enw am Cyrus, yr hwn oedd i anfon allan y gorchymyn am ddychweliad yr Iuddewon o Babilon.

Yr oedd gan Esaiah, tra yr ydoedd i ragfynegu caethgludiad yr Iuddewon, hefyd i ddywedyd "wrth fodd calon Jerusalem," nid yn unig trwy sicrhau yr Iuddewon o'u dychweliad i'w gwlad ddymunol, ond trwy ddarlunio oes y Messiah, am dduwdod goruchel yr hwn a'i ddynoliaeth, darostyngiad, dioddefiadau iawnol, marwolaeth, ac adgyfodiad, ysgrifena âg "ysgrifbin dyn," ond arweinir yr ysgrifbin hwnw gan law yr Ysbryd Glân. Gyda'r fath ymadroddion tanbaid y darlunia frenhiniaeth heddychol y Messiah: "Nid wrth olwg ei lygaid y barn efe, nac wrth glywed ei glustiau y cerydda efe; ond efe a farn y tlodion mewn cyfiawnder, ac a argyhoedda dros rai llariaidd y ddaear â gwïalen ei enau, ac âg anadl ei wefusau y lladd efe yr anwir. A'r blaidd a drig gyda'r oen, a'r llewpard a orwedd gyd â'r mynn; y llo hefyd, a chenau y llew, a'r anifail bras, fyddant ynghyd; a bachgen bychan a'u harwain."

(Darllener Esaiah i.; liii.; lx.; lxi.)

## PENNOD XXVII.

### DIRYWIAD ISRAEL.

HOSEA ydoedd yr olaf yn y linell o frenhinoedd Israelaidd o'r amser yr enciliodd Israel oddiwrth fab Solomon hyd nes y dygwyd yr holl genedl i gaethiwed, tymhor o dros ddau cant a haner o flynyddoedd. Yn un o'r gwersi Ysgrythyrol nodir i'w darllen ar ddiwedd y bennod hon, nyni a ddarllenwn am eu heilun-addoliaeth eang-ymdaenedig: "A meibion Israel a wnaethant yn ddirgel bethau nid oedd uniawn yn erbyn yr Arglwydd eu Duw, ac a adeiladasant iddynt uchelfeydd yn eu holl ddinasoedd, o dŵr y gwylwyr hyd y ddinas gaerog." Cyfieithiad mwy cywir o'r geiriau hyn yw, "meibion Israel a *ddyfeisiasant* bethau nid oedd uniawn." Wrth "dŵr y gwylwyr," y deallir, y lluest, weithiau y bwthyn yn unig, a godid i'r personau oedd i wylio y gwinllanoedd a'r olewyddlanoedd, ac i fugeiliaid yn gwylio eu praidd; fel yr oedd yr holl dir wedi ei halogi âg eilunod, allorau pa rai a lanwent y wlad yn gystal a'r dref. Mae yr ymadrodd a ailgrybwyllir yn y bennod nesaf, yn gyfochrog ag un y bardd Rhufeinaidd, yr hwn a lefara am yr Angeu Gwelw yn taro a'r unfath droed, fwthynod y tlodion a phalasau brenhinoedd.

Wedi i'r hanesydd ysbrydoledig, yn y modd grymus yma, nodi allan yr arwynebedd mawr dros ba un y cyrhaeddai y gwrthgiliad, â yn mlaen i ailadrodd yr amrywiol ffurfiau o ddrwg a ymgymmerodd: "Gosodasant hefyd iddynt ddelwau a llwyni ar bob bryn uchel, a than bob pren irlas; ac a arogldarthasant yno yn yr holl uchelfeydd, fel y cenhedloedd y rhai a gaethgludasai yr Arglwydd o'u blaen hwynt; a gwnaethant bethau drygionus i ddigio yr Arglwydd; a hwy a wasanaethasant eilunod, am y rhai y dywedasai yr Arglwydd wrthynt, Na wnewch y pethau hyn."

Yr oedd Hosea, prophwydoliaethau yr hwn a gyfeirient yn unig at y deg llwyth, yn byw yn ystod teyrnasiad y chwech neu saith brenhin diweddaf Israel, oddeutu triugain mlynedd; a darlunia a cherydda yn ffyddlawn y llygredigaeth oedd yn ffynu. Yn ei ysgrifeniadau, yn gystal

a rhai prophwydi cydoesol, rhoddir i ni ddarluniadau ffyddlawn o'r drygau â pha rai y llygrid pob dosbarth.

Llawenychai brenhinoedd a thywysogion mewn anwiredd: "Llawenhânt y brenhin â'u drygioni, a'r tywysogion â'u celwyddau." Coleddasant anghymmedroldeb gwrthyn ac afradlonedd: "Yn niwrnod ein brenhin y tywysogion a'i gwnaethant yn glaf â chostrelau gwin; estynodd ei law gyd â gwatwarwyr." Halogrwydd, ammhuredd, a chreulondeb, hyd yn oed at lofruddiaeth, a lygrasant "drigolion y wlad, am," meddai y prophwyd, "nad oes na gwirionedd, na thrugaredd, na gwybodaeth o Dduw yn y wlad. Trwy dyngu, a dywedyd celwydd, a lladd celain, a lladratta, a thorri prïodas, y maent yn torri allan, a gwaed a gyffwrdd â gwaed." Gadawid y bobl mewn dygn anwybodaeth o'r oraclau bywiol hyny a roddasai Duw i'w cyndadau, ac yr oedd y cyhuddiad yn wir am yr offeiriaid, pa rai a ddylasent eu hyffordi hwynt: "Fy mhobl a ddifethir o eisieu gwybodaeth; am i ti ddiystyru gwybodaeth, a minnau a'th ddïystyraf dithau, fel na byddech offeiriad i mi; ac am i ti anghofio cyfraith dy Dduw, minnau a anghofiaf dy blant dithau hefyd. Fel yr amlhasant, felly y pechasant i'm herbyn; am hynny eu gogoniant a newidiaf yn warth. Bwytta y maent bechod fy mhobl, ac at eu hanwiredd hwynt y maent yn dyrchafu eu calon." "Mi a ysgrifenais iddo bethau mawrion fy nghyfraith, ac fel dïeithrbeth y cyfrifwyd." Y gobaith hwnw a ddylasent osod yn unig ar Dduw Israel, hwy a roddasant yn olynol i Assyria a'r Aipht; canys dywed Hosea, "Ephraim sydd fel colommen ynfyd heb galon; galwant ar yr Aipht, ânt i Assyria." A thra yr oedd eu drygioni fel hyn yn amlwg, a'r dydd o ad-daliad ofnadwy yn dynesu, yr oeddynt yn falch o'u cyfoeth, ac yn hunan-foddhaol gyda eu cyflwr pechadurus: "A dywedodd Ephraim, Etto mi a gyfoethogais, cefais i mi olud; ni chafwyd yn fy holl lafur anwiredd ynof a fyddai bechod."

Fel y darllenwn y darluniadau roddir gan y prophwyd hwn o ddirywiad y deg llwyth, yr ydym yn peidio a rhyfeddu at y barnedigaethau trymion â pha rai y bygythid hwynt. Ac eto, cyfarwyddid y gŵr Duw hwn i draethu apeliadau trugarog, yn mha rai y galwai ar y bobl i edifarhau, ac addawai iddynt drugaredd os ufuddhaent i'r alwad Ddwyfol, gan ddywedyd: "Ymchwel, Israel, at yr Arglwydd dy Dduw; canys ti

a syrthiaist trwy dy anwiredd. Cymmerwch eiriau gydâ chwi, a dychwelwch at yr Arglwydd; dywedwch wrtho, Maddeu yr holl anwiredd, derbyn ni yn ddaionus; a thalwn i ti loi ein gwefusau." "Deuwch, a dychwelwn at yr Arglwydd; canys efe a'n drylliodd, ac efe a'n hiachâ ni; efe a darawodd, ac efe a'n meddyginiaetha ni. Efe a'n bywhâ ni ar ol deuddydd, a'r trydydd dydd y cyfyd ni i fyny, a byddwn fyw ger ei fron. Yna yr adnabyddwn, os dilynwn adnabod yr Arglwydd; ei fynediad a ddarperir fel y bore; ac efe a ddaw fel gwlaw attom, fel y diweddarwlaw a'r cynnar-wlaw i'r ddaear." Pe y dychwelasent at Jehofah, cyflawnasai yr addewid brydferth: "Meddyginiaethaf eu hymchweliad hwynt, caraf hwynt yn rhad; canys trôdd fy nig oddiwrtho. Byddaf fel gwlith i Israel; efe a flodeua fel y lili, ac a leda ei wraidd megis Libanus."

Ofnadwy yn wir oeddynt y barnedigaethau cyfagos fygythid yn awr yn erbyn y genedl bechadurus hon: "Am hynny y cyfyd terfysg ym mysg dy bobl, a'th holl amddiffynfeydd a ddinystrir, fel y darfu i Salman ddinystrio Beth-arbel yn amser rhyfel: lle y drylliwyd y fam ar y plant. Fel hynny y gwna Bethel i chwi am eich mawr-ddrwg; gan ddifetha y difethir brenhin Israel ar fore-gwaith." Darlunia y rhagfynegiadau hyn yn ffyddlawn gaethiwed yr holl bobl, a'r diraddiad a'r dioddefaint i ba rai y darostyngid hwynt. "Y llawr-dyrnu na'r gwin-wrŷf ni's portha hwynt, a'r gwin newydd a'i twylla hi. Ni thrigant yngwlad yr Arglwydd; ond Ephraim a ddychwel i'r Aipht, ac yn Assyria y bwyttânt beth aflan." Canys wele, aethant ymaith gan ddinystr; yr Aipht a'u casgl hwynt, Memphis a'u cladd hwynt: danadl a oresgyn hyfryd leoedd eu harian hwynt; drain a dyf yn eu pebyll. Dyddiau i ymweled a ddaethant, dyddiau talu y pwyth a ddaethant; Israel a gant wybod hyn; y prophwyd sydd ffol, ynfyd yw y gŵr ysprydol, am amlder dy anwiredd, a'r cas mawr." "Diffaethir Samaria; am ei bod yn anufudd i'w Duw; syrthiant ar y cleddyf; eu plant a ddryllir, a'u gwragedd beichiogion a rwygir."

(Darllener 2 Brenhinoedd xvii. Llyfr Hosea.)

## PENNOD XXVIII.

### Y FRENHINIAETH YSBRYDOL YN CAEL EI RHAGFYNEGU.

RHAID fod y sefyllfa dorcalonus i ba un, fel y gwelsom, yr oedd brenhiniaeth Israel wedi suddo cyn ei chaethiwed, wedi llenwi yr "Israeliad yn wir" a'r cyfyngder mwyaf, a'i daflu i'r prudd-der dyfnaf. Gallasai hyd yn oed gael ei demptio i amheu fod yr addewidion o drugaredd i Abraham wedi methu yn eu cyflawniad, a pha un a arosai hyd yn oed gweddill o'r cyfiawnion a'r credinwyr ar y ddaear. Yr oedd yr unig deulu yn mysg y cenhedloedd oedd a gwybodaeth o Jehofah ac ordinhadau gwir grefydd wedi gwrthgilio, ac ar gael ei golli yn mysg eilun-addolwyr paganaidd; ac yr oedd temptasiwn nid bychan i ofni fod y gyfundrefn fawreddog o wir grefydd ddygwyd i mewn gan Moses wedi methu cyrhaedd yr amcanion sanctaidd i ba rai y rhoddwyd hi. Gallasai y credadyn yn ei ddyryswch draethu yn fuan alargwyn y prophwyd wylofus, a dywedyd am y Tir Sanctaidd, "Ei brenhin a thywysogion ydynt ym mysg y cenhedloedd; heb gyfraith y mae; a'i phrophwydi heb gael gweledigaeth gan yr Arglwydd."

Galluoga y sefyllfa ydym yn ddal yn hanesiaeth yr eglwys ni i weled fod y fath adfyfyrdodau prudd yn ddianghenraid hyd yn oed yn yr amserau tywyll a phrofedigaethus hyny. Gallasai yr Israeliad credinol gael hyder wrth fyfyrio ar anghyfnewidioldeb y bwriad Dwyfol, hollalluowgrwydd y fraich Ddwyfol, a chariad parhaus y galon Ddwyfol, ac ychwaith ni adawyd ef heb y fath ddatguddiedigaethau o fwriadau gogoneddus Duw ag â'i cefnogai i ddisgwyl am yr amlygiadau dyfodol o ras a thrugaredd tuag at Israel a'r holl fyd.

Yr oedd yn rhagorfraint y prophwydi ar y pryd hyn i roddi rhai awgrymiadau eglurach am fwriadau Jehofah mewn perthynas i'w eglwys yn y dyfodol. Nid oedd anghrediniaeth Israel i wneyd "ffydd Duw yn ofer." Yr oedd cyngor yr Arglwydd i sefyll, a'i holl ewyllys i gael ei chyflawni. Nid yn unig rhagfynega y prophwydi am ddychweliad Israel i'w gwlad, wedi ei phuro oddiwrth bob math o eilun-addoliaeth, ond

rhoddant awgrymiadau eglur am frenhiniaeth ysbrydol, yr hon, yn lle bod yn gyfyngedig i'r Tir Sanctaidd, a estynai ei bendithion i holl genhedloedd y ddaear.

Pan yr oedd tywyllwch duaf nos yn ymddangos wedi syrthio ar nodweddiad cenedlaethol yr Hebreaid, gellid gweled gwawr dydd goleu a bendigedig gan y rhai a wylient am y boreu. Pan yr oedd y winwydden a blannodd deheulaw Jehofah yn nhir bras Canaan yn ymddangos fel wedi gwywo, rhoddodd y sicrhad dymunol y byddai i gyff dyfu allan o'i gwreiddiau a dyfod yn bren enwog, a'r canghenau i fod yn gysgod i'r cenhedloedd, tra y byddai y dail i iachâu a'r ffrwyth yn ymborth. Gallai y tŷ sanctaidd yn Jerusalem gael ei ddryllio, ei allor ei dymchwelyd, ei ddodrefn cyssegredig ei symmud, ei oleuadau eu diffoddi, gogoniant ei Secinah ddarfod, a'i arogldarth hyfryd beidio mwy esgyn ger bron Arglwydd y Deml; ond byddai i grefydd bur a dihalog gael ei chadw ac ymeangu ar y ddaear, holl diriogaethau yr hon a fyddai i ffurfio yn deml, yn mha un y byddai i wir offrwm ddyrchafu yn gymmeradwy, o gyfodiad hyd fachludiad haul.

Yn Ei anfeidrol drugaredd, rhoddodd Jehofah y gweledigaethau hyn o'r dyfodol ar adeg yr oedd mwyaf o'u hangen i adfywio gobeithion llesg Ei bobl, pa rai a gadwyd oddiwrth yr anwiredd ymledaenol. Mae yn ymarferiad tra buddiol i gymmeryd y prophwydi yn y drefn yr ymddangosasant, a sylwi pa fodd y llefarent yn mlaen llaw am y pethau daionus mae Duw wedi fwriadu i'r byd neu yr oes ddyfodol. Mae yn angenrheidiol er olrhain yr awgrymiadau hyn am y bwriadau Dwyfol yn y drefn yn mha un y rhoddwyd hwynt, i ddarllen y prophwydi mewn cyfres hanesyddol briodol, gan eu gwahaniaethu fel yr ymddanghosent cyn, yn ystod, ac ar ol, caethiwed Israel a Judah.

Prophwydodd Jonah, Amos, a Hosea, cyn caethiwed Israel; Esaiah, Joel, Micah, Nahum, Sephaniah, a Jeremiah cyn caethiwed Judah; fel y gwnaeth hefyd Habacuc, Daniel, Obadiah, ac Ezeciel; prophwydodd Haggai, Zechariah, a Malachi, ar ol dychweliad yr Iuddewon i'w gwlad.

Deallir yn well yr arddangosiadau o ddaioni dyfodol yr eglwys, trwy sylwi ar y drefn a roddasom, gan y cynhorthwya y darllenydd i ddarlunio

iddo ei hun yr amgylchiadau yn mha rai y safai pob prophwyd fel y datguddiai y dyfodol. Mae gwerth mawr yn y sylw, fod yr "oll yn rhagfynegu am ddyfodol gogoneddus, ond cymherir yr ymadroddion yn mha rai y rhagfynegant ef naill a'i oddiwrth ddrwg oedd ar ddisgyn, neu dda disgwyliedig. Mae y dyfodol yn wrthwyneb i'r drygfyd presennol, neu mae yn berffeithrwydd y daioni presennol."

Jonah, y boreuaf o'r tri phrophwyd oeddynt yn byw cyn caethiwed Israel, pan yn pregethu edifeirwch i'r Ninifeaid, a phan yr oedd ei genadwri yn foddion i'w dwyn hwy i geisio am drugaredd ac i'w chael, a awgryma i'r Israeliaid y byddai i genhedloedd ereill edifarhau a chael y drugaredd hono a wrthodai y genedl ffafredig; tra y defnyddiwyd ei gadwedigaeth wyrthiol i gysgodi marwolaeth ac adgyfodiad y Gwaredwr.

Llona Amos galonau pobl dduwiol yn y rhagolwg ar ddymchweliad y Deml yn Jerusalem trwy addaw cyfodiad y Deml ysbrydol: "Y dydd hwnnw y codaf babell Dafydd yr hon a syrthiodd, ac a gauaf ei bylchau, ac a godaf ei hadwyau, ac a'i hadeiladaf fel yn y dyddiau gynt." Dehonglwyd y geiriau yma fel hyn gan yr Apostol Iago oddeutu wyth can' mlynedd ar ol iddynt gael eu traethu: "Simeon a fynegodd pa wedd yr ymwelodd Duw ar y cyntaf, i gymmeryd o'r cenhedloedd bobl i'w enw. Ac â hyn y cyttuna geiriau y prophwydi; megis y mae yn ysgrifenedig, Ar ol hyn y dychwelaf, ac yr adeiladaf drachefn dabernacl Dafydd, yr hwn sydd wedi syrthio; a'i fylchau ef a adeiladaf drachefn, ac a'i cyfodaf eilchwyl; fel y byddo i hyn a weddillir o ddynion geisio yr Arglwydd, ac i'r holl genhedloedd, y rhai y gelwir fy enwi i arnynt, medd yr Arglwydd, yr hwn sydd yn gwneuthur yr holl bethau hyn."

Rhagfynega Hosea am alwad y Gwaredwr o'r Aipht, troedigaeth yr Iuddewon, a'u hundeb â Chenhedloedd crediniol yn eglwys Crist, ynghyd a buddugoliaeth yr holl gredinwyr ar angeu a'r bedd.

Fel hyn y goddefid i'r credadyn yn y nos ddu a throm yma i weled yn y terfyngylch draw seren foreuol dydd disglaer a bendigedig Mab y Dyn, a llawenychu.

(Darllener Psalm lxxii. Hosea vi. 2; xi. 1; xiii. 14.)

## PENNOD XXIX.

### DWYN ISRAEL I'R CAETHIWED.

Y PROPHWYD Esaiah, trwy yr hwn y rhybuddia Jehofah yr Israeliaid am y barnedigaethau oedd ar ddisgyn arnynt, a esyd fel hyn eu gwir le a diben i'r Assyriaid, gan ba rai yr oedd y barnedigaethau hyn i gael eu gweinyddu :—

> "Yr Assyriaid! gwialen fy llid!
> A'r ffon yn eu llaw hwynt yw fy nigofaint!
> Yn erbyn cenedl ragrithiol yr anfonaf ef,
> Ac yn erbyn pobl fy nigter y rhoddaf orchymyn iddo
> I ysbeilio ysbail; ac ysglyfaethu ysglyfaeth;
> A'u gosod yn sathrfa megis tom yr heolydd."

Wedi i'r amser ddyfod pan y rhaid cyflawni y bygythion hyn, pan nad allai hyd yn oed anfeidrol drugaredd ddadleu yn hwy ar ran pobl a gauent eu clustiau rhag pob rhybudd, ac a galedent eu calonau yn erbyn pob apeliad, gollynga Arglwydd y lluoedd yr Assyriaid yn rhydd i gyflawni Ei ewyllys ar y "genedl ragrithiol."

Mae yn dorcalonus i feddwl am faint y dioddefaint sydd yn gynhwysedig yn y ddwy adnod hyny, 2 Bren. xvii. 5, 6. Cynhwysant ddychrynfeydd gwarchae maith o dair blynedd, ac yna alltudiad y bobl i wlad estronol. Mae cŷn y cerflunydd Assyriaidd wedi darlunio yn gywir olygfeydd fel y rhai yr oedd gan drigolion Samaria i fyned drwyddynt yn ystod ac ar ol gwarchae eu dinas. Adrodda muriau yr orielau Assyriaidd yn Llundain a Paris wrthym yn awr hanesion am y poenau ddioddefwyd dros bum' cant ar hugain o flynyddoedd yn ol yn Samaria.

Yn lle taflu llen dros greulondeb y goresgynwr, cofnoda y cerflunwyr hanesyddol ffyddlawn hyn y golygfeydd mwyaf adgas o greulondeb gyda'r manylwch eithaf. Gwthir yr hyrdd-offer, a symmudir ar olwynion, yn mlaen at furiau y ddinas, o dan ba rai y gosodir tan-gloddwyr ar waith yr un pryd, yn cael eu hamddiffyn gan eu tarianau, i gloddio danynt. Mae y murganllawiau wedi eu harfogi gan wyr a gwragedd gwael eu golwg a'u gwisg, y rhai blaenaf yn ceisio yn ofer yru yr ymosodwyr yn ol, a'r olaf yn amlygu y cyfyngder a'r dychryn mwyaf, yn tynu eu gwallt, ac

yn lledu eu dwylaw fel pe yn deisyf am drugaredd. Ow! am yr anrheithedigion! Mae y gorchfygwyr yn ol eu cofnodion eu hunain yn anghenfilod o greulondeb dialeddol. Yr ydym yn gweled y milwyr yn tori y carcharorion yn ddarnau, yn eu blingo yn fyw, yn eu pawlwanu, ac yn gosod yr arteithiau mwyaf dychrynllyd, ac mewn rhai amgylchiadau yn gorphen poenau y gorchfygedigion trwy dori eu penau.

Fod alltudiad yr Israeliaid i wlad eu caethiwed yn cael ei ddylyn gan ddiraddiad a dioddefaint mawr, yr ydym yn dysgu oddiwrth yr un dystiolaeth anwadadwy. Arddengys y cofadeiladau hyn y milwyr yn llusgo eu carcharorion anfoddlawn o'u cartrefi, llawer yn llurguniedig a gefynedig, ac ereill mewn rhesau hirion, wedi eu rhwymo yn nghyd â rhaffau wedi eu tynu o amgylch eu gyddfau, neu yn myned dros eu hysgwyddau, tra y mae y gelyn dirmygus yn boddhau ei lid trwy guro yr hen, y cloff, a'r llesg, ydynt yn analluog i gadw y cyflymdra gofynol.

Rhydd yr arlunydd hefyd i ni eglurhad ar gyfeiriad hynod yn mhrophwydoliaeth Amos (iv. 2), gan yr hwn y rhagfynegwyd y caethgludiad yma: "Wele, y dyddiau arnoch, y dwg efe chwi ymaith â drain, a'ch hiliogaeth â bachau pysgotta." Darlunir un o'r coflechau ddarganfyddwyd yn adfeilion Ninefeh, fel hyn gan y Parch John Blackburn, yr hwn a'i cymhwysa er eglurhau yr adnod hon: "Arddengys garcharorion rhyfel a'u dwylaw wedi eu cylymu o'r tu ol iddynt, a modrwy fettel fechan wedi ei sicrhau ar wefus isaf pob un, rhoddid llinyn trwyddi trwy ba un y llusgai y milwyr oedd a'u gofal hwy yn mlaen. Mae y cerflunydd yn arddangos y dynion anffodus hyn yn pwyso yn mlaen yn ddigymhorth, i ochelyd y boen raid fod dirdyniad cyson rhan mor dyner yn roddi iddynt. Ni fu yr un pysgodyn mud, diamddiffyn, â bach yn ei gêg, erioed yn fwy llwyr dan reolaeth y pysgotwr, nag yr oedd y carcharorion truain yma yn llaw eu gorchfygwyr; ac ymddengys cyfeiriad y prophwyd, gan hyny, yn ddarluniadol i'r eithaf o'r trueni a'r diraddiad a ddaeth yn weithredol arnynt."

Fel hyn yr alltudiwyd y carcharorion truenus yma i'r un diriogaeth ag yr oedd rhan fawr o'u brodyr wedi eu gosod yn barod gan Tiglathpileser. Ar ol i ganrifoedd fyned heibio, yr ydym yn alluog i gyfeirio at y lle y cafodd y caethion eu trigfa newydd. Cymmerwyd hwy yn

gyntaf, mae yn debygol, i Ninefeh, ac arweiniwyd hwy trwy ei heolydd, yn ngorymdaith fuddugoliaethus y gorchfygwr, fel yr adroddir ar awdurdod anghanonaidd Llyfr Tobit, ac yna gosodwyd hwy yn eu lleoedd yn agos i'r Habor, a'r Halah, yn ngwlad Gosen. Yn yr enwau Al Halah, Al Habor, yr ydym wedi cadw hyd ein hamser ni hen enwau yr afonydd fel eu rhoddir gan yr ysgrifenydd ysbrydoledig, pob un o honynt yn rhedeg i'r Euphrates, ac yn nodi gwlad Gauzanitis, Gosen yr Ysgrythyr, fel lle y caethgludiad Israelaidd. Mae yn gadarnhad hynod o'r hanes yma, fod ar wahanol adegau rhwng y caethiwed a'n hamserau ni, hiliogaeth y caethion hyn wedi eu cael yn neu yn agos i'r lleoedd y cludwyd hwynt. Llefara y Brenhin Agrippa am danynt fel yn trigo yn ei amser ef yn Adiabene, prif dalaeth yn Assyria. Jerome, yn y bumed ganrif, a ddywed, "Hyd y dydd hwn mae y deg llwyth yn ddarostyngedig i frenhinoedd y Persiaid, ac ni ollyngwyd byth mo'u caethiwed." Ac o fewn y deg mlynedd a'r hugain diweddaf, darganfyddodd aelod o'r genhadaeth Americanaidd at y Nestoriaid, bobl gyda ffurfwyneb Iuddewig, yn cadw enwau Iuddewig, pa rai, pan eu holwyd am eu hachau, a atebasant, "Nyni ydym Beni Israel"—plant Israel.

(Darllener 2 Brenhinoedd xvii. 5, 6. Esaiah x. 1—19.)



"Y dwg efe chwi ymaith â drain,
A'ch hiliogaeth â bachau pysgotta."

AMOS IV. 2.

# DANGHOSEG GYFFREDINOL.

## CYFROL I.

TUDALEN

Aaron a'r Offeiriadaeth .................. 154
Abel a Chain .............................. 18
Aberthu, Dechreuad ..................... 18
Abīah, Teyrnasiad ......................... 281
Abram, ei le genedigol a'i Dylwyth . 40
—— ei grwydriadau ..................... 41
—— newidiad ei enw ................... 46
Abraham, Gweddi, dros Sodom ...... 47
Acacia, neu Goed Sittim ............... 200
Achubwyr Dialeddol Israel ............ 218
Adda ac Efa yn Eden .................. 11
Afonfarch, yr .............................. 212
Agar ac Ismael ........................... 45
Ahab.......................................... 260
Ahaz, ei droseddau, ac adfydau ei deyrnasiad ..... ....................... 309
Aipht, Gwlad yr........................... 67
Aiphtaidd, Cofadeiladau ............... 69
Almon, Pren ................................ 202
Amaleciaid, Rhyfel â'r ................. 134
Arabia Petrea .............................. 120
Arch, Yr ..................................... 26
Arddanghosiadau o Gaethwasanaeth Hebreig ar Ddarluniau Aiphtaidd. 78
Arth Syria .................................. 207
Asa, Teyrnasiad........................... 283
Asyn Syria .................................. 210
Assyria, Ymerodraeth .................. 306
Athalīah ..................................... 298

Babel, Twr .................................. 32
Balaam .......................................... 174
Balmwydden, Y ............................ 201
Bibl, Dwyfol awduriaeth a dilysrwydd ................................... 1
——Prawfion mewnol o'i ddilysrwydd 2
—— tystiolaeth allanol i'w wirionedd 4
Binwydden, Y............................... 197
Box, Y pren.................................. 198
Brenhines y Dehau ...................... 249

Cain ac Abel, ystyr eu henwau ...... 18
—— eu hoffrymau........................ 19
—— eu hymryson a'i ganlyniadau ... 20
Camel a'r dromedari .................... 211
Canaan, yr olwg arni o Pisgah........ 179
—— wedi ei meddianu gan yr Israeliaid........................................ 192
Carmel a'r ddadl rhwng Jehofah a Baal .......................................... 270
Cerfysgrif arwyddluniol yn arddangos cyflwyniad Jacob i Pharaoh......... 65
Coed Sittim, Y, neu Acacia............ 200
Creadigaeth y Byd ........................ 6
Crocodeil, Y, neu Lefiathan............ 213
Cwningen ..................................... 217
Cwymp dyn .................................. 14
Cyfrwysder y Temptiwr Mawr ...... 16
Cymhysgedd Ieithoedd .................. 35

## DANGHOSEG GYFFREDINOL.


TUDALEN

Dafydd, fel Bugail, Telynor, Buddugwr, Brenhin, Sant ..................... 233
Deml, Y, godwyd gan Solomon ...... 243
—— ysbeiliwyd gan Sisac ........... 253
Diluw, Y ................................ 26
Dinasoedd y Gwastadedd, safle dybiedig ........................................ 52
Dderwen, Y................................ 195

Eden, Darluniad o ...................... 10
—— Iaith ................................ 12
—— Colli.................................. 17
Efengyl, Goleuni yr, yn y prophwydoliaethau ................................ 259
El Ghor ac afon yr Iorddonen ........ 182
Eli a'i deulu ............................... 225
Elias y Thesbiad ..... ................... 263
—— ei addysgiad a'i ffydd............264-6
—— yn Sarephtah........................ 267
—— yn Carmel ........................... 270
—— yn Horeb ............................ 274
—— dyddiau diweddaf.................. 277
Eliazar, ei genhadaeth i Haran ...... 49
Eliseus a'i Amserau ..................... 288
—— ei alwad a'i Genadwri ........... 279
—— ei wyrthiau .......................... 289
—— ei ddidueddrwydd.................. 293
Enoch .................................... 25
Esaiah a'i Brophwydoliaethau ......... 312
Estrys, Yr ................................ 215
Eurafalwydden, neu Bren Afalau ... 205

Ffynnidwydden, Y......................... 197

Gedrwydden, Y .... ...................... 195
Gideon a'r Midianiaid ................. 221
Gigfran, Y ................................ 216
Gosen, ei Sefyllfa ........................ 64
Gwalch, Y ................................ 216

Hanesiaeth Naturiol Palestina... 197-217
Hebreaid, Yr, yn cael eu gwneyd yn genedl, eu darostwng i gaethwasanaeth .................. .................. 77

TUDALEN

Hebreaid, yn ymadael o'r Aipht ...... 108
—— eu nifer ar amser yr Exodus ... 109
—— eu rhaniad yn ddwy genedl...... 251
Hebreaidd, Cyfodiad y Frenhiniaeth. 229
Hinsawdd Palestina ..................... 181
Hirhoedledd y Cynddiluwiaid ......... 22
Horeb a Sinai ............................. 121

Iorddonen, Yr ........................182, 189
Isaac, Genedigaeth........................ 47
Israeliaid, Yr, yn yr Aipht ............ 71
—— Dirywiad yr ......................... 316
—— wedi eu cludo i Gaethiwed ...... 322

Jacob, Bywyd a Marwolaeth.........54, 71
—— a'i deulu yn ymfudo i'r Aipht... 63
—— yn cael ei gyflwyno i Pharaoh.. 65
—— ei fendithion a'r Llwythau .. ... 71
Jehoiada yr Offeiriad..................... 299
Jehosaphat, Teyrnasiad.................. 285
Jehu a'i sel ................................ 294
Jephthah y Gileadiad..................... 219
Jeroboam ................................... 251
Jerusalem, Lleddarluniad ............... 236
Jethro a Moses........................137, 139
Jezebel ................................ ..... 263
Joas ......................................... 297
Job a gwlad Us ........................... 39
Jonathan, Dewredd ..................... 231
Jonah ....................................... 300
Joseph, Bywyd digwyddfawr ......... 58
—— Brodyr, yn cael eu galw i'r Aipht ....................................... 61
Joshua a'i Fuddugoliaethau ......189, 194

Lot yn ymwahanu oddiwrth Abram 41
Llawnder a Newyn yn yr Aipht ...... 60
Llew. Y .................................... 206
Llewpard, Y .............................. 207

March, Y, yn Palestina.................. 209
Melchisedec ................................ 38

## DANGHOSEG GYFFREDINOL.


TUDALEN

Môr Marw, Darluniad o'r ............... 50
Morgrugyn, Y............................. 217
Moses, Cael hyd i ........... .......... 80
—— Prydferthwch .................... 81
—— Mabwysiad brenhinol ........... 83
—— Dewisiad............................. 84
—— Ffoedigaeth i Midian ........... 87
—— wedi ei alw i ymgymmeryd a gwaredu Israel.......................... 88
—— yn dychwelyd i'r Aipht ......... 91
—— mewn ymdrech gyda Pharaoh 92, 103
—— Marwolaeth, ar Nebo ............ 184
Myrtwydd, Y ............................ 199

Naaman, y gwahanglwyfus, Iachad a Throedigaeth .......................... 291
Newyn yn Nghanaan..................... 60
Nile, Anghenfilod ....................... 212
—— Dyffryn ............................. 67
Ninefeaidd, Cofnodion ................. 307
Noah a'i Hiliogaeth ..................... 29

Olewydden, Yr .......................... 204

Palestina, Pedwar Hinsawdd ......... 181
—— Hanesiaeth Naturiol......... 195, 217
Paradwys, Safle dybiedig .............. 10
Pasc, Sefydlu y .......................... 104
Patriarchiaid yr hen Fyd .............. 23
—— y byd Newydd .................... 36
Pisgah, Mynydd .......................... 179
Pläau yr Aipht .......................... 96
Priodas, Dechreuad ..................... 12
Prophwydi, Gwir a gau.................. 254
—— eu perthynas âg Hanesiaeth Hebreig.................................... 257

Rebecca .................................... 49
Rehoboam ................................. 251

Sabbath, Dechreuad y ................. 9
Samaria, Dechreuad ..................... 261
Samuel, Hanes ........................... 224

TUDALEN

Sarff bres, Y .............................. 176
Saul, y Brenhin Hebreig cyntaf ...... 229
Sem a'i Deulu ............................. 36
Seth ......................................... 24
Sinai a Horeb ....................... 121, 141
Soflieir ..................................... 162
Solomon, Genedigaeth, a'i ddyrchafiad i'r orsedd ................................ 239
—— ei weddi am Ddoethineb ......... 241
—— ei ysgoleigdod ..................... 241
—— ei fawredd a'i ogoniant ........ 247

Tabernacl, Y, a'i wersi .................. 151
TEITHIAU ISRAEL :—
Y Gorsafoedd cyntaf — Succoth, Pihahiroth, a Migdol ............... 109
Mynediad trwy y Môr Coch......... 112
Cân Buddugoliaeth.................... 116
Dyfroedd Marah..... ................. 125
Ffynhonau a Phalmwydd Elim ... 126
Cyflenwadau Gwyrthiol o Fanna a Soflieir .......................... 127, 162
Y Graig darawyd yn Rephidim ... 131
Rhagddarluniad o'r Efengyl ......... 133
Brwydr â'r Amaleciaid ............... 134
Joshua, Moses, Aaron, a Hur ...... 135
Ymweliad Jethro a Moses ......... 137
Cynghor doeth Jethro ............... 139
Rhoddiad y Ddeddf yn Sinai...142, 145
Y "Deg Gorchymyn" .............. 144
Y Deddfau Gwladol a Seremonïol . 147
Addoliad y Llo aur..................... 148
Y Tabernacl a'i wersi.................. 151
Ei wasanaeth, a Chysegriad yr Offeiriaid ................................ 157
Y mynediad o Sinai tua Chanaan . 164
Gwersyllu yn Cades-barnea ......... 165
Yr ysbiwyr a'u hadroddiad drwg.. 166
Tynged y bobl yn cael ei gyhoeddi 167
Crwydriadau adnewyddol 38 mlynedd .................................. 168
Gwrthryfel Corah a'i blaid ......... 168
Marwolaeth Aaron..................... 171

## DANGHOSEG GYFFREDINOL.


| | TUDALEN |
|---|---|
| Rhyfel a'r Amoriaid | 173 |
| Balaam a'r Moabiaid | 174 |
| Y Seirff Tanllyd | 176 |
| Y Sarff bres yn arwyddlun o Grist | 177 |
| Y mynediad trwy yr Iorddonen | 189 |
| Temptiad a Chwymp Dyn | 14 |
| Traddodiadau am y Diluw | 28 |
| Trawsfudiad eneidiau | 70 |
| Tŵr Babel | 32 |
| Tyrpant, Y | 196 |
| Unicorn, Yr | 215 |
| Uzziah, Cyssegr-anrhaith | 303 |
| Winwydden, Y | 203 |
| Ymsefydliad y Llwythau yn Nghanaan | 192 |
| Zophnath-paaneah, ystyr y gair | 60 |